# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 16 Medi 2021

**SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn gael ei ddarlledu'n fyw ar safle Facebook y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.**

**Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ai peidio.**

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor o bell trwy fideo-gynhedledda, ar Dydd Iau, 23 Medi 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**3. Materion Personol**

**4. Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

**5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17.06.2021 (Tudalennau 5 - 12)**

**6. Ystyried y cynnig canlynol a gyflwynwyd o dan Reol 10.1 Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor: (Tudalennau 13 - 14)**

Cynigydd: Cynghorydd Ifan Davies
Eilydd: Cynghorydd Ray Quant

Noda'r Cyngor:

Mae'r Grŵp Annibynnol yn gofyn i Gyngor Sir Ceredigion alw ar Lywodraeth Cymru ddeddfu fel y bydd:

1. Unrhyw gymhorthdal a geir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy unrhyw gynlluniau gan y llywodraeth ar gyfer rheoli carbon:
   a) Yn cael ei gadw fel credyd carbon er budd economi Cymru a'r bobl,
   b) a bod gan bob Sir enillion canrannol o unrhyw gredyd a gynhyrchir yn y Sir dan sylw y gellir eu gosod yn erbyn gwasanaethau cyhoeddus a nwyddau o'r Sir honno,
   c) a hefyd, na ellir symbylu unrhyw werthiant neu les trydydd parti ar gredyd carbon y tu allan i Gymru oni bai bod Cymru yn garbon niwtral a lle y mae credyd o 10% dros ben.

**7. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ar Ddatganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth (Tudalennau 15 - 50)**

**8. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ar Ddatganiad Caeredin (Tudalennau 51 - 56)**

**9. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar y Polisi a Gweithdrefnau Diwygiedig o ran Pryderon a Chwynion gan gynnwys adroddiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol (Tudalennau 57 - 100)**

**10. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) (Tudalennau 101 - 204)**

**11. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ar Ffosffadau ar Ardal Gadwraeth Afon Teifi (Tudalennau 205 - 208)**

**12. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ar newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor (Tudalennau 209 - 222)**

**13. Ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Adolygu cydnabyddiaeth ariannol swydd y Prif Weithredwr (Tudalennau 223 - 228)**

**14. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ar Enwebu cynrychiolydd o'r Cyngor Sir ar Gyngor Iechyd Cymunedol Hywel Dda (Tudalennau 229 - 232)**

**15. Ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2020/21 (Tudalennau 233 - 246)**

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor**

**Cofnodion Cyfarfod CYNGOR SIR CEREDIGION**
**a gynhaliwyd o bell drwy gynhadledd fideo**
**Dydd Iau, 17eg Mehefin, 2021**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Cynghorydd Gareth Davies, Cynghorydd John Adams-Lewis, Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Cynghorydd Bryan Davies, Cynghorydd Ceredig Davies, Cynghorydd Clive Davies, Cynghorydd Euros Davies, Cynghorydd Gethin Davies, Cynghorydd Ifan Davies (Is-Gadeirydd), Cynghorydd Marc Davies, Cynghorydd Meirion Davies, Cynghorydd Odwyn Davies, Cynghorydd Peter Davies, Cynghorydd Rhodri Davies, Cynghorydd Steve Davies, Cynghorydd Dafydd Edwards, Cynghorydd Endaf Edwards, Cynghorydd Elaine Evans, Cynghorydd Elizabeth Evans, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Rhodri Evans, Cynghorydd Catherine Hughes, Cynghorydd Matthew Woolfall Jones, Cynghorydd Maldwyn Lewis, Cynghorydd Gareth Lloyd, Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE, Cynghorydd Dai Mason, Cynghorydd Catrin Miles, Cynghorydd Dan Potter, Cynghorydd Ray Quant MBE, Cynghorydd Rowland Rees-Evans, Cynghorydd John Roberts, Cynghorydd Mark Strong, Cynghorydd Lynford Thomas, Cynghorydd Wyn Thomas, Cynghorydd Alun Williams a/ac Cynghorydd Ivor Williams

(10.00 am - 1.25 pm)

**Gweithdrefn**
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Paul Hinge, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

**1 Ymddiheuriadau**

a) Ymddiheurodd y Cynghorydd Alun Lloyd Jones am nad oedd modd iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill yn ymwneud â'r Cyngor;
b) Ymddiheurodd y Cynghorwyr Lloyd Edwards, Hag Harris a Gwyn James am nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod.
c) Ymddiheurodd Barry Rees am nad oedd modd iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill yn ymwneud â'r Cyngor.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

a) Datganodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Maldwyn Lewis, Dai Mason a Dan Potter fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chofnod 6 isod, a gadawsant y cyfarfod yn ystod yr eitem hon.

**3 Materion Personol**

a) Llongyfarchodd y Cynghorydd Paul Hinge Josh Hathaway, Iestyn Thomas a Ioan Lewis o Glwb Rygbi Aberystwyth a chwaraeodd i dîm rygbi dan 18 y Scarlets y diwrnod blaenorol;
b) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn dîm Pêl-droed Cymru ar ei berfformiad y noson flaenorol gan nodi bod Rhys Norrington-Davies o Dalybont yn aelod o'r garfan;
c) Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei llongyfarchion i Osian Jones, Ysgol Ciliau Parc, enillydd y gystadleuaeth dan 12 oed i greu siant bêl-droed newydd i gefnogi tîm pêl-droed Cymru;
d) Estynnodd Ellen ap Gwynn ei dymuniadau gorau i Kay Davies, Swyddog

Gwasanaethau Democrataidd ar ei hymddeoliad;

e) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn y Cynghorydd Alun Williams ar ei benodiad yn Faer Aberystwyth;
f) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn y Cynghorydd Catherine Hughes ar ei phenodiad yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Tregaron;
g) Llongyfarchodd Ellen ap Gwynn Meinir Mathias ar ennill ‘Gwobr y Bobl’ yr Academi Frenhinol Gymreig.
h) Estynnodd Rhodri Evans ei longyfarchion i Ann Jones ar gael ei hethol yn Gadeirydd Cenedlaethol Sefydliad y Merched.
i) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies ei ddymuniadau gorau i Rose Florence a ddathlodd ei phen-blwydd yn 103 oed yn ddiweddar;
j) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catherine Hughes yr Uned Ofalwyr ar drefnu Wythnos Ofalwyr lwyddiannus iawn.
k) Llongyfarchodd Catherine Hughes ddisgyblion Ceredigion ar y gwobrau a enillwyd yn yr Eisteddfod T hynod lwyddiannus a gynhaliwyd o Langrannog yn ddiweddar. Llongyfarchwyd yr Urdd hefyd am drefnu wythnos lwyddiannus o gystadlu.
l) Estynnodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd ei ddymuniadau gorau i’r cyn-Gynghorydd, Mr Huw Davies, am wasanaethu ar Gyngor Cymuned Beulah am 42 o flynyddoedd.

**4 Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

Rhoddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ddiweddariad ar lafar mewn perthynas â COVID-19 yng Ngheredigion.

Nododd fod yr amrywiolyn Delta yn achosi pryder yng Nghymru a ledled y DU a bod nifer yr achosion yn cynyddu. Cofnodwyd naw achos newydd yng Ngheredigion yn ystod yr wythnos ddiwethaf, sy’n gyfystyr â 12.4 i bob can mil. Mae’r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan yn cyfateb i 22.5 i bob can mil, ac mae’n annhebygol y bydd y cyfyngiadau’n llacio cyn Gorffennaf; atgoffodd bawb o’r angen i ddilyn y rheoliadau cyfredol. Nodwyd, fodd bynnag, nad yw nifer yr achosion wedi cynyddu’n sylweddol yng Ngheredigion wedi gwyliau’r hanner tymor, o’i gymharu ag ardaloedd eraill.

Mae’r rhaglen frechu’n parhau’n effeithiol, ac yng Ngheredigion mae 67% wedi cael y brechlyn cyntaf a 40.4% wedi cael yr ail frechlyn. Bellach mae pawb dros 18 oed wedi derbyn gwahoddiad i gael eu brechlyn ac o ran y sawl a oedd efallai wedi methu eu hapwyntiad gwreiddiol, mae cyfle o hyd iddynt fynd i gael eu brechu mewn sesiynau galw i mewn. Ar hyn o bryd, mae’r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn edrych ar y dystiolaeth sy’n ymwneud â sut i gymhwyso’r brechlyn i bobl ifanc o oed Ysgol Uwchradd, ond nid oes penderfyniad wedi’i wneud hyd yn hyn.

Nododd bod Disgyblion wedi derbyn eu graddau a bennir gan ganolfannau, yn dilyn yr asesiadau, ac y bydd disgyblion yn cael cyfle i apelio yn erbyn y graddau hyn yn yr wythnosau nesaf. Llongyfarchodd y disgyblion a diolchodd i’r staff gan nodi y byddai’r canlyniadau’n cael eu cyhoeddi, yn ôl yr arfer, yn ystod mis Awst.

Mae mwy o ymweliadau wedi bod â Chartrefi Gofal drwy'r podiau a thu allan a gobeithir y bydd ymweliadau y tu mewn i'r adeilad yn gallu dechrau cyn bo hir.

Bu'r Parthau Diogel yn llwyddiannus ar y cyfan yn ystod yr hyn a oedd yn hanner tymor prysur. Mae'r staff wedi gwrando ar y cyhoedd ac addaswyd y Parthau Diogel lle'n bosibl.

Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn para tan fis Medi, wedi cyfrannu at y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19, ac rydym wedi penodi staff ychwanegol yn Gynorthwywyr Ymwelwyr yn ein trefi. Mae grantiau busnes ar gael gan wasanaeth 'Busnes Cymru' yn ogystal â thrwy Gyngor Sir Ceredigion i'r busnesau hynny na fu'n bosibl iddynt ailagor.

Mae'r llyfrgelloedd wedi ailagor i'r cyhoedd drwy apwyntiad ac mae hi'n dal yn bosibl trefnu gwasanaeth clicio a chasglu.

Mae rhai o'n Canolfannau Hamdden gan gynnwys Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron wedi ailagor. Mae Gwasanaethau Hamdden ar gael yn ardal Aberystwyth yn Neuadd Chwaraeon Penglais tra bo gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud yng Nghanolfan Hamdden Plascrug. Mae gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud hefyd ym Mhwll Nofio Llanbedr Pont Steffan. Nodwyd bod pwll nofio Aberaeron ar agor hefyd ynghyd â Chanolfan Hamdden Llandysul.

Nodwyd hefyd y byddai cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch COVID-19.

5 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 14.05.2021**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 14eg Mai 2021 yn rhai cywir.

6 **Diweddariad ar y rhybudd o gynnig canlynol a gyflwynwyd ar 10 Rhagfyr 2020 yn unol â Rheol 10.1 o Reolau a Gweithdrefnau'r Cyngor**
*Cynigydd: Y Cynghorydd Mark Strong*
*Eilydd: Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn*
*Mae'r Cyngor yn nodi bod:*
*Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*
*1. ychwanegu cymal newydd i'r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol i wneud cais cynllunio cyn cael hawl i drosi tŷ annedd yn dŷ haf neu uned gwyliau.*
*2. addasu'r fframwaith polisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd o dai haf mewn unrhyw ardal.*
*3. ei gwneud yn orfodol i berchennog ail gartref ofyn am ganiatâd cynllunio cyn trosi ail gartref yn fusnes gwyliau neu AirBnB.*

Amlinellodd y Cynghorydd Mark Strong yr amgylchiadau a arweiniodd at y Rhybudd o Gynnig gan gadarnhau bod yr argymhelliad wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Pwyllgor Iaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar gystadleuaeth annheg a'r angen i bobl ifanc yn ein cymunedau allu prynu cartrefi.

Nododd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei bod yn bleser eilio'r Cynnig hwn a diolchodd i'r staff am yr adroddiad llawn ar y sefyllfa a gyflwynwyd i'r ddau Bwyllgor. Nododd bod y Pwyllgor Iaith yn gwbl gefnogol i'r Cynnig hwn.

Nododd y Cynghorydd Euros Davies bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus hefyd wedi pleidleisio o blaid yr argymhellion.

Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Edwards welliant i'r Cynnig, i gynnwys 'ar sail gymunedol' ar ddiwedd ail bwynt y cynnig ac i roi 'ac yn ôl-weithredol' ar ddiwedd trydydd pwynt y cynnig. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Rowland Rees-Evans. Yn dilyn trafodaeth, fodd bynnag, tynnodd y ddau y cynnig o welliant i'r Cynnig yn ôl.

Ystyriodd y Cyngor argymhelliad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus bod cynnydd o 100% yn cael ei godi ar Dreth Gyngor cartrefi gwyliau yn y sir.

Gofynnodd Ellen ap Gwynn i Swyddogion gyflwyno adroddiad ar y goblygiadau o bennu treth o 100% ar eiddo o'r fath, a gohirio trafodaeth lawn ar hyn tan bod yr adroddiad hwnnw'n cael ei dderbyn. Argymhellodd hefyd bod cronfa yn cael ei sefydlu i gynorthwyo pobl ifanc lleol i brynu cartrefi.

Nododd y Cynghorydd Ceredig Davies bod y Cyngor wedi cytuno o'r blaen y byddai unrhyw gyllid ychwanegol a dderbynnir drwy Bremiwn y Dreth Gyngor ar gartrefi gwyliau yn cael ei wario yn y cymunedau hynny, felly byddai angen i'r Cyngor ystyried unrhyw ddiwygiadau i'r polisi. Ni ddylai fod yn ôl-weithredol.

Nododd y Cynghorydd Gareth Davies y dylai cynllunio ddod yn gyntaf.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod yr ardoll yn parhau ac y dylai'r adroddiad hefyd ystyried dadansoddiad o rentu preifat yng Ngheredigion.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno'r Rhybudd o Gynnig fel y nodwyd:
2. nodi'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Pwyllgor Iaith; a
3. bod Swyddogion yn paratoi adroddiad i'w ystyried gan y Cyngor ynghylch argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus bod cynnydd o 100% yn cael ei godi ar dreth gyngor cartrefi gwyliau yn y Sir.

**7 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffaeth ar Bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2021/22**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad gan nodi bod Swyddogion wedi cynnal adolygiad pellach yn ddiweddar mewn perthynas â mabwysiadu'r Dull Oes Ased ar gyfer codi ar yr Isafswm Darpariaeth Refeniw.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3ydd Mehefin 2021, a chytunodd y Pwyllgor i gefnogi'r Polisi Diwygiedig arfaethedig yn amodol ar adolygiadau cyfnodol. Cytunodd Archwilio Cymru, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor, hefyd â'r diwygiad hwn.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2021/22 fel y'i cyflwynir yn Atodiad A yr adroddiad.

**8 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio ar Gynllun Gweithredu Carbwn Sero-Net**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ar gyfer Porth Cynnal a Chadeirydd y Grŵp Newid Hinsawdd a Rheoli Carbon yr adroddiad gan nodi bod y Cyngor, ar 20 Mehefin 2019, wedi ymrwymo i wneud Ceredigion yn Awdurdod Lleol carbon sero-net erbyn 2030 ac i ddatblygu cynllun clir ar gyfer llwybr tuag at fod yn sero-net o fewn 12 mis.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 26ain Mai 2021, a chan y Cabinet ar 15fed Mehefin 2021. Nodwyd bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r adroddiad yn amodol ar ddileu'r cyfeiriad y gallai'r Parthau Diogel gael eu gwneud yn barhaol, a chynnwys gorlifo afonol i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Nodwyd hefyd y byddai cynrychiolydd o'r Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y Grŵp Rheoli Carbon.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Sero-net a'r Camau Gweithredu a nodir ynddo.

**9 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu ar Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo**

Cyflwynodd y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad gan nodi bod gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd i'r cyhoedd i ddiogelu arian a ddylai gael ei ddefnyddio er budd y cyhoedd ac i fynd i'r afael â'r risgiau mewn perthynas â thwyll. I'r diben hwn, mae'r Cyngor wedi diweddaru ei strategaeth.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3ydd Mehefin 2021, a chadarnhaodd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eu bod wedi cael sicrwydd bod pob peth yn ei le a bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo cyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor i'w chymeradwyo'n derfynol.

Yn dilyn pleidlais yn eithriad **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Strategaeth ddiwygiedig y Cyngor ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Atal Gwyngalchu Arian).

**10 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu ar faint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Cyflwynodd y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd, yr adroddiad gan nodi bod Adran 116 'Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn mynnu bod yn rhaid i draean o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn Aelodau lleyg, ac y bydd y ddarpariaeth hon yn dod i rym ar 5ed Mai 2022.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24ain Chwefror 2021, a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21ain Mai 2021, a phenderfynwyd argymell i'r Cyngor y bydd y Pwyllgor yn y dyfodol yn cynnwys 3 aelod lleyg/annibynnol a 6 Chynghorydd Sir, a hynny o 6 Mai 2022.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** y bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, o 5ed Mai 2022, yn cynnwys:

- 6 x Aelod o'r Cyngor Sir
- 3 x aelod lleyg annibynnol

Cyfanswm: 9.

**11 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu ar recriwtio dau Aelod Annibynnol ac apwyntio Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau**

Cyflwynodd y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd, yr adroddiad gan amlinellu'r broses recriwtio, a gofynnodd i'r Cyngor gymeradwyo'r penodiadau.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Paul Hinge yr Aelodau lleyg newydd, a'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo penodiad yr aelodau annibynnol a ganlyn i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau:
   - Caryl Davies;
   - Alan Davies

   o 27ain Medi 2021 hyd at 26ain Medi 2027.
2. cymeradwyo'r enwebiadau a ganlyn:
   a) Caroline White: Cadeirydd (20fed Mai 2021 – 30ain Gorffennaf 2023)
   b) John Weston: Is-gadeirydd (20fed Mai 2021 – 30ain Gorffennaf 2023).

**12 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaetholr: Polisi, Perfformaid a Diogelu'r Cyhoedd parthed Cyfamod y Lluoedd Arfog**

Cadeiriwyd yr eitem a ganlyn gan y Cynghorydd Gareth Davies.

Cyflwynodd y Cynghorydd Paul Hinge, Aelod Eiriolwr ar gyfer y Lluoedd Arfog, yr adroddiad gan nodi bod y Cyngor wedi llofnodi'r 'Bartneriaeth Cyfamod Cymunedol' o'r blaen, yn 2013. Pwrpas y cynnig hwn yw gofyn i'r Cyngor ailddatgan ei ymrwymiad a bydd hefyd yn gweithredu i adnewyddu

ymrwymiadau'r Cyngor i fesurau mwy priodol, a'i gydnabod yn ffurfiol yn genedlaethol.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog ac yn coffáu'n gyhoeddus ym mis Medi/Hydref 2021 10fed Pen-blwydd y Cyfamod.

**13 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonnau 20/21**

Cyflwynodd Mr Hywel Wyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yr adroddiad gan nodi eu bod wedi ymdrin â nifer o geisiadau gan unigolion i gael eu hepgor o'r Cyngor a'r Cyngor Cymuned er mwyn iddynt gyfranogi mewn trafodaethau lle bo ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu. Nododd hefyd eu gwaith wrth hyrwyddo dealltwriaeth o'r safonau y mae angen cadw atynt mewn bywyd cyhoeddus.

Nododd hefyd ei fod yn falch na fu'n rhaid iddo adolygu unrhyw atgyfeiriadau gan yr Ombwdsman neu ystyried unrhyw dorri Cod Safonau yn ystod y 10 mlynedd y bu'n aelod o'r pwyllgor hwn, a llongyfarchodd y Cynghorwyr ar hyn.

Diolchodd i'r Swyddogion am eu gwaith a llongyfarchodd Caroline White ar ei phenodiad yn Gadeirydd a John Weston yn Is-gadeirydd.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD**:
1. nodi cynnwys yr adroddiad, ac
2. ystyried cynnwys yr Adroddiad Blynyddol gan Gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2020/21 (Atodiad A).

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Hywel Wyn Jones am ei amser ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau ac am ei gyfnod fel Cadeirydd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 23 Medi 2021**

**CADEIRYDD: ______________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Mae'r Grŵp Annibynnol yn gofyn i Gyngor Sir Ceredigion alw ar Lywodraeth Cymru ddeddfu fel y bydd:

1. Unrhyw gymhorthdal a geir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy unrhyw gynlluniau gan y llywodraeth ar gyfer rheoli carbon:

    a) Yn cael ei gadw fel credyd carbon er budd economi Cymru a'r bobl,

    b) a bod gan bob Sir enillion canrannol o unrhyw gredyd a gynhyrchir yn y Sir dan sylw y gellir eu gosod yn erbyn gwasanaethau cyhoeddus a nwyddau o'r Sir honno,

    c) a hefyd, na ellir symbylu unrhyw werthiant neu les trydydd parti ar gredyd carbon y tu allan i Gymru oni bai bod Cymru yn garbon niwtral a lle y mae credyd o 10% dros ben.

Cynigydd: Cynghorydd Ifan Davies    Eilydd: Cynghorydd Ray Quant

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **23ain Medi 2021** |
| **Teitl:** | **Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ceisio cymeradwyaeth o'r Datganiad 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' a chytuno ar y camau nesaf** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor** |

## 1. Cefndir

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn cymryd camau i hybu cydraddoldeb rhywiol ac amrywiaeth mewn democratiaeth leol a sicrhau bod y rhwystrau a'r heriau i ddenu cynghorwyr mwy amrywiol yn cael eu cymryd. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai'r rhwystrau a'r heriau oedd, yn fras:

- Ymrwymiad amser ac amseroedd cyfarfod;
- Diwylliant gwleidyddol a sefydliadol;
- Gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill;
- Beirniadaeth gyhoeddus a cham-drin ar-lein;
- Cydnabyddiaeth ariannol ac effaith ar gyflogaeth; a
- Diffyg modelau rolau amrywiol a bod yn ddeiliad y swydd.

Wrth i ni agosáu at yr Etholiadau Lleol sydd i'w cynnal ym mis Mai 2022, cytunodd Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn unfrydol y dylai'r holl Awdurdodau Lleol gytuno i Ddatganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth a rhoi ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth.

Mae yna lawer o bethau eisoes ar waith neu'n cael eu datblygu'n lleol neu'n genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:

*Yn lleol:*

- Canllaw i Ymgeiswyr ar gyfer darpar ymgeiswyr yn yr Etholiadau Lleol. Bydd hyn yn manylu ar rôl Cynghorydd, y gwahanol Bwyllgorau, y broses enwebu ac ati;
- Ymgysylltu â phobl ifanc 16 a 17 oed a gwladolion tramor i'w hannog i gofrestru i bleidleisio;
- Galluogi cyfarfodydd hybrid i gael eu cynnal a fydd yn rhoi hyblygrwydd i'r rheini;
- Darlledu cyfarfodydd neu alluogi pobl i ymuno â chyfarfodydd o bell fel y gallant weld y math o drafodaethau sy'n digwydd;
- Gwneud arolwg mewn perthynas ag amseriad cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a chyfarfodydd Pwyllgorau;
- Bod gan aelodau fynediad at wasanaeth Cwnsela'r Cyngor;
- Bydd rhaglen Gynefino Aelodau ar waith yn dilyn yr Etholiadau ym mis Mai.

Yn genedlaethol:

- Mae cynghorwyr yn cael cydnabyddiaeth ariannol am eu priod rolau (fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yr adlewyrchir yn Rhestr y Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau a gymeradwyir gan y Cyngor bob blwyddyn);
- Anogir cynghorwyr i hawlio am gyfraniadau tuag at gost gofal am gyflawni dyletswyddau a gymeradwywyd;
- Mae gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddarpariaeth sy'n galluogi dau gynghorydd neu ragor i rannu swydd weithredol (Aelod o'r Cabinet), gan gynnwys rôl Arweinydd yn ogystal â rolau fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd ac Is-gadeirydd unrhyw Bwyllgor;
- Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer absenoldeb teuluol ar gyfer absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadwr ac absenoldeb rhiant;
- Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn paratoi Canllaw i Gynghorwyr;
- Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn paratoi Disgrifiadau Rôl Aelodau;
- Bydd modiwlau e-ddysgu ar gael i Gynghorwyr yn dilyn yr etholiad.

**2. Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cymeradwyo ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol, ar gyfer 2020-24, *'Ceredigion Teg a Chyfartal.'*

Amcan Cydraddoldeb 3 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw: Ymgysylltu a Chyfranogi - sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.

Rhestrir y ddwy weithred ganlynol yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

3.4 Byddwn yn cefnogi'r rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau yn lleol, yn enwedig ar gyfer menywod, pobl anabl neu bobl o leiafrifoedd ethnig.

3.5 Byddwn yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc 16 ac 17 oed os yw'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru.

**3. Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth**

Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y Datganiad a ganlyn:

*Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Rydym yn cytuno i:*

- *Rhoi ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth mewn democratiaeth*
- *Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, gan hybu'r safonau uchaf o ymddygiad*
- *Ystyried amrywio amser cychwyn cyfarfod y cyngor a chytuno ar gyfnodau toriad i gefnogi cynghorwyr gydag ymrwymiadau eraill; a*
- *Nodi Cynllun Gweithredu o weithgaredd cyn etholiadau lleol 2022*

Felly, argymhellir bod Cyngor Sir Ceredigion yn cymeradwyo'r datganiad yn llawn fel y cytunwyd gan Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**4. Camau nesaf**

Os bydd y Cyngor yn cytuno i gymeradwyo'r Datganiad, cynigir y dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ar y cyd ag Arweinwyr y Grwpiau gyda'r nod o gytuno ar gynllun gweithredu wrth i ni agosáu at etholiadau lleol 2022.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** | |
| | ***Crynodeb:*** | |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Hirdymor:** | Nod y Datganiad Amrywiaeth yw sicrhau bod y Cyngor yn adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei chynrychioli yn well dros y blynyddoedd i ddod. |
| | **Integreiddio:** | Mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghyd â grwpiau gwleidyddol. |
| | **Cydweithio:** | Bydd Arweinwyr Grwpiau a Chynghorwyr presennol yn gweithio gyda'u priod grwpiau gwleidyddol i annog recriwtio ymgeiswyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. |
| | **Cynnwys:** | Bydd gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor a fydd yn rhoi gwybodaeth am rôl Cynghorydd, beth sydd ar gael iddynt i'w cefnogi yn y rôl ac ati. |
| | **Atal:** | Bydd gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor a fydd yn rhoi gwybodaeth am rôl Cynghorydd, beth sydd ar gael iddynt i'w cefnogi yn y rôl ac ati. |

**Argymhellion:**

**I'r Cyngor:**

**(i) cymeradwyo'r Datganiad Amrywiaeth fel y cytunwyd gan Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac fel y nodir ym mhwynt 2 yr adroddiad uchod;**

**(ii) cymeradwyo bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ar y cyd ag Arweinwyr y Grwpiau, yn cytuno ac yn cyflawni cynllun gweithredu sy'n arwain at etholiadau lleol 2022 gyda’r bwriad o wella amrywiaeth mewn democratiaeth.**

**Rheswm dros y penderfyniad:** **Ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol.**

**Trosolwg a Chraffu:** Ddim yn berthnasol

**Fframwaith Polisi:** Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24, Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion.

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Yn cyfrannu at bob un o'r Blaenoriaethau Corfforaethol:<br>• Hybu'r Economi<br>• Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl<br>• Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd<br>• Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Dim - o fewn cyllideb y gwasanaeth. |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim – o fewn adnoddau'r gwasanaeth. |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Dim. |
| **Risg(iau):** | Dim |
| **Pwerau Statudol:** | Ddim yn berthnasol |
| **Papurau Cefndir:** | • Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/22;<br>• Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 2021/22;<br>• Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;<br>• Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24, Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion. |
| **Atodiadau:** | Atodiad A – Adroddiad Cyngor Arbennig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Atodiad B – Llythyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at bob Cyngor |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Lowri Edwards<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd) |
| **Swyddog Adrodd:** | Lowri Edwards<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd) |
| **Dyddiad:** | 14eg Gorffennaf 2021 |

ATODIAD A

# CYNGOR ARBENNIG CLlLC

---

# GWEITHGOR CLlLC AR AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH LEOL

## Pwrpas

1. Adrodd ar y gwaith a wneir gan Weithgor Trawsbleidiol CLlLC ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth Leol a cheisio cymeradwyaeth y Cyngor i gynlluniau i gyflawni 'newid sylweddol' yn etholiadau lleol 2022.

## Crynodeb

2. Cytunodd Cyngor CLlLC ym Medi 2018 i gymryd camau er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac amrywiaeth mewn Cynghorau cyn etholiadau 2022. Gwnaethpwyd hynny fel cydnabyddiaeth o'r diffyg amrywiaeth yng Nghynghorau Cymru. Sefydlwyd gweithgor trawsbleidiol i archwilio tangynrychiolaeth ehangach mewn democratiaeth.

3. Erbyn hyn cydnabyddir yn eang bod cynrychiolaeth gyfartal nid yn unig yn fater degwch cynrychioliadol, ond yn hanfodol ar gyfer ansawdd y broses y ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau. Bydd penderfyniadau yn well pan fônt yn cael eu gwneud gan bobl sydd â phrofiad o fyw drwy broblemau penodol. Mae angen i'r 'unigolyn iawn ar gyfer y swydd' o fod yn gynghorydd fod yn aelod o'r gymuned maent yn ei gwasanaethu, a hynny er mwyn deall bywydau ac anghenion y gymuned honno yn iawn a chyson. Hefyd mae angen i gynghorau ddangos i gymunedau a dangynrychiolir eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys mewn democratiaeth leol.

4. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn ystod y ddegawd olaf yng Nghymru ar fesur a gwella amrywiaeth mewn cynghorau. Mae llawer o waith ar y gweill wrth baratoi ar gyfer etholiadau 2022. Mae yna ymgyrch gyfathrebu genedlaethol er mwyn annog pobl o grwpiau a dangynrychiolir i bleidleisio, ymgysylltu â democratiaeth leol ac i ymgeisio mewn etholiad. Mae rhaglenni mentora newydd yn cael eu cynnal gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru a Thîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru. Hefyd bydd Stonewall Cymru ac Anabledd Cymru yn cynnig rhaglenni mentora yn fuan. Mae Comisiwn Llywodraeth a Senedd Cymru yn gweithio gyda Chynghorau, ysgolion a chynghorau ieuenctid ac yn datblygu adnoddau er mwyn annog pobl ifanc 16 a 17 oed i gyfranogi ac i bleidleisio. Mae gan CLlLC wefan Bod yn Gynghorydd newydd, ac mae'n rhan o ymgyrch sifilrwydd mewn bywyd cyhoeddus ledled y DU, ac mae'n gweithio gyda Nghynghorau er mwyn parhau i wella ystod y cymorth a'r datblygu a ddarperir i aelodau.

5. Mewn etholiadau blaenorol mae cynghorau wedi gweithio'n galed i annog grwpiau a dangynrychiolir i sefyll gyda'u cynlluniau allgymorth a mentora a’u diwrnodau gwybodaeth eu hunain. Maent wedi gwneud llawer i wella'r cymorth a ddarperir i gynghorwyr presennol a rhoi iddynt ganllawiau, datblygiad ac amodau gwaith gwell.  Yn fwy diweddar rydym wedi cydweithio fel teulu o lywodraeth leol er mwyn cefnogi aelodau sydd yn dioddef camdriniaeth ac aflonyddu.

6. Canfu'r Gweithgor, ac mae ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol yn dangos na fydd y gweithgaredd cynhwysfawr yma yn ddigon i greu newid ar y cyflymder sydd ei angen.  Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu’r gweithgareddau ychwanegol allai wneud gwahaniaeth.

7. Mae yna dri phrif faes gweithredu:

   - Annog cynghorau i sicrhau bod yr holl gynghorwyr n derbyn eu hawl llawn i lwfansau a chyflogau, ac annog cyflwyno grantiau ymaddasu fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i’r rhai all ei fforddio.
   - Cytundeb gan gynghorau i wneud gwaith newydd neu ddatblygedig yn y maes yma, ac ymrwymo'n weledol i hynny drwy gytuno i fod yn Gynghorau Amrywiol.
   - Trafod swyddi a rhoi sylwadau i bleidiau gwleidyddol a gweithredu'n lleol er mwyn pennu cwotâu a/neu dargedau gwirfoddol ar gyfer ethol cynghorau o grwpiau a dangynrychiolir.

## Cefndir

8. Derbyniodd Cyngor CLlLC yr adroddiad yma gyntaf yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2020.  O ystyried arwyddocâd yr adroddiad a’r materion dan sylw, ac oherwydd yr agenda lawn yn y Cyngor fid Tachwedd, cytunodd yr aelodau i ohirio'r adroddiad ar gyfer cyfarfod diweddarach a phenodol yn gynnar yn 2021.

9. Yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2018, ymrwymodd Cyngor CLlLC i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol ac amrywiaeth mewn democratiaeth leol cyn etholiadau lleol 2022.

10. Cytunodd Cyngor CLlLC i sefydlu gweithgor trawsbleidiol er mwyn datblygu cynllun gweithredu ac nodi camau posibl i’w hystyried gan Gyngor CLlLC. Mae Rhestr Aelodau’r Grŵp yn Atodiad A. Nid oedd yr holl aelodau yn gallu mynychu pob cyfarfod, ond, bu i bawb gyfrannu at y gwaith drwy drafodaethau gyda swyddogion. Hefyd, mae Rhwydwaith Aelodau Cabinet Cydraddoldeb CLlLC wedi bwydo i waith y grŵp.

11. Ni fu i’r gweithgor gomisiynu ymchwil pellach na gwaith casglu tystiolaeth oherwydd bu nifer o adolygiadau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Bu i'r gweithgor ystyried argymhellion sydd wedi deillio o ymchwil a gynhaliwyd yn

2018-19 gan Rwydwaith Cydraddoldeb Merched, Chwarae Teg, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd, Llywodraeth Cymru yn cynnwys adolygiad o'i raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, Cymdeithas Fawcett, Cymdeithas Diwygio Etholiadol a'r Cyngor Prydeinig. Mae ymchwil ac adroddiadau pellach, yn cynnwys ymgysylltu ac ymchwil drwy adroddiad 'Gwneud y Peth Iawn' Cynghrair Hiliol Cymru (Ionawr 2021) a Chynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru[1], wedi hysbysu'r adroddiad hwn.

12. Cyfeiriwyd at y gronfa dystiolaeth, rhwystrau a heriau o ran denu cynghorwyd mwy amrywiol yng nghyflwyniad CLlLC i Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd i amrywiaeth mewn llywodraeth leol ym Medi 2018[2]. Yn fras, gellir crynhoi'r rhwystrau a'r heriau fel hyn:

- Ymrwymiad amser ac amseroedd cyfarfod;
- Diwylliant gwleidyddol a sefydliadol;
- Gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill;
- Beirniadaeth gyhoeddus a cham-drin ar-lein;
- Cydnabyddiaeth ac effaith ar gyflogaeth; a
- Diffyg modelau rôl amrywiol a chyfnod mewn swydd

13. Mae'r gweithgor hefyd wedi ystyried y ddeddfwriaeth a gynigir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac wedi ystyried safbwyntiau grwpiau amrywiol drwy gyfarfodydd bord gron Amrywiaeth mewn Democratiaeth o randdeiliaid, a alwyd gan y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol, ble cynrychiolwyd CLlLC yn flaenorol gan y Cynghorydd Debbie Wilcox, ac yna gan y Cynghorydd Mary Sherwood.

14. Bu i CLlLC gefnogi a chyfranogi mewn digwyddiadau amrywiaeth mewn democratiaeth rhanbarthol ar gyfer rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2019 oedd yn gofyn am safbwyntiau gan grwpiau a dangynrychiolir ledled Cymru.

15. Hefyd cyfranogodd uwch aelodau CLlLC a llywodraeth leol mewn trafodaeth bord gron 'Grym Cyfartal Llais cyfartal y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn Hydref 2020 oedd yn ceisio archwilio rhai o'r rhwystrau ynghylch amrywiaeth, yn cynnwys cwotâu.

## Mae cynnydd yn dal yn araf

16. Mae data yn dangos bod yna dal ddiffyg amrywiaeth yng nghynghorau Cymru. Yn awdurdodau lleol Cymru:

---

[1]Adroddiad ymchwil 'Gwneud y Peth Iawn' Cynghrair Hiliol Cymru ar gynrychiolaeth hiliol mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol (Ionawr 2021) - Papur ymchwil llawn (https://bit.ly/3qpU4Rm) Crynodeb gweithredol (https://bit.ly/3bPtfCk)

[2] https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&fileid=1852&mid=665

- Mae 28% o’r cynghorwyr a 29% o aelodau Cabinet yn ferched.
- Mae cynghorwyr yn ôl cyfran yn hŷn na’r boblogaeth gyffredinol o oedolion (roedd 47% o’r cynghorwyr yn 60 oed neu'n hŷn) ac roedd cyfran uwch o gynghorwyr wedi ymddeol (31%).
- Dim ond tua 1.8% o gynghorwyr sydd yn Ddu, Aseiniaid ac o Leiafrifoedd Ethnig (BAME) o'i gymharu â 4.7% o boblogaeth Cymru, a dim ond ychydig sydd yn dal uwch swyddi.
- Dywedodd 11% o’r cynghorwyd bod ganddynt anabledd, ac mae yna dal ystod o heriau sydd yn wynebu pobl anabl sydd yn cyfranogi yn y broses ddemocrataidd.

17. Ond mae peth cynnydd wedi digwydd, mae arweinyddiaeth llywodraeth leol Cymru yn fwy amrywiol nag erioed o'r blaen, er ein bod yn cydnabod nad yw'n adlewyrchu cymdeithas ehangach yn gyfan gwbl; mae 6 arweinydd yn ferched (wedi codi o 2 yn 2017) a 6 o ferched yn Ddirprwy Arweinwyr, ma chwarter yr arweinyddion o dan 45 oed ac mae 2 arweinydd a nifer o uwch gynghorwyr wedi bod ar ‘Restr Binc’ Pride Cymru yn ystod y blynyddoedd diweddar.

18. Mae mudiad Black Lives Matter a Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gweithgorau ar effaith COVID-19 ar bobl BAME, a dangoswyd y rhwystrau a'r heriau sydd yn wynebu cyfran sylweddol o'r gymdeithas, ac amlygwyd yr angen i wneud cynnydd gweledol o ran polisi, arweinyddiaeth a chynrychiolaeth wleidyddol yn benodol.

19. Dywedodd Adroddiad Is-grŵp Economaidd Gymdeithasol BAME Covid-19 Llywodraeth Cymru, a gadeiriwyd gan Yr Athro Emmanuel Ogbonna:

> “Y thema gyffredinol oedd yn rhedeg drwy'r ffactorau a drafodwyd yn yr adroddiad hwn yw effaith hiliaeth ac anfantais hirdymor a diffyg cynrychiolaeth BAME yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn creu gwell deilliannau economaidd gymdeithasol. Er bod nifer o’r materion a amlygwyd wedi cael eu nodi a’u trafod eisoes, ni aethpwyd i’r afael â hynny mewn unrhyw ffordd systematig a pharhaus. I ryw raddau mae pandemig coronafeirws yn datgelu canlyniadau’r diffyg gweithredu ar gydraddoldeb hiliol.”

20. Argymhellodd yr Is-grŵp Economaidd Gymdeithasol:

> “Dylai Llywodraeth Cymru annog cymunedau BAME i ymgysylltu’n wleidyddol drwy godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o sefydliadau a phrosesau democrataidd Cymru a’r DU, gyda'r nod cyffredinol o annog mwy o gynrychiolaeth wleidyddol o gymunedau BAME drwy hefyd annog cymunedau BAME i gofrestru fel pleidleiswyr.”

21. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol, fydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn ystod Gwanwyn 2021. Bydd y Cynllun yma yn amlinellu gweledigaeth, amcanion a chamau er mwyn troi

Cymru yn genedl wrth-hiliaeth, a bydd yn blaenoriaethu gwrth-hiliaeth a mwy o amrywiaeth o ran arweinyddiaeth a chynrychiolaeth.

22. Cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol, mae'r camau a'r cynigion yn yr adroddiad hwn wedi cael eu hysbysu gan ymgysylltiad a chyfranogiad CLlLC mewn grwpiau rhanddeiliaid a gweithgorau Llywodraeth Cymru a llifoedd gwaith eraill cysylltiedig â chydraddoldeb hiliol. Mae adroddiad 'Gwneud y Peth Iawn' Cynghrair Hiliol Cymru yn amlinellu ystod o rwystrau diwylliannol a sefydliadol ynghylch cyfranogiad pobl hilioledig (mae'n defnyddio'r term yma oherwydd dadleuir bod pobl BAME yn cael eu hilioli oherwydd eu hethnigrwydd) ac mae'n amlinellu nifer o gamau a argymhellir ac ymrwymiadau ar gyfer cyrff cyhoeddus.

23. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cynnal adolygiadau lleol neu'n cymryd camau mewn ymateb i'r materion a godwyd drwy waith Black Lives Matter a COVID-19 oedd yn adlewyrchu'r materion hynny. Mae arweinyddiaeth CLlLC wedi ymrwymo i adeiladu ar waith awdurdodau lleol a bydd CLlLC yn ymateb i'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol pan gaiff ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori.

24. Mae diffyg cynrychiolaeth amrywiol mewn awdurdodau lleol yn broblem sydd wedi cael ei chydnabod ers degawdau. Mae democratiaeth fwy amrywiol a chynrychiolwyr etholedig sydd yn adlewyrchu ac yn deall eu cymunedau yn well yn arwain at well ymgysylltu gydag unigolion a chymunedau, ac mae hynny yn ei dro yn arwain at lefelau uwch o hyder ac ymddiriedaeth a gwell penderfyniadau wedi eu hysbysu gan ystod ehangach o safbwyntiau a phrofiadau bywyd.

25. Gall penderfynwyr amlwg o grwpiau a dangynrychiolir fod yn fodelau rôl dylanwadol, sydd yn grymuso ac annog eraill i ddyheu i ddilyn yn ôl eu traed ac i gyfrannu at fywyd cyhoeddus. Yn yr un modd, gall arweinwyr gwleidyddol uwch mwy amrywiol sydd yn gynrychioliadol o weithlu sefydliad arwain at well ymgysylltu ymysg y gweithlu, ymddiriedaeth yn yr arweinwyr a diwylliant sefydliadol mwy hyderus.

## Amrywiaeth mewn Democratiaeth 2017

26. Mae awdurdodau lleol, CLlLC, Llywodraeth Cymru a pleidiau gwleidyddol wedi defnyddio amrywiaeth o gamau er mwyn annog mwy o amrywiaeth ymysg ymgeiswyr a chynghorwyr. Bu i CLlLC gefnogi'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru cyn etholiadau 2017.

27. Y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth oedd y rhaglen fwyaf o'i bath oedd ag adnoddau helaeth, ac fe'i cefnogwyd gan ystod o bartneriaid cenedlaethol yn cynnwys y prif bleidiau gwleidyddol. Roedd y rhaglen yn cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth a hyrwyddo, cynhyrchu llenyddiaeth a fideos ar-lein i ymgeiswyr, busnesau a mentoreion, gan weithio gyda chyflogwyr er mwyn eu hannog nhw i annog a chefnogi staff i fod yn gynghorwyr, a chyflwyno cynllun mentora ar gyfer pobl o grwpiau a dangynrychiolir.

28. Cynhyrchwyd amrywiaeth o ddeunyddiau ar-lein er mwyn darparu gwybodaeth i ymgeiswyr a chynghorwyr, yn cynnwys canllawiau Bod yn Gynghorydd CLlLC a Chanllawiau i Gynghorwyr a deunyddiau Amrywiaeth mewn Democratiaeth Llywodraeth Cymru oedd yn cynnwys taflenni penodol er mwyn annog busnesau i gefnogi staff i fod yn gynghorwyr.

29. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru gyfres o fideos ar-lein gyda chynghorwyr fel rhan o raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, a bu i nifer o gynghorau hefyd, yn cynnwys Gwynedd, Sir Fynwy a Phowys, gynhyrchu fideos rhagorol oedd yn egluro rôl cynghorwyr ac yn annod ymgeiswyr i sefyll.

30. Bu i nifer o gynghorau gynnal 'diwrnodau agored' cyn yr etholiadau, ac ystyrir yn eang bod rhaglenni mentora a chysgodi yn fuddiol, yn arbennig o ran cefnogi pobl o grwpiau a dangynrychiolir i gynnig eu hunain fel ymgeiswyr.

31. Roedd ymgyrch fentora yn brosiect canolog yn y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, a derbyniodd ymgeiswyr cymorth, cyngor a hyfforddiant helaeth, a mynediad at gynghorwyr presennol oedd yn gweithredu fel mentoriaid. O'r 51 o fentoreion a gyfranogodd, dim ond 16 a ymgeisiodd mewn etholiad a dim ond 4 a etholwyd. Ond, mae 'cyfradd drosi' o'r fath yn awgrymu y gallai rhaglenni mentora a chefnogi yn y dyfodol fod yn ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau os cânt eu darparu i bobl oedd eisoes wedi ymrwymo i sefyll fel ymgeiswyr.

## Amrywiaeth mewn Democratiaeth 2022

32. Cyfarfu'r gweithgor CLlLC trawsbleidiol dair gwaith er mwyn ystyried a datblygu argymhellion i'w hystyried gan Gyngor CLlLC. Mae'r gweithgor wedi adolygu'r dystiolaeth bresennol, wedi ystyried pa weithgareddau y gallai cynghorau a CLlLC eu cynnal er mwyn gwella amrywiaeth mewn democratiaeth a rôl Llywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol.

33. Hefyd galwodd y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol gyfarfod bord gron Amrywiaeth mewn Democratiaeth o randdeiliaid, a chafwyd dau gyfarfod. Yn ystod hydref 2019 trefnodd Llywodraeth Cymru 4 digwyddiad rhanddeiliaid rhanbarthol a bu i 95 o bobl eu mynychu, yn cynnwys cynghorwyr a swyddogion o gynghorau tref a chymuned ac awdurdodau unedol a'r trydydd sector yn cynnwys elusennau, sefydliadau cymorth i bobl anabl, BAME, pobl ifanc a sefydliadau crefyddol. Bu i swyddogion CLlLC hwyluso trafodaethau bord gron. Y negeseuon allweddol oedd:

- Roedd yna ddiffyg ymwybyddiaeth cyffredinol i rôl a chyfraniad cynghorwyr.
- Camdriniaeth ar gyfryngau cymdeithasol wedi ei gyfeirio at gynghorwyr yn gwaethygu. Mae'r gamdriniaeth i raddau helaeth, ond nid yn llwyr, wedi ei anelu at ferched, ac mae hynny yn effeithio'n uniongyrchol ar amrywiaeth yn y rôl. Roedd yna bryder cynyddol y gallai'r gamdriniaeth gael ei gyfeirio at aelodau teulu cynghorwyr, a thystiolaethwyd am hynny gan brofiadau rhai a fynychodd.

- Mae hyfforddiant a datblygu yn hanfodol, ond nid oedd pobl bob amser yn ymwybodol o beth sydd ar gael.

- Roedd neilltuo amser yn rhwystr i nifer o bobl, yn arbennig pobl gyda rhwymedigaethau teuluol neu swyddi.

- Roedd darparu help gyda chostau er mwyn cefnogi unigolion i sefyll mewn etholiad yn thema gyson, yn arbennig yn achos pobl anabl ac unigolion eraill o grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Hefyd ystyriwyd bod costau gofal plant yn rhwystr rhag ymgyrchu.

- Roedd yna ddryswch ynghylch a ddylid talu i gynghorwyr, faint dylid ei dalu, ac ar ba sail. Roedd yna brydero ynghylch y penderfyniadau a wnaethpwyd a sut yr effeithiwyd ar unigolion o ganlyniad i'r cydadweithio rhwng HMRC, y system fudd-daliadau a lefelau cydnabyddiaeth. Roedd nifer o'r mynycheion yn y gweithdai yn teimlo nad oedd y gydnabyddiaeth ar gyfer rôl y cynghorydd yn talu am y costau sydd yn gysylltiedig â'r rôl, yn arbennig mewn cynghorau tref a chymuned.

## Cynllun Gweithredu 2020-22

34. Deilliodd nifer o fesurau o'r ford gron Weinidogol a gweithgor CLlLC, sydd yn cael eu rhoi ar waith neu yn cael eu cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (mae gweithgaredd penodol CLlLC neu awdurdodau lleol wedi eu cynnwys mewn italig):

**Ymwybyddiaeth/Gwerth y Rôl**

35. Mae cynghorau a chynghorwyr wedi chwarae rôl gritigol, ganolog ac amlwg yn ystod pandemig COVID-19 yn ystod 2020. Mae cynghorau wedi dangos eu bod mewn sefyllfa unigryw wrth galon eu cymunedau a darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus, ac yn ddieithriad mae cynghorwyr wedi bod yn gyswllt cyntaf i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai sydd angen cymorth neu sicrwydd. Mae'r argyfwng wedi dangos gallu cynghorau i ymateb beth bynnag fo'u maint, ac mae hynny wedi cadarnhau pwysigrwydd is-gyrff a lleoliaeth, gydag aelodau etholedig wedi eu gwreiddio yn eu cymunedau lleol.

36. Mae ymgyrch gyfathrebu eang yn cael ei datblygu gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd. Byddwn yn dechrau gyda negeseuon ynghylch gwerth democratiaeth a phleidleisio, a hynny wedi ei anelu'n bennaf at rai sydd newydd gael eu hetholfreinio ar gyfer etholiadau'r Senedd 2021. Bydd hynny yn datblygu i ganolbwyntio ar werth cynghorwyr a'r cyfraniad a wneir ganddynt, ac annog cyfranogi mewn democratiaeth leol.

37. Yn gyfochrog â datblygu'r ymgyrch genedlaethol bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn nodi adegau/digwyddiadau allweddol yn ystod 2020 er mwyn hyrwyddo straeon cadarnhaol am gyfraniadau a chyflawniadau cynghorwyr.

38. *Cynghorau a CLlLC i ddatblygu ymgyrch gyson a chydlynol sydd yn dangos faint mae cynghorwyr yn cael eu gwerthfawrogi, eu datblygu a'u cefnogi.*

39. *Mae CLlLC wedi lansio gwefan Bod yn Gynghorydd* https://www.beacouncillor.wales/ fydd yn cael ei datblygu ymhellach yn 2021 gyda chip ar yrfaoedd a fideos astudiaeth achos 'diwrnod ym mywyd' cynghorwyr fydd yn cynnwys trawstoriad o nodweddion. *Bydd hefyd yn cynnwys modiwl dysgu ar e-bost i bobl sydd â diddordeb mewn sefyll, er mwyn eu galluogi i deall y rôl yn fanylach a "bwrw iddi yn syth" petaent yn cael eu hethol.*

40. *Gweithgaredd wedi ei gydlynu rhwng awdurdodau, yn cynnwys ymgyrchoedd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth a diwrnodau agored, wedi eu cysylltu â digwyddiadau allweddol megis Wythnos Ddemocratiaeth Leol, Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Mis Hanes Pobl Ddu, Diwrnod Ymwybyddiaeth o Anabledd, Mis Hanes LGBT etc.*

41. *Gwaith hyrwyddo CLlLC wedi ei dargedu drwy cynadleddau pleidiau gwleidyddol Cymru yn 2021.*

42. *Gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu gyda sefydliadau'r trydydd sector er mwyn annog trafodaeth a diddordeb ymysg gwirfoddolwyr i droi eu rôl gymunedol anffurfiol i fod yn rôl gymunedol etholedig. Mae pandemig COVID-19 wedi cynyddu lefelau gwirfoddoli a gwaith cymunedol. Bydd CLlLC yn ymgysylltu ag unigolion a grwpiau fydd nawr efallai yn dymuno parhau â'r gwaith yma drwy sefyll mewn etholiad.*

**Cam-drin Ymgeiswyr/Cynghorwyr**

43. Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn hwyluso newid o ran y gofyniad i ddefnyddio cyfeiriadau personol ar bapurau pleidleisio. Bydd y Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol y hytrach na phersonol cynghorwyr.

44. *Mae CLlLC, mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ymwneud â datblygu ymgyrch Sifilrwydd mewn Bywyd Cyhoeddus er mwyn hyrwyddo parch i bawb a hyrwyddo safon ymddygiad uchel. Mae CLlLC, gan weithio mewn partneriaeth â LGA, wedi cynhyrchu canllawiau ar-lein i Gynghorwyr ar gyfer delio â bygythiadau https://www.local.gov.uk/councillors-guide-handling-intimidation .*

45. *Mae'r CLlLC yn gweithio gydag awdurdodau er mwyn annog dyletswydd gofal anffurfiol ond cynhwysfawr ar gyfer aelodau.*

46. *Mae CLlLC hefyd yn cysylltu â chynghorwyr unigol sydd yn dioddef camdriniaeth ar-lein, ac yn darparu cyngor a chefnogaeth iddynt, a phan yn briodol, yn cyhoeddi negeseuon cefnogol sydd yn herio camdriniaeth ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol.*

**Hyfforddi a Datblygu**

47. *Bydd CLlLC, gydag awdurdodau, yn parhau i adolygu darpariaeth hyfforddiant bresennol ac i'r dyfodol. Bydd hynny yn cynnwys ffocws ar ffyrdd newydd o darparu cymorth a datblygu ar ôl COVID 19.*

48. *Bydd gwaith yn cael ei wneud i nodi ffyrdd y gall cyn gynghorwyr ddefnyddio eu profiad a'u sgiliau i wella eu CV neu i barhau i ddefnyddio eu sgiliau a'u profiad drwy gyfranogi at fecanweithiau hyfforddi / cefnogi.*

49. *Mae'r "cwricwlwm" Cenedlaethol ar gyfer anwytho aelodau yn cael ei ddatblygu. Mae cynghorau wedi cytuno ar y trosolwg hwn o beth fyddai'n fuddiol i aelodau ei ddysgu, ac mae'n cynnwys pynciau yr ystyrir sydd yn rhai mandadol. Yn ogystal â phynciau traddodiadol megis Moeseg a Safonau, Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a sgiliau Craffu, bydd hyn nawr yn cynnwys tuedd  ddiarwybod, diogelwch personol a sgiliau gweithio o bell.*

50. *Bydd Canllawiau i Gynghorwyr newydd ar-lein yn cael eu datblygu i Gynghorwyr ar gyfer etholiadau 2022.*

51. *Bydd y modiwlau e-ddysgu Cenedlaethol sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer aelodau, ac sydd ar gael am ddim drwy wefan  learning@wales y GIG yn cael eu diweddaru ar gyfer etholiadau 2022. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan awdurdodau sydd yn gweithio gyda CLlLC, ac mae'n arbennig o bwysig o ganlyniad i'r newidiadau i arferion gwaith a dysgu o ganlyniad i'r Pandemig.*

52. *Mae'r fframwaith Cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer aelodau etholedig nawr yn cael ei ddatblygu cyn etholiadau 2022 er mwyn cynnwys gofynion newydd megis deall tuedd ddiarwybod, sifilrwydd, mynychu cyfarfodydd o bell a sgiliau TGCh.*

53. *Mae cynghorau yn adolygu datblygiad personol aelodau er mwyn personoli cymorth hyfforddiant. Mae CLlLC yn cynnig canllawiau a hyfforddiant ynghylch cynnal PDR.*

54. *Mae'r rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer aelodau etholedig a ddatblygwyd ac a ddarparwyd gan LGA ac Academi Cymru yn cael ei hail-gomisiynu a'i hadnewyddu. Mae yna heriau yn gysylltiedig â darparu'r rhaglen yn yr hinsawdd sydd ohoni, a byddir yn mynd i'r afael â hynny fel rhan o'r comisiwn.*

**Mentora**

55. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau anabledd a chydraddoldeb megis Tîm Cymorth i Leiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru, Anabledd Cymru a Stonewall Cymru er mwyn cwmpasu'r gofyniad am gynllun mentora Cymru gyfan sydd yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae nifer o gynlluniau mentora eisoes wedi cael eu trefnu gan amrywiaeth o sefydliadau'r trydydd sector, a bydd y rhain yn cael eu alinio a'u cydlynu, a bydd adnoddau a gwersi yn cael eu rhannu.

56. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar archwilio gwaith cysgodi/prentisiaethau a chyfleoedd eraill i ddod ag unigolion i gysylltiad â gwaith cynghorau, ac at ei gilydd bydd hynny yn cynnig llwybr i gyfranogi.

*57. Mae CLlLC wedi hyrwyddo ac yn cefnogi cynlluniau mentora gaiff eu cynnal gan EYST a Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru. Mae nifer o gynghorwyr wedi cyfranogi fel mentoriaid ar y rhaglenni hyn.*

*58. Cynigir mentoriaid i aelodau etholedig newydd pan fyddant yn ymuno â'r cyngor (mae CLlLC yn darparu canllawiau a hyfforddiant i fentoriaid aelodau).*

*59. Mae yna gyfleoedd i gynghorau/cynghorwyr unigol ddarparu cyfleoedd cysgodi a mentora i bobl sydd â diddordeb mewn sefyll etholiad cyn etholiadau lleol 2022.*

**Hyblygrwydd**

60. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau er mwyn cefnogi ffyrdd hyblyg o weithio, yn cynnwys gwneud darpariaethau ar gyfer rhannu swyddi ac atgyfnerthu'r trefniadau mynychu o bell.

61. Erbyn hyn mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion CLlLC ac All er mwyn ystyried sut y gallai'r ddeddfwriaeth a'r trefniadau a wnaed ar gyfer cynnal cyfarfodydd o bell gael eu hymestyn er mwyn gwella hyblygrwydd a mynediad i ystod ehangach o gynghorwyr.

*62. Mae'r ffaith bod cynghorau wedi mabwysiadu cyfarfodydd rhithiol yn gyflym drwy blatfformau megis Teams, Webex a Zoom yn ystod COVID-19 wedi trawsnewid y ffordd mae cynghorau yn cynnal eu busnes. Erbyn hyn mae cyfarfodydd yn fwy hygyrch i nifer o aelodau, mae rhwymedigaethau teithio ac amser wedi lleihau yn sylweddol, ac mae hynny yn caniatáu i aelodau fynychu cyfarfodydd o'r gwaith ac, yn bennaf, o'r cartref. Er bod yna effeithiau posibl ar gydbwysedd 'bywyd-gwaith' a phennu ffiniau rhwng gwaith y cyngor a bywyd y cartref, mae'r dull yma wedi darparu mwy o hyblygrwydd i aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae cyfarfodydd rhithiol hefyd wedi annog dull llai ffurfiol a mwy hyblyg o gynnal cyfarfodydd. Mae Cynghorau wedi ymgeisio am arian LlC er mwyn hwyluso ymgysylltu digidol drwy'r Gronfa Democratiaeth Ddigidol.*

*63. Mae LGA wedi cynhyrchu adnodd er mwyn galluogi merched, rhieni a gofalwyr i fod yn gynghorwyr, ac mae ganddo ystod o syniadau ellid eu mabwysiadu gan gynghorau, yn cynnwys ffordd o asesu cymorth cynghorau i gynghorwyr amrywiol. https://www.local.gov.uk/twenty-first-century-councils*

**Cefnogi unigolion â nodweddion gwarchodedig**

64. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cronfa Mynediad i Swydd Etholedig er mwyn cynorthwyo i bobl anabl sefyll etholiad yng Nghymru n etholiadau Seneddol 2021 a lleol 2022.·

65. Yn diweddar ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y cynnig yma ac roedd CLlLC a nifer o awdurdodau yn gefnogol. Hefyd, awgrymodd y gweithgor y gelid defnyddio gwersi'r fenter hon i hysbysu unrhyw gronfeydd mynediad yn y dyfodol, megis ar gyfer gofal plant i ymgeiswyr.

**Addysg**

66. Mae Comisiwn Llywodraeth Cymru a'r Senedd wedi datblygu set o adnoddau addysgol i ategu ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 i 17 oed yng Nghymru, a bydd hynny yn canolbwyntio ar wybodaeth a chyfranogiad mewn democratiaeth yng Nghymru. Mae hyn ar gael am ddim i ysgolion a sefydliadau addysg eraill drwy adnodd ar-lein Hwb.

67. Mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn canfod ffyrdd y gall ysgolion yng Nghymru ddefnyddio'r cwricwlwm newydd i amlygu a hyrwyddo cyfranogiad ac ymgysylltu gyda democratiaeth leol.

*68.* Bydd cynghorau yn parhau i ymgysylltu ag ysgolion, yn cynnwys cysylltiadau â chynghorau ysgol a Cynghorau Ieuenctid.

*69. Mae Cynghorau hefyd yn defnyddio'r Grant Cymorth Diwygio Etholiadol er mwyn ymgysylltu â grwpiau sydd newydd gael eu hetholfreinio er mwyn eu helpu i deall y broses ddemocrataidd a'u hannog i gofrestru a phleidleisio.*

**Cydnabyddiaethau**

70. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Arweinwyr CLlLC, mae'r Panel Cydnabyddiaethau Annibynnol yn nodi'r materion allweddol mewn perthynas â threthiant a budd-daliadau sydd yn gymwys i aelodau a bydd yn paratoi papur i Lywodraeth Cymru.

71. Mae'r Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol wedi cyfeirio at fater treth gyda Phanel Cydnabyddiaethau Annibynnol Cymru er mwyn archwilio atebion posibl.

72. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio, gyda Phanel Cydnabyddiaethau Annibynnol Cymru, yr achos ynghylch taliadau i gynghorwyr sydd yn colli eu seddi mewn etholiad ac i gyflwyno opsiynau i Weinidogion. Mae hwn yn fater sydd wedi cael ei godi fel pryder gan arweinwyr, oherwydd bod cynghorwyr (ac yn arbennig uwch gynghorwyr llawn amser) yn wynebu risg ariannol bersonol sylweddol os byddant yn colli eu seddi.

## Gwneud Newid Sylweddol yn 2022

73. Mae'r rhaglen waith arfaethedig uchod yn amlinellu ystod o weithgareddau codi ymwybyddiaeth, ymgysylltu a chefnogi. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau cyffelyb yn ystod rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth cyn etholiadau 2017.

74. Ond, er gwneud peth cynnydd, roedd y gwelliant yn fychan yn ystod etholiadau 2017:

- Bu cynnydd o 5.6% yn nifer yr ymgeiswyr (3,463 o ymgeiswyr o'i gymharu â 3,279 yn 2012 (yn cynnwys ymgeiswyr Ynys Môn yn 2013).
- Roedd 29% o'r holl ymgeiswyr yn ferched (cynnydd o 1% ers 2012).
- Roedd 28% o'r cynghorwyr a etholwyd yn ferched (cynnydd o 2% ers 2012).
- Roedd 32% o'r aelodau etholedig newydd yn ferched.

75. Roedd y seddi diymgeisydd yn etholiadau 2017 yn dal yn uchel, sef 92 (7%) o seddi diymgeisydd. Roedd hyn yn is nag yn 2012, pan gafwyd 99 (8%) o seddi diymgeisydd, ond mae hyn yn dal i danseilio democratiaeth leol.

76. O'i gymharu â rhaglen 2017, byd Amrywiaeth mewn Democratiaeth 2022 yn cynnwys camau mireinio a gweithgareddau wedi ei dargedu'n fwy yn seiliedig ar werthusiadau a gwersi a dysgwyd, ynghyd â pheth gwaith newydd ychwanegol megis ymgyrch Sifilrwydd mewn Bywyd Cyhoeddus.

77. **Mae gweithgor CLlLC wedi siapio'r rhaglen weithgareddau a amlinellir, ac yn gefnogol iddi, ond daeth i'r casgliad na fydd yn rhaglen ar ei phen ei hun yn debygol o arwain at welliannau arwyddocaol, yn arbennig heb arweiniad clir, ymrwymiad a chamau cydlynol gan y prif bleidiau gwleidyddol.**

78. **Mae'r gweithgor wedi ystyried nifer o gynigion arwyddocaol eraill allai effeithio'n fwy cadarnhaol ar amrywiaeth a nifer yr ymgeiswyr yn 2022.**

79. **Felly ceisir safbwyntiau'r Cyngor ar y camau ychwanegol canlynol.**

**Rôl Pleidiau Gwleidyddol**

80. Mae'r gweithgor wedi cydnabod bod cynghorwyr annibynnol yn nodwedd allweddol o lywodraeth leol yng Nghymru. Mae hefyd wedi cydnabod mai pleidiau gwleidyddol oedd yn darparu'r mwyafrif o ymgeiswyr mewn etholiadau lleol, a'u bod felly yn chwarae rôl allweddol a bid ganddynt cyfrifoldeb sylweddol o ran annog ystod mwy amrywiol o ymgeiswyr.

81. Nododd y gweithgor bod gan bleidiau gwleidyddol wahanol bolisïau a safbwyntiau ynghylch cyflwyno cwotâu, rhestr fer o ferched yn unig, dewis ymgeiswyr amrywiol mewn seddi y gellir eu hennill neu fentrau camau cadarnhaol eraill.

82. Ond mae yna amrywiaeth o fentrau arferion da y gallai pleidiau gwleidyddol eu gweithredu er mwyn annog a chefnogi ymgeiswyr mwy amrywiol yn lleol a chenedlaethol:

- Adolygu meini prawf dethol y pleidiau e.e. Lleihau cyfnod aelodaeth cyn y gall aelodau sefyll etholiad.

- Gall pleidiau lleol sefydlu ffora a chynnal digwyddiadau/sesiynau cymdeithasol/hyfforddi ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir. Helpu'r grwpiau yma deall beth yw rôl cynghorydd, bod angen eu cyfranogiad a sut mae sefyll, a'r cymorth fydd ar gael ar ôl cael eu hethol.

- Gallai pleidiau sefydlu 'Grantiau Amrywiaeth' er mwyn cefnogi pobl o grwpiau a dangynrychiolir (a fydd yn elwa o gronfa Mynediad i swydd etholedig) i sefyll.

- Gellir cynnig cynghorwyr presennol o grwpiau a dangynrychiolir ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus ar baneli, fel siaradwyr neu gadeiryddion er mwyn codi proffil aelodau o grwpiau a dangynrychiolir a'u galluogi i fod yn fodelau rôl yn eu cymunedau.

- Canfod talent ac ymgysylltu â chymunedau sydd yn gweithio gydag arweinwyr cymunedol o grwpiau a dangynrychiolir, gan annog pobl i gysgogi, cael eu mentora a sefyll etholiad.

- Hyrwyddo a chyfeirio at wybodaeth a deunyddiau, megis y rhai sydd ar gael drwy bleidiau neu gyrff cyhoeddus megis CLlLC.

- Sefydlu protocolau parchu ar gyfer ymddygiad yn y Grŵp sydd yn adlewyrchu yr hyn sydd yn ofynnol mewn cynghorau ac ar gyfer y Cod Ymddygiad, gyda sancsiynau i bobl nad ydynt yn bodloni'r safonau neu dderbyn hyfforddiant cysylltiedig â hynny.

- Annog pleidiau gwleidyddol a grwpiau lleol, yn cynnwys swyddogion sydd â chyfrifoldeb yn y broses ddethol i dderbyn hyfforddiant mewn tuedd ddiarwybod.

- Annog pleidiau gwleidyddol i ddarparu hyfforddiant cysgodi i ymgeiswyr ac aelodau pleidiau, er mwyn deall sut mae darparu cymorth i ymgeiswyr amrywiol a herio unrhyw gamdriniaeth, megis troseddau casineb ar sail anabledd neu hiliaeth, allai fod yn digwydd ar stepen drws (roedd hwn yn gynnig a ddeilliodd o ddigwyddiad bord gron y Gymdeithas Diwygio Etholiadol ym mis Hydref 2020),

83. **Argymhellir bod CLlLC yn cytuno i annog yr holl bleidiau gwleidyddol, drwy Grwpiau Gwleidyddol CLlLC, i ymrwymo i weithgareddau rhagweithiol a chydlynol megis y rhai a restrir ym mharagraff 80 uchod er mwyn gwella amrywiaeth mewn democratiaeth llywodraeth leol.**

**Grantiau adsefydlu neu 'daliadau parasiwt'**

84. Cynghorwyr yw un o'r rolau cyhoeddus cyflogedig nad oes iddi warchodaeth ariannol, ac nid oes ganddynt hawl derbyn tâl 'dileu swydd' os byddant yn colli eu sedd mewn etholiad. Mae Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol yn derbyn

grantiau adsefydlu sylweddol os byddant yn colli eu sedd mewn etholiad. Mae taliadau dileu swydd hefyd yn hawl gwarchodedig ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus.

85. Yn benodol, mae uwch gynghorwyr yn tueddu i fod yn rhai llawn amser, yn aml yn gorfod rhoi'r gorau i yrfaoedd er mwyn canolbwyntio ar eu rôl fel cynghorwyr, ac mae gan nifer deuluoedd yn ogystal â rhwymedigaethau ariannol eraill; mae'r risg personol o golli cyflog sylweddol mwyaf sydyn yn anghyson ac yn annheg o'i gymharu â rolau cyhoeddus eraill. Mae hynny hefyd yn ddatgymhelliad i bobl mwy amrywiol sydd â gyrfaoedd neu gyfrifoldebau teuluol rhag ystyried ymgymryd â'r rolau uwch mewn llywodraeth leol.

86. Mae'r Panel Cydnabyddiaethau Annibynnol wedi ymrwymo i ystyried y mater hwn ac archwilio a fyddai angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno unrhyw diwygiad deddfwriaethol er mwyn grymuso'r Panel i gyflwyno unrhyw daliadau o'r fath yn y dyfodol.

87. Mae 'cost gwleidyddiaeth' y chydnabyddiaethau cynghorwyr yn fater dadleuol ac yn destun craffu sylweddol ar y cyfryngau a gan y cyhoedd ac yn destun pwysau gwleidyddol. Felly byddai raid i unrhyw gynigion gydbwyso tegwch, cydraddoldeb a chostau a derbynioldeb cyhoeddus yn ofalus.

88. Mae arweinyddion CLlLC eisoes wedi codi'r mater gyda'r Panel Cydnabyddiaethau Annibynnol, ond nid oes gan CLlLC safbwynt ffurfiol ar grantiau adsefydlu ar gyfer deiliad cyflogau uwch.

89. **Argymhellir bod Cyngor CLlLC yn mabwysiadu safbwynt ffurfiol sydd yn galw am gyflwyno grantiau adsefydlu i ddeiliaid cyflogau uwch.**

**Lwfansau a threuliau cynghorwyr**

90. Mae'r Panel Cydnabyddiaethau Annibynnol a rhai Arweinwyr CLlLC eisoes wedi mynegi pryder nad yw nifer o aelodau sydd â hawl i dderbyn costau penodol, megis lwfansau teithio, neu ad-dalu costau gofal, yn hawlio hynny. Hefyd mae nifer o gynghorwyr yn penderfynu ildio rhannau o'u cyflogau; yn ddiweddar ysgrifennodd y Panel Cydnabyddiaethau Annibynnol i CLlLC yn dweud "...ei bod yn hawl i'r unigolyn benderfynu y gall dderbyn swm llai na'r hyn a ragnodir cyn belled nad oes unrhyw bwysau yn cael ei roi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol", gan nodi pryder fodd bynnag bod 12% o gynghorwyr wedi penderfynu ildio codiadau cyflog y flwyddyn ddiwethaf. Mae yna bryderon bod hynny yn deillio o'r cynni ariannol, canfyddiadau'r cyhoedd a'r cyfryngau, ond yn anecdotaidd mae'n amlwg hefyd bod yna bwysau gan gymheiriaid lleol neu grwpiau gwleidyddol neu normau diwylliannol sefydliadol.

91. Mae'r lwfansau yma yn cael eu darparu er mwyn talu am gostau dilys cynghorwyr a ysgwyddir wrth gyflawni eu dyletswyddau a chwarae rôl o ran annog mwy o amrywiaeth; gellir effeithio'n anghymesur ar rai cynghorwyr os ydynt yn incwm isel neu os oes ganddynt gyfrifoldebau gofal. Mae'r Panel Cydnabyddiaethau

Annibynnol a nifer o arweinwyr wedi mynegi pryder ynghylch ry arferiad yma oherwydd gallai achosi anfantais i aelodau nad ydynt yn gallu fforddio ildio treuliau ac mae'n ddatgymhelliant rhag sefyll/ail-sefyll.

*92.* Fel y nodir uchod, mae 'cost gwleidyddiaeth' a chydnabyddiaethau cynghorwyr yn destun craffu sylweddol gan y cyfryngau a'r cyhoedd.

*93.* **Argymhellir bod Cyngor CLlLC yn cytuno i annog pob cynghorydd i hawlio unrhyw lwfansau angenrheidiol neu dreuliau a ysgwyddwyd.**

**Cynghorau Amrywiol**

94. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud Cymru yn Gymru o Rywiau Cydradd ac i'r Cabinet fod yn Llywodraeth Ffeministaidd, sef llywodraeth sydd yn:

- Rhwymedig i gydraddoldeb deilliant i bob merch, dyn a phobl anneuaidd ac sydd yn myd ati i weithio i ysgogi newid diwylliannol a strwythurol
- Gweithio'n rhagweithiol er mwyn harwyddo cydraddoldeb a dileu rhwystrau i ferched gyfranogi yn yr economi, a bywyd cyhoeddus a chymdeithasol
- Gosod persbectif rhywiau wrth galon y broses benderfynu a dyrannu adnoddau a chyllid
- Defnyddio dull rhyngblethu mewn perthynas â'i holl waith a sicrhau amrywiaeth o ran cynrychiolaeth, cyfranogiad a llais
- Canolbwyntio ar bobl ac yn gydweithredol, gan sicrhau bod yr holl gymunedau yn ymgysylltu'n ystyrlon â'i waith
- Agored, tryloyw ac atebol ac yn croesawu craffu drwy lens rhywedd
- Defnyddio datblygu polisi ac adnoddau dadansoddi i ymgorffori cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ei holl waith a monitro cynnydd tuag at gydraddoldeb drwy ddefnyddio cronfa dystiolaeth gydnerth
- Arwain drwy esiampl a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i weithredu er mwyn sicrhau cydraddoldeb.

95. Mae mudiad Black Lives Matter wedi amlygu pryderon byd-eang ynghylch hiliaeth ac mae pandemig COVID-19 wedi datgelu effeithiau anghydraddoldeb ar iechyd ac yn economaidd gymdeithasol. Mae cynrychiolaeth gynyddol o bobl BAME ar gynghorau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl BAME yn cael eu cynrychioli ac yn cyfrannu eu profiadau bywyd i'r broses benderfynu.

96. Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol Cynghorau yn amlinellu amcanion sydd yn dangos eu hymrwymiadau a'u camau cynlluniedig er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn cynnwys fel cyflogwyr a chyrff cynrychioliadol. Bydd nifer o gynghorau hefyd yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau er mwyn

hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth cyn etholiadau lleol 2022, fel yr amlinellir hynny uchod.

97. Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno dyletswydd 'cyfranogiad cyhoeddus' ar awdurdodau lleol fydd yn cynnwys annog pobl i gyfranogi yn y broses benderfynu a hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut mae dod yn aelod o'r cyngor. Mae mwy o fanylion ar agweddau o Ddeddf 2021 sydd yn cyfrannu at amrywiaeth ar gael yn Atodiad C.

98. Yn aml mae amseroedd cyfarfod y cynghorau yn cael ei amlygu fel problem i nifer o gynghorwyr, ac ar brydiau fel datgymhelliad i rai pobl sefyll. Mae cynghorau yn adolygu eu amseroedd cyfarfod o leiaf un waith y tymor ac mae nifer yn caniatáu i bwyllgorau gael mwy o hyblygrwydd er mwyn siwtio aelodau'r pwyllgor.

99. Ond mae gan gynghorwyr gefndiroedd amrywiol ac ymrwymiadau personol, gofalu a phroffesiynol amrywiol; felly maen annhebygol y bydd amseroedd cyfarfod y cyngor fyth yn mynd i fod yn gyfleus i'r holl aelodau. Er enghraifft, efallai y byd yn haws i gynghorydd sydd â phlentyn ifanc gyfarfod yn ystod y dydd, tra byddai'n well gan aelod arall gyfarfod gyda'r nos, yn ddibynnol ar ymrwymiadau gwaith, trefniadau ysgol neu argaeledd gofal plant.

100. Un opsiwn yr awgrymwyd yn y Rhwydwaith Aelodau Cabinet Cydraddoldeb oedd y dylai cyfarfodydd unrhyw bwyllgor gael ei amrywio yn ystod y flwyddyn rhwng dydd a min nos fel nad yw aelodau yn gorfod cymryd yr un amser i ffwrdd o'r gwaith bob amser neu drefnu gofal plant. Hefyd nodwyd y dylai pobl gael eu hysbysu cyn sefyll y gallai amseroedd cyfarfodydd amrywio ac y gellid eu newid, yn ddibynnol ar safbwyntiau y cynghorwyr etholedig newydd.

101. Efallai byddai'r newidiadau parhaol posibl i drefniadau cyfarfod er mwyn eu cynnal o bell yn lleihau'r amser sydd ei angen ar gyfer teithio i gyfarfodydd, ond efallai y byddai aelodau â chyfrifoldebau gofal yn dal angen amseroedd cyfarfod amrywiol oherwydd nad yw'n bosibl darparu gofal a mynychu cyfarfod ar yr un pryd.

102. Yn draddodiadol mae gan y Senedd yng Nghaerdydd a San Steffan gyfnodau o doriad, yn cynnwys Toriad hir dros yr haf. Mae dulliau o amserlennu cyfarfodydd a busnes swyddogol y cyngor yn amrywio o un awdurdod i'r llall. Mae gan rai cynghorau doriad swyddogol dros yr Haf, nid yw rhai yn amserlennu cyfarfodydd yn ystod gwyliau ysgol neu maent yn cynnal llai o gyfarfodydd. Efallai bod cynghorwyr gyda phlant ysgol yn wynebu anfantais os bydd cyfarfodydd y cyngor yn cael eu hamserlennu yn ystod y gwyliau, a gall hynny hefyd fod yn ddatgymhelliad i sefyll.

103. Mae'r gweithgor wedi awgrymu y gallai'r Cynghorau, yn ychwanegol at eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, ymrwymo i fod yn Gynghorau Amrywiol, gan gyhoeddi 'Datganiad Amrywiaeth' neu Gynnig gan y Cyngor sydd yn amlinellu eu bwriad i sicrhau deilliannau cydradd i bawb drwy fynd ati i weithio er mwyn

ysgogi newid diwylliannol a strwythurol a gweithio'n rhagweithiol i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu'r rhwystrau i gyfranogiad unrhyw unigolyn yn yr economi a bywyd cyhoeddus a chymdeithasol. Byddai'r ymrwymiad yma yn canolbwyntio ar sicrhau bod grwpiau a dangynrychiolir yn gyfranogwyr mwy actif mewn ymgysylltu a phenderfyniadau. Dangos ymrwymiad cyhoeddus i wella amrywiaeth a diwylliant agored a chroesawgar i bawb cyn etholiadau 2022.

104. Gallai ymrwymiad gan bob awdurdod lleol i fod yn Gyngor Amrywiol gynnwys

- Sefydlu 'Llysgenhadon Amrywiaeth' ar gyfer pob grŵp gwleidyddol yn y cyngor allai, drwy weithio gyda'i gilydd a'u cymdeithasau pleidiau lleol, annog recriwtio aelodau o grwpiau a dangynrychiolir.
- Annog a chefnogi Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, Swyddogion Etholiadau / Timau Cyfathrebu a/neu Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd i gynnal proses allgymorth democrataidd er mwyn hyrwyddo rôl y cynghorydd lleol, er enghraifft mewn ysgolion neu mewn cymunedau a dangynrychiolir.

105. **Mae enghraifft ddrafft o beth ellid ei gynnwys mewn Datganiad Cyngor Amrywiol yn gynwysedig yn Atodiad D. Cynigir bod Datganiad drafft, fyddai'n cael ei addasu a'i fabwysiadu'n lleol, yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol a phartner sefydliadau.**

106. **Argymhellir bod y Cyngor yn**

**106.1 Cytuno i annog datganiad erbyn Gorffennaf 2021 gan gynghorau yng Nghymru, ynghylch bod yn 'Gynghorau Amrywiol'; er mwyn ymrwymo i:**

- **Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth;**
- **Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;**
- **Ystyried amrywio amseroedd cyfarfod y cyngor a chytuno ar gyfnodau o doriad er mwyn cefnogi cynghorwyr ag ymrwymiadau eraill; a**
- **Sefydlu cynllun gweithredu o weithgareddau cyn etholiadau lleol 2022.**

**Targedau Amrywiaeth**

107. Anogwyd pleidiau gwleidyddol, drwy raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, i ymrwymo i dargedau o ran rhywiau yn etholiadau 2017, ac ymrwymodd Llafur Cymru, er enghraifft, i enwebu merched mewn 40% o seddi y gellid eu hennill.

108. Mae mentrau eraill, megis 50-50 erbyn 2020 eisoes wedi mabwysiadu targedau, ac mae 'Strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus[3]' Llywodraeth Cymru yn cynnwys gweithredu fel a ganlyn:

'Llywodraeth Cymru i ymgynghori, ac os bydd hynny yn ddymunol, pennu targedau cyffredinol ar draws yr holl Fyrddau yng Nghymru ar gyfer pobl BAME, anabl, LGBT+ a phobl ifanc a grwpiau economaidd gymdeithasol, gan gydnabod bod gan Fyrddau unigol ofynion penodol amrywiol.'

109. Gellid cynnwys targedau mewn unrhyw 'Ddatganiad Amrywiaeth' (os cytunir ar ddull o'r fath).

110. Ond mae yna safbwyntiau cymysg ar werth targedau. Mae targedau yn cynnig ffocws, yn dangos uchelgais ac ymrwymiad sefydliad ac yn darparu 'bachyn' defnyddiol at ddibenion hyrwyddo a chysylltiadau cyhoeddus. Ond, mae angen i dargedau fod yn realistig, ac oherwydd ein bod yn dechrau o fan cychwyn isel o ran amrywiaeth ymgeiswyr a chynghorwyr, efallai na fydd targedau o'r fath yn ymddangos yn ddigon uchelgeisiol.

111. Hefyd, tra bod cynghorau a CLlLC yn ceisio pennu targedau er mwyn dangos uchelgais ac ymrwymiad ac yn gallu darparu ystod o weithgareddau a diwygiadau er mwyn annog mwy o ymgeiswyr, gan sefydliadau eraill, a leidiau gwleidyddol yn benodol, mae'r dylanwad mwyaf ar p'un a ellir cyrraedd y targedau hynny ai peidio. Petai cynghorau yn pennu targedau lleol, gellid eu beirniadu am beidio â chyrraedd targedau nad ydynt i raddau helaeth o fewn eu rheolaeth.

112. Mewn cyfarfod diweddar o Arweinwyr Grŵp CLlLC awgrymwyd y gallai targedau cyffredinol ar gyfer ardal awdurdod cyfan fod yn cyraeddadwy efallai, er bod targedau ar lefel Ward yn anodd o ganlyniad i heriau recriwtio.

113. **Argymhellir bod Cyngor CLlLC yn darparu safbwyntiau ar fabwysiadu targedau amrywiaeth lleol neu genedlaethol.**

## Cwotâu neu Seddi Cadw

114. Casglodd y Comisiwn Llywodraeth Leol yn 2017 bod "Deiliadaeth mewn cynghorau lleol yn golygu bod dynion yn elwa yn anghymesur ...[a]...mae arafwch newid yn cael ei yrru'n sylweddol gan ddeiliadaeth." Yn ôl y Ganolfan Etholiadau, yn etholiadau lleol Cymru yn 2017, safodd 895 o ddeiliaid swyddi yn yr etholiad (ar draw 71% o seddi) gyda 633 neu 77% yn cael eu hail-ethol. I grynhoi, mae deiliaid seddi yn fwy tebygol o gael eu hail-ethol nag ymgeiswyr eraill oherwydd eu proffil, enw da neu hanes, ac oherwydd bod y rhan fwyaf o gynghorwyr yn ddynion gwyn hŷn, mae'r rhan fwyaf o ddeiliaid seddi llwyddiannus yn ddynion gwyn hŷn. Felly mae effaith deiliadaeth wedi achosi i rai ymgyrchwyr alw am derfynau tymor, cwotâu neu restr fer o ferched yn unig.

[3] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/diversity-and-inclusion-strategy-for-public-appointments-action-plan-year1-2020-21_0.pdf

115. Eisoes mae Llywodraeth Cymru yn ddadleuol wedi ceisio taclo mater deiliadaeth gyda Chynllun Ffarwel Euraidd yn 2002, a chynnig Papur Gwyn 2015 i gyflwyno terfynau cyfnod i gynghorwyr, a wrthodwyd yn gyffredinol gan lywodraeth leol.

116. Yn ôl Sefydliad Rhyngwladol Democratiaeth a Chymorth Etholiadol, defnyddir pedwar math o gwotâu ledled y byd heddiw. Cwotâu ymgeiswyr cyfreithiol neu wirfoddol a seddi cadw cyfreithiol neu wirfoddol. Gellir defnyddio seddi cadw, er enghraifft, er mwyn rheoli nifer y merched a etholir. Gellir cyflwyno'r rhain fel cam dros dro a gellir eu defnyddio ar lefel leol a chenedlaethol.

117. Nid yw CLlLC erioed wedi cynnig mabwysiadu cwotâu fel un o bolisïau ffurfiol CLlLC, er y cefnogwyd cwotâu rhywiau gan gyn Arweinydd CLlLC, y Farwnes Wilcox o Gasnewydd, ac eisoes mae CLlLC wedi amlinellu dau fodel 'Seddi Cadw' ar gyfer trafodaeth:

a. Seddi Cadw lleol ac wedi eu targedu i Ferched yn Unig ar gyfer pob isetholiad yn ystod tymor cynghorau. Petai seddi gwag o'r fath yn cael eu targedu drwy gytundeb gwirfoddol rhwng y prif bleidiau gwleidyddol i gynnig rhestrau ymgeiswyr fyddai'n cynnwys merched yn unig, gellid gwella cydbwysedd rhwng y rhywiau hyd at 5% yn ystod tymor cynghorau.

b. Gallai dull ehangach, fyddai efallai yn golygu rhai newidiadau i gyfraith etholiadol mewn perthynas â'r broses enwebu, olygu bod dull cyffelyb yn cael ei fabwysiadu ar gyfer seddi 'gwag' pan fo cynghorwyr wedi penderfynu rhoi'r gorau neu ymddeol yn yr etholiad. Petai cynghorwyr o'r fath yn gallu ymrwymo i neu hysbysu am eu bwriad i roi'r gorau erbyn trefn amser oed yn ddigon cynnar, gallai pleidiau gwleidyddol gytuno i gynnig rhestrau ymgeiswyr o ferched yn unig ar gyfer 'seddi gwag' o'r fath, a gallai hynny arwain at newid o 10-15% o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn etholiad. Gydag effaith etholiadol mor gyflym, mae'n bosibl y gellid cyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn llywodraeth leol mewn cyfnod o 5 mlynedd yn ystod 2 etholiad.

118. Mae cynlluniau megis cwotâu yn rhai dadleuol, ac mae yna dal ansicrwydd ynghylch y sail gyfreithiol mewn perthynas â chwotâu statudol a'r awydd gwleidyddol i ddefnyddio cwotâu gwirfoddol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ystyried a ddylid cyflwyno cwotâu rhywiau yng Nghymru. Mae'r Ford Gron Weinidogol wedi cael ei hysbysu y gallai fod yna gyfyngiadau cyfreithiol ynghylch cymhwysedd y Senedd, a gallai hynny atal cwotâu statudol rhag cael eu cyflwyno, hyd yn oed petai Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu cwotâu fel polisi. Mae 'Gwneud y Peth Iawn' Cynghrair Hiliol Cymru yn casglu '....mae'n anghyfreithlon cadw pob sedd ar gyfer unrhyw nodwedd benodol, ac eithrio ar gyfer merched, a gellir ond sefydlu cwotâu mewn perthynas â merched, a dim nodweddion gwarchodedig eraill.'

119. Mae cwotâu mwy ffurfiol neu statudol wedi cael eu hargymell yn draddodiadol fel ffordd o fynd i'r afael yn gyflym ag anghydbwysedd o ran amrywiaeth ac effeithiau deiliadaeth ar barhad diffyg amrywiaeth. Mae'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol, Cymdeithas Fawcett a'r Cyngor Prydeinig, yn galw am gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer cwotâu (tua 40-45%) ar gyfer ymgeiswyr benywaidd mewn etholiadau. Mae sefydliadau eraill, megis Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru, Chwarae Teg a Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol yn galw am hyn hefyd, ond nid ydyn yn nodi y dylai hynny gael ei sefydlu mewn deddfwriaeth.

120. Mae ymchwil helaeth gan y sefydliadau uchod a phwyllgor y Senedd, yn awgrymu bod tangynrychiolaeth yn cael ei achosi yn aml gan y ffordd y mae ymgeiswyr yn cael eu dewis a'u hethol, a maent yn galw am gamau uniongyrchol er mwyn creu chwarae teg fel y gall merched gael eu cynrychioli'n well.

121. Y materion maent yn eu disgrifio yw tuedd etholwyr a phrosesau a diwylliant grŵp pleidiau. Nid yw llawer yn cael chwarae teg o ganlyniad i duedd ymwybodol neu ddiarwybod, gaiff ei meithrin gan y ddelwedd o ddeiliaid seddi a diwylliant grwpiau a phleidiau gwleidyddol. Y ddelwedd o'r unigolyn gorau ar gyfer y swydd, boed hynny yn ddiarwybod neu beidio, yw dyn gwyn canol oed, dosbarth canol, oherwydd mai dyna'r ddelwedd draddodiadol o gynghorydd nodweddiadol. Mae'r llwybrau a'r prosesau dethol yn draddodiadol yn cefnogi'r sefyllfa honno.

122. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru (Atodiad B) yn nodi –

- "Ymysg yr ugain gwlad sydd yn perthyn i Sefydliad Diogelwch a Chydweithredu yn Ewrop (OSCE) sydd wedi gweld y twf mwyaf yng nghyfran merched mewn seneddau yn ystod y degawd olaf...mae eu hanner wedi cyflwyno cwotâu cyfreithiol. I'r gwrthwyneb, ymysg yr ugain gwlad OSCE sydd yn llusgo o ran twf....nid oedd yr un wedi gweithredu cwotâu cyfreithiol.

- Erbyn hyn mae 100 o wledydd ledled y byd wedi sefydlu rhyw fath o gwotâu rhywiau ac mae 40 hefyd yn eu defnyddio ar gyfer grwpiau sydd yn rhyngblethu, megis merched BAME."

*123.* Mae'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Democratiaeth a Chymorth Etholiadol wedi amlinellu nifer o 'fanteision ac anfanteision' ynghylch cwotâu:

**Anfanteision:**

- Mae cwotâu yn mynd yn erbyn egwyddor cyfle cyfartal i bawb, oherwydd bod merched yn cael ffafriaeth ar draul dynion.
- Mae cwotâu yn annemocrataidd, oherwydd mai'r pleidleiswyr ddylai allu penderfynu pwy a etholir.
- Mae cwotâu yn awgrymu bod gwleidyddion yn cael eu hethol oherwydd eu rhyw ac nid oherwydd eu cymwysterau a bod ymgeiswyr mwy cymwys yn cael eu gwahardd.

- Nid yw nifer o ferched eisiau cael eu hethol dim ond oherwydd eu bod yn ferched.
- Mae cyflwyno cwotâu yn creu gwrthdaro sylweddol mewn pleidiau.
- Mae cwotâu yn mynd yn groes i egwyddorion democratiaeth ryddfrydol.

**Manteision:**

- Nid yw cwotâu ar gyfer merched yn gwahaniaethu ond yn digolledu am rwystrau gwirioneddol sydd yn rhwystro merched rhag cael eu cyfran deg o seddi gwleidyddol.
- Mae cwotâu yn golygu bod yna nifer o ferched gyda'i gilydd mewn pwyllgor neu gynulliad, ac mae hynny yn lleihau y straen y mae'r unig ferch yn ei brofi'n aml.
- Mae gan ferched yr hawl fel dinasyddion i gael cynrychiolaeth gyfartal.
- Mae angen profiadau merched mewn bywyd gwleidyddol.
- Mae ethol yn ymwneud â chynrychiolaeth, nid cymwysterau addysgol.
- Mae merched yr un mor gymwys â dynion, ond mae cymwysterau merched yn cael eu hisraddio neu eu lleihau mewn system wleidyddol sydd yn cael ei meddiannu gan ddynion.
- Y pleidiau gwleidyddol sydd yn rheoli enwebiadau mewn gwirionedd, ac nid y pleidleiswyr i raddau helaeth sydd yn penderfynu pwy gaiff ei ethol; felly nid yw cwotâu yn tramgwyddo ar hawliau pleidleiswyr.
- Efallai bod cyflwyno cwotâu yn achosi gwrthdaro, od efallai mai dros dro yn unig y bydd hynny.
- Gall cwotâu gyfrannu at broses o ddemocrateiddio drwy wneud i'r broses enwebu fod yn fwy tryloyw a ffurfiol.

124. Mae'r prif ddadleuon o blaid cyflwyno cwotâu yn ymwneud nid yn unig â sicrhau cydraddoldeb ac adlewyrchu cymdeithas ehangach yn well, ond oherwydd bod profiadau bywyd mwy amrywiol yn arwain at benderfyniadau mwy cytbwys; byddai nid yn unig yn cryfhau llais merched, ond hefyd yn effeithio ar natur y drafodaeth a'r penderfyniadau fyddid yn cael eu gwneud. Mae nifer o sefydliadau yn dadlau mai cwotâu yw'r unig ffordd i greu newid sylweddol o ran amrywiaeth, a hynny yn seiliedig ar dystiolaeth o effaith pan maent wedi cael eu cyflwyno, ond hefyd y cynnydd araf o ran newid amrywiaeth mewn llywodraeth leol ac amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth y DU yn gyffredinol. Ond mae cwotâu yn dal yn gysyniad gaiff ei herio ac nid ydynt wedi cael eu cefnogi'n gyffredinol pan y'u hystyriwyd yn flaenorol mewn cyd-destun Cymreig. Roedd yna safbwyntiau cymysg ymysg aelodau'r gweithgor a mynegodd nifer o arweinwyr bryderon ynghylch cyflwyno cwotâu  yn ystod trafodaeth Ford Gron 'Grym Cyfartal Llais Cyfartal' y Gymdeithas Diwygio Etholiadol ym mis Hydref 2020.

125. Mae rhwydwaith Aelodau'r Cabinet Cydraddoldeb hefyd wedi ystyried y risgiau ynghylch 'cwotâu', yn benodol o ran canfyddiad y cyhoedd oherwydd gellid

ystyried bod ymgeiswyr amrywiol yn arwydd o docynistiaeth, a hynny yn tanseilio hygrededd ymgeiswyr o galiber uwch.

126. **Argymhellir bod y Cyngor yn darparu safbwyntiau ynghylch cyflwyno cwotâu statudol neu wirfoddol ar gyfer etholiadau lleol Cymru.**

**Amrywiaeth CLlLC**

127. Mae cynrychiolaeth ar Gyngor CLlLC yn un maes ble gallai awdurdodau lleol wneud gwahaniaeth cadarnhaol a dangos eu hymrwymiad i newid. Nid yw'n bosibl nodi gyda sicrwydd pa ganran o grwpiau a dangynrychiolir sydd ar y Cyngor oherwydd mai pob unigolyn ddylai nodi hynny eu hunain, ac ni chynhaliwyd yr ymarferiad hwnnw, ond er bod yna fwy o arweinwyr benywaidd nag erioed o'r blaen, nid oes gan y Cyngor gynrychiolaeth gyfrannol o ferched neu gynghorwyr BAME.

128. Nid oes gan rai awdurdodau lleol ond dau neu dri chynrychiolydd ar y Cyngor, ac felly byddai'n heriol iddynt newid eu haelodau yn arwyddocaol, ond gallai aelodau ystyried bod yna gyfle i awdurdodau fynd ati'n rhagweithiol i enwebu aelodau mwy amrywiol i Gyngor CLlLC. Hefyd gallai Cyngor CLlLC geisio penodi aelodau mwy amrywiol fel modelau rôl o ran rolau Llywydd neu Is-Lywydd, neu gynnwys mwy o gynghorwyr fel Hyrwyddwyr gwaith CLlLC.

129. **Argymhellion**

**Argymhellir bod Cyngor CLlLC yn:**

**129.1 Cydnabod gwaith Gweithgor Trawsbleidiol CLlLC ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth;**

**129.2 cytuno i annog yr holl bleidiau gwleidyddol, drwy Grwpiau Gwleidyddol CLlLC, i ymrwymo i weithgareddau rhagweithiol a chydlynol megis y rhai a restrir ym mharagraff 80 uchod er mwyn gwella amrywiaeth mewn democratiaeth llywodraeth;**

**129.3 mabwysiadu safbwynt ffurfiol sydd yn galw am gyflwyno grantiau adsefydlu i ddeiliaid cyflogau;**

**129.4 cytuno i annog pob cynghorydd i hawlio unrhyw lwfansau angenrheidiol neu dreuliau a;**

**129.5 cytuno i annog datganiad erbyn Gorffennaf 2021 gan gynghorau yng Nghymru, ynghylch bod yn 'Gynghorau Amrywiol'; er mwyn:**

- **Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth;**
- **Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;**

- **ystyried amrywio amseroedd cyfarfod y cyngor a chytuno ar gyfnodau o doriad er mwyn cefnogi cynghorwyr ag ymrwymiadau eraill; a**
- **sefydlu cynllun gweithredu o weithgareddau cyn etholiadau lleol 2022.**

**129.6 darparu safbwyntiau ar fabwysiadu targedau amrywiaeth lleol; a**

**129.7 darparu safbwyntiau ynghylch cyflwyno cwotâu statudol neu wirfoddol ar gyfer etholiadau lleol Cymru.**

---

**Adroddiad wedi ei glirio gan:**

**Y Cynghorydd Mary Sherwood**, Cydlefarydd CLlLC ar Gydraddoldeb, Diwygio Lles a Gwrth-dlodi a Chyd Gadeirydd y Gweithgor
**Y Cynghorydd Susan Elsmore**, Cydlefarydd CLlLC ar Gydraddoldeb, Diwygio Lles a Gwrth-dlodi a Chyd Gadeirydd y Gweithgor


| | | |
|---|---|---|
| **Awdur:** | Daniel Hurford<br>Pennaeth Polisi | Sarah Titcombe<br>Swyddog Polisi a Gwella |
| **E-bost:** | daniel.hurford@wlga.gov.uk | sarah.titcombe@wlga.gov.uk |

**ATODIAD A**

## Gweithgor CLlLC Ar Amrywiaeth Mewn Democratiaeth Leol

**Aelodau sydd wedi cyfrannu i'r gweithgor:**

- Cyd Gadeirydd - Y Cynghorydd Mary Sherwood (Llafur), Cyd lefarydd CLlLC ar Gydraddoldeb, Diwygio Lles a Gwrth-Dlodi, Dinas a Sir Abertawe
- Cyd Gadeirydd - Y Cynghorydd Susan Elsmore (Llafur), Cyd lefarydd CLlLC ar Gydraddoldeb, Diwygio Lles a Gwrth-Dlodi, Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles, Cyngor Caerdydd
- Y Cynghorydd Cheryl Green (Democratiaid Rhyddfrydol), Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Drosolwg Corfforaethol, CBS Pen-y-bont ar Ogwr
- Y Cynghorydd Daniel De'Ath (Llafur), Arglwydd Faer, Cyngor Caerdydd
- Y Cynghorydd Lisa Mytton (Annibynnol), Dirprwy Arweinydd, CBS Merthyr Tydfil
- Y Cynghorydd Sara Jones (Ceidwadwyr), Aelod Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Datblygu Cymunedol, Cyngor Sir Fynwy
- Y Cynghorydd Cefin Campbell (Plaid Cymru), Aelod o Fwrdd Gweithredol Cymunedau a Materion Gwledig, Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Y Cynghorydd Nicola Roberts (Plaid Cymru) Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Chynllunio, Cyngor Ynys Môn
- Y Cynghorydd Dhanisha Patel (Llafur) Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Y Cynghorydd Ann McCaffrey (Annibynnol), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Y Cynghorydd Jayne Cowan (Ceidwadwyr) Cyngor Caerdydd
- Y Cynghorydd Bablin Molik (Democratiaid Rhyddfrydol) Cyngor Caerdydd
- Y Farwnes Wilcox (Llafur), Cyngor Casnewydd oedd yn gadeirydd y gweithgor i ddechrau yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd CLlLC.

Mae safbwyntiau hefyd wedi cael eu darparu drwy drafodaethau gyda aelodau a swyddogion:

- Rhwydwaith Aelodau Cabinet Cydraddoldeb
- Rhwydwaith Cadeiryddion Gwasanaethau Democrataidd
- Rhwydwaith Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd

### Cymorth gan Swyddogion

- Daniel Hurford, Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethu) CLlLC
- Sarah Titcombe, Swyddog Polisi a Gwella (Gwasanaethau Democrataidd) CLlLC
- Dilwyn Jones Swyddog Cyfathrebu, CLlLC
- Huw Evans, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Dinas a Sir Abertawe

**ATODIAD B**

**DYFYNIADAU O BAPUR BRIFFIO RHWYDWAITH CYDRADDOLDEB MERCHED (WEN) CYMRU**

**Yr achos o blaid cwotâu er mwyn creu cynrychiolaeth deg ac amrywiol**

**Chwefror 2020**

**Tystiolaeth sydd yn cefnogi cwotâu**

- Mae tystiolaeth yn dangos mai cwotâu yw'r '**adnodd unigol mwyaf effeithiol ar gyfer cyflymu cynrychiolaeth merched ar gyrff etholiado**l."[4]
- Ymysg yr ugain gwlad sydd yn perthyn i Sefydliad Diogelwch a Chydweithredu yn Ewrop (OSCE) sydd wedi gweld y twf mwyaf yng nghyfran merched mewn seneddau yn ystod y degawd olaf...**mae eu hanner wedi cyflwyno cwotâu cyfreithiol. I'r gwrthwyneb, ymysg yr ugain gwlad OSCE sydd yn llusgo o ran twf....nid oedd yr un wedi gweithredu cwotâu cyfreithiol.**[5]
- Mae yna gefnogaeth ryngwladol i gwotâu rhywiau. Mae nifer o sefydliadau rhyngwladol, yn cynnwys Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu (CEDAW), Platfform Gweithredu Beijing, yr UE a Chyngor Ewrop yn cefnogi eu defnyddio.
- Mae Iwerddon wedi defnyddio cwotâu yn llwyddiannus oedd yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf 30 y cant o'r ymgeiswyr yr oedd pob plaid yn eu henwebu'n genedlaethol yn ferched (a hynny yn codi i 40 y cant ar ôl saith mlynedd). Bu cynnydd o 90 y cant yng nghanran yr ymgeiswyr benywaidd yn etholiad 2016 o'i gymharu ag etholiad 2011, a chynnydd cyfatebol o 40 y cant yn nifer y merched a etholwyd - 35 yn 2016 o'i gymharu â 25 yn 2011.[6]
- Erbyn hyn mae 100 o wledydd ledled y byd wedi sefydlu rhyw fath o gwotâu rhywiau ac mae 40 hefyd yn eu defnyddio ar gyfer grwpiau sydd yn rhyngblethu, megis merched BAME.
- Canfu adroddiad a gyhoeddwyd gan y Cenhedloedd Unedig yn 2021, bod gan 17 o'r 59 gwlad a gynhaliodd etholiadau yn 2011 gwotâu. Yn y gwledydd hynny, enillodd merched 27% o'r seddi seneddol o'i gymharu â 16% yn y gwledydd heb gwotâu.[7]

---

[4] Drude Dahlerup et al., Atlas of Electoral Gender Quotas, International Institute for Democracy and Electoral Assistance [IDEA], IPU and Stockholm University, 2013.
[5] Norris, P. and Krook, M. for OSCE, Gender equality in elected office: a six-step action plan, 2011
[6] Brennan, M. and Buckley, F. 'The Irish legislative gender quota: the first election', Administration, vol 65(2), May 2017
[7] https://www.theguardian.com/politics/2013/aug/20/quotas-women-parliament-authors-edinburgh-book-festival

**Mathau a Gwotâu**

Mae gwahanol fathau o gwotâu rhywiau wedi cael eu defnyddio mewn gwahanol wledydd, yn ddibynnol ar y system etholiadol ac amgylchiadau lleol. Mae'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol[8] yn disgrifio'r tri phrif fath fel hyn:

- Cwotâu ymgeiswyr sydd yn cyflwyno 'isafswm' ar gyfer y cyfran o ymgeiswyr gwrywaidd neu fenywaidd y mae plaid yn eu henwebu ar gyfer etholiad. Gellid cymhwyso'r rhain ar ffurf gefeillio etholaethau ar gyfer seddi Cyntaf i'r Felin (FPTP). Gellid eu cymhwyso hefyd i systemau aelodau lluosog megis STV neu Restr Hyblyg ar lefel etholaeth neu genedlaethol. Mae pleidiau yn Sgandinafia, Sbaen ac Awstria wedi mabwysiadu cwotâu cyffelyb yn wirfoddol, a hynny yn amrywio o 33 y cant i 50 y cant.
- Gofynion ar gyfer trefnu ymgeiswyr ar unrhyw elfen o restr yn y system. Mae cwotâu gwirfoddol o'r natur yma wedi cael eu defnyddio gan bleidiau yng Nghymru mewn etholiadau Cynulliad, er enghraifft sipio rhestrau ymgeiswyr rhanbarthol. (H.y. Rhestr ymgeiswyr bob yn ail yn ôl eu rhyw)
- 'Seddi cadw' y gellir ond ethol ymgeiswyr benywaidd. Mae'r math ym o gwota yn cael ei ddefnyddio'n eang yn Ne Asia, gwledydd Arabaidd ac Affrica Is-Sahara.

**Enghreifftiau o Gymhelliannau a ddefnyddir:**

- Mae gan Croatia cwotâu cyfreithiol rwymedig ac mae'n defnyddio cymhelliannau - ar gyfer pob AS sydd yn cynrychioli rhyw a dangynrychiolir, mae pleidiau gwleidyddol yn derbyn 10 y cant yn ychwanegol o'r swm a ragwelir am bob AS unigol;
- **Bosnia and Herzegovina**: ble mae 10 y cant o'r arian a ddarperir i bleidiau gwleidyddol yn cael ei rannu i bleidiau yn gyfatebol i nifer y seddi a ddelir gan ASau o'r rhyw sydd â llai o gynrychiolaeth yn yr awdurdodaeth honno,

- Gellid defnyddio blaendaliadau dau am bris un i ddau ymgeisydd o wahanol rywiau yng Nghymru - i ni byddai hynny yn ymddangos yn gymesur yng nghyd-destun ceisio sicrhau bod cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Cynulliad yn adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu.[9]

www.wenwales.org.uk / @wenwales

[8] Senedd sydd yn gweithio i Gymru, Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017

[9] Senedd sydd yn gweithio i Gymru, Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017

# ATODIAD C

## DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaethau fydd yn cyfrannu at amrywiaeth mewn democratiaeth llywodraeth leol. Sef:

- Hawl i rannu swydd i aelodau gweithredol a chadeiryddion pwyllgorau
- Dyletswydd ar brif gynghorau i greu Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus ac i adolygu hynny yn rheolaidd. Bydd hynny yn cynnwys annog pobl i gyfranogi mewn proses benderfynu a hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut mae dod yn aelod o’r cyngor.
- Dyletswydd ar arweinwyr grwpiau i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau eu grŵp.
- Darlledu cyfarfodydd y Cyngor llawn yn electronig i ddechrau, a chyfarfodydd eraill i gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach, yn dilyn ymgynghori parhaus rhwng LlC a chynghorau.
- Mynychu aml-leoliad ar gyfer cyfarfodydd cyngor yn cynnwys mynychu personol, hybrid ac o bell.
- Darpariaethau sydd yn galluogi'r uchafswm cyfnod o absenoldeb ar gyfer pob math o absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol i gael eu nodi mewn rheoliadau, ac absenoldeb mabwysiadu i adlewyrchu yr hyn sydd ar gael i gyflogeion.

## ATODIAD D
# DATGANIAD Y CYNGOR AMRYWIAETH (DRAFFT)

Mae'r canlynol yn darparu datganiad drafft. Cynigir bod hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach mewn ymgynghoriad ag awdurdodau, sefydliadau cynrychioliadol, a bydd yn cael ei hysbysu gan flaenoriaethau ymddangosol o gynlluniau gweithredu ar amrywiaeth a chydraddoldeb y cynghorau eu hunain, a blaenoriaethau ymddangosol o Gynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Rydym yn cytuno i

- Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth
- Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf
- Llunio Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol lleol cyn etholiadau lleol 2022. Yn cynnwys:
    - Penodi 'Llysgenhadon Amrywiaeth' ar gyfer pob grŵp gwleidyddol yn y cyngor er mwyn gweithio gyda'i gilydd a'u cymdeithasau pleidiau lleol er mwyn annog recriwtio ymgeiswyr o grwpiau a dangynrychiolir.
    - Annog a galluogi pobl o grwpiau a dangynrychiolir i sefyll mewn etholiadau drwy ddarparu gweithgareddau megis rhaglenni mentora a chysgodi a digwyddiadau gwybodaeth a dysgu i bobl sydd â diddordeb mewn sefyll ac ymgeiswyr swyddogol.
    - Ymgysylltu â chyfranogiad rhagweithiol gyda grwpiau cymunedol lleol a phartner sefydliadau sydd yn cefnogi a chynrychioli grwpiau a dangynrychiolir.
    - Sicrhau bod yr holl aelodau ac ymgeiswyr yn cwblhau arolwg ymgeiswyr a chynghorwyr Llywodraeth Cymru a dosberthir ar adeg etholiad.
    - Pennu targedau uchelgeisiol i ymgeiswyr o grwpiau a dangynrychiolir yn etholiadau lleol 2022.

- Gweithio ar y safonau ar gyfer cymorth a datblygi i aelodau a nodir yn Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygu i Aelodau.
- Dangos ymrwymiad i dyletswydd gofal dros Gynghorwyr drwy:
    - Ddarparu mynediad i wasanaethau cwnsela i bob cynghorydd
    - Ystyried diogelwch alles cynghorwyr pryd bynnag maent yn perfformio eu rolau fel cynghorwyr.
    - Arddel ymagwedd dim goddefiant tuag at fwlio ac aflonyddu gan aelodau, yn cynnwys drwy rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol.
- Darparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy
    - Adolygu ac amrywio amseroedd cyfarfodydd yn rheolaidd
    - Annog a chefnogi mynychu cyfarfodydd o bell a
    - Chytuno ar gyfnodau o doriadau er mwyn cefnogi cynghorwyr sydd ag ymrwymiadau gofal neu waith.
- Sicrhau bod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau

gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio.

- Sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel.

**Dyddiad /**Date: 15 Ebrill 2021
**Gofynnwch am/**Please ask for: Daniel Hurford
**Llinell uniongyrchol/**Direct line: 029 20468615
**Ebost/**Email: daniel.hurford@wlga.gov.uk

CLlLC • WLGA

At:
Arweinwyr Grwpiau
Cadeiryddion Cynghorau
Cadeiryddion Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd

cc Cyngor CLlLC, Prif Weithredwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd

Annwyl gydweithwyr,

## Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Wrth i'r sylw yn amlwg ganolbwyntio ar etholiadau'r Senedd mewn ychydig dros fis, mae'n bwysig ein bod yn edrych ymlaen ac yn dechrau cynllunio ar gyfer etholiadau lleol ym mis Mai 2022.

Un o negeseuon allweddol Academi Arweinyddiaeth CLlLC yw 'rydych angen bod yn ddigon cyffredin i fod yn gynghorydd, ond hefyd yn ddigon arbennig i fod yn gynghorydd.'

Does dim amheuaeth bod cynghorwyr wedi bod yn arbennig yn ystod y deuddeg mis diwethaf o'r pandemig coronafeirws. Ond i fod yn 'gyffredin', mae cynghorwyr hefyd angen bod fel y bobl maent yn eu cynrychioli ac adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Er gwaethaf camau ac ymgyrchoedd blaenorol, mae cynnydd wedi bod yn araf ac rydym i gyd yn cydnabod bod yna ddiffyg amrywiaeth yn ein cynghorau.

Rydym angen mwy o ferched, mwy o bobl ifanc, mwy o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig, mwy o ymgeiswyr anabl a LGBTQ+ yn sefyll yn 2022.

Felly, mae CLlLC wedi ymrwymo i wneud newid sylweddol mewn amrywiaeth llywodraeth leol yn etholiadau lleol 2022. Roedd Cyngor CLlLC wedi cymeradwyo'r adroddiad Amrywiaeth a Democratiaeth sydd wedi'i amgau mewn cyfarfod arbennig yn gynharach y mis hwn. Mae'r gwaith yn gwblhad gwaith gweithgor trawsbleidiol ac yn adeiladu ar y cynlluniau gweithredu ac uchelgeisiau cynghorau a phartneriaid.

Dr Chris Llewelyn
Prif Weithredwr
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru
wlga.wales

@WelshLGA

Roedd trafodaeth Cyngor CLlLC yn angerddol ac yn flaengar ac roedd yna gefnogaeth unfrydol ar gyfer camau cydweithredu chyfunol ar draws y teulu llywodraeth leol ac o fewn pleidiau gwleidyddol.

Bydd CLlLC yn bwrw ymlaen gyda nifer o gamau yn genedlaethol ac rydym eisoes wedi lansio gwefan https://www.byddwchyngynghorydd.cymru/. Fel Arweinwyr Grŵp, byddwn yn gwneud sylwadau i bleidiau gwleidyddol i gymryd camau a gwneud cynnydd a byddwn hefyd yn cyflwyno'r achos i Lywodraeth Cymru a'r Panel Taliad Cydnabyddiaeth Annibynnol y dylai cynghorwyr gael hawl i 'grantiau ailsefydlu' (a elwir yn daliadau dileu swydd) os byddant yn colli eu sedd mewn etholiad.

Roedd y Cyngor yn cydnabod y gwaith amrywiaeth sydd eisoes ar y gweill yn lleol ond roedd yn galw am gamau lleol ar y cyd ac uchelgeisiol. Felly, byddem yn ddiolchgar os gallech weithio gyda'ch cydweithwyr gwleidyddol a blaenoriaethu camau lleol, gan hybu'r lwfansau a dderbynnir gan aelodau a datblygu datganiadau 'Cyngor Amrywiol' erbyn yr haf.

Mae lwfans Aelodau yn chwarae rôl ganolog i annog mwy o amrywiaeth; gall rhai cynghorwyr gael eu heffeithio yn anghyfartal os ydynt ar incwm isel neu â chyfrifoldebau gofalu. Mae llawer o gynghorwyr yn cael eu anghymell rhag hawlio eu hawl llawn i lwfansau, fel ad-daliad costau gofal neu deithio, oherwydd pwysau gan gyfoedion neu'r cyhoedd. Felly, roedd Cyngor CLlLC yn unfryd ein bod angen mabwysiadu diwylliant ble mae holl gynghorwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i hawlio unrhyw lwfans neu dreuliau angenrheidiol sydd ganddynt hawl iddynt, ac rydym yn gofyn i chi arwain ac annog y diwylliant hwn yn lleol.

Roedd Cyngor CLlLC hefyd yn cytuno'n unfrydol y dylai holl gynghorau ymrwymo i ddatganiad erbyn Gorffennaf 2021 ar ddod yn 'Gynghorau Amrywiol' yn 2022, i ddarparu ymrwymiad clir, cyhoeddus i wella amrywiaeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys Datganiad 'amlinellol' i:

- Ddarparu ymrwymiad clir, cyhoeddus i wella amrywiaeth;
- Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;
- Ystyried amrywio amseroedd cyfarfodydd y cyngor a chytuno ar gyfnodau toriad i gefnogi cynghorwyr gydag ymrwymiadau eraill; a
- Paratoi cynllun gweithredu gweithgaredd cyn etholiadau lleol 2022.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd Cynghorau yn dymuno cynnal camau neu ymrwymiadau pellach o fewn eu Datganiadau yn unol â blaenoriaethau lleol.

Roedd Cyngor CLlLC wedi trafod rhinwedd camau cadarnhaol ac roedd yna gefnogaeth i ddefnyddio cwotas gwirfoddol mewn etholiadau lleol; mae hyn yn fater i grwpiau a phleidiau lleol, ond ble mae camau gwirfoddol wedi eu mabwysiadu yn y gorffennol, bu cynnydd sylweddol o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau.  Roedd CLlLC hefyd yn unfryd gytûn  y dylai cynghorau osod targedau i gynrychioli'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn yr etholiadau nesaf.

Bydd gwaith amrywiaeth lleol Cynghorau yn cael ei gefnogi gan godi ymwybyddiaeth yn genedlaethol, cyhoeddusrwydd a chefnogaeth drwy CLlLC a Llywodraeth Cymru. Bydd

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

swyddogion CLlLC yn cyfarfod Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd ym mis Ebrill i rannu syniadau a dulliau ar gyfer datblygu Datganiadau Cyngor Amrywiol lleol.

Rydym yn hyderus y byddwch yn rhannu ymrwymiad Cyngor CLlLC ac yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i hybu Amrywiaeth a Democratiaeth a chyflawni ein huchelgais a rennir i sicrhau bod siambrau ein cynghorau yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir ganddynt yn well yn dilyn etholiadau lleol 2022.

Yn ddiffuant,



Cyng Huw David
**Swyddog Llywyddu CLlLC**



Cyng Mary Sherwood
**Cydlefarydd Cydraddoldeb CLlLC a Chydgadeirydd Gweithgor**



Cyng Susan Elsmore
**Cydlefarydd Cydraddoldeb CLlLC a Chydgadeirydd Gweithgor**



Cyng Andrew Morgan
**Arweinydd CLlLC**



Cyng Hugh Evans
**Arweinydd Grŵp Annibynnol CLlLC**



Cyng Emlyn Dole
**Arweinydd Grŵp Plaid Cymru CLlLC**



Cyng Peter Fox
**Arweinydd Grŵp Ceidwadwyr CLlLC**

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

Eitem Agenda 8

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **23 Medi 2021** |
| **Teitl:** | **Datganiad Caeredin: cynnwys rôl awdurdodau lleol a dinasoedd yn fwy o fewn y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 - gan sicrhau newid trawsnewidiol i natur dros y ddegawd nesaf.** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Gofyn am gymeradwyaeth i Gyngor Sir Ceredigion ymrwymo i Ddatganiad Caeredin a chefnogi ei egwyddorion.** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor** |

Mae Arweinydd y Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth Julie James AS, y Gweinidog dros Newid Hinsawdd (gweler Atodiad A) yn gwahodd Awdurdodau Lleol i ymuno â Llywodraeth Cymru i gefnogi ' Datganiad Caeredin: cynnwys rôl awdurdodau lleol a dinasoedd yn fwy o fewn y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 - gan sicrhau newid trawsnewidiol i natur dros y ddegawd nesaf.

Datganiad gwleidyddol yw Datganiad Caeredin sy'n nodi ymrwymiadau i weithredu'r fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 yn lleol. Bydd yn sicrhau bod pobl sy'n byw mewn awdurdodau lleol ledled Cymru yn gallu byw mewn cytgord â natur a diogelu ecosystemau lleol gwerthfawr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Drwy Ddatganiad Caeredin rydym yn cefnogi'r alwad ar Bartïon Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) i wneud y canlynol:

- Cymryd y camau trawsnewidiol sydd eu hangen i atal colli bioamrywiaeth
- Cydnabod rôl hanfodol llywodraethau is-genedlaethol a lleol
- Cefnogi penderfyniad penodol ar Gynllun Gweithredu newydd ar gyfer llywodraethau is-genedlaethol, dinasoedd ac awdurdodau lleol. Penderfyniad i'w wneud yn COP15: Cynhadledd y Pleidiau, a lofnododd Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, ac sy'n cyfarfod yn Tsieina yn hydref 2021 ; a
- Datblygu llwyfan aml-randdeiliad ar gyfer gweithredu'r fframwaith ar ôl 2020.

Mae'r Gweinidog yn cydnabod rôl allweddol Awdurdodau Lleol o ran bwrw ymlaen â chamau gweithredu lleol ar gyfer natur ac mae'n gofyn i bob Cyngor gefnogi'r egwyddorion a nodir yn Natganiad Caeredin. Bydd hyn yn dangos yr ewyllys byd-eang i benderfyniad penodol a chynllun gweithredu newydd ar gyfer llywodraethau is-genedlaethol ac awdurdodau lleol gael eu mabwysiadu o fewn y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 yn COP15.

Felly gofynnir i'r Cyngor ystyried cofrestru i addo ei gefnogaeth i Broses a Datganiad Caeredin.

| | |
|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:** Bydd yn sicrhau bod pobl sy'n byw mewn awdurdodau lleol ledled Cymru yn gallu byw mewn cytgord â natur a diogelu ecosystemau lleol gwerthfawr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:** Gweithio gyda sefydliadau partner i ddiogelu ecosystemau lleol gwerthfawr.<br>**Cynnwys:** Cyfathrebu, addysgu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.<br>**Atal:** Diogelu ecosystemau lleol gwerthfawr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| **Argymhelliad/ Argymhellion:** | **Cymeradwyo bod y Cyngor yn cofrestru i addo ei gefnogaeth i Broses a Datganiad Caeredin** |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Er mwyn cydnabod rôl allweddol Awdurdodau Lleol o ran bwrw ymlaen â chamau gweithredu lleol ar gyfer natur a dangos yr ewyllys byd-eang i benderfyniad penodol a chynllun gweithredu newydd ar gyfer llywodraethau is-genedlaethol ac awdurdodau lleol gael eu mabwysiadu o fewn y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 yn COP15.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Amherthnasol |
| **Fframwaith Polisi:** | Cynllun Rheoli Carbon 2019 |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | • Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl<br>• Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Dim sy'n ymwneud â chefnogi Datganiad Caeredin. |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau Staffio:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau o ran eiddo/asedau:** | Dim sy'n ymwneud â chefnogi Datganiad Caeredin.. |

| | |
|---|---|
| **Risg(iau):** | Amherthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | Amherthnasol |
| **Papurau Cefndir:** | Edinburgh Declaration on post-2020 global biodiversity framework - gov.scot (www.gov.scot)<br><br>Cynnig i'r Cyngor 5 Mawrth 2020 – Datganiad argyfwng hinsawdd byd-eang. |
| **Atodiadau:** | Atodiad A – Llythyr oddi wrth Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Amherthnasol |
| **Swyddog Adrodd:** | Amherthnasol |
| **Dyddiad:** | 16 Medi 2021 |

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Medi 2021

Annwyl

Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i ymuno â mi i gefnogi Datganiad Caeredin: cynnwys rôl awdurdodau lleol a dinasoedd yn fwy o fewn y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 - gan sicrhau newid trawsnewidiol i natur dros y ddegawd nesaf.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) wrthi'n datblygu fframwaith ôl-2020 ar gyfer bioamrywiaeth fyd-eang a thargedau byd-eang newydd. Yr ydym yn symud i'r ddegawd nesaf gydag uchelgais gynyddol i weithredu dros natur, ac mae cydnabyddiaeth gynyddol o rôl awdurdodau lleol a dinasoedd o ran trosi targedau byd-eang yn ddarpariaeth leol.

Ar ran y CBD, mae Llywodraeth yr Alban wedi bod yn arwain "Proses Caeredin" – ymgysylltiad ac ymgynghoriad ar-lein, byd-eang ar gyfer chwaraewyr is-genedlaethol, rhanbarthol a lleol – gyda'r nod o sicrhau mwy o gyfeiriad at rôl Awdurdodau Is-genedlaethol a Lleol, gan gynnwys dinasoedd, yn y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Proses Caeredin ar gyfer bioamrywiaeth, ac yn arbennig Ddatganiad Caeredin, datganiad gwleidyddol yn nodi ymrwymiadau i weithredu'r fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 yn lleol.  Bydd yn sicrhau bod pobl sy'n byw mewn awdurdodau lleol ledled Cymru yn gallu byw mewn cytgord â natur a diogelu ecosystemau lleol gwerthfawr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol cael amgylchedd naturiol iach a diogel ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae wrth fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a cholli cynefinoedd. Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod rôl gynyddol werthfawr llywodraethau is-genedlaethol ac awdurdodau lleol o ran trosi targedau byd-eang yn ddarpariaeth leol.

Drwy Ddatganiad Caeredin rydym yn cefnogi'r alwad ar Bartïon CBD i:
• Cymryd y camau trawsnewidiol sydd eu hangen i atal colli bioamrywiaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Cydnabod rôl hanfodol llywodraethau is-genedlaethol a lleol
- Cefnogi penderfyniad penodol ar Gynllun Gweithredu newydd ar gyfer llywodraethau is-genedlaethol, dinasoedd ac awdurdodau lleol. Penderfyniad i'w wneud yn COP15: Cynhadledd y Pleidiau, a lofnododd Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, ac sy'n cyfarfod yn Tsieina yn hydref 2021 ; a
- Datblygu llwyfan aml-randdeiliad ar gyfer gweithredu'r fframwaith ar ôl 2020.

Rwy'n cydnabod rôl allweddol awdurdodau lleol o ran bwrw ymlaen â chamau gweithredu lleol ar gyfer natur ac rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich cefnogaeth i'r egwyddorion a nodir yn Natganiad Caeredin. Bydd hyn yn dangos yr ewyllys byd-eang i benderfyniad penodol a chynllun gweithredu newydd ar gyfer llywodraethau is-genedlaethol ac awdurdodau lleol gael eu mabwysiadu o fewn y fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ar ôl 2020 yn COP15.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru i addo eich cefnogaeth i Broses Caeredin a Datganiad Caeredin ar gael yn Edinburgh Declaration on post-2020 global biodiversity framework - gov.scot (www.gov.scot)

Credaf ei bod yn bwysig annog mwy o gyfranogiad gan awdurdodau is-genedlaethol a lleol yn rhyngwladol o fewn y fframwaith newydd. Felly, byddwn yn croesawu eich cefnogaeth yn fawr.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 9

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23 Medi 2021 |
| **Teitl:** | **Y Polisi a'r Gweithdrefnau diwygiedig o ran Pryderon a Chwynion** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Sicrhau bod gan y Cyngor Bolisi Pryderon a Chwynion (corfforaethol) cadarn a chyfoes sy'n cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir gan yr Awdurdod Safonau Cwynion.<br><br>Er Penderfyniad |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr Arweinydd |

**CEFNDIR:**
Mae'r Polisi a'r Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion wedi'u hadolygu a'u diweddaru am y ddau reswm canlynol:

1. Er mwyn ymgorffori'r newidiadau sefydliadol a gweithredol helaeth sydd wedi digwydd ers yr adolygiad polisi diwethaf yn 2015, gan gynnwys canoli'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.

2. Er mwyn sicrhau bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli pryderon a chwynion corfforaethol yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir gan yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA), a gyflwynwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Yn unol â'r Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW), mae'r ddogfen Bolisi yn rhoi gwybodaeth i achwynwyr ynghylch sut y bydd y Cyngor yn trin eu pryder/cwyn. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar amserlenni'r polisi sydd â dau gam iddo, sut y gall aelodau'r cyhoedd wneud cwyn os ydynt yn anfodlon â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor (neu nas darperir ganddo) a sut y gallant atgyfeirio eu cwyn i'w hystyried yn allanol ac yn annibynnol gan yr Ombwdsmon neu Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r ddogfen Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion yn ddogfen fewnol ac mae'n rhoi arweiniad i staff ar y trefniadau gweithredol y mae'n rhaid eu dilyn ar ôl derbyn pryder neu gŵyn, ac yn ystod yr ymchwiliad. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am uwchgyfeirio cwyn o Gam 1 (datrys anffurfiol) i Gam 2 (ymchwiliad ffurfiol) a rôl Gwasanaethau unigol a'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth wrth ddatrys cwynion a dysgu ohonynt.

Ar y cyfan, mae'r trefniadau a amlinellwyd yn y dogfennau Polisi a Gweithdrefnau yn adlewyrchu arferion gwaith cyfredol, yn enwedig ers ffurfio'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth canolog ddiwedd 2016. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth, mae'r dogfennau hyn hefyd yn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol y Cyngor i sicrhau

mecanwaith llywodraethu effeithiol i oruchwylio pob gweithgaredd cwyno yn y Cyngor. Nodir y rhain isod:

i. Darparu adroddiadau ddwywaith y flwyddyn i Bwyllgor y Cabinet o Aelodau Etholedig (gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyngor); yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

ii. Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o leiaf ddwywaith y flwyddyn am berfformiad cwynion y Cyngor a'i allu i ddelio'n effeithiol â chwynion; yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er bod y Polisi a'r Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd yn ymwneud â gwasanaethau corfforaethol y Cyngor yn unig (h.y. y Gwasanaeth Cynllunio, y Priffyrdd a'r Gwasanaeth Amgylcheddol, y Gwasanaethau Cyllid ac ati), mae polisïau ar wahân yn bodoli ar gyfer rheoli'r cwynion y mae'r Cyngor yn eu derbyn am y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nac oes, esboniwch pam:** Oes (gweler y ddogfen sydd ynghlwm)

***Crynodeb:***

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atal:** | Ddim yn berthnasol |
| **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |


| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | Cymeradwyo'r Polisi a'r Gweithdrefnau diwygiedig (2021) o ran Pryderon a Chwynion a'r broses o'u rhoi ar waith a'u cyhoeddi. |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Sicrhau bod gan y Cyngor bolisi Pryderon a Chwynion sy'n bodloni gofynion deddfwriaeth ddiweddar a galwadau a strwythur y sefydliad. |
| **Trosolwg a chraffu:** | Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7 Gorffennaf 2021. |
| **Fframwaith Polisi:** | • Y Polisi Pryderon a Chwynion (corfforaethol)<br>• Polisi Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Gweithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru (Cylchlythyr 011/2012)<br>• Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000<br>• Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd |
| **Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:** | Ddim yn berthnasol |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Ddim yn berthnasol |
| **Goblygiadau o ran staff:** | Dim |
| **Goblygiadau o ran eiddo / asedau:** | Ddim yn berthnasol |
| **Risgiau:** | Ddim yn berthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | |
| **Papurau Cefndir:** | |
| **Atodiadau:** | Asesiad Effaith Integredig |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Swyddog Adrodd:** | Marie-Neige Hadfield, Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth |
| **Dyddiad:** | 2 Medi 2021 |

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Polisi Pryderon a Chwynion (Corfforaethol)







Awdur a Gwasanaeth: Marie-Neige Hadfield, Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

Dyddiad ei gymeradwyo gan y Cabinet: 23 Medi 2021

Asesiad Effaith Integredig (Oes/Nac oes): Nac oes

Dyddiad cyhoeddi: 1af Hydref 2021

Dyddiad Adolygu'r Polisi: 31ain Mawrth 2024

# Polisi Pryderon a Chwynion

## Datganiad Egwyddorion

Bydd prosesau trin cwynion effeithiol yn:

### Canolbwyntio ar yr Achwynydd

- Dylai'r achwynydd bob amser fod wrth galon y broses cwynion
- Mae angen i ddarparwyr gwasanaeth fod yn hyblyg wrth ymateb i anghenion gwahanol yr achwynydd

### Syml

- Dylai'r prosesau ar gyfer cwynion fod yn hysbys i bawb, yn hawdd i'w dilyn ac ni ddylent fod â dim mwy na dau gam.
- Dylai gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth a chefnogaeth fod ar gael
- Dylai'r ymateb i gŵyn amlinellu'r cam nesaf yn glir a hawl yr achwynydd i fynd at yr Ombwdsmon

### Teg a Gwrthrychol

- Dylai achwynwyr dderbyn ymateb cyflawn a phriodol i'w pryderon
- Dylid trin achwynwyr a staff y gwnaed cwynion amdanynt yn gyfartal ac ag urddas

### Amserol ac Effeithiol

- Dylid datrys cwynion yn brydlon, pan fo hynny'n bosibl, a dylai ymchwiliadau fod yn drylwyr ac wedi'u cwblhau mor gyflym â phosibl.
- Dylid rhoi gwybod i achwynwyr beth sy'n digwydd drwy gydol proses ymchwilio hirfaith.

### Atebol

- Dylai achwynwyr dderbyn eglurhad gonest ac eglur am ganfyddiadau ymchwiliad i'w cwyn.
- Dylai darparwyr gwasanaeth egluro wrth achwynwyr pa newidiadau a fydd yn cael eu gwneud os yw eu cwyn yn cael ei chadarnhau, ble bynnag fo'n bosibl.

### Ymrwymedig i Welliant Parhaus

- Dylid casglu a dadansoddi'r wybodaeth o'r cwynion.
- Dylid rhannu data gydag uwch arweinwyr Cyngor Sir Ceredigion a'r Ombwdsmon i gefnogi gwella prosesau ymdrin â chwynion a darpariaeth gwasanaeth.
- Dylai gwneuthurwyr penderfyniadau adolygu'r wybodaeth a gasglwyd o'r cwynion yn rheolaidd wrth gynllunio darpariaeth gwasanaeth.

# Polisi Pryderon a Chwynion

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddelio mewn ffordd effeithiol gydag unrhyw bryderon neu gŵynion sydd gennych am ein gwasanaethau. Byddwn yn trin pobl yn deg a chyda pharch ac yn gwrando ar adborth gan ein defnyddwyr gwasanaeth pan aiff pethau o chwith.

Ein nod yw egluro unrhyw faterion yr ydych yn ansicr amdanynt. Os oes modd, byddwn yn unioni unrhyw gamgymeriadau a wnaethom. Byddwn yn darparu unrhyw wasanaeth y mae gennych yr hawl i'w gael os ydym wedi methu â darparu'r gwasanaeth hwnnw. Os byddwn wedi gwneud rhywbeth o'i le, byddwn yn ymddiheuro a phan fo modd, byddwn yn ceisio cywiro pethau i chi. Yn ogystal, ein nod yw dysgu o'n camgymeriadau a defnyddio'r wybodaeth a ddaw drwy gŵynion er mwyn gwella ein gwasanaethau.

## Safonau'r Gymraeg

Gallwch fynegi eich cwyn wrth unrhyw aelod o staff y Cyngor, yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn dibynnu ar eich dewis iaith. Yn unol â dyletswydd y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, byddwn yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith.

Gellir gwneud cwynion hefyd ynghylch sut mae'r Cyngor yn gweithredu neu'n cydymffurfio â'r Safonau, neu safon y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cwynion o'r natur hwn yn cael eu rhannu â Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor a bydd cyfle i chi gyfeirio eich cwyn at Gomisiynydd y Gymraeg ar unrhyw adeg.

## Pryd i ddefnyddio'r polisi hwn

Pan fyddwch yn mynegi eich pryderon neu'ch cwyn i ni, byddwn fel arfer yn ymateb yn y ffordd a esbonnir gennym isod. Fodd bynnag, weithiau efallai y bydd gennych chi hawl i gael apêl statudol e.e. i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi caniatâd cynllunio i chi neu'r penderfyniad i beidio cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol benodol. Os felly, yn hytrach nag ymchwilio i'ch cwyn, byddwn yn esbonio i chi sut y gallwch apelio. Weithiau, efallai y byddwch yn pryderu am faterion nad ydynt yn dod o dan gwmpas y polisi hwn, e.e. pan fo fframwaith cyfreithiol yn berthnasol neu petai angen hawlio ar yswiriant. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn rhoi cyngor i chi ynghylch sut i fynegi eich pryderon i'r corff priodol.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol os bydd y mater yn ymwneud â mater Rhyddid Gwybodaeth neu faterion yn ymwneud â mynediad at ddata. Dylech anfon eich cais yn ysgrifenedig yn yr achosion hynny i'r gwasanaeth priodol:

Rhyddid Gwybodaeth
Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE
foi@ceredigion.gov.uk

Diogelu Data
Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE
data.protection@ceredigion.gov.uk

DRAFT

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i gŵynion a wneir sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod polisi statudol ar wahân ar gyfer hynny (h.y. "*A ydym yn llygad ein lle?*"). Nid yw'r polisi hwn ychwaith yn ymwneud â chwynion yn erbyn ysgolion. Er y gall y Cyngor roi cyngor i ysgolion ynghylch eu gweithdrefnau trin cwynion, Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod cwynion yn cael eu rheoli yn unol â gweithdrefnau cwyno yr ysgol ei hun. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau cwyno'r ysgol a chopi o'u polisi trwy gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol.

## Ydych chi'n gofyn i ni ddarparu gwasanaeth?

Os ydych yn dod atom i ofyn am wasanaeth penodol (e.e. adrodd nad yw'r biniau wedi'u casglu, gofyn am apwyntiad ac ati), ni fydd y polisi hwn yn berthnasol. Os byddwch yn gwneud cais am wasanaeth ac os na fyddwch yn fodlon gyda'n hymateb, bydd modd i chi fynegi eich pryderon fel yr ydym yn ei ddisgrifio isod.

## Pryd dylech chi gwyno?

Fel arfer, dim ond os ydych yn dweud wrthym am bryderon o fewn chwe mis i'r digwyddiad yr ydych yn cwyno amdano y byddwn yn gallu ymchwilio iddyn nhw. Mae hyn oherwydd ei bod yn well ystyried eich pryderon tra bod y mater yn dal yn fyw yng nghof pawb.

Mewn achos eithriadol, gallwn gytuno i edrych ar faterion sydd wedi digwydd fwy na chwe mis yn ôl, ond bydd yn rhaid i chi esbonio pan na ddaethoch â'r pryder atom yn gynt. Byddwn wedyn yn pwyso a mesur i weld a oes digon o wybodaeth ar gael i gefnogi cynnal ymchwiliad y tu allan i'r amserlen arferol. Yn sicr, ni fyddwn yn ystyried unrhyw bryderon am faterion a ddigwyddodd dros dair blynedd yn ôl.

Os ydych chi'n mynegi pryder ar ran rhywun arall, bydd angen eu cytundeb i chi weithredu ar eu rhan.

## Beth os oes mwy nag un corff yn rhan o'r pryder?

Os yw eich cwyn yn ymwneud â mwy nag un corff (e.e. cymdeithas dai), byddwn fel arfer yn gweithio gyda nhw i benderfynu pwy ddylai gymryd yr arweiniad wrth ddelio â'ch pryderon. Yna byddwch chi'n cael enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am gyfathrebu â chi wrth i ni ystyried eich cwyn.

Os yw eich cwyn am gorff sy'n gweithio ar ein rhan (e.e. contractwyr trwsio), gallech godi'r mater gyda nhw yn anffurfiol yn gyntaf gan ein bod yn disgwyl i sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i'r cyngor fod â'u polisi Cwynion eu hunain. Os ydych yn anfodlon â'r ymateb, ac yr hoffech fynegi'ch pryder neu'ch cwyn gyda'r Cyngor, byddwn yn edrych i mewn i'r mater ein hunain ac yn ymateb i chi, cyn belled â bod y contractwyr wedi cael y cyfle i ymateb i chi'n uniongyrchol.

## Sut i wneud cwyn

Gallwch fynegi eich pryder mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Gofyn am gopi o'n ffurflen gwyno gan yr unigolyn rydych chi eisoes mewn cysylltiad ag ef. Dywedwch wrthyn nhw eich bod chi am i ni ddelio â'ch cwyn yn unol â'r polisi hwn.

- Cysylltu â'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ar 01545 574151 os hoffech gwyno dros y ffôn.
- Defnyddio'r ffurflen gwyno ar ein gwefan.
- Anfon e-bost atom i: complaints@ceredigion.gov.uk
- Ysgrifennu atom: Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn Aberystwyth, SY23 3UE

Ein nod yw sicrhau bod ffurflenni mynegi pryder a chwyno ar gael yn ein holl fannau cyhoeddus, e.e. yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd cymunedol.

O ofyn amdanynt, mae modd cael copïau o'r polisi hwn a'r ffurflen gwyno mewn ieithoedd eraill, yn ogystal â chopïau sain a phrint mawr.

## Delio â'ch cwyn – CAM 1 (Datrys yn Anffurfiol)

Os oes modd, credwn mai'r ffordd orau o ddelio gyda phethau yw yn syth yn hytrach na cheisio'u datrys yn nes ymlaen. Os oes modd, codwch y mater gyda'r person yr ydych yn delio â nhw, neu eu rheolwr llinell, er mwyn iddyn nhw geisio datrys y mater drosoch yn y fan a'r lle a gwneud yn siŵr bod unrhyw wersi yn cael eu dysgu o ganlyniad.

Os na fydd modd i'r aelod o staff neu reolwr eich helpu, byddant yn trosglwyddo eich pryderon at y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth i'w hystyried ymhellach o dan Gam 1 y Polisi Pryderon a Chwynion.  Fel y nodir uchod, gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn uniongyrchol i sôn am eich pryderon.

**Ar Gam 1:**

- Byddwn yn cydnabod eich pryder o fewn **2 diwrnod gwaith** ac yn rhoi gwybod i chi sut y bwriadwn ddelio ag ef.
- Byddwn yn gofyn i chi sut y byddech chi'n hoffi i ni gyfathrebu â chi a gweld a oes gennych unrhyw ofynion arbennig – er enghraifft, eich dewis iaith neu os oes angen dogfennau mewn print bras arnoch.
- Byddwn yn delio â'ch pryder mewn ffordd agored a gonest.
- Byddwn yn gwneud yn siŵr nad yw eich ymwneud â ni yn y dyfodol yn dioddef oherwydd i chi fynegi pryder neu wneud cwyn.
- Byddwn yn ymateb yn ffurfiol i'ch cwyn o fewn **10 diwrnod gwaith** gan roi gwybod i chi beth yw ein canfyddiadau a'r hyn rydym wedi'i wneud i ddatrys pethau. Os na fyddwn yn llwyddo i ymateb i chi o fewn yr amserlen hon, **byddwn yn uwchgyfeirio eich cwyn i Gam 2**, sef Ymchwiliad Ffurfiol. Bydd y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi gwybod i chi am y trefniadau hyn.
- Os ydych yn dal i fod yn anfodlon â chanlyniad eich cwyn yng Ngham 1, bydd yr ymateb a gewch gennym yn eich hysbysu y gallwch ofyn am ddwysáu'ch cwyn i Gam 2: Ymchwiliad Ffurfiol ond bydd yn rhaid i chi wneud hynny cyn pen **20 diwrnod gwaith** o ddyddiad yr ymateb a gawsoch i Gam 1.
- Bydd yn rhaid i chi egluro pam eich bod yn credu nad ydym wedi ymdrin yn iawn â'ch cwyn yng Ngham 1.

DRAFT

## Delio â'ch cwyn – CAM 2 (Ymchwiliad Ffurfiol)

Os nad ydym wedi llwyddo i ddatrys eich cwyn yn foddhaol yng Ngham 1, os ydym wedi cymryd mwy o amser na'r amserlenni a nodir o dan Gam 1, neu os yw eich pryderon yn gymhleth neu o natur fwy difrifol, byddwn yn cynnal ymchwiliad ffurfiol i'ch cwyn.

**Ar Gam 2:**

- Byddwn yn cydnabod eich pryder yn ffurfiol cyn pen **5 diwrnod gwaith** ac yn rhoi gwybod i chi sut y bwriadwn ddelio ag ef.
- Byddwn yn gofyn i chi sut y byddech chi'n hoffi i ni gyfathrebu â chi a gweld a oes gennych unrhyw ofynion arbennig – er enghraifft, eich dewis iaith neu os oes angen dogfennau mewn print bras arnoch.
- Byddwn yn delio â'ch pryder mewn ffordd agored a gonest.
- Byddwn yn gwneud yn siŵr nad yw eich ymwneud â ni yn y dyfodol yn dioddef oherwydd i chi fynegi pryder neu wneud cwyn.
- Efallai y byddwn yn gofyn am gael cyfarfod â chi i drafod eich cwyn neu efallai y byddwn yn awgrymu dull arall i geisio datrys pethau (e.e. cyfryngu neu gyfarfod datrys).
- Byddwn yn anelu at ymateb yn ffurfiol i'ch cwyn o fewn **20 diwrnod gwaith**, gan eich hysbysu o'n canfyddiadau a'r hyn yr ydym wedi'i wneud i ddatrys pethau. Os na allwn ymateb i chi o fewn yr amserlen hon, bydd y Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi am yr oedi, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr ymchwiliad a rhoi dyddiad ymateb diwygiedig i chi.
- Byddwn yn cynnwys gwybodaeth yn ein hymateb ffurfiol ynghylch sut y gallwch fwrw ymlaen â'ch cwyn os ydych yn parhau yn anfodlon â'r canlyniad neu'r esboniadau a roddwyd. Y rhain fel arfer yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ond gall hefyd fod yn Gomisiynydd y Gymraeg os yw eich cwyn yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg, neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os yw eich cwyn yn ymwneud â rheoli gwybodaeth.

### Ymchwilio

Byddwn yn dweud wrthych pwy sydd wedi'i benodi i ymchwilio i'ch cwyn. Os yw eich cwyn yn syml, byddwn fel arfer yn gofyn i Reolwr Corfforaethol y Gwasanaeth yr ydych wedi cwyno amdano i ymchwilio i'r mater, ac i ymateb i chi. Os yw eich cwyn yn gymhleth neu'n ddifrifol, efallai y byddwn yn gofyn i reolwr o Wasanaeth arall i ymchwilio. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn penderfynu penodi swyddog ymchwilio annibynnol.

Bydd ein Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn gadael i chi wybod sut yr ymdrinnir â'ch cwyn, pwy sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r materion rydych wedi'u codi a phryd y gallwch ddisgwyl derbyn ymateb.

Byddwn yn cyfleu i chi ein dealltwriaeth o'ch cwyn ac yn gofyn i chi gadarnhau bod y manylion hyn yn gywir. Byddwn hefyd yn gofyn i chi ddweud wrthym pa ganlyniad yr ydych yn gobeithio ei sicrhau. Mae'n bosibl y bydd angen i ni hefyd drafod eich cwyn gyda chi yn fwy manwl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl os bydd angen hyn.

Bydd y person sy'n ymchwilio i'ch pryderon am gadarnhau'r ffeithiau yn y lle cyntaf. Bydd graddau'r ymchwiliad yn dibynnu ar ba mor gymhleth a pha mor ddifrifol yw'r materion a godwyd, ac mewn rhai achosion, mae'n bosibl y byddwn yn creu cynllun ymchwilio.



DRAFT

Bydd y swyddog ymchwilio yn edrych ar dystiolaeth berthnasol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth a roesoch chi i ni, ein ffeiliau achos, nodiadau sgyrsiau ac ati. Mae'n bosibl y bydd y swyddog ymchwilio yn cynnal cyfweliadau â staff ac yn edrych ar ein polisïau ac unrhyw hawliadau a chanllawiau cyfreithiol.

## Canlyniad

Os oes ateb syml a fyddai'n datrys eich cwyn, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn a ydych yn hapus i dderbyn hwnnw. Er enghraifft, os gofynnoch chi am wasanaeth a'n bod yn gweld yn syth y dylech fod wedi'i gael, byddwn yn cynnig darparu'r gwasanaeth yn hytrach na chynnal ymchwiliad ffurfiol i'ch cwyn.

Os ydym yn ymchwilio'n ffurfiol i'ch cwyn, byddwn yn eich hysbysu o'n canfyddiadau. Os oes angen, byddwn yn llunio adroddiad. Byddwn yn esbonio sut a pham y daethom i'n casgliadau.

Os byddwn yn darganfod ein bod wedi gwneud camgymeriad, byddwn yn dweud wrthych yr hyn ddigwyddodd a pham.

Os byddwn yn darganfod bod nam yn ein systemau neu'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau, byddwn yn dweud wrthych amdano a sut yr ydym yn bwriadu newid pethau er mwyn ei atal rhag digwydd eto.

Os byddwn wedi gwneud camgymeriad, byddwn wastad yn ymddiheuro'n ffurfiol gyda'n hymateb.

## Unioni'r sefyllfa

Os na wnaethom ddarparu'r gwasanaeth y dylech fod wedi ei gael, byddwn yn ceisio ei ddarparu nawr os oes modd. Os na wnaethom rywbeth yn iawn, byddwn yn ceisio unioni'r sefyllfa. Os ydych ar eich colled o ganlyniad i gamgymeriad a wnaethom ni, byddwn yn ceisio'ch rhoi yn ôl yn y sefyllfa y byddech wedi bod ynddi pe byddem wedi gweithredu yn y ffordd gywir.

Os oeddech yn gymwys i gael cyllid ac na roesom y cyllid hwnnw, byddwn yn ceisio ad-dalu'r gost.

Bydd ein hymateb ffurfiol i'ch cwyn yn rhoi manylion unrhyw gamau y byddwn yn eu cymryd i unioni pethau.

## Yr Ombwdsmon

Os nad ydym yn llwyddo i ddatrys eich cwyn, gallwch gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar bob corff llywodraeth a gall ymchwilio i'ch cwyn os ydych yn credu eich bod chi'n bersonol, neu'r sawl yr ydych yn cwyno ar ei ran:

- Wedi cael eich trin yn annheg neu wedi cael gwasanaeth gwael drwy ryw fethiant ar ran y darparwr gwasanaeth.
- Wedi bod o dan anfantais bersonol gan fethiant gwasanaeth neu wedi cael eich trin yn annheg.

Fel arfer bydd yr Ombwdsmon yn disgwyl i chi ddod â'ch pryderon i'n sylw ni yn gyntaf a rhoi cyfle i ni unioni pethau. Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon drwy:

- Ffôn: 0300 790 0203



DRAFT

- E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
- Gwefan: www.ombwdsmon.cymru
- Yn ysgrifenedig: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

## Dysgu gwersi

Rydym yn cymryd eich pryderon a'ch cwynion o ddifrif ac yn ceisio dysgu o unrhyw gamgymeriadau a wnaethom. Mae Tîm ein Prif Swyddogion yn ystyried crynodeb o'r holl gŵynion bob chwarter ac yn cael gwybod am bob cwyn ddifrifol.

Mae Cabinet y Cyngor i Aelodau Etholedig hefyd yn ystyried sut yr ydym yn cyflawni mewn perthynas â chwynion o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Rydym yn rhannu gwybodaeth gryno (ddienw) ar y cwynion a dderbyniwyd a chanlyniadau cwynion gyda'r Ombwdsmon fel rhan o'n hymrwymiad i atebolrwydd a dysgu o gŵynion.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rydym hefyd yn rhoi gwybodaeth o leiaf ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am berfformiad cwynion y Cyngor a'i allu i ymdrin yn effeithiol â chwynion.

Pan fo angen newid sylweddol, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu yn dangos beth fyddwn yn ei wneud, pwy fydd yn ei wneud a phryd yr ydym yn bwriadu ei wneud.

## Beth os bydd angen help arnaf?

Bydd ein staff yn ceisio eich helpu i fynegi eich pryderon. Os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch, byddwn yn ceisio eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all helpu. Efallai y byddwch yn dymuno cysylltu gyda sefydliadau eraill:

### Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Ceredigion Independent Professional Advocacy (CIPA)

- **Gwefan**: www.cipawales.org.uk
- **E-bost**: info@cipawales.org.uk
- **Ffôn**: 0800 206 1387

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Polisi Pryderon a Chwynion hwn os ydych o dan 18 oed. Os oes angen help arnoch, gallwch siarad â rhywun ar Linell Gymorth Meic:

- **Gwefan**: www.meiccymru.org
- **Ffôn**: 0808 802 3456

Neu cysylltwch â Chomisiynydd Plant Cymru:

- **Gwefan**: www.complantcymru.org.uk
- **E-bost**: post@childcomwales.org.uk
- **Ffôn**: 0808 801 1000

## Beth yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi

Ar adegau gofidus a llawn straen, gall rhai pobl wneud pethau sy'n groes i'w cymeriad. Efallai bod amgylchiadau annifyr neu boenus wedi digwydd a hynny wedi arwain at y pryder neu'r gŵyn. Nid ydym yn ystyried bod agwedd rymus neu benderfynol yn ymddygiad annerbyniol.

Credwn fod gan bawb sy'n cwyno yr hawl i gael eu clywed, eu deall a'u parchu. Fodd bynnag, rydym yn ystyried fod gan ein staff yr un hawliau hefyd. Rydym yn disgwyl felly i chi fod yn foesgar ac yn gwrtais yn y ffordd yr ydych yn delio â ni. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol neu amharchus, disgwyliadau annerbyniol neu swnian afresymol. Mae gennym bolisi ar wahân i reoli sefyllfaoedd lle teimlwn fod gweithredoedd rhywun yn annerbyniol.

DRAFT

ATODIAD A

## FFURFLEN PRYDER / CWYN

**Sylwer**: Fel arfer, yr unigolyn a gafodd y broblem ddylai lenwi'r ffurflen hon. Os ydych yn ei llenwi ar ran rhywun arall, llenwch **Adran B**.

### A: Eich manylion

| **Teitl:** | **Enw(au) cyntaf:** | **Cyfenw:** |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad a chod post:** | | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | |
| **Rhif ffôn yn ystod y dydd:** | | |
| **Dywedwch sut hoffech chi i ni gysylltu â chi:** | | |

**Eich gofynion**: os yw ein ffordd arferol o ddelio â chwynion yn ei gwneud yn anodd i chi ddefnyddio'n gwasanaeth, er enghraifft os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf neu os ydych angen cysylltu â ni mewn ffordd arbennig, dywedwch wrthym er mwyn i ni drafod sut gallwn eich helpu chi.

### B: GWNEUD CWYN AR RAN RHYWUN ARALL

EU MANYLION:

**Sylwer**: Mae'n rhaid i ni fod yn fodlon fod gennych yr awdurdod i weithredu ar ran yr unigolyn a gafodd y broblem.

| | |
|---|---|
| **Eu henw yn llawn:** | |
| **Cyfeiriad a chod post:** | |
| **Beth yw eich perthynas â nhw?** | |
| **Pam ydych chi'n gwneud cwyn ar eu rhan?** | |

DRAFT

## C: Ynghylch eich pryder/cwyn

(dylech barhau â'ch atebion i'r cwestiynau canlynol ar dudalen(nau) ar wahân os oes angen)

**C.1** Enw'r adran/adain/gwasanaeth yr ydych yn cwyno amdano/amdani:

**C.2** Yn eich barn chi, beth wnaethant o'i le neu beth na wnaethant ei wneud?

**C.3** Disgrifiwch sut yr ydych chi yn bersonol wedi dioddef neu gael eich effeithio:

**C.4** Yn eich barn chi, beth ddylid ei wneud er mwyn cywiro'r sefyllfa?

**C.5** Pryd wnaethoch chi ddod yn ymwybodol o'r broblem yn gyntaf?

**C.6** A ydych eisoes wedi cyfleu eich pryder i'r staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth? Os ydych, esboniwch sut a phryd y gwnaethoch chi hyn:

**C.7** Os oes mwy na 6 mis wedi mynd heibio ers i chi ddod yn ymwybodol o'r broblem, nodwch eich rheswm dros beidio cwyno cyn nawr:

Os oes gennych chi unrhyw ddogfennau i gefnogi'ch pryder/cwyn, dylech eu hatodi ynghlwm wrth y ffurflen hon.

Llofnod: ______________________________________ Dyddiad:_______________

Ar ôl llenwi'r ffurflen hon, anfonwch hi at:

Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 3UE neu dros e-bost i: complaints@ceredigion.gov.uk.



DRAFT

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Gweithdrefn Pryderon a Chwynion Corfforaethol





Awdur a Gwasanaeth: Marie-Neige Hadfield, Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: 23ain Medi 2021
Dyddiad Adolygu: 31ain Mawrth 2024

# Gweithdrefn Pryderon a Chwynion

## Canllawiau i staff ar sut i ddelio â chwynion

Dylid ystyried y ddogfen hon ar y cyd â Pholisi Pryderon a Chwynion y Cyngor (fersiwn 2021) ac mae'n egluro'r gofynion a'r ystyriaethau i sicrhau rheoli effeithio ar gŵynion corfforaethol.

Mae Polisi Pryderon a Chwynion (corfforaethol) y Cyngor a Pholisi a Gweithdrefnau Cwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau mewn perthynas ag Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) a gyflwynwyd fel rhan o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Pwrpas yr Awdurdod Safonau yw sicrhau bod gan bob Cyngor yng Nghymru weithdrefn unffurf ar gyfer rheoli ac adrodd ar bob gweithgarwch cwyno.

## 1 Cyflwyniad

1.1 Dylid ystyried cwynion fel ffordd gadarnhaol o gynyddu boddhad cwsmeriaid a nodi cyfleoedd i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Pwrpas y weithdrefn hon yw egluro i staff ar bob lefel sut mae Polisi Pryderon a Chwynion y Cyngor yn gweithredu a rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddelio â phryderon a chwynion.

1.2 Yn dilyn creu'r Awdurdod Safonau Cwynion yn 2019, datblygwyd Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol i'w ddefnyddio gan yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Nod y Polisi hwn oedd creu proses safonol, symlach a llyfn ar gyfer delio â chwynion a wneir gan aelodau'r cyhoedd. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Safonau Cwynion yn:

- Yn cefnogi Awdurdodau Lleol i ddelio'n effeithiol â chwynion
- Yn casglu ac yn cyhoeddi data o'r adroddiadau chwarterol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol
- Yn cyflwyno pecynnau hyfforddi pwrpasol i Awdurdodau Lleol

1.3 Bydd y Polisi Pryderon a Chwynion ar gael yn holl adeiladau'r Cyngor ac ar ei gwefan yn ogystal ag ar gais o'r Gwasanaeth Cwynion a Rheoli Gwybodaeth – felly hefyd bolisïau cysylltiedig eraill (sef Polisi a Gweithdrefnau Cwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol; Polisi Rhyddid Gwybodaeth a'r Polisi Gwybodaeth Amgylcheddol).

## 2 Beth yw cwyn?

2.1 **'Cwyn'** yw:-

- mynegiant o anfodlonrwydd neu bryder
- wedi'i gwneud yn ysgrifenedig neu ar lafar neu drwy unrhyw ddull cyfathrebu arall
- wedi'i gwneud gan un neu fwy o aelodau o'r cyhoedd
- ynghylch rhywbeth y mae darparwr gwasanaethau cyhoeddus wedi'i wneud neu heb ei wneud
- neu ynghylch safon y gwasanaeth a ddarparwyd

**- sy'n gofyn am ymateb**.

## 3 Pryd mae'r Polisi Cwynion yn berthnasol?

3.1 Nid oes angen trin pob mynegiant o anfodlonrwydd yn gŵyn sy'n gofyn am ymateb ffurfiol o dan y Polisi Pryderon a Chwynion. Mae pob gwasanaeth yn derbyn sylwadau, ymholiadau ac adroddiadau am broblemau fel rhan arferol o'u busnes o ddydd i ddydd. Dylid gwneud pob ymdrech i ddelio â'r materion hyn ar unwaith yn y fan a'r lle, naill ai trwy roi gwybodaeth, cychwyn y camau priodol neu egluro penderfyniad. Dylid rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth am eu hawl i gwyno o dan y Polisi Pryderon a Chwynion os ydynt yn anfodlon â'r ymateb a gawsant gan y Gwasanaeth.

3.2 **Ni** fydd y canlynol yn cael eu trin fel cwynion o dan y Polisi hwn:

- cais cyntaf am wasanaeth (e.e. adrodd am olau stryd diffygiol)
- apêl yn erbyn penderfyniad '*a wnaed yn briodol*' gan y Cyngor (h.y. penderfyniad y mae gan y Cyngor hawl i'w wneud a phan fo'r deddfau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol wedi'u dilyn yn gywir)
- sylwadau ynghylch polisi'r Cyngor neu newid polisi arfaethedig (e.e. codi Treth Gyngor, newidiadau i ba mor aml y cesglir sbwriel)
- ymdrechion i geisio newid deddfwriaeth neu benderfyniad polisi a wnaed yn briodol, neu ymdrechion gan grwpiau/sefydliadau lobïo er mwyn ceisio hyrwyddo achos
- cwynion y mae datrysiad cyfreithiol iddynt neu pan fo achosion cyfreithiol eisoes yn bodoli
- cwynion am drydydd parti (e.e. cymdogion swnllyd, dirwyon parcio a roddir gan gwmnïau meysydd parcio preifat)

3.3 **Ni ddylid** ystyried y mathau canlynol o gŵynion o dan y Polisi, gan y byddent yn dod o dan drefniadau gwahanol; mae rhagor o fanylion am hyn ar gael gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth:

- cwynion am ysgolion *(gweler polisi ysgolion unigol a fydd yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu Ysgolion Llywodraeth Cymru; cylchlythyr 011/2012; Hydref 2012)*
- cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol *(gweler Polisi Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- cwynion lle mae gweithdrefn arall ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad, e.e. apeliadau cynllunio, apeliadau budd-dal tai neu hysbysiadau tâl cosb (*gweler y polisi / gwasanaeth perthnasol i gael arweiniad pellach*)
- cwynion am ymddygiad Cynghorydd *(gweler y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr)*
- hawliadau posibl am iawndal – dylid atgyfeirio'r rhain at adran Yswiriant y Cyngor (*i'w ymdrin yn unol â'r polisi Gwasanaethau Ariannol perthnasol)*
- cwynion gan y cyhoedd neu aelodau staff am ymddygiad gweithwyr, materion cyflogaeth neu gŵynion am benderfyniadau recriwtio; dylid atgyfeirio pob un o'r rhain at y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth (*y gŵyn i'w datrys o dan bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol perthnasol*).

## 4 Sut mae Polisi Pryderon a Chwynion y Cyngor yn gweithio?

4.1 Gellir cysylltu â'r Gwasanaeth Cwynion a RhG i gael cyngor ac arweiniad mewn perthynas â'r Polisi Pryderon a Chwynion ac, fel gwasanaeth canolog, corfforaethol, bydd y Gwasanaeth hwn yn cydlynu ac yn cynorthwyo â'r ymateb i bryderon a chwynion ac â'u

datrys. I gael cyngor pellach am y trefniadau hyn, gellir cysylltu â'r Gwasanaeth Cwynion a RhG dros y ffôn ar: 01545 574151 neu drwy e-bost: complaints@ceredigion.gov.uk.

4.2 Gwelwyd yn gyson mai ymyrraeth gynnar i ddatrys pryder yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â materion ac i ennyn ffydd y defnyddiwr gwasanaeth, er efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl. Gall y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth roi cymorth ychwanegol i wasanaethau i atal mater rhag dod yn gŵyn; fodd bynnag, y gwasanaeth sy'n destun y gŵyn yn y pen draw sy'n gyfrifol am ddatrys y pryder/cwyn.

4.3 Mae dau gam i Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor, a'r ddau gam yn gofyn am weithredu prydlon gan y gwasanaeth(au) sy'n destun y gŵyn. Mae'r amserlenni yn wahanol yn y ddau gam a bydd y Gwasanaeth Cwynion a RhG yn cydlynu ac yn cynorthwyo â chydnabod y gŵyn mewn da bryd, ymateb mewn pryd a rhoi diweddariadau amserol mewn perthynas â'r holl weithgarwch yn ymwneud â chwynion (h.y. llythyrau cydnabod, ymatebion ffurfiol ac ati).

4.4 Yn y diagram isod ceir amlinelliad o amserlenni pob cam fel yr amlinellir yn y Polisi. Bydd yn ofynnol i Reolwyr Gwasanaeth, Rheolwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol (SAC), yn unol â'r achos penodol, sicrhau bod ymchwiliadau ac ymatebion yn cael eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth **cyn** yr amserlenni penodedig – fel yr amlinellir yn y testun mewn coch isod.

**Cam 1: Datrys yn anffurfiol**

Rhaid i Reolwyr Gwasanaeth weithredu'n brydlon i ymchwilio i'r gŵyn. Gellir dod o hyd i wybodaeth fwy penodol ynghylch y cam hwn yn Adran 7.

Yng nghyswllt datrys yn gynnar, rhaid ymateb i bob cwyn Cam 1 o fewn **10 diwrnod gwaith***

Bydd yn rhaid i Reolwyr Gwasanaeth gyflwyno eu hymateb i'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth o fewn 8 diwrnod gwaith

**Bydd methu ag ymateb i gŵyn Cam 1 o fewn yr amserlen benodedig o 10 diwrnod gwaith yn arwain at symud y gŵyn yn awtomatig i Ymchwiliad Ffurfiol Cam 2. O'r herwydd, hysbysir y Rheolwr Corfforaethol a'r SAC a bydd angen cwblhau'r broses o fewn y 10 diwrnod gwaith sy'n weddill i'r gŵyn (sydd bellach yng Ngham 2).*

**<u>Cam 2: Ymchwiliad Ffurfiol</u>**

Bydd Rheolwyr Corfforaethol (ac weithiau Swyddog Arweiniol Corfforaethol) yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cwynion a RhG i enwi Swyddog Ymchwilio addas i gynnal yr ymchwiliad ffurfiol. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen penodi Swyddog Ymchwilio Annibynnol. Mae rhagor o wybodaeth fwy penodol am hyn yn Adran 8.

Dylid ymateb i gŵynion Cam 2 cyn pen **<u>20 diwrnod gwaith</u>**. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai rhai ymchwiliadau gymryd mwy o amser na hyn. Os na fydd yn bosibl darparu ymateb sylweddol i'r achwynydd o fewn yr amserlen benodedig, am unrhyw reswm, rhaid i'r Swyddog Ymchwilio hysbysu'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r Rheolwr Corfforaethol / Swyddog Arweiniol Corfforaethol a benodwyd i ymchwilio i gŵyn yng Ngham 2 ddarparu eu hymateb ac/neu adrodd i'r Gwasanaeth Cwynion a RhG o fewn <u>18 diwrnod gwaith</u>. Neu, os rhagwelir na fydd hyn yn bosibl, rhaid iddynt hysbysu'r Gwasanaeth Cwynion a RhG er mwyn trefnu dweud wrth yr achwynydd.

4.5 Egwyddor sylfaenol rheoli cwynion ar y cam ffurfiol yw '***Ymchwilio Unwaith, Ymchwilio'n Dda***'. Rhaid rhoi pwyslais ar bwysigrwydd cynnal ymchwiliad trylwyr sy'n mynd i'r afael â phob agwedd ar gŵyn yn hytrach nag ailymweld â materion a chynnal ymchwiliadau lluosog ar wahanol lefelau o fewn y Cyngor.

4.6 Bydd pob ymateb ffurfiol Cam 2 yn cynnwys manylion ar sut y gall yr achwynydd atgyfeirio ei gŵyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (neu Gomisiynydd y Gymraeg os yw'r gŵyn yn ymwneud â methiant i gadw at Safonau'r Gymraeg) os yw'r achwynydd yn dal i fod yn anfodlon.

4.7 Mae rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau at yr Ombwdsmon a Chomisiynydd y Gymraeg i'w gweld isod yn Adrannau 11 a 12, yn y drefn honno.

# 5 Pwy sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion?

5.1 Gall unrhyw aelod o staff fod ynghlwm â chŵyn o bryd i'w gilydd, yn enwedig staff rheng flaen sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o ddydd i ddydd. Nod y weithdrefn hon, ochr yn ochr â'r Polisi ei hun, yw galluogi **pob** aelod o staff i weld cwynion posibl wrth i'r gŵyn godi a grymuso'r staff hynny i ddatrys unrhyw faterion yn y fan a'r lle neu eu huwchgyfeirio trwy eu sianelau rheoli.

5.2 Dylid ystyried bod datrys pryderon neu ymholiadau a dderbynnir yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth neu trwy'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ac/neu Clic yn rhan annatod o ddarparu gwasanaeth arferol. Mewn achosion lle na ellir datrys pryder yn y modd hwn, dylid hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth ynghylch sut y gallant wneud cwyn ac/neu dylid atgyfeirio'r mater at y Gwasanaeth Cwynion a RhG i'w gofnodi.

5.3 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant priodol ar gyfer staff ar bob lefel ynghylch safonau corfforaethol yn ymwneud â delio â chwynion. Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.

# 6 Derbyn cwyn

6.1 Gall achwynydd wneud cwyn yn y cnawd, dros y ffôn, drwy e-bost, drwy lythyr neu trwy'r ffurflen gwyno ar-lein i unrhyw aelod o staff y Cyngor. Mae'n bwysig bod y gŵyn ac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r achwynydd yn cael ei throsglwyddo ar unwaith i'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.

6.2 Yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor o dan Fesur y Gymraeg 2011, gall person wneud cwyn yn Gymraeg neu yn Saesneg – pa un bynnag yw ei ddewis iaith. Dilynir y broses gŵynion, yn ei chyfanrwydd, yn unol â'r dewis hwn (h.y. anfon llythyr cydnabod, llythyr ymateb ac ati yn Gymraeg).

6.3 Fel rheol dim ond cwynion a wneir cyn pen **6 mis** ar ôl y digwyddiad a ysgogodd y gŵyn y bydd y Cyngor yn eu hystyried, oni bai bod rhesymau da iawn dros beidio â dwyn y mater i sylw'r Cyngor yn gynharach. Yn sicr, ni fydd y Cyngor yn ystyried cwynion am faterion a ddigwyddodd fwy na thair blynedd yn ôl.

6.3 Dylai unrhyw aelod o staff sy'n derbyn cwyn hysbysu'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ar unwaith.

6.4 Os yw'r achwynydd yn dymuno gwneud ei gŵyn ar lafar (yn y cnawd neu dros y ffôn) rhaid eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cwynion a RhG. Neu, gall yr aelod staff sy'n ymwneud â'r mater drosglwyddo i'r Gwasanaeth Cwynion a RhG unrhyw wybodaeth y maent yn ei chasglu, yn ogystal â gwybodaeth ar sut i gysylltu â'r achwynydd.

6.5 Ar ôl i'r Gwasanaeth Cwynion a RhG dderbyn y gŵyn, caiff y gŵyn ei hasesu a chysylltir â'r Rheolwr Gwasanaeth / Rheolwr Corfforaethol / SAC perthnasol er mwyn:

(a) ystyried a yw'r Polisi Pryderon a Chwynion yn berthnasol,
(b) gwirio a yw'r cyfnod ar gyfer gwneud cwyn wedi dod i ben,
(c) cytuno ar y Cam mwyaf priodol i ymchwilio i'r gŵyn.

6.6 Bydd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth wedyn yn cofnodi'r gŵyn yn y gronfa ddata cwynion yn unol â'r camau y cytunwyd arnynt gyda'r gwasanaeth.

6.7 Wrth ystyried a ddylid delio â chwyn o dan Gam 1 neu Gam 2 y Polisi Pryderon a Chwynion, dylid pwyso a mesur y cwestiynau isod. Os mai 'ydy' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, mae'n debygol y bydd yn fwy priodol i'r gŵyn symud ymlaen yn uniongyrchol i'w hymchwilio o dan Cam 2.

(a) A yw'r achwynydd eisoes wedi ceisio datrys y gŵyn gyda'r staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth? *(e.e. a yw hwn yn fater sydd eisoes wedi'i ystyried yn helaeth ar wahanol lefelau rheoli yn y gwasanaeth?)*

*(b)* A fu unrhyw anghydweld â'r staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth? *(e.e. a yw'r achwynydd yn amau gonestrwydd/cywirdeb y staff y maent wedi bod yn delio â nhw?)*

*(c)* A oes unrhyw resymau ehangach pam y byddai'n fwy priodol i swyddog uwch ystyried y gŵyn? *(e.e. os yw'r mater yn ymwneud â mater o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd neu os yw eraill wedi codi materion tebyg o fewn cyfnod byr)*

(d) A yw'r gŵyn yn codi unrhyw faterion difrifol neu gymhleth? (e.*e. a yw atgyfeiriad ar gyfer sgrinio diogelu wedi digwydd a'r mater bellach yn briodol i'w gwblhau o dan y Polisi Pryderon a Chwynion)*

(e) A yw'r achwynydd wedi gofyn am ymchwiliad ffurfiol neu wedi mynegi dymuniad i symud ymlaen yn syth i Gam 2? *(bydd ystyried a yw hyn yn gymesur neu'n rhesymol yn dibynnu ar amgylchiadau'r gŵyn a chanlyniad trafodaethau gyda'r gwasanaeth).*

## 7 Cam 1 – Datrys yn anffurfiol

7.1 Dylai aelod o staff sy'n gyfrifol am ymateb i gŵyn Cam 1 wneud y canlynol:

(a) Sicrhau bod y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn gwybod am y gŵyn a'i bod wedi'i chofnodi yn y gronfa ddata cwynion.

(b) Bydd y Gwasanaeth Cwynion a RhG yn cydnabod y gŵyn ac yn egluro'r trefniadau o dan Gam 1 a rhoi gwybod y byddant yn derbyn ymateb cyn pen **10 diwrnod gwaith**.

(c) Fel yr amlinellwyd yn Adran 4, os nad yw'n bosibl ymateb i'r gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith, rhaid i'r gwasanaeth hysbysu'r Gwasanaeth Cwynion a RhG cyn gynted â phosibl er mwyn i'r gŵyn gael ei throsglwyddo i Gam 2 ac iddynt hysbysu'r achwynydd yn unol â hynny. **Rhaid nodi nad yw'r 'cloc' o dan yr amgylchiadau hyn yn ailosod i roi 20 diwrnod gwaith ychwanegol; felly mae'n rhaid ymateb i'r gŵyn o fewn y 10 diwrnod gwaith nesaf ar ôl y dyddiad y'i derbyniwyd.**

(d) Wrth ymateb i gŵyn Cam 1, dywedir wrth achwynwyr y gallant ofyn am ymchwiliad ffurfiol o dan Gam 2 os nad ydynt yn fodlon â'r canlyniad. Hysbysir yr achwynydd hefyd fod angen iddynt ddarparu manylion penodol i gefnogi eu cais am ymchwiliad ffurfiol cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl i ymateb Cam 1 gael ei yrru.

(e) Mewn achosion prin, efallai na fydd unrhyw werth derbyn cais yr achwynydd i uwchgyfeirio eu cwyn am ymchwiliad ffurfiol o dan Gam 2 (h.y. os bernir na ellir cyflawni dim pellach trwy ymchwilio i faterion yng Ngham 2 neu os yw'r rhesymeg a ddarperir gan yr achwynydd yn afresymol neu'n anghymesur). Fel rheol, trafodir hyn rhwng y Gwasanaeth Cwynion a RhG a'r Gwasanaeth sydd wedi derbyn y gŵyn er mwyn cael cytundeb pawb y dylid gwrthod y gŵyn. Bydd achosion o'r fath yn cynnwys ymateb ffurfiol gan Reolwr Cwynion a RhG yn egluro pam na fydd y mater yn cael ei ymchwilio'n ffurfiol a bydd gwybodaeth ynghylch sut i gysylltu â'r Ombwdsmon yn cael ei chynnwys yn y llythyr.

(f) Yn ogystal â datrys y gŵyn, rhaid rhoi pwyslais ar **ddysgu gwersi**. At ddibenion adrodd, mae angen i'r gwasanaethau ddarparu gwybodaeth ar ddiwedd cwyn mewn perthynas ag unrhyw welliannau i'r gwasanaeth neu'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r gŵyn.

## 8 Cam 2 – Ymchwiliad Ffurfiol

8.1 Bydd gwybodaeth ynghylch sut y gellir codi cwyn i Gam 2 yn cael ei chynnwys ym mhob ymateb Cam 1 a anfonir gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, os bydd aelod o staff yn derbyn cais am ymchwiliad ffurfiol i'w cwyn, dylid anfon hwn ymlaen ar unwaith at y Gwasanaeth Cwynion a RhG.

8.2 Bydd y Gwasanaeth Cwynion a RhG yn cydlynu â Rheolwr Corfforaethol ac/neu SAC y Gwasanaeth(au) perthnasol y cyfeirir atynt yn y gŵyn mewn perthynas â'r camau gweithredu canlynol:

(a) Anfonir cydnabyddiaeth ffurfiol i'r achwynydd cyn pen **5 diwrnod gwaith**. Bydd y llythyr hwn yn egluro sut yr ymchwilir i'r mater a chan bwy, pryd y byddant yn debygol o dderbyn ymateb ac yn rhoi'r cyfle iddynt drafod eu cwyn ymhellach gyda'r Gwasanaeth ac/neu'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.

(b) Darperir copi o'r Polisi Pryderon a Chwynion ac, os nad yw'n hysbys, bydd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn holi pa ddull cyfathrebu a pha iaith gyfathrebu sydd orau gan yr achwynydd ac a oes ganddynt unrhyw ofynion penodol (e.e. a oes angen cefnogaeth arnynt wrth wneud eu cwyn neu a oes ganddynt anabledd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud addasiadau rhesymol er mwyn eu galluogi i wneud eu cwyn).

(c) Rhaid sicrhau bod caniatâd ysgrifenedig wedi'i dderbyn mewn achosion pan fo person arall yn gweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth.

(d) Cedwir yr holl wybodaeth yn y ffeil gŵynion (rhag ofn yr atgyfeirir materion at yr Ombwdsmon wedi hynny). Cofnodir manylion y gŵyn hefyd yn y gronfa ddata cwynion at ddibenion monitro ac adrodd.

(e) Os yw'r gŵyn 'y tu allan i'r cyfnod' (h.y. dros 6 mis ers y digwyddiad a ysgogodd y gŵyn) dylid ystyried a oes rhesymau da i gyfiawnhau derbyn y gŵyn waeth faint o amser sydd wedi mynd heibio.

8.3 Fel rheol, bydd Rheolwr Corfforaethol y Gwasanaeth perthnasol yn ymchwilio i gŵynion Cam 2 a byddant yn uwch nag unrhyw staff y cyfeirir atynt yn uniongyrchol yn y gŵyn. Ar adegau, efallai y bydd angen i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol gynnal ymchwiliad Cam 2. Mae'n hanfodol fodd bynnag fod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal gan uwch aelod o staff nad yw wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r materion y cyfeirir atynt yn y gŵyn. Er budd didwylledd a thryloywder (er mwyn cefnogi aelodau staff, ceisio datrys y gŵyn a chadw cywirdeb y broses) gellir ei hystyried yn fwy priodol i Reolwr Corfforaethol neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol o Wasanaeth arall ymchwilio i'r gŵyn. Bydd achosion o'r fath i'w trafod rhwng y Rheolwr Cwynion a RhG, Rheolwr Corfforaethol/SAC y Gwasanaeth sydd yn ganolbwynt i'r gŵyn a Rheolwr Corfforaethol Partneriaethau a Pherfformiad (sydd â chyfrifoldeb rheoli am y Gwasanaeth Cwynion a RhG) ac mewn achosion dadleuol iawn, y SAC ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

8.4 Mae'n hanfodol bwysig nad yw aelod o staff yn ymchwilio i gŵynion lle gallai fod gwrthdaro buddiannau (h.y. perthynas agos rhwng yr ymchwilydd ac aelod o staff sy'n gysylltiedig â'r gŵyn). Mae angen datgan unrhyw sefyllfaoedd posibl ar unwaith a phenodi ymchwilydd arall.

8.5 Efallai y bydd yn ofynnol i'r person sy'n ymchwilio i gŵyn Cam 2 wneud pob un neu rai o'r canlynol (yn dibynnu ar natur, cymhlethdod neu ddifrifoldeb y gŵyn):

(a) Cynnig trafod gyda'r achwynydd a chytuno ar y materion i ymchwilio iddynt.

(b) Cadarnhau'r canlyniadau y dymuna'r achwynydd eu cael (os nad yw hyn yn glir o'u cwyn).

(c) Ystyried a ellid datrys y mater trwy gyfrwng 'ateb cyflym' heb orfod cynnal ymchwiliad llawn e.e. trwy gynnig darparu gwasanaeth y dylai'r achwynydd fod wedi'i dderbyn.

(d) Cadw cysylltiad â'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth er mwyn gallu cofnodi cynnydd ac, os oes angen, anfon llythyrau ateb dros-dro at yr achwynydd (os nad yw'n bosibl cwblhau'r ymchwiliad o fewn yr amserlen benodedig o **20 diwrnod gwaith**).

(e) Llunio adroddiad ffurfiol (mae templed ynghlwm fel Atodiad 2) i gyd-fynd â'u hymateb. Ar ôl cwblhau'r adroddiad drafft a'r ymateb dylid eu rhannu â'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.

(f) Bydd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn sicrhau ansawdd y dogfennau ac yn cadw unrhyw dystiolaeth yn y ffeil gŵynion. Yn ogystal, byddant yn cofnodi canlyniad y gŵyn ac yn anfon yr ymateb ffurfiol yn uniongyrchol i'r achwynydd, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth orfodol wedi'i chynnwys ynddo (h.y. atgyfeirio at yr Ombwdsmon, p'un a yw'r gŵyn/cwynion wedi'u cadarnhau ai peidio).

## 9 Cofnodi ac Adrodd am Weithgarwch Cwynion

9.1 Cofnodir pob cwyn gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn y gronfa ddata cwynion. Bydd Cam, canlyniad a phrydlondeb yr ymateb i'r gŵyn yn cael eu cynnwys yn y wybodaeth hon a gofnodwyd, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am y gwersi a ddysgwyd.

9.2 Bydd y Gwasanaeth Cwynion a RhG yn rhoi adroddiad manwl i'r Awdurdod Safonau Cwynion a'r Grŵp Arweiniol bob chwarter. Bydd gweithgarwch cwynion yn cael ei adrodd i'r Cabinet ac i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ddwywaith y flwyddyn (i gynnwys yr Adroddiad Blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor gydag Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon).

9.3 Mae nodi gwersi i'w dysgu a gweithredu gwelliannau o ganlyniad i gŵynion yn feysydd gorfodol i'w llenwi yn y gronfa ddata a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chrynhoi, neu dewisir enghreifftiau, i'w chynnwys yn yr adroddiadau a lunnir. Bydd hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwneud newidiadau cadarnhaol i atal digwyddiadau yn y dyfodol.

## 10 Beth os yw'r gŵyn yn cynnwys mwy nag un Gwasanaeth Cyngor neu sefydliad arall?

10.1 Os yw'r gŵyn yn ymwneud â mwy nag un gwasanaeth yn y Cyngor, bydd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn cydlynu â'r Rheolwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol yn y Gwasanaethau perthnasol i gytuno pwy fydd yn cymryd yr awenau ar elfennau penodol y gŵyn. Bydd y Gwasanaeth Cwynion a RhG yn cydlynu'r gŵyn ac, os oes angen, yn cynnal yr ymchwiliad. Os na ellir dod i gytundeb ynghylch pwy ddylai arwain ar agwedd benodol ar gŵyn, caiff hyn ei ddatrys trwy uwchgyfeirio i'r Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Partneriaethau a Pherfformiad ac/neu'r SAC ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

10.2 Bydd cwyn sy'n ymwneud â sefydliad arall (e.e. Cymdeithas Tai neu'r Bwrdd Iechyd Lleol) yn cael ei thrafod gyda Rheolwr Corfforaethol / SAC y Gwasanaeth(au) perthnasol er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o gŵyn sy'n ymwneud â'u Gwasanaeth ac, os yw'n hysbys, cael unrhyw fanylion ganddynt am unrhyw bartïon allanol y cyfeirir atynt.

10.3 Bydd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn hysbysu'r achwynydd yn ysgrifenedig bod eu cwyn yn cynnwys sefydliad arall a bod angen eu caniatâd cyn rhannu'r

gŵyn ag unrhyw bartïon a chanddynt fuddiant. Y disgwyl yw y dylai'r sefydliad sy'n ymwneud â mwyafrif y gŵyn arwain yr ymchwiliad. Dewis arall fyddai penderfynu bod pob sefydliad yn mynd i'r afael â'i rannau ei hun o'r gŵyn o dan eu polisïau hwy gyda'r nod o ymateb yn uniongyrchol i'r achwynydd yn hytrach na chyhoeddi un ymateb ar y cyd.

10.4 Os yw'r gŵyn yn ymwneud â sefydliad sy'n darparu Gwasanaeth ar ein rhan (h.y. Gwasanaeth wedi'i gomisiynu/contractio), bydd angen ystyried a thrafod amgylchiadau pob achos unigol rhwng y Gwasanaeth Cwynion a RhG a'r Gwasanaeth a gomisiynwyd. Fel arfer, y disgwyl fyddai i'r Gwasanaeth a gomisiynwyd ymchwilio i'r gŵyn o dan eu gweithdrefnau cwyno eu hunain a rhoi copi o'u hymateb i'r Cyngor. Fodd bynnag, ar brydiau, gall yr amgylchiadau ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddilyn ei weithdrefnau cwyno ei hun (yn yr achos hwn, y Polisi Pryderon a Chwynion). Byddai angen trafod achosion o'r fath yn helaeth rhwng y Gwasanaeth Cwynion a RhG a'r Gwasanaeth a gomisiynwyd.

# 11 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

11.1 Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac yn ymchwilio i gŵynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys cwynion a wneir yn erbyn Awdurdodau Lleol. Gall achwynydd nad yw'n fodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'i gŵyn gan y Cyngor atgyfeirio eu cwyn at yr Ombwdsmon.

11.2 Gellir atgyfeirio cwyn at yr Ombwdsmon ar unrhyw adeg, ond fel rheol bydd yr Ombwdsmon yn gofyn bod y Cyngor wedi cael cyfle rhesymol i ymchwilio ac ymateb yn unol â'r Polisi Cwynion perthnasol yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i dderbyn cwyn i'w hymchwilio ar unrhyw adeg os ystyria ei bod hi'n rhesymol gwneud hynny.

11.3 Bydd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi cefnogaeth a chyngor i Wasanaethau sy'n gysylltiedig â chwynion sy'n cael eu hystyried neu eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon. Yn ogystal, bydd y Gwasanaeth Cwynion a RhG yn gallu darparu adnoddau i gynorthwyo Gwasanaethau yn ystod y broses (gan gynnwys Pecyn Cymorth yr Ombwdsmon, Taflenni Ffeithiau a chyngor ar achosion tebyg blaenorol yr adroddwyd arnynt gan yr Ombwdsmon).

11.4 Rhoddir gwybod i achwynwyr yn yr ymateb yng Ngham 2 y gallant gysylltu â'r Ombwdsmon os ydynt yn dal i fod yn anfodlon. Mae hyn hefyd yn berthnasol mewn achosion lle bernir nad yw'r Polisi Cwynion yn berthnasol, a phan wrthodir ceisiadau am ymchwiliadau Cam 2 (yn unol â phwynt 7.1(e) uchod). Dyma fanylion cyswllt yr Ombwdsmon:

- Ffôn: 0300 790 0203
- E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
- Ffurflen ar-lein: www.ombudsman-wales.org.uk
- Drwy'r post: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

11.5 Bydd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn cofnodi, monitro ac adrodd ar holl weithgarwch yr Ombwdsmon sy'n ymwneud â'r Cyngor fel rhan o'i weithdrefn adrodd chwarterol. Yn ogystal, bydd gweithgarwch yr Ombwdsmon yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau a gyflwynir i'r Cabinet, y Pwyllgor Archwilio ac unrhyw bwyllgorau perthnasol eraill ddwywaith y flwyddyn. Bydd adroddiad diwedd y flwyddyn y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid yn cynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon sy'n amlinellu perfformiad y Cyngor mewn perthynas ag achosion a gyfeiriwyd i'w hystyried gan yr Ombwdsmon.

## 12 Cwynion am y Gymraeg

12.1 Yn unol â 6.1 mae gan achwynwyr yr hawl i fynegi eu hanfodlonrwydd yn eu dewis iaith. Pe bai unrhyw gŵynion yn codi ynghylch darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng Cymraeg, dylid adrodd am y rhain yn uniongyrchol i Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor. Yn ogystal, bydd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn cofnodi'r achos yn y gronfa ddata cwynion – gan dynnu sylw at y ffaith bod natur y gŵyn yn ymwneud â methiant y Cyngor i gadw at ei rwymedigaethau statudol o dan Safonau'r Gymraeg.

12.2 Bydd cwynion ynghylch perfformiad y Cyngor mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Swyddog yr Iaith Gymraeg a gyflwynir i Gomisiynydd y Gymraeg.

12.3 Os yw achwynwyr yn dal i fod yn anfodlon yn dilyn ymateb y Cyngor yng Ngham 2 am eu pryder ynghylch perfformiad neu gydymffurfiad y Cyngor â Safonau'r Gymraeg, yna gall yr achwynwyr atgyfeirio eu cwyn at Gomisiynydd y Gymraeg i'w hystyried yn allanol.

12.4 Dyma fanylion cyswllt Comisiynydd y Gymraeg:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@cyg-wlc.cymru
- Gwefan: Comisiynydd y Gymraeg
- Drwy'r post: Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5–7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1AT

## 13 Cwynion dienw

13.1 Gall cwynion a wneir yn ddienw yn dal godi materion sy'n peri pryder difrifol a bydd y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn hysbysu'r Gwasanaethau a yw'r wybodaeth a roddwyd yn ddigonol i gyfiawnhau ymchwiliad pellach yn unol â'r Polisi Pryderon a Chwynion. Er na fyddai'r broses ymateb ffurfiol yn berthnasol o dan yr amgylchiadau hyn, efallai y byddai'n werth cynnal ymchwiliad a chadw'r ddogfennaeth a gynhyrchir rhag ofn i'r achwynydd roi ei wybodaeth cysylltu yn ddiweddarach, neu os bydd pryderon tebyg yn codi maes o law.

## 14 Gweithredu annerbyniol gan achwynwyr

14.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddelio â phob cwyn yn deg ac yn ddiduedd ac i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r rheiny sy'n cwyno. Nid yw mynediad i'r gwasanaeth hwn ac i swyddfeydd a gweithwyr y Cyngor fel arfer wedi'i gyfyngu. Fodd bynnag, mae nifer fach o achwynwyr sydd, oherwydd amlder eu cyswllt â'r Cyngor, yn rhwystro'r gwaith o fwrw ati i ystyried eu cwynion eu hunain.

14.2 Yn y rhan fwyaf o achosion, gellir delio â chwynion yn gyflym ac yn effeithlon. Fodd bynnag, gall ymddygiad lleiafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth ei gwneud yn anodd ymchwilio i gŵyn a'i datrys. Gall y defnyddwyr gwasanaeth hyn hefyd fynd â llawer o amser swyddogion gan arwain at lai o amser i helpu eraill.

14.3 Mewn nifer fach iawn o achosion, gall ymddygiad achwynydd ddod yn annerbyniol. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ddiogelu ei staff rhag ymddygiad sy'n ymosodol, yn dramgwyddus ac yn fygythiol, ac yn yr achosion hyn, bydd yn ystyried y mater o dan y Polisi Gweithrediadau Annerbyniol gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth.

14.4 Gall nodweddion achwynydd taer gynnwys:

- Gweiddi'n barhaus ar aelod o staff, rhegi, bygythiadau a galw enwau
- Ymddygiad obsesiynol, neu ddi-baid neu aflonyddu
- Gwneud yr un gŵyn dro ar ôl tro neu gyda mân wahaniaethau ond byth yn derbyn y canlyniad
- Mynnu canlyniad afrealistig a gwrthod derbyn na all y Cyngor ddarparu'r hyn y maent yn gofyn amdano

14.5 Pan na fydd modd gweithio rhagor ar y berthynas, bydd y Gwasanaeth Cwynion a RhG, ynghyd â'r Rheolwr Corfforaethol a'r SAC perthnasol yn ystyried gweithredu'r Polisi Gweithrediadau Annerbyniol gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth.

## 15 Canmoliaeth

15.1 Mae'r un mor bwysig i'r Cyngor gofnodi canmoliaeth a gafwyd gan aelodau'r cyhoedd er mwyn rhoi adborth cadarnhaol i staff a rhannu arfer gorau. Gellir diffinio canmoliaeth fel canu clod neu adborth cadarnhaol ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

15.2 Dylai staff anfon manylion yr holl ganmoliaeth a gafwyd at y Gwasanaeth Cwynion a RhG a byddant hwythau yn cofnodi'r wybodaeth yn y gronfa ddata ganolog i'w chynnwys yn yr adroddiadau chwarterol a chwemisol.

15.3 Ar adegau, derbynnir canmoliaeth ar ffurf gohebiaeth ffurfiol i'r Cyngor. Mewn achosion o'r fath, dylid cydnabod y ganmoliaeth yn ffurfiol a diolch i'r defnyddiwr gwasanaeth am ei amser yn rhoi adborth cadarnhaol.

## 16 Cwynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

16.1 Rhaid ymdrin â chwynion ynghylch rheolaeth y Cyngor ar geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 o dan y polisi perthnasol (e.e. Polisi Rhyddid Gwybodaeth neu Bolisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol). Mae'r broses hon yn cael ei hystyried yn 'Adolygiad Mewnol' a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd a fydd yn ystyried ac yn ymateb i'r gŵyn.

16.2 Caiff pob Adolygiad Mewnol ei gofnodi a'i gynnwys ym mhob adroddiad cyffredinol y cyfeirir ato uchod.

16.3 Os yw ymgeisydd yn parhau i fod yn anfodlon â chanlyniad yr Adolygiad Mewnol, rhoddir gwybod iddynt y gallant atgyfeirio eu hachos i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar gyfer ystyriaeth bellach.

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

Mae'r **Asesiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

| **1. MANYLION Y CYNNIG:** (Polisi / Newid amcan / Arbed arian) | |
|---|---|
| Teitl y cynnig | Cyflwyno Polisi a Gweithdrefnau diwygiedig o ran Pryderon a Chwynion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Maes gwasanaeth | Partneriaethau a Pherfformiad | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Alun Williams | Cyfarwyddwr Strategol | Barry Rees MBE |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI | Marie-Neige Hadfield | E-bost | Marie-Neige.Hadfield@ceredigion.gov.uk | Ffôn | 01545572156 |

| Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig |
|---|
| Cynnal adolygiad llawn o Bolisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion y Cyngor er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion corfforaethol yn gyson a'u bod yn cydymffurfio â gofynion statudol. |
| Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuenctid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw). |
| Bydd y diwygiadau yn y polisi a'r gweithdrefnau yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd sy'n dymuno gwneud cwyn ac ar staff y Cyngor fydd yn mynd i'r afael â'r cwynion hyn. Gan fydd yna newidiadau o ran pa mor aml y rhoddir adroddiadau ynghylch cwynion, bydd gan y cyhoedd fwy o hyder yn y modd y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion statudol (Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Bydd y broses yn fwy tryloyw o ganlyniad i'r gweithdrefnau adrodd a bydd hyn yn gwella'r trefniadau llywodraethiant o fewn y sefydliad. |

**RHEOLI'R DDOGFEN:** Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb, lle bynnag y bo modd.

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

| Awdur | Cam yn y broses benderfynu | Rhif y fersiwn | Dyddiad trafod | Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod |
|---|---|---|---|---|
| Marie-Neige Hadfield | Ystyriwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7 Gorffennaf 2021 | 2 | 7 Gorffennaf 2021 | Cafodd y Polisi a'r Gweithdrefnau eu cefnogi gan y Pwyllgor Craffu |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

| **AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR**: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut? | |
|---|---|
| Hybu'r Economi | |
| Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl | |
| Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd | Bydd y Polisi a'r Gweithdrefnau diwygiedig yn galluogi'r cyhoedd i leisio eu pryderon gan wybod y bydd y rhain yn cael eu hystyried yn deg ac yn briodol, yn unol â rhwymedigaethau statudol a gweithdrefnol y Cyngor. |
| Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol. | |



**SYLWCH:** Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu tystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*

- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

| **2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY:** Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig? | | | |
|---|---|---|---|
| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol | *Ddim yn berthnasol* | | |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau | Bydd cymeradwyo'r Polisi a'r Gweithdrefnau diwygiedig yn gwella perthynas waith y Cyngor ag Awdurdodau Lleol eraill gan y bydd yn arwain at ddull cyson o ymdrin â chwynion ledled Cymru. Bydd hyn hefyd yn hyrwyddo perthynas y Cyngor ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – yn rhinwedd y ffaith y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd yr Ombwdsmon, ond hefyd oherwydd y bydd trefniadau adrodd yn gyson ac yn cyd-fynd â gofynion Swyddfa'r Ombwdsmon. | Nid yw Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2020-2021 wedi dod i law eto (bydd manylion y ddeddfwriaeth newydd sy'n ymwneud ag ymdrin â chwynion yn berthnasol i'r Cyngor) | Dim – bydd y newidiadau a wneir yn cael effaith gadarnhaol ar bawb (h.y. y cyhoedd a'r staff). |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn | Nid oedd angen ymgynghori â'r cyhoedd gan fod y diwygiadau a wnaed i'r fersiynau blaenorol yn gyson â newidiadau mewn deddfwriaeth – mae pob un ohonynt yn fwy cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau/y cyhoedd. | Dim – nid yw'r trefniadau sylfaenol ar gyfer gwneud cwyn wedi newid ac mae'r broses yn dal i fod ar gael yn rhwydd i bawb. | Dim – bydd y newidiadau a wneir yn cael effaith gadarnhaol ar aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cwyno am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu | Dylid ystyried bod ymdrin â chwynion mewn ffordd dda ynddo'i hun yn fesur ataliol ar gyfer osgoi methiannau'r gorffennol – bydd y dogfennau hyn yn cryfhau'r llywodraethiant yng nghyswllt dysgu gwersi a'r trefniadau adrodd. | | Dim – bydd y newidiadau a wneir yn cael effaith gadarnhaol ar bawb (h.y. y cyhoedd a'r staff). |
| **Integreiddio**<br>Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill | *Ddim yn berthnasol* | | |

**3. NODAU LLESIANT:** Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

| Nod llesiant | Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|
| **3.1. Cymru lewyrchus**<br>Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi | Bydd ymdrin â chwynion yn effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar bob agwedd ar fusnes y Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | Ddim yn berthnasol |
| **3.2. Cymru gydnerth**<br>Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd) | Bydd ymdrin â chwynion yn effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar bob agwedd ar fusnes y Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | Ddim yn berthnasol |
| **3.3. Cymru iachach**<br>Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl | Bydd ymdrin â chwynion yn effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar bob agwedd ar fusnes y Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a | Ddim yn berthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd | | gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | |
| **3.4. Cymru o gymunedau cydlynus** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | Bydd ymdrin â chwynion yn effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar bob agwedd ar fusnes y Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | Ddim yn berthnasol |
| **3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol | Bydd ymdrin â chwynion yn effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar bob agwedd ar fusnes y Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | Ddim yn berthnasol |

| **3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal** Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau<br><br>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.<br>*Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.*<br><br>***Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd:***<br>Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.<br><br>*Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchodedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchodedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw* | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?<br><br>*Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio data nac yn ymgysylltu os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch* ***cynnwys*** *yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.* | Pa gam (gamau) allwch chi eu gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?<br><br>*Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r* |
|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i’r amlwg.* | | *camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.* |
| **Oedran**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓) | | | | Mae'r newidiadau a wneir i'r polisi a'r gweithdrefnau yn rhai cadarnhaol a fydd o fudd i'r cyhoedd. Nid yw'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi pobl i wneud eu cwyn wedi newid, ond mae mwy o bwyslais ar y trefniadau llywodraethu am fod deddfwriaeth newydd wedi’i chyflwyno. Dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | Ddim yn berthnasol |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Pobl 18-50 | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Pobl hŷn 50+ | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabledd**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓) | | | | Er nad yw'r newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau o bosibl yn gwella profiadau unigolion ag anableddau yn uniongyrchol, mae'r newidiadau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | |
| Nam ar y clyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Nam corfforol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Nam ar y golwg | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Anabledd dysgu | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ✓ | | | | | |
| Salwch hirdymor | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | | | | |
| Iechyd meddwl | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Arall | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsrywiol**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓) | | | | Er nad yw'r newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau o bosibl yn gwella profiadau unigolion trawsryweddol yn uniongyrchol, mae'r newidiadau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | |
| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priodas neu bartneriaeth sifil**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓) | | | | Er nad yw'r newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau o bosibl yn gwella profiadau'r rhai sydd mewn priodasau neu bartneriaethau sifil yn uniongyrchol, mae'r newidiadau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | |
| Priodas | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cygnor. | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Beichiogrwydd neu famolaeth**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓) | | | | Er nad yw'r newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau yn gwella profiadau mamau beichiog yn uniongyrchol, mae'r newidiadau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | |
| Beichiogrwydd | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hil**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? ( Ticiwch ✓) | | | | Er nad yw'r newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau yn gwella profiadau pobl yn uniongyrchol ar sail hil, mae'r newidiadau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | |
| Gwyn | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Du / Affricanaidd / | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caribïaidd / Du Prydeinig | ✓ | | | | | |
| Grwpiau ethnig eraill | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd neu ddim cred**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓) | | | | Er nad yw'r newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau o bosibl yn gwella profiadau pobl yn uniongyrchol ar sail eu crefydd neu'r ffaith nad oes ganddynt gred, mae'r newidiadau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | |
| Cristnogion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Bwdhyddion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Hindŵiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Dyneiddwyr | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Iddewon | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Mwslimiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Sikhiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Pobl heb gred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eraill | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓) | | | | Er nad yw'r newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau o bosibl yn gwella profiadau pobl yn uniongyrchol ar sail rhyw, mae'r newidiadau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | |
| Dynion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Menywod | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓) | | | | Er nad yw'r newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau o bosibl yn gwella profiadau pobl yn uniongyrchol ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol, mae'r newidiadau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. | Yr Adroddiadau Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynir i'r Cyngor yn flynyddol. | |
| Pobl ddeurywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Dynion hoyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Menywod hoyw / lesbiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Pobl heterorywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

**Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu’n eich rhwystro rhag gwneud hynny.**

| |
|---|
| **3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?**<br>*Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: ● Dileu neu leihau anfantais ● Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol ● Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran* |
| Er na fydd y newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl yng nghyd-destun dyletswyddau cydraddoldeb y Cyngor, mae'r newidiadau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. |
| **3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?**<br>*Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: ● Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol ● Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol ● Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny* |
| Mae'r newidiadau i'r Polisi a'r Gweithdrefnau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. |
| **3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**<br>*Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn : ● Mynd i'r afael â rhagfarn ● Hybu dealltwriaeth* |
| Mae'r newidiadau i'r Polisi a'r Gweithdrefnau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. |

| |
|---|
| **Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.**<br>**Mae Anfantais Economaidd-gymdeithasol yn golygu byw dan amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill o fewn yr un gymdeithas.**<br>*Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae’n ofynnol bod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hynny’n golygu cynnal asesiad o’r effaith ar dlodi. Mae’r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy’n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.* |
| **3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfanteision economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniad mewn perthynas â’r cynnig?**<br>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith bositif/negyddol neu effaith ddibwys. |
| Fel y nodir uchod, bydd y newidiadau a wneir i'r Polisi a’r Gweithdrefnau i gyd o fudd i'r cyhoedd. |
| Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi’r farn hon? |
| - |
| Pa gam/camau gweithredu allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu’n well at effeithiau positif? |
| - |

| **3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod.<br>*Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.* | | | | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog – nid oes unrhyw newid i'r trefniadau blaenorol. | | |
| A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Mae'r newidiadau i'r Polisi a'r Gweithdrefnau i gyd yn gadarnhaol (o ran y trefniadau llywodraethu a pha mor aml y rhoddir adroddiadau) a dylai hyn hyrwyddo a meithrin perthynas fwy ymddiriedus rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. Nid oes unrhyw newidiadau i'r trefniadau blaenorol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | | |
| A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg? | ✓ | | | Dim newid – bydd yr un cyfleoedd yn parhau. | | |
| Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? | Cadarn haol | Negydd ol | Dim/Fawr ddim | Dim newid – bydd yr un cyfleoedd yn parhau. | | |
| | | | | | | |
| A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol? | Cadarn haol | Negydd ol | Dim/Fawr ddim | Ddim yn berthnasol | | |

| **4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG:** Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3? | | | |
|---|---|---|---|
| **4.1 Camau** | | | |
| Beth fyddwch chi'n ei wneud? | Pryd fyddwch chi'n ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Cynnydd |
| Ddim yn berthnasol | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhowch gyfiawnhad.**
*(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)*

Mae'r newidiadau i'r Polisi a'r Gweithdrefnau yn ymwneud yn bennaf â'r trefniadau llywodraethu ac adrodd ynghylch gweithgarwch cwynion o fewn y Cyngor. Felly, ni fydd unrhyw effeithiau negyddol.

| |
|---|
| |
| **4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu**<br>*Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?* |
| Ddim yn berthnasol |

| **5. RISG:** Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | 1 – Isel iawn | 2 – Isel | 3 – Canolig | 4 – Uchel | 5 – Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | 1 – Annhebygol o ddigwydd | 2 – Llai tebygol o ddigwydd | 3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd | 4 – Mwy tebygol o ddigwydd | 5 – Tebygol o ddigwydd |

| Disgrifiad o'r risg | Effaith (difrifoldeb) | Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni) | Sgôr risg |
|---|---|---|---|
| 1 | 1 | 1 | 3 |
| | | | |

| Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall? |
|---|
| Polisi corfforaethol yw hwn – felly bydd effaith ar yr holl wasanaethau (ac eithrio'r rhai a fydd yn dod o dan weithdrefn gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol). |

| **6. CYMERADWYO** | | | |
|---|---|---|---|
| Swydd | Enw | Llofnod | Dyddiad |
| Rheolwr y Gwasanaeth | Marie-Neige Hadfield | [signature] | 02.09.21 |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Alun Williams | Alun Williams | 02.09.21 |
| Y Cyfarwyddwr Corfforaethol | Barry Rees MBE | | |
| Deiliad y Portffolio | Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn | | |

# Cyngor Sir CEREDIGION

**ADRODDIAD I'R:** **Cyngor**

**DYDDIAD:** **23 Medi 2021**

**LLEOLIAD:** **Cyfarfod Rhithiol**

**TEITL:** **Y Polisi a'r Gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer Pryderon a Chwynion**

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Rhoi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2021**

**CEFNDIR:**
Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2021, ystyriodd yr Aelodau'r Polisi a'r Gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer Pryderon a Chwynion.

Roedd y Polisi a'r Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion wedi'u hadolygu a'u diweddaru am y ddau reswm canlynol:

1. er mwyn ymgorffori'r newidiadau sefydliadol a gweithredol helaeth sydd wedi digwydd ers yr adolygiad polisi diwethaf yn 2015, gan gynnwys canoli'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth; ac;
2. er mwyn sicrhau bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli pryderon a chwynion corfforaethol yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir gan yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA), a gyflwynwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Nid yw Polisi Pryderon a Chwynion cyfredol y Cyngor bellach yn addas at y diben oherwydd y newidiadau sefydliadol, gweithredol a deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf yn 2015.

Yn ystod y drafodaeth, gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor ganmol y Swyddog am safon uchel yr adroddiad ac am gyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd glir a chryno i'r Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

**ARGYMHELLIAD:**

**Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn argymell bod y Polisi Pryderon a Chwynion drafft a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar 23 Medi 2021 er mwyn eu cymeradwyo.**

- Cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Pryderon a Chwynion drafft a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno'r adroddiad ac ailadroddodd y ganmoliaeth a roddwyd gan yr Aelodau.

**Y Cynghorydd Ivor Williams**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol***

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 10

## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Cyngor** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **23 Medi 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **O bell drwy gynhadledd fideo** |
| **TEITL:** | **Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA')** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Monitro defnydd y Cyngor o RIPA** |
| **ER:** | **Gwybodaeth a Phenderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet ar gyfer Cyswllt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth** |

**CEFNDIR:**

Cyflwynwyd Adroddiad ar RIPA i'r Cyngor ddiwethaf ar 5 Mawrth 2020 (gweler yr Adroddiad yma:
http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/H_RIPA.pdf).

Daethpwyd ag Adroddiad ar RIPA gerbron Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor ar 15 Medi 2021 (gweler yr Adroddiad a'r Cofnodion Drafft yma:
https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=143&LLL=0 )

**Y SEFYLLFA BRESENNOL**

Penderfynodd y Pwyllgor argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r canlynol:

1) Fersiwn ddiwygiedig y Polisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau RIPA RHAN II Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol a Data Cyfathrebu ('Y Polisi RIPA) (**Atodiad 1**);

2) Y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA (drafft) (**Atodiad 2**).

**ARGYMHELLION:**

Bod y Cyngor, yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, yn penderfynu gwneud y canlynol:

1. Cymeradwyo'r newidiadau a wnaed i Bolisi RIPA'r Cyngor (**Atodiad 1**);
2. Cymeradwyo'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA drafft (**Atodiad 2**).

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** Mae'r argymhellion yn angenrheidiol i adlewyrchu newidiadau i'r canllawiau statudol a'r ddeddfwriaeth, a gofynion rheoleiddwyr.

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** Na<br>**Os na, nodwch pam** |

***Crynodeb:** Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi na strategaeth.*

**Hirdymor:** Cynllunio hirdymor sy'n cydymffurfio â gofynion statudol a datblygiad polisïau hirdymor er budd staff a'r Awdurdod Lleol. Ystyriaeth i atebolrwydd a nodau llesiant (e.e. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
– gwelliannau i lesiant economaidd/cymdeithasol, a chymuned gydlynus
– cymuned ddiogel gyda chysylltiadau da) a buddiannau cael Polisi RIPA a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA cadarn ar gyfer staff;

**Integreiddio:** Mae'r diwygiadau'n ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau.

**Cydweithio:** Cysylltu â darparwyr hyfforddiant.

**Cynnwys:** Sicrhau bod pob gweithiwr yn cael mynediad at Bolisi RIPA a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA'r Cyngor, a sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu mewn ffordd glir ac agored.

**Atal:** Sicrhau bod y Polisi RIPA'n parhau i gael ei ddiweddaru ac yn parhau i fod yn addas i'r diben, a chymeradwyo Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA'r Cyngor i sicrhau bod rheolau a chanllawiau priodol ar waith i Swyddogion.

**Trosolwg a Chraffu:** Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 15/9/21

https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=143&LLL=0)

**Fframwaith Polisi:** Trefniadau Democrataidd

**Blaenoriaethau Corfforaethol:** Thema drawsbynciol i sicrhau bod gwasanaethau'n addas i'r diben.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** Dim
**Goblygiadau Cyfreithiol**: Dim

**Goblygiadau Staffio:** Dim

**Goblygiadau eiddo/asedau:** Dim
**Risgiau:** Dim

**Pwerau Statudol:** Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA') fel y'i diwygiwyd.

Codau Ymarfer Statudol RIPA, ar gael yma:
https://www.gov.uk/government/collections/ripa-codes

Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 (‘IPA 2016’)
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/contents

SI 2010 N0.521 - Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/521/contents/made
SI 2012 No.1500 (Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (Diwygio) 2012)
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1500/contents/made

**Papurau Cefndir:**

- Adroddiad i'r Cyngor 5 Mawrth 2020 http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/H_RIPA.pdf)
- Adroddiad i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 20 Ionawr 2021 https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/pwyllgor-cydlynu-trosolwg-a-chraffu/ )
- Adroddiad i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 15 Medi 2021: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=143&LLL=0 ).

**Acronymau:** Amherthnasol

**Atodiadau:** Atodiad 1- Polisi RIPA drafft y Cyngor
Atodiad 2- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA Drafft

**Enw Cyswllt:** Elin Prysor

**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)

**Dyddiad:** 15 Medi 2021

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# CYNGOR SIR CEREDIGION

# CEREDIGION COUNTY COUNCIL

## DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 ('RIPA') RHAN II

## Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol a Data Cyfathrebu

## POLISI CORFFORAETHOL A DOGFEN WEITHDREFNAU

DRAFT

- **Mabwysiadwyd gan y Cyngor –**
  **5 Mawrth 2020**
- **Adolygwyd gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol**
  **Gorffennaf 2021**

**MYNEGAI**

**Cynnwys** **Tudalen(au)**

Gwyliadwriaeth Gudd – Datganiad Polisi ........ 6

**RHAN 1 – Cyflwyniad i Weithgareddau Gwyliadwriaeth a Reoleiddir gan Bennod 2 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) ........ 8**

**RHAN 2 – Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ........ 12**

Ystyr 'Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig': ........ 12

Y prif bwyntiau i'w nodi: ........ 13

Siart lif 1 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig? ........ 20

Ystyr 'Gwyliadwriaeth Ymwthiol': ........ 21

Siart lif 2 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Ymwthiol? ........ 23

Cyfyngiadau ar ddefnyddio Gwyliadwriaeth Gudd Gyfeiriedig ........ 24

Uwch lefelau awdurdodi ........ 24

Achosion brys – (Paragraff 4.42 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018) ........ 25

Y Drefn o Wneud Cais Am Ganiatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ........ 26

Rôl y Swyddog Ymchwilio – yr Ymgeisydd ........ 26

Llenwi'r ffurflenni ........ 26

Rôl y Swyddog Awdurdodi ........ 27

Adnewyddu caniatâd ........ 28

Adolygu caniatâd ........ 29

Canslo caniatâd ........ 29

Siart lif 3 – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig (cylch oes Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn debyg) ........ 30

Canllawiau i Swyddogion Awdurdodi ar Ganiatáu Ceisiadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ........ 31

Terfynau Amser ........ 31

Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi ........ 31

Siart lif 4 – Caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ........ 35

Gofyn Am Gymeradwyaeth Ynad (Cymeradwyaeth Farnwrol) Ar Gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ........ 36

Siart lif 5 – Proses Gymeradwyo’r Ynadon ........ 38

**RHAN 3 – Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (‘CHIS’) ........ 39**

Ystyr Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ........ 39

Gwerthu i rai o dan oedran ........ 39

Y prif bwyntiau i’w nodi: ........ 39

Siart lif 6 – A ydych yn defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS)? ........ 42

Y drefn o wneud cais am ganiatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan RIPA ........ 43

Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc ........ 43

Gweithgarwch Cudd Ar-lein – Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA ........ 43

Llenwi’r Ffurflenni ........ 43

Cylch oes caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ........ 45

Canllawiau i Swyddogion Awdurdodi sy’n Caniatáu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol: Rheolau a Meini Prawf ........ 45

Y Swyddog Awdurdodi ........ 45

Ystyriaethau’r Swyddog Awdurdodi ........ 46

Siart lif 7 – Caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ........ 49

Gofyn Am Gymeradwyaeth Ynad Ar Gyfer Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (Cymeradwyaeth Farnwrol) ........ 50

Cefndir ........ 50

Canllawiau’r Swyddfa Gartref ........ 50

Proses Gymeradwyo’r Ynadon (gweler hefyd Siart Lif 8 isod) ........ 50

Dewisiadau’r Ynad ........ 51

Apeliadau ........ 51

Siart lif 8 – Proses Gymeradwyo’r Ynadon ........ 52

Terfynau Amser ........ 53

**RHAN 4 – Cofnodion, Trin Data, Trefniadau Diogelwch Wrth Gadw Gwybodaeth, Gwallau a Chwynion ........ 54**

DRAFT

COFRESTR GANOLOG O'R CANIATADAU ....................................................................................54

Sicrwydd wrth Drin Data a Threfniadau Diogelwch wrth Gadw Gwybodaeth .....................55

Rhannu gwybodaeth ...............................................................................................................57

Copïo .......................................................................................................................................58

Storio .......................................................................................................................................58

Dileu a Dinistrio.......................................................................................................................58

Deunydd Cyfrinachol a Deunydd sy'n Meddu ar Fraint Gyfreithiol.......................................59

Marcio ......................................................................................................................................59

Gwallau ....................................................................................................................................59

CWYNION ...............................................................................................................................63

**RHAN 5 – Data Cyfathrebu ............................................................................................64**

Ystyr 'Data Cyfathrebu'.............................................................................................................64

Ymyrryd â Data Cyfathrebu ......................................................................................................69

Cael gafael ar ddata cyfathrebu drwy Un Pwynt Cyswllt (SPOC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) ........................................................................70

Asiantaeth Awdurdodi: Y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu ('OCDA') .........................72

Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer Data Cyfathrebu...................................................73

Gwallau Data Cyfathrebu ..........................................................................................................74

Gwallau Difrifol .........................................................................................................................75

Caniatáu Caffael Data Cyfathrebu.............................................................................................75

Terfynau Amser.........................................................................................................................76

Swyddog ar Reng Gymeradwy...................................................................................................77

Cofrestr Ganolog o'r Caniatadau – Data Cyfathrebu.................................................................77

Cwynion.....................................................................................................................................79

**RHAN 6 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA' ................................81**

Ystyr 'gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA' ..............................................81

Pam cynnal gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA? ..................................82

Troseddau nad ydynt yn cael eu cosbi drwy chwe mis o garchar ..................................82

Cadw Gwyliadwriaeth ar Gyflogeion ....................................................................82

Gweithgarwch cudd ar-lein – y Rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol (‘SNS’) ..........................................................................................................................83

Cydymffurfio â Deddfwriaeth Hawliau Dynol ........................................................83

Cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data...........................................................84

Y Cod Ymarfer ar Arferion Cyflogaeth o ran Diogelu Data ....................................84

Swyddogion Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA ...85

Ffurflen caniatáu gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA ...........................85

Cylch oes caniatâd gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA........................86

Siart lif 9 - Caniatáu gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA ......................87

Siart lif 10 – Gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig..................................................87

**Atodlen 1 – Deddfwriaeth, Codau Ymarfer, Polisïau a Chanllawiau Perthnasol ............89**

DRAFT

# CYNGOR SIR CEREDIGION

## GWYLIADWRIAETH GUDD – DATGANIAD POLISI

**Cyflwyniad**

1. Mae Cyngor Sir Ceredigion (‘y Cyngor’) wedi ymrwymo i greu cymuned deg a diogel i bawb drwy sicrhau bod y deddfau a wnaed i amddiffyn unigolion, busnesau, yr amgylchedd ac adnoddau cyhoeddus yn effeithiol.

2. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod sefydliadau ac unigolion gan mwyaf yn deall pwysigrwydd y deddfau hyn ac yn cydymffurfio â nhw. Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i’w helpu i gyflawni’u rhwymedigaethau cyfreithiol heb iddynt fynd i gostau diangen na wynebu biwrocratiaeth ddiangen.

3. Ar yr un pryd, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau bod y rheini sy’n ceisio diystyru’r gyfraith yn wynebu camau gorfodi sy’n gadarn ond sydd hefyd yn deg. Cyn iddo gymryd camau o’r fath, gall fod angen i’r Cyngor gadw gwyliadwriaeth gudd ar unigolion a/neu safleoedd i gasglu gwybodaeth am weithgarwch anghyfreithlon.

**Gweithdrefn**

4. Rhaid cadw gwyliadwriaeth gudd yn unol â’r gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen hon.

5. Rhaid i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau mai dim ond pan fydd yn cydymffurfio’n llwyr â’r holl ddeddfau perthnasol y bydd gwyliadwriaeth gudd yn cael ei chadw, ac yn enwedig:

   - Deddf Hawliau Dynol 1998
   - Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (‘RIPA’);
   - Deddf Diogelu Rhyddidau 2012;
   - Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (‘IPA 2016’)
   - Deddf Diogelu Data 2018

6. Rhaid i’r Cyngor hefyd roi sylw dyledus i’r holl is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys Rheoliadau a Gorchmynion), canllawiau swyddogol a chodau ymarfer, yn enwedig y rheini a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, Swyddfa’r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth, y Comisiynydd Camerâu Diogelwch a’r Comisiynydd Gwybodaeth.

7. Yn arbennig, os bydd y Cyngor yn cadw gwyliadwriaeth gudd, rhaid iddo sicrhau ei bod yn seiliedig ar yr egwyddorion arweiniol a ganlyn:

   - Ni chaiff gwyliadwriaeth gudd ond ei chadw pan fo hynny’n hollol angenrheidiol i gyflawni’r nodau gofynnol;
   - Ni chaiff gwyliadwriaeth gudd ond ei chadw pan fo’n gymesur gwneud hynny ac mewn modd sy’n gymesur;
   - Rhaid rhoi sylw digonol i hawliau a rhyddidau’r rheini nad yw’r wyliadwriaeth gudd yn eu targedu;
   - Rhaid i unrhyw ganiatâd i gadw gwyliadwriaeth gudd gael ei roi gan Swyddogion Awdurdodi sydd wedi’u hyfforddi a’u dynodi’n briodol; a
   - Dim ond ar ôl cael cymeradwyaeth ynad y caniateir cadw gwyliadwriaeth gudd (sy’n cael ei rheoleiddio gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (‘RIPA’).

**Hyfforddiant ac adolygiadau**



DRAFT

8. Rhaid i bob un o swyddogion y Cyngor sy'n cadw gwyliadwriaeth gudd gael hyfforddiant priodol i sicrhau ei fod yn deall ei rwymedigaethau cyfreithiol a gweithredol. Dylai'r swyddogion fod yn gymwys ac yn hyderus i gyflawni'u swyddogaethau o dan RIPA. Dylid darparu hyfforddiant atgoffa a dylai'r swyddogion ei gyflawni yn ôl y gofyn. Dylai'r hyfforddiant gynnwys ymarferion a thrafod unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Dylai'r hyfforddiant hefyd gynnwys cyfarwyddyd ynghylch sut i lenwi'r ffurflenni cais.

9. Rhaid cyflawni archwiliadau'n rheolaidd i sicrhau bod y Swyddogion yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

10. Dylid adolygu'r polisi hwn o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas at y diben.

11. Rhaid i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor oruchwylio a monitro'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni gweithgareddau RIPA, a hynny drwy gael adroddiadau bob chwe mis.

**Casgliad**

12. Bydd pob dinesydd yn elwa ar y Polisi hwn oherwydd bydd y ddeddfwriaeth droseddol a rheoleiddiol yn cael ei gorfodi'n effeithiol gan ddiogelu'r dinasyddion.

13. O lynu wrth y Polisi hwn, bydd yn sicrhau bod y Cyngor yn ymyrryd cyn lleied â phosibl â bywydau'r dinasyddion, a bydd yn sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i unrhyw her gyfreithiol yn sgil cadw gwyliadwriaeth gudd.

14. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi hwn at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (y Swyddog Monitro a'r Uwch-swyddog Cyfrifol).

Dyddiad ………………………………..

DRAFT

# RHAN 1 – Cyflwyniad i Weithgareddau Gwyliadwriaeth a Reoleiddir gan Bennod 2 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)

Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (‘RIPA’) yn rheoleiddio’r modd y mae nifer o gyrff, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn cyflawni ymchwiliadau cudd. Fe’i cyflwynwyd i ddiogelu hawliau unigolion ac i sicrhau ar yr un pryd fod gan asiantaethau diogelwch ac asiantaethau sy’n gorfodi’r gyfraith y pwerau sydd eu hangen arnynt i gyflawni’u gwaith yn effeithiol.

Felly, mae Cyngor Sir Ceredigion (‘y Cyngor’) yn rhan o’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer caniatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig, defnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol a chael gafael ar ddata cyfathrebu.

Mae rhai adrannau o RIPA wedi’u diddymu a’u disodli gan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (‘IPA 2016’). Yn ogystal â’r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) ei hun, gwnaed sawl set o Reoliadau, ac mae’r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi tri Chod Ymarfer.

Mae’r Cyngor wedi rhoi sylw i’r Codau Ymarfer a baratowyd gan y Swyddfa Gartref, y gweithdrefnau a’r canllawiau a baratowyd gan Swyddfa’r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth a’r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynwyr Gwybodaeth wrth baratoi’r canllawiau hyn. Dylai fod gan bob Adran gopïau y gall staff gyfeirio atynt.

## Amcanion y ddogfen hon

Amcan y ddogfen hon yw sicrhau bod yr holl wyliadwriaeth gudd (fel y’i diffinnir gan RIPA a deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig) a gedwir gan Swyddogion y Cyngor yn cael ei gynnal yn briodol ac yn gyfreithlon. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Chod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018, Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol, Cod Ymarfer Camerâu a Gweithdrefnau a Chanllawiau Swyddfa’r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (Swyddfa’r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth gynt). Mae Atodlen 1 (isod) yn rhestru deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol y mae’n rhaid eu darllen ar y cyd â’r ddogfen hon, ond nid yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Os na chaiff y gweithdrefnau a nodir yn y Polisi hwn eu dilyn, gall unrhyw dystiolaeth a gesglir yn sgil cadw gwyliadwriaeth fod yn agored i her ar sail hawliau dynol. Felly, mae’n bosibl na fydd y Llys yn ei derbyn, ac nid yw’n debygol y bydd y Cyngor yn dwyn achos ar sail tystiolaeth o’r fath. Gallai unigolion sy’n honni bod eu hawliau dynol i breifatrwydd a pharch at fywyd teuluol wedi’u niweidio hefyd ddwyn achos yn erbyn y Cyngor. Gweler ‘Delio â chwynion gan y cyhoedd’ isod.

## Cwmpas y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn egluro cyfrifoldeb statudol y Cyngor i gydymffurfio â RIPA a deddfwriaeth gysylltiedig. Mae’n darparu canllawiau ac yn amlinellu gweithdrefnau’r Cyngor a’r materion iddo eu hystyried mewn perthynas â’r canlynol:

- Gwyliadwriaeth gyfeiriedig – gweler Rhan 2 isod;
- Ffynhonnell Cudd-wybodaeth Ddynol (‘CHIS’) – gweler Rhan 3 isod; a
- Cael Gafael ar Ddata Cyfathrebu (drwy Un Pwynt Cyswllt (SPOC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN)) – gweler Rhan 5 isod.

Dim ond i waith gwyliadwriaeth gudd a chyfeiriedig y mae Rhannau 1 – 3 o’r Polisi hwn yn berthnasol h.y. lle nad yw’r unigolyn neu’r unigolion yn gwybod ar yr adeg y mae’r

wyliadwriaeth yn cael ei chadw ei bod yn digwydd. Diben y rhannau hyn yw helpu swyddogion i benderfynu pa fath o wyliadwriaeth y maent yn ei chadw ac a yw Pennod 2 RIPA'n rheoleiddio'r gwaith hwnnw, cadarnhau'r gweithdrefnau perthnasol a darparu arweiniad

Mae Rhan 4 yn delio â chadw cofnodion, trin data, trefniadau diogelu cadw gwybodaeth ac ymdrin â chwynion a gwallau.

Mae canllawiau wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA hefyd wedi'u nodi (gweler Rhan 6 isod) isod ar gyfer arsylwi neu wyliadwriaeth sydd heb fod yn gudd.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ar wahân ynghylch cadw gwyliadwriaeth gan ddefnyddio camerâu teledu cylch cyfyng (ar gael yn: https://ico.org.uk/media/1542/cctv-code-of-practice.pdf).

**<u>Cyfrifoldeb statudol Cyngor Sir Ceredigion</u>**

Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998, sy'n cynnwys Erthyglau a Phrotocolau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Ddiogelu Hawliau Dynol ('ECHR') y bernir eu bod yn berthnasol yn y DU. Ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, mae adolygiad yn cael ei wneud mewn perthynas â Deddf Hawliau Dynol 1998, ond erys mewn grym ar hyn o bryd.

O dan adran 6 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998, nid yw'n gyfreithlon i'r Cyngor weithredu mewn unrhyw ffordd nad yw'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn darparu:

- Bod gan bob unigolyn hawl i barch at ei fywyd preifat a'i fywyd teuluol, ei gartref a'i ohebiaeth; ac
- Na chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r hawl hon ac eithrio mewn ffordd sydd:
    a) Yn unol â'r gyfraith;
    b) Yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn diogelu'r cyhoedd, atal anhrefn neu drosedd, amddiffyn iechyd neu foesau a diogelu hawliau a rhyddidau eraill.

Felly, bydd gwyliadwriaeth yn mynd yn groes i hawliau dynol unigolyn oni bai iddi gael ei chaniatáu o dan RIPA. Mae RIPA'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer ymyrraeth gyfreithlon.

Drwy gael caniatâd i gadw gwyliadwriaeth yn unol â RIPA, bydd yn helpu i ddiogelu'r Cyngor a'i swyddogion rhag cwynion eu bod wedi ymyrryd â'r hawliau a ddiogelir gan Erthygl 6 ac Erthygl 8 (1) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sydd bellach wedi'i ymgorffori yng nghyfraith y DU drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw ymyrraeth â bywydau preifat y dinasyddion *'yn unol â'r gyfraith'.*

Ar yr amod bod y gweithgareddau hefyd '*yn angenrheidiol ac yn gymesur'* (gweler rhannau dilynol y ddogfen hon i gael mwy o fanylion), ni fyddant yn torri'r ddeddfwriaeth Hawliau Dynol.

Tybir bod gwybodaeth yn wybodaeth breifat os yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â bywyd preifat neu fywyd teuluol yr unigolyn o dan sylw neu fywyd preifat neu fywyd teuluol unrhyw unigolyn arall. Mae hyn yn cynnwys unrhyw agwedd ar berthynas

breifat neu bersonol yr unigolyn ag eraill, gan gynnwys perthynas deuluol, perthynas broffesiynol neu berthynas busnes. Gall gwybodaeth breifat gynnwys data personol, er enghraifft, enwau, rhifau ffôn a chyfeiriadau.

Er enghraifft, os bydd dau unigolyn yn cael sgwrs ar y stryd, gall fod yn rhesymol iddynt ddisgwyl bod cynnwys y sgwrs honno'n breifat. Fodd bynnag, gall fod angen caniatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig os bydd awdurdod cyhoeddus yn cofnodi'r sgwrs neu'n gwrando arni fel rhan o ymchwiliad neu ymgyrch.

Felly, gellir caffael *'gwybodaeth breifat'* drwy gadw gwyliadwriaeth gudd gyfeiriedig â chaniatâd hyd yn oed os yw'r unigolyn mewn man cyhoeddus lle y gall fod yn disgwyl llai o breifatrwydd.

Ymhellach, gellir cael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â bywyd preifat unigolyn pan fydd nifer o gofnodion yn cael eu dadansoddi gyda'i gilydd, neu pan fydd sawl darn o wybodaeth wedi dod i law, yn gudd, er mwyn creu cofnod am unigolyn neu er mwyn prosesu data i gynhyrchu mwy o wybodaeth.

Gall y wybodaeth yn ei chyfanrwydd fod yn gyfystyr â gwybodaeth breifat, hyd yn oed os nad yw'r cofnodion unigol yn gyfystyr â gwybodaeth o'r fath. Er enghraifft, gall swyddogion gorfodi dynnu llun o'r tu allan i safle busnes ar gyfer eu cofnodion heb fod angen caniatâd RIPA arnynt. Fodd bynnag, os bydd y swyddogion am bennu'r patrwm o ran y modd y mae unigolyn yn defnyddio'r safle hwnnw a'u bod yn tynnu lluniau ar sawl achlysur, mae'n debygol y bydd hynny'n arwain at gaffael gwybodaeth breifat. Felly, bydd angen iddynt gydymffurfio â gofynion RIPA.

**<u>Rôl yr Aelodau Etholedig</u>**

Mae'r Codau Ymarfer statudol a gyhoeddwyd mewn perthynas â RIPA, sef Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018, yn datgan y dylai Aelodau etholedig adolygu'r modd y mae'r Cyngor yn defnyddio RIPA a phennu'r Polisi o leiaf unwaith y flwyddyn.

Dylai Aelodau hefyd ystyried adroddiadau mewnol ynghylch y modd y mae RIPA'n cael ei defnyddio yn rheolaidd, a hynny i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n gyson â pholisi'r Cyngor a bod y polisi hwnnw'n dal i fod yn addas at y diben.

**<u>Rôl yr Uwch-swyddog Cyfrifol</u>**

Mae'r Codau Ymarfer statudol a gyhoeddwyd mewn perthynas â RIPA, sef Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018, yn dweud y dylai'r cynghorau benodi Uwch-swyddog Cyfrifol.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro yw Uwch-swyddog Cyfrifol Cyngor Sir Ceredigion. Dylai fod modd i'r Uwch-swyddog Cyfrifol roi cyngor i'r Swyddogion am y weithdrefn RIPA a dylai fod yn gyfrifol am:

1. Uniondeb y broses sydd ar waith yn yr awdurdod cyhoeddus i ganiatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig, defnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol ac ymyrryd ag eiddo neu delegraffiaeth ddiwifr;

2. Cydymffurfio â Phennod 2 o RIPA a'r codau perthnasol; ac

3. Ymgysylltu â'r Comisiynwyr a'r arolygwyr pan fyddant yn cyflawni'u harolygiadau, a lle bo angen, goruchwylio'r camau i gyflawni unrhyw gynlluniau gweithredu yn sgil arolygiad a argymhellir neu a gymeradwyir gan Gomisiynydd.

Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol hefyd yn gyfrifol am oruchwylio a chydgysylltu:

1. Cyflwyno adroddiadau chwarterol sy'n rhoi manylion am weithgarwch RIPA i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu:

2. Adolygiad blynyddol y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu o'r Polisi hwn

3. Pennu materion sy'n codi yn y broses oruchwylio i sicrhau bod modd dadansoddi'r materion, darparu tystiolaeth o'r canlyniadau, a bwydo'r wybodaeth yn ei hôl i'r hyfforddiant RIPA i sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw corfforaethol;

4. Goruchwylio'r broses RIPA'n ffurfiol o fewn y Cyngor, gan gynnwys pennu anghenion hyfforddi unigol a chorfforaethol a rhannu gwybodaeth a

5. Chynnal cofrestr o ffugenwau/persona ar-lein gan gynnwys manylion y gwasanaethau/unigolion sy'n gallu eu defnyddio/eu cymeradwyo.

**<u>Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('IPCO')</u>**

Mae Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn darparu ar gyfer Comisiynydd Pwerau Ymchwilio *('y Comisiynydd')*, y mae ei gylch gwaith yn cynnwys darparu goruchwyliaeth gynhwysfawr o'r defnydd o'r pwerau y mae'r cod hwn yn berthnasol iddynt, a glynu wrth yr arferion a'r prosesau a ddisgrifir ynddo.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn gweithredu fel corff rheoleiddio o ran yr agweddau hynny o RIPA a Data Cyfathrebu sy'n ymwneud â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Y Swyddfa hon sy'n arolygu'r awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â RIPA o ran caniatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig a defnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol. Nid yw Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn rhoi cyngor cyfreithiol, ond gall roi arweiniad, lle bo'n briodol, ar gais Uwch-swyddog Cyfrifol awdurdod cyhoeddus.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio, ei swyddfa a'I waith yn: www.ipco.org.uk.

**<u>Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO')</u>**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw'r awdurdod annibynnol a sefydlwyd yn y DU i amddiffyn hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan hybu arferion da, annog cyrff cyhoeddus i fod yn agored, sicrhau bod data unigolion yn cael eu cadw'n breifat a rhoi cyngor am safonau. Mae ei harchwiliadau hefyd yn ystyried y modd y mae sefydliadau'n ymdrin â cheisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

# RHAN 2 – Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

Ym Mhennod 2 RIPA, nodir fframwaith rheoleiddio'r technegau ymchwilio cudd a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthygl 8, (yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol).

Y mater cyntaf i unrhyw swyddog awdurdod lleol sy'n ystyried cadw gwyliadwriaeth gudd yw pa fath o wyliadwriaeth y mae'n ei gadw, ac **a yw'n rhywbeth y gellir ei ganiatáu o dan RIPA.** Mae Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig yn un o'r ddwy dechneg wyliadwriaeth sydd ar gael i'r Cyngor o dan Ran 2 o Bennod 2 o RIPA. Yr ail dechneg sydd ar gael yw Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, ond ni all y Cyngor ganiatáu'r drydedd dechneg, sef Gwyliadwriaeth Agored.

Mae Cod Ymarfer Diwygiedig Gwyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn cadarnhau ym mharagraff 2.2 a 2.3:

'*Surveillance, for the purpose of the 2000 Act, includes monitoring, observing or listening to persons, their movements, conversations or other activities and communications. It may be conducted with or without the assistance of a surveillance device and includes the recording of any information obtained*

*Surveillance is covert if, and only if, it is carried out in a manner calculated to ensure that any persons who are subject to the surveillance are unaware that it is or may be taking place.'*

**Ystyr 'Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig':**

Diffinnir Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig yn A.26(2) o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.

*'Subject to subsection (6), surveillance is directed for the purposes of this Part if it is covert but not intrusive and is undertaken -*

*(a) for the purposes of a specific investigation or a specific operation;*
*(b) in such a manner as is likely to result in the obtaining of private information about a person (whether or not one specifically identified for the purposes of the investigation or operation); and*
*(c) otherwise than by way of an immediate response to events or circumstances the nature of which is such that it would not be reasonably practicable for an authorisation under this Part to be sought for the carrying out of the surveillance.'*

Fel rheol, bydd awdurdodau lleol yn defnyddio Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig pan fyddant yn ymchwilio i dwyll budd-daliadau, troseddau safonau masnach neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. I wneud hyn, gallant ffilmio unigolyn yn gudd neu ddilyn unigolyn neu fonitro gweithgareddau unigolyn drwy ddulliau eraill.

Cyn cadw gwyliadwriaeth gudd, rhaid i'r swyddog ymchwilio ofyn pum cwestiwn (a chael atebion cadarnhaol i bob un ohonynt), a hynny cyn bod modd pennu bod y gweithgareddau'n gyfystyr â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig:

- A yw'r wyliadwriaeth mewn gwirionedd yn "wyliadwriaeth" *("surveillance")* fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)?
- A fydd yn gudd?
- A yw'n cael ei chyflawni ar gyfer ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol?
- A yw'n debygol o arwain at gaffael gwybodaeth breifat am unigolyn?
- A fydd yn cael ei chyflawni ac eithrio mewn ymateb uniongyrchol i ddigwyddiadau?

*Gweler **Siart lif 1 isod** i asesu a yw'n wyliadwriaeth gyfeiriedig.*

**<u>Y prif bwyntiau i'w nodi:</u>**

A. Nid yw **arsylwadau cyffredinol** yn gyfystyr â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan (ym Mharagraff 3.33):

> *'The general observation duties of many law enforcement officers and other public authorities do not require authorisation under the 2000 Act, whether covert or overt. Such general observation duties frequently form part of the legislative functions of public authorities, as opposed to the pre-planned surveillance of a specific person or group of people. General observation duties may include monitoring of publicly accessible areas of the internet in circumstances where it is not part of a specific investigation or operation'*

B. Dim ond os yw'n **gudd** y mae gwyliadwriaeth yn gyfeiriedig. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan (ym Mharagraff 2.3) (yn unol â 26(9)a) RIPA):

> *'Surveillance is covert if, and only if, it is carried out in a manner that is calculated to ensure that persons who are subject to the surveillance are unaware that it is or may be taking place'*

> Yn unol â hyn, mae'n ofynnol i swyddogion ymchwilio ystyried y modd y byddant yn cadw gwyliadwriaeth. Os byddant yn ei wneud yn agored, heb geisio'i gelu, neu os byddant yn anfon llythyr at y targed i'w rybuddio cyn cadw gwyliadwriaeth, ni fydd yn wyliadwriaeth gudd.

C. Mae'r diffiniad o ***'wybodaeth breifat'*** *('private information')* yn eang iawn. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 diwygiedig yn datgan:

> *'3.3 The 2000 Act states that private information includes any information relating to a person's private or family life. Private information should be taken generally to include any aspect of a person's private or personal relationship with others, including family and professional or business relationships. Information which is non-private may include publicly available information such as books, newspapers, journals, TV and radio broadcasts, newswires, web sites, mapping imagery, academic articles, conference proceedings, business reports, and more. Such information may also include commercially available data where a fee may be charged, and any data which is available on request or made at a meeting to a member of the public. Non-private data will also include the attributes of inanimate objects such as the class to which a cargo ship belongs.*

> *3.4 Whilst a person may have a reduced expectation of privacy when in a public place, covert surveillance of that person's activities in public may still result in the obtaining of private information. This is likely to be the case where that person has a reasonable expectation of privacy even though acting in public and where a record is being made by a public authority of that person's activities for future consideration or analysis. Surveillance of publicly accessible areas of the internet should be treated in a similar way, recognising that there may be an expectation of privacy over information*

*which is on the internet, particularly where accessing information on social media websites'*

Yn aml, bydd swyddogion ymchwilio'n tybio'n anghywir nad ydynt yn debygol o gaffael gwybodaeth breifat os ydynt yn gwylio rhywun yn gudd mewn man cyhoeddus neu'n arsylwi ar weithgareddau mewn swyddfa neu ar safle busnes. Nid ydynt yn credu eu bod yn cadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig. Serch hynny, mae'r rhannau uchod o'r cod yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y bydd modd i awdurdod cyhoeddus ddadlau'n llwyddiannus na fydd gwyliadwriaeth fyth yn arwain at gaffael gwybodaeth breifat.

D. Pan fydd angen cadw gwyliadwriaeth gudd mewn **argyfwng** a phan na fydd amser i ganiatáu'r gweithgarwch (h.y. ymateb brys i ddigwyddiadau), gellir cadw gwyliadwriaeth ond ni fydd angen caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig. Serch hynny, mae'n bwysig nodi na fyddai'r amgylchiadau hyn yn debygol o fod yn berthnasol i'r Cyngor, oherwydd, pe bai'n cael ei herio, byddai'n ofynnol i'r Cyngor ddangos ei fod yn ymateb i ddigwyddiadau ar fryd ac nad oedd yn rhesymol ymarferol i geisio caniatâd. Ni argymhellir gweithredu fel hyn ac os ystyrir bod sefyllfa o argyfwng, dylid ceisio cyngor gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar unwaith.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 diwygiedig yn datgan (ym Mharagraff 3.32):

*'Covert surveillance that is likely to reveal private information about a person but is carried out by way of an immediate response to events such that it is not reasonably practicable to obtain an authorisation under the 2000 Act, would not require a directed surveillance authorisation. The 2000 Act is not intended to prevent law enforcement officers fulfilling their legislative functions. To this end section 26(2)(c) of the 2000 Act provides that surveillance is not directed surveillance when it is carried out by way of an immediate response to events or circumstances the nature of which is such that it is not reasonably practicable for an authorisation to be sought for the carrying out of the surveillance.'*

Mae Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn rhoi enghraifft o ganiatâd o dan RIPA and yw'n briodol lle mae swyddogion heddlu yn cuddio eu hunain i arsylwi ar bobl amheus y dônt ar eu traws yn ystod patrôl arferol neu fonitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ystod digwyddiad trefn gyhoeddus.

**E. Gweithgarwch Cudd Ar-lein**

Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor (ar gael yn [nodwch y ddolen]) yn amlinellu'r hyn y mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo yn ei nodi ynghylch gweithgarwch cudd ar-lein, a'i gyngor perthnasol i helpu Swyddogion i ddeall pryd y gallai fod angen caniatâd RIPA. Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor i gael gofynion a chanllawiau'r Cyngor ynghylch personâu ar-lein.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan (ym Mharagraff 3.10):

*"The growth of the internet and the extent of the information that is now available online, presents new opportunities for public authorities to view or gather information which may assist them in preventing or detecting crime or carrying out other statutory functions, as well as in understanding and engaging with the public they serve. It is important that public authorities are able to make full and lawful use of this information for their statutory purposes. Much of it can be accessed without the need for RIPA*

*authorisations; use of the internet prior to an investigation should not normally engage privacy considerations. But if the study of an individual's online presence becomes persistent, or where material obtained from any check is to be extracted and recorded and may engage privacy considerations, RIPA authorisations may need to be considered. The following guidance is intended to assist public authorities in identifying when such authorisations may be appropriate."*

Mae Paragraffau 3.11 – 3.17 o'r Cod hefyd yn cynnwys cyngor perthnasol a fydd yn helpu Swyddogion i ddeall pryd y byddai angen caniatâd RIPA:-

3.11 *"The internet may be used for intelligence gathering and/or as a surveillance tool. Where online monitoring or investigation is conducted covertly for the purpose of a specific investigation or operation and is likely to result in the obtaining of private information about a person or group, an authorisation for directed surveillance should be considered, as set out elsewhere in this code. Where a person acting on behalf of a public authority is intending to engage with others online without disclosing his or her identity, a CHIS authorisation may be needed (paragraphs 4.10 to 4.16 of the Covert Human Intelligence Sources code of practice provide detail on where a CHIS authorisation may be available for online activity).*

3.12 *In deciding whether online surveillance should be regarded as covert, consideration should be given to the likelihood of the subject(s) knowing that the surveillance is or may be taking place. Use of the internet itself may be considered as adopting a surveillance technique calculated to ensure that the subject is unaware of it, even if no further steps are taken to conceal the activity. Conversely, where a public authority has taken reasonable steps to inform the public or particular individuals that the surveillance is or may be taking place, the activity may be regarded as overt and a directed surveillance authorisation will not normally be available.*

*3.13 As set out in paragraph 3.14 below, depending on the nature of the online platform, there may be a reduced expectation of privacy where information relating to a person or group of people is made openly available within the public domain, however in some circumstances privacy implications still apply. This is because the intention when making such information available was not for it to be used for a covert purpose such as investigative activity. This is regardless of whether a user of a website or social media platform has sought to protect such information by restricting its access by activating privacy settings.*

*3.14 Where information about an individual is placed on a publicly accessible database, for example the telephone directory or Companies House, which is commonly used and known to be accessible to all, they are unlikely to have any reasonable expectation of privacy over the monitoring by public authorities of that information. Individuals who post information on social media networks and other websites whose purpose is to communicate messages to a wide audience are also less likely to hold a reasonable expectation of privacy in relation to that information.*

*3.15 Whether a public authority interferes with a person's private life includes a consideration of the nature of the public authority's activity in relation to that information. Simple reconnaissance of such sites (i.e. preliminary examination with a view to establishing whether the site or its contents are of interest) is unlikely to interfere with a person's reasonably held expectation of privacy and therefore is not likely to require a directed surveillance authorisation. But where a public authority is systematically collecting and recording information about a particular person or group,*

DRAFT

*a directed surveillance authorisation should be considered. These considerations apply regardless of when the information was shared online. See also paragraph 3.6.*

***Example 1:*** *A police officer undertakes a simple internet search on a name, address or telephone number to find out whether a subject of interest has an online presence. This is unlikely to need an authorisation. However, if having found an individual's social media profile or identity, it is decided to monitor it or extract information from it for retention in a record because it is relevant to an investigation or operation, authorisation should then be considered.*

***Example 2:*** *A customs officer makes an initial examination of an individual's online profile to establish whether they are of relevance to an investigation. This is unlikely to need an authorisation. However, if during that visit it is intended to extract and record information to establish a profile including information such as identity, pattern of life, habits, intentions or associations, it may be advisable to have in place an authorisation even for that single visit. (As set out in the following paragraph, the purpose of the visit may be relevant as to whether an authorisation should be sought.)*

***Example 3:*** *A public authority undertakes general monitoring of the internet in circumstances where it is not part of a specific, ongoing investigation or operation to identify themes, trends, possible indicators of criminality or other factors that may influence operational strategies or deployments. This activity does not require RIPA authorisation. However, when this activity leads to the discovery of previously unknown subjects of interest, once it is decided to monitor those individuals as part of an ongoing operation or investigation, authorisation should be considered.*

*3.16 In order to determine whether a directed surveillance authorisation should be sought for accessing information on a website as part of a covert investigation or operation, it is necessary to look at the intended purpose and scope of the online activity it is proposed to undertake. Factors that should be considered in establishing whether a directed surveillance authorisation is required include:*

*Whether the investigation or research is directed towards an individual or organisation;*

*Whether it is likely to result in obtaining private information about a person or group of people (taking account of the guidance at paragraph 3.6 above);*

*Whether it is likely to involve visiting internet sites to build up an intelligence picture or profile;*

*Whether the information obtained will be recorded and retained;*

*Whether the information is likely to provide an observer with a pattern of lifestyle;*

*Whether the information is being combined with other sources of information or intelligence, which amounts to information relating to a person's private life;*

*Whether the investigation or research is part of an ongoing piece of work involving repeated viewing of the subject(s);*

*Whether it is likely to involve identifying and recording information about third parties, such as friends and family members of the subject of interest, or information posted by third parties, that may include private information and therefore constitute collateral intrusion into the privacy of these third parties.*

*3.17 Internet searches carried out by a third party on behalf of a public authority, or with the use of a search tool, may still require a directed surveillance authorisation (see paragraph 4.32).*

***Example:*** *Researchers within a public authority using automated monitoring tools to search for common terminology used online for illegal purposes will not normally require a directed surveillance authorisation. Similarly, general analysis of data by public authorities either directly or through a third party for predictive purposes (e.g. identifying crime hotspots or analysing trends) is not usually directed surveillance. In such cases, the focus on individuals or groups is likely to be sufficiently cursory that it would not meet the definition of surveillance. But officers should be aware of the possibility that the broad thematic research may evolve, and that authorisation may be appropriate at the point where it begins to focus on specific individuals or groups. If specific names or other identifiers of an individual or group are applied to the search or analysis, an authorisation should be considered."*

Mae gwylio presenoldeb rhywun ar-lein – yn gudd ac mewn modd systemataidd a rheolaidd – yn gallu codi ystyriaethau preifatrwydd ac felly byddai angen ystyried cael caniatâd RIPA

Yn unol â Pharagraff 4.16 o'r Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo, pan fydd awdurdod cyhoeddus yn bwriadu cael mynediad i gyfrif cyfryngau cymdeithasol neu gyfrif ar-lein arall y rhoddwyd mynediad i'r awdurdod drwy ganiatâd y perchennog, bydd dal angen i'r Awdurdod ystyried a fydd y cyfrif yn cynnwys gwybodaeth am eraill nad ydynt wedi rhoi eu caniatâd ac, os felly, a oes angen cael caniatâd ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig.

Pan fydd sawl asiantaeth yn gweithio ynghyd, dim ond un ohonynt fyddai angen cael caniatâd am weithgarwch cuddwylio, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.

**Personâu ar-lein**

Pan ganiateir defnyddio'r rhain yn gorfforaethol, bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw cofrestr ganolog o'r ffugenwau, proffiliau/cyfrifon hyn, ynghyd â manylion y gwasanaethau neu'r swyddogion unigol sydd wedi cael yr hawl i'w defnyddio/i roi caniatâd i'w defnyddio.

**Gwybodaeth Gwyliadwriaeth Gudd ar y Cyfryngau Cymdeithasol a Phersonâu Ar-lein**

Mae'n ofynnol i Wasanaethau perthnasol y Cyngor wneud y canlynol:
- cofnodi gwybodaeth/data sy'n ymwneud â gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol/ar-lein, gan gynnwys personâu ar-lein (* gweler isod)
- nodi Swyddog Dynodedig
- rhoi'r data hwn i'r Swyddog Dynodedig; a
- rhaid i'r Swyddog Dynodedig ddarparu'r wybodaeth i'r Uwch-swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol (Swyddog Llywodraethu) bob 4 mis.

*Bydd yn rhaid i'r Swyddog Dynodedig gadw'r wybodaeth ganlynol:
- pa safleoedd cyfryngol/broffiliau ar-lein yr ymwelwyd â hwy;
- a oedd mynediad I safle(oedd0 cyfryngol/broffil(iau) ar-lein wedi'i gyfyngu (rhowch fanylion);
- pryd ymwelwyd â'r safle(oedd) cyfryngau/proffil(iau) ar-lein;
- gan bwy (Swyddog/Defnyddiwr);

- ar gais pwy;
- pwy roddodd ganiatâd;
- manylion yr wyliadwriaeth e.e. cyfeirnod yr achos, ymgyrch, ymchwiliad;
- dyddiad y cais;
- dyddiad mynediad;
- ar ba broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol;
- a ddefnyddiwyd persona ar-lein/proffil ffug/hunaniaeth ffug? Os felly, pa un?
- a ddefnyddiwyd proffil corfforaethol swyddogol? Os felly, pa un?
- sawl gwaith;
- hyd y gwylio;
- at ba ddiben/ar ba sail resymegol yr ymwelwyd â'r safle(oedd) cyfryngol/proffil(iau) ar-lein;
- cadarnhad bod yr unigolyn y mae ei hunaniaeth yn cael ei defnyddio wedi rhoi ei ganiatâd penodol yn ysgrifenedig, a bod ei ddiogelwch wedi'i ystyried, a manylion yr hyn a'r hyn na fydd yn cael ei wneud;
- nod/gwybodaeth a geisir;
- oedd yr unigolyn dan sylw yn ymwybodol o hyn;
- pa ddata gafodd eu caffael (gan gynnwys gwybodaeth anuniongyrchol);
- beth wnaethpwyd ag unrhyw gynnyrch a ddaeth yn sgil hynny;
- manylion y cyfryngau cymdeithasol sy'n berthnasol i'r cais;
- esboniad pam bod angen persona ar-lein a bod dulliau gwahanol yn cael eu hystyried;
- cadarnhau a yw asesiad risg wedi cael ei ystyried/ei gynnal;
- unrhyw ganlyniad, gan gynnwys unrhyw risg i'r Swyddog (ac os nad oes, pam).

Rhaid i swyddogion sy'n defnyddio safleoedd o'r fath hefyd ddilyn y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Corfforaethol (2016) (ar gael ar fewnrwyd y Cyngor (CeriNet).

- *'5.6 Yn ystod oriau gwaith, ni chaiff cyflogeion ond fynd i wefannau cyfryngau cymdeithasol cymeradwy sy'n ofynnol ar gyfer eu swyddi ac edrych ar dudalennau o'r fath.*

- *Rhaid bod modd cyfiawnhau defnyddio gwefannau o'r fath a rhaid i'w rheolwr llinell gymeradwyo gwneud hynny cyn iddynt fynd i wefannau o'r fath.*

- *6.3 Rhaid i staff sy'n gweithio mewn amgylchedd diogelu sylweddoli eu bod yn cyflawni swyddi sensitif. Cyn iddynt ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, dylent ystyried a allai eu gweithredoedd arwain at unrhyw bryderon posibl o ran diogelu.*

- *Gwnewch yn siŵr nad yw eich cyfrif Facebook personol yn niweidio eich rôl broffesiynol, dylech sicrhau bod eich gosodiadau preifatrwydd yn briodol.*

- *Peidiwch â defnyddio eich manylion cyswllt yn y gwaith fel rhan o'ch proffil personol*

- *Peidiwch â defnyddio eich proffil personol mewn unrhyw ffordd ar gyfer busnes swyddogol y Cyngor*

- *Ar eich proffil personol – peidiwch â derbyn cais i fod yn ffrind gan aelod o'r cyhoedd os yw'ch perthynas â'r unigolyn hwnnw'n gysylltiedig â'ch gwaith yn bennaf.*


DRAFT

- *Ar eich proffil personol – peidiwch â derbyn ceisiadau i fod yn ffrind gan ddisgyblion (na'u rhieni) nac oedolion sy'n agored i niwed yr ydych yn gweithio gyda nhw.'*

Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasu RIPA y Cyngor yn berthnasol i bob un o weithwyr y Cyngor ac mae'n amlinellu safle'r Cyngor ynghylch defnyddio'r rhyngrwyd, pori ar y we ar ddyfeisiau symudol ac yn benodol gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol, wrth ymwneud â gwyliadwriaeth, a allai gynnwys ymchwiliad, yn unol â RIPA. Dylid darllen Polisi'r Cyngor ar Gyfryngau Cymdeithasol at ddibenion RIPA ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

DRAFFT

**Siart lif 1 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig?**



**Ystyr 'Gwyliadwriaeth Ymwthiol':**

*Mae A.26(3) RIPA yn datgan:*

> *'Subject to subsections (4) to (6), surveillance is intrusive for the purposes of this Part if, and only if, it is covert surveillance that—*
> *(a)* is carried out in relation to anything taking place on any residential premises or in any private vehicle; and
> *(b)* involves the presence of an individual on the premises or in the vehicle or is carried out by means of a surveillance device.'

Fel y mae'r enw yn ei awgrymu, mae'r math hwn o wyliadwriaeth yn llawer mwy ymwthiol ac felly mae'r ddeddfwriaeth wedi'i llunio mewn modd sy'n diogelu'r dinesydd i raddau mwy helaeth. Dim ond Uwch-swyddog Awdurdodi yn yr awdurdodau cyhoeddus hynny a restrir yn A.32(6) RIPA neu a ychwanegwyd ati, neu aelod neu swyddog o'r awdurdodau cyhoeddus hynny a restrir yn adran 41(l) neu a ychwanegwyd ati a gaiff wneud cais i gadw Gwyliadwriaeth Ymwthiol. **Ni chaiff** awdurdodau lleol **ganiatáu gwyliadwriaeth ymwthiol.**

Mae'n dal i fod yn bwysig deall diffiniad Gwyliadwriaeth Ymwthiol oherwydd weithiau gall swyddogion sy'n or-awyddus groesi'r ffin a chadw gwyliadwriaeth o'r fath yn y pen draw. Rhaid gofyn y cwestiynau a ganlyn:

- A yw'n wyliadwriaeth gudd fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)?
- A yw'n cael ei chyflawni mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n digwydd ar unrhyw safle preswyl neu mewn unrhyw gerbyd preifat?
- A yw'n ymwneud â phresenoldeb unigolyn ar y safle neu yn y cerbyd? ac
- A yw'n cael ei chyflawni drwy gyfrwng dyfais wyliadwriaeth ar y safle neu yn y cerbyd?

*Gweler **Siart lif 2** i asesu a yw'r wyliadwriaeth yn ymwthiol.*

**Y prif bwyntiau i'w nodi:**

A. Pan fyddwch yn cadw gwyliadwriaeth gudd ar safle, ni all ond fod yn 'ymwthiol' os yw'n cael ei chyflawni mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n digwydd ar safle preswyl. Fe'i diffinnir yn A.48(1) RIPA:

   *'residential premises" means (subject to subsection (7)(b)) so much of any premises as is for the time being occupied or used by any person, however temporarily, for residential purposes or otherwise as living accommodation (including hotel or prison accommodation that is so occupied or used);'*

   Ni ystyrir bod cadw gwyliadwriaeth gudd ar safle busnes yn wyliadwriaeth ymwthiol e.e. lle bo swyddog yn cadw golwg ar ystad ddiwydiannol lle credir bod busnes bwyd yn cynhyrchu fodca 'ffug', neu lle bo siop yn cael ei hamau o werthu tybaco i rai dan ddeunaw, ac ati.

   Serch hynny, rhaid bod yn ofalus os yw'r busnes mewn adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel man byw e.e. rhywun sy'n cael ei amau o gynhyrchu DVDs ffug o garafán sydd hefyd yn annedd breifat i'r person. Ni chaniateir cadw gwyliadwriaeth (sy'n cynnwys ffilmio neu dynnu llun) o bobl mewn mannau byw preifat oherwydd byddai hyn yn cael ei ystyried yn wyliadwriaeth ymwthiol.

B. Nid yw pob math o wyliadwriaeth ar gerbydau'n 'ymwthiol'; rhaid bod y targed yn gerbyd preifat fel y'i diffinnir yn A.48(1):

*'private vehicle" means (subject to subsection (7)(a)) any vehicle which is used primarily for the private purposes of the person who owns it or of a person otherwise having the right to use it;'*

Gall y cerbyd fod yn gerbyd y mae'r unigolyn yn berchen arno neu'n gerbyd y mae wedi'i fenthyg, ei hurio neu'i brydlesu. Fodd bynnag (yn rhinwedd A.48(7)(a)) nid yw'r wyliadwriaeth yn ymwthiol os yw'r cerbyd targed yn dacsi neu'n gerbyd sy'n cael ei yrru gan *chauffeur,* fel gwasanaeth bws cyhoeddus.

C. Er mwyn i'r wyliadwriaeth fod yn ymwthiol yn hytrach na chyfeiriedig, rhaid iddi gael ei chyflawni pan fydd unigolyn yn bresennol ar y safle neu yn y cerbyd.

Mae'n eithriadol o annhebygol y bydd awdurdodau lleol yn caniatáu i'w staff gadw gwyliadwriaeth drwy fynd i mewn i gerbyd preifat yn gudd. Fodd bynnag, gall swyddog fod wedi'i leoli ar safle preswyl i arsylwi'n gudd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Er mai'r heddlu sydd fel rheol yn cyflawni gwaith o'r fath, rhaid bod yn ofalus. Er enghraifft, gall ymchwilydd brwdfrydig sy'n tynnu lluniau cudd o'r tu allan i dŷ benderfynu symud i safle neu leoliad mwy cudd i gael lluniau cliriach.

D. Gall gwyliadwriaeth fod yn ymwthiol hyd yn oed os nad yw'r swyddog ymchwilio ar safle neu tu mewn i gerbyd ond ei fod yn defnyddio dyfais wyliadwriaeth fel camera, dyfais wrando, peiriant recordio neu hyd yn oed finocwlars.


Fodd bynnag, dylid sylwi ar eiriad A.26 (5):

*'For the purposes of this Part surveillance which -*

*(a) is carried out by means of a surveillance device in relation to anything taking place on any residential premises or in any private vehicle, but*

*(b) is carried out without that device being present on the premises or in the vehicle, is not intrusive unless <u>the device is such that it consistently provides information of the same quality and detail as might be expected to be obtained from a device actually present on the premises or in the vehicle</u>.'*

## Siart lif 2 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Ymwthiol?



**Cyfyngiadau ar ddefnyddio Gwyliadwriaeth Gudd Gyfeiriedig**

Cyflwynwyd rhagor o gyfyngiadau o ran y modd y mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio RIPA yng Ngorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012 (OS rhif 1500) (gweler paragraff 4.44 o God Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2018).

Mae'n rhwystro Swyddogion Awdurdodi awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, rhag caniatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig oni bai ei bod yn angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd a'i bod yn bodloni'r amodau a ganlyn:

- Bod modd cosbi'r drosedd i'w hatal neu'i chanfod drwy uchafswm o chwe mis o garchar o leiaf neu
- Ei bod yn drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 (gwerthu alcohol i blant) neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (gwerthu tybaco i blant o dan 18 oed).

Nid yw'r '*trothwy trosedd'* hwn yn berthnasol i'r broses o ganiatáu i'r awdurdod lleol ddefnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol neu gaffael data cyfathrebu.

Mae'r diwygiadau i'r ddeddfwriaeth yn dal i ganiatáu i'r Cyngor ganiatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig, ond dim ond mewn achosion mwy difrifol, cyhyd â'i bod yn bodloni'r profion eraill h.y. ei bod yn *'angenrheidiol'* ac yn '*gymesur'* ac os yw Ynad Heddwch (Ynad) wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw.

Felly, mae'n hanfodol bod swyddogion ymchwilio'n ystyried y gosb sy'n gysylltiedig â'r drosedd y maent yn ymchwilio iddi **CYN** iddynt ystyried a fydd yn bosibl cael caniatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig.

Os nad yw Swyddog Awdurdodi'n sicr a ddylai ganiatáu gwyliadwriaeth, dylai ofyn am gyngor gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol.

**Uwch lefelau awdurdodi**

Dim ond swyddogion awdurdodi â'r hawl ganddynt i roi caniatadau yn ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig gaiff awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig sy'n debygol o arwain neu y bwriedir iddi arwain at gaffael gwybodaeth am ddeunydd cyfrinachol neu freintiedig. Mae'r math hwn o wybodaeth yn cynnwys:-

- Deunydd sy'n rhwym wrth fraint gyfreithiol;
- Gwybodaeth bersonol gyfrinachol;
- Gwybodaeth gyfansoddiadol gyfrinachol; a
- Deunydd newyddiadurol cyfrinachol a ffynonellau newyddiadurwyr.

Yn y Cyngor, y Swyddogion Awdurdodi sydd â'r hawl i ddyfarnu awdurdodau o ran gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig yw'r Prif Weithredwr neu (yn ei absenoldeb) yr unigolyn sy'n gweithredu fel y Prif Weithredwr (h.y. Cyfarwyddwr Corfforaethol).

Rhaid bod yn ofalus lle, drwy ddefnyddio gwyliadwriaeth, y byddai'n bosibl caffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn sy'n ymwneud â lles ysbrydol yr olaf, neu lle gallai materion cyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol godi.

Pan fydd deunydd o'r fath wedi'i gaffael a'i gadw, rhaid hysbysu Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor cyn gynted â phosibl, gan y dylid rhoi gwybod I Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) am y mater yn ystod ei harolygiad nesaf, a dylai'r deunydd fod ar gael i'r IPCO, os gofynnir amdano.

**Sylwch nad yw RIPA'n galluogi'r awdurdod lleol i ganiatáu gwyliadwriaeth ymwthiol** (i gael mwy o fanylion, gweler Rhan 2 isod).

**Achosion brys – (Paragraff 4.42 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018)**

Mae Paragraff 4.42 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan:

> *'The Protection of Freedoms Act 2012 amended the 2000 Act to make local authority authorisations subject to judicial approval. The change means that local authorities need to obtain an order approving the grant or renewal of an authorisation from a judicial authority, before it can take effect. In England and Wales an application for such an order must be made to a Justice of the Peace (JP). If the JP is satisfied that the statutory tests have been met and that the use of the technique is necessary and proportionate, he or she will issue an order approving the grant or renewal for the use of the technique as described in the application. The amendment means that* ***local authorities are no longer able to orally authorise the use of RIPA techniques.*** *All 37 The senior responsible officer should be a person holding the office, rank or position of an authorising officer within the relevant public authority.* ***authorisations must be made in writing and require JP approval. The authorisation cannot commence until this has been obtained.****'*

Mae hyn yn golygu nad yw Awdurdodau Lleol bellach yn gallu awdurdodi ar lafar y defnydd o dechnegau RIPA. Rhaid i bob caniatâd gael ei wneud yn ysgrifenedig a gyda chymeradwyaeth Ynad. Ni fydd y caniatâd yn dechrau hyd nes bydd y gymeradwyaeth hon wedi'i chael. Dylai'r Uwch-swyddog Cyfrifol fod yn unigolyn sy'n dal swydd, rheng neu radd Swyddog Awdurdodi o fewn yr awdurdod cyhoeddus perthnasol.

Fel arfer, nid ystyrir bod achos yn achos brys oni bai fod yr amser a fyddai'n mynd heibio, ym marn y Swyddog Awdurdodi, yn debygol o beryglu bywyd neu beryglu'r ymchwiliad y rhoddwyd y caniatâd ar ei gyfer.

Ni ddylid ystyried bod angen caniatâd ar frys oherwydd bod swyddog wedi anghofio gwneud cais am ganiatâd neu oherwydd gweithredoedd y Swyddog Awdurdodi neu'r ymgeisydd.

DRAFT

## Y DREFN O WNEUD CAIS AM GANIATÂD GWYLIADWRIAETH GYFEIRIEDIG

Os yw Swyddog y Cyngor credu bod y camau y mae'n bwriadu'u cymryd yn cydweddu â'r diffiniad o wyliadwriaeth gudd gyfeiriedig, bydd angen iddo wneud cais am ganiatâd gwyliadwriaeth gyfeiriedig RIPA.

Tair prif elfen unrhyw ganiatâd RIPA yw **rheidrwydd, cymesuredd** ac a oes unrhyw risg o **ymyrraeth anuniongyrchol**.

Cyn i'r Swyddog Awdurdodi ganiatáu'r cais RIPA, bydd angen iddo fod yn siŵr bod y caniatâd yn **angenrheidiol** er mwyn atal neu ganfod trosedd, bod y wyliadwriaeth yn gymesur â'r canlyniad gofynnol, a bod unrhyw risg o ymyrraeth anuniongyrchol wedi'i nodi a'i lleihau.

Ni fydd y gweithgarwch gwyliadwriaeth yn **gymesur** os yw'n ormodol o ystyried amgylchiadau'r achos neu os yw'n rhesymol cael gafael ar y wybodaeth drwy ddulliau llai ymwthiol.

**Dim ond y Prif Weithredwr sy'n meddu ar y pŵer i ganiatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig sy'n cynnwys ffilmio unrhyw Aelod Etholedig, unrhyw Gyfarwyddwr Corfforaethol neu unrhyw Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn gudd.**

**Pan fydd sawl asiantaeth yn gweithio ynghyd, dim ond un ohonynt fyddai angen cael caniatâd am weithgarwch cuddwylio.**

Os bydd y gweithgareddau'n newid yn ystod yr ymgyrch, bydd angen gwneud cais i adolygu'r caniatâd.

### Rôl y Swyddog Ymchwilio – yr Ymgeisydd

Rôl yr Ymgeisydd yw cyflwyno ffeithiau'r cais i gadw gwyliadwriaeth gudd, gan gynnwys:

- Y drosedd y bydd yn ymchwilio iddi;
- Y rheswm y bwriedir cyflawni'r ymchwiliad yn gudd;
- Y tactegau cudd y gwneir cais i'w defnyddio;
- Y rhesymau dros wneud cais i ddefnyddio'r tactegau cudd hynny;
- Y sawl y bydd y gwaith gwyliadwriaeth gudd yn canolbwyntio arno;
- Y bobl eraill y bydd yn effeithio arnynt;
- Y ffordd y bwriedir cadw gwyliadwriaeth gudd; a
- Darparu ffeithiau a thystiolaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Ymgeisydd haeru bod y camau i'w cymryd yn angenrheidiol ac yn gymesur – cyfrifoldeb statudol y Swyddog Awdurdodi yw hwnnw.

### Llenwi'r ffurflenni

Bydd angen i Swyddogion y Cyngor wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol. Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni o wefan y Swyddfa Gartref:
https://www.gov.uk/government/collections/ripa-forms--2

Ar y ffurflenni cais ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig, bydd angen rhoi'r wybodaeth a ganlyn:

- Y gweithgaredd y mae angen ei ganiatáu;
- Enwau'r bobl a fydd yn destun gwyliadwriaeth gyfeiriedig, os yw'r wybodaeth honno ar gael;
- Crynodeb o'r ymchwiliad;

- Eglurhad o'r technegau yr ydych yn bwriadu'u defnyddio;
- Cadarnhad mai amcan y weithred arfaethedig yw atal neu ganfod trosedd;
- Eglurhad o'r rhesymau yr ydych yn credu bod gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn gymesur â'r canlyniad yr ydych yn ceisio'i gyflawni;
- Eglurhad o'r wybodaeth yr ydych yn gobeithio cael gafael arni;
- Asesiad o'r posibilrwydd o ymyrraeth anuniongyrchol (h.y. i ba raddau y bydd yn ymyrryd â phreifatrwydd unigolion ac eithrio'r rheini y mae'r gweithgaredd yn eu targedu);
- A fydd unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei chaffael;
- Os oes angen caniatâd ar fyrder, y rhesymau dros hynny;
- Cyfeirnod Unigryw a geir gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ac a nodir ar y ffurflen; ac
- Ar y ffurflen, dylech nodi'r math o 'drosedd' o dan sylw – dylai'r ffurflenni cais fod yn benodol. Nid yw defnyddio'r gair 'trosedd' yn ddigonol. Nid yw'n briodol cyflawni ymchwiliad heb reswm penodol gan obeithio cael hyd i wybodaeth.

Mae ffurflenni enghreifftiol (gydag arweiniad ar lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen we]). Bydd **Siart lif 3** o gymorth i chi hefyd.

**Dylai'r swyddogion sy'n gwneud cais a'r Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod yn gwybod am y dogfennau a ganlyn a'u bod yn rhoi sylw iddynt:**

- **Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo**
- **Gweithdrefnau a Dogfennau Cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth**
- **Y polisi RIPA hwn; a**
- **Phecyn adnoddau ACT NOW**

**Sylwch:** Ni ddylech ddefnyddio testun safonol pan fyddwch yn llenwi cais am ganiatâd. Rhaid i'r esboniad a'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen fod yn berthnasol i ffeithiau'r achos a rhaid iddynt ddatgan amcanion y wyliadwriaeth yn glir.

**<u>Rôl y Swyddog Awdurdodi</u>**

Pan fydd caniatâd wedi'i roi, bydd y Swyddog Awdurdodi'n ystyried hyd y caniatâd, adnewyddu'r caniatâd a chanslo'r caniatâd.

Sylwch: **Nid yw unrhyw hysbysiad na chaniatâd yn dod i rym hyd nes i Ynad ei gymeradwyo**. Gweler isod i weld y weithdrefn ar gyfer cael cymeradwyaeth o'r fath.

Mae caniatadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig yn peidio â bod yn weithredol 3 mis o ddyddiad y gymeradwyaeth.

Pan fydd y Cyngor yn cadw *"gwyliadwriaeth gyfeiriedig*", yn defnyddio *"ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol"* neu'n cael gafael ar ddata cyfathrebu, mae RIPA a'r Codau cysylltiedig yn mynnu mai dim ond swyddog â phwerau dirprwyedig a gaiff ganiatáu'r gweithgareddau hyn, a hynny pan fydd y meini prawf perthnasol wedi'u bodloni.

Mae Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 (OS 2010 Rhif 521) yn datgan y gall Swyddog Awdurdodi'r awdurdod lleol fod yn Gyfarwyddwr, yn Bennaeth Gwasanaeth, yn Rheolwr Gwasanaeth neu'n unigolyn mewn swydd gyfatebol.

Felly, ar hyn o bryd, gall gwasanaethau enwebu swyddogion sy'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu'n uwch. Bydd y swyddogion hyn yn gallu caniatáu'r gweithgareddau hyn,

naill ai fel “Swyddog Awdurdodi” at ddibenion gwyliadwriaeth gyfeiriedig gudd nei Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Yn unol â strwythur corfforaethol y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau i’r dyfodol, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, ac yn sgil Penderfyniad y Cyngor ar 21 Mehefin 2018, caniateir i’r swyddogion a ganlyn weithredu fel Swyddogion Awdurdodi:

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd; a**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.**

Os yw’n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei chaffael fel rhan o’r wyliadwriaeth neu ddefnyddio pobl ifanc neu bobl sy’n agored i niwed (gweler isod), **rhaid** gofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr neu, yn ei absenoldeb, y Prif Weithredwr dros dro.

Os nad ydych yn sicr eich bod yn gofyn am ganiatâd gan swyddog ar lefel ddigon uchel, dylech gysylltu â’r Uwch-swyddog Cyfrifol (y Swyddog Monitro/Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu) i gael cyngor.

Rhaid bod yn ofalus lle, drwy ddefnyddio gwyliadwriaeth, y byddai’n bosibl caffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn sy’n ymwneud â lles ysbrydol yr olaf, neu lle gallai materion cyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol godi.

Pan fydd deunydd o’r fath wedi’i gaffael a’i gadw, rhaid hysbysu Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor cyn gynted â phosibl, gan y dylid rhoi gwybod I Swyddfa’r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) am y mater yn ystod ei harolygiad nesaf, a dylai’r deunydd fod ar gael i’r IPCO, os gofynnir amdano.

Wrth ganiatáu unrhyw geisiadau am wyliadwriaeth gyfeiriedig, ac wrth ystyried adnewyddu, adolygu a chanslo unrhyw ganiatâd, dylai’r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:

(a) am ba hyd y cedwir y data?; a

(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

(gweler Rhan 4 isod).

**<u>Adnewyddu caniatâd</u>**

Gall y Swyddog Awdurdodi adnewyddu caniatâd cyn iddo ddod i ben os yw’n angenrheidiol i’r caniatâd barhau at y diben gwreiddiol.

Ni chaniateir gwneud cais i adnewyddu caniatâd fwy na 7 diwrnod gwaith cyn i’r caniatâd ddod i ben, a hynny i sicrhau bod angen ei adnewyddu

Gellir adnewyddu caniatâd fwy nag unwaith ar yr amod ei fod yn dal i fodloni’r meini prawf. Rhaid gwneud cais i adnewyddu caniatâd gan ddefnyddio ffurflen arall y gellir ei lawrlwytho o wefan y Swyddfa Gartref (ffurflenni enghreifftiol gydag arweiniad ar sut i lenwi’r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen we]), a gweler paragraffau 5.1621 Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2018.

**Sylwch: Ni fydd caniatâd yn cael ei adnewyddu hyd nes i Ynad ei gymeradwyo.**

**Adolygu caniatâd**

Pan fydd caniatâd yn cael ei roi, bydd Swyddog Awdurdodi'n pennu pa mor aml y dylid ei adolygu. Bydd adolygiad yn ystyried a yw'r caniatâd yn dal i fod yn angenrheidiol h.y. a ddylai'r wyliadwriaeth barhau.

Nid oes angen i ynad gymeradwyo adolygiad, a gellir ei gynnal yn fewnol (gweler Paragraffau 9.11-13 Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo).

Dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried y modd y cafodd y tactegau'u defnyddio hyd yma, ynghyd â'u heffaith ac unrhyw gynnyrch, i sicrhau bod pob tacteg ychwanegol yn ofynnol, a oes modd cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol, ac a yw effaith gronnus y tactegau'n gymesur yng ngoleuni'r cynnydd a wnaed.

Rhaid i unrhyw newid fod yn benodol, ac ni chaniateir defnyddio unrhyw dacteg hyd nes i'r Swyddog Awdurdodi'i chaniatáu.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi nodi'n glir pa weithgaredd neu gyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir i sicrhau bod y rheini sy'n cadw gwyliadwriaeth yn gwybod yn union beth sydd wedi'i ganiatáu ym mhob cam o'r broses ganiatáu.

Dylid cadw trywydd archwilio o'r meini prawf adolygu.


**Canslo caniatâd**

Bydd caniatâd yn cael ei ganslo pan fydd y Swyddog Awdurdodi'n fodlon nad yw meini prawf y caniatâd yn cael eu bodloni mwyach. I ganslo caniatâd, dylai'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad lenwi ffurflen ganslo (a geir ar wefan y Swyddfa Gartref ac yn yr Atodiadau i'r ddogfen hon). Yna, dylai rheolwr y swyddog fwrw golwg dros y ffurflen cyn ei hanfon at y Swyddog Awdurdodi. Rhaid nodi dyddiad canslo'r caniatâd ar y ffurflen gais. Bydd hefyd angen esbonio'r rhesymau dros ganslo'r caniatâd a gwerth y wyliadwriaeth. Bydd angen datganiad gan y Swyddog Awdurdodi (gan gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch rheoli a storio'r cynnyrch).

Gweler Paragraffau 5.22-27 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2018.

Nid oes angen cymeradwyaeth ynad i ganslo caniatâd.

**Siart lif 3 – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig (cylch oes Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn debyg)**



**Canllawiau i Swyddogion Awdurdodi ar Ganiatáu Ceisiadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig**

Mae Adran 27 o RIPA yn darparu amddiffyniad os caiff gwyliadwriaeth gudd ei herio:

*‘(1) Conduct to which this Part applies shall be lawful for all purposes if -*
*(a) an authorisation under this Part confers an entitlement to engage in that conduct on the person whose conduct it is; and*
*(b) His conduct is in accordance with the authorisation.’*

I fanteisio ar yr amddiffyniad hwn, mae angen caniatáu’r wyliadwriaeth yn briodol. Mae Adran 28 yn nodi’r meini prawf ar gyfer caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ac mae Adran 29 yn trafod Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol.

**Terfynau Amser**

Ar hyn o bryd, tri mis yw terfyn amser caniatâd i gadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.

Rhaid caniatáu i’r caniatâd gwreiddiol gael ei adnewyddu cyn iddo ddod i ben, ond bydd yn dod i rym ar y dyddiad a’r amser y bydd y caniatâd gwreiddiol yn dod i ben. Gellir adnewyddu caniatâd fwy nag unwaith os tybir ei fod yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur ac os caiff ei gymeradwyo gan Ynad.

Ni chaniateir gwneud cais i adnewyddu caniatâd fwy na 7 diwrnod gwaith cyn i’r caniatâd ddod i ben, a hynny i sicrhau bod angen ei adnewyddu. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol ystyried ffactorau a allai beri oedi yn y broses adnewyddu (e.e. penwythnosau neu a yw swyddog awdurdodi perthnasol yr awdurdod lleol ac Ynad ar gael i ystyried y cais).

**Ystyriaethau’r Swyddog Awdurdodi**

Mae Adran 28(2) o RIPA yn datgan:

*‘A person shall not grant an authorisation for the carrying out of directed surveillance unless he believes -*

*(a) that the authorisation is necessary on grounds falling within subsection (3); and*
*(b) that the authorised surveillance is proportionate to what is sought to be achieved by carrying it out.’*

*Gweler **Siart lif 4** i asesu a ddylid caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.*

Rôl y Swyddog Awdurdodi yw ystyried y ffactorau a ganlyn.

**A. A yw’r wyliadwriaeth yn angenrheidiol?**

Rhaid ei bod yn angenrheidiol cadw gwyliadwriaeth ar un o’r seiliau a nodir yn A.28(3). Yn flaenorol, gallai awdurdodau lleol ganiatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig pan oedd yn angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn:

*‘for the purpose of preventing or detecting crime or of preventing disorder.’*
*A.28(3)(b))*

Yn adroddiad Adolygiad y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, gwnaed argymhelliad na ddylai awdurdodau lleol sydd am gadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ond wneud hynny pan fo'r drosedd y maent yn ymchwilio iddi'n drosedd ddifrifol.

Rhoddwyd yr argymhelliad hwn ar waith gan Orchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012, OS 2012/1500 a wnaed ym mis Mehefin 2012 ac a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2012. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010, OS 2010/521 ("Gorchymyn 2010"), sy'n pennu pa rai o swyddogion awdurdodau cyhoeddus sy'n meddu ar y pŵer i roi caniatâd i gadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a'r seiliau, o dan Adran 28(3), dros roi caniatâd.

**Ni** chaiff Swyddogion Awdurdodi'r Cyngor ganiatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ac eithrio er mwyn atal neu ganfod ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd, neu sy'n drosedd, ac sy'n bodloni'r amodau a nodir yn yr erthygl newydd, erthygl 7A(3)(a) neu (b) o Orchymyn 2010. Dyma'r amodau:

a) Bod modd **cosbi'r drosedd i'w hatal neu'i chanfod, o gael collfarn ddiannod neu dditiad, drwy uchafswm o chwe mis o garchar o leiaf** neu

b) Ei bod yn drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Mae'r ddwy drosedd hyn yn ymwneud â gwerthu tybaco ac alcohol i blant o dan oedran.

Bellach, ni ellir caniatáu cadw gwyliadwriaeth i fynd i'r afael ag anhrefn (e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol) fel Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, oni bai fod yr anhrefn yn cynnwys troseddau sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

Nid oes angen caniatâd RIPA ar gyfer yr hyn a ganlyn:
- Ymateb ar unwaith;
- Gweithgareddau arsylwi cyffredinol;
- Systemau CCTV/APNR agored;
- Faniau canfod teledu;
- Recordio cudd o niwsans sŵn
- Cyfweld ag aelodau o'r cyhoedd;
- Gwneud recordiadau cudd ar gyfer niwsans sŵn pan fo'r recordiadau hynny ar ffurf desibel neu os yw'n sŵn heb eiriau, neu os yw'r cynnwys geiriol ar lefel nad yw'n uwch nag y byddai modd ei glywed â'r glust heb gymorth dyfais (gweler Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2019, para 3.40); na
- Gwneud recordiadau agored a chudd o gyfweliadau gwirfoddol ag aelodau o'r cyhoedd.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi nodi'n glir pa weithgaredd neu gyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir i sicrhau bod y rheini sy'n cadw gwyliadwriaeth yn gwybod yn union beth sydd wedi'i ganiatáu ym mhob cam o'r broses ganiatáu. Sylweddolir nad yw bob amser yn bosibl rhagweld, ar ddechrau ymchwiliad, sut y bydd yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, ni ddylai'r ymgeiswyr ddefnyddio hyn fel rheswm dros wneud cais i ddefnyddio nifer fawr o dactegau / dechnegau 'rhag ofn' y bydd eu hangen yn ddiweddarach.

Ni chaiff y Swyddog Awdurdodi ganiatáu mwy nag y gellir ei gyfiawnhau ar adeg y penderfyniad caniatáu, a dylai arddangos rheolaeth, a dealltwriaeth briodol o reidrwydd, ymyrraeth anuniongyrchol a chymesuredd, mewn perthynas â phob techneg/tacteg y gofynnir

am ganiatâd i'w defnyddio. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn cael sylw drwy gydol cyfnod y caniatâd.

**B. <u>A yw'r wyliadwriaeth yn gymesur â'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni?</u>**

Ystyr cymesuredd yw sicrhau mai'r wyliadwriaeth yw'r dull lleiaf ymwthiol o gael gafael ar y wybodaeth ofynnol, a hynny ar ôl ystyried yr holl ddulliau amgen rhesymol. Yn ogystal ag ystyried a yw'r wyliadwriaeth yn briodol, rhaid hefyd ystyried y dull a ddefnyddir, am ba mor hir y bydd gwyliadwriaeth yn cael ei chadw, a'r cyfarpar a gaiff ei ddefnyddio.

Mae angen taro cydbwysedd rhwng yr ymyrraeth a'r budd. Rhaid ystyried pob cais yn ôl ei rinwedd ei hun.

Nid yw'n dderbyniol ystyried a oes angen caniatâd ar sail disgrifiad o'r wyliadwriaeth yn unig. Rhaid ystyried y ffeithiau penodol ar sail egwyddorion cyfreithiol. Mater o farn ydyw.

Rhaid nodi a rhoi disgrifiad clir o'r ymddygiad y bwriedir ei atal/ganfod, a rhaid esbonio pam ei bod yn angenrheidiol defnyddio'r technegau cudd y gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio.

Ni chaiff y Swyddog Awdurdodi ganiatáu mwy nag y gellir ei gyfiawnhau ar adeg y penderfyniad caniatáu, a dylai arddangos rheolaeth, a dealltwriaeth briodol o reidrwydd, ymyrraeth anuniongyrchol a chymesuredd, mewn perthynas â phob tacteg y gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio.

Yn ei hadroddiadau arolygu, mae Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio yn aml yn datgan nad yw'r swyddogion wedi deall cysyniad cymesuredd yn iawn neu nad ydynt wedi dangos ar y ffurflen gais eu bod yn cydymffurfio. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 (Para 4.7) yn mynnu y dylid rhoi sylw i bedair agwedd ar y ffurflen gais:

1. Taro cydbwysedd rhwng maint a chwmpas y gweithgaredd arfaethedig a difrifoldeb a hyd a lled y drosedd neu'r dramgwydd dybiedig;
2. Egluro sut a pham y bydd y dulliau a ddefnyddir yn ymyrryd cyn lleied â phosibl â tharged y wyliadwriaeth ac eraill;
3. Ystyried a yw'r gweithgaredd yn gwneud defnydd priodol o'r ddeddfwriaeth a'i fod yn ffordd resymol o gyflawni'r canlyniad angenrheidiol, ar ôl ystyried yr holl opsiynau rhesymol eraill;
4. Rhoi tystiolaeth, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, o'r dulliau eraill a gafodd eu hystyried a'r rheswm dros eu diystyru.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried y modd y cafodd y tactegau'u defnyddio hyd yma, ynghyd â'u heffaith ac unrhyw gynnyrch, i sicrhau bod pob tacteg ychwanegol yn ofynnol, a oes modd cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol, ac a yw effaith gronnus y tactegau'n gymesur.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi nodi yn ei eiriau ei hun pam y mae'n credu bod y gweithgarwch (RIPA) yn angenrheidiol ac yn gymesur. Nid yw haeriad moel yn ddigon.

**C. <u>A ellir atal neu leihau ymyrraeth anuniongyrchol?</u>**

Bydd angen i'r Swyddog Awdurdodi ystyried yn ofalus pa mor debygol yw hi y bydd ymyrraeth anuniongyrchol yn digwydd. Ystyr ymyrraeth anuniongyrchol yw ymyrraeth â phreifatrwydd unigolion ac eithrio'r rheini y mae'r ymchwiliad neu'r ymgyrch yn ymwneud â

nhw'n uniongyrchol. Os yw'r risg yn fawr, dylid cymryd camau, lle bynnag y bo'n ymarferol, i atal neu i leihau unrhyw ymyrraeth ddiangen.

Bydd angen i'r Swyddogion Ymchwilio a'r Swyddogion Awdurdodi ofyn y cwestiynau a ganlyn iddyn nhw eu hunain:

i. Beth yw'r effaith ar unrhyw drydydd parti? A yw'n fawr? A ellir ei chyfiawnhau?
ii. Os yw'n fawr, beth y gellir ei wneud i'w hatal neu'i lleihau?
iii. Ydy'r canlynol wedi cael eu hystyried:
    - Newid amseriad y wyliadwriaeth;
    - Cadw llai o wyliadwriaeth;
    - Newid y dull o gadw gwyliadwriaeth;
    - Natur y wybodaeth breifat sy'n debygol o'i chael;
    - Sensitifrwydd y gymuned leol a'r
    - Dulliau o gadw gwyliadwriaeth a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus eraill?

Yr angen i gael gafael ar y dystiolaeth orau i ymchwilio i'r drosedd fydd y brif ystyriaeth bob amser.

**Y cam nesaf:** Pan fydd y wyliadwriaeth wedi'i chaniatáu, y cam nesaf fydd gofyn am gymeradwyaeth Ynad (gweler isod)


Rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau, drwy eu Rheolydd Data, eu bod yn cydymffurfio â gofynion priodol diogelu data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 ac unrhyw drefniadau mewnol perthnasol a gynhyrchwyd gan y Cyngor sy'n ymwneud â thrafod a storio deunydd (gweler Paragraffau 9.1.4 i 9.2.2 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 a Rhan 7 isod). O fewn y Cyngor, y Swyddog Diogelu Data yw hwn a bydd ef/hi yn adrodd i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

Fel y nodir uchod (a Rhan 4 isod), wrth ganiatáu unrhyw geisiadau am wyliadwriaeth gyfeiriedig, ac wrth ystyried adnewyddu, adolygu a chanslo unrhyw ganiatâd, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:

(a) am ba hyd y cedwir y data?; a

(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

**Siart lif 4 – Caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig**




DRAFT

**GOFYN AM GYMERADWYAETH YNAD (CYMERADWYAETH FARNWROL) AR GYFER GWYLIADWRIAETH GYFEIRIEDIG**

**Cefndir**

Daeth Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (adrannau 37 a 38) i rym ar 1 Tachwedd 2012. Bu i hyn newid y weithdrefn ar gyfer caniatáu gweithgareddau cadw gwyliadwriaeth gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) a rhaid cael cymeradwyaeth Ynad i ddefnyddio Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

Mae angen cymeradwyaeth hefyd os yw caniatâd i ddefnyddio technegau o'r fath yn cael ei adnewyddu. Ym mhob achos, rôl yr Ynad yw sicrhau bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn a bod y ffactorau perthnasol wedi'u hystyried. Nid oes angen i'r Ynad ystyried penderfyniadau i ganslo caniatâd nac adolygiadau mewnol.

**Canllawiau'r Swyddfa Gartref**

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch proses gymeradwyo'r Ynad, a hynny ar gyfer yr awdurdodau lleol a'r Llysoedd Ynadon:
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/counter-terrorism/ripa-forms/local-authority-ripa-guidance/

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhai statudol, ond maent yn rhoi cyngor ynghylch y ffordd orau y gall yr awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r newidiadau i'r gyfraith a'r trefniadau newydd y dylid eu cyflwyno i roi'r newidiadau ar waith yn effeithiol. Mae'r canllawiau'n ategu'r ddeddfwriaeth a'r ddau God Ymarfer a wnaed o dan RIPA.

***Gweler Siart lif 5 i gael crynodeb o broses gymeradwyo'r Ynad***

**Proses Gymeradwyo'r Ynad**

1. Y cam cyntaf fydd gwneud cais am ganiatâd mewnol yn y ffordd arferol. Pan fydd hwn wedi'i roi, bydd angen i'r awdurdod lleol gysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad.

2. Bydd y gwrandawiad yn achos cyfreithiol. Felly, bydd angen i swyddogion yr awdurdod lleol gael eu dynodi'n ffurfiol i ymddangos gerbron yr ynad, tyngu llw, a chyflwyno tystiolaeth neu ddarparu gwybodaeth, yn ôl y gofyn, i gefnogi'r cais. Bydd angen i'r Cyngor ddynodi swyddogion yn ffurfiol at y diben hwn o dan adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn iddynt gynrychioli'r Cyngor yn yr achos.

3. Mae'r Swyddfa Gartref yn awgrymu mai'r Swyddog Ymchwilio fydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r rôl hon, ond gall y Swyddog Awdurdodi hefyd fod yn awyddus i fynd i'r gwrandawiad i ateb cwestiynau.

4. Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi copi i'r Ynad o'r caniatâd RIPA gwreiddiol. Hwn fydd sail y cais i'r Ynad a dylai gynnwys yr holl wybodaeth y bydd yn dibynnu arni. Yn ogystal, bydd yr awdurdod lleol yn darparu i'r Ynad ddau gopi o'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol wedi'i llenwi'n rhannol sydd ar gael yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref (mae ffurflenni enghreifftiol (gyda chanllawiau ar lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen we]).

5. Cynhelir y gwrandawiad yn breifat a bydd un Ynad yn gwrando ar yr achos, drwy ddarllen ac ystyried y caniatâd RIPA a'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol. Gall fod gan

yr Ynad gwestiynau er mwyn egluro pwyntiau neu gael sicrwydd ynghylch materion penodol. Rhaid i'r ffurflenni a'r papurau ategol ddadlau'r achos o'u rhan eu hunain. **Nid yw'n ddigonol i'r awdurdod lleol ddarparu tystiolaeth lafar os nad yw'r papurau a ddarperir yn adlewyrchu neu'n cefnogi'r dystiolaeth honno.**

6. Bydd yr Ynad yn ystyried a yw'n fodlon bod sail resymol dros gredu, ar yr adeg y cafodd y caniatâd ei roi neu'i adnewyddu, fod y caniatâd yn angenrheidiol ac yn gymesur. Byddant hefyd yn ystyried a yw'r sail resymol yn parhau. Yn ogystal, rhaid i'r Ynad fod yn fodlon bod y Swyddog Awdurdodi mewn swydd briodol o fewn yr awdurdod lleol a bod y caniatâd wedi'i roi yn unol ag unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol perthnasol (e.e. ei fod yn bodloni'r Prawf Trosedd Ddifrifol ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig).

7. Bydd yr Ynad yn cwblhau'r gorchymyn sy'n rhan o'r ffurflen a enwir uchod. Hwn fydd cofnod swyddogol ei benderfyniad. Bydd angen i'r Cyngor gadw copi o'r ffurflen ar ôl i'r Ynad ei llofnodi.

**<u>Dewisiadau'r Ynad</u>**

Gall yr Ynad benderfynu fel a ganlyn -

- ***Cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd***

Bydd y caniatâd a roddwyd/adnewyddwyd yn dod i rym a chaiff y Cyngor fwrw ymlaen i ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth a enwir ynddo.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd ar bwynt technegol***

Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac <u>ni</u> chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y rhesymau dros wrthod cymeradwyaeth. Gellir cywiro gwall technegol ar y ffurflen heb fod angen mynd drwy'r broses ganiatáu fewnol eto. Yna, gall y Cyngor wneud cais arall am gymeradwyaeth Ynad.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd a dileu'r caniatâd***

Gall Ynad wrthod cymeradwyo rhoi neu adnewyddu caniatâd a phenderfynu dileu'r caniatâd gwreiddiol. Gall wneud hyn oherwydd ei fod yn credu nad yw'n angenrheidiol neu'n gymesur. Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac <u>ni</u> chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Ni chaniateir i'r Ynad ddefnyddio'i bŵer i ddileu'r caniatâd oni bai fod yr awdurdod lleol wedi cael o leiaf ddau ddiwrnod gwaith o'r dyddiad y gwrthodwyd cymeradwyaeth i baratoi sylwadau pellach a'u cyflwyno i'r llys.

**<u>Apeliadau</u>**

Nid oes modd cwyno am benderfyniad barnwrol oni bai iddo gael ei wneud yn annidwyll. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn at Bwyllgor Cynghori'r Ynadon. Felly, ni chaiff y Cyngor ond apelio yn erbyn penderfyniad Ynad i wrthod cymeradwyo caniatâd ar bwynt cyfreithiol drwy wneud cais am Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys.

Bydd y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT') yn parhau i ymchwilio i gwynion gan unigolion ynghylch y modd y mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn defnyddio technegau RIPA. Ar ôl i gŵyn ddod i law'r Tribiwnlys, os yw'n cael bod rhywbeth o'i le â'r caniatâd RIPA, mae ganddo bŵer i ddileu gorchymyn yr Ynad, a oedd yn cymeradwyo rhoi neu adnewyddu'r caniatâd. Gall hefyd ddyfarnu iawndal os yw'n credu bod yr awdurdod lleol wedi torri hawliau dynol unigolyn (gweler Rheolau'r Tribiwnlys ar Bwerau Ymchwilio 2018 (OS 2018/1334), a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2018).

DRAFT

**Siart lif 5 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon**

Llenwi'r ffurflen ganiatâd a gofyn am gymeradwyaeth Swyddog Awdurdodi

↓

Llenwi ffurflen gais am gymeradwyaeth ynad

↓

Cysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad

↓

Mynd i'r llys, a mynd â'r dogfennau a ganlyn gyda chi:

- Ffurflen ganiatâd RIPA wedi'i chydlofnodi a chopi ohoni
- Ffurflen gais am gymeradwyaeth ynad a chopi ohoni
- Unrhyw ddeunydd cyfeirio neu ddeunydd ategol perthnasol

↓

**DEWISIADAU'R YNAD**

**GWRTHOD CYMERADWYO**
a dileu'r caniatâd oherwydd gwall sylfaenol

(bydd gan y Cyngor 2 ddiwrnod i gyflwyno sylwadau pellach)

**GWRTHOD CYMERADWYO**

caniatâd oherwydd gwall technegol

(cywiro'r gwall ac ailgyflwyno'r cais i'r llys)

**CYMERADWYO'R CANIATÂD**

Gall y Cyngor fynd ati i gadw gwyliadwriaeth

DRAFT

# RHAN 3 – Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ('CHIS')

Fel y nodwyd uchod, ym Mhennod 2 o RIPA, nodir fframwaith rheoleiddio'r technegau ymchwilio cudd a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthygl 8, (yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol).

Y mater cyntaf i unrhyw swyddog awdurdod lleol sy'n ystyried cadw gwyliadwriaeth gudd yw pa fath o wyliadwriaeth y mae'n ei gadw, ac **a yw'n rhywbeth y gellir ei ganiatáu o dan RIPA.** Mae Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn un o'r ddwy dechneg wyliadwriaeth sydd ar gael i'r Cyngor o dan Ran 2 o Bennod 2 o RIPA. Yr ail dechneg sydd ar gael yw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, ond ni all y Cyngor ganiatáu'r drydedd dechneg, sef Gwyliadwriaeth Agored.

## Ystyr Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol

Diffinnir Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn A.26(8) o'r Ddeddf RIPA:

*'…a person is a covert human intelligence source if -*

*(a) he establishes or maintains a personal or other relationship with a person for the covert purpose of facilitating the doing of anything falling within paragraph (b) or (c);*

*(b) he covertly uses such a relationship to obtain information or to provide access to any information to another person; or*

*(c) he covertly discloses information obtained by the use of such a relationship, or as a consequence of the existence of such a relationship.'*

I bennu a yw unigolyn yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid gofyn tri chwestiwn:

1. A yw'r unigolyn yn sefydlu neu'n cynnal perthynas bersonol neu berthynas arall ag unigolyn?
2. A yw'r berthynas honno'n cael ei defnyddio at ddiben cudd? ac
3. A yw'r diben cudd yn hwyluso unrhyw beth sy'n perthyn i Baragraff (b) neu (c) uchod?

***Gweler Siart lif 6** i asesu a yw'r wyliadwriaeth yn cynnwys ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol.*

Rhywun sy'n celu neu'n cam-fynegi pwy ydyw mewn gwirionedd i gasglu gwybodaeth yn gudd gan y targed neu i gael gafael ar wybodaeth ganddo yw Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Er enghraifft, gall Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol fod yn ymchwilydd preifat sy'n cymryd arno ei fod yn byw ar ystad dai i gasglu tystiolaeth am ddelio cyffuriau neu'n hysbysydd sy'n rhoi gwybodaeth i'r Gwasanaeth Safonau Masnach am arferion busnes anghyfreithlon mewn ffatri neu siop.

## Gwerthu i rai o dan oedran

Os yw'r person ifanc yn cael ei friffio i ddechrau sgwrs a allai arwain at gaffael gwybodaeth breifat, gall fod angen caniatâd. Fodd bynnag, os na ddywedir wrth y person ifanc am gyfathrebu, ac felly os na chaiff unrhyw wybodaeth breifat ei chaffael, nid oes angen caniatâd.

## Y prif bwyntiau i'w nodi:

A. Nid yw gwirfoddolwr cyhoeddus yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Mae Cod Ymarfer diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol 2018 (Para 2.18) yn datgan:

DRAFT

*'In many cases involving human sources, a relationship will not have been established or maintained for a covert purpose. Many sources merely volunteer or provide information that is within their personal knowledge, without being induced, asked, or tasked by a public authority. This means that the source is not a CHIS for the purposes of the 2000 Act and no authorisation under the 2000 Act is required.'*
(Gweler Pennod 3 o'r Cod i gael arweiniad pellach ar y mathau o weithgarwch ffynhonnell y gall caniatâd o dan Ran II o RIPA fod yn gymwys iddo neu beidio)

**Rhaid gofalu nad yw rhywun sy'n wirfoddolwr cyhoeddus yn y lle cyntaf yn troi'n ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol yn y pen draw.**

B. Rhaid bod perthynas yn cael ei defnyddio'n gudd i ddarparu mynediad at wybodaeth neu i ddatgelu gwybodaeth yn gudd. Os byddwch yn rhoi dyddiadur i achwynydd er mwyn iddo nodi pwy sy'n mynd a dod, nid yw'r unigolyn hwnnw'n ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol.

C. O dan rai amgylchiadau, gall fod angen caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol i ddefnyddio prawf brynwr.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2019 hefyd yn rhoi'r enghreifftiau a ganlyn, i helpu i ddarlunio ac i ddehongli darpariaethau penodol – ond nid ydynt yn ddarpariaethau yn y Cod. Dim ond i roi arweiniad y maent wedi'u cynnwys:

**'Example 3:** Local authority officers attend a car boot sale where it is suspected that counterfeit goods are being sold, but they are not carrying out surveillance of particular individuals and their intention is, through reactive policing, to identify and tackle offenders. Again this is part of the general duties of public authorities and the obtaining of private information is unlikely. A directed surveillance authorisation need not be sought.
***Example 4:*** *Intelligence suggests that a local shopkeeper is openly selling alcohol to underage customers, without any questions being asked. A juvenile is engaged and trained by a public authority and then deployed to act as a juvenile in order to make a purchase of alcohol. In these circumstances any relationship, if established at all, is likely to be so limited in regards to the requirements of the Act that a public authority may conclude that a CHIS authorisation is unnecessary. However, if the test purchaser is wearing recording equipment and is not authorised as a CHIS, or an adult is observing, consideration should be given to granting a directed surveillance authorisation.'*

Pan fyddant yn ystyried gweithgareddau prawf brynu gan rai o dan oedran, rhaid i'r swyddogion ymchwilio a'r Swyddog Awdurdodi hefyd roi sylw i'r:

- Cod Ymarfer ar gyfer Darparu gwaith Rheoleiddio: Cynnyrch a Gwasanaethau â Chyfyngiadau Oedran (Ebrill 2014) (sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-age-restricted-products); and


- Ffugenwau/Personâu Ar-lein
  Os caniateir i'r rhain gael eu defnyddio'n gorfforaethol, bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cynnal cofrestr o'r ffugenwau hyn gan gynnwys manylion y gwasanaethau neu'r swyddogion sy'n gallu eu defnyddio/eu cymeradwyo.

Wedyn dylai Rheolwyr a/neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol wirio unrhyw ddefnydd o'r fath, gan gynnwys adolygu pa safleoedd ar y cyfryngau yr ymwelwyd â nhw, pryd, i ba ddiben, a beth a wnaed â'r cynnyrch a ddaeth yn sgil hynny. Mae'n ofynnol i Wasanaethau perthnasol:

- cofnodi gwybodaeth/dyddiad yn ymwneud â gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol/ar-lein;
- nodi Swyddog Dynodedig yn y Gwasanaeth i goladu'r wybodaeth;
- rhoi'r wybodaeth hon i'r Swyddog Dynodedig; a
- bydd y Swyddog Dynodedig yn rhoi'r wybodaeth i'r Uwch-swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol bob 4 mis.

DRAFFT

## Siart lif 6 – A ydych yn defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS)?




DRAFT

**Y drefn o wneud cais am ganiatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan RIPA**

Oherwydd y gofynion statudol y mae angen ymlynu wrthynt pan fydd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio, nid yw'n debygol y bydd modd defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol mewn ymchwiliad heb gryn dipyn o gynllunio ymlaen llaw. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol fel dull o gadw gwyliadwriaeth ac fe allai ofyn am gymorth yr Heddlu.

Roedd Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 wedi diwygio Deddf 2000 i sicrhau bod caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn destun cymeradwyaeth gan Ynad. Golyga'r newidiadau hyn fod angen i awdurdodau lleol gael cymeradwyaeth Ynad Heddwch i roi neu adnewyddu caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ac er mwyn i'r caniatâd ddod i rym.

Os yw unrhyw un o swyddogion y Cyngor yn bwriadu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, ac mae angen cyngor ac arweiniad arno, dylai gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol a/neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol **cyn gwneud unrhyw beth**.

Sylwch, fel uchod, nid yw aelod o'r cyhoedd sy'n gwirfoddoli yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

**Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc**

Mae'r broses o ganiatáu i Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ifanc (o dan 18 oed) gael ei defnyddio yn cynnwys rhagofalon arbennig. Ni ellir rhoi caniatâd oni bai fod y darpariaethau a geir yng Ngorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Pobl Ifanc) 2000 https://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/2793/contents/made yn cael eu bodloni. Mae Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc hefyd ar gael:
https://www.gov.uk/government/publications/covert-human-intelligence-sources-draft-code-of-practice/juvenile-accessible-version.

Os ydych yn bwriadu defnyddio pobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed fel Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid ichi ofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr.

Os yw unrhyw un o swyddogion y Cyngor yn bwriadu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ifanc, ac mae angen cyngor ac arweiniad arno, dylai gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol a/neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol **cyn gwneud unrhyw beth**.

**Gweithgarwch Cudd Ar-lein – Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA**

Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor sy'n rhoi manylion ym Mharagraff 4.11 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cudd-wybodaeth Dynol 2018 (mewn perthynas â chaniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol), ac y mae'n rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi hwn.

**Llenwi'r Ffurflenni**

Bydd angen i'r Swyddog wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol. Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni o wefan y Swyddfa Gartref
https://www.gov.uk/government/collections/ripa-forms--2

Bydd angen rhoi'r wybodaeth a ganlyn ar y ffurflen gais:

- Manylion yr hyn y bydd y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio ar ei gyfer;
- Enw'r sawl a gaiff ei ddefnyddio fel Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, os yw'n wybyddus;
- Manylion yr hyn y bydd gofyn i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ei wneud;
- Manylion yr ymchwiliad;
- Y rheswm dros gredu bod defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn gymesur;
- Eglurhad o'r wybodaeth yr ydych yn gobeithio cael gafael arni;
- Y posibilrwydd o ymyrraeth anuniongyrchol (h.y. ymyrryd â phreifatrwydd unigolion nad ydynt yn rhan o'r ymchwiliad);
- Y tebygrwydd y byddwch yn cael gafael ar wybodaeth gyfrinachol; a
- Chyfeirnod Unigryw dilyniannol a geir gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ac a nodir ar y ffurflen.

**Dylai'r swyddogion sy'n gwneud cais i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod yn gwybod am y dogfennau a ganlyn a'u bod yn rhoi sylw iddynt:**

- Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol;
- Y polisi RIPA hwn a'r
- Gweithdrefnau a Dogfennau Cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth.

Mae ffurflenni enghreifftiol (gydag arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen we]). Bydd **Siart lif 3** o gymorth i chi hefyd.

**Sylwch:** Yn yr un modd â'r ffurflenni cais am ganiatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig, ni ddylech ddefnyddio testun safonol pan fyddwch yn llenwi cais am ganiatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Cyn rhoi caniatâd, bydd rhaid bodloni'r Swyddog Awdurdodi fod y caniatâd yn angenrheidiol i atal neu ganfod trosedd. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi hefyd gredu bod defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn gymesur â'r canlyniad gofynnol a bod gweithdrefnau digonol ar waith i gadw cofnodion o'r ymgyrch. Bydd angen ystyried ymyrraeth anuniongyrchol hefyd.

Fel y nodir yn Rhan 4 isod, wrth ganiatáu unrhyw geisiadau i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:

(a) am ba hyd y cedwir y data?; a

(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

Wrth ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid i'r Swyddog Awdurdodi a'r swyddog sy'n cyflwyno'r cais roi sylw i adran 29(5) o RIPA ac i Reoliadau Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Cofnodion Ffynhonnell) 2000.

Mae'r darpariaethau hyn yn darparu (ymhlith pethau eraill) yr hyn a ganlyn:

- Bod swyddog yn y Cyngor yn ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol bob amser;
- Bod swyddog arall yn y Cyngor yn cadw golwg cyffredinol ar y modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio;

- Bod y cofnodion yn nodi gwybodaeth bwysig sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol;
- Bod y tasgau a roddir i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r defnydd a wneir o'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael eu cofnodi;
- Manylion adnabod y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r manylion adnabod y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn eu defnyddio; a
- Bod cofnodion yn cael eu cadw o'r holl gyfathrebu a'r holl gysylltiadau rhwng y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r Cyngor/y swyddog perthnasol yn y Cyngor.

**Cylch oes caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol**

Pan fydd caniatâd wedi'i roi, bydd y Swyddog Awdurdodi'n ystyried hyd y caniatâd, adnewyddu'r caniatâd a chanslo'r caniatâd.

**Sylwch: Nid yw unrhyw hysbysiad na chaniatâd yn dod i rym hyd nes i Ynad ei gymeradwyo (nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer data cyfathrebu, y mae'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) yn delio ag ef (gweler Rhan 4 isod)).**

Mae caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn dod i ben 12 mis ar ôl y dyddiad cymeradwyo. Mae caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc yn para am fis.

**CANLLAWIAU I SWYDDOGION AWDURDODI SY'N CANIATÁU FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL: RHEOLAU A MEINI PRAWF**

Mae Adran 27 o RIPA yn darparu amddiffyniad os caiff gwyliadwriaeth gudd ei herio:

*'1) Conduct to which this Part applies shall be lawful for all purposes if -*

a. *an authorisation under this Part confers an entitlement to engage in that conduct on the person whose conduct it is; and*
b. *his conduct is in accordance with the authorisation.'*

I fanteisio ar yr amddiffyniad hwn, mae angen caniatáu'r wyliadwriaeth yn briodol.
Mae A.29 yn nodi'r meini prawf i ganiatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Gweler **Siart lif 7** i asesu a ddylid caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

**Y Swyddog Awdurdodi**

Mae RIPA a'r Codau cysylltiedig yn mynnu pan fydd y Cyngor yn defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol mai dim ond swyddog â phwerau dirprwyedig a gaiff ganiatáu'r gweithgareddau hyn, a hynny pan fydd y meini prawf perthnasol wedi'u bodloni.

Mae Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 (OS 2010 Rhif 521) yn datgan y gall Swyddog Awdurdodi'r awdurdod lleol fod yn Gyfarwyddwr, yn Bennaeth Gwasanaeth, yn Rheolwr Gwasanaeth neu'n unigolyn mewn swydd gyfatebol.

Felly, ar hyn o bryd, gall gwasanaethau enwebu swyddogion sy'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu'n uwch. Bydd y swyddogion hyn yn gallu caniatáu'r gweithgareddau hyn, naill ai fel Swyddog Awdurdodi at ddibenion gwyliadwriaeth gyfeiriedig gudd neu ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Yn unol ag ad-drefnu corfforaethol y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, ac yn dilyn penderfyniad y Cyngor a wnaed ar 21 Mehefin 2018, caniateir i'r



DRAFT

swyddogion a ganlyn weithredu fel Swyddogion Awdurdodi (y Swyddogion Awdurdodi yw'r rheiny a benodwyd i ganiatáu ceisiadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig).

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; a**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.**

Fel uchod, os yw'n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei chaffael fel rhan o'r wyliadwriaeth neu os yw pobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed yn cael eu defnyddio, **rhaid** gofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr neu, yn ei absenoldeb, y Prif Weithredwr dros dro.

Os nad ydych yn sicr eich bod yn gofyn am ganiatâd gan swyddog ar lefel ddigon uchel, dylech gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Gyfrifol i gael cyngor.

Fel uchod, rhaid bod yn ofalus lle, drwy ddefnyddio gwyliadwriaeth, y byddai'n bosibl caffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn sy'n ymwneud â lles ysbrydol yr olaf, neu lle gallai materion cyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol godi.

Pan fydd deunydd o'r fath wedi'i gaffael a'i gadw, rhaid hysbysu Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor cyn gynted â phosibl, gan y dylid rhoi gwybod I Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) am y mater yn ystod ei harolygiad nesaf, a dylai'r deunydd fod ar gael i'r IPCO, os gofynnir amdano.

<u>**Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi**</u>

Mae Adran 29(2) o RIPA yn datgan:

*'A person shall not grant an authorisation for the conduct or the use of a covert human intelligence source unless he believes -*

*(a) that the authorisation is necessary on grounds falling within subsection (3);*

*(b) that the authorised conduct or use is proportionate to what is sought to be achieved by that conduct or use; and*

*(c)* arrangements exist for the source's case that satisfy—

*(i) the requirements of subsection (4A), in the case of a source of a relevant collaborative unit;*

*(iii) the requirements of subsection (5), in the case of any other source; and that satisfy such other requirements as may be imposed by order made by the Secretary of State'*

***Gweler Siart lif 7 i benderfynu a ddylid caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.***

Mae'n bwysig ystyried tri mater cyn caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol:

**1. Rheidrwydd**

Rhaid ei bod yn angenrheidiol defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ar un o'r seiliau a nodir yn A.29(3). Dim ond ar un sail y caiff awdurdodau lleol ganiatáu ei defnyddio, sef pan fo'n angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn:

*'for the purpose of preventing or detecting crime or of preventing disorder.'*
*(A.29 (3) (b))*

Rhaid bod y mater sy'n destun ymchwiliad yn drosedd y gellir ei hadnabod neu raid ei fod yn gyfystyr ag anhrefn.

**2. Cymesuredd**

Ystyr cymesuredd yw sicrhau mai defnyddio'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yw'r dull lleiaf ymwthiol o gael gafael ar y wybodaeth ofynnol, a hynny ar ôl ystyried yr holl ddulliau amgen rhesymol. Yn ogystal ag ystyried a yw defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn briodol, rhaid hefyd ystyried y dull a ddefnyddir, am ba hyd y bydd yn cael ei defnyddio, a'r cyfarpar a gaiff ei ddefnyddio. Mae'r Cod ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (Para 3.5) yn mynnu y dylid rhoi sylw i bedair agwedd ar y ffurflen gais:

- Taro cydbwysedd rhwng maint a chwmpas y gweithgaredd arfaethedig a difrifoldeb a hyd a lled y drosedd neu'r dramgwydd dybiedig;
- Egluro sut a pham y bydd y dulliau a ddefnyddir yn ymyrryd cyn lleied â phosibl â tharged y wyliadwriaeth ac eraill;
- Ystyried a yw'r gweithgaredd yn gwneud defnydd priodol o'r ddeddfwriaeth a'i fod yn ffordd resymol o gyflawni'r canlyniad angenrheidiol, ar ôl ystyried yr holl opsiynau rhesymol eraill;
- Rhoi tystiolaeth, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, o'r dulliau eraill a gafodd eu hystyried a'r rheswm dros eu diystyru.

Nid yw'n dderbyniol ystyried a oes angen caniatâd ar sail disgrifiad o'r wyliadwriaeth yn unig. Rhaid ystyried y ffeithiau penodol ar sail egwyddorion cyfreithiol. Mater o farn ydyw.

Rhaid nodi a rhoi disgrifiad clir o'r ymddygiad y bwriedir ei atal/ganfod, a rhaid esbonio pam ei bod yn angenrheidiol defnyddio'r technegau cudd y gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio.

**3. Trefniadau diogelwch a lles**

Yn aml, bydd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd anodd sydd weithiau'n beryglus e.e. hysbysydd ar ystad dai sy'n dod i gysylltiad â gang troseddol. Rhaid rhoi trefniadau diogelwch a lles priodol ar waith ar gyfer pob Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Yn unol ag A.29(5), mae'n ofynnol gwneud y ddarpariaeth a ganlyn:

- Pennu unigolyn a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am ymdrin â'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ar ran yr awdurdod, ac am ei diogelwch a'i lles;
- Pennu unigolyn a fydd yn cadw golwg cyffredinol ar y modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio. Rhaid iddo fod yn unigolyn gwahanol i'r unigolyn uchod;
- Pennu unigolyn a fydd yn cadw cofnod o'r modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio. Gall fod yn unrhyw un o'r ddau unigolyn uchod neu'n unigolyn arall; a
- Chadw cofnodion priodol a diogel am y modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio.

**Asesu risg:** Efallai na chaiff caniatâd i gyfarwyddo na defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ei roi na'i adnewyddu p'un bynnag os yw'r ffynhonnell o dan ddeunaw oed ar yr adeg y caiff y caniatâd ei roi neu'i adnewyddu, oni bai fod asesiad risg wedi'i gyflawni. Rhaid i'r asesiad fod yn ddigonol i ddangos:

DRAFT

- Bod natur a maint unrhyw risg o niwed corfforol i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a allai godi yng nghwrs cyflawni'r gweithredoedd a ddisgrifir yn y caniatâd, neu o ganlyniad iddynt, wedi'u nodi a'u gwerthuso;

- Bod natur a maint unrhyw risg o drallod seicolegol i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a allai godi yng nghwrs cyflawni'r gweithredoedd a ddisgrifir yn y caniatâd, neu o ganlyniad iddynt, wedi'u nodi a'u gwerthuso;

- Bod y sawl sy'n rhoi neu'n adnewyddu'r caniatâd wedi ystyried yr asesiad risg a'i fod yn fodlon bod unrhyw risgiau a nodir ynddo wedi'u cyfiawnhau ac, os yw'n fodlon, eu bod wedi'u hegluro'n briodol wrth y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'i bod wedi'u deall; a


- Bod y sawl sy'n rhoi neu'n adnewyddu'r caniatâd yn gwybod a yw'r berthynas y byddai'r weithred neu'r defnydd yn berthnasol iddi yn berthynas rhwng y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ac aelod o'i theulu, gwarcheidwad neu unigolyn sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros les y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol am y tro, ac, os ydyw, a roddwyd ystyriaeth benodol i b'un a ellir cyfiawnhau'r caniatâd yng ngoleuni'r ffaith honno.

Fel y nodwyd uchod, wrth ganiatáu unrhyw geisiadau am Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:
(a) am ba hyd y cedwir y data?; a
(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

**Y cam nesaf:** Pan fydd caniatâd wedi'i roi i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, y cam nesaf fydd gofyn am gymeradwyaeth Ynad (gweler isod).

DRAFT

## Siart lif 7 – Caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol



## GOFYN AM GYMERADWYAETH YNAD AR GYFER FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL (CYMERADWYAETH FARNWROL)

### Cefndir

Ers 1 Tachwedd 2012 a chyflwyno Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012 (adrannau 37 a 38), mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael cymeradwyaeth Ynad ar gyfer defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Mae angen cymeradwyaeth hefyd i adnewyddu caniatâd. Ym mhob achos, rôl yr Ynad yw sicrhau bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn a bod y ffactorau perthnasol wedi'u hystyried. Nid oes angen i'r Ynad ystyried penderfyniadau i ganslo caniatâd nac adolygiadau mewnol.

### Canllawiau'r Swyddfa Gartref

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch proses gymeradwyo'r Ynad, a hynny ar gyfer yr awdurdodau lleol a'r Llysoedd Ynadon:
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/counter-terrorism/ripa-forms/local-authority-ripa-guidance/

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhai statudol, ond maent yn rhoi cyngor ynghylch y ffordd orau y gall y Cyngor fynd i'r afael â'r newidiadau i'r gyfraith a'r trefniadau newydd y dylid eu cyflwyno i roi'r newidiadau ar waith yn effeithiol. Mae'r canllawiau'n ategu'r ddeddfwriaeth a'r ddau God Ymarfer a wnaed o dan RIPA.

### Proses Gymeradwyo'r Ynadon (gweler hefyd Siart Lif 8 isod)

1. Y cam cyntaf fydd gwneud cais am ganiatâd mewnol yn y ffordd arferol. Pan fydd hwn wedi'i roi, bydd angen i'r Cyngor gysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad.

2. Bydd y gwrandawiad yn achos cyfreithiol. Felly, bydd angen i Swyddogion y Cyngor gael eu dynodi'n ffurfiol i ymddangos gerbron yr Ynad, tyngu llw, a chyflwyno tystiolaeth neu ddarparu gwybodaeth, yn ôl y gofyn, i gefnogi'r cais. Bydd angen i'r Cyngor ddynodi Swyddogion yn ffurfiol at y diben hwn o dan adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn iddynt gynrychioli'r Cyngor yn yr achos.

3. Mae'r Swyddfa Gartref yn awgrymu mai'r Swyddog Ymchwilio fydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r rôl hon, ond gall y Swyddog Awdurdodi hefyd fod yn awyddus i fynd i'r gwrandawiad i ateb cwestiynau.

4. Bydd y Cyngor yn rhoi copi i'r Ynad o'r caniatâd RIPA gwreiddiol. Hwn fydd sail y cais i'r Ynad a dylai gynnwys yr holl wybodaeth y bydd yn dibynnu arni. Yn ogystal, bydd yr awdurdod lleol yn darparu i'r Ynad ddau gopi o'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol wedi'i llenwi'n rhannol sydd ar gael yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref (ffurflenni enghreifftiol (gydag arweiniad ar lenwi'r ffurflenni) ac ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [rhowch ddolen we]).

**5.** Cynhelir y gwrandawiad yn breifat a bydd un Ynad yn gwrando ar yr achos, drwy ddarllen ac ystyried y caniatâd RIPA a'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol. Gall fod gan yr Ynad gwestiynau er mwyn egluro pwyntiau neu gael sicrwydd ynghylch materion penodol. Rhaid i'r ffurflenni a'r papurau ategol ddadlau'r achos o'u rhan eu hunain. **Nid yw'n ddigonol i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth lafar os nad yw'r papurau a ddarperir yn adlewyrchu neu'n cefnogi'r dystiolaeth honno.**

6. Bydd yr Ynad yn ystyried a yw'n fodlon bod sail resymol dros gredu, ar yr adeg y cafodd y caniatâd ei roi neu'i adnewyddu, fod y caniatâd yn angenrheidiol ac yn gymesur. Bydd hefyd yn ystyried a yw'r sail resymol yn parhau. Yn ogystal, rhaid i'r Ynad fod yn fodlon bod y Swyddog Awdurdodi mewn swydd briodol o fewn yr awdurdod lleol a bod y caniatâd wedi'i roi yn unol ag unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol perthnasol (e.e. ei fod yn bodloni'r Prawf Trosedd Ddifrifol ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig).

7. Bydd yr Ynad yn cwblhau'r gorchymyn sy'n rhan o'r ffurflen a enwir uchod. Hwn fydd cofnod swyddogol ei benderfyniad. Bydd angen i'r Cyngor gadw copi o'r ffurflen ar ôl i'r Ynad ei llofnodi.

**Dewisiadau'r Ynad**

Gall yr Ynad benderfynu fel a ganlyn -

- ***Cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd***
  Bydd y caniatâd a roddwyd/adnewyddwyd yn dod i rym a chaiff y Cyngor fwrw ymlaen i ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth a enwir ynddo.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd ar bwynt technegol***
  Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac ni chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y rhesymau dros wrthod cymeradwyaeth. Gellir cywiro gwall technegol ar y ffurflen heb fod angen mynd drwy'r broses ganiatáu fewnol eto. Yna, gall y Cyngor wneud cais arall am gymeradwyaeth Ynad.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd a dileu'r caniatâd***
  Gall Ynad wrthod cymeradwyo rhoi neu adnewyddu caniatâd a phenderfynu dileu'r caniatâd gwreiddiol. Gall wneud hyn oherwydd ei fod yn credu nad yw'n angenrheidiol neu'n gymesur. Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac ni chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Ni chaniateir i'r Ynad ddefnyddio'i bŵer i ddileu'r caniatâd oni bai fod y Cyngor wedi cael o leiaf ddau ddiwrnod gwaith o'r dyddiad y gwrthodwyd cymeradwyaeth i baratoi sylwadau pellach a'u cyflwyno i'r Llys.

**Apeliadau**

Nid oes modd cwyno am benderfyniad barnwrol oni bai iddo gael ei wneud yn annidwyll. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn at Bwyllgor Cynghori'r Ynadon.

Felly, ni chaiff y Cyngor ond apelio yn erbyn penderfyniad Ynad i wrthod cymeradwyo caniatâd ar bwynt cyfreithiol drwy wneud cais am Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys.

Bydd y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT') yn parhau i ymchwilio i gwynion gan unigolion ynghylch y modd y mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn defnyddio technegau RIPA. Ar ôl i gŵyn ddod i law'r Tribiwnlys, os yw'n cael bod rhywbeth o'i le â'r caniatâd RIPA, mae ganddo bŵer i ddileu gorchymyn yr Ynad, a oedd yn cymeradwyo rhoi neu adnewyddu'r caniatâd. Gall hefyd ddyfarnu iawndal os yw'n credu bod y Cyngor wedi torri hawliau dynol unigolyn (gweler Rheolau'r Tribiwnlys ar Bwerau Ymchwilio 2018 (OS 2018/1334), a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2018).

DRAFT

## Siart lif 8 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon

Llenwi'r ffurflen ganiatâd a gofyn am gymeradwyaeth Swyddog Awdurdodi

↓

Llenwi ffurflen gais am gymeradwyaeth ynad

↓

Cysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad

↓

Mynd i'r llys, a mynd â'r dogfennau a ganlyn gyda chi:

- Ffurflen ganiatâd RIPA wedi'i chydlofnodi a chopi ohoni
- Ffurflen gais am gymeradwyaeth ynad a chopi ohoni
- Unrhyw ddeunydd cyfeirio neu ddeunydd ategol perthnasol

↓

**DEWISIADAU'R YNAD**

**GWRTHOD CYMERADWYO**
a dileu'r caniatâd oherwydd gwall sylfaenol

(bydd gan y Cyngor 2 ddiwrnod i gyflwyno sylwadau pellach)

**GWRTHOD CYMERADWYO**

caniatâd oherwydd gwall technegol

(cywiro'r gwall ac ailgyflwyno'r cais i'r llys)

**CYMERADWYO'R CANIATÂD**

Gall y Cyngor fynd ati i gadw gwyliadwriaeth

DRAFT

**Terfynau Amser**

Ar hyn o bryd, 12 mis yw terfyn amser caniatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol neu fis os yw'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan oedran.

Rhaid caniatáu i'r caniatâd gwreiddiol gael ei adnewyddu cyn iddo ddod i ben, ond bydd yn dod i rym ar y dyddiad a'r amser y bydd y caniatâd gwreiddiol yn dod i ben. Gellir adnewyddu caniatâd fwy nag unwaith os tybir ei fod yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur ac os caiff ei gymeradwyo gan Ynad.

Ni chaniateir gwneud cais i adnewyddu caniatâd fwy na 7 diwrnod gwaith cyn i'r caniatâd ddod i ben, a hynny i sicrhau bod angen ei adnewyddu. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol ystyried ffactorau a allai beri oedi yn y broses adnewyddu (e.e. penwythnosau neu a yw swyddog awdurdodi perthnasol yr awdurdod lleol ac Ynad ar gael i ystyried y cais).

DRAFFT

# RHAN 4 – Cofnodion, Trin Data, Trefniadau Diogelwch Wrth Gadw Gwybodaeth, Gwallau a Chwynion

## COFRESTR GANOLOG O'R CANIATADAU

Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw cofrestr ganolog sy'n cynnwys y wybodaeth a ganlyn am bob caniatâd. Fe'i cedwir am o leiaf dair blynedd o'r dyddiad y bydd pob caniatâd yn dod i ben ac ym mhob achos bydd yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion (2019) y Cyngor:
https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/2725/information-and-records-management-policy-v20.pdf

Rhaid cadw dogfennau sy'n rhoi cyfarwyddyd i roi'r gorau i gadw gwyliadwriaeth. Dylid cadw cofnod sy'n rhoi manylion y cynnyrch sydd wedi deillio o'r wyliadwriaeth ac sy'n nodi a gafodd yr amcanion eu cyflawni. Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw golwg ar y Gofrestr Ganolog, ond y Swyddog Awdurdodi sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau ei bod yn gyfoes o ran caniatadau a adnewyddwyd ac a ganslwyd.

Bydd caniatadau ar gael i Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio eu gweld. Yr Uwch-swyddog Cyfrifol neu ei gynrychiolydd fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chynnal a'i goruchwylio.

Dylai'r cofnodion gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Y caniatâd gwreiddiol (nid copi ohono);
- Y math o ganiatâd – e.e. Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig neu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol;
- Dyddiad rhoi'r caniatâd;
- Enw a gradd y swyddog awdurdodi;
- Cyfeirnod (dilyniannol) unigryw'r ymchwiliad neu'r ymgyrch;
- Teitl yr ymchwiliad neu'r ymgyrch, gan gynnwys disgrifiad cryno ac enwau targedau'r ymchwiliad neu'r ymgyrch, os ydynt yn wybyddus;
- A gafodd y darpariaethau brys eu defnyddio ac, os felly, pam;
- Dyddiad unrhyw adolygiadau;
- Os yw'r caniatâd wedi'i adnewyddu, y dyddiad adnewyddu a'r sawl a ganiataodd ei adnewyddu, gan gynnwys enw a gradd y swyddog awdurdodi;
- A wnaeth yr ymchwiliad neu'r ymgyrch arwain at gaffael gwybodaeth gyfrinachol;
- A gafodd y caniatâd ei roi gan unigolyn a oedd yn rhan uniongyrchol o'r ymchwiliad;
- Dyddiad canslo'r caniatâd;
- Y cyfarwyddyd i roi'r gorau i gadw gwyliadwriaeth;
- Cofnod o'r cynnyrch a gafwyd yn sgil cadw gwyliadwriaeth;
- Cofnod sy'n nodi a gafodd yr amcanion eu cyflawni ai peidio;
- Cymeradwyaeth y Llys Ynadon, gan gynnwys dyddiad y gwrandawiad llys;
- Enw'r Ynad a benderfynodd ar yr achos, ac amser a dyddiad y penderfyniad hwnnw;
- Mewn achosion lle gwrthodir unrhyw gais, ar ba sail y'i gwrthodwyd fel y'i mynegwyd i'r awdurdod dyroddi neu i'r Comisiynydd Barnwrol;
- Cofnod, wedi i Gomisiynydd Barnwrol wrthod unrhyw gais, a oes apêl i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio;
- Pan fo apêl o'r fath a bod y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio hefyd yn gwrthod dyroddi cais, ar ba sail y'i gwrthodwyd.

Mae Paragraff 8.2 y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo hefyd yn cadarnhau'r canlynol:

*The following documentation should also be centrally retrievable for at least three years from the ending of each authorisation:*

- *A copy of the application and a copy of the authorisation together with any supplementary documentation and notification of the approval given by the authorising officer;*
- *A record of the period over which the surveillance has taken place;*
- *The frequency of reviews prescribed by the authorising officer;*
- *A record of the result of each review of the authorisation;*
- *A copy of any renewal of an authorisation, together with the supporting documentation submitted when the renewal was requested;*
- *The date and time when any instruction to cease surveillance was given;*
- *The date and time when any other instruction was given by the authorising officer;*
- *For local authorities a copy of the order approving or otherwise the grant or renewal of an authorisation from a Justice of the Peace (JP).*

Dylai pob Swyddog Ymchwilio gadw copi o'r caniatâd o fewn ei wasanaeth a chyflwyno'r dogfennau gwreiddiol i'r Uwch-swyddog Cyfrifol.

**Sicrwydd wrth Drin Data a Threfniadau Diogelwch wrth Gadw Gwybodaeth**

Mae'r gweithdrefnau a'r mesurau diogelu a weithredir wrth ymdrin ag unrhyw ddeunydd a ddaw i law drwy wyliadwriaeth gyfeiriedig o dan Ddeddf 2000 yn cael sylw manwl yn y Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo a'r Cod Ymarfer ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol y dylid eu dilyn.

Mae'r ffurflenni cais ar gyfer Caniatadau RIPA wedi eu diwygio i gynnwys cyfeiriad at gyfnodau cadw gwybodaeth a chadarnhad bod y cyfnodau hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor a'r Rhaglen Gadw Gwybodaeth Gorfforaethol. (mae ffurflenni enghreifftiol gydag arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflenni ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) ar [rhowch ddolen gwe]).

Rhaid cadw caniatadau am o leiaf dair blynedd, ac yn ddelfrydol hyd at bum mlynedd, wedi i bob caniatâd ddod i ben a hyd at bum mlynedd yn ddelfrydol. Rhaid i'r holl ddata a gafwyd o dan IPA 2016 a RIPA gael eu labelu'n glir a'u storio ar lwybr data gyda pholisi cadw hysbys.

**Rhaid i'r llwybr cadw, adolygu a'r broses gwaredu data gydymffurfio â'r canlynol:**

1. Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor (2019): https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/2725/information-and-records-management-policy;

2. Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor (i ddilyn)

3. Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf
   sy'n nodi'r canlynol ym Mharagraff 8.5 – Cadw cofnodion*:*
   *Records must be available for inspection by the Investigatory Powers Commissioner and retained to allow the Investigatory Powers Tribunal ('IPT'), established under Part IV of the 2000 Act, to carry out its functions. The IPT will consider complaints made up to one year after the conduct to which the complaint relates and, where it is equitable to do so, may consider complaints made more than one year after the conduct to which the complaint relates (see section 67(5) of the Act), particularly where*

*continuing conduct is alleged. Although records are only required to be retained for at least three years, it is therefore desirable, if possible, to retain records for up to five years.*

Gweler hefyd Paragraffau 8.6-8.7 isod ynghylch gwallau.

4. Rhaid i arferion cadw gwybodaeth gydymffurfio â'r fframweithiau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys:
   - Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)
   - Deddf Pwerau Ymchwilio(IPA) 2016
   - Deddf Diogelu Data 2018 ac
   - Erthygl 8(2) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Wrth ganiatáu unrhyw geisiadau sy'n ymwneud â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig neu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, dylai Swyddogion Awdurdodi hefyd ystyried:
(a) am ba hyd y cedwir y data?; a
(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

Rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod yn deall yn llawn unrhyw lwybrau data a ddefnyddir ar gyfer data RIPA neu IPA 2016.
**Enghraifft:** Gellir storio data gwyliadwriaeth gyfeiriedig ar yr un pryd ar sawl llwybr data, fel a ganlyn:
- Llwybr 1: cynnyrch fideo teledu cylch cyfyng yn cael ei drosglwyddo i CD a'i gadw mewn cabinet diogel;
- Llwybr 2: copi o'r fideo yn cael ei anfon trwy e-bost a'i storio ar yriant storio cyffredin;
- Llwybr 3: copi o'r fideo yn cael ei dderbyn trwy e-bost a'i gadw mewn ffolder Outlook gan swyddog cyfreithiol; a
- Llwybr 4: copi o'r fideo yn cael ei dderbyn trwy e-bost a'i storio mewn ffolder gwaith achos tystiolaethol wedi'i warchod gan gyfrinair gan swyddog cyfreithiol.

Rhaid i brosesau diogelu hefyd gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag 2018 (ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf), sy'n nodi ym mharagraff 9.3 y dylai awdurdodau cyhoeddus '*should ensure that their actions when handling information obtained by means of covert surveillance or property interference comply with relevant legal frameworks and this code, so that any interference with privacy is justified in accordance with Article 8(2) of the European Convention on Human Rights. Compliance with these legal frameworks, including data protection requirements, will ensure that the handling of private information so obtained continues to be lawful, justified and strictly controlled, and is subject to robust and effective safeguards.*'

Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 fel ei fod yn cydymffurfio â threfniadau diogelu data er mwyn sicrhau lefel uchel o hyder bod yr holl ddata a gafwyd yn cael ei gadw'n gyfreithlon ac er mwyn gwreiddio ac annog arfer orau o ran cydymffurfio, a hefyd sicrhau bod y modd yr ymdrinnir â gwybodaeth breifat a gafwyd yn y modd hwnnw, yn parhau'n gyfreithlon, wedi'i gyfiawnhau ac wedi ei reoli'n llym, a'i fod yn rhwym wrth drefniadau diogelu cydnerth ac effeithiol.  Ni ddylid cadw data am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol nac am fwy o amser nag sy'n briodol.

Cyfrifoldeb pob gwasanaeth yw cadw'r holl ganiatadau o fewn eu gwasanaeth ac unwaith y bo ymchwiliad wedi'i gau, dylai copïau dyblyg o'r cofnodion sydd ym meddiant y gwasanaeth gael eu gwaredu mewn modd priodol h.y. eu trin fel gwastraff cyfrinachol a'u rhwygo.

Rhaid i Swyddogion Awdurdodi sicrhau, drwy eu Rheolydd Data perthnasol, eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data priodol dan y Ddeddf Diogelu Data ac unrhyw drefniadau mewnol perthnasol a gynhyrchwyd gan y Cyngor o safbwynt trin a storio deunydd.

Rhaid hefyd hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw doriadau i ofynion diogelu data.

Bydd y trefniadau diogelwch hyn yn destun adolygiad rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn gyfoes ac yn effeithiol.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn nodi:

- <u>*(Ym Mharagraff 9.5 Trefniadau diogelwch, gan gynnwys gwybodaeth freintiedig neu gyfrinachol):*</u>
  *Dissemination, copying and retention of material must be limited to the minimum necessary for authorised purposes. For the purposes of the code, something is necessary for the authorised purposes if the material:*

  - *is, or is likely to become, necessary for any of the statutory purposes set out in the 2000, 1997 or 1994 Act in relation to covert surveillance or property interference;*
  - *is necessary for facilitating the carrying out of the functions of public authorities under those Acts;*
  - *is necessary for facilitating the carrying out of any functions of the Commissioner or the Investigatory Powers Tribunal;*
  - *is necessary for the purposes of legal proceedings; or*
  - *is necessary for the performance of the functions of any person by or under any enactment.*

Mae paragraffau 9.14 i 9.22 y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn cynnig arweiniad ynghylch y trefniadau diogelwch sy'n rheoli rhannu, copïo, storio a dinistrio gwybodaeth breifat a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd neu drwy ymyrryd ag eiddo.

Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau mewnol mewn grym, er mwyn sicrhau bod gofynion y trefniadau diogelwch y cyfeirir atynt yn y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 wedi'u bodloni o ran gwybodaeth breifat a dderbynnir.

Gellir trefnu hyfforddiant ar Drefniadau Diogelu Trin a Chadw Data ar gyfer unrhyw Swyddogion Awdurdodi neu Swyddogion a all ymdrin â data o'r fath – cysylltwch â'r Uwch-swyddog Cyfrifol os hoffech gael unrhyw hyfforddiant o'r fath.

<u>**Rhannu gwybodaeth**</u>
Dylai nifer y bobl y datgelir y wybodaeth iddynt a faint a ddatgelir fod yn gyfyngedig i'r lleiafswm angenrheidiol ar gyfer y diben(ion) awdurdodedig.
Mae'r rheidrwydd hwn hefyd yr un mor berthnasol o ran datgelu i bobl ychwanegol o fewn y Cyngor, neu i awdurdod cyhoeddus arall. Yn yr un modd, dim ond y deunydd y mae ei angen ar y derbynnydd y dylid ei ddatgelu e.e. os bydd crynodeb o'r deunydd yn ddigon, ni ddylid datgelu mwy na chrynodeb.

Mae'r rheidrwydd hwn i gyfyngu ar y nifer o bobl y datgelir unrhyw elfen o'r wybodaeth, gan gynnwys faint a ddatgelir i'r lleiafswm angenrheidiol ar gyfer y diben(ion) awdurdodedig hefyd yn berthnasol i unrhyw un y datgelir y deunydd yn ddiweddarach. Mewn rhai achosion, cyflawnir hyn drwy fynnu bod yr ail yn cael caniatâd oddi wrth yr awdurdod gwreiddiol cyn datgelu deunydd ymhellach. Mewn achosion eraill, dylid rhoi trefniadau diogelwch penodol ar waith ar gyfer derbynwyr eilaidd.

Fel y cadarnhawyd yn yr adran Ymyrryd â Data Cyfathrebu uchod, ynglŷn â deunydd a gafwyd dan warant neu awdurdod ac a ddatgelir i awdurdodau gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU, rhaid i'r Cyngor sicrhau mai dim ond os yr ymddengys iddynt y cedwir at unrhyw ofynion sy'n ymwneud â lleihau'r graddau y bydd y deunydd yn cael ei ddatgelu ei gopïo, ei rannu a'i gadw i'r graddau yr ystyria'r swyddog awdurdodi, y Comisiynydd Barnwrol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn briodol.

Pan ddatgelir deunydd a gafwyd o dan warant neu ganiatâd i awdurdodau gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y deunydd yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdodau dim ond os yw'n ymddangos iddynt hwy y cedwir at unrhyw ofynion sy'n ymwneud â lleihau'r graddau y bydd y deunydd yn cael ei ddatgelu, ei gopïo, ei rannu a'i gadw i'r graddau yr ystyria'r swyddog awdurdodi, Comisiynydd Barnwrol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn briodol.

**<u>Copïo</u>**
Dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol at ddibenion awdurdodedig y ceir copïo deunydd a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd ac ymyrryd ag eiddo. Mae copïau'n cynnwys nid yn unig gopïau uniongyrchol o'r deunydd i gyd, ond hefyd ddetholion a chrynodebau sy'n dynodi eu bod yn gynnyrch gwyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo, ac unrhyw gofnod sy'n cyfeirio at wyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo a phwy yw'r unigolion y cyfeirir atynt yn y deunydd.

**<u>Storio</u>**
Rhaid i ddeunydd a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo a phob copi, pob detholiad a phob crynodeb ohono gael eu trin a'u storio'n ddiogel, er mwyn lleihau hyd yr eithaf y perygl iddynt fynd ar goll neu gael eu dwyn. Rhaid cadw'r deunydd mewn modd fel na all unigolion heb y lefel angenrheidiol o gliriad diogelwch (lle bo hynny'n briodol) gael mynediad ato. Mae'r angen hwn i storio deunydd o'r fath yn ddiogel yn berthnasol i bawb sy'n gyfrifol am drin y deunydd.

Rhaid i'r Cyngor roi'r mesurau diogelwch gwarchodol canlynol far waith:

- Diogelwch ffisegol i warchod unrhyw eiddo lle gall y wybodaeth gael ei storio neu lle gellir cael mynediad ati;
- Diogelwch TG er mwyn lleihau'r risg o fynediad diawdurdodedig at systemau TG; a
- Chliriad diogelwch priodol ar gyfer staff a'r cliriad diogelwch wedi ei lunio i roi sicrwydd bod y sawl sydd â mynediad at y deunydd hwn yn ddibynadwy ac yn bobl y gellir ymddiried yn llwyr ynddynt.

**<u>Dileu a Dinistrio</u>**
Dylid trefnu i wybodaeth a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo, yn ogystal â phob copi, detholiad a chrynodebau sy'n cynnwys deunydd o'r fath gael eu dileu neu eu dinistrio a dylid eu dinistrio mewn modd diogel cyn gynted ac nad oes mo'u hangen bellach ar gyfer y diben(ion) awdurdodedig. Dylid cael gwared ar gofnodion dyblyg sydd ym meddiant y gwasanaeth mewn dull priodol h.y. dylid eu trin fel gwastraff cyfrinachol a dylid eu rhwygo.

Os cedwir gwybodaeth o'r fath, dylid ei hadolygu ar gyfnodau priodol, er mwyn sicrhau bod y cyfiawnhad dros ei chadw'n parhau'n ddilys.

**Deunydd Cyfrinachol a Deunydd sy'n Meddu ar Fraint Gyfreithiol**

Mae gofynion penodol a manwl iawn hefyd o ran deunydd sy'n arbennig o sensitif. Mae llawer o'r deunydd hwn yn ddarostyngedig i gyfundrefnau uwch awdurdodi. Ymhlith deunydd o'r math hwn, mae'r canlynol:

- Deunydd sy'n rhwym wrth fraint gyfreithiol;
- Gwybodaeth bersonol gyfrinachol;
- Gwybodaeth gyfansoddiadol gyfrinachol; a
- Deunydd newyddiadurol cyfrinachol a ffynonellau newyddiadurwyr.

Dim ond Swyddogion Awdurdodi â'r hawl ganddynt i roi caniatadau yn ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig gaiff awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig sy'n debygol o arwain neu y bwriedir iddi arwain at gaffael gwybodaeth am ddeunydd cyfrinachol neu freintiedig. Rhaid bod yn ofalus os byddai modd, trwy gadw gwyliadwriaeth, gaffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn ynghylch lles ysbrydol yr olaf, neu os yw materion o gyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol dan sylw.

Os yw materion o'r fath wedi cael eu caffael a'u cadw, rhaid i Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer RIPA gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl oherwydd dylai'r mater gael ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn ystod yr arolygiad nesaf a dylai'r deunydd fod ar gael i'r Swyddfa os oes angen.

**Marcio**

Dylid ystyried marcio deunydd mewn modd priodol, er enghraifft, marcio deunydd cyfrinachol neu sensitif â'r geiriau 'CYFRINACHOL' neu 'PEIDIWCH Â DOSBARTHU HEB GANIATÂD YSGRIFENEDIG'

**Gwallau**

Bydd paratoi gofalus a gwirio caniatadau a systemau technegol priodol yn lleihau'r posibiliad o wneud gwallau.

Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cynnal adolygiad blynyddol o wallau ynghyd â chadw cofnod ysgrifenedig.
Gweler Paragraffau 8.8-8.18 y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo (2018):

> *8.6 This section provides information regarding errors. Proper application of the surveillance provisions provided for in Part II of the 2000 Act and the property interference provision provided for in the 1994 and 1997 Acts, should reduce the scope for making errors. Public authorities will be expected to have thorough procedures in place to comply with these provisions, including for example the careful preparation and checking of warrants and authorisations, reducing the scope for making errors.*
>
> *8.7 Wherever possible, any technical systems should incorporate functionality to minimise errors.*
>
> *8.8 An error must be reported if it is a 'relevant error'. Under section 231(9) of the Investigatory Powers Act 2016, a relevant error for the purpose of activity covered by this code is any error by a public authority in complying with any requirements that are imposed on it by any enactment which are subject to review by a Judicial*



DRAFT

*Commissioner. This would include compliance by public authorities with Part II of the 2000 Act or the property interference provisions of the 1994 and 1997 Acts. Examples of relevant errors occurring would include circumstances where:*

- *Surveillance or property interference activity has taken place without lawful authorization; or*
- *There has been a failure to adhere to the safeguards set out in the relevant statutory provisions and Chapter 9 of the Code.*

*8.9 Errors can have very significant consequences on an affected individual's rights and, in accordance with section 235(6) of the Investigatory Powers Act 2016, all relevant errors made by public authorities must be reported to the Investigatory Powers Commissioner by the public authority that is aware of the error.*

*8.10 When a relevant error has occurred, the public authority that made the error must notify the Investigatory Powers Commissioner as soon as reasonably practicable, and no later than* ***ten working*** *days (or as agreed with the Commissioner) after it has been established by appropriate internal governance processes that a relevant error has occurred. Such internal governance processes are subject to review by the Investigatory Powers Commissioner. Where the full facts of the error cannot be ascertained within that time, an initial notification must be sent with an estimated timescale for the error being reported in full and an explanation of the steps being undertaken to establish the full facts of the error.*

*8.11 From the point at which the public authority identifies that a relevant error may have occurred, they must take steps to confirm the fact of an error as quickly as it is reasonably practicable to do so. Where it is subsequently confirmed that an error has occurred and that error is notified to the Commissioner, the public authority must also inform the Commissioner of when it was initially identified that an error may have taken place.*

*8.12 A full report must be sent to the Investigatory Powers Commissioner as soon as reasonably practicable in relation to any relevant error, including details of the error and, where it has not been possible to provide the full report within ten working days (or as agreed with the Commissioner) of establishing the fact of the error, the reasons this is the case. The report should include information on the cause of the error; the amount of surveillance or property interference conducted and material obtained or disclosed; any unintended collateral intrusion; any analysis or action taken; whether any material has been retained or destroyed; and a summary of the steps taken to prevent recurrence.*

*8.13 The Investigatory Powers Commissioner may issue guidance as necessary, including guidance on the format of error reports. Public authorities must have regard to any guidance on errors issued by the Investigatory Powers Commissioners.*

*8.14 In addition to the above, errors may arise where a warrant or authorisation has been obtained as a result of the public authority having been provided with information which later proved to be incorrect due to an error on the part of the person providing the information, but on which the public authority relied in good faith. Whilst these actions do not constitute a relevant error on the part of the authority which acted on the information, such occurrences should be brought to the attention of the Investigatory Powers Commissioner. Where reporting such circumstances to the Investigatory Powers Commissioner, the processes outlined at Paragraph 8.10 apply as they apply to the reporting of a relevant error.*

DRAFT

**Enghreifftiau o gamgymeriadau cyffredin ar ffurflenni RIPA**

- Defnyddio hen ffurflenni'r Swyddfa Gartref;
- Peidio â nodi cyfeirnod unigryw ar y ffurflen;
- Copïo geiriad caniatadau blaenorol;
- Methu â rhoi esboniadau manwl o'r hyn a fydd yn digwydd fel rhan o'r gwaith gwyliadwriaeth;
- Methu ag ystyried a/neu egluro'r ffactorau cymesuredd yn ddigonol;
- Methu ag ystyried a/neu egluro'r ymyrraeth anuniongyrchol yn ddigonol;
- Methu ag ystyried y tebygrwydd o gaffael gwybodaeth gyfrinachol;
- Methu ag anfon ffurflenni (gwreiddiol) wedi'u llenwi at yr Uwch-swyddog Cyfrifol; neu
- Fethu â gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r tactegau y mae'n wybyddus eu bod ar gael neu y bwriedir eu defnyddio yn unig.

**Enghreifftiau o gamgymeriadau Swyddogion Awdurdodi**

- Naratif ailadroddus a rhoi sêl bendith heb ystyried yr holl ffeithiau a nodir ar y ffurflen gais am ganiatâd yn briodol;
- Methu â nodi'n glir pa weithgareddau a chyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir;
- Heb fod yn gwybod yr hyn y gall y cyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir ei wneud; (e.e. camerâu sy'n recordio'n barhaus, y gallu i greu delweddau thermol / is-goch, camerâu sy'n cael eu switsio ymlaen gan symudiadau);
- Methu â dangos bod dulliau llai ymwthiol wedi'u hystyried yn ddigonol a pham eu bod wedi'u diystyru er mwyn defnyddio'r dacteg a ddewiswyd;
- Methu â rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli a storio cynnyrch y wyliadwriaeth wrth ganslo caniatâd;
- Dim gweithdrefnau cadarn na gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith;
- Methu â rhoi tystiolaeth o gymesuredd – bod dulliau eraill wedi'u hystyried, a bod y meini prawf perthnasol wedi'u hystyried; neu
- Rhaid barnu'r angen am ganiatâd ar adeg rhoi'r caniatâd, ac nid drwy edrych yn ôl.

**<u>Gwallau Difrifol</u>**

*8.15 Section 231 of the 2016 Act states that the Investigatory Powers Commissioner must inform a person of any relevant error relating to that person if the Commissioner considers that the error is a serious error and that it is in the public interest for the person concerned to be informed of the error. The Commissioner may not decide that an error is a serious error unless he or she considers that the error has caused significant prejudice or harm to the person concerned. The fact that there has been a breach of a person's Convention rights (within the meaning of the Human Rights Act 1998) is not sufficient by itself for an error to be a serious error.*

*8.16 In deciding whether it is in the public interest for the person concerned to be informed of the error, the Commissioner must in particular consider:*

- *national security;*
- *the prevention or detection of serious crime;*
- *the economic well-being of the United Kingdom; or*
- *the continued discharge of the functions of any of the intelligence services*

*8.17 Before making their decision, the Commissioner must ask the public authority which has made the error to make submissions on the matters concerned. Public authorities must take all such steps as notified to them by the Investigatory Powers Commissioner to help identify the subject of a serious error.*

*8.18 When informing a person of a serious error, the Commissioner must inform the person of any rights that the person may have to apply to the Investigatory Powers Tribunal, and provide such details of the error as the Commissioner considers to be necessary for the exercise of those rights.*

Gellir cael rhagor o arweiniad fan hyn:

- Paragraffau 7.1 – 7.20 o’r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol 2018 a
- Paragraffau 8.6 – 8.18 o’r Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018

DRAFFT

**CWYNION**

**Caiff unrhyw un sy'n anfodlon â'r modd y mae'r Cyngor wedi cadw gwyliadwriaeth, neu'r modd y mae'n cadw gwyliadwriaeth, wneud cwyn. Yr unigolyn fydd yn penderfynu pa weithdrefn y dylid ei defnyddio.**

Os bydd yr unigolyn am gwyno gan ddefnyddio gweithdrefnau'r Cyngor, dylai'r achwynydd gael gwybod am Drefn Gwyno Gorfforaethol y Cyngor, (gweler https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/sylwadau-canmoliaeth-a-chwynion/cwynion-corfforaethol/ a
https://www.ceredigion.gov.uk/media/1178/complaints-policy-bookletcymraeg.pdf)
Bydd y gŵyn yn cael ei thrafod yn unol â'r weithdrefn honno.
Os bydd yr unigolyn am gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i gorff annibynnol, neu os bydd wedi defnyddio gweithdrefnau mewnol y Cyngor a'i fod yn dal i fod yn anfodlon, caiff gyflwyno cwyn i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT').

Mae gan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio yr awdurdod i ymchwilio a dod i benderfyniad ynghylch cwynion yn erbyn defnydd awdurdod cyhoeddus o bwerau ymchwilio. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio neu er mwyn gwneud cwyn, yna ceir manylion llawn sut mae gwneud hynny ar wefan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio (IPT): www.ipt-uk.com.

Gellir anfon cwyn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod:

The Investigatory Powers Tribunal
PO Box 33220
London
SWIH 9ZQ

* Gweler Rhan 5 isod am gwynion ynghylch Data Cyfathrebu

DRAFT

# RHAN 5 – Data Cyfathrebu

Daeth Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Data Cyfathrebu) 2010 (OS 2010 rhif 480) i rym ar 6 Ebrill 2010 ac mae'n cadarnhau'r pwerau a geir ym Mhennod 2 o RIPA a ddarparwyd i'r Awdurdodau Lleol gan Orchymyn cyfatebol 2003.

Yn gryno, mae Pennod 2 yn caniatáu i Awdurdod Cyhoeddus, fel y Cyngor, gaffael gwybodaeth a ddiffinnir fel "data cyfathrebu" *("communications data").* Mae hyn yn cynnwys data tanysgrifio a data gwasanaeth ond nid "data traffig" *("traffic data")* fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA).

Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('IPA 2016') sy'n rheoleiddio mynediad i ddata cyfathrebu (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/). Gweler hefyd God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/757850/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf.

**Ystyr 'Data Cyfathrebu'**

Gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu (e.e. cwmnïau telathrebu, rhyngrwyd a phost) sy'n ymwneud â chyfathrebiadau'u cwsmeriaid yw data cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â defnyddio gwasanaeth cyfathrebu, ond nid cynnwys y cyfathrebiadau'u hunain.

Gallai enghraifft syml o gais llwyddiannus am ddata cyfathrebu gynnwys, er enghraifft, gwneud cais am fanylion yn cadarnhau dyddiad ac amser e-bost, ond nid ei gynnwys.

Mae Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 yn nodi (ym mharagraff 2.18) bod y term 'data cyfathrebu' yn cynnwys 'pwy', 'pryd', 'ble', a 'sut' y cyfathrebwyd ond nid cynnwys y cyfathrebiad h.y. yr hyn a ddywedwyd neu a ysgrifennwyd (diffinnir cynnwys cyfathrebiad yn adran 261(6) o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 fel unrhyw elfen o'r cyfathrebiad, neu unrhyw ddata sydd ynghlwm wrth y cyfathrebiad neu'n rhesymegol gysylltiedig ag ef, sy'n datgelu unrhyw beth o'r hyn y gellid yn rhesymol ei ystyried yn ystyr (os oes un) y cyfathrebiad hwnnw).

Mae Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 yn nodi, mewn perthynas â Data Cyfathrebu :

2.19 '*It includes the way in which, and by what method, a person or thing communicates with another person or thing. It excludes anything within a communication including text, audio and video that reveals the meaning, other than inferred meaning, of the communication.*

*2.20 It can include the address to which a letter is sent, the time and duration of a communication, the telephone number or email address of the originator and recipient, and the location of the device from which the communication was made. It covers electronic communications including internet access, internet telephony, instant messaging and the use of applications. It also includes postal services.*

*2.21 Communications data is generated, held or obtained in the provision, delivery and maintenance of communications services – i.e. postal services or telecommunications services.*

2.22 *Communications data in relation to telecommunications operators' services and systems includes data held or obtainable by a telecommunications operator or postal operator or which is available directly from a telecommunication system and comprises four elements.*

***Data about an entity to which a telecommunications service is provided and relates to the provision of the service***

2.23 *This data includes information about any person or entity to whom a service is provided, whether a subscriber or guest user and whether or not they have ever used that service. For example, this may include information about the person associated with an email address even if that email address has not been used since its creation.*

2.24 *An entity (see below for further details) can also include devices so this data would cover information about the devices owned by a customer as well as the services provided by the telecommunications operator to which the owner of the devices subscribes. This data may include names and addresses of subscribers.*

2.25 *Importantly this data is limited to data held or obtained by the telecommunications operator in relation to the provision of a telecommunications service – it does not include data which may be held about a customer by a telecommunications operator more generally which is not related to the provision of a telecommunications service.*

2.26 *For example, for a social networking provider data such as the status of the account, contact details for the customer and the date a person registered with the service would all be communications data as they relate to the use of the service. However, other data held by the provider about a customer which does not relate to the provision of the telecommunications service, including personal information such as political or religious interests included in profile information, is not within scope of the definition of communications data.*

***Data comprised in, included as part of, attached to or logically associated with a communication for the purposes of a telecommunication system that facilitates the transmission of that communication***

2.27 *This data includes any information that is necessary to get a communication from its source to its destination, such as the dialled telephone number or Internet Protocol (IP) address. It includes data which:*

- *identifies the sender or recipient of a communication or their location;*
- *identifies or selects the apparatus used to transmit the communication;*
- *comprises signals which activate the apparatus used (or which is to be used) to transmit the communication; and*
- *identifies data as being part of a communication.*

2.28 *This element of the communications data definition also includes data held, or capable of being obtained, by the telecommunications operator which is logically associated with a communication for the purposes of the telecommunication system by which the communication is being, or may be, transmitted. In practice this will often mean any data which is used to route or transmit a communication which the telecommunications operator holds or could obtain, for example from the network.*

*Communications Data Code of Practice*

*2.29 This might include, for example data about domain name system ('DNS') requests which allow communications to be routed across the network. It also includes data that facilitates the transmission of future communications (regardless of whether those communications are, in fact, transmitted).*

*2.30 Only information falling within this section of the definition of communications data can be obtained directly from a telecommunication system by a public authority.*

***Data which relates to the use of a service or system***

*2.31 This element includes other information held by a telecommunications operator about the use of the service such as information that the provider holds for billing purposes.*

***Data which is about the architecture of a telecommunication system.***

*2.32 The definition of communications data additionally includes data held by a telecommunications operator about the architecture of the telecommunication system (sometimes referred to as 'reference data'). This may include the location of cell masts or Wi-Fi hotspots. This information itself does not contain any information relating to specific persons and its acquisition in its own right does not interfere with the privacy of any customers. However, this data is often necessary for the public authority to interpret the data received in relation to specific communications or users of a service.*

*2.33 Part 3 of the Act does not apply to any conduct by a public authority to obtain publicly or commercially available communications data. A communications data authorisation under Part 3 is not mandatory to obtain reference data, such as mobile phone mast locations, from a telecommunications operator as there is no intrusion into an individual's rights. However, some reference data, such as details of Wi-Fi hotspots, may be commercially sensitive and an authorisation can be sought by a public authority seeking to obtain this data from a telecommunications operator where the telecommunications operator requires it.*

***Entity and Events Data***

*2.34 All communications data held by a telecommunications operator or obtainable from a telecommunication system falls into two categories:*

- *entity data – this data is about entities or links between them and describes or identifies the entity but does not include information about individual events. Entities could be individuals, groups and objects (such as mobile phones or other communications devices);*
- *events data – events data identifies or describes events in relation to a telecommunication system which consist of one or more entities engaging in an activity at a specific point, or points, in time.*

*2.35 The authorisation levels required to access communications data reflect the fact that the set of events data as a whole contains the more intrusive communications data, including information on who has been in communication*

DRAFT

*with whom, a person's location when their mobile device connects to the network and internet connection records. The rank of the designated senior officer that can authorise acquisition of data reflects the differing levels of intrusiveness of the data. For example, in certain circumstances, the police can authorise access to entity data at Inspector level but events data is authorised at Superintendent level. Additionally entity data can be obtained in a wider range of crime types than events data.*

*2.36 There are some circumstances where a telecommunications operator will need to process events data in order to respond to a request for entity data. In such circumstances the level of authorisation required is for the type of data that is to be disclosed, rather than the type of data that is processed e.g. where a public authority wants to know the identity of a person using an IP address at a specific time and date this will be an application for entity data.*

*2.37 Where a public authority provides events data to a telecommunications operator as part of a request for entity data then the telecommunications operator may disclose that events data in the response to the entity data authorisation. Taking the example above, the telecommunications operator could include the time and date of the communication as part of the response without the need for it to be authorised as an event. This is because the public authority, by providing the events data to the telecommunications operator, has demonstrated they are already aware of the event and only intend to determine the entity involved in that event. By disclosing the events data the telecommunications operator would only be providing the public authority with information they already knew. Such disclosure is likely to occur where the telecommunications operator discloses the full record from their systems.*

***Entity data***

*2.38 Entity data covers information about a person or thing, and about links between a telecommunications service, part of a telecommunication system and a person or thing, that identify or describe the person or thing. This means that individual communication devices such as phones, tablets and computers are entities. The links between a person and their phone are therefore entity data but the fact of or information about communications between devices on a network at a specific time and for a specified duration would be events data.*

*2.39 Examples of entity data include:*

- *'subscriber checks' such as "who is the subscriber of phone number 01234 567 890?", "who is the account holder of e-mail account example@example.co.uk?" or "who is entitled to post to web space www.example.co.uk?";*
- *subscribers' or account holders' account information, including names and addresses for installation, and billing including payment method(s), details of payments;*
- *information about the connection, disconnection and reconnection of services to which the subscriber or account holder is allocated or has subscribed (or may have subscribed) including conference calling, call messaging, call waiting and call barring telecommunications services;*
- *information about apparatus or devices used by, or made available to, the subscriber or account holder, including the manufacturer, model, serial numbers and apparatus codes (This includes PUK (Personal Unlocking Key) codes for mobile phones. These are initially set by the handset manufacturer*

DRAFT

*and are required to be disclosed in circumstances where a locked handset has been lawfully seized as evidence in criminal investigations or proceedings); and*

- *information about selection of preferential numbers or discount calls.*

2.40 *Entity data can change over time. So, for example if a person moves house the address held by a telecommunications operator will change. The fact of that is an attribute of the entity (the person) and not a communication event.*

2.41 *Some telecommunications operators may choose to retain user passwords as clear text for business purposes (In many cases a telecommunications operator will actually retain a password hash rather than the password itself. When a user enters the password to use a service it is encrypted and the hash generated is checked against the hash already held by a telecommunications operator meaning the operator never needs to retain the actual password). In this context passwords would constitute entity data. Any information, such as a password, giving access to the content of any stored communications or access to the use of a communications service may only be sought under Part 3 of the Act from a telecommunications operator in the following circumstances:*

  - *where such information is necessary in the interests of national security; or*
  - *for preventing death, injury or damage to health.*

2.42 *A communications data authorisation cannot authorise a public authority to use a password obtained through that or another communications data authorisation. If a public authority wishes to use a password obtained through a communications data authorisation to access the content of stored communications or any communications service it must, in accordance with section 6*

2.43 *of the Act, ensure that it has appropriate lawful authority.*

***Events***

2.44 *Events data covers information about time-bound events taking place across a telecommunication system at a time interval. Communications data is limited to communication events describing the transmission of information between two or more entities over a telecommunications service. This will include information which identifies, or appears to identify, any person, apparatus ('Apparatus' is defined in section 263 of the Act to include 'any equipment, machinery or device (whether physical or logical) and any wire or cable') or location to or from which a communication is transmitted. It does not include non-communication events such as a change in address or telephone number for a customer.*

2.45 *Examples of events data include, but are not limited to:*

- *information tracing the origin or destination of a communication that is, or has been, in transmission (including incoming call records);*
- *information identifying the location of apparatus when a communication is, has been or may be made or received (such as the location of a mobile phone);*
- *information identifying the sender or recipient (including copy recipients) of a communication from data comprised in or attached to the communication;*
- *routing information identifying apparatus through which a communication is or has been transmitted (for example, file transfer logs and e-mail headers –*

*to the extent that content of a communication, such as the subject line of an e-mail, is not disclosed);*

- *itemised telephone call records (numbers called) (Itemised bills can include an indication of the cost for receiving communications, for example calls and messages received by a mobile telephone that has been 'roaming' on another network);*
- *itemised internet connection records;*
- *itemised timing and duration of service usage (calls and/or connections);*
- *information about amounts of data downloaded and/or uploaded;*
- *information about the use made of services which the user is allocated or has subscribed to (or may have subscribed to) including conference calling, call messaging, call waiting and call barring telecommunications services.*'

**<u>Ymyrryd â Data Cyfathrebu</u>**

Ni all awdurdod lleol recordio galwadau ffôn rhwng dau barti pan nad yw'r naill barti na'r llall yn gwybod bod yr alwad yn cael ei recordio.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall y sawl sy'n ffonio neu'n derbyn galwad gydsynio i'r sgwrs ffôn gael ei recordio. O dan amgylchiadau o'r fath, nid oes angen gwarant. I gadw gwyliadwriaeth o'r fath, bydd naill ai angen caniatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu ganiatâd i ddefnyddio ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol os mai ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol sy'n gwneud neu'n derbyn yr alwad (fel arfer swyddog sy'n '*gweithio'n gudd'*).

Os yw'r swyddog neu'r ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol yn bwriadu recordio sgwrs ffôn fel rhan o weithgareddau gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu weithgareddau sy'n defnyddio ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol sydd eisoes wedi'u caniatáu, nid oes angen cael caniatâd arbennig neu ganiatâd ychwanegol.

Nid yw fframwaith deddfwriaethol RIPA'n berthnasol i'r gwaith o recordio sgyrsiau ffôn at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig â phwerau ymchwilio.

Mae'r Ddeddf Pwerau Ymchwilio (IPA) 2016 yn amlinellu'r dyletswyddau cyffredinol o ran preifatrwydd wrth ymwneud â'r canlynol:

- ymyrryd yn anghyfreithlon â data cyfathrebu a
- chaffael data cyfathrebu yn anghyfreithlon.

Mae'r Ddeddf hefyd yn diddymu ac yn cyfyngu ar nifer o bwerau cyffredinol i gaffael data cyfathrebu ac yn cyfyngu ar yr amgylchiadau hynny lle gellir cynnal ymyrraeth ag offer ac y gellir gwneud rhai ceisiadau am ymyrryd â chyfathrebu. Mae'r Ddeddf yn nodi gwaharddiadau rhag ymyrraeth anghyfreithlon.

Sylwch, o dan adran 11 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016, mae'n drosedd i unigolyn mewn awdurdod cyhoeddus gael data cyfathrebu yn fwriadol neu'n ddi-hid gan weithredwr telathrebu neu weithredwr post heb awdurdod cyfreithlon. Ni chyflawnir trosedd os gall yr unigolyn sawl sy'n cael y data ddangos ei fod wedi gweithredu yn y gred resymol bod ganddo ganiatâd cyfreithlon.

Nid yw'n drosedd i gael gafael ar ddata cyfathrebu lle mae'r data hwn ar gael yn gyhoeddus neu'n fasnachol gan weithredydd telathrebu/gweithredwr post. Mewn amgylchiadau o'r fath mae cydsyniad y gweithredwr yn darparu'r awdurdod cyfreithlon. Fodd bynnag, ni ddylai awdurdodau cyhoeddus fynnu, neu wahodd, unrhyw weithredwr i ddatgelu data cyfathrebu trwy ddibynnu ar yr eithriad hwn.

**Nid yw Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn caniatáu i awdurdodau lleol ryng-gipio data cyfathrebu. Dim ond trwy Un Pwynt Cyswllt (SPC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) y caniateir i Swyddogion y Cyngor gael gafael ar Data Cyfathrebu (gweler isod).**

Mae caniatadau Data Cyfathrebu yn dod i ben 1 mis ar ôl y dyddiad cymeradwyo. Gall adnewyddiad wedi'i ganiatáu estyn y caniatâd am hyd at fis ychwanegol.

Gallai methu â sicrhau cymeradwyaeth briodol a chydymffurfio â Pholisi'r Cyngor arwain at eithrio tystiolaeth gan Lysoedd, cwynion yn erbyn y Cyngor, neu gyflawni troseddau. Mae'r Cyngor yn destun archwiliad ac arolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ac mae'n bwysig ein bod yn cydymffurfio â Deddf Pwerau Ymchwilio 2016.

**<u>Cael gafael ar ddata cyfathrebu drwy Un Pwynt Cyswllt (SPOC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN)</u>**

Mae'n hanfodol bod caffael Data Cyfathrebu wedi'i ganiatáu'n briodol.

Mae caffael data cyfathrebu o dan Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn cynnwys pedair rôl:

(a) Ymgeisydd;

(b) Swyddog ar Reng Gymeradwy;

(c) Un Pwynt Cyswllt;

(ch) Uwch-swyddog Cyfrifol mewn Awdurdod Cyhoeddus.

Caiff ceisiadau am ddata cyfathrebu eu caniatáu trwy aelodaeth y Cyngor o'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ('NAFN') sy'n gweithredu fel Un Pwynt Cyswllt achrededig ar gyfer gweithredwyr telathrebu, gweithredwyr post a darparwyr gwasanaethau'r rhyngrwyd.

Rhaid i Swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i geisio caffael unrhyw fath o ddata cyfathrebu (yr Ymgeisydd) wneud cais i'w gaffael trwy borth canolog Un Pwynt Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol. Rhaid i Swyddog ar Reng Gymeradwy hefyd fod yn ymwybodol o'r cais ac mae'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn hwyluso cymeradwyo'r cais gan y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu ('OCDA').

Ers i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (IPA) ddod i rym, hon yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n pennu sut mae awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith, asiantaethau cuddwybodaeth ac awdurdodau lleol, yn defnyddio'r pwerau ymchwilio sydd ar gael i ni. Mae'r pwerau hyn yn darparu ar gyfer caffael yn gyfreithlon ddata cyfathrebu, gan gynnwys manylion ynglŷn â phwy a gyfathrebodd, ble, pryd, sut a chyda phwy, ond nid y cynnwys (hynny yw, yr hyn a ddywedwyd).

I ddefnyddio gwefan ddiogel NAFN, rhaid i'r ymgeiswyr gofrestru'n unigol ar wefan NAFN yn www.nafn.gov.uk. Ar ôl cofrestru, rhaid i'r ymgeisydd lenwi'r ffurflen gais ar-lein a'i chyflwyno'n electronig i un o swyddogion NAFN. Bydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd a oes angen iddo wneud unrhyw newidiadau. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni perthnasol o wefan y Swyddfa Gartref hefyd, a gellir cael copi gan yr Uwch-swyddog Gyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Gyfrifol.

Rhaid i'r cais i gaffael data cyfathrebu (yn ôl paragraffau 5.4-5.5 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018):

- disgrifio'r data cyfathrebu sy'n ofynnol, gan nodi, lle bo hynny'n berthnasol, unrhyw ddyddiad(au) hanesyddol neu yn y dyfodol a, lle bo hynny'n briodol, cyfnod(au) amser;

- nodi'r pwrpas y mae angen y data ar ei gyfer, trwy gyfeirio at bwrpas statudol o dan y Ddeddf;

- cynnwys cyfeirnod unigryw;

- cynnwys enw a swydd, rheng neu radd y sawl sy'n gwneud y cais;

- disgrifio a yw'r data cyfathrebu'n ymwneud â dioddefwr, tyst, achwynydd, rhywun sydd dan amheuaeth, perthynas agosaf, person bregus neu berson arall sy'n berthnasol i'r ymchwiliad neu'r ymgyrch;

- cynnwys enw'r ymgyrch (os yw'n berthnasol) y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

- nodi ac egluro'r amserlen y mae angen y data ar ei gyfer;

- esbonio pam yr ystyrir bod caffael y data hwnnw'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r hyn y ceisir ei gyflawni trwy ei gaffael (gweler adran Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 ar reidrwydd a chymesuredd, gan ddechrau ym mharagraff 3.3. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r ddau fwled nesaf ar ymyrraeth anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol);

- cyflwyno'r achos dros ei ganiatáu mewn ffordd deg a chytbwys. Yn benodol, dylid gwneud pob ymdrech resymol i ystyried gwybodaeth sy'n cefnogi neu'n gwanhau'r achos dros ei ganiatáu;

- ystyried a, lle bo hynny'n briodol, disgrifio unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol ystyrlon – i ba raddau y gellir torri hawliau unrhyw unigolyn nad yw'n destun ymchwiliad a pham y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth honno o dan yr amgylchiadau;

- ystyried a, lle bo hynny'n briodol, disgrifio unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl yn sgil y cais; a

- lle mae data yn cael eu ceisio gan weithredwr telathrebu neu weithredwr post, a all y gweithredwr telathrebu neu weithredwr post hysbysu'r unigolyn(unigolion) sy'n destun gwyliadwriaeth o'r ffaith bod cais wedi cael ei wneud am ei ddata.

- Dylai'r cais gofnodi wedi hynny a gafodd ei ganiatáu gan unigolyn sy'n caniatáu a phryd y gwnaed y penderfyniad hwnnw. Dylai'r awdurdod cyhoeddus gadw ceisiadau a dylent fod yn hygyrch i'r Un Pwynt Cyswllt.

Bydd y swyddog NAFN a benodir yn Un Pwynt Cyswllt, ymhlith pethau eraill, yn cyflawni rôl rheoli ansawdd ac yn rhoi cyngor ar faterion amrywiol i gynorthwyo'r swyddog ymchwilio a'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn y Cyngor ar gyfer Caniatadau Data Cyfathrebu, y mae'n ofynnol iddynt fod ar yr un lefel (gweler 4.11 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018) â'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu.

Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn cynghori a yw'r cais yn bodloni'r gofynion statudol, a oes modd i'r Gweithredwyr Telathrebu, Gweithredwyr Post neu'r Darparwyr Gwasanaethau

Rhyngrwyd gael gafael ar y wybodaeth ofynnol yn rhwydd, ac a yw'r cais yn effeithiol o ran cost. Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN hefyd yn gweithredu fel swyddog cyswllt gan gyfathrebu â'r Gweithredwyr Telathrebu, Gweithredwyr Post neu Ddarparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd.

Ar hyn o bryd mae'r swyddogion canlynol yn ymgymryd â rôl **'Swyddogion ar Reng Gymeradwy'** i gadarnhau i NAFN eu bod yn ymwybodol o'r cais a wnaed ar ran y Cyngor:

1. Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd;

Eilyddion eraill (os nad yw Swyddog ar Reng Gymeradwy 1 uchod ar gael);
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth; a
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.

Bydd y Swyddog ar Reng Gymeradwy yn derbyn hysbysiad, pan fydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r cais, ei fod wedi'i gyflwyno. Ar ôl iddo gadarnhau ei fod yn ymwybodol o'r cais, bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn derbyn y cais ac yn cynnal gwiriadau priodol ar y cais. Os bydd unrhyw newidiadau sylfaenol yn cael eu gwneud i'r cais, bydd yn ofynnol i'r Swyddog ar Reng Gymeradwy gadarnhau ei fod yn ymwybodol o'r cais diwygiedig. Bydd y Swyddog ar Reng Gymeradwy yn anfon copi o'r e-bost at yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu (gweler isod).

**<u>Asiantaeth Awdurdodi: Y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu ('OCDA')</u>**

Cyflwynodd Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu fel, y corff annibynnol sy'n gyfrifol am ganiatáu ac asesu pob cais cyfathrebu data o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016. Mae'r Swyddfa yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Asesiad annibynnol o'r holl geisiadau cyfathrebu data.
- Caniatáu unrhyw geisiadau priodol.
- Sicrhau atebolrwydd Awdurdodau yn y broses a safonau diogelu.

O ganlyniad, nid oes angen cymeradwyaeth farnwrol i gaffael data cyfathrebu gan Swyddogion awdurdod lleol mwyach. Bydd NAFN yn cyflwyno'r cais i'r OCDA a fydd wedyn yn asesu'r cais. Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN (neu Un Pwynt Cyswllt y Cyngor) yn defnyddio'r broses ganiatáu i gael gafael ar y data cyfathrebu gofynnol o gronfa ddata'r Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu a bydd y data'n cael eu postio ar y wefan i sicrhau mai dim ond yr ymgeisydd sy'n gallu cael gafael arnynt. Os nad yw NAFN yn gallu mynd i gronfa ddata'r Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu perthnasol yn uniongyrchol, bydd yr Un Pwynt Cyswllt yn anfon hysbysiad i'r Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu yn y ffordd arferol.

Pan fydd yr OCDA yn caniatáu'r cais, mae'r penderfyniad hwn yn cael ei gyfleu i Un Pwynt Cyswllt NAFN a chymerir camau i ofyn am y data gan y darparwyr telathrebu perthnasol ac asiantaethau eraill sy'n dal data cyfathrebu o'r fath i ddarparu'r data angenrheidiol.

Pan fydd yr OCDA yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais gael ei ddiwygio, bydd yn cael ei ddychwelyd trwy Un Pwynt Cyswllt NAFN a bydd gan yr Ymgeisydd 14 diwrnod calendr i adolygu'r cais a'i ailgyflwyno. Bydd methu â diwygio'r cais o fewn y 14 diwrnod yn arwain at wrthod y cais yn awtomatig.

Pan fydd yr OCDA yn gwrthod y cais, gall yr Ymgeisydd:

1. Peidio â bwrw ymlaen â'r cais;

2. Ailgyflwyno'r cais gyda chyfiawnhad diwygiedig a/neu ymddygiad diwygiedig i ofyn am y data; neu
3. Ailgyflwyno'r cais heb ei ddiwygio a gofyn i'r OCDA adolygu'r penderfyniad.

Yn achos ceisio adolygiad, neu apelio yn erbyn y penderfyniad gwreiddiol, **mae gan yr Awdurdod 7 diwrnod calendr i geisio'r adolygiad.** Rhaid i Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor wneud unrhyw apêl. Bydd yr OCDA yn darparu arweiniad ar y broses hon.

Mae manteision sylweddol i ddefnyddio porth NAFN ac nid oes unrhyw ffordd arall o gael data cyfathrebu, gan fod y Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio Gwasanaeth Un Pwynt Cyswllt NAFN.

Gellir ceisio gwybodaeth hanesyddol ac yn y dyfodol gan ddarparwr, yn amodol ar gyfyngiadau.

**Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer Data Cyfathrebu**

**Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer Data Cyfathrebu** yw'r Swyddog Monitro/Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch Data Cyfathrebu at yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu, neu fel arall Cynrychiolydd yr **Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu**, sef y Swyddog Llywodraethu.

Mae Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 (ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/822817/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf) yn cadarnhau ym mharagraff 4.10 y dylai'r Cyngor gael Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu. Rhaid i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu fod ar reng uwch, sydd o leiaf yr un rheng â'r uwch swyddog dynodedig (at ddibenion NAFN, byddai hwn yn Gyfarwyddwr Cyngor, Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr Gwasanaeth neu reng gyfatebol). Mae paragraff 4.10 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 hefyd yn nodi mai'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu sy'n gyfrifol am y canlynol:

*(a) the integrity of the process in place within the public authority to acquire communications data;*

*(b) engagement with Authorising Officers in the Office for Communications Data Authorisations (where relevant);*

*(c) compliance with Part 3 of the IPA 2016 and with the Communications Data Code of Practice 2018, including responsibility for novel or contentious cases (see paragraph 8.45 of the Communications Data Code of Practice 2018);*

*(d) oversight of the reporting of errors to the Investigatory Powers Commissioner ('IPC') and the identification of both the cause(s) of errors and the implementation of processes to minimise repetition of errors;*

*(e) ensuring the overall quality of applications submitted to Office for Communications Data Authorisations ('OCDA') by the public authority;*

*(f) engagement with the IPC's inspectors when they conduct their inspections; and*

*(g) where necessary, oversight of the implementation of post-inspection action plans approved by the IPC.*

Rhaid i gofnodion a gedwir gael eu cadw'n ganolog gan Un Pwynt Cyswllt NAFN a bod ar gael i'w harchwilio gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ar gais a'u cadw i ganiatáu i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT') gyflawni ei swyddogaethau. Bydd y gwasanaeth cadw dogfennau yn cael ei ddarparu gan NAFN, a fydd hefyd yn darparu copïau o bryd i'w gilydd, ac yn ôl y gofyn, i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu (gweler hefyd baragraffau 24.1 – 24.9 Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018).

I gael rhagor o wybodaeth am gaffael a datgelu, cadw gwybodaeth a materion cyfathrebu cyffredinol gweler Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/757850/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf.

**Gwallau Data Cyfathrebu**

Os bydd unrhyw wall yn cael ei wneud, o ran rhoi hysbysiad neu ganiatâd neu o ganlyniad i unrhyw weithred a ganiatawyd neu unrhyw weithred i gydymffurfio â hysbysiad, dylid cadw cofnod ohono. Dim ond ar ôl cyflwyno'r hysbysiad i'r Gweithredwyr Telegyfathrebu/Gweithredwyr Post y gall gwall ddigwydd. Os ceir hyd iddo cyn cyflwyno'r hysbysiad, ni fydd yn cyfrif fel gwall swyddogol.
Gweler paragraffau 24.17 – 24.37 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018.

Ceir dau fath o wall sef '**Gwall Adroddadwy'** a **'Gwall Cofnodadwy'**:

- Gwall lle cafodd data cyfathrebu'u caffael yn anghywir yw **Gwall Adroddadwy** ac, mewn achos o'r fath, rhaid rhoi adroddiad i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol, a dim hwyrach na 5 diwrnod gwaith (neu fel y cytunir â'r Comisiynydd) ar ôl i'r prosesau llywodraethu mewnol priodol gadarnhau bod gwall perthnasol wedi digwydd. Mae hyn oherwydd gallai fod iddo ganlyniadau sylweddol i'r unigolyn y cafodd ei fanylion eu datgelu'n anghywir.

- Gwall lle cafodd gwall ei bennu cyn caffael y data cyfathrebu yw **Gwall Cofnodadwy**. Rhaid i'r Cyngor gadw cofnod o'r achosion hyn, ond nid oes rhaid iddo gyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd.

Gall Gwallau Adroddadwy gynnwys y gwallau a ganlyn:

- Hysbysiad sy'n cael ei wneud at ddiben, neu i gael math o ddata, na all yr awdurdod cyhoeddus ofyn i'w gweld;
- Amryfusedd dynol, fel trawsosod gwybodaeth yn anghywir;
- Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu'n datgelu'r wybodaeth anghywir pan fydd yn cydymffurfio â hysbysiad; neu
- Ddatgelu neu gaffael mwy o ddata nag sy'n ofynnol.

Gall Gwallau Cofnodadwy gynnwys y gwallau a ganlyn:

- Hysbysiad nad oes modd i Ddarparwr Gwasanaethau Cyfathrebu gydymffurfio ag ef;
- Methiant i adolygu gwybodaeth a oedd eisoes ym meddiant y swyddogion, e.e. gofyn am ddata a gafodd eu caffael eisoes ar gyfer yr un ymchwiliad, neu ddata y mae'n wybyddus nad yw'r rheswm dros eu caffael bellach yn ddilys;
- Anfon hysbysiadau at y Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu anghywir; neu
- Anfon hysbysiadau at Ddarparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu na chawsant eu paratoi gan y Swyddog a Reng Gymeradwy a ganiataodd y cais;

Nid yw anfon rhif ffôn at Weithredwr Telegyfathrebu neu Weithredwr Post arall yn gyfystyr â gwall. Mewn achosion lle caiff gormod o ddata'u datgelu, os nad yw'r deunydd yn berthnasol i'r ymchwiliad, dylid ei ddinistrio ar ôl cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd.

Os bwriedir defnyddio'r deunydd gormodol ar ôl bwrw golwg drosto, rhaid i'r ymgeisydd ychwanegu atodiad at y cais gwreiddiol sy'n nodi pam fod angen defnyddio'r data gormodol hyn. Yna bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu yn penderfynu a yw'n angenrheidiol ac yn gymesur i'r data gormodol gael ei ddefnyddio yn yr ymchwiliad (gweler paragraffau 24.38 – 24.42 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018).

Rhaid rhoi gwybod i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ac i'r Comisiynydd am unrhyw wall adroddadwy cyn pen 5 diwrnod gwaith. Mae NAFN yn adrodd am wallau ar ran y Cyngor a bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cael gwybod am y rhain yng nghofnodion y Cyngor ac unrhyw gamau mewnol sy'n ofynnol. Os yw'r adroddiad yn ymwneud â gwall a wnaed gan Weithredwyr Telathrebu/Gweithwyr Post, rhaid i'r Cyngor gyflwyno adroddiad amdano, ond bydd NAFN yn rhoi gwybod i'r Gweithredwyr Telathrebu/Gweithredwyr Post i sicrhau bod modd iddo ymchwilio i'r achos.

Rhaid i'r cofnodion a gedwir o'r gwallau cofnodadwy gynnwys manylion y gwall, esboniad o'r modd y bu i'r gwall ddigwydd a braslun o'r camau a gymerir i sicrhau nad yw'r un gwall yn digwydd eto. Rhaid bod y cofnodion hyn ar gael i arolygwyr y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio eu gweld a rhaid i'r Uwch-swyddog Cyfrifol fwrw golwg drostynt yn rheolaidd.

**<u>Gwallau Difrifol</u>**

O ran 'Gwall Difrifol', a 'achosodd ragfarn neu niwed sylweddol i'r unigolyn dan sylw', rhaid rhoi gwybod i Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor. Gall y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio hysbysu'r unigolyn yr effeithir arno o'r data a ddatgelwyd, a all wneud cwyn i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio. Rhaid i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio fod yn fodlon bod y gwall yn a) gwall difrifol A b) mae er budd y cyhoedd i'r unigolyn dan sylw gael gwybod am y gwall.

Cyn penderfynu a yw'r gwall yn ddifrifol neu beidio, bydd y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn derbyn cyflwyniadau gan y Cyngor ynghylch a yw datgelu er budd y cyhoedd e.e. efallai na fyddai er budd y cyhoedd i ddatgelu pe byddai gwneud hynny yn niweidiol i 'atal a chanfod troseddau.

Gweler paragraffau 25.1 – 25.9 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 i gael rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio a 25.10 – 25.17 i gael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl y Comisiynydd Gwybodaeth.

Gweler hefyd baragraffau 25.18 – 25.21 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 i gael rhagor o wybodaeth ynghylch Gorfodi safonau uniondeb, dinistrio a diogelwch.

**<u>Caniatáu Caffael Data Cyfathrebu</u>**

Mae Adran 81 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn darparu amddiffyniad os caiff unrhyw gamau i gaffael a datgelu data cyfathrebu eu herio:

**81. Lawfulness of conduct authorised by this Part**
*(1) Conduct is lawful for all purposes if—*
*(a) it is conduct in which any person is authorised to engage by an authorisation or required to undertake by virtue of a notice given in pursuance of an authorisation, and*
*(b) the conduct is in accordance with, or in pursuance of, the authorisation or notice.*

Felly, i fanteisio ar yr amddiffyniad hwn, mae angen cael caniatâd priodol ar gyfer y wyliadwriaeth.

**Y prawf rheidrwydd a chymesuredd**

Ni ddylai'r Swyddog ar Reng Gymeradwy ond ganiatáu caffael data cyfathrebu os yw'n fodlon:

1. **Bod y weithred yn ANGENRHEIDIOL ar y sail a ganlyn:**

    - I atal neu ganfod trosedd neu i atal anhrefn

2. **Bod y wyliadwriaeth yn GYMESUR – Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn diffinio mesur neu weithred fel un sy'n gymesur os yw:**

    - Yn amharu cyn lleied â phosibl ar hawliau a rhyddidau (yr unigolyn o dan sylw ac unrhyw drydydd parti diniwed); a

    - Yn cael ei llunio'n ofalus i gyflawni'r amcanion o dan sylw ac nad yw'n fympwyol, yn annheg nac yn seiliedig ar ystyriaethau afresymol.

Mae canfod trosedd yn cynnwys pennu gan bwy, at ba ddiben, drwy ba fodd ac yn gyffredinol o dan ba amgylchiadau y cafodd unrhyw drosedd ei chyflawni, casglu tystiolaeth i'w defnyddio mewn achos cyfreithiol a dal yr unigolyn (neu'r unigolion) sydd wedi cyflawni'r drosedd.

Gall ffurflen gais gynnwys sawl cais am wahanol fathau o ddata sy'n ymwneud ag ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol. Felly, dylid ystyried sut y gall hyn effeithio ar effeithlonrwydd prosesau'r awdurdod cyhoeddus ac effaith rheoli materion datgelu cyn treial troseddol, yn ystod treial troseddol ac ar ei ôl.

I gael mwy o gyfarwyddyd, darllenwch ganllawiau perthnasol y Swyddfa Gartref sydd ar gael ar ei gwefan: https://www.gov.uk/government/collections/ripa-codes

**<u>Terfynau Amser</u>**

Dylai'r cais bennu'r cyfnod byrraf ar gyfer y data sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan y gofynnir am y data ar ei gyfer.

Dim ond am fis o'r dyddiad y caiff y caniatâd neu'r hysbysiad ei roi (gan yr OCDA trwy Un Pwynt Cyswllt NAFN) y bydd pob hysbysiad a chaniatâd sy'n gofyn am ddata cyfathrebu gan y darparwr gwasanaeth yn ddilys. Gellir adnewyddu am gyfnod o hyd at 1 mis a daw hysbysid neu ganiatâd o'r newydd i rym ar ddiwedd yr hysbysiad neu'r caniatâd y mae'n ei adnewyddu.

Os yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwyo yn cytuno i adnewyddu caniatâd neu hysbysiad, rhaid bod y Swyddog ar Reng Gymeradwy wedi ystyried y rhesymau pam ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur iddo barhau, a rhaid iddo gofnodi'r dyddiad adnewyddu.

Pan ddylid canslo caniatâd (e.e. ddim yn angenrheidiol nac yn gymesur mwyach), rhaid hysbysu Un Pwynt Cyswllt NAFN ar unwaith. Bydd yr Un Pwynt Cyswllt yn canslo'r camau awdurdodedig ac yn cymryd camau i hysbysu'r darparwr gwasanaeth post neu delathrebu yn ddi-oed.

**Swyddog ar Reng Gymeradwy**

Y Swyddog ar Reng Gymeradwy yw'r unigolyn sy'n rheolwr ar lefel gwasanaeth neu'n uwch yn y Cyngor, a'i rôl yw bod yn ymwybodol o'r cais a wnaed gan yr Ymgeisydd, a chadarnhau hyn i Un Pwynt Cyswllt NAFN. Nid yw'n canatau nac yn cymeradwyo'r cais.

Ar ôl darllen y cais, os yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn credu bod yr Ymgeisydd wedi bodloni'r holl ofynion ar gyfer rheidrwydd a chymesuredd yna dylai gofnodi'r ffaith honno drwy gyfrwng nodyn syml. Dylid nodyn syml gan y Swyddog ar Reng Gymeradwy gael ei gofnodi.

Os nad yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn credu bod yr Ymgeisydd wedi dadlau'r achos dros gaffael y data, dylai wrthod y cais a'i ddychwelyd at yr Un Pwynt Cyswllt a'r Ymgeisydd.

Yn yr un modd, os bydd Ynad yn gwrthod y cais, dylid ei wrthod a'i ddychwelyd at yr Un Pwynt Cyswllt.

Os caiff y cais ei wrthod gan yr Un Pwynt Cyswllt neu'r Swyddog ar Reng Gymeradwy, bydd yr Un Pwynt Cyswllt yn cadw'r ffurflen ac yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am y rhesymau dros wrthod y cais. Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn gwneud hynny trwy'r wefan.

Os yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn cofnodi'i ystyriaethau yng nghronfa ddata NAFN a bod modd priodoli'r ystyriaethau i'r Swyddog ar Reng Gymeradwy, nid oes angen llofnod.

**Cofrestr Ganolog o'r Caniatadau – Data Cyfathrebu**

Yn achos data cyfathrebu, bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn cadw copïau gwreiddiol o'r holl geisiadau, caniatadau, copïau o'r hysbysiadau a'r penderfyniadau i dynnu caniatadau yn eu hôl ac i ganslo hysbysiadau, a'r rheini wedi'u croesgyfeirio yn erbyn pob dogfen gysylltiedig.

Rhaid cadw ceisiadau, caniatadau, copïau o hysbysiadau, a chofnodion o dynnu caniatâd yn ôl a'i ganslo, ar ffurf ysgrifenedig neu electronig am o leiaf 3 blynedd. Cofnod o'r dyddiad a, phan fo hynny'n briodol, yr amser y mae pob hysbysiad neu ganiatâd yn cael ei ganiatáu, ei adnewyddu neu ei ganslo (gweler paragraffau 24.1-24.9 o'r Cod Ymarfer Data Cyfathrebu i gael manylion llawn am lefel y wybodaeth y dylid ei chadw).

Nid oes unrhyw beth yn y Polisi hwn yn cael effaith ar ddyletswyddau tebyg o dan Ddeddf Gweithdrefn Droseddol ac Ymchwiliadau 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd a gafwyd yn ystod ymchwiliad ac a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad gael ei gofnodi, ei gadw a'i ddatgelu i'r erlynydd.

Pan fydd y system NAFN yn cael ei defnyddio, bydd y gwasanaeth cadw dogfennau yn cael ei ddarparu gan NAFN, a fydd hefyd yn darparu copïau o bryd i'w gilydd, ac yn ôl y gofyn, i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu, ac yn delio ag unrhyw geisiadau gan arolygwyr gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Serch hynny, dylai Cofnod Canolog y Cyngor hefyd gynnwys cofnod o:

- Nifer y ceisiadau a wrthodwyd gan Swyddog Rheng Cymeradwy;
- Nifer yr hysbysiadau sy'n gofyn am i ddata cyfathrebu gael eu datgelu yn unol ag ystyr pob un o is-adrannau Adran 21(4);
- Nifer y caniatadau i gaffael data cyfathrebu yn unol ag ystyr pob un o is-adrannau Adran 21(4); a'r
- Nifer y troeon y rhoddir hysbysiad brys ar lafar.

Gellir gofyn i NAFN ddarparu gwybodaeth ystadegol am nifer yr hysbysiadau neu’r caniatadau y mae wedi’u rhoi ar ran y Cyngor yn ystod cyfnod penodol, gan gynnwys unrhyw wallau a wnaed. Bydd yr Uwch-swyddog Gyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu’r Cyngor yn gofyn am wybodaeth o’r fath oddi wrth NAFN bob chwarter.

DRAFFT

**Cwynion**

Fel y nodir ym mharagraff 26.2 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am oruchwylio diogelwch, uniondeb a dinistrio data a gedwir yn unol â'r Ddeddf. Gall methu â chydymffurfio â darpariaethau Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 yn y meysydd hyn hefyd ennyn pryderon ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a deddfwriaeth gysylltiedig. Dylid trosglwyddo unrhyw bryderon ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data gysylltiedig i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO):

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF
0303 123 1113
www.ico.org.uk.

Fel y nodir ym mharagraff 26.3 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018, mae gan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio (IPT) awdurdodaeth i ystyried a phenderfynu ar gwynion ynghylch defnydd awdurdodau cyhoeddus o bwerau ymchwilio, gan gynnwys y rhai a gwmpesir gan y cod hwn, yn ogystal ag ymddygiad gan neu ar ran unrhyw un o'r gwasanaethau cudd-wybodaeth, a dyma'r unig dribiwnlys priodol ar gyfer hawliadau hawliau dynol yn erbyn yr asiantaethau cudd-wybodaeth. Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am ddefnyddio pwerau fel y'u disgrifir yn y cod hwn at y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio.

Gall unrhyw unigolyn sy'n anfodlon â'r ffordd y mae'r Cyngor yn cadw neu wedi cadw gwyliadwriaeth gwyno. Yr unigolyn dan sylw sy'n penderfynu pa weithdrefn y dylid ei defnyddio.

Os yw rhywun yn dymuno cwyno gan ddefnyddio gweithdrefnau'r Cyngor, yna dylid gwneud yr achwynydd yn ymwybodol o Weithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor (gweler https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/comments-compliments-and-complaints/cwynion corfforaethol/ ac https://www.ceredigion.gov.uk/media/1179/complaints-policy-bookletenglish.pdf)

Ymdrinnir â'r gŵyn yn unol â'r weithdrefn honno.

Os yw person yn dymuno cwyno'n uniongyrchol i gorff annibynnol neu wedi defnyddio gweithdrefnau mewnol y Cyngor a'i fod yn dal yn anfodlon, yna gall ef/hi gwyno i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT').

Mae gan yr IPT awdurdodaeth i ymchwilio a phenderfynu ar gwynion yn erbyn defnydd awdurdodau cyhoeddus o bwerau ymchwilio. I ddarganfod mwy o wybodaeth am yr IPT neu wneud cwyn, yna mae manylion llawn sut i wneud hynny ar gael ar wefan IPT: www.ipt-uk.com.

Gellir anfon cwynion i'r cyfeiriad isod:

The Investigatory Powers Tribunal
PO Box 33220
Llundain
SWIH 9ZQ

* Gweler Rhan 4 uchod am gwynion ynghylch Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig neu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

DRAFFT

# RHAN 6 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA'

## Ystyr 'gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA'

O bryd i'w gilydd, gall fod angen i'r Cyngor gadw gwyliadwriaeth gudd nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA. Mae hyn yn iawn gan mai deddfwriaeth ganiataol yw RIPA. Mae'r gweithdrefnau a'r canllawiau isod yn amlinellu'r prosesau sy'n angenrheidiol i ganiatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA. Bwriedir i'r broses adlewyrchu'r broses ar gyfer caniatáu gwyliadwriaeth o dan RIPA, ac eithrio nad oes angen cymeradwyaeth ynad. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld isod sy'n amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA, gan gynnwys llenwi ffurflen gais.

Mae'n bwysig bod gweithdrefn ar waith ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA, gan fod dulliau ar gyfer gweithgarwch, na ellir eu gwarchod, yn cael eu hannog. O dan amgylchiadau o'r fath, caiff y diffiniadau statudol eu bodloni, ond nid ar y seiliau a nodir yn RIPA. Mae'n dal i fod yn ofynnol ystyried hawliau dynol ac mae proses awdurdodi'n darparu trywydd archwilio defnyddiol o'r penderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd.

Rhaid i Swyddogion Ymchwilio gael cyfeirnod unigryw gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol cyn ei gyflwyno i'r Swyddog Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA.

Drwy ganiatáu gweithgareddau o dan RIPA, mae'n rhoi amddiffyniad i'r Cyngor o dan Adran 27 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) h.y. mae'r gweithgaredd yn gyfreithlon at bob diben, ar yr amod bod caniatâd wedi'i roi, ac mae gweithredoedd y Swyddogion yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, o fethu â chael caniatâd, nid yw'n golygu bod y wyliadwriaeth gudd yn anghyfreithlon.

*'Tarian nid cleddyf yw RIPA ac mae Adran 80 o RIPA yn cynnwys arbediad cyffredinol am ymddygiad cyfreithlon:*

*'Nothing in any of the provisions of this Act by virtue of which conduct of any description is or may be authorised by any warrant, authorisation or notice, or by virtue of which information may be obtained in any manner, shall be construed -*

- *(a) as making it unlawful to engage in any conduct of that description which is not otherwise unlawful under this Act and would not be unlawful apart from this Act;*
- *(b) as otherwise requiring—*
  - *(i) the issue, grant or giving of such a warrant, authorisation or notice, or*
  - *(ii) the taking of any step for or towards obtaining the authority of such a warrant, authorisation or notice, before any such conduct of that description is engaged in; or*
- *(c) as prejudicing any power to obtain information by any means not involving conduct that may be authorised under this Act.'*

Eglurwyd y pwynt hwn yn fanylach gan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio yn achos 'C yn erbyn yr Heddlu' (Rhif yr achos: IPT/03/32/H 14 Tachwedd 2006) (Saesneg yn unig):

*'Although RIPA provides a framework for obtaining internal authorisations of directed surveillance (and other forms of surveillance), there is no general prohibition in RIPA against conducting directed surveillance without RIPA authorisation. RIPA does not require prior authorisation to be obtained by a public authority in order to carry out surveillance. Lack of*

*authorisation under RIPA does not necessarily mean that the carrying out of directed surveillance is unlawful.'*

**Pam cynnal gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA?**

Gall y Cyngor fod yn awyddus i gadw "gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA" am un o ddau reswm:

**Troseddau nad ydynt yn cael eu cosbi drwy chwe mis o garchar**

Fel y nodir uchod, ni chaiff Swyddogion Awdurdodi'r Cyngor ganiatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig o dan RIPA ac eithrio er mwyn atal neu ganfod ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd, neu sy'n drosedd, ac sy'n bodloni'r amodau a nodir yn yr Erthygl Newydd 7A(3)(a) neu (b) o Orchymyn 2010 sef bod modd cosbi'r drosedd y maent yn ceisio ei hatal neu'i chanfod, o gael collfarn ddiannod neu dditiad, drwy **o leiaf 6 mis o garchar**, neu ei bod yn drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (troseddau sy'n ymwneud â gwerthu tybaco ac alcohol i blant o dan oedran).

Fodd bynnag, hyd yn oed os nad yw trosedd yn bodloni'r prawf chwe mis, nid yw'n golygu na ellir cadw gwyliadwriaeth gudd.

Gwnaed y pwynt hwn gan y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth yn ei adroddiad blynyddol (2010/2011) (Saesneg yn unig):

*'The higher threshold in the proposed legislation will reduce the number of cases in which local authorities have the protection of RIPA when conducting covert surveillance; it will not prevent the use of those tactics in cases where the threshold is not reached but where it may be necessary and proportionate to obtain evidence covertly and there will be no RIPA audit trail. Part I of RIPA makes unauthorised interception unlawful. In contrast, Part II makes authorised surveillance lawful but does not make unauthorised surveillance unlawful.'*

**II. Cadw Gwyliadwriaeth ar Gyflogeion**

Ni fydd modd caniatáu'r rhan fwyaf o'r gwaith o gadw gwyliadwriaeth ar gyflogeion o dan RIPA.

Gweler penderfyniad blaenorol y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio: C yn erbyn yr Heddlu a'r Ysgrifennydd Gwladol ar ran yr Adran Gartref (14 Tachwedd 2006; Rhif IPT/03/32/H)

Roedd C, cyn sarjant heddlu, wedi ymddeol yn 2001 ar ôl hawlio iawndal am anaf i'w gefn ar ôl baglu ar garped yng ngorsaf yr heddlu. Dyfarnwyd iawndal iddo, ynghyd â phensiwn uwch oherwydd yr anafiadau.

Yn 2002, bu i'r heddlu gyfarwyddo cwmni o dditectifs preifat i gadw llygad ar C i weld a oedd yn gwneud unrhyw beth a oedd yn anghyson â'i anafiadau honedig. Roedd tystiolaeth fideo'n ei ddangos yn torri lawnt. Bu i C erlyn yr heddlu gan honni eu bod wedi cadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig heb ganiatâd. Yn gyntaf, roedd yn rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu a oedd ganddo awdurdod i wrando ar yr achos. Roedd yr achos yn dibynnu ar y dehongliad o ran gyntaf y diffiniad o wyliadwriaeth gyfeiriedig h.y. a oedd y wyliadwriaeth yn cael ei chadw 'at ddibenion ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol?'

Dyfarnodd y Tribiwnlys nad hwn oedd y math o wyliadwriaeth y bwriedir i RIPA ei reoleiddio. Bu iddo wahaniaethu rhwng swyddogaethau cyffredin a swyddogaethau craidd awdurdod cyhoeddus (Saesneg yn unig):

*‘The specific core functions and the regulatory powers which go with them are identifiable as distinct from the ordinary functions of public authorities shared by all authorities, such as the employment of staff and the making of contracts. There is no real reason why the performance of the ordinary functions of a public authority should fall within the RIPA regime, which is concerned with the regulation of certain investigatory powers, not with the regulation of employees or of suppliers and service providers.’*

Bu i’r Tribiwnlys ddatgan hefyd na fyddai’n briodol cymhwyso RIPA i wyliadwriaeth o’r fath am sawl rheswm:

1) Nid yw RIPA’n cwmpasu pob awdurdod cyhoeddus, ac nid oedd unrhyw synnwyr cadw gwyliadwriaeth ar un o gyflogeion yr heddlu ar sail gyfreithiol wahanol, er enghraifft, i un o gyflogeion y Trysorlys, sef corff nad oes ganddo’r un hawliau gwyliadwriaeth o dan RIPA.
2) Mae gan y Tribiwnlys reolau cyfyng iawn o ran tystiolaeth, bod yn agored, a hawliau i apelio. Byddai’r rhain yn peri annhegwch i gyflogeion awdurdodau RIPA pan fyddent yn herio gwyliadwriaeth eu cyflogwyr o’u cymharu â’r rheini a gyflogir gan awdurdodau nad ydynt yn dod o dan gwmpas RIPA.

Hyd yn oed pan fydd cyflogwr yn cadw gwyliadwriaeth ar gyflogai ar un o’r seiliau a geir yn adran 28(3), mae’r achos hwn yn awgrymu mai’r cwestiwn allweddol yw:

A yw’n swyddogaeth graidd sy’n gysylltiedig ag un o swyddogaethau rheoleiddiol yr awdurdod? Yng nghyd-destun awdurdod lleol, byddai hyn yn cynnwys Safonau Masnach, Iechyd Amgylcheddol, a Thrwyddedu, ymhlith swyddogaethau eraill. Os nad yw’n cael ei gwneud at un o’r dibenion hyn, nid yw’n wyliadwriaeth gyfeiriedig.

**<u>Gweithgarwch cudd ar-lein – y Rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol (‘SNS’)</u>**

Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor i gael arweiniad ynghylch gweithgarwch cudd ar-lein ar y Rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol, y mae’n rhaid ei ddarllen ar y cyd â’r Polisi hwn.

*Gweler Siart lif 9 – Caniatáu gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA*

**<u>Cydymffurfio â Deddfwriaeth Hawliau Dynol</u>**

Ni fydd RIPA’n amddiffyn unrhyw wyliadwriaeth gudd a wneir heb ganiatâd RIPA (h.y. yr amddiffyniad yn adran 27). Fodd bynnag, gellir cadw gwyliadwriaeth gudd ar yr amod ei bod yn cydymffurfio â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gellir gorfodi’r Confensiwn hwn yn uniongyrchol yn erbyn awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae Erthygl 8 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan:

Mae Erthygl 8 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan:
*‘Mae gan bawb hawl i barch at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a’i ohebiaeth.*

*Ni chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â’r hawl hon ac eithrio yn unol â’r gyfraith ac fel y bo’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn diogelu’r cyhoedd, cadw trefn gyhoeddus, amddiffyn iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddidau eraill.’*

I fodloni gofynion Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, rhaid bod y wyliadwriaeth gudd yn **angenrheidiol ac yn gymesur**. Wrth benderfynu a yw'n angenrheidiol ac yn gymesur, mae angen ystyried y ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth ganiatáu gwyliadwriaeth a reoleiddir gan RIPA.

**Cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data**

Mae'r Rheoliadau Telathrebu'n caniatáu i'r Cyngor heb ganiatâd pellach ryng-gipio'n gyfreithlon gyfathrebiadau e-bost neu ffôn ei gyflogeion, a monitro eu defnydd o'r rhyngrwyd, at ddibenion atal neu ganfod trosedd, neu ganfod defnydd nas caniateir o'r systemau hyn. Dylid rhoi sylw i Bolisi Diogelwch Gwybodaeth mewnol y Cyngor (ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (Cerinet).

Dylid ceisio cyngor pellach ar y rheoliadau hyn gan Swyddog Diogelu Data'r Cyngor a dylid rhoi sylw i Bolisi Diogelwch Gwybodaeth mewnol y Cyngor, a hefyd 'Ganllaw Cyflym yr ICO i'r Cod Ymarfer Cyflogaeth' (gweler https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1128/quick_guide_to_the_employment_practices_code.pdf).

Wrth gadw gwyliadwriaeth gudd ar gyflogeion mewn modd nad yw'n cael ei reoleiddio gan RIPA, bydd y Deddf Diogelu Data yn berthnasol gan fod gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n fyw yn cael ei phrosesu e.e. eu symudiadau, lluniau ac ati.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Arferion Cyflogaeth mewn perthynas â diogelu data (ar gael yn www.ico.org.uk). Nid yw'r math hwn o wyliadwriaeth yn cael ei drafod yn y ddogfen hon.

Yn y ddau achos uchod, mae'n bwysig sicrhau bod trywydd archwilio priodol ar gael ar ffurf cofnodion ysgrifenedig.

**Y Cod Ymarfer ar Arferion Cyflogaeth o ran Diogelu Data**

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Arferion Cyflogaeth mewn perthynas â diogelu data (ar gael yn: https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1064/the_employment_practices_code.pdf (y 'Cod DPEP').Mae Rhan 3 o'r Cod DPEP yn cynnwys pob math o wyliadwriaeth gweithwyr o fonitro fideo ac olrhain cerbydau i wyliadwriaeth e-bost a'r rhyngrwyd. Mae'n rhoi canllawiau ar sut i gadw gwyliadwriaeth ar gyflogeion mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Er nad yw'r Cod yn ddeddf, gall y Comisiynydd Gwybodaeth a'r llysoedd ei gymryd i ystyriaeth pan fyddant yn penderfynu a gydymffurfiwyd â'r Ddeddf Diogelu Data.

Mae'r Cod yn datgan y dylid monitro cyflogeion at ddiben pendant y gellir ei gyfiawnhau ac y dylai'r cyflogeion wybod bod hyn yn digwydd.
O ran gwyliadwriaeth gudd, mae'n datgan mai prin fydd yr achosion pan fydd modd cyfiawnhau monitro o'r fath. Felly, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid ei wneud e.e. i atal neu i ganfod trosedd neu gamymddygiad difrifol.
Un o brif argymhellion eraill y Cod yw y dylai'r uwch reolwyr fel rheol awdurdodi unrhyw gamau i fonitro cyflogeion yn gudd. Dylent sicrhau eu bod yn fodlon bod lle i amau bod gweithgarwch troseddol neu gamymddygiad o'r fath yn digwydd. Dylent gyflawni asesiad effaith ac ystyried a yw'r wyliadwriaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur o ystyried yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni.

Mae'r Cod yn cynnwys rheolau eraill y mae angen i awdurdodau lleol (ac eraill) eu hystyried pan fyddant yn cadw gwyliadwriaeth gudd ar gyflogeion:

- Cyn ymchwilio, rhaid pennu rheolau clir sy'n cyfyngu ar y camau i ddatgelu'r wybodaeth y ceir gafael arni a mynediad at y wybodaeth honno;
- Dylid cyfyngu ar nifer y bobl sy'n rhan o'r ymarfer monitro cudd;
- Rhaid mai diben y wyliadwriaeth yw cael gafael ar dystiolaeth o fewn cyfnod penodol ac ni ddylai barhau ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben;
- Os defnyddir cyfarpar sain neu fideo, ni ddylid gwneud hyn mewn mannau fel toiledau neu swyddfeydd preifat fel rheol;
- Dim ond er mwyn atal neu ganfod trosedd neu gamymddygiad difrifol y dylid defnyddio'r wybodaeth y ceir gafael arni drwy'r ymarfer monitro cudd; a
- Dylid diystyru unrhyw wybodaeth arall a gesglir yn ystod y cyfnod monitro a, lle bo modd, dylid ei dileu oni bai ei bod yn datgelu gwybodaeth na fyddai'n rhesymol disgwyl i unrhyw gyflogwr ei hanwybyddu.

Yn y ddau achos uchod nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan RIPA, mae'n bwysig cadw trywydd archwilio clir drwy gadw cofnodion ysgrifenedig. Yn ei adroddiad blynyddol (2011/2012), pwysleisiwyd hyn gan y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth (ym mharagraff 5.22) (Saesneg yn unig):

*'I occasionally encourage the use of similar authorisation mechanisms for activity which cannot be protected by the Acts (for example where covert techniques are used to identify a missing person when no crime is suspected). In these circumstances statutory definitions are met but none of the grounds specified in RIPA section 28(3) or RIP(S)A section 6(3), yet the human rights of the subject of surveillance must be considered. The authorisation process provides a useful audit of decisions and actions.'*

**Swyddogion Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA**

Yr un yw'r Swyddogion Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA a'r Swyddogion Awdurdodi sy'n awdurdodi gwyliadwriaeth RIPA h.y.:

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; a**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.**

Fe'ch anogir i ddefnyddio dulliau tebyg ar gyfer gweithgareddau na all deddfwriaeth RIPA eu hamddiffyn. O dan amgylchiadau o'r fath, caiff y diffiniadau statudol eu bodloni, ond nid ar y seiliau a nodir yn RIPA. Mae'n dal i fod yn ofynnol ystyried hawliau dynol. Mae proses ganiatáu yn darparu archwiliad defnyddiol o'r penderfyniadau a'r camau gweithredu. Mae'r broses yn adlewyrchu'r un ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, ar wahân i Gymeradwyaeth Farnwrol.

Dylid ceisio URN gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol cyn ei gyflwyno i Swyddogion Awdurdodi, gyda'r ffurflen wreiddiol yn cael ei hanfon at yr Uwch-swyddog Cyfrifol i'w chofnodi yn y Gofrestr Ganolog ar ôl cwblhau'r broses awdurdodi, a chadw copi o'r Gwasanaeth.

**Ffurflen caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA**

Rhaid llenwi ffurflen awdurdodi gwyliadwriaeth and yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA, fel uchod, ac mae ffurflen enghreifftiol gydag arweiniad ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn [nodwch y ddolen].

**Cylch oes caniatâd gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA**

Dangosir Siart Llif sy'n dangos cylch oes sylfaenol caniatâd gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA isod. Mae hwn yr un fath â chylch oes gwyliadwriaeth gyfeiriedig RIPA, ac eithrio nad oes angen cymeradwyaeth farnwrol

Bydd gweithgarwch nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA yn cael ei riportio i'r Pwyllgor Arolygu Trosolwg a Chydlynu.

DRAFFT

## Siart lif 9 - Caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA

**C.1 – ai diben y wyliadwriaeth arfaethedig yw ymchwilio:**
Trosedd, Trefn gyhoeddus, Diogelwch cyhoeddus, Camymddygiad staff, Diogelu plant, Mater difrifol arall

Enghreifftiau:
mân drosedd h.y. trosedd nad yw'n bodloni'r prawf 'trosedd ddifrifol' (**gweler y diffiniad isod)
- camddefnyddio'r e-bost/rhyngrwyd
- cwblhau taflen amser yn anghywir
- torri cytundeb tenantiaeth

YDY

NAC YDY

**Ceisio caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y wyliadwriaeth arfaethedig trwy ddilyn y broses caniatâd RIPA ragnodedig**

**C.2 – A yw diben y wyliadwriaeth yn angenrheidiol? Dylid ystyried effeithiolrwydd dulliau eraill i gael y wybodaeth/y dystiolaeth a geisir**

YDY

NAC YDY

**Mae'n bosib na chaiff caniatâd ei roi i gadw'r wyliadwriaeth**

**C.3 Ydy'r wyliadwriaeth yn gymesur?**

Dylid ystyried:
- Maint a chwmpas yr ymgyrch
- Y dulliau i'w mabwysiadu
- Dulliau eraill (a llai ymwthiol) sydd ar gael
- Y defnydd priodol o ddeddfwriaeth
- Yr effaith ar y sawl a amheuir

NAC YDY

YDY

**C.4 – Ydych chi wedi ystyried beth y gallwch ei wneud (os o gwbl) i leihau/osgoi ymyrraeth anuniongyrchol?**

NAC YDW

Dylid ystyried y perygl o darfu ar breifatrwydd pobl nad ydynt yn gysylltiedig â'r ymchwiliad e.e.:
- Maint a chwmpas yr ymgyrch
- Dulliau/offer a ddefnyddir
- Amseriad y wyliadwriaeth
- Hyd y wyliadwriaeth


** Prawf Trosedd Ddifrifol: gwyliadwriaeth mewn perthynas â throseddau difrifol yn unig sy'n bodloni'r amodau a osodir yn Erthygl 7A(3)(a) neu (b) o Orchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2021 (fel y'i diwygiwyd) sydd angen caniatâd o dan RIPA h.y. troseddau y gellir eu cosbi gan uchafswm cyfnod o 6 mis o garchar, neu drosedd o dan Adrannau 146, 147, 147(A) o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu Adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933

YDW

**Ceisiwch Ganiatâd Ysgrifenedig ar gyfer y Wyliadwriaeth arfaethedig trwy ddilyn proses caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA y Cyngor**

DRAFT

**Siart lif 10 – Gwyliadwriaeth nad yw’n cael ei rheoleiddio gan RIPA – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig**



# Atodlen 1 – Deddfwriaeth, Codau Ymarfer, Polisïau a Chanllawiau Perthnasol

Dylid darllen Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA ar y cyd â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau a chodau ymarfer cyfredol a pherthnasol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r) canlynol:

- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)
  http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/contents
- Nodiadau Esboniadol RIPA
  http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/notes/contents

- Codau Ymarfer Statudol RIPA:
    - Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018
      https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf
    - Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol
      https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742042/20180802_CHIS_code_.pdf
    - Cod Ymarfer ar Swmpgaffael Data Cyfathrebu:
      https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/715477/Bulk_Communications_Data_Code_of_Practice.pdf
    - Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018:
      https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/822817/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf
    - Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ymchwilio i Wybodaeth Electronig a Ddiogelwyd
      https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742064/RIPA_Part_III_Code_of_Practice.pdf
    - Cod Ymarfer Ymyrryd ag Offer 2018
      https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/715479/Equipment_Interference_Code_of_Practice.pdf

- Ddeddf Pwerau Ymchwilio ('IPA 2016')
  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/contents

- OS 2010 Rhif 521 – Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010
  http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/521/contents/made
- OS 2012 Rhif 1500 Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012
  http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1500/contents/made

- Canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('IPCO') (Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth ('OSC' gynt) (ar gael yn: https://www.ipco.org.uk/) gan gynnwys Gweithdrefnau a Dogfen Gyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth:
  https://ipco-wpmedia-prod-s3.s3.eu-west-2.amazonaws.com/OSC-PROCEDURES-AND-GUIDANCE.pdf

- Cod Ymarfer Diogelu Cyflogaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
  https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1064/the_employment_practices_code.pdf

DRAFT

- Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar Gamerâu Gwyliadwriaeth (2013) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/282774/SurveillanceCameraCodePractice.pdf

- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor: https://ceri.ceredigion.gov.uk/portal/employee-handbook/policies-procedures/social-media-policy/

- Polisi Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor; https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-security-policy/

- Cod Ymarfer y Cyngor ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol *

- Polisi Diogelu Data a GDPR y Cyngor **

- Polisi E-bost y Cyngor *

- Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor (ar gael yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-and-records-management-policy/)**

- Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl y Cyngor

- Polisi Golygyddol a Gweinyddu Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor *

- Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor *

*: ar gael ar fewnrwyd y Cyngor (CeriNet)
**: ar gael ar wefan y Cyngor a CeriNet

DRAFT

**ATODIAD 2**

# CYNGOR SIR CEREDIGION
# CEREDIGION COUNTY COUNCIL

# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol at ddibenion DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 ('RIPA')

Draft

**22/07/21**
**Pwyllgor Trosolwg a Chydlynu: 15/9/2021**

Mae'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol hwn at ddibenion DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 ('RIPA') ('Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA') yn berthnasol i holl weithwyr ('Swyddogion') Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor'), gan gynnwys asiantau'r Cyngor.

Mae'n amlinellu safbwynt y Cyngor ynghylch defnyddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys pori'r we ar ddyfeisiau symudol, ac, yn benodol, gwefannau cyfryngau cymdeithasol, wrth gynnal ymchwiliadau o dan ac yn unol â RIPA.

**Cwmpas**

1. Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddion a'r cyfleoedd y mae offer amlgyfrwng, fel y rhyngrwyd, yn eu darparu i gael mynediad i wybodaeth a'i rhannu, gan gynnwys ystod eang o gyfleusterau ar-lein.

2. Dylid darllen Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA ar y cyd â'r ddeddfwriaeth, codau ymarfer, polisïau a chanllawiau perthnasol a restrir yn Atodlen 1 isod.

**Gwyliadwriaeth a Chyfryngau Cymdeithasol y Cyngor**

3. <u>Gwyliadwriaeth gudd</u>
   Rhaid peidio â defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis cyfrifon ar-lein, tudalennau, hysbysfyrddau, proffiliau neu gyfryngau cymdeithasol eraill (megis tudalennau/proffiliau Facebook y Cyngor, porthwyr Twitter neu broffiliau/tudalennau LinkedIn) sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu rheoli ganddo, neu gyfrifon preifat Swyddogion ar gyfer unrhyw wyliadwriaeth gudd neu ymchwiliad cudd heb ystyried ymlaen llaw a oes angen caniatâd RIPA.

4. <u>Gwyliadwriaeth agored</u>
   Nid oes angen caniatâd RIPA ar gyfer y defnydd agored o'r cyfryngau cymdeithasol (boed y tu mewn neu y tu allan i gwmpas RIPA).

5. Mae'r gofynion hyn yn eu lle oherwydd yr angen i:
   - warchod enw da'r Cyngor;
   - osgoi canlyniadau posibl camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol y Cyngor; a
   - sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau RIPA.

6. Nid yw'r Polisi hwn yn disodli Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Corfforaethol (2016) y Cyngor, y mae'n rhaid i bob Swyddog sy'n defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol gydymffurfio ag ef hefyd.

7. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol pan fydd Swyddogion yn cadw gwyliadwriaeth gudd ar-lein/ar y cyfryngau cymdeithasol (p'un a yw'r wyliadwriaeth gudd yn wyliadwriaeth sy'n cael ei rheoleiddio gan RIPA neu'n wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA (gweler Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA'), RHAN II Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Defnyddio Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol a Chaffael Data Cyfathrebu, Polisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau ('Polisi RIPA')) y Cyngor.

8. Er nad yw defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymchwilio yn cael ei ystyried yn wyliadwriaeth gudd neu'n weithgarwch cudd yn awtomatig, gall ei ddefnyddio wrth gynnal ymchwiliadau/cadw gwyliadwriaeth olygu ei fod yn croesi i feysydd gwyliadwriaeth gudd a/neu wedi'i thargedu, a newid i fod yn *'gamddefnydd',* hyd yn oed os gwneir hynny yn anfwriadol.

9. Mae'n hanfodol bod darpariaethau RIPA, yng nghyd-destun gwyliadwriaeth gudd a chyfeiriedig, yn cael eu dilyn bob amser wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn ymchwiliadau.

10. Dylid ceisio cyngor gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (Swyddog Monitro ac Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer RIPA) a/neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth, os yw unrhyw wyliadwriaeth cyfryngau cymdeithasol yn cael ei defnyddio wrth ymchwilio i weithgareddau gweithiwr y Cyngor.

11. Gweler Polisi RIPA y Cyngor i gael esboniad am yr hyn a olygir wrth *'Gwyliadwriaeth'* a *'Gwybodaeth Breifat'*, a manylion ynghylch sut y gellid disgwyl gael preifatrwydd ar-lein, ac yn *arbennig*, preifatrwydd ar gyfer gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, er gwaethaf gosodiadau preifatrwydd.

***Beth yw'r 'Cyfryngau Cymdeithasol'?***

12. Bydd y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA hwn yn berthnasol i bob math o safleoedd cyfryngau cymdeithasol/rhwydweithio sydd wedi'u seilio ar y rhyngrwyd ac sydd yn aml yn cynnwys adeiladu proffil cyhoeddus neu led-gyhoeddus. Gallai nodweddion ychwanegol gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

    12.1 Y gallu i ddangos/rhannu rhestr o ddefnyddwyr eraill y mae'r defnyddiwr yn rhannu cysylltiad â nhw (e.e. cyfeirir atynt fel *'ffrindiau'* neu *'ddilynwyr'*);
    12.2 Y gallu i weld a phori rhestr cysylltiadau'r proffil a rhai defnyddwyr eraill;
    12.3 Galluoedd lletya sy'n caniatáu i ddefnyddwyr bostio cynnwys cyfryngau y gall defnyddwyr eraill ei weld; a
    12.4 Tudalennau cymdeithasol ar-lein seiliedig yn y gymuned, megis fforymau trafod neu ystafelloedd sgwrsio.

13. Mae enghreifftiau o'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i (gan fod y cyfryngau cymdeithasol yn faes sy'n newid yn gyson) y rhai a restrir isod:
    13.1 Blogiau personol;
    13.2 Postiadau neu sylwadau ar unrhyw flogiau eraill;
    13.3 Fforymau ar-lein;
    13.4 Hysbysfyrddau ar-lein;
    13.5 Facebook (rhwydweithio cymdeithasol);
    13.6 Twitter (microblog);
    13.7 YouTube (rhannu fideo);
    13.8 Flickr (rhannu delwedd);
    13.9 Tumblr (blogio/rhwydweithio cymdeithasol);
    13.10 LinkedIn (rhwydwaith proffesiynol);
    13.11 Reddit (fforymau); a
    13.12 Instagram (rhannu delweddau).

**Gwyliadwriaeth gudd ar y Cyfryngau Cymdeithasol a Phersonâu Ar-lein**

15. Gweler Polisi RIPA y Cyngor am esboniad o *'wyliadwriaeth gudd'.*

16. Nid yw'r ffaith bod ymchwilio ar-lein bellach yn arferol ac yn hawdd ei gyrchu yn lleihau'r angen am ganiatâd. Rhaid i Swyddogion Ymchwilio ac Awdurdodi ddeall sut mae'r cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio yn gweithio, gan nad yw'r gwasanaethau a ddarperir i gyd yr un fath.



Draft

17. Rhaid i Swyddogion sy'n bwriadu defnyddio cyfrifon cudd y Cyngor neu bersonol (megis Facebook) i gael mynediad i bostiadau preifat aelodau unigol o'r cyhoedd/defnyddwyr gwasanaeth ystyried ceisio caniatâd RIPA, ond dylid nodi nad oes unrhyw system ar hyn o bryd i Wasanaeth y Cyngor weithredu cyfrifon cudd ar Facebook o fewn telerau ac amodau Facebook, felly gall unrhyw dystiolaeth a geir y tu allan i delerau ac amodau'r safle olygu bod y telerau hyn wedi cael eu torri.

18. Rhaid i Swyddogion fod yn ymwybodol bod:
    - 18.1 cael mynediad diawdurdod i ddeunydd cyfrifiadurol (mynd i mewn i system gyfrifiadurol heb ganiatâd h.y. hacio);
    - 18.2 cael mynediad diawdurdod i ddeunyddiau cyfrifiadurol gyda'r bwriad o gyflawni trosedd bellach (mynd i mewn i system gyfrifiadurol i ddwyn data neu ddinistrio dyfais neu rwydwaith (e.e. plannu firws));
    - 18.3 addasiad diawdurdod o ddata (addasu neu ddileu data, gan gynnwys cyflwyno meddalwedd maleisus neu ysbïwedd ar gyfrifiadur (fandaliaeth electronig a dwyn gwybodaeth)); a
    - 18.4 gwneud, cyflenwi neu gael unrhyw beth y gellir ei ddefnyddio mewn troseddau camddefnyddio cyfrifiaduron

    yn torri Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, sy'n drosedd ac yn arwain at ddirwyon a charchar. Gallai enghreifftiau o droseddau gynnwys defnyddio safle cyfryngau cymdeithasol y tu allan i delerau ac amodau'r safle hwnnw.

19. Mae Polisi RIPA y Cyngor a'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 ym Mharagraffau 3.10, a 3.11-3.17 yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch pryd y gallai fod angen caniatâd RIPA ar gyfer gweithgarwch cudd ar-lein, ac mae Paragraff 4.16 yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch ble y rhoddwyd caniatâd blaenorol.

20. Pan ganiateir i bersonâu ar-lein gael eu defnyddio'n gorfforaethol, bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw cofrestr ganolog o'r ffugenwau a'r proffiliau/cyfrifon hyn, ynghyd â manylion y gwasanaethau neu'r Swyddogion unigol y caniateir iddynt ddefnyddio/cymeradwyo eu defnyddio.

21. Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn monitro bob 4 mis unrhyw ddefnydd sy'n ymwneud â gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol a phersonâu ar-lein, a bydd yn cadw rhestr o'r data/gwybodaeth a gedwir pan fydd y wyliadwriaeth honno'n debygol o gael gafael ar wybodaeth breifat unigolyn (p'un a yw'r wyliadwriaeth gudd yn wyliadwriaeth sy'n cael ei rheoleiddio gan RIPA neu'n wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA). Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu gan Swyddog Dynodedig yn y Gwasanaeth perthnasol.

22. Bydd y Swyddog Dynodedig yn darparu'r wybodaeth/data i'r Uwch-swyddog Cyfrifol bob 4 mis. Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol hefyd yn cofnodi manylion ynghylch pa Wasanaethau neu Swyddogion all ddefnyddio gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol a phersonâu ar-lein, a hefyd pa Swyddogion all gymeradwyo'r defnydd ohonynt.

23. Os yw Swyddog yn dymuno sefydlu persona ar-lein at ddiben cudd pan fydd yn debygol o gael gafael ar wybodaeth breifat (gan gynnwys hunaniaeth ffug neu broffil ffug), rhaid gwneud hyn dim ond gyda chaniatâd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol.

Draft

24. Mae defnyddio ffotograffau o bobl eraill heb eu caniatâd i gefnogi'r persona ar-lein yn torri deddfau eraill.

25. Rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd hysbysu'r Uwch-swyddog Cyfrifol am gais Swyddog i sefydlu persona ar-lein, gan ddarparu manylion am ganiatâd y Swyddog i gael mynediad i'r cyfrif.

**Gosodiadau preifatrwydd**

26. Gall fod disgwyliad rhesymol o breifatrwydd ar gyfer deunydd a gyhoeddir ar-lein os defnyddir rheolyddion mynediad neu mewn fformat cyfathrebu preifat, megis negeseuon gwib. Os yw gosodiadau preifatrwydd ar gael ond heb eu defnyddio, gellir ystyried bod y data yn ffynhonnell agored ac er nad oes angen caniatâd fel arfer, rhaid ei ystyried. **Gall gwylio safleoedd *'ffynhonnell agored'* yn rheolaidd gael ei ystyried yn wyliadwriaeth gyfeiriedig yn dibynnu ar yr achos ac os yw'r math o gyfryngau cymdeithasol yn berthnasol.**

    **Enghraifft 1**
    'Facebook' – os yw'r data yn cael ei gyfathrebu i 'Ffrindiau' yn unig, gall fod yn rhesymol i'w ystyried yn wybodaeth breifat gyda disgwyliad o breifatrwydd am fod yr wybodaeth yn cael ei chyfathrebu i grŵp neilltuedig yn unig.

    **Enghraifft 2**
    'Twitter' – gellir ei ystyried yn fath o gyfathrebu â'r byd yn gyffredinol, ond pan gofnodir meini prawf chwilio gall newid i fod yn wyliadwriaeth gyfeiriedig.

27. Os gall unrhyw aelod o'r cyhoedd gael mynediad i wybodaeth (e.e. os nad oes system feto) nid yw'n wybodaeth breifat. Fel rheol nid oes angen caniatâd ar gyfer gwybodaeth ffynhonnell agored. Fodd bynnag, os yw proffil yn cael ei adeiladu o ffordd o fyw unigolyn, gall newid i fod yn wyliadwriaeth gyfeiriedig.

28. Os ystyrir ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur i'r Cyngor gael mynediad cudd i safleoedd sy'n destun gosodiadau preifatrwydd, gellir gwneud hyn trwy ganiatâd priodol yn unig.

29. Pan fydd Swyddog yn bwriadu ymgysylltu ag eraill ar-lein heb ddatgelu ei hunaniaeth, efallai y bydd angen caniatâd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS) (h.y. mae'r gweithgarwch yn fwy na dim ond darllen cynnwys y safle), e.e. mae Swyddog yn anfon cais 'ffrind' yn gudd ar Facebook.

30. Os yw perthynas yn cael ei sefydlu neu ei chynnal (h.y. mae'r gweithgarwch yn fwy na dim ond darllen cynnwys y safle) mae angen caniatâd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol:

    *'CHIS authorisation is only required for the use of an internet trading organisation such as eBay when a covert relationship is likely to be formed. The use of disguised purchaser details in a simple, overt, electronic purchase does not require a CHIS authorisation, because no relationship is usually established at that stage*.' (Gweithdrefnau a Chanllawiau Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth 2016 (yn 239)).

31. Dylai'r Swyddog ystyried beth yw pwrpas edrych neu geisio edrych ar yr wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol (gweler Polisi RIPA y Cyngor a'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo y Cyngor yn 3.33).

Draft

32. Rhaid i Swyddogion beidio â mabwysiadu hunaniaeth (h.y. proffiliau ffug/hunaniaeth ffug) rhywun y mae'r sawl sydd o ddiddordeb neu ddefnyddwyr y safle yn ei adnabod/yn debygol o'i adnabod heb ganiatâd, a heb ganiatâd yr unigolyn y mae ei hunaniaeth yn cael ei ddefnyddio, a heb ystyried diogelwch yr unigolyn hwnnw. Rhaid i'r caniatâd fod yn benodol (h.y. rhaid i'r sawl y ceisir caniatâd ganddo gytuno (yn ysgrifenedig os yn bosibl) i'r hyn fydd a'r hyn na fydd yn cael ei wneud).

**Gweithdrefnau Gwyliadwriaeth**

33. Mae tair gweithdrefn wyliadwriaeth ar gael y mae'n rhaid i Swyddogion eu hystyried cyn cadw gwyliadwriaeth sy'n cynnwys safleoedd rhwydweithio cymdeithasol/cyfryngau cymdeithasol (gweler Polisi RIPA y Cyngor i gael rhagor o wybodaeth, RIPA a Deddf Pwerau Ymchwilio 2016), sef:

  - Defnyddio ***'Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig'***;
  - Defnyddio **Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol**; a
  - Pwerau i gaffael neu gae gafael ar ***'Ddata Cyfathrebu'***.

34. Mae'r materion allweddol y mae'n rhaid i Swyddogion eu hystyried yn cynnwys:
    34.1 Pa ddisgwyliad o breifatrwydd y mae'n rhesymol i ddefnyddiwr ei gael wrth bostio ar y rhyngrwyd;
    34.2 Pa mor gudd neu agored y mae'r Swyddog sy'n edrych ar wybodaeth ar y rhyngrwyd; a
    34.3 A ddylid cael caniatâd RIPA neu Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol neu beidio.

<u>Senarios Enghreifftiol</u>

35. **Senario 1 – Gweld postiadau/gwefannau sydd ar gael i'r cyhoedd lle nad oes rhaid i'r sawl sy'n eu gweld gofrestru proffil, ateb cwestiwn, neu ohebu'n sylweddol er mwyn eu gweld e.e. gwefan nodweddiadol masnachol.**

  - Dylai fod disgwyliad isel o breifatrwydd ac fel rheol ni fyddai angen caniatâd RIPA i weld neu gofnodi'r tudalennau hyn.

  - Serch hynny, efallai y bydd angen caniatâd RIPA i ymweld yn rheolaidd dros amser (monitro canfyddedig). Gall gwybodaeth breifat barhau'n breifat hyd yn oed os caiff ei phostio ar wefan o'r fath, ac mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi dehongli y gall y ffordd y mae busnes yn cael ei redeg fod yn wybodaeth breifat. Os yw Swyddog yn bwriadu monitro fel hyn, gall gaffael gwybodaeth breifat a dylid gwneud hyn mewn ffordd systematig, gan gofnodi'r canlyniadau (gan gynnwys a yw'r Swyddog yn digwydd cael mynediad i wybodaeth breifat). Gallai'r ffaith, wrth ymweld yn flaenorol, fod diffyg gwybodaeth breifat yn cael ei darganfod, dystio bod unrhyw gaffaeliad dilynol yn ddamweiniol ac nid oes angen caniatâd RIPA.

  - Os oes angen prawf brynu, gellir defnyddio enw a chyfeiriad ffug heb fod angen cael caniatâd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (neu wyliadwriaeth gyfeiriedig) ar yr amod na ffurfir *'perthynas'*. Mae angen ystyried y tebygolrwydd o gaffael gwybodaeth breifat, neu i ba raddau y mae *'perthynas'* yn cael ei ffurfio.

Draft

36. **Senario 2 – Gweld postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, megis rhwydwaith cymdeithasol lle bu'n rhaid i'r gwyliwr gofrestru proffil ond nid oes unrhyw gyfyngiad arall ar fynediad, e.e. Facebook, lle nad oes rhaid i chi gael eich derbyn fel *'ffrind'* i weld y safle, e.e. mae gan fasnachwr *'ffenestr siop'* Facebook yn hysbysebu ei fusnes/nwyddau.**

- Gall fod yn rhesymol i'r sawl sy'n rhedeg y safle/postio gwybodaeth ddisgwyl i wylwyr weithio o fewn telerau ac amodau'r wefan.

- O ganlyniad, dylid gwylio mewn ffordd agored fel arfer, h.y. trwy broffil cyfrif gan ddefnyddio enw a chyfeiriad e-bost cywir y Swyddog (cyfeiriad e-bost Ceredigion.gov.uk) neu broffil wedi'i osod a'i gymeradwyo gan Swyddog priodol. Os felly gall recordiad o'r ymweliad gael ei wneud i'w gyflwyno fel tystiolaeth.

- Os nad yw'r postiad//tudalen we yn cynnwys gwybodaeth breifat, ni fyddai unrhyw faterion preifatrwydd yn codi yn sgil ei wylio, ac felly nid oes angen caniatâd RIPA. Fodd bynnag, gallai cymysgedd o ddeunydd preifat a busnes fod ar gael i'w weld ac, fel uchod, mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn dehongli'r ffordd y mae busnes yn cael ei redeg i fod yn wybodaeth breifat. Efallai y bydd angen caniatâd ar gyfer ymweld yn rheolaidd dros amser er mwyn ei fonitro.

- Dylid defnyddio cyfrif *'cudd'* ar y lefel hon yng nghyd-destun caniatâd RIPA yn unig.

37. **Senario 3 – Gweld postiadau ar rwydweithiau cymdeithasol lle mae angen cael statws *'ffrind'* neu statws tebyg i'w gweld.**

- Mae gweld y safle yn debygol iawn o gynnwys gwybodaeth breifat, felly bydd ei weld yn rheolaidd yn cael ei ystyried yn *'wyliadwriaeth'* o dan RIPA, ac felly bydd angen caniatâd RIPA, <u>os yw</u> <u>cyfrif 'cudd' neu 'agored' yn cael ei ddefnyddio neu beidio</u> (ond y ffordd orau o'i gael mae'n debyg yw trwy ganiatâd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol, gan ddefnyddio proffil cudd ac asesiadau risg priodol).

- **Efallai y bydd angen caniatâd RIPA o hyd** ar gyfer cyfrif *'agored'* sy'n cael statws *'ffrind'* neu statws tebyg oherwydd gallai statws o'r fath gael ei roi yn ddiofyn ar ran yr unigolyn sy'n postio/perchennog y dudalen we.

- Rhaid i'r Swyddog sicrhau bod ei fynediad yn cael ei ganiatáu gan y Swyddog Awdurdodi perthnasol.

- Er enghraifft, o dan delerau ac amodau Facebook, dim ond pobl sy'n adnabod yr unigolyn sy'n cynnal y proffil ddylai anfon cais 'ffrind' i'r proffil hwnnw. Os caiff ei dderbyn, gall yr unigolyn hwnnw gredu ar gam fod y sawl sy'n gofyn amdano yn rhywun y mae'n ei adnabod, e.e. nid yw'n ei gofio nac yn ei adnabod wrth enw arall. Mae gan yr unigolion hyn ddisgwyliad cyfiawnadwy o breifatrwydd o hyd. Gan na fydd gwneud cais i gael mynediad efallai'n cydymffurfio â dehongliad cul o delerau ac amodau Facebook, byddai **proffil a gymeradwyir gan Wasanaeth y Cyngor** y gellir ei weld yn glir yn delio â'r disgwyliad hwnnw o breifatrwydd, yn hytrach na phroffil cyfryngau cymdeithasol mwy niwtral yn seiliedig ar Swyddog, megis proffil Facebook gydag enw, statws a manylion cyflogaeth y Swyddog yn y Cyngor, lle na fydd y sawl sy'n derbyn y cais *'ffrind'* yn gwerthfawrogi'r manylion hyn o bosib.



Draft

- Rhaid i Uwch-swyddog Cyfrifol ganiatáu proffil sydd wedi'i osod a'i gymeradwyo gan Swyddog priodol er mwyn cael cuddwybodaeth a darparu cyngor.

**Cofnodi Gwybodaeth, Trefniadau Diogelu ar gyfer Trin a Chadw Data**

38. Dylai'r holl ddata a gaffaelir gael eu cofnodi'n briodol ar y ffurflen berthnasol a dylid diweddaru'r Gofrestr Ganolog. Rhaid i'r Swyddog gadw copi o'r ffurflen a gyflwynwyd a'r ddogfen(dogfennau) gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Uwch-swyddog Cyfrifol (ar gyfer diweddaru'r Gofrestr Ganolog). Mae Rhan 4 o Bolisi RIPA y Cyngor yn amlinellu'r gweithdrefnau o ran sicrhau mesurau diogelu ar gyfer trin a chadw data.

39. Rhaid cymryd gofal arbennig gyda gwybodaeth sensitif a gaffaelir trwy bersonâu ar-lein. Rhaid i unrhyw wybodaeth a gedwir gael ei chadw yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill, gan gynnwys cyfrinachedd, a pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor. Gellir ceisio cyngor gan y Swyddog Diogelu Data.

**Atodlen 1- Deddfwriaeth, Codau Ymarfer, Polisïau a Chanllawiau Perthnasol**

1. Dylid darllen Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA ar y cyd â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau a chodau ymarfer cyfredol a pherthnasol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r) canlynol:

1.1 Polisi RIPA y Cyngor;
https://ceri.ceredigion.gov.uk/net/wp-content/uploads/2018/05/1.1-S-RIPA-procedure-policy-English-amended-05.10.2017.pdf

1.2 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA');
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/contents

1.3 Nodiadau Esboniadol RIPA;
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/notes/contents

1.4 Dogfennau a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('IPCO') (Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth ('OSC') gynt) (ar gael yn: https://www.ipco.org.uk/) gan gynnwys Gweithdrefnau a Dogfen Ganllaw OSC:
https://ipco-wpmedia-prod-s3.s3.eu-west-2.amazonaws.com/OSC-PROCEDURES-AND-GUIDANCE.pdf

1.5 Codau Ymarfer Statudol RIPA:

1.5.1 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018;
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf

1.5.2 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol;
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742042/20180802_CHIS_code_.pdf

1.5.3 Cod Ymarfer ar Swmpgaffael Data Cyfathrebu:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/715477/Bulk_Communications_Data_Code_of_Practice.pdf

1.5.4 Cod Ymarfer Ymyrryd ag Offer

Draft

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/496069/53693_CoP_Equipment_Interference_Accessible.pdf

1.5.5 Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/822817/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf

1.5.6 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ymchwilio i Wybodaeth Electronig a Ddiogelwyd;
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742064/RIPA_Part_III_Code_of_Practice.pdf

1.6 Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar Gamerâu Gwyliadwriaeth (2013)
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/282774/SurveillanceCameraCodePractice.pdf

1.7 Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('IPA');
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/contents

1.8 OS 2010 Rhif 521 – Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol) 2010;
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/521/contents/made

1.9 OS 2012 Rhif 1500 (Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012).
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1500/contents/made

1.10 Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor:
https://ceri.ceredigion.gov.uk/portal/employe.e.-handbook/policies-procedures/social-media-policy/

1.11 Polisi Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor;
https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-security-policy/

1.12 Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol *

1.13 Polisi Diogelu Data a GDPR y Cyngor **

1.14 Polisi E-bost y Cyngor *

1.15 Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor (ar gael yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-and-records-management-policy/)**

1.16 Polisi a Chanllawiau'r Cyngor ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl *

1.17 Polisi Golygyddol a Gweinyddu Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor *

1.18 Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor *

*: ar gael ar fewnrwyd y Cyngor (CeriNet)
**: ar gael ar wefan y Cyngor a CeriNet

Draft

IPCO
Investigatory Powers Commissioner's Office

PO Box 29105, London
SW1V 1ZU

By Email

April 2020

Dear Sir/Madam,

**Assurance of data handling and retention safeguards**

In light of the recent and serious compliance failings by part of the UK intelligence community, I have asked the IPCO inspectorate to carry out a full review of the ways in which data is handled by the public authorities we oversee. This work, which was initiated in late 2019, has comprised initial discussions with a range of authorities in relation to their data holdings. This includes any data obtained under the Investigatory Powers Act (IPA) 2016 and the Regulation of Investigatory Powers Act (RIPA) 2000 and which is therefore the subject of oversight by my office. This programme is intended to promote compliance with these acts and the Codes of Practice, and with other legal obligations including the Data Protection Act (DPA) 2018. You will be aware that the current restrictions have meant that our working model has changed and that any contact with our inspectors will be conducted remotely for the foreseeable future. Nonetheless, my inspectors will contact you to discuss data assurance alongside our usual inspections.

The objectives of the Data Assurance programme are:

- To inspect and investigate compliance with data safeguards to establish a high level of confidence that all data obtained under the powers overseen by IPCO is retained lawfully.
- To embed and encourage best practice for compliance at each authority we oversee.
- To assist the authorities we oversee to understand and investigate the compliance challenges arising from the use of bespoke, off-the-shelf and shared data handling programmes and technical storage environments.

My inspectors have identified that many organisations are retaining data for longer than is necessary or appropriate for a number of reasons. Firstly, in many cases authorities have not fully implemented data retention and disposal policies, secondly, many authorities operate with a culture of comprehensive retention to prevent operational data loss, and finally, systems used to transfer and securely store data may not promote or enable appropriate disposal processes.

For example, consider that an authority seeks and is granted a directed surveillance authorisation. Under that authorisation, surveillance is conducted for a period of time and provides information to meet the objectives of the investigation. As part of the investigation, one officer emails the results of the surveillance to a colleague and their manager, both of whom save a copy on their desktop and in Outlook for future reference. The officer also emails the product to a legal colleague so that the product may be used as evidence during criminal proceedings, it is therefore disclosed to a court and retained in a password-protected file for further use in the event of an appeal. At this point, no decision is taken as to how long that data should be retained, and the copies on both Outlook and the desktops are retained.

Although this example demonstrates legitimate use of the data for investigative and evidential use of the data, this approach is unlikely to be compliant with the code of practice for surveillance. The data pathway described includes retention on a personal desktop and in Outlook as well as a password-protected evidential copy. In this example, no retention, review or disposal process is in place for either pathway. In cases such as this, my inspectorate have found that data is being retained longer than is necessary, and at times indefinitely. I urge you to review your obligations under IPA and RIPA and to revisit the safeguards in the Codes of Practice[1] to ensure that appropriate policies and processes are in place within your authority.

Starting in 2020, IPCO inspections will include data assurance and will require the following to be made available to my inspectors: safeguarding policies; retention and disposal schedules; access to any systems used to store data obtained under IPA and RIPA. Through each inspection, my office will ask you to demonstrate the adequacy of your policies, including physical security of data, adequacy of staff training, steps to minimise copying of data and processes to ensure all relevant data and copies are deleted at the appropriate time.

This work is a central part of IPCO's role to assist public authorities to use these powers lawfully, in the public interest. I anticipate that this programme will allow my office to establish a good level of confidence in the safeguarding practices of the authorities I oversee. I recommend that you take the following actions, which will assist you in demonstrating compliance and adherence to your obligations to safeguard any data you have obtained or may obtain:

1) Review the safeguarding obligations in the relevant Code of Practice for any powers used by your authority.
2) Ensure that internal safeguard policies for retaining, reviewing and disposing of any relevant data are accurate and up-to-date.
3) Ensure that the authorising officer for your authority has a full understanding of any data pathways[2] used for RIPA or IPA data.
4) Ensure that all data obtained under IPA and RIPA is clearly labelled and stored on a data pathway with a known retention policy.
5) Review the wording of safeguards in any applications to obtain data under IPA and RIPA and ensure that they accurately reflect the retention and disposal processes at your authority[3].
6) Review whether data obtained under previous authorisations is being retained for longer than is necessary and, if appropriate, consider disposing of retained data.

If you have any questions about this programme or the recommendations we have made, please do not hesitate to contact IPCO at Info@IPCO.org.uk. Although we are not conducting inspections in person, my inspectors are available to answer any questions you have, and will be conducting inspections remotely, on a rolling basis, throughout the year.

Yours sincerely

**The Rt. Hon. Sir Brian Leveson**
The Investigatory Powers Commissioner

[1] Communications Data Code of Practice Chapter 13, CHIS Code of Practice Chapter 8 and Property Interference and Surveillance Code of Practice Chapter 9 set out safeguarding requirements.
[2] For example, directed surveillance data may be simultaneously stored on several data pathways: Pathway one – CCTV video product is transferred onto a CD and kept in a secure cabinet; Pathway two – a copy of the video is sent via email and stored on a common storage drive; Pathway three – a copy of the video is received via email and saved in an Outlook folder by a legal officer; Pathway four – a copy of the video is received via email and stored in a password protected evidential casework folder by a legal officer.
[3] For example, if all data will be retained for a set number of years this should be stated in your application, or the application should refer to the internal safeguards policy document.

Eitem Agenda 11

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23 Medi 2021 |
| **Teitl:** | Ffosffadau ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Cabinet mewn perthynas â Ffosffadau o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi, a gofyn am Bwerau Dirprwyedig i benderfynu ar Geisiadau Cynllunio a fyddai'n effeithio'n andwyol ar integredd yr Ardal Cadwraeth Arbennig. |
| **Er:** | Penderfyniad |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** | Y Cynghorydd Rhodri Evans, Economi ac Adfywio |

Cyflwynwyd yr adroddiad canlynol a chafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 13eg Gorffennaf 2021.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu dim ond os yw'n ddatblygu cynaliadwy sy'n cynnwys mesurau perthnasol sy'n diogelu'r amgylchedd.

Mae ansawdd yr amgylchedd naturiol yn ein hardal o safon arbennig o uchel. Mae Afon Teifi yn Ardal Cadwraeth Arbennig. Yn yr ardal hon mae amryw o leoliadau o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol i fywyd gwyllt. Felly mae Afon Teifi wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'i diwygiwyd ("Y Rheoliadau Cynefinoedd").

Yn ddiweddar, cafodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol lythyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y lefelau uchel o ffosffadau yn afon Teifi. Mae'r un llythyr hefyd wedi'i anfon at yr Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Nghymru mewn perthynas â'r Teifi yn ogystal â chyrff dŵr eraill Ardal Cadwraeth Arbennig.

Yn sgil Dyfarniad llys (a elwir yn "Achos yr Iseldiroedd"), mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynghori Cyngor Sir Ceredigion, yn sgil cyflwr anffafriol Ardal Cadwraeth Arbennig afon Teifi, cyn penderfynu ar gais cynllunio a allai arwain at ffosffadau ychwanegol yn y dalgylch, y dylai awdurdodau cymwys gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn 'awdurdod cymwys' o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly'n golygu ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor asesu effeithiau posibl prosiectau a chynlluniau, ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n cynnwys Ardal Cadwraeth Arbennig afon Teifi. Yn ei rôl fel awdurdod cymwys, rhaid i'r cyngor gynnal 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' ar unrhyw gais cynllunio perthnasol sy'n dod o fewn y ffiniau a'r dalgylchoedd. Lle mae 'Effaith Arwyddocaol Debygol', rhaid i'r cyngor gynnal 'Asesiad Priodol' er mwyn penderfynu, gyda sicrwydd gwyddonol, na fyddai dim 'Effaith Niweidiol ar Integredd' ar y safle dynodedig o'r cynllun neu'r prosiect, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill.

Mae'r cyngor yn ystyried hyn wrth ystyried a ellir rhoi caniatâd cynllunio. Os na ellir profi na fyddai effaith andwyol ar integredd, yna ni ellir rhoi caniatâd cynllunio heb ystyriaeth lem bellach o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai statudol ar asesiadau priodol ac mae'n rhoi cyngor i awdurdodau cymwys mewn perthynas â safleoedd a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y cyngor a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru wrth wneud penderfyniadau cynllunio (ar gyfer datblygiadau unigol a chynlluniau datblygu lleol (CDLl)).

Mae'r mathau o ddatblygiad y mae'r gofyniad hwn yn effeithio arnynt yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Unedau preswyl newydd - gan gynnwys llety i dwristiaid, safleoedd/lleiniau sipsiwn a theithwyr, llety i fyfyrwyr, cartrefi gofal ac ati.
- Datblygiadau masnachol - arwynebedd llawr masnachol newydd gan gynnwys estyniadau, newid defnydd o un busnes i'r llall lle mae cynnydd mewn gweithwyr a/neu ddefnydd a fyddai'n effeithio ar ddŵr gwastraff.
- Datblygiad Amaethyddol - ysguboriau ychwanegol, storfeydd slyri ac ati.
- Hysbysiadau Blaenorol o ddatblygiad amaethyddol lle, o ganlyniad i'r datblygiad, mae maint neu grynoadau'r dŵr gwastraff a ollyngir yn cynyddu.
- Treulwyr Anaerobig
- Atyniadau twristiaeth
- Datblygu a ganiateir i eiddo sy'n bodoli eisoes (e.e. estyniadau) sy'n cynyddu maint y dŵr budr sy’n draenio (e.e. am fod rhagor o bobl yn byw yno).

Mae cyngor pellach gan Gyfoeth Naturiol Cymru (02/05/21) yn awgrymu y dylid cynllunio gweithfeydd Trin Carthion Preifat sy'n gollwng dŵr gwastraff domestig i dir a adeiladwyd i'r Safon Brydeinig berthnasol fel bod;

- Y cae draenio wedi'i leoli mwy na 40m o unrhyw nodwedd ddŵr wyneb fel afon, nant, ffos neu ddraen, **a**
- Bod y cae draenio wedi'i leoli mwy na 50m o ffin yr Ardal Cadwraeth Arbennig, **a**
- Bod uchafswm y gyfradd gollwng ddyddiol yn llai na 2 fetr ciwbig
- Hefyd, er mwyn sicrhau nad oes dim effaith gyfunol sylweddol o ran prosiectau, dylai'r gollyngiad i'r ddaear fod o leiaf 200m o unrhyw ollyngiad arall i'r ddaear. Ni ddylai dwysedd y gollyngiadau i'r ddaear hefyd fod yn fwy nag 1 am bob 4 hectar (neu 25 y km2)

Y mater arall a godwyd, ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn aros am eglurhad yw'r rheidrwydd i ddad-slwtsian gweithfeydd trin carthion preifat, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i gludwyr gwastraff ollwng y slwtsh yng ngweithfeydd trin carthion Dŵr Cymru, ond nid oes dim gweithfeydd trin carthion preifat o fewn Ceredigion sydd â'r cyfleusterau stripio ffosffad angenrheidiol, ar wahân i Landdewibrefi sydd ond dros dro yn meddu ar gapasiti ar gyfer hyd at 5 uned, felly mae gollwng i weithfeydd trin carthion preifat Dŵr Cymru yn cyfrannu at effeithiau niweidiol ffosffadau yn Ardal Cadwraeth Arbennig afon Teifi.

**Y sefyllfa bresennol (25/05/21)**

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol 45 o geisiadau na ellir eu penderfynu oherwydd y mater uchod, o'r 45 cais y maent yn cynnwys 47 annedd, a 22 defnydd arall, ac o ganlyniad mae angen gwrthod y ceisiadau, ond ar hyn o

bryd nid oes gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio'r pwerau dirprwyedig i wrthod, ac ar ben hynny ni all Aelodau Lleol ofyn bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i'w penderfynu, gan nad oes gwybodaeth ddigonol i gefnogi cynnig a byddai penderfyniad i gymeradwyo yn arwain at benderfyniad anghyfreithlon.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** | Ddim yn Ofynnol |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** | |
| **Argymhelliad:** | Mae Cabinet yn cymeradwyo rhoi Pwerau Dirprwyedig i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet E, i benderfynu ceisiadau cynllunio lle mae ffosffadau yn broblem (yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017) ac a dderbyniwyd ar ôl 1af Mehefin 2021.<br>Caiff ceisiadau sy'n disgyn i'r categori hwn, ac a ddaeth i law cyn 1 Mehefin 2021 eu dal yn ôl hyd nes y ceir arweiniad clir ar gyfer penderfynu ar geisiadau. | |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Caniatáu i Geisiadau Cynllunio gael eu penderfynu'n effeithlon | |
| **Trosolwg a Chraffu: Fframwaith Polisi:** | ddim yn berthnasol | |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | ddim yn berthnasol | |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | dim | |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | | |
| **Goblygiadau staffio:** | dim | |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | dim | |
| **Risg(iau):** | | |
| **Pwerau Statudol:** | | |
| **Papurau Cefndir:** | | |
| **Atodiadau:** | dim | |

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio |
| **Swyddog Adrodd:** | Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Cynllunio |
| **Dyddiad:** | 01/09/21 |

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Cyngor** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **23 Medi 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **O bell trwy Gynhadledd Fideo** |
| **TEITL:** | **Adroddiad ar newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Gwneud newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor, a sicrhau bod dirprwyaethau priodol ar waith** |
| **ER:** | **Penderfyniad a Gwybodaeth** |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** | **Y Cyng. Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Gyswllt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth** |

**CEFNDIR:**

Cyhoeddir y Cyfansoddiad ar wefan y Cyngor, ac mae'n ddogfen fyw. Awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud mân newidiadau i'r Cyfansoddiad, a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Mae'r fersiwn gyhoeddedig gyfredol o Gyfansoddiad y Cyngor ar gael yn:
https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ynglyn-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/

Cymeradwyodd y Cyngor newidiadau i'r Cyfansoddiad ar 16eg Hydref 2020 a chadarnhawyd mewn Adroddiad i'r Cyngor ar 18fed Mawrth 2021, ymhellach i Gyfarfod Gweithgor Trawsbleidiol Cyfansoddiad y Cyngor ('y Gweithgor') a gynhaliwyd ar 15fed Chwefror 2021, fod y newidiadau a gymeradwywyd yng Nghyfarfod y Cyngor ar 16eg Hydref 2020 wedi'u gwneud.
Gweler yr adroddiad yn:
https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=144&LLL=0

Yn ei gyfarfod ar 18fed Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cyngor hefyd ddiwygiadau pellach i'r Cyfansoddiad. Gwnaed y newidiadau hyn ac maent yn y fersiwn gyhoeddedig gyfredol o'r Cyfansoddiad (gweler uchod). Gweler Cofnodion y Cyfarfod yn:
https://www.ceredigion.gov.uk/media/8975/cofnodion-ddrafft-18032021-saesneg-final.pdf).

**Cynigion**

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Gweithgor ar 19eg Ebrill 2021, 30ain Mehefin 2021 a 10fed Awst 2021, lle cytunodd y Gweithgor i argymell y newidiadau canlynol i'r Cyfansoddiad i'r Cyngor, ac a gynigiwyd i'r Gweithgor yn dilyn trafodaethau â Swyddogion perthnasol.

1. **Newidiadau yn ymwneud â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Diwygiadau i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021') sy'n effeithio ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys:

**(a)** Newidiadau i'w mewnosod yn y Cyfansoddiad o 5 Mai 2022 (geiriad arfaethedig newydd yn Erthygl 9 Erthyglau Rhan 2– gweler **Atodiad 2**).

Gofynnir i aelodau nodi un cywiriad yn 9.2.2.1.1 yn ymwneud ag aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o '*aelodaeth o draean o leiaf*' i '*aelodaeth o draean*'.

Gofynnir i aelodau nodi, ers Cyfarfod blaenorol y Gweithgor, y nodwyd y dylid cyfeirio at '*aelodau lleyg'* yn lle hynny fel '*lleygwyr'*, ac y dylid cyfeirio at '*Is-gadeirydd'* yn lle fel '*Dirprwy Gadeirydd*', yn ôl geiriad penodol Deddf 2021. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn fân ddiwygiad a wnaed gan y Swyddog Monitro, ac felly mae Atodiad 2 ac Atodiad 5 (gweler (d) isod) i'r Adroddiad hwn hefyd yn adlewyrchu'r diwygiadau hyn sydd wedi'u diweddaru, a fydd yn cael eu cadarnhau yng Nghyfarfod nesaf y Gweithgor.

**(b)** Newidiadau i Ran 2 y Cyfansoddiad (gweler **Atodiad 3**) gan gynnwys:

- Ychwanegu manylder pellach yn adran y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Gweler Erthygl 9.2); a
- Enw'r Pwyllgor wedi'i ddiweddaru i'r '*Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*' *o'r 'Pwyllgor Archwilio'.*

**(c)** Newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o dan Ran 3 y Cyfansoddiad (gweler **Atodiad 4**) i gyfeirio at ei ddyletswyddau newydd a'i newid enw.

**(d)** Newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o dan Ran 3 y Cyfansoddiad i'w cynnwys o 5 Mai 2022 (gweler **Atodiad 5**), pan ddaw'r dyletswyddau newydd hyn i rym.

**(e)** Mân newidiadau yn rhannau 4B a 4F y Cyfansoddiad i ddiweddaru cyfeiriad at enw newydd y Pwyllgor, yn unol â Deddf 2021 (gweler **Atodiadau 11 a 7).**

Cyflwynwyd y newidiadau arfaethedig uchod i'r Cyfansoddiad o ran cylch gorchwyl, enw, dyletswyddau a rolau newydd y Pwyllgor, aelodaeth y Pwyllgor a'r weithdrefn Bleidleisio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn eu Cyfarfod ar 3ydd Mehefin 2021, i'w nodi.
Gweler yr Adroddiad a Chofnodion y Cyfarfod yn:
https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=147&LLL=0

2. **Ffi'r Cyfansoddiad**

- Diwygiad i gymal 15.3.2 (gweler **Atodiad 3**) i adlewyrchu y caiff copïau o'r Cyfansoddiad eu darparu ar gyfer tâl sy'n cynrychioli dim mwy na chost darparu'r Copi (yn unol â gofynion Deddf 2021).

Mae'r gofyniad hwn mewn grym o fis Mai 2022 ond, gyda chymeradwyaeth y Cyngor, bydd cyfeiriad at ffi Canllaw i Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiweddaru ar ôl ei gymeradwyo gan y Cyngor, fel yr argymhellir gan y Gweithgor.

**3. Canllaw i'r Cyfansoddiad/Rhan 1**

- Mae'r Gweithgor hefyd wedi cymeradwyo diwygiadau, fel y'u nodir yn yr Adroddiad hwn, i Ran 1 y Cyfansoddiad (gweler **Atodiad 1**) i'w hargymell i'r Cyngor i'w cynnwys mewn Canllaw i'r Cyfansoddiad maes o law:

  Mae Adran 45 Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi Canllaw i'r Cyfansoddiad o 5 Mai 2022. Bydd Canllaw arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo maes o law (disgwylir arweiniad gan Lywodraeth Cymru), a Rhan 1 ar hyn o bryd fydd sail y Canllaw hwn.

**4. Datganiad/Polisi Atal Caethwasiaeth**

- Cyfeiriad at Ddatganiad/Polisi Atal Caethwasiaeth y Cyngor i'w fewnosod yn Rhan 1 y Cyfansoddiad (gweler **Atodiad 1**) ac yn Erthyglau Rhan 2 (gweler **Atodiad 2**).

**5. Channel a CONTEST**

Ynghylch Channel:

- Esboniad o Channel, Cadeirydd/Dirprwy Channel a Phanel Channel yn y Cyfansoddiad (mewn Rhestr Termau yn Rhan 1) (gweler **Atodiad 1**);
- Geiriad drafft yn Rhan 7 (Fforymau Ymgynghorol a Chynghorol) (gweler **Atodiad 8**);
- Diwygiadau i'r Dirprwyaethau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd yn Rhan 3.5 G (gweler **Atodiad 9**) a Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal yn Rhan 3.5 J (gweler **Atodiad 10**).

Ynghylch CONTEST:

- Esboniad o CONTEST yn Rhan 1 (gweler **Atodiad 1**);
- Cyfeiriad at CONTEST yn Rhan 3.5 G (Dirprwyaethau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd) (gweler **Atodiad 9**); a
- Cyfeiriad at CONTEST yn Rhan 7 (Fforymau Ymgynghorol a chynghorol) ym mharagraff y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Adran 3 Rhan 7 (gweler **Atodiad 8**).

**6. Diwygiadau i Ddirprwyaethau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd**

**a) Anifeiliaid gwyllt a syrcasau teithiol**

Mewnosodiad yn Rhan 3.5G Dirprwyaethau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (gweler **Atodiad 9**), ymhellach i Adroddiad y Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu i Bwyllgor Craffu Cymunedau Iachach ar 8fed Mawrth 2021 (gweler yr Adroddiad yn: https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/pwyllgor-cymunedau-iachach/ ac Adroddiad i'r Cyngor ar 18 Mawrth 2021 (gweler uchod)).

**b) Rheoliadau Ysmygu**

- Diwygiad i'r geiriad yn Rhan 3.5G Dirprwyaethau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (gweler **Atodiad 9**), ymhellach i Adroddiad Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd i Bwyllgor Craffu Cymunedau Iachach ar 8fed Mawrth 2021 (gweler yr Adroddiad yn https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/pwyllgor-cymunedau-iachach/) ac Adroddiad i'r Cyngor ar 18fed Mawrth 2021 (gweler uchod)).

  Noder, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (deddfwriaeth berthnasol) eisoes wedi'i chynnwys yn y ddirprwyaeth ar hyn o bryd, felly cynigir cyfeiriad at ddeddfwriaeth ddilynol, a fyddai'n cynnwys Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020.

**c) Coed Peryglus**

- Diwygiadau i Ddirprwyaethau Rhan 3.5G i Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i gynnwys cyfeiriad at 'coed peryglus' (gweler **Atodiad 9**).

  Cynigir y cyfeiriad hwn er eglurder a chadarnhad bod dirprwyaethau sy'n ymwneud ag Adran 23 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, darpariaeth i gadarnhau pwerau'r Cyngor i ddelio â choed peryglus, yn cael eu rhoi i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

**d) Sbwriel**

- Diwygiadau i Ddirprwyaethau Rhan 3.5G i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i gynnwys cyfeiriad at '*sbwriel*', mewn perthynas â phwerau gorfodi, er eglurder (gweler **Atodiad 9**).

**7. Cael gwared ag Ein Rhanbarth ar Waith ('ERW')**

- Gan nad yw'r Cyngor bellach yn aelod o ERW, ceir gwared â chyfeiriad at ERW trwy'r Cyfansoddiad drwyddi draw (gweler yr Atodiadau amrywiol sydd ynghlwm wrth yr Adroddiad).

**8. Rhybuddion o Gynnig**

- Diwygiadau ynghylch Rhybuddion o Gynnig (gweler **Atodiad 6**).

Cyflwynwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei Gyfarfod ar 21ain Mai 2021: gweler yr Adroddiad yn https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=144&LLL=0. Fel y cadarnhawyd yn yr Adroddiad, cyflwynwyd diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad ynghylch Rhybuddion o Gynnig i Weithgor Trawsbleidiol Cyfansoddiad y Cyngor yn ei Gyfarfod ar 19eg Ebrill 2021

Roedd Gweithgor y Cyfansoddiad wedi cytuno bod y newidiadau hyn wedi'u cymeradwyo ac y dylid eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w hystyried cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig ynghylch Rhybudd o Gynnig

**9. Gweithdrefn Galw i Mewn**

- Diwygiadau i'r Weithdrefn Galw i Mewn (gweler y Detholiad yn **Atodiad 12**).

  Roedd yr Adroddiad uchod i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn manylu ar newidiadau arfaethedig i Reolau Gweithdrefn y Cabinet. Cyflwynwyd diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad ynghylch y weithdrefn Galw i Mewn i Weithgor Trawsbleidiol Cyfansoddiad y Cyngor, a oedd wedi cytuno bod y dogfennau hyn wedi'u cymeradwyo o'r blaen ac y dylid eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w hystyried cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

  Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig ynghylch y Weithdrefn Galw i Mewn.

**10. Pleidleisio**

- Diwygiadau i wneud y Weithdrefn Bleidleisio yn glir (gweler **Atodiadau 3, 6, 13 a 14**).

Yn yr Adroddiad uchod i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cadarnhawyd hefyd bod angen nodi Darpariaethau Pleidleisio Gweithdrefn y Cyngor hefyd yn y Cyfansoddiad ar gyfer Cabinet a Phwyllgorau'r Cyngor. Argymhellwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylid diwygio'r Cyfansoddiad i reoleiddio'r trefniadau, er mwyn nodi'n glir yn y Cyfansoddiad bod y Cabinet a'r Pwyllgorau yn dilyn yr un weithdrefn ag a nodir yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, o ran Pleidleisio mewn cyfarfodydd ar gyfer:

- mwyafrif syml; a

- pleidlais fwrw'r Cadeirydd.

Roedd y Gweithgor hefyd wedi cytuno i argymell i'r Cyngor fewnosod y geiriad a nodir yn **Atodiad 13** (Cabinet), **Atodiad 14** (Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu) ac **Atodiad 3** (gweler uchod) (ar gyfer y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) sydd wedi'u hatodi.

Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i reoleiddio trefniadau gweithdrefnol y Cabinet a'r Pwyllgorau i adlewyrchu Rheolau Gweithdrefn y Cyngor o ran mwyafrif pleidleisio a phleidlais fwrw'r Cadeirydd mewn cyfarfodydd.
Cynigiwyd diwygiad ychwanegol newid y gair 'ystafell' i 'cyfarfod' hefyd i'r Gweithgor ar gyfer y Cyngor, y Cabinet a'r holl Bwyllgorau, yn ogystal â'r newid 'gofynnwyd cwestiwn' i 'cyflwynwyd argymhelliad neu gynnig', y penderfynodd y Gweithgor eu hargymell i'r Cyngor (gweler **Atodiad 6**).

**11. Pwyllgorau Rheoleiddio**

- Datblygiad Erthygl 8 yn Rhan 2 ('Pwyllgorau Rheoleiddio'). Gwneir gwaith pellach yn adran hon y Cyfansoddiad. Gweler y newidiadau arfaethedig y cytunwyd arnynt hyd yma gan y Gweithgor i'w argymell i'r Cyngor yn **Atodiad 3**, sy'n cynnwys:
  - Adrannau newydd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu (8.2) a'r Pwyllgor Trwyddedu (8.3);
  - Symud gofynion cworwm y Pwyllgor Rheoli Datblygu o Erthygl 15 i Erthygl 8 (yn 8.2.1); a
  - Ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Trwyddedu, fel uchod, cyfeiriad at y gofynion pleidleisio (mwyafrif syml a phleidlais fwrw'r cadeirydd).

**12. Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

- Cyfeiriad at Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol y Cyngor (gweler y cyfeiriad newydd yn Erthygl 12.2.8 yn **Atodiad 3** ac Adroddiad y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 14eg Ionawr 2021 yn: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Coord%20agenda%20pack%20200121%20FINAL%20Welsh.%20v2pdf.pdf ac Adroddiad i'r Cabinet ar 16eg Mawrth 2021 yn: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Socio%20Economic%20Duty%20(Cymraeg).pdf).

**13. Dirprwyaethau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio –**

- Geiriad drafft i'w fewnosod yn Rhan 3.5H (Dirprwyaethau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol yr Economi ac Adfywio) (gweler **Atodiad 15**).

Cyflwynwyd Adroddiad ar Ffosffadau ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi i'r Cabinet ar 13eg Gorffennaf 2021 gan y Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cynllunio (gweler yr Adroddiad a Chofnodion drafft y Cyfarfod yn:

https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=148&MId=170&Ver=4&LLL=0). Deellir ymhellach fod Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei Gyfarfod ar 23ain Medi 2021 yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo rhoi pwerau dirprwyedig i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio i benderfynu ar geisiadau cynllunio lle mae ffosffadau (yn unol â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017)) yn broblem (mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet) (gweler Adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=161&Ver=4&LLL=0).

Cytunodd y Grŵp i argymell y geiriad i'r Cyngor yn amodol ar argymhelliad y Cabinet a chymeradwyaeth y Cyngor i roi'r pwerau dirprwyedig). Cyflwynwyd y geiriad eto i'r Gweithgor yn ei Gyfarfod ar 10fed Awst 2021 (yn dilyn penderfyniad y Cabinet) a chytunodd y Gweithgor i argymell y geiriad hwn i'r Cyngor, os bydd y Cyngor yn penderfynu rhoi'r pwerau dirprwyedig i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio.

**14. Tai**

- Diwygiadau yn unol â'r Argymhellion yn yr Adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 20fed Rhagfyr 2020, gan Reolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Tai, gan dynnu sylw at gyflwyniad a dirprwyaethau ar gyfer Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 a Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (gweler **Atodiadau 10 a 15** sydd wedi'u hatodi, a gweler yr Adroddiad yn: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/C%20-%20Effeithlonrwydd%20ynni.pdf).

**15. Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**

- Mae diwygiadau i eiriad yn Erthygl 11.3.12 Erthyglau Rhan 2 (gweler **Atodiad 2** – i'w ddiwygio o Fai 2022) yn dileu'r cyfyngiad ar Swyddog Monitro Awdurdod Lleol yn bod yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â newidiadau Deddf 2021.

Mae Adran 161 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/section/161) yn diwygio Adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/section/8) i ddod â'r cyfyngiad i ben o fis Mai 2022.

**16. Porth Cymorth Cynnar**

- Diwygio '*Portffolio Porth Ceredigion, Ymyrraeth Gynnar, Hybiau Lles a Gwasanaethau Diwylliant*' i '*Portffolio Porth Cymorth Cynnar' a* Gwasanaethau *o 'Gwasanaethau: Porth Ceredigion, Ymyrraeth Gynnar, Hybiau Lles a Diwylliant*' i '*Gwasanaethau: Porth Cymorth Cynnar'* trwy'r Cyfansoddiad drwyddi draw.

**17. Newidiadau i ddirprwyaethau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid**

- Diwygiadau yn Rhan 3.5M Dirprwyaethau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid, i gadarnhau cyfrifoldeb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol am gydnerthedd seiber, gan gynnwys seiberddiogelwch, ac eglurhad sy'n ymwneud â'r Cod Cysylltu (gweler **Atodiad 16**).

**18. Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig/Prif Weithredwr**

- Yn unol ag Adran 55 Deddf 2021 (mewn grym o 20fed Mawrth 2021), disodli'r gair 'cyflog' â 'taliad cydnabyddiaeth' mewn perthynas â'r Prif Weithredwr (gweler y geiriad drafft yn Netholiad Rhan 3.5 L Dirprwyaethau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael yn **Atodiad 17** a geiriad drafft yn Netholiad Rhan 5 L Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol yn **Atodiad 18**).

Cymeradwyodd y Gweithgor hefyd ddiwygio'r teitl o 'Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig' i 'Prif Weithredwr' yn y Cyfansoddiad o 5 Mai 2022, fel sy'n ofynnol o dan adran 54 Deddf 2021.

**19. Ymgynghori: gwneud penderfyniadau a pherfformiad**

Mae Adran 90 Deddf 2021 (sydd mewn grym o 1af Ebrill 2021) yn gosod dyletswydd ar y Cyngor, o bryd i'w gilydd, ac o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol, ymgynghori â'r canlynol ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn cwrdd â'r gofynion perfformiad—
(a)pobl leol,
(b)pobl eraill sy'n cynnal busnes yn ardal y Cyngor,
(c)staff y Cyngor, a
(d)pob undeb llafur sy'n cael ei gydnabod (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52)) gan y Cyngor

Yn sgil adran 90, cyflwynwyd geiriad arfaethedig i'r Gweithgor i'w fewnosod yn Rhan 1 y Cyfansoddiad (gweler **Atodiad 1**). Cytunodd y Gweithgor i gynnig y geiriad hwn i'r Cyngor i'w fewnosod yn Rhan 1 (ac, ar ôl cwblhau'r Canllaw i'r Cyfansoddiad, maes o law).

**20. Mân Newidiadau**

Mae unrhyw fân newidiadau a wneir gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro yn cael eu cadarnhau i'r Gweithgor, wedi'u cynnwys yn yr Atodiadau i'r Adroddiad hwn ac yn cynnwys:
- Newidiadau o ran arddull/fformat;
- Newid i 'Archwilio Cymru' o'r 'Comisiwn Archwilio';
- Diweddaru i 'Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol' o 'Panel Cydraddoldeb Corfforaethol';
- Diweddaru enw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Dileu ERW (fel uchod);
- Cywiriad i: Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

**ARGYMHELLION:**
Bod y Cyngor yn penderfynu:
1. Nodi cynnwys yr Adroddiad;

2. Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad, fel yr argymhellwyd gan Weithgor Trawsbleidiol Cyfansoddiad y Cyngor ac fel y'u rhestrir yng Nghynigion 1-20 yr Adroddiad hwn;
3. Awdurdodi’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro i ddiweddaru Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau uchod.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn addas i’r diben, bod y cyfeiriadau cywir at Swyddogion yn y Cyfansoddiad a bod dirprwyaethau a chyfrifoldebau priodol ar waith.

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau?** Nac oes
**Os nad oes, dywedwch pam**
***Crynodeb:*** *Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi na strategaeth.*

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL:** | **Hirdymor:** | Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn parhau i gael ei ddiweddaru a'i fod yn addas i’r diben er budd hirdymor y Cyngor a dinasyddion Ceredigion. |
| | **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |
| | **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| | **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| | **Atal:** | Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn parhau i gael ei ddiweddaru a'i fod yn addas i’r diben. |

**Argymhelliad:**
Bod y Cyngor yn penderfynu:
1. Nodi cynnwys yr Adroddiad;
2. Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad, fel yr argymhellwyd gan Weithgor Trawsbleidiol Cyfansoddiad y Cyngor ac fel y'u rhestrir yng Nghynigion 1-20 yr Adroddiad hwn; ac yn
3. Awdurdodi’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro i ddiweddaru Cyfansoddiad y Cyngor.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

| | |
|---|---|
| **Trosolwg a Chraffu:** | ddim yn berthnasol |
| **Fframwaith Polisi:** | Trefniadau Democrataidd |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Thema drawsbynciol i sicrhau bod gwasanaethau'n addas i’r diben. |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau Eiddo / Asedau:** | Dim |

**Risg(iau):** Dim

**Pwerau Statudol:**

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:
https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/enacted/welsh

Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru 2021:
https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/342/made/welsh

Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021:
https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/327/made/welsh

Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021:
https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/341/contents/made/welsh

Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 3) 2021:
https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/345/contents/made/welsh

Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cyhoeddus yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) (Cymru) 2021:
https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/347/made/welsh

Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021:

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/349/contents/made/welsh

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig 23 Chwefror 2021: Gosod Offerynnau Statudol i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gosod-offerynnau-statudol-i-sefydlu-cyd-bwyllgorau-corfforedig

Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021

**Papurau Cefndir:**

Adroddiad i'r Cyngor – 18[fed] Mawrth 2021 a Chofnodion y Cyfarfod ar gael yn: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=144&LLL=0

Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 3[ydd] Mehefin 2021 a Chofnodion y Cyfarfod ar gael yn https://council.ceredigion.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=147&LLL=0

(Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau Teithiol) Adroddiad i'r Pwyllgor Cymunedau Iachach 8[fed] Mawrth 2021 https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/pwyllgor-cymunedau-iachach/?year=2021&date=08%2F03%2F21

(Rheoliadau Smygu) Adroddiad i Bwyllgor Craffu Cymunedau Iachach 8[fed] Mawrth 2021

https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/pwyllgorau/pwyllgor-cymunedau-iachach/?year=2021&date=08%2F03%2F21

(Rhybuddion o Gynnig/Gweithdrefn Galw i Mewn/Pleidleisio) Adroddiad i Gyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 21[ain] Mai 2021: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=144&LLL=0.

(Dyletswydd Gymdeithasol-Economaidd) Adroddiad i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 14[eg] Ionawr 2021: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Coord%20agenda%20pack%20200121%20FINAL%20Welsh.%20v2pdf.pdf ac Adroddiad i'r Cabinet 16[eg] Mawrth 2021: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Socio%20Economic%20Duty%20(Cymraeg).pdf

(Ffosffadau) Adroddiad i'r Cabinet 13[eg] Gorffennaf 2021 a Chofnodion y Cyfarfod: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=148&MId=170&Ver=4&LLL=0
Adroddiad i'r Cyngor 23[ain] Medi 2021: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=161&Ver=4&LLL=0

Adroddiad (Tai/Effeithlonrwydd Ynni) i'r Cyngor 20[fed] Rhagfyr 2020:

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/C%20-%20Effeithlonrwydd%20ynni.pdf

**Atodiadau:**

Atodiad 1 Rhan 1 Drafft y Cyfansoddiad

Atodiad 2 Detholiad o Erthyglau Rhan 2 Drafft ar gyfer mewnosodiad Mai 2022

Atodiad 3 Erthyglau Rhan 2 Drafft

Atodiad 4 Rhan 3 Drafft

Atodiad 5 Detholiad o Ran 3 Drafft ar gyfer mewnosodiad Mai 2022

Atodiad 6 Rhan 4 Dogfen B Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth

Atodiad 7 Detholiad o Ran 4F Drafft Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Ariannol sy'n cyd-fynd

Atodiad 8 Rhan 7 Drafft Fforymau Ymgynghorol a Chynghorol

Atodiad 9 Rhan 3.5G Drafft Dirprwyaethau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Atodiad 10 Rhan 3.5J Drafft Dirprwyaethau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal Ymyrraeth wedi'i Thargedu

Atodiad 11 Detholiad Drafft o Ran 4 Dogfen B Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth

Atodiad 12 Detholiad o'r Weithdrefn Galw i Mewn Drafft – Rhan 4 Dogfen E Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu

Atodiad 13 Rheolau Drafft Gweithdrefn Cabinet

Atodiad 14 Detholiad o'r Pleidleisio Drafft - Rhan 4 Dogfen E Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu

Atodiad 15 Rhan 3.5H Drafft Dirprwyiaethau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio

Atodiad 16 Rhan 3.5M Drafft Dirprwyiaethau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid

Atodiad 17 Detholiad Drafft o Ran 3.5 L Dirprwyaethau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael

Atodiad 18 Detholiad Drafft o Ran 5 L Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Elin Prysor-Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) |
| **Swyddog Adrodd:** | Elin Prysor |
| **Dyddiad:** | 11 Awst 2021 |

**Atodiad 1**

# RHAN 1
# CRYNODEB AC ESBONIAD

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | CYFANSODDIAD Y CYNGOR | 2 |
| 2. | BETH SYDD YN Y CYFANSODDIAD? | 2 |
| 3 | SUT MAE'R CYNGOR YN GWEITHREDU? | 5 |
| 4. | SUT MAE PENDERFYNIADAU'N CAEL EU GWNEUD | 5 |
| 5 | TROSOLWG A CHRAFFU | 7 |
| 6 | PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO A PHWYLLGORAU ERAILL | 7 |
| 7 | STAFF Y CYNGOR | 8 |
| 8 | HAWLIAU'R DINASYDDION | 8 |
| 9. | RHESTR TERMAU | 10 |

## 1. CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Mae **Cyngor Sir Ceredigion** wedi cytuno ar gyfansoddiad sy'n disgrifio sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rheiny'n effeithiol, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hynny'n ofynnol o dan y ddeddf, ac mae eraill yn faterion i'r Cyngor eu dewis.

Mae'r Cyfansoddiad wedi ei rannu'n 15 o Erthyglau (rhan 2) sy'n cyflwyno'r rheolau sylfaenol sy'n llywio busnes y Cyngor. Mae gweithdrefnau a chodau arferion mwy manwl i'w cael mewn rheolau a phrotocolau ar wahân ar ddiwedd y ddogfen.

## 2. BETH SYDD YN Y CYFANSODDIAD?

Rhan 2: Yr Erthyglau

Mae Erthygl 1 (Rhan 2) y Cyfansoddiad yn rhwymo'r Cyngor i wneud trefniadau effeithiol i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau. Mae Erthyglau 2 – 15 yn egluro hawliau'r dinasyddion a sut mae'r rhannau allweddol o'r Cyngor yn gweithredu. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Aelodau'r Cyngor (Erthygl 2)
- Dinasyddion a'r Cyngor (Erthygl 3)
- Cyfarfod y Cyngor (Erthygl 4)
- Cadeirio'r Cyngor (Erthygl 5)
- Trosolwg a Chraffu ar benderfyniadau (Erthygl 6)
- Y Cabinet (Erthygl 7)
- Pwyllgorau Rheoleiddio (Erthygl 8)
- Y Pwyllgor Moeseg a Safonau (Erthygl 9)
- Trefniadau ar y cyd (Erthygl 10)
- Swyddogion (Erthygl 11)
- Gwneud penderfyniadau (Erthygl 12)
- Cyllid, contractau a materion cyfreithiol (Erthygl 13)
- Adolygu a diwygio'r Cyfansoddiad (Erthygl 14)
- Atal, dehongli a chyhoeddi'r Cyfansoddiad (Erthygl 15).

Rhan 3: Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cyngor

Mae Rhan 3 yn ymwneud â chyfrifoldeb am wahanol Swyddogaethau'r Cyngor h.y. pwy sy'n gwneud beth. Mae'r adran hon yn cynnwys 4 tabl manwl, sy'n nodi:

- (Rhan 3.1) Y Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cyngor - Tabl 1;
- (Rhan 3.2) - Y Cyfrifoldeb am Swyddogaethau Dewis Lleol - Tabl 2;
- (Rhan 3.3) Pwyllgorau'r Cyngor - Tabl 3; a
- (Rhan 3.4) Y Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cabinet - Tabl 4

Yn Rhan 3.5 mae'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion wedi'i nodi (Dirprwyaethau A-N - i'w dehongli'n eang) Mae'r cynllun yn dirprwyo rhai o swyddogaethau'r Cyngor a'r Cabinet i swyddogion ac yn nodi'r amodau ar gyfer unrhyw benderfyniadau a wneir trwy ddefnyddio'r dirprwyaethau, gydag Amodau Cyffredinol Dirprwyo i Swyddogion wedi'u nodi yn Nirprwyaeth A, i'w darllen ar y cyd â Rhan 3.1.

Rhan 4: Rheolau Gweithdrefn

Mae Rhan 4 y Cyfansoddiad yn manylu ar reolau sy'n ymwneud â gwahanol weithdrefnau'r Cyngor, sy'n ymwneud â thrafodion y Cyngor, ei strwythur a'i benderfyniadau. Mae angen y rhain er eglurder, tryloywder, cadw at ddeddfwriaeth ac i sicrhau bod y Cyngor yn rhedeg yn ddidrafferth, ac maent yn cynnwys:

- (Dogfen A) – Rheolau Gweithdrefn y Cyngor
- (Dogfen B) – Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth
- (Dogfen C) – Rheolau Gweithdrefn Cyllideb a'r Fframwaith Polisi
- (Dogfen D) – Rheolau Gweithdrefn y Cabinet
- (Dogfen E) Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu
- (Dogfen F) Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Ariannol cysylltiedig
- (Dogfen G) Rheolau Gweithdrefn Contractau
- (Dogfen H) Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion

  (Dogfen I) Aelodau o'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu – Gweithdrefnau gweithredol

Rhan 5: Codau a Phrotocolau

Mae Rhan 5 yn cynnwys codau ymddygiad y Cyngor, sydd gyda'i gilydd yn creu fframwaith moesegol gyda safonau ymddygiad y disgwylir cadw

atynt. Mae Rhan 5 hefyd yn nodi Protocolau'r Cyngor, sy'n system/gweithdrefn o reolau i'w dilyn mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'r gwahanol Godau a Phrotocolau yn yr adran hon yn cynnwys:

- (Dogfen J) Côd Ymddygiad yr Aelodau;
- (Dogfen K) Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion;
- (Dogfen L) Côd Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol;
- (Dogfen M) Protocol Trosolwg a Chraffu;
- (Dogfen M2) Protocol ar gyfer rhoi hawl i Aelodau'r Cabinet fynychu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu;
- (Dogfen N) Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu;
- (Dogfen O) Protocol Deisebau; a
- (Dogfen P) Protocol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

<u>Rhan 6: Strwythur Rheoli</u>

Mae Rhan 6 (Strwythur Rheoli) yn ddogfen sengl, Siart Sefydliadol y Cyngor. Mae'n gymorth gweledol defnyddiol sy'n dangos Prif Weithredwr y Cyngor, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, gan gynnwys eu Rolau Statudol a'u prif feysydd cyfrifoldeb.

<u>Rhan 7: Fforymau Ymgynghorol a Chynghorol</u>

Mae Rhan 7 yn manylu ar y fforymau ymgynghorol a chynghorol (statudol ac anstatudol) a sefydlwyd, y Grwpiau Datblygu/Monitro Polisi Mewnol, y Partneriaethau yn Sir Ceredigion, Partneriaethau Rhanbarthol/Fforymau/Consortia/Cyd-bwyllgorau a Hyrwyddwyr Aelodau.

## 3. SUT MAE'R CYNGOR YN GWEITHREDU

Mae'r Cyngor yn cynnwys 42 o gynghorwyr a gaiff eu hethol bob pum mlynedd. Mae'r Cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hadrannau etholiadol. Mae prif ddyletswydd y Cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai

hynny na wnaeth bleidleisio drostynt.

Mae’n rhaid i’r Cynghorwyr gytuno i ddilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau er mwyn sicrhau safonau uchel yn y modd y cyflawnant eu dyletswyddau. Mae’r Pwyllgor Moeseg a Safonau’n eu hyfforddi ac yn eu cynghori ynglŷn â’r Cod Ymddygiad.

Mae’r Cynghorwyr i gyd yn cyfarfod fel y Cyngor. Mae cyfarfodydd y Cyngor ar agor i’r cyhoedd. Yn y cyfarfodydd hynny mae’r Cynghorwyr yn penderfynu ynghylch polisïau cyffredinol y Cyngor ac yn gosod y gyllideb bob blwyddyn. Mae’r Cyngor yn gyfrifol am ethol yr Arweinydd, mae’n nodi penodiad Aelodau’r Cabinet gan yr Arweinydd ac mae’n penodi Aelodau i Bwyllgorau.

Mae Cod Llywodraethu Da'r Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor.

## 4. SUT MAE PENDERFYNIADAU’N CAEL EU GWNEUD

Y Cabinet yw’r rhan o’r Cyngor sy’n gyfrifol am wneud y rhan fwyaf o’r penderfyniadau gweithredol beunyddiol. Mae’r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac o leiaf chwech, ond nid mwy na naw o Gynghorwyr eraill y mae ef/hi yn eu penodi.

Cyhoeddir y busnes sydd i’w ystyried gan y Cabinet, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a’r Cyngor llawn yn y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. Mae cyfarfodydd y Cabinet, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, y Cyngor a Phwyllgorau eraill yn agored i’r cyhoedd ac eithrio lle bo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod, fel y diffinnir gan y ddeddf.

Mae’n rhaid i’r Cabinet wneud penderfyniadau sydd yn unol â pholisïau cyffredinol a chyllideb y Cyngor. Os dymuna wneud penderfyniad sydd y tu hwnt i’r gyllideb neu’r fframwaith polisi, bydd yn rhaid cyfeirio hynny at y Cyngor llawn i’w benderfynu.

Mae gan y Cyngor hefyd weithdrefn galw i mewn, lle caiff penderfyniad a wneir gan y Cabinet, aelod unigol o'r Cabinet neu Bwyllgor o'r Cabinet neu o dan drefniadau ar y cyd, ei gyfeirio gan yr Aelodau at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol mewn rhai amgylchiadau (gweler y Weithdrefn Galw i Mewn yn Rhan 4 Dogfen E'r Cyfansoddiad).

Wrth wneud penderfyniadau a gosod polisïau a strategaethau, bydd y Cyngor yn ystyried egwyddorion ac amcanion **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015**, ac yn benodol:

y pum ffordd o weithio:

hirdymor, atal, cydweithio, integreiddio a chynnwys.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y saith nod llesiant:

Cymru lewyrchus, Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy’n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu.

Wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i ddefnyddio ei swyddogaethau, bydd y Cyngor yn rhoi sylw dyledus i ba mor ddymunol yw eu defnyddio mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Wrth wneud penderfyniadau, bydd y Cyngor hefyd yn rhoi sylw dyledus i'w Bolisi Atal Caethwasiaeth a'i Ddatganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth, a lofnodir gan Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol y Cyngor, a gymeradwywyd gan y Cyngor ac a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor (www.ceredigion.gov.uk). Mae'r Polisi Atal Caethwasiaeth yn cynnwys 12 o ymrwymiadau Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac mae'n cyfeirio at brosesau a chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Mae gan Swyddog Monitro'r awdurdod i wneud newidiadau i'r Cyfansoddiad sydd eu hangen i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth (y gyfraith) a mân faterion.

Mae gan y Cyngor Weithgor Trawsbleidiol sefydledig ar gyfer y Cyfansoddiad hefyd, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod newidiadau i'r Cyfansoddiad ac yn gwneud cynigion i'r Cyngor ynghylch y newidiadau hyn. Bydd y Swyddog Monitro yn cadarnhau unrhyw fân newidiadau a wneir i'r Cyfansoddiad i Weithgor Trawsbleidiol y Cyfansoddiad (gweler hefyd Erthygl 14 – Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad a Rhan 7).

Mae rhai penderfyniadau, sy'n ffurfio rhannau o'r Cyfansoddiad, megis Cyfrifoldeb Swyddogaethau'r Cabinet (h.y. pa aelodau o'r Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet, swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n gyfrifol am ddefnyddio swyddogaeth benodol y Cabinet) yn cael eu cymeradwyo gan yr Arweinydd a’u cofnodi wedi hynny yn y Cyfansoddiad heb fod angen cyfeirio at Gyfarfod Cyngor i'w cymeradwyo.

## 5. TROSOLWG A CHRAFFU

Mae un Pwyllgor Cydlynu a phedwar o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, sef pump i gyd, sy'n cynorthwyo gwaith y Cabinet a'r Cyngor yn gyffredinol. Maent yn ystyried materion sydd o bwys lleol. Mae eu cylch gwaith yn cynnwys craffu ar y gyllideb ac ar bolisïau a darpariaeth y gwasanaethau ac mae hynny'n gallu arwain at adroddiadau ac argymhellion ar gyfer y Cabinet a'r Cyngor. Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd yn monitro penderfyniadau'r Cabinet. Gallant alw penderfyniadau'r Cabinet i mewn os yw'r penderfyniadau heb eu gweithredu eto. Mae hynny'n eu galluogi hwy i ystyried a yw'r penderfyniad yn briodol ai peidio. Gallant argymell bod y Cabinet yn ailystyried penderfyniad. Hefyd gall y Cabinet neu'r Cyngor ymgynghori â hwy ynglŷn â phenderfyniadau sydd ar fin cael eu gwneud ac ynglŷn â datblygu polisïau. Rhaid iddynt hefyd arfer eu pwerau a'u cyfrifoldebau o ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 6. PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO A PHWYLLGORAU ERAILL

Mae dau o 'Bwyllgorau Rheoleiddio' sef:

- y Pwyllgor Rheoli Datblygu sy'n penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio ac sy'n nodi gwybodaeth ynghylch penderfyniadau cynllunio a'r
- Pwyllgor Trwyddedu sy'n penderfynu ynghylch ceisiadau sy'n ymwneud â thrwyddedau, tacsis a sefydliadau rhyw ynghyd ag adnewyddiadau ac adolygiadau.

Ceir hefyd:

- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n cynnig ffocws corfforaethol ynghylch y materion sy'n codi o ran llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac adrodd mewnol. Mae'r Cylch Gorchwyl i'w weld yn Rhan 3.3, Tabl 3.
- Pwyllgor Moeseg a Safonau sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad, safonau a gollyngiadau ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

## 7. STAFF Y CYNGOR

Mae gan y Cyngor swyddogion sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Cyflogedig i roi cyngor, gweithredu penderfyniadau a rheoli darpariaeth ei wasanaethau'n feunyddiol. Caiff y Gwasanaeth Cyflogedig ei arwain y Prif Weithredwr (a elwid gynt yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig). Mae gan rai swyddogion ddyletswyddau (statudol) penodol i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu unol â'r ddeddf ac yn defnyddio ei adnoddau'n ddoeth. Mae protocol ar gyfer y berthynas rhwng aelodau a swyddogion yn rheoli'r berthynas rhwng y swyddogion ac Aelodau'r Cyngor.

## 8. HAWLIAU'R DINASYDDION

Mae gan ddinasyddion nifer o hawliau wrth ymdrin â'r Cyngor. Cyflwynir y rhain yn fanylach yn Erthygl 3 (Rhan 2). Mae rhai o'r rheiny'n hawliau cyfreithiol, ac mae eraill yn dibynnu ar brosesau'r Cyngor ei hun. Gall amrywiol asiantaethau cynghori lleol a chwmnïau cyfreithiol lleol roi cyngor ynglŷn â hawliau cyfreithiol unigolion.

Lle bo aelodau'r cyhoedd yn defnyddio un o wasanaethau penodol y Cyngor, er enghraifft, rhiant â disgybl yn yr ysgol neu un o denantiaid y Cyngor, mae ganddynt hawliau ychwanegol. Nid yw'r rheiny wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad hwn.

Dyma hawliau'r dinasyddion:

8.1 pleidleisio mewn etholiadau lleol os ydynt wedi eu cofrestru;

8.2 cysylltu â'r Cynghorydd lleol ynglŷn â materion sy'n eu pryderu;

8.3 cael mynediad at y Cyfansoddiad sydd wedi'i gyhoeddi, yn unol ag Erthygl 15, paragraff 15.3.2;

8.4 mynychu cyfarfodydd y Cabinet, y Cyngor a'i Bwyllgorau ac eithrio lle bo materion personol neu gyfrinachol neu faterion eithriedig yn cael eu trafod;

8.5 deisebu i ofyn am refferendwm ynghylch sefydlu Cabinet gyda maer;

8.6 cael gwybod pa fusnes sydd i gael ei ystyried gan y Cabinet, y Cyngor a'i Bwyllgorau a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu neu'r Cyngor;

8.7 gweld yr adroddiadau a'r papurau cefndir y bydd y Cabinet, y Cyngor a'i Bwyllgorau'n eu hystyried a'r cofnod o unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cabinet, y Cyngor a'i Bwyllgorau,

ac eithrio lle maent yn cynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol a bydd copïau ar gael ar gyfer aelodau o'r cyhoedd am gost resymol;

8.8 cwyno wrth y Cyngor am y modd y mae'r Cyngor yn delio ag unrhyw fater drwy'r Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol sydd ar gael i bawb yn swyddfeydd y Cyngor ac os gofynnir amdani.

8.9 cwyno wrth yr Ombwdsmon os credant eu bod wedi cael cam oherwydd nad yw'r Cyngor wedi dilyn ei weithdrefnau'n briodol. Fodd bynnag, fe'u hanogir i beidio â gwneud hyn hyd nes y byddant wedi defnyddio gweithdrefn gwyno'r Cyngor ei hun yn gyntaf;

8.10 cwyno wrth yr Ombwdsmon os oes ganddynt dystiolaeth y credant sy'n dangos nad yw Cynghorydd neu Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor wedi dilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau; ac

8.11 archwilio cyfrifon y Cyngor a mynegi eu barn wrth yr archwilydd allanol.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymgynghori â'r canlynol (o bryd i'w gilydd ac o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol) ynghylch i ba raddau y mae'n cwrdd â'i ofynion perfformiad:

- Pobl leol,
- Pobl eraill sy'n cynnal busnes yn ardal y Cyngor,
- Saff y Cyngor, a
- Phob undeb llafur sy'n cael ei gydnabod (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52)) gan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfranogiad gan ei ddinasyddion yn ei waith. Pe hoffech wybodaeth bellach am eich hawliau fel dinesydd, cysylltwch â Swyddog Priodol y Cyngor yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA.

Mae Datganiad o hawliau aelodau'r cyhoedd i weld agendâu ac adroddiadau

ar gael gan Swyddog Priodol y Cyngor.

## 9. Rhestr Termau Gwasanaeth

Mae rhestr o dermau defnyddiol a ddefnyddir yn y Cyfansoddiad wedi'i chynnwys isod:

| **Term yn y Cyfansoddiad** | **Ystyr** |
|---|---|
| CONTEST | Strategaeth uno'r DU ar gyfer Rhwystro Terfysgaeth gyda phedair elfen:<br><br>1. Atal: atal pobl rhag dod yn derfysgwyr/cefnogi terfysgaeth;<br>2. Hela: atal ymosodiadau terfysgol;<br>3. Amddiffyn: cryfhau'r amddiffyniad yn erbyn ymosodiad terfysgol; a<br>4. Paratoi: lliniaru effaith ymosodiad terfysgol. |
| Bwrdd CONTEST Ceredigion | Bwrdd CONTEST amlasiantaethol, sy'n ystyried gofynion a goblygiadau lleol sy'n ymwneud â'r 4 elfen, ond sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymateb lleol i'r gofyniad Atal. Mae'r Bwrdd CONTEST hefyd yn cael adroddiadau gan Banel Channel. |
| Channel | Swyddogaeth statudol awdurdod lleol o dan Adran 36 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi cefnogaeth i bobl sy'n agored i gael eu tynnu i derfysgaeth. |

| | |
|---|---|
| Panel Channel | Bwrdd partneriaeth amlasiantaethol strategol lleol sy'n goruchwylio gweithgarwch Channel. Mae Panel Channel yn adrodd wrth Fwrdd CONTEST Ceredigion (gweler uchod) a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (CYSUR). |
| Porth Cymorth Cynnar | Gwasanaeth Lles a Dysgu'r Cyngor, a elwid gynt yn Dysgu Gydol Oes, sy'n darparu gwasanaethau cymorth ac ymyrraeth, gwasanaethau ymddygiad, ieuenctid a chymorth cynnar. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rhoi cefnogaeth mewn dysgu gydol oes a sgiliau, hamdden a lles. |
| Gwasanaethau Gydol Oed Arbenigol Porth Cynnal | Gwasanaeth y Cyngor, a arferai gwmpasu Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion. Mae'r Gwasanaeth bellach yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer anghenion cymhleth a pharhaus. |
| Ymyrraeth wedi'i Thargedu Porth Gofal | Gwasanaeth y Cyngor, a elwid gynt yn Borth Ceredigion a, chyn hyn, Gwasanaethau Oedolion. Mae'r Gwasanaeth yn brysbennu, darparu ymyriadau wedi'u targedu, gwasanaethau tai a gwasanaethau uniongyrchol. |

**Atodiad 2**

# DETHOLIAD

# RHAN 2

# ERTHYGLAU’R CYFANSODDIAD

Diwygiadau arfaethedig i'w mewnosod yn y Cyfansoddiad ar 5 Mai 2022, i gydymffurfio â diwygiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a ddaw i rym o 5 Mai 2022

## ERTHYGL 9 – Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

### 9.1 Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU

….

#### 9.1.1 RÔL A SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau'r rolau a'r swyddogaethau canlynol:

…….

9.1.7.10 Monitro i ba raddau mae arweinyddion grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

9.1.7.11 Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinyddion grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau o dan Adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

9.1.7.12 Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, llunio adroddiad blynyddol i'r Cyngor mewn perthynas â'r flwyddyn honno yn ôl 56B Pennod 1 Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

### 9.2 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

…

9.2.1.8 Adolygu ac asesu Hunanasesiad blynyddol drafft y Cyngor, Asesiad Perfformiad y Panel ac ymateb drafft i unrhyw Adroddiad Archwilydd Cyffredinol; a

9.2.1.9 Cadw at drefniadau atebolrwydd, gan gynnwys adrodd ar drefniadau a pherfformiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor.

## 9.2.2 CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

### 9.2.2.1 Aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys:

**9.2.2.1.1** Cyfanswm aelodaeth o draean o ‘lleygwyr’. At ddibenion aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, diffinnir lleygwr fel person nad yw'n aelod na'n swyddog dim awdurdod lleol, nad yw wedi bod yn aelod neu'n swyddog i ddim awdurdod lleol ar ddim adeg yn y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n gorffen gyda dyddiad penodi'r person hwnnw, ac nad yw'n briod na'n bartner sifil i ddim aelod na swyddog mewn dim awdurdod lleol, fel y'i diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd) ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig; a

9.2.2.1.2 Mae'r aelodaeth sy'n weddill yn cynnwys Cynghorwyr Sir;

### 9.2.2.2 Cadeirio’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dewis ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd a:

9.2.2.2.1 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn lleygwr.

9.2.2.2.2 Ni fydd Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod o weithrediaeth y Cyngor nac yn gynorthwyydd i'w weithrediaeth.

9.2.2.2.3 Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor. Os yw'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd dywededig yn absennol, caiff y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio benodi aelod o'r Pwyllgor nad yw'n aelod o weithrediaeth y Cyngor, nac yn gynorthwyydd i'w weithrediaeth, i gadeirio'r cyfarfod.

**…**

…

**ERTHYGL 10 – CYD-DREFNIADAU**

**10.1 TREFNIADAU I HYBU LLES**

Caiff y Cyngor neu'r Cabinet wneud fel a ganlyn, er mwyn hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal:

10.1.1 gwneud trefniadau neu gytundebau gydag unrhyw un neu unrhyw gorff;

10.1.2 cydweithredu gydag unrhyw un neu unrhyw gorff, neu hwyluso neu gydlynu eu gweithgareddau; a

10.1.3 arfer ar ran y person neu'r corff hwnnw unrhyw rai o swyddogaethau'r person neu'r corff hwnnw.

**10.2 CYD-DREFNIADAU**

10.2.1 Caiff y Cyngor sefydlu cyd-drefniadau gydag un neu fwy o awdurdodau lleol ac/neu Fyrddau Iechyd ac/neu eu Gweithrediaethau i arfer swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau Gweithrediaeth mewn unrhyw rai o'r awdurdodau cyfranogol, neu i gynghori'r Cyngor. Caiff trefniadau o'r fath gynnwys penodi Cyd-bwyllgorau, neu Fyrddau Partneriaeth Iechyd Rhanbarthol gyda'r awdurdodau lleol a/neu'r Byrddau Iechyd hyn.

10.2.2 Caiff y Cabinet sefydlu cyd-drefniadau gydag un neu ragor o awdurdodau lleol i arfer swyddogaethau sy'n swyddogaethau Gweithrediaeth. Caiff trefniadau o'r fath gynnwys penodi Cyd-Bwyllgorau neu Fyrddau Partneriaeth Iechyd Rhanbarthol gyda'r awdurdodau lleol ac/neu'r Byrddau Iechyd eraill hyn.

10.2.3 Ac eithrio'r hyn a nodir isod, ni all y Cabinet ond penodi aelodau Cabinet i Gydbwyllgor ac nid oes raid i'r aelodau hynny adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor lleol yn ei gyfanrwydd.

10.2.4 Caiff y Cabinet benodi aelodau i Gydbwyllgor o'r tu allan i'r Cabinet lle bo gan y Cydbwyllgor swyddogaethau dros ran yn unig o ardal y Cyngor, ac mae'r ardal honno'n llai na dwy ran o bump o'r Cyngor o ran arwynebedd neu boblogaeth. Mewn achosion o'r fath, caiff y Cabinet benodi i'r Cyd-Bwyllgor unrhyw Gynghorydd sy'n aelod dros adran etholiadol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn yr ardal. Nid yw'r gofynion sydd ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i benodiadau o'r fath.

10.2.5 Mae manylion unrhyw gyd-drefniadau gan gynnwys unrhyw ddirprwyaethau i Gydbwyllgorau i'w cael yng nghynllun dirprwyaethau'r Cyngor yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn (ac Adran 4 Rhan 7 y Cyfansoddiad hwn mewn perthynas â Chyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru).

**ERTHYGL 11– SWYDDOGION….**

**11.3.12 Cyfyngiadau ar swyddogaethau.** Ni chaiff Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro nac yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ond caiff ddal swydd y Prif Swyddog Cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig. Ni chaiff y Prif Swyddog Cyllid fod yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**ERTHYGL 15 – ATAL, DEHONGLI A CHYHOEDDI’R CYFANSODDIAD**

**….**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Cadeirydd Y sawl a etholir yn Gadeirydd y Pwyllgor neu a benodir fel Cadeirydd is-bwyllgor neu yn ei absenoldeb Is-gadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y cyfryw bwyllgor neu is-bwyllgor lle mae un wedi ei ethol neu ei benodi neu’r sawl sy’n llywyddu yn y cyfarfod o’r pwyllgor neu’r is-bwyllgor |

**Atodiad 3**

# RHAN 2

# ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

# Cynnwys

ERTHYGL 1 – Y CYFANSODDIAD ........ 3
ERTHYGL 2– AELODAU'R CYNGOR ........ 4
ERTHYGL 3 – DINASYDDION A'R CYNGOR ........ 7
ERTHYGL 4 – Y CYNGOR LLAWN ........ 9
ERTHYGL 5 – CADEIRIO'R CYNGOR ........ 13
ERTHYGL 6 – PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU ........ 14
ERTHYGL 7 – Y CABINET ........ 18
ERTHYGL 8 – PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO ........ 20
ERTHYGL 9 – Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO ........ 22
ERTHYGL 10 – CYD-DREFNIADAU ........ 25
ERTHYGL 11– SWYDDOGION ........ 31
ERTHYGL 12 – GWNEUD PENDERFYNIADAU ........ 54
ERTHYGL 13 – CYLLID, CONTRACTAU A MATERION CYFREITHIOL ........ 56
ERTHYGL 14 – ADOLYGU A DIWYGIO'R CYFANSODDIAD ........ 57
ERTHYGL 15 – ATAL, DEHONGLI A CHYHOEDDI'R CYFANSODDIAD ........ 59

## ERTHYGL 1 – Y CYFANSODDIAD

### 1.1 PWERAU'R CYNGOR

Bydd y Cyngor yn arfer ei holl bwerau a'i ddyletswyddau yn unol â'r ddeddf a'r Cyfansoddiad hwn.

### 1.2 Y CYFANSODDIAD

Y Cyfansoddiad hwn, a'i holl atodiadau, yw Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion.

### 1.3 PWRPAS Y CYFANSODDIAD

Pwrpas y Cyfansoddiad yw:

1.3.1 galluogi'r Cyngor i roi arweiniad clir i'r gymuned mewn partneriaeth gyda dinasyddion, busnesau a chyrff eraill;

1.3.2 cynnig fframwaith ar gyfer llywodraethu da;

1.3.3 mynd ati i annog y dinasyddion i gymryd rhan yn y broses o lunio penderfyniadau'r awdurdod lleol;

1.3.4 cynorthwyo'r Cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;

1.3.5 ei gwneud hi'n bosibl i benderfyniadau gael eu gwneud yn effeithiol ac yn effeithlon;

1.3.6 creu dull pwerus ac effeithiol o sicrhau bod y cyhoedd yn gallu dwyn y rhai sy'n llunio penderfyniadau i gyfrif;

1.3.7 sicrhau na fydd neb yn adolygu nac yn craffu ar benderfyniad y bu ganddo gysylltiad uniongyrchol ag ef;

1.3.8 sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am lunio penderfyniadau'n hawdd eu hadnabod gan bobl leol a'u bod yn egluro'r rhesymau dros benderfyniadau; a

1.3.9 chynnig dull o wella'r modd y cyflwynir gwasanaethau i'r gymuned.

### 1.4 DEHONGLI AC ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Lle bo'r Cyfansoddiad yn caniatáu i'r Cyngor ddewis rhwng gwahanol ddulliau o weithredu, bydd y Cyngor bob amser yn dewis yr un a dybia sydd agosaf at y pwrpasau uchod.

Bydd y Cyngor yn monitro ac yn cloriannu'r modd y gweithredir y Cyfansoddiad fel y nodir yn Erthygl 14.

## ERTHYGL 2– AELODAU'R CYNGOR

### 2.1 AELODAETH A CHYMHWYSEDD

2.1.1 Aelodaeth

Bydd y Cyngor yn cynnwys 42 o aelodau, a elwir hefyd yn Gynghorwyr, a gaiff eu hethol gan etholwyr pob adran etholiadol yn unol â chynllun a luniwyd gan y Comisiwn Ffiniau yng Nghymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

2.1.2 Cymhwysedd

Dim ond pleidleiswyr cofrestredig y Cyngor Sir neu'r rhai hynny sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal honno a fydd yn gymwys i ddal swydd Cynghorydd (yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972).

### 2.2 ETHOLIADAU CYNGHORWYR A'U CYFNODAU

Fel rheol cynhelir etholiadau arferol y Cynghorwyr ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai unwaith bob pum mlynedd. Bydd cyfnod y Cynghorydd yn y swydd yn dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad a bydd yn diweddu ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad arferol nesaf.

### 2.3 ROLAU A SWYDDOGAETHAU POB CYNGHORYDD

2.3.1 **Rolau allweddol. Bydd pob Cynghorydd yn gwneud y canlynol:**

2.3.1.1 llunio polisi terfynol ar y cyd a chyflawni nifer o swyddogaethau rheoli strategol a chorfforaethol;

2.3.1.2 cynrychioli eu cymunedau a dwyn eu safbwyntiau eu hunain i mewn i broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor, h.y. eiriol dros eu cymunedau ac ar ran eu cymunedau;

2.3.1.3 ymdrin â gwaith achos unigol ac eiriol dros etholwyr wrth ddatrys pryderon neu gwynion neilltuol;

2.3.1.4 cydbwyso'r gwahanol fuddiannau a welir o fewn yr adran etholiadol a chynrychioli'r adran etholiadol gyfan;

2.3.1.5 cyfrannu at wella gwasanaethau'r Cyngor yn barhaus;
2.3.1.6 ymwneud â'r broses o lunio penderfyniadau;
2.3.1.7 bod ar gael i gynrychioli'r Cyngor ar gyrff eraill; ac
2.3.1.8 cynnal y safonau uchaf o ymddygiad a moeseg.

2.3.2 **Hawliau a dyletswyddau**

2.3.2.1 Bydd gan Gynghorwyr ba hawliau mynediad bynnag at ddogfennau, at wybodaeth, at dir ac at adeiladau'r Cyngor ag y bo'n angenrheidiol iddynt gyflawni eu swyddogaethau'n briodol ac yn unol â'r gyfraith a'r Cyfansoddiad hwn.
2.3.2.2 Ni fydd y Cynghorwyr yn gwneud gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n eithriedig yn gyhoeddus heb ganiatâd y Cyngor nac yn datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol i neb heblaw am Gynghorydd neu swyddog y mae ganddo hawl i'w gwybod.
2.3.2.3 I'r dibenion hyn, diffinnir gwybodaeth "gyfrinachol" ac "eithriedig" yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.
2.3.2.4 Mae hawl gan Gynghorwyr wasanaethu ar Gyrff Llywodraethu Ysgolion.

**2.4 YMDDYGIAD**

Bydd y Cynghorwyr ar bob adeg yn dilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau a'r Protocol ynglŷn â'r Cysylltiadau rhwng Aelodau/Swyddogion a gyflwynir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

Os ystyrir rhoi indemniad i aelod unigol, sy'n wynebu achos o gamymddygiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'r Cyngor wedi penderfynu cyflwyno cap o £20,000 ar lefel yr indemniad a roddir i'r aelodau.

**2.5 CYFLOGAU**

Bydd gan Gynghorwyr hawl i gael cyflogau'n unol â'r Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau sydd ar gael ar wefan y Cyngor http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/lwfansau-aelodau/

Paratoir y Rhestr bob blwyddyn, drwy arfer y pwerau a roddir gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013. Ystyrir hefyd Reoliadau'r Panel Adolygu Annibynnol a'r penderfyniadau perthnasol.

## ERTHYGL 3 – DINASYDDION A'R CYNGOR

### 3.1 HAWLIAU DINASYDDION

Mae gan ddinasyddion yr hawliau canlynol. Eglurir eu hawliau i wybodaeth ac i gyfranogi yn fanylach yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn:

3.1.1 **Pleidleisio a deisebau** Mae gan y dinasyddion hynny sydd ar gofrestr etholiadol yr ardal hawl i lofnodi deiseb i ofyn am refferendwm am Gabinet gyda maer etholedig a'r hawl i bleidleisio yn y refferendwm dan sylw.

3.1.2 **Gwybodaeth** Mae gan y dinasyddion hawliau fel a ganlyn:

3.1.2.1 mynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'i Bwyllgorau ac eithrio lle mae gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn debygol o gael ei datgelu, a bod y cyfarfod felly yn cael ei gynnal yn breifat;

3.1.2.2 darganfod o'r rhaglen waith i'r dyfodol pa benderfyniadau y mae'r Cabinet neu'r Cyngor am eu gwneud a pha faterion y bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn eu hystyried, a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod;

3.1.2.3 gweld adroddiadau a phapurau cefndir, ac unrhyw gofnodion o'r penderfyniadau a wneir gan y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau oni fyddant wedi eu heithrio rhag cael eu trafod am unrhyw reswm cyfreithiol; ac

3.1.2.4 gweld cyfrifon y Cyngor a mynegi barn i'r archwilydd allanol.

3.1.3 **Cwynion** Mae gan ddinasyddion yr hawl i gwyno:

3.1.3.1 wrth y Cyngor ei hun o dan ei Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol

3.1.3.2 wrth yr Ombwdsmon os ydynt yn teimlo iddynt gael cam o ganlyniad i gamweinyddu, ond fe'u hanogir i ddefnyddio Gweithdrefn Gwyno'r Cyngor ei hun yn gyntaf;

3.1.3.3 wrth yr Ombwdsmon os credant fod Aelod neu Aelod Cyfetholedig o’r Cyngor wedi torri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

3.1.3.4 wrth Swyddog Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol lle bo’n briodol.

3.1.4 **Yr Iaith Gymraeg**

Yn unol â Safonau’r Gymraeg a osodwyd ar y Cyngor, bydd gan ddinasyddion yr hawl i dderbyn gwasanaethau’r Cyngor i’r un safon yn y Gymraeg a’r Saesneg.

3.1.5 **Hawliau’r Plentyn**

3.1.5.1 Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (“y Confensiwn”) wrth arfer ei swyddogaethau. Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn ystyried sut y bydd unrhyw benderfyniad y bydd yn ei wneud yn ymwneud â'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn.

3.1.5.2 Caiff pob plentyn ei gefnogi a’i annog i ddysgu’r Gymraeg gan ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, os yw'r rhain yn cael eu rhannu gan y mwyafrif o'r bobl yn y wlad neu beidio.

## 3.2 CYFRIFOLDEBAU’R DINASYDDION

Mae’n rhaid i’r dinasyddion beidio â bod yn dreisgar, na bod yn ddifrïol nac yn fygythiol tuag at Gynghorwyr na swyddogion ac mae’n rhaid iddynt beidio â pheri difrod bwriadol i bethau sy’n eiddo i’r Cyngor, y Cynghorwyr na’r swyddogion.

## ERTHYGL 4 – Y CYNGOR LLAWN

### 4.1 MAE’N OFYNNOL BOD Y CYNGOR YN MABWYSIADU’R CYNLLUNIAU A’R STRATEGAETHAU CANLYNOL:

4.1.1 O dan Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth yr Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (fel y’u diwygiwyd):

- Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion*
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol (Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol)
- Cynllun Datblygu Lleol
- Safonau’r Gymraeg
- Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid
- Strategaeth Dai
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

4.1.2 Bydd y Swyddog Monitro yn unol â’r Rhaglen Waith at y Dyfodol, yn argymell o dro i dro pa gynlluniau a strategaethau y dylai’r Cyngor eu mabwysiadu.

Y Cyngor fydd yn mabwysiadu’r polisïau statudol a’r polisïau sy’n ymwneud â swyddogaethau’r Cyngor. Y Cabinet fydd yn cymeradwyo’r polisïau eraill.
Mabwysiadir y Strategaethau gan y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i’r Polisïau a’r Strategaethau ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

### 4.2 STRATEGAETHAU A CHYNLLUNIAU PARTNERIAETH

Caiff Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion sydd wedi ei nodi â seren yn 4.1.1 uchod ei baratoi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y mae’r Cyngor yn bartner statudol arno.

### 4.3 Y GYLLIDEB

Mae’r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, sylfaen Treth y Cyngor, gosod

Treth y Cyngor a phenderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli gofynion y Cyngor parthed benthyca, rheoli gwariant cyfalaf a gosod terfynau ar drosglwyddo arian. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, y Rhaglen Gyfalaf a'r Gyllideb Refeniw.

**4.4 SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR LLAWN**

Dim ond y Cyngor sydd yn arfer y swyddogaethau canlynol:

4.4.1 mabwysiadu'r Cyfansoddiad a gwneud newidiadau sylweddol iddo. Y Swyddog Monitro fydd yn gwneud newidiadau i adlewyrchu materion deddfwriaethol a strwythurol ynghyd â mân faterion;

4.4.2 cymeradwyo neu fabwysiadu'r fframwaith polisi a'r gyllideb a gosod Treth y Cyngor;

4.4.3 yn amodol ar y Weithdrefn Frys yn 'Rheolau'r Weithdrefn Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad, penderfynu ynghylch unrhyw fater wrth gyflawni un o swyddogaethau'r Cabinet yr ymdrinnir â hi o dan y fframwaith polisi neu'r gyllideb lle mae'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad o blaid ei wneud mewn modd a fyddai'n groes i'r fframwaith polisi neu'n groes i'r gyllideb neu heb fod yn gwbl unol â'r gyllideb;

4.4.4 cytuno ar gylch gorchwyl y pwyllgorau neu'u newid, penderfynu ar eu haelodaeth a gwneud penodiadau iddynt;

4.4.5 penodi Arweinydd;

4.4.6 nodi penodi Aelodau'r Cabinet gan yr Arweinydd;

4.4.7 penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol onid yw'r penodiad yn un o swyddogaethau'r Cabinet neu mae wedi ei dirprwyo gan y Cyngor;

4.4.8 mabwysiadu Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau o dan Erthygl 2.5;

4.4.9 mabwysiadu neu adolygu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cyngor;

4.4.10 Pob swyddogaeth nad yw ymhlith swyddogaethau'r Cabinet a nodir yn Nhabl 1 Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn y penderfyna'r Cyngor y dylai ef ymgymryd â hwy yn hytrach na Phwyllgor, sef:

4.4.10.1 gwneud, diwygio, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau;

4.4.10.2 hybu neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu fesurau personol;

4.4.10.3 cymeradwyo datganiad cyfrifon y Cyngor, ei incwm a'i wariant a mantolen neu gofnod o'i dderbynebau a'i daliadau (fel bo'r achos);

4.4.10.4 gwneud rheolau sefydlog a rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chontractau;

4.4.10.5 ystyried adroddiadau anffafriol oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Lleol Cymru sy'n argymell iawndal dros £1,000 neu oddi wrth y Comisiynydd Plant, yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd y Gymraeg neu Archwilio Cymru;

4.4.10.6 swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd môr;

4.4.10.7 newid enw'r Sir;

4.4.10.8 newid enw cymuned;

4.4.10.9 rhoi teitl henadur anrhydeddus i rywun neu dderbyn rhywun yn rhyddfreiniwr anrhydeddus;

4.4.10.10 gwneud cais am siarter i roi statws Bwrdeistref Sirol;

4.4.10.11 penodi swyddog cofrestru etholiadol;

4.4.10.12 diddymu Cynghorau Cymuned;

4.4.10.13 gwneud gorchmynion i grwpio Cynghorau Cymuned a diddymu grwpiau a gwahanu Cynghorau Cymuned o grwpiau.

4.4.10.14 penodi swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol;

4.4.10.15 cyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol am orchymyn o dan adran 10 (cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000;

4.4.10.16 swyddogaethau sy'n gysylltiedig â phensiynau llywodraeth leol a chynllun pensiwn y dynion tân.

4.4.10.17 ystyried penderfyniadau'r Cabinet a alwyd i mewn, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu perthnasol, yn gyfyngedig i amgylchiadau'r Gweithdrefnau Galw i

Mewn (rhan 6)

4.4.11 penodi Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (Prif Weithredwr), Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol-;

4.4.12 penodi swyddogion statudol, gan gynnwys y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Addysg;

4.4.13 pennu lefel, ac unrhyw newid yn lefel, cydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion;

4.4.14 gweithredu'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud â dewis lleol a geir yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn y penderfyna'r Cyngor y dylai ef ei hun ymgymryd â hwy yn hytrach na'r Cabinet;

4.4.15 pob mater arall y mae'n rhaid eu cadw o fewn cyfrifoldeb y Cyngor.

## 4.5 CYFARFODYDD Y CYNGOR

Mae pedwar math o gyfarfod yn y Cyngor:

4.5.1 y Cyfarfod Blynyddol Cyntaf;

4.5.2 y Cyfarfod Blynyddol;

4.5.3 Cyfarfodydd Cyffredin.

4.5.4 Cyfarfodydd Arbennig.

a byddant yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor sydd yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

.

## 4.6 CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU

Bydd y Cyngor yn cadw at y tablau sydd yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn sy'n nodi'r cyfrifoldebau dros swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldebau i'r Cabinet.

Mae'r cynlluniau a'r strategaethau y mae'r Cyngor wedi eu mabwysiadu fel mater o ddewis lleol i'w gweld ar www.ceredigion.gov.uk a hafan CeriNet.

## ERTHYGL 5 – CADEIRIO'R CYNGOR

### 5.1 RÔL A SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y CYNGOR

Bydd gan Gadeirydd y Cyngor ac yn ei absenoldeb ef neu'i habsenoldeb hi, yr Is-gadeirydd, y rolau a'r swyddogaethau canlynol:
Caiff y Cadeirydd ei ethol gan y Cyngor yn flynyddol yn y cyfarfod blynyddol.
Bydd gan y Cadeirydd y cyfrifoldebau canlynol:

5.1.1 cynnal a hyrwyddo dibenion y Cyfansoddiad, a dehongli'r Cyfansoddiad lle bo hynny'n angenrheidiol;
5.1.2 llywyddu dros gyfarfodydd y Cyngor fel y gall ei waith gael ei gyflawni'n effeithiol gan roi ystyriaeth i hawliau'r Cynghorwyr a buddiannau'r gymuned;
5.1.3 sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm ar gyfer trafod materion sydd o bwys i'r gymuned leol ac yn lle y gall yr aelodau hynny nad ydynt ar y Cabinet ddwyn y Cabinet a chadeiryddion y Pwyllgorau i gyfrif;
5.1.4 annog y cyhoedd i ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor;
5.1.5 bod yn gydwybod i'r Cyngor; ac
5.1.6 bod yn bresennol ym mha ddigwyddiadau dinesig a seremonïol bynnag ag y penderfyna'r Cyngor ac ef/hi sy'n briodol.

### 5.2 CADEIRIO PWYLLGORAU

Ni chaiff Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor fod yn Gadeirydd nac yn Is-gadeirydd ar Bwyllgorau'r Cyngor yng nghyfnod eu swyddi.
Bydd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau'n dal eu swyddi am gyfnod o ddwy o flynyddoedd y Cyngor, a gallant ddal un swydd fel Cadeirydd ac un arall fel Is-gadeirydd yr un pryd, ac ni chânt sefyll i gael eu hail-ethol am y cyfnod dilynol ar gyfer y pwyllgor/y pwyllgorau perthnasol y maent yn eu cadeirio.

## ERTHYGL 6 – PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

### 6.1 CYLCH GORCHWYL

Bydd y Cyngor yn penodi’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a nodir yng ngholofn llaw chwith y tabl isod i gyflawni’r swyddogaethau a roddir gan Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 parthed y materion a nodir yng ngholofn llaw dde yr un tabl.

| Pwyllgor | Cwmpas |
|---|---|
| **Y Pwyllgor Cydlynu (10 aelod)** | Trawsnewid gwasanaethau, cydweithio, gweithio mewn partneriaeth.<br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion, y Strategaeth Gorfforaethol a’r Amcanion Llesiant<br>Diogelu, cyfathrebu, cydraddoldeb a materion sy’n ymwneud â throseddau ac anhrefn |
| **Adnoddau Corfforaethol (17 aelod)** | Gwasanaethau corfforaethol (gan gynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cwsmeriaid, TGCh, rheoli’r trysorlys a gwasanaethau cyfreithiol), Cynhwysiant/Cyfle Cyfartal, Argyfyngau Sifil Posibl, Parhad Busnes, Rheoli Ystadau a Chofrestru Sifil |
| **Cymunedau Iachach (17 aelod)** | Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Gofal Integredig, Gwasanaethau Tai, Cyfleusterau Hamdden, Iechyd yr Amgylchedd, Diogelu’r Cyhoedd a Thrwyddedu |
| **Cymunedau sy’n Dysgu (17 aelod)** | Dysgu Gydol Oes, Plant a Phobl Ifanc, Ysgolion, Hyfforddiant, Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Diwylliannol |
| **Cymunedau Ffyniannus (17 aelod)** | Datblygu Economaidd, Adfywio, Twristiaeth, Marchnata, Cymunedau Cryfach, Cymorth Grant Ewropeaidd, Cymorth Busnes, Rhaglen Gyfalaf, Trafnidiaeth a Seilwaith y Priffyrdd, Cynllunio Gwlad a Thref a Chynaliadwyedd.<br>Yr Arfordir a Chefn Gwlad a Gwastraff a Gwasanaethau Bwrdeistrefol eraill |

**6.2 RÔL GYFFREDINOL**

O fewn eu cwmpas a'u cylch gorchwyl, bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gwneud y canlynol:

6.2.1 adolygu a/neu graffu ar y penderfyniadau a wneir neu'r camau a gymerir parthed cyflawni swyddogaethau'r Cyngor;

6.2.2 cyflwyno adroddiadau ac/neu argymhellion gerbron y Cyngor llawn ac/neu'r Cabinet ac/neu unrhyw gydbwyllgor ynghylch cyflawni unrhyw swyddogaethau;

6.2.3 ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu'i thrigolion; ac

6.2.4 arfer yr hawl i alw i mewn, er mwyn ailystyried, unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd nad yw'r Cabinet wedi eu gweithredu eto.

6.2.5 ymestyn rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu i wneud y canlynol:

(a) adolygu'r penderfyniadau, neu i graffu ar y penderfyniadau, a wneir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ("y Bwrdd") wrth arfer ei swyddogaethau;

(b) adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd neu i graffu arnynt;

(c) cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;

(d) ystyried y materion hynny mewn perthynas â'r Bwrdd y caiff Gweinidogion Cymru eu cyfeirio ato, ac i adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny;

(e) ymgymryd â'r swyddogaethau eraill hynny mewn perthynas â'r Bwrdd a osodir arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(f) adrodd / gwneud argymhellion i'r fforymau priodol (gan gynnwys y Cabinet, y Bwrdd a'r is-grwpiau perthnasol).

**6.3 SWYDDOGAETHAU PENODOL**

6.3.1 **Datblygu ac adolygu polisïau** Gall y Pwyllgorau Trosolwg a

Chraffu wneud y canlynol:

6.3.1.1 cynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei gyllideb a'i fframwaith polisi drwy ddadansoddiad manwl o faterion polisi;
6.3.1.2 gwneud ymchwil, ymgynghori â'r gymuned ac ymgynghori arall i ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;
6.3.1.3 ystyried a gweithredu dulliau i annog a gwella cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o ddatblygu dewisiadau polisi;
6.3.1.4 holi aelodau'r Cabinet ac/neu Bwyllgorau a'r prif swyddogion am eu barn ar faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal neu unrhyw fater o dan ystyriaeth;
6.3.1.5 cysylltu â chyrff allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, boed y rhai hynny yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, i sicrhau y bydd buddiannau pobl leol yn cael eu cynyddu drwy weithio ar y cyd.

6.3.2 **Craffu:** Disgwylir i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu:

6.3.2.1 adolygu a chraffu ar y penderfyniadau a wneir ac ar berfformiad y Cabinet ac/neu Bwyllgorau a swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a thros amser;
6.3.2.2 adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor o ran ei amcanion polisi, targedau perfformiad ac/neu feysydd gwasanaeth arbennig;
6.3.2.3 holi aelodau'r Cabinet ac/neu Bwyllgorau a'r prif swyddogion ynghylch eu penderfyniadau a'u perfformiad, p'run ai yn gyffredinol o'i gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu mewn perthynas â phenderfyniadau, cynlluniau neu brosiectau neilltuol;
6.3.2.4 cyflwyno argymhellion gerbron y Cabinet a/neu Bwyllgor priodol a thrwy arfer da, ac yn unol â hynny, cyfrannu at broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor

sy'n codi o ganlyniad i'r broses graffu;

6.3.2.5 adolygu a chraffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal a gwahodd adroddiadau oddi wrthynt drwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a phobl leol am eu gweithgareddau a'u perfformiad;

6.3.2.6 holi a chasglu tystiolaeth oddi wrth unrhyw un arall (gyda'u caniatâd).

6.3.3 **Cyllid** Gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu arfer cyfrifoldeb cyffredinol dros y cyllid a roddir iddynt.

6.3.4 **Adroddiad blynyddol** Rhaid i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn ynglŷn â gwaith pob un o'r Pwyllgorau a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol a dulliau gwaith diwygiedig os yw hynny'n briodol.

6.3.5 **Rhaglen Waith** Rhaid i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu arfer cyfrifoldeb cyffredinol dros y rhaglen waith.

## 6.4 TRAFODION Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n cynnal eu trafodion yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu sydd i'w cael yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn. Mae Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel dyletswydd gymeradwy o dan Adran 174 Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y bo'n ofynnol gan y Cadeirydd perthnasol.

Mae manylion llawn y Protocol Trosolwg a Chraffu i'w gweld yn Rhan 5.

## 6.5 PROTOCOL YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau'r Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd o ran Trosolwg a Chraffu. Gallwch weld y manylion llawn yn Rhan 5.

## ERTHYGL 7 – Y CABINET

### 7.1 RÔL

Bydd y Cabinet yn cyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldebau i unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny o dan y ddeddf neu o dan y Cyfansoddiad hwn.

### 7.2 FFURF A CHYFANSODDIAD

Bydd y Cabinet yn cynnwys Arweinydd ynghyd ag o leiaf 6, ond dim mwy na 9, o Gynghorwyr a benodir i'r Cabinet gan yr Arweinydd, a bydd y penodiadau yn cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf er gwybodaeth.

### 7.3 YR ARWEINYDD

Bydd yr Arweinydd yn Gynghorydd a etholir i swydd Arweinydd gan y Cyngor. Bydd yr Arweinydd yn dal y swydd:

7.3.1 hyd nes bydd yn ymddiswyddo o'r swydd; neu

7.3.2 hyd nes bydd ef/hi yn cael ei atal/ei hatal rhag bod yn Gynghorydd o dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ailgydio yn y swydd ar ddiwedd cyfnod yr ataliad); neu

7.3.3 hyd nes na byddo ef/hi bellach yn Gynghorydd; neu

7.3.4 hyd nes y caiff ei symud o'i swydd drwy benderfyniad gan y Cyngor a gaiff ei basio gan o leiaf 75% o'r aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod; neu

7.3.5 hyd nes y caiff ei symud o'i swydd drwy benderfyniad gan y Cyngor pan fydd rheolaeth wleidyddol y Cyngor yn newid.

### 7.4 AELODAU CABINET ERAILL

Bydd yr aelodau Cabinet eraill yn parhau yn eu swyddi:

7.4.1 hyd nes byddant yn ymddiswyddo o'u swyddi; neu

7.4.2 hyd nes byddant yn cael eu hatal rhag bod yn Gynghorwyr o dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gallant ailgydio yn y swydd ar ddiwedd cyfnod yr ataliad); neu

7.4.3 hyd nes na fyddont bellach yn Gynghorwyr; neu

7.4.4 hyd nes cânt eu symud o'u swyddi gan yr Arweinydd a fydd yn gorfod rhoi rhybudd ysgrifenedig o unrhyw ddiswyddiad i'r Swyddog Priodol. Bydd y diswyddiad yn dod i rym ddau

ddiwrnod gwaith ar ôl i'r Swyddog Priodol gael y rhybudd; neu

7.4.5 hyd nes cânt eu symud o'u swyddi, naill ai'n unigol neu ar y cyd, drwy benderfyniad gan y Cyngor pe bai newid yn rheolaeth wleidyddol y Cyngor.

**7.5 TRAFODION Y CABINET**

Cynhelir trafodion y Cabinet yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cabinet a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

**7.6 CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU**

Bydd yr Arweinydd yn cadw rhestr yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn a gyflwynir yng nghyfarfod nesaf y Cyngor er gwybodaeth yn nodi pa aelodau unigol o'r Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet, swyddogion neu gyd drefniadau sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau neilltuol o eiddo'r Cabinet.

**ERTHYGL 8 – PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO**

8.1 Bydd y Cyngor yn penodi'r Pwyllgor a nodir yng ngholofn llaw chwith Rhan 3.3 (Tabl 3) y Cyfansoddiad hwn er mwyn cyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yng ngholofn 3 y tabl hwnnw. Nodir eu cylch gorchwyl hefyd yng ngholofn 2 y Tabl hwnnw.

8.2 Pwyllgor Rheoli Datblygu

8.2.1 Cworwm

Ni ddylid trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod o Bwyllgor Rheoli Datblygu oni bai bod o leiaf hanner cyfanswm aelodau'r pwyllgor, wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, yn bresennol.

8.2.2 Mwyafrif Syml

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater y bydd y Pwyllgor yn penderfynu arno yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o aelodau'r Pwyllgor sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y gwnaed yr argymhelliad neu'r cynnig.

8.2.3 Pleidlais Fwrw'r Cadeirydd

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis defnyddio pleidlais fwrw.

8.3 Pwyllgor Trwyddedu

8.3.1 Mwyafrif Syml

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater y bydd y Pwyllgor yn penderfynu arno yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o aelodau'r Pwyllgor sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y gwnaed yr argymhelliad neu'r cynnig.

8.3.2 Pleidlais Fwrw’r Cadeirydd

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis defnyddio pleidlais fwrw.

## ERTHYGL 9 – Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

### 9.1 Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU

Mae gany Cyngor Bwyllgor Moeseg a Safonau'n unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2011 fel y'u diwygiwyd ("y Rheoliadau").

### 9.1.1 CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU

**9.1.1.1 Aelodaeth y Pwyllgor Moeseg a Safonau**

**–** Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys naw aelod. Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

9.1.1.1.1 Pum aelod 'annibynnol', nad ydynt yn Gynghorwyr nac yn swyddogion nac yn gymar i Gynghorydd na swyddog o'r Cyngor hwn nac o unrhyw awdurdod perthnasol arall fel y diffinnir yn y Rheoliadau, a benodir yn unol â'r weithdrefn sydd yn y Rheoliadau;

9.1.1.1.2 Dau Gynghorydd Sir (heblaw am Arweinydd y Cyngor ac aelodau'r Cabinet);

9.1.1.1.3Dau aelod o Gynghorau Tref a Chymuned sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal y Cyngor ('aelodau o Bwyllgor Cymuned').

**9.1.2Cyfnod mewn Swydd ar gyfer y Pwyllgor Moeseg a Safonau**

9.1.2.1 Penodir aelodau annibynnol am gyfnod o ddim llai na phedair blynedd a dim mwy na chwe blynedd. Gellir eu hailbenodi am un cyfnod olynol pellach na fydd yn fwy na phedair blynedd.

9.1.2.2 Mae cyfnod mewn swydd yr aelodau hynny o'r Cyngor sy'n aelodau o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn para hyd yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodi. Gellir eu hailbenodi am un cyfnod olynol pellach.

9.1.2.3 Mae cyfnod mewn swydd aelod o Bwyllgor Cymuned yn para hyd yr etholiad llywodraeth leol

arferol nesaf yn dilyn eu penodi. Gellir eu hailbenodi am un cyfnod olynol pellach.

**9.1.3Cworwm –** Bydd gan gyfarfod o’r Pwyllgor Moeseg a Safonau gworwm dim ond pan fydd:

9.1.3.1 o leiaf tri aelod yn bresennol; a bod
9.1.3.2 o leiaf hanner yr aelodau sy’n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol.

**9.1.4 Pleidleisio -** Mae gan Aelodau Annibynnol ac aelodau o Bwyllgorau Cymuned hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd;

**9.1.4.1 Mwyafrif**

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r aelodau Pwyllgor hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y gwnaed yr argymhelliad neu'r cynnig.

**9.1.4.2 Pleidlais Fwrw’r Cadeirydd**
Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis defnyddio pleidlais fwrw.

**9.1.5 Aelodau Pwyllgorau Cymuned -** Nid yw aelod o’r Pwyllgor Cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Moeseg a Safonau pan fo unrhyw fater sy’n ymwneud â’i Gyngor Cymuned ef/hi yn cael ei drafod;

**9.1.6Cadeirio’r Pwyllgor Moeseg a Safonau**

9.1.6.1 Dim ond Aelod Annibynnol o’r Pwyllgor Moeseg a Safonau a all fod yn Gadeirydd;

9.1.6.2 Etholir y Cadeirydd gan aelodau’r Pwyllgor Moeseg a Safonau am ba un bynnag yw’r cyfnod byrraf o blith y canlynol:-

9.1.6.2.1 cyfnod o nid llai na phedair blynedd ac nid mwy na chwe blynedd; neu

9.1.6.2.2 hyd nes bo cyfnod mewn swydd y person hwnnw fel Aelod Annibynnol o’r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn dirwyn i ben.

9.1.6.3 Ethol Cadeirydd yw eitem fusnes gyntaf y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei gyfarfod cyntaf ac yna ar ddiwedd cyfnod swydd y Cadeirydd presennol.

9.1.6.4 Os bydd y Cadeirydd yn absennol o gyfarfod o’r Pwyllgor Moeseg a Safonau yna bydd Is-gadeirydd y Pwyllgor, os yw’n bresennol, yn cymryd ei le.

9.1.6.5 Os bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau ill dau’n absennol o gyfarfod o’r Pwyllgor hwnnw, bydd yr aelodau hynny o’r Pwyllgor sy’n bresennol yn dewis aelod annibynnol o’r Pwyllgor Moeseg a Safonau i lywyddu.

**9.1.7 RÔL A SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau y rolau a’r swyddogaethau canlynol:

9.1.7.1 hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith y Cynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr;

9.1.7.2 cynorthwyo’r Cynghorwyr, yr Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau;

9.1.7.3 cynghori’r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau;

9.1.7.4 monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;

9.1.7.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau;

9.1.7.6 rhoddi gollyngiadau i Gynghorwyr, i Aelodau Cyfetholedig ac i gynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr parthed y gofynion sy'n ymwneud â buddiannau a gyflwynir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau; (81(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Rhoddi Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (2001/2279);

9.1.7.7 ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ynghylch unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; (adran 73(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (2001 2281);

9.1.7.8 arfer 9.3.1 hyd 9.3.7 uchod mewn perthynas â'r Cynghorau Cymuned sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ei ardal ac aelodau'r Cynghorau Cymuned hynny; (Adran 56(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;

9.1.7.9 penodi panel apelio o dri, gyda mwyafrif o aelodau annibynnol, y bydd un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd, ar gyfer cwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd o dan weithdrefn gwyno'r Cyngor.

## 9.2 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

**9.2.1 RÔL A SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y rolau a'r swyddogaethau canlynol, yr ymhelaethir arnynt yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhan 3.3 (Tabl 3):

9.2.1.1 Darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar drefniadau archwilio, sicrhau ac adrodd y Cyngor;

9.2.1.2 Adolygu a chynghori'r Cyngor a'r Cabinet yn annibynnol, a'u priod Bwyllgorau a Swyddogion, ar faterion yn ymwneud â llywodraethu da, goruchwylio ariannol, rheoli risg, gweithdrefnau/trin cwynion a rheolaeth fewnol wrth ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor;

9.2.1.3 Sicrhau bod systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol y Cyngor yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, cefnogi safonau a moeseg ac ar gyfer rheoli amlygiad yr awdurdod i risgiau twyll a llygredd, ac i sicrhau bod gwasanaethau archwilio mewnol y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt;

9.2.1.4 Adolygu, craffu a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y Cyngor;

9.1.2.5 Adolygu, craffu a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar briodoldeb trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor;

9.2.1.6 Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor a pherthynas y Cyngor â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys cefnogi'r

perthnasoedd effeithiol rhwng archwilio allanol a mewnol, adolygu barn ac adroddiadau'r archwilydd allanol i aelodau, a monitro camau rheoli mewn ymateb i'r materion a godwyd gan archwilio allanol;

9.2.1.7 Goruchwylio adroddiadau ariannol y Cyngor ac adolygu ei ddatganiadau ariannol;

9.2.1.8 Adolygu ac asesu Hunanasesiad blynyddol drafft y Cyngor ac ymateb drafft i unrhyw Adroddiad Archwilydd Cyffredinol;

9.2.1.9 Cadw at drefniadau atebolrwydd, gan gynnwys adrodd ar drefniadau a pherfformiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor.

9.2.2 **CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

9.2.2.1 **Aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Ar hyn o bryd mae aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 6 Chynghorydd Sir ac 1 Aelod Lleyg;

9.2.2.2 **Cadeirio'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Ar hyn o bryd mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Gynghorwyr Sir Grŵp yr Wrthblaid.

**9.2.3 Cworwm**

Dim ond pan fydd o leiaf dri aelod yn bresennol yw cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio â chworwm.

**9.2.4 Pleidleisio**

**9.2.4.1 Mwyafrif**

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r aelodau Pwyllgor hynny sy'n

pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y gwnaed yr argymhelliad neu'r cynnig.

#### 9.1.4.2 Pleidlais Fwrw'r Cadeirydd

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis arfer pleidlais fwrw.

**ERTHYGL 10 – CYD-DREFNIADAU**

10.1 **TREFNIADAU I HYBU LLES**

Gall y Cyngor neu’r Cabinet wneud fel a ganlyn, er mwyn hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal:

10.1.1 gall wneud trefniadau neu gytundebau gydag unrhyw un neu unrhyw gorff;

10.1.2 cydweithredu gydag unrhyw un neu unrhyw gorff, neu hwyluso neu gydlynu eu gweithgareddau; ac

10.1.3 arfer ar ran y person neu’r corff hwnnw unrhyw rai o swyddogaethau’r person neu’r corff hwnnw.

**10.2 CYD DREFNIADAU**

10.2.1 Gall y Cyngor sefydlu cyd drefniadau gydag un neu fwy o awdurdodau lleol ac/neu Fyrddau Iechyd ac/neu eu Gweithrediaethau i arfer swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau Gweithrediaeth mewn unrhyw rai o’r awdurdodau cyfranogol, neu i gynghori’r Cyngor. Gallai trefniadau o’r fath gynnwys penodi Cyd Bwyllgorau, neu Fyrddau Partneriaeth Iechyd Rhanbarthol gyda’r awdurdodau lleol ac/neu’r Byrddau Iechyd eraill hynny.

10.2.2 Gall y Cabinet sefydlu cyd drefniadau gydag un neu fwy o awdurdodau lleol i arfer swyddogaethau sy’n swyddogaethau Gweithrediaeth. Gallai trefniadau o’r fath gynnwys penodi Cyd Bwyllgorau neu Fyrddau Partneriaeth Iechyd Rhanbarthol gyda’r awdurdodau lleol ac/neu’r Byrddau Iechyd eraill hynny.

10.2.3 Ac eithrio’r hyn a nodir isod, ni all y Cabinet ond penodi aelodau Cabinet i Gyd Bwyllgor ac nid oes raid i’r aelodau hynny adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor lleol yn ei gyfanrwydd.

10.2.4 Gall y Cabinet benodi aelodau i Gyd Bwyllgor o’r tu allan i’r Cabinet lle bo gan y Cyd Bwyllgor swyddogaethau dros ran yn unig o ardal y Cyngor, ac mae’r ardal honno’n llai na dwy ran o bump o’r Cyngor o ran arwynebedd neu boblogaeth. Mewn achosion o’r fath, gall y Cabinet benodi i’r Cyd Bwyllgor unrhyw Gynghorydd sy’n aelod dros adran etholiadol

sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn yr ardal. Nid yw'r gofynion sydd ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i benodiadau o'r fath.

10.2.5 Mae manylion unrhyw gyd drefniadau gan gynnwys unrhyw ddirprwyaethau i Gyd Bwyllgorau i'w cael yng nghynllun dirprwyaethau'r Cygnor yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

**10.3 MYNEDIAD AT WYBODAETH**

10.3.1 Mae'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth sydd yn Rhan 4, Dogfen B y Cyfansoddiad hwn yn gymwys.

**10.4 DIRPRWYO I AWDURDODAU LLEOL ERAILL AC ODDI WRTHYNT**

10.4.1 Gall y Cyngor ddirprwyo swyddogaethau anweithredol i awdurdod lleol arall neu, o dan rai amgylchiadau, i weithrediaeth awdurdod lleol arall.

10.4.2 Gall y Cabinet ddirprwyo swyddogaethau gweithrediaeth i awdurdod lleol arall neu i weithrediaeth awdurdod lleol arall o dan rai amgylchiadau.

10.4.3 Bydd y penderfyniad p'run ai i dderbyn dirprwyaeth o'r fath o awdurdod lleol arall ai peidio'n cael ei gyfyngu i gyfarfod o'r Cyngor.

**10.5 CONTRACTIO ALLAN**

Gall y Cyngor neu'r Cabinet drefnu i'r Cyngor gontractio allan i gorff neu sefydliad arall swyddogaethau y gall swyddog eu harfer. Gellir trefnu i gontractio allan i awdurdod lleol arall o dan Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 2 Rhan 1 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae darpariaethau statudol arbennig yn caniatáu trefniadau ar y cyd â Chyrff Iechyd, ond o dan amgylchiadau eraill mae'n bosib y bydd angen gorchymyn o dan adran 70, Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, onid yw'r trefniadau contractio yn nodi bod y contractwr yn gweithredu fel asiant ar ran y Cyngor o dan yr egwyddorion contractio arferol (ar yr amod nad oes unrhyw ddirprwyo ar allu'r Cyngor i wneud penderfyniadau yn ôl ei ddisgresiwn).

## ERTHYGL 11– SWYDDOGION

### 11.1 STRWYTHUR RHEOLI

11.1.1 Gallwch weld Siart y Sefydliad yn Rhan 7 y ddogfen hon a hefyd ar wefan y Cyngor.

11.1.2 **Cyffredinol.** Gall y Cyngor llawn gyflogi pa staff bynnag (y cyfeirir atynt fel swyddogion) y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau.

11.1.3 **Prif Swyddogion.** Bydd y Cyngor llawn yn cyflogi pobl ar gyfer y swyddi canlynol, sy'n Brif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion dynodedig fel y'u diffinnir ym Mharagraff 3, Rhan 2 Atodlen 3, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd.

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr | | • Swyddog Canlyniadau Dros Dro ar gyfer Etholiadau Seneddol<br>• Swyddog Cyfrif ar gyfer Etholiadau Ewrop<br>• Swyddog Cyfrif ar gyfer Refferenda<br>• Swyddog Cofrestru Etholiadol<br>• Os penodir gan yr Arglwydd Ganghellor, gweithredu fel Ysgrifennydd i Bwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon i Geredigion.<br>• Rheolaeth gorfforaethol gyffredinol a chyfrifoldeb gweithredol (gan gynnwys cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r holl swyddogion);<br>• Cynrychioli'r awdurdod ar gyrff partneriaeth ac allanol (fel bo'n ofynnol yn statudol neu gan y Cyngor);<br>• Swyddog Canlyniadau Etholiadau Llywodraeth Leol gan gynnwys Cynghorau Cymuned ac Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>• Darparu gwasanaeth i'r Cyngor i gyd, a hynny'n wleidyddol niwtral.<br>• Darparu cyngor proffesiynol a diduedd i'r holl bartïon yn y broses o wneud penderfyniadau – yr Arweinydd a'r Cabinet, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, y Cyngor llawn a Phwyllgorau eraill;<br>• Gweithredu fel Clerc ar y Cyd i'r Rhaglawiaeth ar gyfer eu gweithgareddau / ei gweithgareddau yng Ngheredigion.<br>• Swyddog Priodol i Wasanaeth y Crwner. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Ynghyd â'r Swyddog Priodol, bydd yn gyfrifol am system o gadw cofnod o holl benderfyniadau'r Cyngor (Gweithrediaeth neu fel arall);<br>• Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr Corfforaethol | | Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweiniol Hŷn ehangach gan ddarparu arweiniad strategol ar draws Ceredigion – gan hyrwyddo'r sir fel mân i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo ac fel lle i ymweld ag ef.<br><br>Arwain ar yr agenda iechyd a lles strategol; gan gynnig cyfeiriad strategol i'r dull gweithredu a arweinir gan bartneriaethau wrth gyflenwi gwasanaethau cymorth i oedolion a phlant gan ddiogelu'r rheini sy'n agored i niwed, trwy Geredigion.<br><br>**Prif Gyfrifoldebau**<br><br>1. **Arweiniad Strategol**<br><br>Arwain cyfeiriad strategol yr amrywiol swyddogaethau; gan sicrhau bod Ceredigion yn lle sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi ei ddinasyddion,<br><br>yn diogelu'r rheini sy'n agored i niwed, ac yn darparu gofal ac amddiffyn priodol,<br><br>gan roi'r cyfle gorau iddynt sicrhau datblygiad academaidd a sgiliau fel y gallant gyfrannu at dwf economaidd a chymdeithasol y Sir.<br><br>2. **Perfformiad Thematig**<br><br>Monitro perfformiad gwasanaethau ar draws y Cyngor y mae ganddo reolaeth drostynt.<br><br>Asesu perfformiad yn erbyn cynlluniau i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu cyflenwi yn effeithiol ac effeithlon a'u bod yn cyrraedd y safonau uchaf; gan gynnwys y gwasanaethau ariannol, perfformiad, risgiau, pobl a rheoli newid.<br><br>Arwain ac ysgogi'r rheolwyr a'r staff i ddatblygu diwylliant o berfformiad uchel sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | canolbwyntio ar y cwsmeriaid / y cymunedau.<br><br>Gwella perfformiad trwy fwrw ymlaen â moderneiddio a rheoli newid, gan sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â'r amcanion corfforaethol.<br><br>Hwyluso rhaglenni newid a thrawsnewid ar draws y Cyngor, gan gefnogi uwch reolwyr o ran cyflenwi gwasanaethau rhagorol trwy ddarparu cyngor ymarferol ac effeithiol.<br><br>3. **Ymgysylltiad Gwleidyddol**<br><br>Arwain yr ymgysylltiad gwleidyddol a democrataidd o ran y meysydd thematig perthnasol; sefydlu a chynnal gweithdrefn sy'n ymwneud â'r gwasanaethau democrataidd a chraffu.<br><br>Datblygu perthynas waith gref â'r aelodau etholedig; gan ddarparu cyngor o'r radd flaenaf i gynnal perfformiad y Cyngor a'i wella.<br><br>4. **Ymgysylltu â'r Rhanddeiliaid**<br><br>Ymgysylltu â phartneriaid lleol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol wrth gyflawni'r blaenoriaethau Corfforaethol; gan greu rhwydwaith eang o gysylltiadau ar draws y sector cyhoeddus a phreifat i ddatblygu Ceredigion fel man i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo ac fel lle i ymweld ag ef.<br><br>5. **Cyfathrebu**<br><br>Cyfathrebu gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad i amrywiaeth eang o randdeiliaid; gan sicrhau cefnogaeth yn eu plith er mwyn sicrhau gwell gwasanaethau cyhoeddus. |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol<br><br>**Ysgolion a Diwylliant**<br><br>***Prif Swyddog Addysg** | • Gwella ysgolion, gan gynnwys defnyddio hysbysiadau statudol o fewn ysgolion prif ffrwd ac unedau cyfeirio disgyblion.<br>• Cefnogi'r Cwricwlwm<br>• Asesu, cynnydd disgyblion a mesurau atebolrwydd<br>• Arweinyddiaeth mewn ysgolion<br>• Darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion<br>• Addysg y blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau nas cynhelir<br>• Darpariaeth gofal plant<br>• Gwasanaethau Gwella Ysgolion gan gynnwys gwasanaeth ymgynghorol<br>• Cymorth i Gyrff Llywodraethol<br>• Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg<br>• Canolfannau Iaith<br>• Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol gan gynnwys cyn ysgol<br>• Cynhwysiant a Llesiant<br>• Apeliadau gwahardd o'r ysgol<br>• Monitro addysg ddewisol yn y cartref<br>• Derbyn disgyblion<br>• Llais y disgybl<br>• Trwyddedau Perfformiadau Plant<br>• Presenoldeb mewn ysgolion<br>• Rhaglen moderneiddio ysgolion<br>• Seilwaith ac adnoddau<br>• Gwasanaeth arlwyo<br>• Darpariaeth Gofal Plant<br>• Gwasanaeth cerddoriaeth<br>• Theatr Felinfach<br>• Cered<br>• Yr Amgueddfa |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol<br><br>**Porth Cymorth Cynnar** | • Gwasanaethau Ymddygiad<br>• HCT (dysgu seiliedig ar waith)<br>• Dysgu Bro (Addysg Oedolion yn y Gymuned)<br>• Dysgu a Sgiliau ôl-14<br>• Cwricwlwm Amgen<br>• Hamdden<br>• Pobl Ifanc Egnïol<br>• Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff<br>• Chwaraeon Anabledd<br>• Gwasanaethau Ieuenctid<br>• NEETs<br>• Gwasanaethau ôl-16 (Prosiect Cam Nesa')<br>• Profiad Gwaith (Estynedig)<br>• Gweithffyrdd+<br>• Cymunedau dros waith<br>• Dechrau'n Deg<br>• Prosiect Braenaru<br>• Chwarae<br>• Gofalwyr<br>• Tîm o Amgylch y Teulu<br>• Tîm Teulu<br>• Canolfan Deuluol Penparcau<br>• Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal<br>• Cyfleoedd yn ystod y dydd / gyda'r hwyr<br>• Porth y Gymuned<br>• Cysylltwyr Cymunedol<br>• Channel (Cadeirydd Channel) |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol<br><br>**Cyllid a Chaffael**<br><br>*** Swyddog Adran 151** | **Cyllid Craidd (Dirprwy Swyddog Adran 151)**<br>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>• Datganiad o'r Cyfrifon<br>• Rhaglen Gyfalaf<br>• Systemau Gwybodaeth Ariannol<br>• Yswiriant<br>• Amrywiol Ddyledwyr<br>• Grantiau Cymunedol<br>• Trethi<br>• Rheoli’r Trysorlys a Chyfrifyddu Incwm<br>• Taliadau o ran Cartrefi Gofal<br>**Cyllid Gwasanaethau**<br>• Rheolaeth Ariannol<br>• Cyfrifyddiaeth<br>• Gosod a Rheoli’r Gyllideb<br>• Cyfrifon Terfynol<br>• Hawliadau Grant<br>• Cefnogaeth i’r Ysgolion o ran Rheolaeth Ariannol<br>• Cyllid Allanol<br>**Refeniw ac Asesiadau Ariannol**<br>• Biliau Treth y Cyngor gan gynnwys Casglu ac Adennill<br>• Biliau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol gan gynnwys Casglu ac Adennill<br>• Ardrethi yn ôl Disgresiwn a Rhyddhad Caledi<br>• Cymorth Treth y Cyngor<br>• Budd-daliadau Tai<br>• Asesiadau Ariannol<br>• Systemau Refeniw<br>• Taliadau Tai Dewisol<br>• Prydau Ysgol am Ddim a’r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad<br>**Caffael a Thaliadau**<br>• Archebu<br>• Dyfynbrisiau a Thendrau<br>• Taliadau<br>• Cyngor am Gaffael a Rheolaeth dros Gaffael<br>• Comisiynu Contractau Gwasanaethau<br>• Deddf Enillion Troseddau 2002 |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Corfforaethol Arweiniol<br><br>**Gwasanaethau Democrataidd**<br><br>***Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd** | • Cymorth i'r Cabinet<br>• Gwasanaethau Democrataidd<br>• Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol<br>• Dirprwy Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer Etholiadau Seneddol<br>• Dirprwy Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol gan gynnwys Cynghorau Cymuned ac Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>• Dirprwy Swyddog Canlyniadau Lleol Ardal yr Heddlu<br>• Cymorth i'r Aelodau<br>• Cymorth Craffu<br>• Gwasanaethau Cyfieithu<br>• Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>• Gwasanaethau Etholiadol<br>• Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau<br>• Safonau'r Gymraeg |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol<br><br>**Pobl a Threfniadaeth** | • Swyddog Awdurdodedig a Swyddog Awdurdodi: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000<br>• Adnoddau Dynol – Cynghori a Gweinyddu<br>• Y Gyflogres a Budd-daliadau<br>• Systemau Adnoddau Dynol<br>• Datblygiad Sefydliadol<br>• Dysgu a Datblygu corfforaethol<br>• Iechyd a Diogelwch Corfforaethol<br>• Ymgysylltu â'r staff a llesiant y gweithwyr<br>• Cydraddoldeb i weithwyr |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol<br><br>Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes<br><br>*Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>*Unigolyn Cyfrifol | • Mabwysiadu Plant ac Oedolion Anabl<br>• Pobl sy'n gadael Gofal<br>• Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Gwasanaethau Gofal wedi'i Gynllunio (Oedolion)<br>• Gwasanaeth Diogelu Plant ac Oedolion gan gynnwys y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol<br>• Plant sydd angen gofal a chymorth<br>• Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau<br>• Monitro Contractau (Gofal Cymdeithasol) a Sicrhau Ansawdd<br>• Integreiddio'r trefniadau o ran Partneriaethau Rhanbarthol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)<br>• Swyddog Awdurdodedig a Swyddog Awdurdodi: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000<br>• Gwasanaethau Lles Meddyliol<br>• Penderfynwr yr Asiantaeth - Plant |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal Gwasanaethau Ymyrraeth wedi'i Thargedu<br><br>***Dirprwy Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** | • Porth Gofal – Derbyn a Brysbennu<br>• Storfeydd Cyfarpar Cymunedol Integredig<br>• Gwasanaethau Ymyrraeth wedi'i Thargedu – Oedolion a Phlant<br>• Asesu anghenion gofal a chymorth – Oedolion a Phlant<br>• Gwasanaethau Uniongyrchol (Gofal Preswyl Mewnol / Gofal Cartref / Cyfarpar)<br>• Cydlynu Gofal Cartref<br>• Porth Gofal<br>• Gwasanaethau Maethu<br>• Tai<br>• Cofrestr Tai Cyffredin<br>• Digartrefedd ac Opsiynau Tai<br>• Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl<br>• Effeithlonrwydd Ynni Cartref<br>• Safonau Tai (Tai Amlfeddiannaeth, Achredu Landlordiaid ac Asiantaethau Gosod)<br>• Gwasanaethau argyfwng y tu allan i oriau |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol<br><br>**Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd**<br><br>***Swyddog Priodol – Deddf Iechyd y Cyhoedd Rheoli Clefydau 1984** | • Argyfyngau Sifil / Parhad Busnes a'r Fforwm Cydnerthedd Lleol<br>• Partneriaethau Strategol, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelwch Cymunedol<br>• Ymgysylltu a Chydraddoldeb<br>• Polisi, Rheoli Risgiau a Chydlyniant Cymunedol<br>• Rhyddid Gwybodaeth, Cwynion, Canmoliaethau, Gwelliannau Corfforaethol<br>• Cynllunio Busnes a Gwella<br>• Perfformiad Corfforaethol ac Ymchwil<br>• Trwyddedu<br>• Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd<br>• Iechyd Anifeiliaid<br>• Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd<br>• Safonau Masnach<br>• Iechyd a Diogelwch (rheoleiddiol)<br>• Rheoli'r Amgylchedd<br>• Niwsans Statudol<br>• Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed (Camddefnyddio Sylweddau)<br>• Iechyd y Cyhoedd<br>• Uwch Swyddog Awdurdodi – Deddf Enillion Troseddau 2002<br>• Swyddog Awdurdodedig a Swyddog Awdurdodi: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000<br>• Angladdau Iechyd y Cyhoedd<br>• Claddedigaethau preifat<br>• Safleoedd brwnt a phryfedog<br>• Systemau Draenio<br>• Cyflenwadau Dŵr Preifat<br>• Ansawdd Aer<br>• Adsefydlu Ffoaduriaid |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol<br><br>**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | • Cydweithrediad Seilwaith Canolbarth Cymru / Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru<br>• Newid Hinsawdd<br>• Gwasanaethau Dylunio (Priffyrdd )<br>• Llifogydd a'r Arfordir<br>• Priffyrdd/Pontydd<br>• Darparu gwasanaethau yng nghyswllt Priffyrdd a Gwastraff<br>• Trafnidiaeth Gyhoeddus<br>• Cydweithio ym maes Trafnidiaeth Ranbarthol (TraCC)<br>• Diogelwch y Ffyrdd<br>• Rheoli Traffig<br>• Gorfodi Parcio Sifil<br>• Trafnidiaeth (gan gynnwys yr Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr)<br>• Cynllunio Trafnidiaeth (Lleol a Rhanbarthol)<br>• Gwastraff<br>• Cynnal a Chadw'r Priffyrdd<br>• Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol<br>• Datblygu'r Priffyrdd<br>• Gwasanaethau Trafnidiaeth |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol<br><br>**Economi ac Adfywio** | • Datblygu Economaidd<br>• Adfywio Economaidd a Chymunedol<br>• Cyllid a Grantiau<br>• Grantiau Busnes<br>• Canolfan Bwyd Cymru<br>• Marchnad y Ffermwyr a Marchnadoedd eraill<br>• Polisi Cynllunio<br>• Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru<br>• Ymgysylltu Rhanbarthol<br>• Cynllunio Rhanbarthol<br>• Twristiaeth a marchnata<br>• Canolfannau Croeso;<br>• Bywyd Gwyllt, yr Arfordir a Chefn Gwlad<br>• Llwybrau Troed, Llwybrau Ceffylau a Chilffyrdd<br>• Swyddog Priodol – Adran 78, Deddf Adeiladu 1984 (adeiladau peryglus)<br>• Rheoli Datblygu (Cynllunio)<br>• Cynllunio Gwlad a Thref<br>• Cadwraeth<br>• Gorfodi Cynllunio a Rheoli Adeiladu<br>• Ystadau / Datblygu<br>• Gwasanaethau Eiddo<br>• Rheoli Asedau<br>• Rheoli Prosiectau<br>• Holl Adeiladau a Chynnal a Chadw Adeiladau<br>• Gorfodi Sifil |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Arweiniol Corfforaethol<br><br>**Cyswllt Cwsmeriaid**<br><br>***Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)**<br><br>***Swyddog Priodol ar gyfer Cofrestru Sifil** | • Archifau a Chofnodion Modern<br>• Cefnogi a Datblygu TGCh Corfforaethol ac Addysg<br>• Canolfannau Gwybodaeth i Gwsmeriaid<br>• Cyswllt Cwsmeriaid / Lles y Gymuned<br>• Diogelu Data gan gynnwys GDPR<br>• TGCh<br>• CLIC gan gynnwys Gwasanaethau Cefnogi Gwybodaeth i Deuluoedd<br>• DEWIS<br>• Cofrestru Sifil<br>• Ceisiadau Mynediad Cyhoeddus<br>• Rheoli Gwybodaeth<br>• Gwasanaethau Llyfrgelloedd<br>• Uned Reprograffeg<br>• Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth |

| Swydd Prif Swyddog | Swydd Dirprwy Brif Swyddog | Swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| | Swyddog Corfforaethol Arweiniol<br><br>**Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu**<br><br>***Swyddog Monitro** | • Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol / Prif Swyddog Cyfreithiol<br>• Gwasanaethau'r Crwner<br>• Archwilio Mewnol<br>• Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr<br>• Y berthynas â Swyddfa Archwilio Cymru<br>• Llywodraethu Corfforaethol<br>• Y Cyfansoddiad<br>• Mynediad at wybodaeth<br>• Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol<br>• Moeseg a Safonau<br>• Swyddog Monitro<br>• Rhybuddion o Gynnig<br>• Atgyfeiriadau / Ymchwiliadau o ran y Cod Ymddygiad ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>• Uwch Swyddog Cyfrifol: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 |

11.1.4 **Swyddi Statudol.**

Bydd y Cyngor yn dynodi'r swyddi canlynol fel a ganlyn:

| **Swydd** | **Dynodiad** |
|---|---|
| Prif Weithredwr | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael | Prif Swyddog Cyllid - Swyddog Adran 151 |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | Swyddog Monitro |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd* | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant | Prif Swyddog Addysg |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes | Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |

*Dynodir gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Bydd swyddogaethau'r swyddi hynny fel y'u disgrifir yn Erthygl 11.2–11.8 isod.

**11.1.5 Strwythur**. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig yn pennu disgrifiad o strwythur adrannol cyffredinol y Cyngor ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i hynny, gan ddangos y strwythur rheoli a sut y rhoddir swyddogion ar waith. Cyflwynir hyn yn Rhan 7 y Cyfansoddiad hwn.

**11.2 SWYDDOGAETHAU PENNAETH Y GWASANAETH CYFLOGEDIG**

**11.2.5 Y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau**. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig yn adrodd i'r Cyngor llawn ynglŷn â'r modd y cydlynir cyflawniad swyddogaethau'r Cyngor, nifer a graddfa'r swyddogion sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni swyddogaethau, trefnu swyddogion a phenodi a rheoli swyddogion yn briodol.

**11.2.6 Cyfyngiadau ar swyddogaethau.** Ni all Pennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro ond gall ddal swydd y Prif Swyddog Cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

**11.3 SWYDDOGAETHAU'R SWYDDOG MONITRO**

**11.3.5 Cynnal y Cyfansoddiad.** Bydd y Swyddog Monitro'n cadw fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad a bydd yn sicrhau bod yr aelodau, y staff a'r cyhoedd yn cael rhwydd hynt i'w darllen.

**11.3.6 Sicrhau y gwneir penderfyniadau yn gyfreithlon ac yn deg.** Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Prif Swyddog Cyllid, bydd y Swyddog Monitro'n adrodd i'r Cyngor llawn neu i'r Cabinet ynghylch swyddogaeth y Cabinet os yw ef neu hi o'r farn y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn arwain at sefyllfa anghyfreithlon, neu os oes unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Byddai adroddiad o'r fath yn atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes bo'r adroddiad wedi ei ystyried.

**11.3.7 Cefnogi'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.** Bydd y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro yn cyfrannu at hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad drwy ddarparu cefnogaeth i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

**11.3.8 Derbyn adroddiadau.** Bydd y Swyddog Monitro'n derbyn adroddiadau'r Ombwdsmon a phenderfyniadau tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim a bydd yn gweithredu arnynt.

**11.3.9 Cynnal ymchwiliadau.** Bydd y Swyddog Monitro'n cynnal ymchwiliadau i faterion y bydd yr Ombwdsmon yn eu cyfeirio ato/ati a bydd yn llunio adroddiadau neu argymhellion yn eu cylch at sylw'r Pwyllgor Safonau.

**11.3.10 Swyddog Priodol ar gyfer mynediad at wybodaeth.** Bydd y Swyddog Monitro'n sicrhau bod penderfyniadau Gweithredol, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny ac adroddiadau gan swyddogion perthnasol a phapurau cefndir, ar gael i'r cyhoedd mor fuan ag sy'n bosibl.

**11.3.11 Cynghori ynglŷn ag a yw penderfyniadau'r Cabinet yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi.** Bydd y Swyddog Monitro'n cynghori ynglŷn ag a yw penderfyniadau'r Cabinet yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi ai peidio.

**11.3.12 Rhoi cyngor.** Bydd y Swyddog Monitro, ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn rhoi cyngor ynglŷn â chwmpas y pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddu, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a materion y mae a wnelont â'r gyllideb a'r fframwaith polisi i bob Cynghorydd a swyddog perthnasol

**11.3.13 Cyfyngiadau ar swyddogaethau.** Ni all Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro nac yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ond gall ddal swydd y Prif Swyddog Cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig, Ni all Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod yn Swyddog Monitro nac yn Brif Swyddog Ariannol.

**11.4 SWYDDOGAETHAU'R PRIF SWYDDOG CYLLID/SWYDDOG ADRAN 151**

**11.4.5 Sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn rhai cyfreithlon a'u bod yn ddarbodus yn ariannol.** Ar ôl ymgynghori gyda Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Swyddog Monitro, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r Cyngor llawn neu i'r Cabinet ynghylch swyddogaeth y Cabinet, ac archwilydd allanol y Cyngor os bydd ef neu hi o'r farn y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu ddull o weithredu yn peri gwariant

anghyfreithlon, neu maent yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon.

**11.4.6 Gweinyddu materion ariannol.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor.

**11.4.7 Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn benodol felly drwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

**11.4.8 Rhoi cyngor.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, yn rhoi cyngor ynglŷn â chwmpas pwerau ac awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddu, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a materion y mae a wnelont â'r gyllideb a'r fframwaith polisi i'r Cynghorwyr i gyd, a bydd yn cefnogi ac yn cynghori'r Cynghorwyr a'r swyddogion yn eu gwahanol rolau.

**11.4.9 Rhoi gwybodaeth ariannol.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, i'r cyhoedd ac i'r gymuned fel y bo'n briodol.

**11.5 SWYDDOGAETHAU PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**11.5.5 rhoi cymorth a chyngor**:

- i'r Cyngor mewn perthynas â'i gyfarfodydd
- i bwyllgorau'r Cyngor ac i aelodau'r pwyllgorau hynny
- i unrhyw Gydbwyllgor y mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei drefnu ac i aelodau'r Cydbwyllgor hwnnw mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, aelodau'r Cyngor, aelodau'r Cabinet a'r swyddogion.
- i bob aelod o'r Cyngor wrth iddo gyflawni rôl aelod o'r Cyngor
- i hybu rôl Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor
- i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn cysylltiad â nifer y staff y mae eu hangen i gyflawni swyddogaethau democrataidd, a'u

graddau, a phenodi, trefnu a rheoli'r staff hynny'n briodol

- i unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru.

**11.6 SWYDDOGAETHAU'R PRIF SWYDDOG ADDYSG**

11.6.1. Ymgymryd â'r dyletswyddau statudol y mae'n ofynnol i Brif Swyddog Addysg eu cyflawni fel yr amlinellir yn adran 532, Deddf Addysg 1996

**11.7 SWYDDOGAETHAU CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

11.7.1. Amlinellir Swyddogaethau Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhan 4, Dogfen P.

**11.8 DYLETSWYDD I DDARPARU ADNODDAU DIGONOL I'R SWYDDOGION STATUDOL**

Bydd y Cyngor yn darparu pa bynnag swyddogion, swyddfeydd ac adnoddau eraill ar gyfer y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Prif Swyddog Addysg a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fel y bo'n briodol yn eu barn hwy ac yn ddigonol iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

**11.9 YMDDYGIAD**

Bydd y swyddogion yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Swyddogion a'r Protocol ynglŷn â chysylltiadau rhwng Swyddogion/Aelodau fel y'u ceir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

**11.10 CYFLOGAETH**

Wrth recriwtio, dethol a diswyddo swyddogion dylid cydymffurfio â'r Rheolau sy'n ymwneud â Chyflogi Swyddogion a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

## ERTHYGL 12 – GWNEUD PENDERFYNIADAU

### 12.1 CYFRIFOLDEB DROS WNEUD PENDERFYNIADAU

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ac yn cadw'n gyfredol gofnod o ba ran o'r Cyngor neu unigolyn sy'n gyfrifol am wahanol fathau o benderfyniadau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â meysydd neu swyddogaethau neilltuol. Mae'r cofnod hwn i'w weld yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

### 12.2 EGWYDDORION GWNEUD PENDERFYNIADAU

Gwneir holl benderfyniadau'r Cyngor yn unol â'r egwyddorion canlynol:

12.2.1 Cymesuredd (h.y. rhaid i unrhyw gamau a gymerir fod yn gymesur â'r hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni);

12.2.2 ymgynghori priodol a chyngor proffesiynol oddi wrth y swyddogion ;

12.2.3 parchu cydraddoldeb a hawliau dynol;

12.2.4 rhagdybiaeth o blaid bod yn agored;

12.2.5 eglurder ynghylch yr amcanion a'r canlyniadau a ddymunir.

12.2.6 Cadw cofnod priodol o'r rhesymau dros y penderfyniad, unrhyw fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu ynghyd ag unrhyw ollyngiadau i siarad a roddir gan Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor.

12.2.7 Cymryd pob cam rhesymol a/neu roi sylw dyledus i:

12.2.7.1 cwrdd â'r egwyddorion a'r nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wrth gyflawni ei swyddogaethau;

12.2.7.2 dymunoldeb lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol (yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010); a

12.2.7.3 Polisi Atal Caethwasiaeth a Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth y Cyngor (yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015).

### 12.3 PENDERFYNIADAU A GEDWIR I'R CYNGOR LLAWN

Gwneir penderfyniadau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau a restrir yn Erthygl 4.1 gan y Cyngor llawn ac ni fyddant yn cael eu dirprwyo.

### 12.4 GWNEUD PENDERFYNIADAU YN Y CYNGOR LLAWN

Yn amodol ar Erthygl 12.8 a Rhan 3.5 ynghylch camau brys, bydd cyfarfod y Cyngor yn dilyn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor ac unrhyw Weithdrefnau perthnasol eraill a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

### 12.5 GWNEUD PENDERFYNIADAU YN Y CABINET

Yn amodol ar Erthygl 12.8, bydd y Cabinet yn dilyn Rheolau Gweithdrefn y Cabinet ac unrhyw weithdrefnau perthnasol eraill a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

### 12.6 GWNEUD PENDERFYNIADAU YN Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu’n dilyn y Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu ac unrhyw weithdrefnau perthnasol eraill a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

### 12.7 GWNEUD PENDERFYNIADAU MEWN PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU ERAILL A SEFYDLIR GAN Y CYNGOR

Yn amodol ar Erthygl 12.8, bydd Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau eraill y Cyngor yn dilyn y rhannau hynny o Reolau Gweithdrefn y Cyngor ac unrhyw weithdrefnau perthnasol eraill a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn fel ag y maent yn berthnasol iddynt.

### 12.8 CYRFF O’R CYNGOR SY’N GWEITHREDU FEL TRIBIWNLYSOEDD YN GWNEUD PENDERFYNIADAU

Pan fydd y Cyngor, Cynghorydd neu swyddog/swyddogion sy’n gweithredu fel tribiwnlys neu mewn dull lled-farnwrol neu yn penderfynu/yn ystyried (ac eithrio at ddibenion rhoi cyngor) hawliau sifil a rhwymedigaethau neu gyfrifoldeb troseddol rhywun, bydd gofyn dilyn gweithdrefn briodol sy’n unol â gofynion cyfiawnder naturiol a’r hawl i brawf teg a gynhwysir yn Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

## ERTHYGL 13 – CYLLID, CONTRACTAU A MATERION CYFREITHIOL

### 13.1 RHEOLAETH ARIANNOL

Caiff materion ariannol y Cyngor eu rheoli'n unol â'r rheolau ariannol a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

### 13.2 CONTRACTAU

Bydd pob contract a wneir gan y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

### 13.3 ACHOSION CYFREITHIOL

Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu i gychwyn, amddiffyn neu gyfranogi o unrhyw achosion cyfreithiol mewn unrhyw achos lle bo'n angenrheidiol gweithredu yn y fath fodd i gyflawni penderfyniadau'r Cyngor neu mewn unrhyw achos lle bo y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu o'r farn bod camau o'r fath yn angenrheidiol i warchod buddiannau'r Cyngor.

### 13.4 DILYSU DOGFENNAU

Lle bo unrhyw ddogfen yn angenrheidiol i unrhyw weithdrefnau neu achosion cyfreithiol ar ran y Cyngor, caiff ei harwyddo gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a/neu rywun arall a awdurdodir gan y Cyngor, onid oes deddfiad yn awdurdodi neu'n mynnu fel arall. Gweinyddir pob contract yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau.

### 13.5 SÊL GYFFREDIN Y CYNGOR

Cedwir Sêl Gyffredin y Cyngor mewn lle diogel yng ngofal y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu. Bydd penderfyniad gan y Cyngor, neu unrhyw ran ohono, yn awdurdod digonol i selio unrhyw ddogfen sy'n angenrheidiol i weithredu'r penderfyniad. Gosodir y Sêl Gyffredin ar y dogfennau hynny mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr o'r farn y dylid eu selio. Pan osodir y Sêl Gyffredin bydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd , y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr neu rywun arall a awdurdodir gan y Cyngor yn ardystio hynny.

## ERTHYGL 14 – ADOLYGU A DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

### 14.1 DYLETSWYDD I FONITRO AC ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Bydd y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd yn monitro ac yn adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad i sicrhau bod amcanion ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael eu cyflawni'n llawn ac i wneud unrhyw fân welliannau i'r Cyfansoddiad fel bo angen.

**14.2** Un o rolau allweddol y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd yw bod yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau'r Cyfansoddiad a fabwysiedir gan y Cyngor. Bydd y Swyddog Monitro yn cyflawni'n bersonol unrhyw fân newidiadau a gwneud argymhellion ynglŷn â ffyrdd y gellid ei ddiwygio er mwyn cyflawni'r amcanion a geir yn Erthygl 1 yn well. Wrth ymgymryd â'r dasg hon gallai'r Swyddog Monitro:

14.2.1 arsylwi ar gyfarfodydd gwahanol rannau'r strwythur aelodau a swyddogion;

14.2.2 ymgymryd â thrywydd archwilio ar sampl o benderfyniadau;

14.2.3 cofnodi a dadansoddi materion y bydd yr aelodau, y swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn eu codi gyda nhw;

14.2.4 cymharu arferion y Cyngor hwn ag arferion awdurdodau tebyg eraill, neu enghreifftiau cenedlaethol o arferion da.

### 14.3 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

**Newidiadau i adlewyrchu materion deddfwriaethol a strwythurol a mân faterion**

14.3.1 Bydd newidiadau (ac eithrio mân faterion) i'r cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor ar ôl i'r Swyddog Monitro ystyried y cynnig, mewn ymgynghoriad â Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor ar gyfer y Cyfansoddiad, yn ôl yr angen (gweler Adran 2 Rhan 7)

14.3.2 Pan gynigir newid o ffurf o Weithrediaeth gydag Arweinydd a Chabinet, i ffurf o Weithrediaeth gyda Maer neu i'r

gwrthwyneb, rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhesymol i ymgynghori ag etholwyr lleol a phobl eraill sydd â diddordeb yn yr ardal.

## 14.4 CYNNAL Y CYFANSODDIAD

Bydd y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad a bydd yn sicrhau ei fod ar gael yn eang i'r Aelodau, y staff a'r cyhoedd fedru droi ato a'i ddarllen.  Bydd copi o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## ERTHYGL 15 – ATAL, DEHONGLI A CHYHOEDDI’R CYFANSODDIAD

### 15.1 ATAL Y CYFANSODDIAD

Mae’r Erthygl hon yn sicrhau na ellir atal erthyglau’r Cyfansoddiad. Mae hyn yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i agweddau sylfaenol o waith y Cyngor. Mae’n caniatáu, fodd bynnag, i Reolau Gweithdrefn gael eu hatal ar yr amod y byddai hynny’n esgor ar ganlyniadau a fyddai’n gyson â phwrpasau’r Cyfansoddiad fel y nodir yn Erthygl 1.

15.1.1 Ni ellir atal Erthyglau’r Cyfansoddiad hwn. Gall y Cyngor llawn atal Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a nodir isod yn gyfan gwbl neu’n rhannol i’r graddau a ganiateir o fewn y Rheolau hynny a’r ddeddf.

15.1.2 Ni ddylid cyflwyno cynnig i atal unrhyw reolau heb rybudd oni bai fod o leiaf hanner y nifer llawn o Gynghorwyr yn bresennol. Bydd graddau a hyd yr ataliad yn gymesur â’r canlyniad y ceisir ei gyflawni, gan ystyried pwrpasau’r Cyfansoddiad fel y nodir yn Erthygl 1.

15.1.3 Gellir atal unrhyw un o Reolau Gweithdrefn y Cyngor ac eithrio’r rhai sydd wedi eu diffinio’n rhai mandadol yn Rheoliadau’r Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) 1993 yn unol ag Erthygl 15.1.

### 15.2 DEHONGLI

15.2.1 Lle bo’r Cyfansoddiad yn caniatáu i’r Cyngor ddewis rhwng gwahanol gamau gweithredu, bydd y Cyngor yn dewis yr hyn y cred sydd agosaf at y pwrpas a nodir yn Erthygl 1 bob tro.

15.2.2 Ni chaiff dyfarniadau Cadeirydd y Cyngor ynglŷn â chynnwys neu weithrediad y Cyfansoddiad hwn, nac ynghylch unrhyw drafodion eraill parthed y Cyngor hwn, eu herio mewn unrhyw gyfarfod o’r Cyngor. Wrth ei ddehongli yn y fath fodd bydd gofyn ystyried pwrpasau’r Cyfansoddiad fel y nodir yn Erthygl 1 ac unrhyw ganllaw neu gyngor a geir gan y Swyddog Monitro.

15.2.3 Bydd i’r geiriau, yr ymadroddion a’r termau canlynol yr ystyron a roddir iddynt isod onid yw’r cyd-destun yn awgrymu’n wahanol neu onid yw’r ddeddf yn dweud yn wahanol.

| **Gair, ymadrodd neu derm** | **Ystyr** |
|---|---|
| Aelod | Oni nodir fel arall, golyga hyn aelod o bwyllgor neu gorff y mae'r rheol neu'r gofyniad yn berthnasol iddynt |
| Aelodau'r Cabinet | Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac unrhyw Gynghorydd a benodir gan Arweinydd y Cyngor yn unol ag adran 11 (3) (b) Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac a gyhoeddir gan Arweinydd y Cyngor Sir. |
| Arweinydd | Arweinydd y Weithrediaeth fel y diffinnir yn adrannau 11 (2) (A) a 48 Deddf Llywodraeth Leol 2000 |
| Cabinet | Cabinet y Cyngor fel y diffinnir yn adran 11 Deddf Llywodraeth Leol 2000 |
| Cadeirydd | Y sawl a etholir fel Cadeirydd y Pwyllgor neu a benodir fel Cadeirydd is-bwyllgor neu yn ei absenoldeb Is-gadeirydd y cyfryw bwyllgor neu is-bwyllgor lle mae un wedi ei ethol neu ei benodi neu'r sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor. |
| Cod Ymddygiad yr Aelodau | Y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn unol ag adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 |
| Cyfansoddiad | Y cyfansoddiad, fel y'i diwygiwyd |
| Cyfarfod | Cyfarfod o'r Cyngor neu bwyllgor yn ôl yr achos |
| Cyfarfod o'r Cyngor | Y Cyngor yn cwrdd ynghyd yn unol ag Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol | Person sydd wedi'i ddynodi felly gan y Cyngor. |
| Cynghorydd | Aelod o'r Cyngor |
| Cynghorydd (Cynghorwyr) Lleol | Cynghorydd (Cynghorwyr) dros unrhyw ardal(oedd) y mae'r busnes y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn berthnasol iddo. |
| Cyngor | Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu drwy unrhyw ddulliau y gall eu mabwysiadu'n gyfreithiol. |
| Deddf 1972 | Deddf Llywodraeth Leol 1972 |
| Deddf 1989 | Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 |
| Deddf 2000 | Deddf Llywodraeth Leol 2000 |
| Dirprwy Arweinydd | Aelod a ddewisir i ddirprwyo dros Arweinydd y Cyngor |
| Diwrnodau Clir | Nifer y diwrnodau rhwng y diwrnod pan fydd y ddogfen ar gael i'w |

| | |
|---|---|
| | harchwilio neu ei hanfon at y Cynghorwyr a dyddiad y cyfarfod y mae'n berthnasol iddo ond mae'n cynnwys unrhyw ddiwrnodau a ddigwydd rhyngddynt pan fydd y ddogfen ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. |

| **Gair, ymadrodd neu derm** | **Ystyr** |
|---|---|
| Diwrnod Gwaith | Unrhyw ddiwrnod y bydd prif swyddfeydd y Cyngor ar agor fel arfer ac er mwyn gwarchod rhag amwysedd ni fydd yr ymadrodd 'diwrnodau gwaith clir' yn cynnwys y diwrnod y rhoddir rhybudd neu y bydd y dogfennau ar gael ar gyfer eu harchwilio neu eu hanfon at y Cynghorwyr fel y bo'r achos a dyddiad y cyfarfod y mae'n berthnasol iddo. |
| Erthygl | Erthygl o'r Cyfansoddiad hwn |
| Fframwaith Polisi | Y cynlluniau a'r strategaethau y cyfeirir atynt yn Erthygl 4 paragraff 4.1. y Cyfansoddiad |
| Galw i mewn | Cyfeirio penderfyniad gweithredol yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu |
| Grŵp Gwleidyddol | Grŵp gwleidyddol fel y diffinnir gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau (Diwygiad) 1991 a 1993 |
| Grŵp Mwyafrif | Grŵp gwleidyddol y bydd naill ai<br>(a) mwy na hanner aelodau'r Cyngor; neu<br>(b) yn union hanner aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd yn perthyn |
| Gweithiwr | Un o weithwyr y Cyngor |
| Gwybodaeth eithriedig | Gwybodaeth fel y disgrifir yn Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ac yn fwy penodol fel y nodir yn Erthygl 10.4, Dogfen B, Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn (Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth) |
| Gwybodaeth gyfrinachol | Gwybodaeth gyfrinachol fel y diffinnir yn adran 100A(3) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y diwygiwyd ac fel y nodir yn fwy manwl ym Mharagraff 10.4, Dogfen B yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn (Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth) |
| Nifer yr aelodau | O ran y Cyngor, y nifer o bobl a all yn yr amser dan sylw weithredu fel aelodau o'r Cyngor, ac o ran pwyllgor, y nifer o bobl a all yn yr |

| | |
|---|---|
| | amser dan sylw weithredu fel aelodau sy’n pleidleisio o’r corff hwnnw |
| Ombwdsmon | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Penderfyniad y Cabinet | Penderfyniad a wneir er mwyn cyflawni Swyddogaeth Weithrediaeth |

| Gair, ymadrodd neu derm | Ystyr |
|---|---|
| Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig | Swyddog o'r Cyngor a ddynodir felly gan y Cyngor o dan adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 |
| **Gair, ymadrodd neu derm** | **Ystyr** |
| Portffolio Cabinet | Un o feysydd gweithgareddau'r Cyngor Sir a ddyrennir gan Arweinydd y Cyngor i Aelod Cabinet ac a gyhoeddir gan Arweinydd y Cyngor. |
| Prif Swyddog | rhywun a ddynodir felly gan y Cyngor. |
| Prif Weithredwr | Y sawl a benodwyd gan y Cyngor ac a fydd hefyd yn "Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig" o dan Adran 4(1) Deddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989 |
| Pwyllgor | Pwyllgor neu is-bwyllgor o'r Cyngor |
| Pwyllgor Rheoleiddio | Unrhyw bwyllgor gyda swyddogaethau rheoleiddio cydnabyddedig, er enghraifft, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Trwyddedu, Pwyllgor Rheoli Datblygu. |
| Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu | Y pwyllgorau hynny o'r Cyngor a benodir yn unol ag Erthygl 6 |
| Rhaglen Waith i'r Dyfodol | Y cynllun busnes y cytunwyd arno i'w gyhoeddi'n chwarterol, gan nodi'r busnes y bydd y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu'n ymdrin ag ef am gyfnod o 12 mis |
| Rheolau Gweithdrefn Ariannol | Y rheolau a enwir felly yn Rhan  4 y Cyfansoddiad. |
| Rheolau Gweithdrefn y Cabinet | Y rheolau a enwir felly yn Rhan  4 y Cyfansoddiad |
| Rheolau Gweithdrefn Contractau | Y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau a'r Rheolau Caffael a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad |
| Rheolau Gweithdrefn Craffu | Y rheolau a enwir felly yn Rhan  4 y Cyfansoddiad. |
| Rheolau Gweithdrefn Cyflogaeth | Y rheolau a nodir felly yn Rhan 4 y Cyfansoddiad |
| Rheolau Gweithdrefn y Cyngor | Y rheolau a enwir felly yn Rhan 4 y Cyfansoddiad. |

| Gair, ymadrodd neu derm | Ystyr |
|---|---|
| Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi | Y rheolau a enwir felly yn Rhan 4 y Cyfansoddiad. |
| Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth | Y rheolau a enwir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad. |
| Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau | Y cynllun a gyfeirir ato yn Rhan 4 y Cyfansoddiad |
| Sir | Sir Ceredigion |
| Swyddogaeth Gweithrediaeth | Un o swyddogaethau'r Cyngor y bernir ei bod yn swyddogaeth gweithrediaeth yn unol ag adran 13 Deddf Llywodraeth Leol 2000 |
| Swyddog Monitro | Swyddog y Cyngor a ddynodir gan y Cyngor o dan adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 |
| Swyddog Priodol | At bob diben (ac eithrio Cofrestru Sifil a phan nodir fel arall) Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yw'r Swyddog Priodol ac yn ei absenoldeb / ei habsenoldeb, ystyrir mai'r Swyddog Monitro yw'r Swyddog Priodol. |
| Swyddog Statudol | At ddiben y Cyfansoddiad hwn, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro / y Swyddog Priodol, y Prif Swyddog Cyllid (Adran 151), Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ysgrifennu | Caiff y rheidrwydd i gyflwyno rhywbeth yn ysgrifenedig ei ddiwallu drwy gyflwyno e-bost i gyfeiriad sydd wedi ei bennu at y diben hwnnw gan y Swyddog Priodol ar yr amod ei fod yn cael ei drosglwyddo gan y Cynghorydd dan sylw o gyfeiriad e-bost y Cynghorydd hwnnw ac o dan yr amgylchiadau hynny ystyrir ei fod wedi ei lofnodi gan y Cynghorydd dan sylw. |
| Mae unrhyw gyfeiriad yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor at baragraff sydd wedi'i rifo, onid yw'r cyd-destun yn awgrymu'n wahanol, yn gyfeiriad at y paragraff a'r rhif hwnnw yn y Rheol benodol honno. | |

15.2.4 Bydd pob cyfeiriad at unrhyw statudau neu ddarpariaethau statudol yn cynnwys cyfeiriad at y canlynol:

15.2.4.1 y statud neu’r ddarpariaeth statudol honno fel y byddant yn cael eu diwygio, eu hymestyn, eu hailddeddfu neu’u cydgyfnerthu o dro i dro; ac

15.2.4.2 pob offeryn a phob gorchymyn statudol a wneir yn unol â hynny.

15.2.5 Bydd y geiriau hynny sy’n cyfeirio at yr unigol yn unig yn cynnwys y lluosog ac i’r gwrthwyneb hefyd.

15.2.6 Bydd y geiriau hynny sy’n cyfeirio at ryw neu genedl enw neilltuol yn cynnwys y rhyw arall yn ogystal.

15.2.7 Mae’r penawdau sydd yn y ddogfen hon wedi eu gosod er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar gynnwys na dehongliad y Cyfansoddiad hwn.

15.2.8 Bydd cyfeiriadau at weithiwr dynodedig o’r Cyngor yn cynnwys (onid yw’r ddeddf yn dweud bod y swyddogaeth, y weithred neu gyffelyb i’w chyflawni gan y person hwnnw’n unig) rhywun a awdurdodir yn briodol i weithredu dros y person hwnnw neu ar ei ran ar yr amod bod y gweithiwr dynodedig at ddibenion y Cyfansoddiad yn parhau’n atebol i’r Cyngor.

15.2.9 Bernir bod cyfeiriadau at swyddi neu ddynodiadau’n cynnwys y gweithwyr sy’n cyflawni’r swyddogaethau hynny ar y pryd lle bo’r swyddi neu enwau’r dynodiadau wedi eu newid neu mae’r swyddogaethau wedi eu hailddyrannu a lle bo cyfeiriad at deitl cyffredinol (e.e. Cyfarwyddwr Corfforaethol, Swyddog Arweiniol Corfforaethol) bydd y cyfeiriad hwnnw’n cynnwys swyddi eraill beth bynnag yw eu dynodiadau neu eu henwau ac y maent yn cyfateb o ran yr haen reoli neu’r cyfrifoldeb.

15.3 **CYHOEDDI’R CYFANSODDIAD**

15.3.1 Bydd y Swyddog Monitro’n sicrhau bod gan bob aelod o’r Cyngor fynediad at gopi electronig neu gopi printiedig o’r Cyfansoddiad hwn ar ôl iddo gael datganiad o dderbyn swydd yr unigolyn wedi i’r aelod gael ei ethol i’r Cyngor am y tro cyntaf.

15.3.2 Bydd y Swyddog Monitro’n sicrhau bod copïau ar gael i’w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn lleoliadau priodol eraill, bod y ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor a bod aelodau o’r wasg leol a’r cyhoedd yn medru prynu copi am dâl sy’n cynrychioli dim mwy na chost darparu’r copi.

**Atodiad 4**

# RHAN 3
# CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU

Diweddarwyd ym mis Mehefin 2021

# Cynnwys

Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR ....................... *3*
Rhan 3.2 (Tabl 2) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU SY'N YMWNEUD Â DEWIS LLEOL ........................................................................................................... *24*
Rhan 3.3 (Tabl 3) Pwyllgorau'r Cyngor.................................................................... *36*
Rhan 3.4 (Tabl 4) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CABINET..................... *47*
Rhan 3.5 CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION ............................................................ *59*

Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR

| A. **Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu** | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
| **1.** Pŵer i benderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio | Adrannau 70(1)(a) a (b) a 72 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Rheoli Datblygu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Economi ac Adfywio |
| **2.** Pŵer i benderfynu ynghylch ceisiadau i ddatblygu tir heb gydymffurfio â'r amodau a oedd ynghlwm yn flaenorol | Adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **3.** Pŵer i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi ei godi | Adran 73A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **4.** Pŵer i wrthod penderfynu ynghylch cais am ganiatâd cynllunio. | Adran 70A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **5.** Dyletswyddau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio | Adrannau 69, 76 a 92 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Erthyglau 8, 10 hyd 13, 15 hyd 22 a 25 a 26 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefnau Datblygu Cyffredinol) 1995 (S.I. 1995/419) a chyfarwyddiadau a wnaethpwyd o dan y Gorchymyn uchod | | |
| **6.** Pŵer i benderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio a wnaethpwyd gan awdurdod lleol, boed hynny ar ei ben ei hun neu ar y cyd â rhywun arall | Adran 316 of Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (S.I. 1992/1492). | | |

| **Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad** | | | |
|---|---|---|---|
| **A. Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu** | | | |
| **7.** Pŵer i benderfynu, cymeradwyo a chytuno ynghylch materion penodol eraill sy'n ymwneud â gweithredu hawliau datblygu a ganiateir. | Rhannau 6, 7, 11, 17, 19, 20, 21 hyd 24, 30 a 31 Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (S.I. 1995/418). | | |
| **8.** Pŵer i wneud rhwymedigaeth gynllunio, i reoleiddio datblygiad neu ddefnydd tir | Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **9.** Pŵer i roi tystysgrif o ddefnydd cyfreithlon cyfredol neu arfaethedig neu dystysgrif datblygiad cyfreithlon. | Adrannau 191(4) a 192(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **10.** Pŵer i gyflwyno hysbysiad cwblhau | Adran 94(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **11.** Pŵer i roddi caniatâd i arddangos hysbysebion. | Adran 220 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992. | | |
| **12.** Pŵer i awdurdodi mynediad ar dir | Adran 196A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pwyllgor Rheoli Datblygu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| **13.** Pŵer i fynnu bod rhywun yn dirwyn defnydd tir i ben | Adran 102 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **14.** Pŵer i gyflwyno hysbysiad tramgwyddo cynllunio, hysbysiad tor-amod neu hysbysiad atal gwaith. | Adrannau 171C, 187A a 183(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **15.** Pŵer i gyflwyno hysbysiad gorfodi | Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |

| **Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad** | | | |
|---|---|---|---|
| A. **Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
| **16.** Pŵer i gyflwyno cais am waharddeb er mwyn atal tor-amod cynllunio | Adran 187B Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **17.** Pŵer i benderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus a phwerau cysylltiedig. | Adrannau 9(1) a 10 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (c. 10). | | |
| **18.** Dyletswydd i benderfynu pa amodau sy'n briodol i ganiatâd cynllunio ar hen safleoedd mwyngloddio, caniatâd cynllunio perthnasol sy'n ymwneud â safleoedd segur neu weithredol Rhan I neu II, neu ganiatâd mwynau sy'n ymwneud â safleoedd mwyngloddio. | Paragraff 2(6)(a) Atodlen 2 Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, paragraff 9(6) Atodlen 13 Deddf yr Amgylchedd 1995 (c. 25) a pharagraff 6(5) Atodlen 14 y ddeddf honno. | | |
| **19.** Pŵer sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gynnal a chadw tir yn briodol | Adran 215(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **20.** Pŵer i benderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd adeiladau rhestredig a phwerau cysylltiedig. | Adrannau 16(1) a (2), 17 a 33(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (c. 9). | | |
| **21.** Pŵer i benderfynu ynghylch ceisiadau parthed caniatâd ardal gadwraeth | Adran 16(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel bo'n briodol o dan Adran 74(3) y Ddeddf honno. | | |

| Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad | | | |
|---|---|---|---|
| A. **Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
| **22.** Dyletswyddau sy'n ymwneud â cheisiadau ar gyfer caniatâd adeiladau rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth | Adran 13(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Rheoliadau 3 hyd 13 Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) Rheoliadau 1990 a pharagraff 127 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth. | | |
| **23.** Pŵer i gyflwyno hysbysiad cadw adeilad, a phwerau cysylltiedig. | Adrannau 3(1) a 4(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pwyllgor Rheoli Datblygu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Economi ac Adfywio |
| **24.** Pŵer i gyflwyno hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig. | Adran 38 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | | |
| **25.** Pwerau i gaffael adeilad rhestredig sydd mewn cyflwr gwael ac i gyflwyno hysbysiad trwsio . | Adrannau 47 a 48 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | | |
| **26**. Pŵer i gyflwyno cais am waharddeb parthed adeilad rhestredig. | Adran 44A Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | | |
| **27.** Pŵer i ymgymryd â gwaith brys | Adran 54 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | | |
| **28.** Pŵer sy'n ymwneud â gwaith mwynau. | Atodlen 9 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |

| Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad | | | |
|---|---|---|---|
| A. **Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
| **29.** Pŵer sy'n ymwneud â llwybrau troed a llwybrau ceffyl | Adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **30.** Pŵer i gyflwyno tystysgrif datblygiad arall priodol | Adran 17 Deddf Iawndal Tir 1961 (c. 33). | | |
| **31.** Dyletswyddau o ran hysbysiadau prynu. | Adrannau 137-144 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |
| **32.** Pwerau o ran hysbysiadau malltod. | Adrannau 149-171 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | | |

| **Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad** | | | |
|---|---|---|---|
| **B.Swyddogaethau trwyddedu a chofrestru (os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn paragraffau eraill o'r Atodlen hon)** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
| **1.** Pŵer i gyflwyno trwyddedau yn awdurdodi defnyddio tir fel safle carafannau ("trwyddedau safleoedd"). | Adran 3(3) Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (c. 62). | Cyngor | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **2.** Pŵer i drwyddedu defnydd o anheddau symudol a safleoedd gwersylla. | Adran 269(1) Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (c. 49). | | |
| **3.** Pŵer i drwyddedu cerbydau hacnai a cherbydau hurio preifat | (a) o ran cerbydau hacnai, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 (10 & 11 Fict. c. 89), fel yr ymestynnwyd hi gan Adran 171 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875 (38 & 39 Fict. c. 55), ac adran 15 Deddf Trafnidiaeth 1985 (c. 67); ac adrannau 47, 57, 58, 60 a 79 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) (parhad) Darpariaethau) Deddf 1976 (c. 57); (b) ac o ran cerbydau hurio preifat, adrannau 48, 57, 58, 60 a 79 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. | | |
| **4.** Pŵer i roi trwyddedau i yrwyr cerbydau hacnai a cherbydau hurio preifat. | Adrannau 51, 53, 54, 59, 61 a 79 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. | | |
| **5.** Pŵer i drwyddedu cwmnïau cerbydau hacnai a cherbydau hurio preifat | Adrannau 55 to 58, 62 a79 of the Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)1976. | | |

| Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad | | | |
|---|---|---|---|
| **B. Swyddogaethau trwyddedu a chofrestru (os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn paragraffau eraill o'r Atodlen hon)** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
| **6.** Pŵer i gofrestru hyrwyddwyr pwl. | Atodlen 2 Deddf Betio, Hapchwarae a Loteriau 1963 (c. 2). | Cyngor | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **7.** Pŵer i roi trwyddedau betio trac. | Atodlen 3 Deddf Betio, Hapchwarae a Loteriau 1963. | | |
| **8.** Pŵer i roi trwyddedau ar gyfer cynlluniau betio rhwng traciau | Atodlen 5ZA Deddf Betio, Hapchwarae a Loteriau 1963. | | |
| **9.** Pŵer i roi trwyddedau i fangreoedd gadw peiriannau diddanu. | Atodlen 9 Deddf Hapchwarae 1968 (c. 65). | | |
| **10.** Pŵer i gofrestru cymdeithasau sy'n dymuno cynnal loterïau. | Atodlen 1 Deddf Loteriau a Difyrion 1976 (c. 32). | | |
| **11.** Pŵer i roi caniatâd ar gyfer mangreoedd lle darperir peiriannau diddanu gyda gwobrau | Atodlen 3 Deddf Loteriau a Difyrion 1976. | | |
| **12.** Pŵer i roi trwyddedau adloniant | Adran 12 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (c. 12) | | |
| **13.** Pŵer i drwyddedu siopau rhyw a sinemâu rhyw | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)1982, Adran 2 ac Atodlen 3. | | |
| **14.** Pŵer i drwyddedu perfformiadau o hypnotiaeth. | Deddf Hypnotiaeth 1952 (c. 46). | | |
| **15.** Pŵer i gofrestru | Adrannau 13 i 17 | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| mangreoedd ar gyfer | | | |

| Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad | | | |
|---|---|---|---|
| B. **Swyddogaethau Trwyddedu a chofrestru (os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn paragraffau eraill o'r Atodlen hon)** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
| (parhad) aciwbigo, tatwio, rhoi tyllau yn y clustiau ac electrolysis. Pŵer i roi trwyddedau / caniatâd. | (Parhad) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol 1982. | Cyngor | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **16.** Pŵer i drwyddedu cychod a llongau pleser. | Adran 94 Deddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 (c. 53). | | |
| **17.** Pŵer i drwyddedu masnachu ar y stryd ac mewn marchnadoedd. | Rhan III ac Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)1982. | Dirprwywyd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio | |
| **18.** Dyletswydd i gadw rhestr o'r unigolion sydd â'r hawl i werthu gwenwynau anfeddygol | Adrannau 3(1)(b)(ii), 5, 6 a 11 Deddf Gwenwynau 1972 (c. 66). | Pwyllgor Trwyddedu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **19.** Pŵer i drwyddedu'r rheiny sy'n masnachu mewn adar hela a'r modd y cânt eu lladd a'u gwerthu | Adrannau 5, 6, 17, 18 a 21 hyd 23 Deddf Helwriaeth 1831 (c. 32); adrannau 2 hyd 16 Deddf Trwyddedu Helwriaeth 1860 (c. 90), adran 4 Deddf Tollau a Chyllid y Wlad 1883 (c. 10), adran 27 Deddf Llywodraeth Leol 1894 (c. 73), ac adran 213 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (c. 70). | | |
| **20.** Pŵer i gofrestru a thrwyddedu mangreoedd ar gyfer paratoi bwyd | Adran 19 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (c. 16). | | |
| **21.** Pŵer i drwyddedu iardiau sgrap. | Adran 1 Deddf Masnachwyr Metalau Sgrap 1964 (c. 69). | | |
| **22.** Pŵer i roi, i ddiwygio neu i adnewyddu tystysgrifau diogelwch (rhai cyffredinol neu benodol) ar gyfer meysydd chwaraeon. | Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975 (c. 52). | | |

**Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB AM SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad**

**B . Swyddogaethau Trwyddedu a chofrestru (os na chânt eu cynnwys yn unrhyw baragraff arall yr Atodlen hon)**

| Swyddogaeth | Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol | Dirprwywyd i'r | Dirprwywyd ymhellach i'r |
|---|---|---|---|
| **23.** Pŵer i roi, i ganslo, i ddiwygio neu i adnewyddu tystysgrifau diogelwch ar gyfer eisteddleoedd rheoledig mewn meysydd chwaraeon. | Rhan III Deddf Diogelwch Tân a Diogelwch Mannau Chwaraeon 1987 (c. 27). | Pwyllgor Trwyddedu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **24.** Dyletswydd i hyrwyddo diogelwch tân | Adran 6 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (c. 21) | | |
| **25.** Pŵer i drwyddedu mangreoedd ar gyfer magu cŵn. | Adran 1 Deddf Magu Cŵn 1973 (c. 60) ac adran 1 Deddf Magu a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 (c. 11) <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1999/ukpga_19990011_en_1>. | | |
| **26.** Pŵer i drwyddedu siopau anifeiliaid anwes a sefydliadau eraill lle caiff anifeiliaid eu bridio | Adran 1 Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 (c. 35); Adran Sefydliadau Lletya Anifeiliaid | | |
| (parhad) neu eu cadw at bwrpas cynnal busnes. | (parhad) 1963 (c. 43); Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970 (1964 c. 70 a1970 c. 70); adran 1 Deddf Bridio Cŵn 1973 (c. 60), ac adrannau 1 ac 8 Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999. | Pwyllgor Trwyddedu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **27.** Pŵer i gofrestru hyfforddwyr ac arddangoswyr anifeiliaid | Adran 1 Deddf (Rheoleiddio) Anifeiliaid sy'n Perfformio Act 1925 (c. 38). | | |
| **28.** Pŵer i drwyddedu sŵau. | Adran 1 Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 (c. 37) | | |
| **29.** Pŵer i drwyddedu anifeiliaid gwyllt peryglus. | Adran 1 Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (c. 38). | | |

**Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad**

| **B. Swyddogaethau Trwyddedu a chofrestru (os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn paragraffau eraill o'r Atodlen hon)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
| **30.** Pŵer i orfodi rheoliadau o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid | Rheoliad 49 Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 (S.I 1292 (W.127)) | | |
| **31.** Pŵer i drwyddedu cyflogi plant. | Rhan II Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (c. 12), is-ddeddfau a wnaethpwyd o dan y rhan honno a Rhan II Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 (c. 37). | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant; Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | |
| **32.** Pŵer i gymeradwyo mangreoedd ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil. | Adran 46A Deddf Priodasau 1949 (c. 76), adran 6A Deddf Partneriaethau Sifil 2004 (c. 33) a Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Mangreoedd Cymeradwy) 2005 (S. I. 2005/3168). | Swyddog Priodol ar gyfer Cofrestru Sifil (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid) | |
| **33.** Pŵer i gofrestru tir comin neu faes y pentref/ tref heblaw am achosion lle defnyddir y pŵer yn unig ar gyfer— 33(a) cyfnewid tir yr effeithir arno gan orchymyn o dan adran 19(3) , neu baragraff 6(4) Atodlen 3 Deddf Caffael Tir 1981 (c. 67) neu 3(b) gorchymyn o dan adran 147 Deddf Cau Tir 1845 (c. 8 & 9 Fict. c. 118). | Rheoliad 6 Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Tir Newydd) 1969 (S.I. 1969/1843). | Pwyllgor Rheoli Datblygu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| **34.** Pŵer i gofrestru amrywiad hawliau tir comin. | Rheoliadau 29 Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) 1966 (S.I. 1966/1471). | Pwyllgor Rheoli Datblygu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |

**Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad**

**B. Swyddogaethau Trwyddedu a chofrestru (os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn paragraffau eraill o'r Atodlen hon)**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
|---|---|---|---|
| **35.** Pŵer i gyflwyno trwyddedau i gynnal casgliadau elusennol | Adran 68 Deddf Elusennau 1992. | Pwyllgor Trwyddedu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **36.** Pŵer i roi caniatâd i ddefnyddio uchelseinydd. | Atodlen 2 Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 (c. 40) <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1993/ukpga_19930040_en_1>. | | |
| **37.** Pŵer i roi trwydded gwaith ar y stryd | Adran 50 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (c. 22). | Dirprwywyd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | |
| **38.** Dyletswydd i gofrestru symudiadau moch | Rheoliadau 21(3) a(4) Gorchymyn Moch (cofnodion adnabod a symud) (Cymru) 2004 (S.I 2004/996 (W.104). | Pwyllgor Trwyddedu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **39.** Pŵer i weithredu rheoliadau o ran symudiadau moch | Rheoliad 27(1) Gorchymyn Moch (cofnodion adnabod a symud) (Cymru) 2004 /996 (W.104). | | |
| **40.** Pŵer i roddi trwydded i symud gwartheg o farchnad. | Erthygl 5(2) Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998 (S.I. 1998/871). | | |
| **41.** Pŵer i ganiatáu defnyddio rhannau o adeiladau ar gyfer storio seliwloid. | Adran 1 Deddf Selwloid a Ffilmiau Sinematograff 1922 (c. 35). | | |
| **42.** Dyletswydd i weithredu a gorfodi Rheoliadau (EC) Rhif. 852/2004 a 853/2004 o ran busnesau bwyd fel y nodir ymhellach yn rheoliad 5 Rheoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru). | Rheoliad 5 Rheoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006. | Pwyllgor Trwyddedu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |

| | | |
|---|---|---|
| **43.** Swyddogaethau o ran sefydlu Pwyllgor Trwyddedu . | Adran 6 Deddf Trwyddedu 2003 (c. 17). | |

| **Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad** | | |
|---|---|---|
| **C.** Swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith | | |
| Swyddogaethau o dan "ddarpariaethau statudol perthnasol" o fewn ystyr Rhan I (iechyd, diogelwch a lles mewn cysylltiad â gwaith a rheoli sylweddau peryglus) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, i'r graddau y bydd y swyddogaethau hynny'n weithredol oni bai yng nghapasiti'r awdurdod fel cyflogwr | Rhan I Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (c. 37). | Dirprwywyd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |

| Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad | | | |
|---|---|---|---|
| D. **Swyddogaethau sy'n ymwneud ag etholiadau** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | Dirprwywyd ymhellach i'r |
| **1.** Dyletswydd i benodi swyddog cofrestru etholiadol | Adran 8(2A) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (c. 2). | Cyngor | Heblaw am y swyddogaethau a ddirprwywyd i'r Prif Weithredwr |
| **2.** Pŵer i aseinio Swyddogion o ran yr hyn sy'n ofynnol o'r Swyddog Cofrestru. | Adran 52(4) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | | |
| **3.** Pŵer i ddiddymu cynghorau cymuned. | Adran 28 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | |
| **4.** Pŵer i wneud gorchmynion ar gyfer grwpio cymunedau. | Adran 29 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | |
| **5.** Pŵer i wneud gorchmynion ar gyfer diddymu grwpiau a gwahanu cynghorau cymuned oddi wrth grwpiau | Adran 29A Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | |
| **6.** Dyletswyddau i benodi Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol | Adran 35 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | | |
| **7.** Dyletswydd i ddarparu cymorth yn etholiadau Senedd Ewrop | Adran 6(7) a (8) Deddf Etholiadau Seneddol Ewropeaidd 2002. | | |
| **8.** Dyletswydd i rannu'r etholaeth yn ddosbarthau pleidleisio | Adran 18 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | | |
| **9.** Pŵer i rannu adrannau etholiadol yn rhanbarthau pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. | Adran 31 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | | |

| **Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad** | | | |
|---|---|---|---|
| **D. Swyddogaethau sy'n ymwneud ag etholiadau** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | Dirprwywyd ymhellach i'r |
| **10.** Pwerau o ran cynnal etholiadau | Adran 39(4) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | | |
| **11.** Pŵer i dalu treuliau priodol i swyddogion cofrestru etholiadol. | Adran 54 Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | | |
| **12.** Pŵer i lanw swyddi gwag os na fydd enwebiadau | Adran 21 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985. | | |
| **13.** Dyletswydd i ddatgan sedd wag mewn rhai amgylchiadau | Adran 86 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | |
| **14.** Dyletswydd i roi hysbysiad cyhoeddus o swyddi gwag | Adran 87 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | |
| **15.** Pŵer i wneud penodiadau dros dro i gynghorau cymuned | Adran 91 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | |
| **16.** Pŵer i benderfynu ynghylch ffioedd ac amodau ar gyfer darparu copïau neu ddetholiadau o ddogfennau etholiadol. | Rheol 48(3) Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) 1986 (S.I.1986/2214) a rheol 48(3) Rheolau Etholiadau (Plwyfi a Chymunedau) 1986 (S.I. 1986/2215). | Cyngor | Heblaw am y swyddogaethau a ddirprwywyd i'r Prif Weithredwr |
| **17.** Pŵer i gyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol am orchymyn o dan Adran 10 (cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. | Adran 10 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (c. 2). | | |

| **Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad** | | | |
|---|---|---|---|
| **E. Swyddogaethau sy'n ymwneud ag enw a statws ardaloedd ac unigolion** | | | |
| **1.** Pŵer i newid enw sir neu fwrdeistref sirol | Adran 74 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Cyngor | |
| **2.** Pŵer i newid enw cymuned | Adran 76 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | |
| **3.** Pŵer i gyflwyno teitl henadur anrhydeddus neu ganiatáu bod yn henadur anrhydeddus. | Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | |
| **4.** Pŵer i gyflwyno deiseb ar gyfer Siartr i gymeradwyo statws cyngor bwrdeistrefol | Adran 245A Deddf Llywodraeth Leol 1972. | | |
| **F. Pŵer i wneud, diwygio, diddymu neu ailddeddfu is-ddeddfau** | Unrhyw ddarpariaeth o unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys Deddf lleol), pryd bynnag y cafodd ei basio, ac adran 14 Deddf Ddehongli 1978 (c. 300). | | |
| **G. Pŵer i hyrwyddo neu wrthwynebu Mesurau Personol** | Adrannau 52 a 53, Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. | | |
| **H. Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau ac ati** | | | |
| **1.** Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol, ac ati | Rheoliadau o dan Adran 7, 12 neu 24 Deddf Blwydd-daliadau 1972 (c. 11). | Cyngor | |
| 2**.** Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau, lwfansau a rhoddion. | Rheoliadau o dan Adran 18 (3A) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (c. 42). | | |
| **3.** Swyddogaethau o dan gynlluniau pensiwn cyfredol parthed unigolion a gyflogir gan yr awdurdodau tân ac achub yn unol ag Adran 1 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub (parhad) Achub 2004. | Adrannau 34 a 36 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. | | |

| Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyw yd i'r** | **Dirprwyw yd ymhellac h i'r** |
| **I. Swyddogaethau Amrywiol** | | | |
| **1.** Dyletswydd i gymeradwyo datganiad o gyfrifon yr awdurdod, ei fantolen incwm a gwariant a'r cofnod o'r derbyniadau a thaliadau (fel bo'r achos) | Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005. | Cyngor | |
| **2.** Swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd y môr. | Adrannau 1, 2, 10 a 19 Deddf Rheoli Pysgodfeydd y Môr 1966 (c. 38). | | |
| **3.** Pwerau sy'n ymwneud â chadw coed. | Adrannau 197 hyd 214D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 (S.I. 1999/1892). | Pwyllgor Rheoli Datblygu | Swyddog Arweiniol Corfforaet hol : Economi ac Adfywio |
| **4.** Pwerau sy'n ymwneud â diogelu perthi pwysig. | Rheoliadau Gwrychoedd 1997 (S.I. 1997/1160). | | |
| **5.** Pŵer gwneud rheolau sefydlog. | Adran 106, a pharagraff 42 Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Cyngor | |
| **6.** Penodi a diswyddo staff | Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac adrannau 7 ac 8 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. | Cyngor | Wedi ei ddirprwyo i'r Prif Weithred wr a phob swyddog a enwebir gan y Prif Weithred wr yn amodol ar Reolau Cyflogi Swyddogi on |

| Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad | | | |
|---|---|---|---|
| **I. Swyddogaethau Amrywiol** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywyd ymhellach i'r** |
| **7.** Pŵer i wneud rheolau sefydlog o ran contractau | Adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Y Cyngor | |
| **8.** Pŵer i ystyried adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Adran 19 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (c. 10). | Y Cyngor | Swyddog Corfforaethol Arweiniol Polisi a Pherfformiad |
| **9.** Pŵer i wneud gorchymyn a fydd yn pennu lleoliad yn fan cyhoeddus penodedig at bwrpas pwerau'r heddlu o ran yfed alcohol | Adran 13(2) Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001 (c. 16). | Y Cyngor | |
| **10.** Pwerau o ran cofrestru cwmnïau casglu gweddillion | Rhan 1 Deddf Cerbydau (Troseddau) 2001 (c. 3). | Pwyllgor Trwyddedu | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **11.** Pŵer penodi swyddogion at bwrpas penodol (penodi "swyddogion priodol") | Adran 270(3) Deddf Llywodraeth Leol 1972 (c. 42). | Cyngor | |
| **12.** Dyletswydd i ddynodi swyddog fel pennaeth yr awdurdod ar gyfer gwasanaethau cyflogedig, (Parhad) a darparu staff, ac ati. | Adran 4(1) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (c. 42) | | |
| **13. Dyletswydd i ddynodi swyddog yn swyddog monitro ac i** | Adran 5(1) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ddarparu staff ac ati.** | | | |

| **Rhan 3.1 (Tabl 1) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR Parhad** | | | |
|---|---|---|---|
| **I. Swyddogaethau Amrywiol** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth o dan y Ddeddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwywyd i'r** | **Dirprwywywyd ymhellach i'r** |
| **14. Dyletswydd i benderfynu ar derfyn benthyciadau fforddiadwy** | Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003 (c. 22). | | |
| **15.** Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â'r canllawiau | Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 2003. | | |
| **16.** Dyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol | Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (c. 11). | Cyngor | Swyddog Adran 151 |
| **17.** Y pŵer i wneud neu ddiddymu gorchymyn sy'n dynodi ardaloedd lleol yn barthau anhrefn alcohol | Adran 16, Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 (sydd bellach wedi'i diddymu) | Cyngor | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad |
| **18.** Swyddogaethau sy'n ymwneud ag Absenoldeb Teuluol Aelodau'r Awdurdod Lleol | Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 | Cyngor | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: gwasanaethau democrataidd |

**Rhan 3.2 (Tabl 2) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU SY’N YMWNEUD Â DEWIS LLEOL**

| Swyddogaeth | Y corff sy’n gwneud y penderfyniad | Aelodaeth | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|---|
| 1. Unrhyw swyddogaethau o dan Ddeddf Leol heblaw am y swyddogaethau a nodir neu y cyfeirir atynt yn Atodlen 1. | Cabinet | Holl Aelodau’r Cabinet | Dim |
| 2. Penderfynu ynghylch apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaethpwyd gan yr Awdurdod neu ar ei ran. | Y Cyngor | Holl Aelodau’r Cyngor | Heblaw am y swyddogaethau a ddirprwywyd i’r Panel Apêl |
| 3. Swyddogaethau o ran adolygu penderfyniadau a wnaethpwyd mewn cysylltiad â hawliadau am fudd-dal tai neu fudd-dal treth y cyngor ac o ran unrhyw apêl yn erbyn penderfyniadau o’r fath o dan Adran 68 Atodlen 7 Deddf Cynnal Plant, Pensiynau a Nawdd Cymdeithasol 2000 | Cabinet | Holl Aelodau’r Cabinet | |
| 4. Gwneud trefniadau o ran apêl yn erbyn gwahardd disgyblion mewn ysgolion a gynhelir o dan Adran 52 Deddf Addysg 2002. | Cabinet | Holl Aelodau’r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant; Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu; |
| 5. Gwneud trefniadau yn unol ag Adran 94(1), (1A) a (4) ac Atodlen 24 Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998 (apeliadau mynediad). | | | |
| 6. Gwneud trefniadau yn unol ag Adran 95(2) Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998 (plant y mae Adran 87 yn briodol iddynt: apeliadau gan gyrff llywodraethol). | | | |

| Rhan 3.2 (Tabl 2) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU SY'N YMWNEUD Â DEWIS LLEOL (Parhad) | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Y corff sy'n gwneud y penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Dirprwyo Swyddogaethau** |
| 7. Gwneud trefniadau o dan Adran 20 (cwestiynau ynghylch materion yr heddlu yng nghyfarfodydd y Cyngor) Deddf Heddlu 1996 er mwyn caniatáu gofyn cwestiynau parthed cyflawni swyddogaethau awdurdod yr heddlu. | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | |
| 8. Gwneud penodiadau o dan baragraffau 2 hyd 4 (penodi aelodau gan Gynghorau penodol) Atodlen 2 (awdurdodau heddlu a sefydlwyd o dan Adran 3) Deddf yr Heddlu 1996. | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | Cyd-bwyllgor a benodir o dan Baragraff 2(2) Atodlen 2 Deddf yr Heddlu 1996 |
| 9. Cynnal adolygiadau gwerth gorau'n unol â darpariaethau unrhyw orchymyn sy'n effeithiol ar y pryd o dan Adran 5 (adolygiadau gwerth gorau) Deddf Llywodraeth Leol 1999 neu gamau o dan Fesur Gwella Cymru fel bo'n briodol | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Aelodau'r Cabinet, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol |
| 10. Unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â thir halogedig | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol |
| 11. Cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli llygredd neu Ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| 12. Cyflwyno Hysbysiad Atal o ran niwsans statudol | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13. Gwneud penderfyniad y dylai Atodlen 2 Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 fod yn gymwys yn ardal yr awdurdod | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | |

| **Rhan 3.2 (Tabl 2) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU SY'N YMWNEUD Â DEWIS LLEOL (Parhad)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Y corff sy'n gwneud y penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Dirprwyo Swyddogaethau** |
| 14. Arolygu ardal yr awdurdod er mwyn darganfod niwsans statudol | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol |
| 15. Ymchwilio i unrhyw gwynion ynghylch niwsans statudol. | | | |
| 16. Cael gwybodaeth o dan Adran 330 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 o ran buddiannau mewn tir. | | | |
| 17. Cael manylion unigolion sydd â buddiannau mewn tir o dan Adran 16 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol |
| 18. Unrhyw un o'r Swyddogaethau canlynol o ran y priffyrdd - | | | |
| (a) gwneud cytundebau ar gyfer ymgymryd â gwaith ar y priffyrdd. | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol |
| (b) y swyddogaethau sy'n rhan o ddarpariaethau canlynol Rhan III Deddf y Priffyrdd 1980 (Creu Priffyrdd) – | | | |
| (i) Adran 25 – creu llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig trwy gytundeb | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (ii) Adran 26 – pwerau gorfodol ar gyfer creu llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig trwy gytundeb; | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| **Rhan 3.2 (Tabl 2) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU SY'N YMWNEUD Â DEWIS LLEOL (Parhad)** | | | |
| **Swyddogaeth** | **Y corff sy'n gwneud y penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Dirprwyo Swyddogaethau** |
| (c) Y Swyddogaethau sy'n rhan o ddarpariaethau canlynol Rhan V111 Deddf y Priffyrdd 1980 (cau a gwyro priffyrdd ac ati) | | | |
| (i) Adran 116 – pŵer llys yr ynadon i awdurdodi cau neu wyro priffordd; | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| (ii) Adran 117 – cais am orchymyn o dan adran 116 ar ran rhywun arall; | | | |
| (iii) Adran 118 - cau llwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd cyfyngedig | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| (iv) Adran 118ZA – cais am orchymyn diddymu llwybr cyhoeddus | | | |
| (v) Adran 118A - cau llwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd | | | |
| (vi) Adran 118B – cau ffyrdd penodol at bwrpas atal troseddau ac ati; | | | |
| (vii) Adran 118C – cais gan berchennog ysgol am orchymyn cau arbennig; | | | |
| (viii) Adran 119 - gwyro llwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd cyfyngedig; | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (ix) | Adran 119ZA - cais am orchymyn gwyro llwybr cyhoeddus | | | |

| Rhan 3.2 (Tabl 2) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU SY'N YMWNEUD Â DEWIS LLEOL (Parhad) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | | **Y corff sy'n gwneud y penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Dirprwyo Swyddogaethau** |
| (x) | Adran 119A - gwyro llwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd; | | | |
| (xi) | Adran 119B – gwyro priffyrdd penodol at bwrpas atal troseddau ac ati; | | | |
| (xii) | Adran 119C – cais gan berchennog ysgol am orchymyn gwyro arbennig | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| (xiii) | Adran 119D – gwyro priffyrdd penodol ar gyfer diogelu safleoedd sydd o ddiddordeb gwyddonol arbennig | | | |
| (xiv) | Adran 120 – defnyddio pwerau i wneud gorchmynion gwyro a chau llwybrau cyhoeddus; | | | |
| (xv) | Adran 121B – cofrestr o geisiadau; | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (d) y swyddogaethau sy'n rhan o'r darpariaethau canlynol ar gyfer Rhan IX Deddf y Priffyrdd 1980 (ymyrraeth gyfreithiol ac anghyfreithiol â phriffyrdd a strydoedd)- | | | |
| (i) Adran 130 – diogelu hawliau'r cyhoedd; | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| (ii) Adrannau 139 – rheoli sgipiau adeiladwyr;<br>(iii) Adran 140 – symud sgipiau adeiladwyr<br>(iv) Adran 140A(7) – sgipiau adeiladwyr; ffioedd ar gyfer eu rhoi ar y briffordd; | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| (v) Adran 142 – trwydded plannu coed, llwyni ac ati ar y briffordd; | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol |
| (vi) Adran 147 - pŵer i roi awdurdod i godi camfeydd ac ati ar lwybr troed neu lwybr ceffyl;<br>(vii) Adran 147ZA – cytundebau o ran gwelliannau er budd unigolion sydd â phroblemau symudedd; | Cabinet | Holl Aelodau Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio<br><br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal – Gwasanaethau Ymyrraeth wedi'i Thargedu |
| (viii) Adran 149 – gwaredu pethau a gaiff eu gadael ar y briffordd yr ystyrir hwy'n niwsans ac ati | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol,<br>a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (ix) | Adran 169 – rheoli sgaffaldiau ar y brifforddd; | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| (x) | Adran 171 – rheoli'r modd y caiff deunyddiau adeiladu eu gadael a gwaith cloddio yn y stryd | | | |
| (xi) | Adran 171A a rheoliadau a wnaethpwyd o dan yr Adran honno – gwaith o dan Adran 169 neu adran 171: ffi ar gyfer defnyddio'r briffordd | | | |
| (xii) | Adran 172 – hysbysfyrddau i'w gosod yn ystod adeiladu ac ati; | | | |
| (xiii) | Adran 173 – hysbysfyrddau i'w gosod yn ddiogel; | | | |
| (xiv) | Adran 178 – cyfyngiad ar osod rheiliau, trawstiau ac ati dros briffyrdd; | | | |
| (xv) | Adran 179 – rheoli adeiladu selerau ac ati o dan y stryd; | | | |
| (xvi) | Adran 180 – rheoli agoriadau i mewn i selerau ac ati o dan strydoedd, goleuadau ar y palmentydd ac awyriaduron | | | |

| Rhan 3.2 (Tabl 2) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU DEWIS LLEOL (Parhad) | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Y corff sy'n gwneud y penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Dirprwyo Swyddogaethau** |
| (e) arfer Swyddogaethau o dan adran 35 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1982 (gorchmynion pafinoedd calchfaen); ac | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| (f) arfer swyddogaethau o dan adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (dyletswydd i gadw'r map diffiniol a'r datganiad o dan adolygiad parhaus) | | | |
| 19. Penodi unrhyw unigolyn<br>(a) i unrhyw swydd heblaw am y swydd y mae'n gyflogedig ynddi gan yr awdurdod;<br>(b) i unrhyw gorff arall heblaw am —<br>(i) yr awdurdod;<br>(ii) Cyd-bwyllgor o ddau awdurdod neu fwy; neu<br>(c) i unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o gorff o'r fath,<br>a'r gallu i ddiddymu unrhyw benodiad o'r fath | Y Cyngor o ran swyddogaethau'n sy'n ymwneud â'r Cyngor.<br><br>Y Cabinet o ran swyddogaethau sy'n ymwneud â'r Cabinet | Holl Aelodau'r Cyngor neu'r Cabinet lle bo'n briodol | Dim |
| 20. Pŵer i wneud taliadau neu ddarparu unrhyw fuddion eraill mewn achosion o gamweinyddu ac ati | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | Swyddog Monitro o ran taliadau o £1,000 ac is |
| 21. Cyflawni unrhyw swyddogaethau gan awdurdod sy'n gweithredu fel awdurdod harbwr. | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol |

| **Rhan 3.2 (Tabl 2) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU DEWIS LLEOL (Parhad)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Y corff sy'n gwneud y penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Dirprwyo Swyddogaethau** |
| 22. Swyddogaethau o ran cyfrifo sylfaen Treth y Cyngor yn unol ag unrhyw un o'r canlynol —<br>(a) penderfynu ynghylch eitem ar gyfer T yn Adran 33(1) a 44(1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;<br>(b) penderfynu ynghylch swm ar gyfer eitem TP yn adrannau 34(3), 45(3) 48(3) a 48(4) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol Act 1992;<br>(c) penderfynu ynghylch y swm sy'n ofynnol ar gyfer yr eitem y cyfeirir ati ym mharagraff (a) neu (b) uchod. | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | *Dim* |
| 23. Swyddogaethau Trwyddedu'n unol â Rhan 2 Deddf Drwyddedu 2003 ac eithrio Adran 6. | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | Pwyllgor Trwyddedu |
| 24a. Swyddogaethau o ran hapchwarae o dan ddarpariaethau isod Deddf Hapchwarae 2005 –<br>(i) Adran 29 – gwybodaeth yr awdurdod trwyddedu;<br>(ii) Adran 30 – trosglwyddo gwybodaeth arall;<br>(iii) Adran 284 – diddymu eithriad;<br>(iv) Adran 304 – rhai a awdurdodwyd;<br>(v) Adran 346 – erlyniadau gan yr awdurdod trwyddedu;<br>(vi) Adran 350 – trosglwyddo gwybodaeth;<br>(vii) Rhan 5 Atodlen 11 – cofrestru gyda'r awdurdod lleol | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| 24b. Swyddogaethau o ran hapchwarae o dan ddarpariaethau isod Deddf Gamblo 2005 –<br><br>(i) Adran 166 – penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau casino;<br>(ii) Adran 349 – polisi trwyddedu | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| tair blynedd; | | | |
| 24c. Swyddogaethau o ran hapchwarae o dan ddarpariaethau isod Deddf Gamblo 2005 –<br><br>(i) Adran 212 a rheoliadau a wnaethpwyd o dan yr adran honno – ffioedd; | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | |

| Rhan 3.2 (Tabl 2) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU DEWIS LLEOL (Parhad) | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Y corff sy'n gwneud y penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Dirprwyo Swyddogaethau** |
| 25a. Swyddogaethau o ran cymeradwyaeth gan awdurdod lleol o dan adran 51 neu benderfyniad gan awdurdod lleol o dan adran 53, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013<br><br>(i) Adran 41: cynigion i sefydlu ysgolion prif ffrwd<br>(ii) Adran 43: cynigion i derfynu ysgolion prif ffrwd<br>(iii) Adran 44: cynigion i<br>a) sefydlu ysgol arbennig gymunedol newydd<br>b) terfynu ysgol o'r fath | Y Cyngor | Holl Aelodau'r Cyngor | |
| 25b. Swyddogaethau o ran cymeradwyaeth gan awdurdod lleol o dan adran 51 neu benderfyniad gan awdurdod lleol o dan adran 53, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013<br><br>(i) Adran 42: cynigion i newid ysgolion prif ffrwd<br>(ii) Adran 44: cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol arbennig gymunedol<br>(iii) Adran 45: cynigion i newid categori ysgol | Cabinet | Holl Aelodau'r Cabinet | |

**Rhan 3.3 (Tabl 3) Pwyllgorau'r Cyngor**

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Rheoli Datblygu**<br><br>**(21 Aelod)** | Cynllunio a chadwraeth Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu fel y nodir yn Rhan A Tabl 1 uchod, yn ogystal â swyddogaethau o dan eitemau 3 a 4 Rhan I tabl 1 | Gweler Tabl 1(Rhan A) uchod |

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Trwyddedu**<br><br>**(15 Aelod)** | Swyddogaethau Trwyddedu a Chofrestru fel y'u nodir yn Rhan B, Tabl 1 uchod, ynghyd a'r swyddogaethau dan eitem 10, Rhan I, Tabl 1.<br><br>Swyddogaethau Trwyddedu a Swyddogaethau o ran Gamblo fel y'u nodir yn Nhabl 2 uchod, Swyddogaethau 23 a 24.<br><br>Argymell i'r Cyngor ychwanegiadau ac/neu newidiadau i bolisïau o ran swyddogaethau'r Pwyllgor .<br><br>Penderfynu ynghylch atal/dirymu trwyddedau personol yn unol ag adran 132, Deddf Trwyddedu 2003<br><br>Penderfynu ynghylch ceisiadau dadleuol sy'n ymwneud â chaniatáu am y tro cyntaf neu adnewyddu trwyddedau i yrru cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat.<br><br>Penderfynu ynghylch ceisiadau dadleuol ar gyfer caniatáu am y tro cyntaf, neu adnewyddu trwyddedau gweithredwyr. Penderfynu ynghylch ceisiadau dadleuol a cheisiadau i adolygu trwyddedau o dan Ddeddf Drwyddedu 2003 a Deddf Hapchwarae 2005. Penderfynu ynghylch ceisiadau am drwyddedau ar gyfer casglu arian ar y stryd ac o ddrws i ddrws. Atal dros dro, amrywio, diddymu neu wrthod trwyddedau casglu ar y stryd neu o ddrws i ddrws, trwyddedau gyrwyr, trwyddedau cerbydau a gweithredwyr.<br><br>Penderfynu ynghylch ceisiadau dadleuol o dan Gynllun Cofrestru "Gweithredwyr Casglu Gweddillion Cerbydau".<br><br>Gwrando ar sylwadau a phenderfynu ynghylch ceisiadau perthnasol dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013 fel y bo'n briodol.<br><br>Is-bwyllgor Trwyddedu fydd yn penderfynu ynghylch ceisiadau ar gyfer 3 pheiriant gemau neu fwy mewn mangre lle trwyddedir alcohol, neu geisiadau y mae gwrthwynebiad iddynt. | Gweler Tabl 1 (Rhannau B ac I) a Thabl 2 uchod. |

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Moeseg a Safonau**<br><br>**(9 Aelod: 2 Gynghorydd Sir, 2 Gynghorydd Tref a Chymuned a 5 Aelod Annibynnol)** | Fel y nodir yn Erthygl 9 Rhan 2 y Cyfansoddiad | Dim |

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Llywodraetu ac Archwilio**<br><br>**(3 Lleygwr a 6 Chynghorydd Sir - Cyfansoddiad)** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl 2018<br><br><u>Datganiad o Ddiben</u><br>1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol o'r lefel uchaf ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu a safonau ariannol da.<br>2 Diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor llawn a rheoli digonolrwydd y fframwaith rheoli risgiau a'r amgylchedd rheoli mewnol. Mae'n darparu adolygiad annibynnol o fframweithiau llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth y Cyngor ac mae'n goruchwylio'r prosesau adrodd ariannol a'r prosesau llywodraethu blynyddol. Mae'n goruchwylio archwilio mewnol ac archwilio allanol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol wedi'u rhoi ar waith.<br><br><u>Llywodraethu a rheoli risgiau</u><br>3 Cael trosolwg o Gyfansoddiad y Cyngor o ran y canlynol: Rheolau Gweithdrefn Contractau, Rheoliadau Cyllid a'r Cod Ymddygiad.<br>4 Adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y fframwaith moesegol ac ystyried y cod llywodraethu lleol.<br>5 Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo ac ystyried a yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risgiau a sicrwydd ategol yn briodol, gan gymryd i ystyriaeth farn archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith y cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth.<br>6 Ystyried trefniadau'r Cyngor ynghylch sicrhau gwerth am arian gan adolygu'r | Dim |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sicrwydd a'r asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.<br>7 Ystyried fframwaith y Cyngor o ran sicrwydd a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ddigonol.<br>8 Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol trefniadau rheoli risgiau yn y Cyngor.<br>9 Monitro'r cynnydd a wneir wrth fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â risgiau sy'n cael eu hadrodd i'r pwyllgor.<br>10 Ystyried adroddiadau ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol a rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith.<br>11 Adolygu'r asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a'r niwed posibl i'r Cyngor o ran twyll a llygredd.<br>12 Monitro'r strategaeth atal twyll, y camau gweithredu a'r adnoddau<br>13 Adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd o ran partneriaethau neu gydweithio sylweddol, lle bo hynny'n berthnasol.<br>14 Ystyried y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol<br>15 Ystyried Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor.<br>16 Adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor.<br>17 Ystyried Adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau.<br><br><u>Archwilio Mewnol</u><br>18 Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.<br>19 Ystyried cynigion a wneir o ran penodi darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.<br>20 Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol sy'n seiliedig ar risgiau gan gynnwys y gofynion o ran adnoddau archwilio mewnol, y dull o ddefnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd ac unrhyw waith sydd ei angen i ddibynnu ar y ffynonellau eraill hynny. | |

| | | |
|---|---|---|
| | 21 Cymeradwyo newidiadau dros dro sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risgiau a'r gofynion o ran adnoddau.<br>22 Gwneud ymholiadau priodol i'r rheolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol er mwyn penderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.<br>23 Ystyried adroddiadau gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar berfformiad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiad y darparwyr allanol o wasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys:<br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf ar waith archwilio mewnol gan gynnwys y canfyddiadau allweddol, y materion sy'n peri pryder a'r camau gweithredu sydd ar waith o ganlyniad i waith archwilio mewnol.<br>b. Adroddiadau rheolaidd ynglŷn â chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella.<br>c. Adroddiadau ynghylch achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ddigon arwyddocaol bod yn rhaid eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.<br>24 Ystyried adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynglŷn â'r canlynol:<br>d. Datganiad ynghylch y lefel cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn dangos pa mor ddibynadwy yw casgliadau'r archwiliad mewnol.<br>e. Barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith y cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth, ynghyd â chrynodeb o'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwaith sy'n cefnogi'r farn honno - bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.<br>25 Ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn.<br>26 Derbyn adroddiadau sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynglŷn â'r cynnydd a wneir o ran rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd iddynt ar waith.<br>27 Cyfrannu at y rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella ac yn benodol, asesu ansawdd allanol yr archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd.<br>28 Ystyried adroddiad ynghylch effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, pan fo Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gwneud hynny'n ofynnol.<br>29 Cefnogi trefniadau cyfathrebu effeithiol gyda'r pennaeth archwilio.<br>30 Comisiynu gwaith gan Archwilwyr Mewnol<br><br><u>Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr</u><br>31 Ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol, a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.<br>32 Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunwyd gyda'r archwilydd allanol.<br>33 Gwneud sylwadau am gwmpas a manylder y gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian.<br>34 Comisiynu gwaith gan Archwilwyr Allanol.<br>35 Cynghori ac argymell ynghylch effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwilwyr mewnol ac allanol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill.<br>36 Ystyried adroddiadau gan reoleiddwyr allanol (gan gynnwys y canlynol ond nid yn gyfyngedig iddynt: Swyddfa Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Swyddfa Gofrestru | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gyffredinol, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Estyn).<br>37 Ystyried unrhyw Adroddiad a geir gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac ymateb drafft y Cyngor.<br><br><u>Adroddiadau Ariannol</u><br>38 Adolygu’r datganiad cyfrifon blynyddol a’r adroddiadau cysylltiedig. Yn benodol, ystyried a yw’r polisïau cyfrifyddu priodol wedi eu dilyn ac a oes pryderon yn codi o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen eu dwyn at sylw'r Cyngor.<br>39 Ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar faterion sy'n codi o'r archwiliad o'r cyfrifon.<br><br><u>Trefniadau Atebolrwydd</u><br>40 Cyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â chanfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu llywodraethu, rheoli risgiau a fframweithiau rheoli mewnol; trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.<br>41 Rhoi gwybod i'r cyngor llawn am berfformiad y Pwyllgor Archwilio o ran y cylch gorchwyl ac effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei ddiben.<br>42 Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor.<br><br><u>Adroddiadau Perfformiad</u><br>43 Ystyried adroddiad am y gweithgareddau o ran canmoliaethau, cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.<br>44 Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol. | |

| Pwyllgor | Swyddogaethau | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**<br><br>**(6 aelod)** | Cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.<br><br>Cadw golwg ar y ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol ar gyfer dyletswyddau'r swydd.<br><br>Llunio adroddiadau, o leiaf bob blwyddyn, i'r cyngor llawn am y materion hyn.<br><br>Ystyried amseriad cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor.<br><br>Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau. | Dim |
| **Panel Apêl**<br><br>**(3 Aelod o blith carfan o 7 o Aelodau)** | Penderfynu ynghylch apeliadau gan aelodau o'r staff yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ac eithrio'r rheini a gyfeirir atynt yn Rhan 4, Dogfen H. | |
| **Pwyllgor Rhestr Fer**<br><br>**(7 Aelod)** | Llunio rhestr fer o ymgeiswyr cymwysedig ar gyfer Swyddi Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, gan gynnwys cyfweld ymgeiswyr os bydd angen, ar gyfer argymell i'r Cyngor. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor y Gymraeg**<br><br>**(7 aelod)** | Darparu cyfeiriad ar gyfer hybu a hwyluso'r Iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Gall y Pwyllgor fynnu bod unrhyw aelod neu swyddog o'r Cyngor yn bresennol i ateb cwestiynau a gall hefyd wahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.<br><br>Mae’r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am gyflawni’r swyddogaethau canlynol:<br>• Pennu cyfeiriad strategol mewn ymateb i’r Safonau Iaith, sydd wedi’i gosod ar Gyngor Sir Ceredigion gan Gomisiynydd y Gymraeg.<br>• Monitro cynnydd gyda gweithrediad Safonau’r Gymraeg sydd wedi’u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion<br>• Cytuno ar adroddiad blynyddol ar gynnydd wrth gydymffurfio gyda Safonau’r Gymraeg i sylw Comisiynydd yr Iaith Gymraeg<br>• Cymryd rôl weithgar wrth ddatblygu meysydd gwaith allweddol eraill sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Fframwaith Strategol ‘Mwy na Geiriau’; Cynllun Datblygu Lleol.<br>• Derbyn adroddiadau cynnydd ar waith Cered (Menter Iaith Ceredigion) a Theatr Felinfach<br>• Cynnig argymhellion er mwyn hyrwyddo a chynyddu’r defnydd o’r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o waith y Cyngor.<br>• Adolygu gweithrediad Strategaeth Iaith Ceredigion, gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhyw waith partneriaeth neu gydweithio.<br>• Derbyn gwybodaeth / ymgynghoriadau am faterion sy’n ymwneud â’r Gymraeg yn ôl yr angen ac ymateb fel sy’n briodol.<br>• Gwneud argymhellion i'r Cabinet a / neu'r Cyngor fel sy'n briodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor yr Ymddiriedolwyr Elusennol**<br><br>**(10 aelod: 5 aelod sy'n pleidleisio a 5 aelod heb bleidlais)** | Gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer yr holl asedion eiddo ym meddiant y Cyngor drwy ymddiriedolaethau elusennol.<br><br>Penderfynu ynghylch asedau elusennol er pennaf les yr elusennau dan sylw.<br><br>Derbyn adroddiadau ar faterion elusennol a sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Comisiwn Elusennau a chyfraith elusennol fel y bônt yn berthnasol i'r asedau elusennol y mae'r Cyngor yn eu dal drwy ymddiriedolaeth. | |
| **Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu** | Gweler erthygl 6 uchod. | |

**Rhan 3.4 (Tabl 4) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CABINET**

Mae swyddogaethau'r Cabinet yn cynnwys holl swyddogaethau'r Cyngor ac eithrio'r canlynol;

3.4.1 Swyddogaethau'r Cyngor a nodir yn Nhabl 1 uchod;

3.4.2 Nodir y swyddogaethau dewis lleol sydd wedi eu dyrannu i'r Cyngor yn Nhabl 2 uchod;

3.4.3 Swyddogaethau na allant fod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet yn unig fel y nodir yn Erthygl 4.1 Rhan 2 y Cyfansoddiad;

3.4.4 Penderfyniadau posib sy'n gwrthdaro â'r isod;

- cyllideb y Cyngor neu'r cynlluniau benthyca;
- Rheoliadau Ariannol neu reolau sefydlog ariannol;
- strategaeth gyffredinol y Cyngor neu'r fframwaith polisi.

ac mewn achosion o'r fath bydd yn rhaid i'r Cabinet drosglwyddo'r penderfyniad i'r Cyngor ar gyfer penderfynu arno'n derfynol.

3.4.5 O dan Erthygl 7.01 y Cyfansoddiad mae holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldebau i unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny drwy ddeddf neu o dan y Cyfansoddiad, yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r rhan honno'n nodi:

- rôl Aelodau'r Cabinet o fewn eu portffolios perthnasol,
- dyrannu cyfrifoldebau dros wasanaethau i Aelodau Cabinet unigol.
- swyddogaethau Cabinet a ddirprwywyd i Aelodau Cabinet unigol.

| Portffolio | Rôl, Cyfrifoldebau Gwasanaeth a Swyddogaethau |
|---|---|
| **Arweinydd y Cyngor** | **Rôl a chyfrifoldebau'r Arweinydd**<br>a) rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor gan gynnwys:<br>• bod yn brif lefarydd dros y Cyngor<br>• rhoi arweiniad cadarn a chlir o ran datblygu a chydlynu polisïau, strategaethau, cynlluniau a darparu gwasanaethau<br>• argymell i'r Cyngor benodi Aelodau Eiriolwyr<br>b) Penodi'r Cabinet, gan gynnwys:<br>• dewis nifer y Cynghorwyr i wasanaethu ar y Cabinet a'u portffolios perthnasol<br>• dynodi Dirprwy Arweinydd<br>• penderfynu ynghylch y swyddogaethau gweithrediaeth a ddirprwyir i'r Cabinet, pwyllgorau o'r Cabinet, Aelodau Cabinet unigol, Swyddogion, a'r rheiny a wneir drwy gyd drefniadau.<br>c) Darparu arweiniad cymunedol, gan gynnwys;<br>• gweithredu fel arweinydd i'r gymuned leol drwy ddangos a hybu Gweledigaeth, nodau ac amcanion y Cyngor.<br>• rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol wrth ddilyn nodau a blaenoriaethau cyffredin gan gynnwys Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion<br>d) Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol gan gynnwys:<br>• cynrychioli'r Cyngor ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) (gan gynnwys y Pwyllgor Cydlynu ) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)<br>• cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol canlynol:<br>- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Canol Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>- Cyd-gyngor Cymru<br>e) Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet gan gynnwys:<br>• cadeirio cyfarfodydd |

| | |
|---|---|
| | • rheoli gwaith y Cabinet yn effeithiol<br>• sicrhau bod Rhaglen Waith y Cabinet at y dyfodol yn ei lle<br>f) rhoi arweiniad portffolio o ran y canlynol:<br>• Cyflwyno gwasanaethau<br>• Arweiniad Cymunedol<br>• Cyllid a rheoli cyllidebau<br>• Perthynas â'r Gweithwyr<br>• Safonau'r Gymraeg<br>g) Gweithio gydag eraill, gan gynnwys:<br>• cyfranogi o'r penderfyniadau a wneir ar y cyd â'r Cabinet<br>• gweithio gydag Aelodau'r Cabinet, Aelodau Anweithredol a Swyddogion er mwyn sicrhau y gweithredir polisïau'r Cyngor, y fframwaith cyllidebol a'r agenda o wella parhaus fel y gellir sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel o fewn yr adnoddau cyfredol i bobl leol |
| | |

<table>
<tr><th>Holl Aelodau'r Cabinet</th><th>Rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cabinet</th></tr>
<tr><td></td><td>A - Cyffredinol</td></tr>
<tr><td></td><td>a) Rhoi arweiniad o ran eu portffolios gan gynnwys:<ul><li>adrodd i'r Cabinet, yr Arweinydd, y Cyngor a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu parthed y gwasanaethau sydd o fewn y portffolio</li><li>rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol i'r swyddogion sy'n gweithio o fewn y portffolio</li><li>llunio a datblygu cynlluniau, polisïau a strategaethau parthed y gwasanaethau sydd o fewn y portffolio i'w mabwysiadu a'u hadolygu gan y Cyngor</li><li>cysylltu â chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol parthed y gwasanaethau sydd o fewn y portffolio</li><li>meddu ar drosolwg o ran rheoli perfformiad, a pha mor effeithiol ac effeithlon yw'r gwasanaethau sydd o fewn y portffolio</li></ul>b) Gweithio gydag eraill, gan gynnwys:<ul><li>cyfranogi o'r penderfyniadau a wneir ar y cyd yn y Cabinet</li><li>gweithio gydag Arweinydd y Cyngor, Aelodau'r Cabinet, Aelodau Anweithredol a Swyddogion er mwyn sicrhau y gweithredir polisïau'r Cyngor, y fframwaith cyllidebol a'r agenda o wella parhaus fel y gellir sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel o fewn yr adnoddau sydd ar gael i bobl leol</li></ul>c) Cyfrannu tuag at arweiniad cymunedol, gan gynnwys;<ul><li>hybu Gweledigaeth y Cyngor, a'i nodau a'i amcanion o fewn y gymuned</li><li>cynrychioli'r Cyngor ar bartneriaethau strategol lleol a hybu nodau a blaenoriaethau cyffredin</li></ul>d) Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol, fel y'u penodir.</td></tr>
</table>

| | B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios |
|---|---|
| Arweinydd y Cyngor:<br><br>Portffolio Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau | **Gwasanaethau:** Polisi,Perfformiad a Phartneriaethau<br>**Paneli/gweithgorau/fforymau mewnol:** Grŵp Datblygu, Grŵp Ymgynghorol Trawsnewid ac Effeithlonrwydd, Fforwm Corfforaethol y Gweithwyr, Panel Grantiau Adnewyddu Tai, Pwyllgor y Gymraeg a Chydraddoldebau, Bwrdd Rheoli Perfformiad, Panel Gweithredol Rheoli Perfformiad<br><br>**Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau:** Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**,** Is-grŵp Tlodi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Bwrdd Partneriaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Grŵp Cydweithredol Iechyd Canolbarth Cymru, Tyfu Canolbarth Cymru<br>**Cyrff allanol:** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru, Llys Llywodraethwyr Prifysgol Aberystwyth.<br>**Aelod Eiriolwr dros: Cydraddoldeb, Amrywiaeth** |

| | **B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios** |
|---|---|
| Dirprwy Arweinydd y Cyngor:<br><br>Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd | **Gwasanaethau:**Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd<br><br>**Paneli / gweithgorau / fforymau mewnol:** Grŵp Ymgynghorol Trawsnewid ac Effeithlonrwydd, Fforwm Corfforaethol y Gweithwyr, Bwrdd Rheoli Perfformiad, Panel Gweithredol Rheoli Perfformiad, Parhad Busnes**,** Grŵp Rheoli Cynlluniau, Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd yr Amwythig i Aberystwyth<br><br>**Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau:** Cadeirydd Partneriaeth Biosffer Dyfi, Cyd-gyngor Cymru<br><br>**Cyrff Allanol :** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), Cyd-gyngor Cymru, Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW). |

| | B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios |
|---|---|
| Portffolio Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Cymorth ac Ymyrraeth | **Gwasanaethau:** Gwasanaethau Ysgolion,Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Cymorth ac Ymyrraeth<br>**Paneli/gweithgorau/fforymau mewnol:** Grŵp Gorchwyl a Gorffen Premiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi, Panel Grantiau Tai, Grŵp Cynyddu Incwm a Thlodi Tanwydd.<br>**Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau:** Fforwm Darparwyr Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc, Is-grŵp Tlodi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>**Cyrff Allanol:** Pwyllgor Rheoli Pwll Nofio Aberteifi, Home Start Ceredigion, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cyngor Chwaraeon Rhanbarth Ceredigion, Grŵp Rhanddeiliaid Aberteifi – Canolfan Iechyd Integredig, Canolfan Integredig i Blant Aberteifi, Home Start Ceredigion.<br>**Aelod Eiriolwr dros:** Plant a Phobl Ifanc, Mynd i'r afael â Thlodi |

| | **B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios** |
|---|---|
| Portffolio Gwasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd | **Gwasanaethau:** Cyllid a Chaffael Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd<br>**Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau:** Panel Grantiau Adnewyddu Tai, Grŵp Datblygu Cyfalaf, Gweithgor Caniatáu ac Eithrio, Castell Aberteifi a Grŵp Datblygu Ceredigion<br>**Paneli/gweithgorau/fforymau mewnol:** Gweithgor y Cynllun Datblygu Lleol, Grŵp Gorchwyl a Gorffen Premiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi, Panel Grantiau Cymunedol, Grŵp Monitro Cyfalaf, Grŵp Rheoli Argyfyngau a Pharhad Busnes,<br>**Cyrff Allanol:** Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol Castell Aberteifi, Cyngor Chwaraeon Ceredigion |

| | **B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios** |
|---|---|
| Gwasanaethau Porth Cynnal | **Gwasanaethau:** Gwasanaethau Porth Cynnal<br>**Paneli/gweithgorau/fforymau mewnol:** Grŵp Rhianata Corfforaethol, Panel Grantiau Tai, Cynghrair y Gofalwyr, Bwrdd Rhanddeiliaid Cylch Caron, Bwrdd Prosiect Cylch Caron, Grŵp Rhianta Corfforaethol<br>**Partneriaethau/ Cyd-bwyllgorau / Asiantaethau:** Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles<br>**Cyrff Allanol:** Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru (statws sylwedydd)<br>**Aelod Eiriolwr dros**: Anableddau Dysgu, Gofalwyr a Diogelu |

| | B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios |
|---|---|
| Portffolio Porth Cymorth Cynnar | **Gwasanaethau:** Porth Cymorth Cynnar<br>**Paneli/gweithgorau/fforymau mewnol:** Grŵp Cyfeirio'r Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr, Panel Grantiau Tai, Partneriaeth Pobl Hŷn Ceredigion a'r Grŵp Cynyddu Incwm a Thlodi Tanwydd, Grŵp Rheoli Carbon.<br>**Partneriaethau/ Cyd-bwyllgorau / Asiantaethau:** Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl, Grŵp Cynyddu Incwm a Thlodi Tanwydd, Grŵp Cyfeirio'r Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr, Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd yr Amwythig i Aberystwyth, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl; Grŵp Cefnogi Parc Natur Penglais, Partneriaeth Biosffer Dyfi<br>**Cyrff Allanol:** Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda**,** Grŵp Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Hywel Dda (fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles), Fforwm 50+ Ceredigion, Bwrdd Rheoli Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru (statws sylwedydd), Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, Fforwm Awdurdodau Lleol Di-Niwclear Cymru<br>**Aelod Eiriolwr dros**: Pobl Hŷn, 50+, Anableddau Dysgu, Cynaliadwyedd |

| | **B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios** |
|---|---|
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tai a Chyswllt Cwsmeriaid | **Gwasanaethau:** Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tai a Chyswllt Cwsmeriaid<br>**Paneli/gweithgorau/fforymau mewnol:** Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr, Pwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbwr, Pwyllgorau Ymgynghorol Rheoli Traffig, Grŵp Caffael, Grŵp Cyfeirio'r Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr, Grŵp Strategaeth Gwastraff.<br>**Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau:** Partneriaeth Gwastraff Canolbarth Cymru, Cydweithrediad Seilwaith Canolbarth Cymru, Trafnidiaeth Canolbarth Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Fforwm Mynediad Lleol, Dyfodol Cynaliadwy, Grŵp Arfordirol Bae Ceredigion, Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd yr Amwythig i Aberystwyth, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Partneriaeth Biosffer Dyfi, Grŵp Cydweithredol Gwastraff Sir Benfro, Bwrdd Rheoli Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru. |

| | B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios |
|---|---|
| Portffolio Economi ac Adfywio | **Gwasanaethau:** Economi ac Adfywio<br><br>**Paneli /gweithgorau/ fforymau mewnol:** Grŵp Rheoli Asedau, Grŵp Ymgynghorol Trawsnewid ac Effeithlonrwydd, Gweithgor y Cynllun Datblygu Lleol, Grŵp Datblygu, Partneriaeth Tai Strategol, Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd yr Amwythig i Aberystwyth, Grŵp Rheoli Carbon<br><br>**Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau:** Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd (BGC), TraCC, Cynnal y Cardi, Fforwm Mynediad Lleol, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Cadeirydd Grŵp Cydweithredol Seilwaith Canolbarth Cymru, Partneriaeth Biosffer Dyfi<br><br>**Cyrff Allanol:** Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru (statws sylwedydd), Bwrdd Ymddiriedolwyr Cadwgan, Pwyllgor Gweithredol Menter Aberteifi, Bwrdd Ardal Gwella Busnes Advancing Aberystwyth ar y Blaen, Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, Grŵp Arfordirol Bae Ceredigion<br>**Aelod Eiriolwr dros**: Bioamrywiaeth |

**Rhan 3.5 CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION**

**Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cyngor a'r Cabinet – Terfynau eithaf dirprwyo**

Mae'r cynllun hwn yn dirprwyo rhai o swyddogaethau neilltuol y Cyngor a'r Cabinet i swyddogion a dylid ei ddehongli yn yr ystyr ehangaf yn hytrach nag yn gyfyng. Mae iddo dair o isadrannau:

- A – Dirprwyo i Swyddogion – Amodau Cyffredinol
- B – Dirprwyo Cyffredinol i'r Prif Weithredwr, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol
- C – Dirprwyo i'r Prif Weithredwr, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig
- D – Dirprwyo i'r Swyddog Monitro
- E – Dirprwyo i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
- F – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
- G – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
- H – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio
- I – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar
- J – Dirprwyo yng nghyswllt y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu (Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)
- K - Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant (Prif Swyddog Addysg)
- L – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151 / Prif Swyddog Cyllid)
- M – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid
- N – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth

AR YR AMOD bob tro bod y penderfyniad:

a) o fewn cyllideb y Cyngor neu'i gynlluniau benthyca;
b) o fewn strategaeth gyffredinol y Cyngor neu'i fframwaith polisi;
c) o fewn y Rheoliadau Ariannol a'r Gweithdrefnau Ariannol Cysylltiedig ac
d) heb fod yn fater a neilltuir yn benodol i'r Cyngor Llawn, Pwyllgor o'r Cyngor, y Cabinet, Swyddog Statudol, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol neu'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol

**Atodiad 5**

# DETHOLIAD O RAN 3

# CYFRIFOLDEB AM SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR

Diwygiadau arfaethedig i'w mewnosod yn y Cyfansoddiad ar 5 Mai 2022, i gydymffurfio â diwygiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a ddaw i rym o 5 Mai 2022

| **Pwyllgor** | **Swyddogaethau** | **Dirprwyo**<br><br>**Swyddogaethau** |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**<br><br>**(3 Lleygwr a 6 Chynghorydd Sir - cyfansoddiad 1/3 Lleygwr)** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl 2018<br><br>…..<br><br>Llywodraethu a Rheoli Risgiau …<br>18. Ystyried Adroddiad Asesu Perfformiad Panel y Cyngor ac ymateb drafft y Cyngor.<br><br>….. | Dim |

**Atodiad 6**

Dogfen A

# RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Awdur a gwasanaeth:
Dyddiad cymeradwyo'r Cyngor: 19 Mawrth 2019
Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad adolygu:

# Cynnwys


1. CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR....3

2. CYFARFODYDD CYFFREDIN....4

3. CYFARFODYDD ARBENNIG....5

4. AMSER A LLE'R CYFARFODYDD....5

5. RHYBUDD A GWŶS I GYFARFODYDD....5

6. CADEIRYDD CYFARFOD....5

7. CWORWM....6

8. AMSERIAD EITEMAU BUSNES....6

9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU....6

10. CYNIGION GYDA RHYBUDD....7

11. CYNIGION HEB RYBUDD....9

13. PENDERFYNIADAU A CHYNIGION BLAENOROL....13

14. PLEIDLEISIO....14

15. COFNODION....15

16. COFNOD PRESENOLDEB....15

17. GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD....16

18. CAU ALLAN Y CYHOEDD....16

19. YMDDYGIAD YR AELODAU....16

20. AFLONYDDWCH GAN Y CYHOEDD....17

21. ATAL A NEWID RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR....17

22. CEISIADAU I BWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU....17

23. GWYBODAETH GAN SWYDDOGION....17

24 PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU - CWORWM **Error! Bookmark not defined.**

## 1. CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

### 1.1 AMSERIAD A BUSNES

Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin i ddewis Cynghorwyr cynhelir y cyfarfod blynyddol o fewn 21 o ddiwrnodau wedi ymddiswyddiad y Cynghorwyr sy’n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, cynhelir y cyfarfod blynyddol ar ddyddiad ym mis Mai sydd i’w gytuno gan y Cyngor.

Bydd y cyfarfod blynyddol yn gwneud fel a ganlyn:

1.1.1 ethol rhywun i lywyddu os nad yw Cadeirydd y Cyngor yn bresennol;

1.1.2 ethol Cadeirydd y Cyngor;

1.1.3 derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol neu fuddiannau sy’n rhagfarnu;

1.1.4 ethol Is-gadeirydd y Cyngor;

1.1.5 cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;

1.1.6 derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth y Cadeirydd, ac/neu Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig;

1.1.7 derbyn anerchiad gan Arweinydd y Cyngor;

1.1.8 cael clywed gan yr Arweinydd enwau’r Cynghorwyr y mae ef/hi wedi eu dewis i fod yn Aelodau o’r Cabinet;

1.1.9 penodi o leiaf un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, Pwyllgor Moeseg a Safonau a pha bynnag Bwyllgorau eraill mae’r Cyngor yn ystyried sy’n briodol i ymdrin â materion nad ydynt yn rhai sy’n cael eu cadw i’r Cyngor nac yn swyddogaethau i’r Cabinet (fel y nodir yn Rhan 3 Tabl 1 y Cyfansoddiad hwn);

1.1.10 penderfynu ynghylch maint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny

1.1.11 penderfynu pa Bwyllgorau i’w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol;

1.1.12 penderfynu ynghylch dyraniad y seddau i grwpiau gwleidyddol yn unol â’r rheolau sy’n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol

1.1.13 derbyn enwebiadau o ran y Cynghorwyr a fydd yn gwasanaethu ar bob Pwyllgor ac ar gyrff allanol ac eithrio lle bo penodiadau i’r cyrff hynny wedi eu dirprwyo gan y Cyngor neu na all neb ond y Cabinet eu gwneud;

1.1.14 penodi i’r Pwyllgorau hynny a’r cyrff allanol; ac

1.1.15 cytuno ynghylch y rhannau o’r cynllun dirprwyo y mae’r Cyfansoddiad yn pennu mai lle’r Cyngor yw cytuno yn eu cylch (fel y nodir yn Rhan 3 Tabl 3 y Cyfansoddiad hwn);

1.1.16 cymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor am y flwyddyn;

ac

1.1.17 ystyried unrhyw fater a nodir yn y rhybudd sy'n galw'r cyfarfod.

## 2. CYFARFODYDD CYFFREDIN

Cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn unol â'r rhaglen a benderfynir yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Bydd cyfarfodydd cyffredin yn gwneud fel a ganlyn:

2.1 ethol rhywun i lywyddu os nad yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn bresennol (ni ddylai'r unigolyn hwn fod yn aelod o'r Cabinet);

2.2 derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu gan yr aelodau yn unol â Chod Ymddygiad yr aelodau;

2.3 cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn rhai cywir;

2.4 derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth y Cadeirydd, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, yr Arweinydd ac/neu Aelodau Cabinet;

2.5 delio ag unrhyw fusnes o gyfarfod diwethaf y Cyngor.

2.6 derbyn adroddiadau oddi wrth y Cabinet a Phwyllgorau'r Cyngor a derbyn cwestiynau, atebion ac unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r adroddiadau hynny;

2.7 derbyn adroddiadau a chwestiynau ac atebion ynglŷn â threfniadau ar y cyd a sefydliadau allanol;

2.8 ystyried cynigion y rhoddwyd rhybudd amdanynt;

2.9 unrhyw fater arall a nodir yn y wŷs i'r cyfarfod, gan gynnwys ystyried cynigion oddi wrth y Cabinet ynghylch cyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor.

2.10 ethol Cadeiryddion ac is-gadeiryddion y Pwyllgorau os bydd swyddi gwag yn codi ganol y tymor

2.11 penodi aelodau i lenwi swyddi gwag ar Bwyllgorau.

## 3. CYFARFODYDD ARBENNIG

### 3.1 GALW CYFARFODYDD ARBENNIG

Gall y rhai hynny a restrir isod ofyn i'r Swyddog Priodol alw cyfarfodydd o'r Cygnor yn ychwanegol at y cyfarfodydd cyffredin:

3.1.1 y Cyngor drwy benderfyniad;
3.1.2 Cadeirydd y Cyngor;
3.1.3 Yr Arweinydd;
3.1.4 Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig;
3.1.5 Y Swyddog Monitro; ac
3.1.6 unrhyw bum aelod o'r Cyngor os ydynt wedi llofnodi cais a gyflwynwyd i Gadeirydd y Cyngor.

### 3.2 BUSNES

Ni ddylid ystyried unrhyw fusnes mewn unrhyw Gyfarfod Arbennig heblaw am yr hyn a nodir yn y rhybudd sy'n galw'r cyfarfod a dylid amgáu copi o unrhyw adroddiadau a fwriedir ar gyfer y cyfarfod gydag ef.

## 4. AMSER A LLE'R CYFARFODYDD

Penderfynir ynghylch amser a lle'r cyfarfodydd gan y Swyddog Priodol a nodir hynny yn y wŷs.

## 5. RHYBUDD A GWŶS I GYFARFODYDD

Bydd y Swyddog Priodol yn rhoi rhybudd i'r cyhoedd ynghylch amser a lle unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth. O leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod, bydd y Swyddog Priodol naill ai'n anfon gwŷs wedi ei harwyddo ganddo ef neu ganddi hi drwy'r post neu ar e-bost at bob aelod o'r Cyngor neu bydd yn ei gadael yn eu trigfan arferol. Bydd y wŷs yn rhoi dyddiad, amser a lle pob cyfarfod a bydd yn manylu ynghylch y busnes sydd i'w drafod, ac amgaeir pa adroddiadau bynnag sydd ar gael.

## 6. CADEIRYDD CYFARFOD

Gall y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau sy'n perthyn i Gadeirydd. Lle bo'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd

Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau, mae cyfeiriadau at y Cadeirydd hefyd yn cynnwys Cadeirydd Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau.

**7. CWORWM**

Ac eithrio'r hyn a nodir yn Erthygl 8.2.1 (gweler Rhan 2 y Cyfansoddiad) o ran y Pwyllgor Rheoli Datblygu, cworwm cyfarfod fydd chwarter cyfanswm aelodau'r cyfarfod hwnnw. Yn ystod unrhyw gyfarfod os bydd y Cadeirydd yn cyfrif nifer yr aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Ystyrir y busnes sy'n weddill ar adeg a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os nad yw ef/hi yn pennu dyddiad, ystyrir y busnes sy'n weddill yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

**8. AMSERIAD EITEMAU BUSNES**

Os nad yw eitem o fusnes wedi dod i ben o fewn awr o ddechrau'r drafodaeth, gall y Cadeirydd dynnu sylw at y ffaith a gall alw am bleidlais ar yr eitem dan sylw ar unwaith. Yna bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn y modd arferol heb ragor o drafod.

**9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**

**9.1 ADRODDIADAU'R CABINET NEU'R PWYLLGORAU**

Gall aelod o'r Cyngor ofyn unrhyw gwestiwn yn ddirybudd i'r Arweinydd neu Gadeirydd Pwyllgor ynglŷn ag unrhyw eitem o adroddiad y Cabinet neu Bwyllgor, pan fo'r eitem honno yn cael ei derbyn neu o dan ystyriaeth gan y Cyngor.

**9.2 CWESTIYNAU Y RHODDIR RHYBUDD YNGLŶN Â HWY YN Y CYNGOR LLAWN**

Yn amodol ar Reol 9.4, gall aelod o'r Cyngor ofyn cwestiwn i'r isod:

- Cadeirydd y Cyngor;
- Yr Arweinydd ac/neu aelod o'r Cabinet; neu
- Cadeirydd unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor
- cwestiwn ynghylch unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ymwneud â hwy neu sy'n effeithio ar Geredigion.

### 9.3 CWESTIYNAU Y RHODDIR RHYBUDD YNGLŶN Â HWY MEWN PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

Yn amodol ar Reol 9.4. gall aelod o Bwyllgor neu Is-bwyllgor ofyn cwestiwn i'r Cadeirydd ar unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau mewn perthynas ag ef sy'n effeithio ar Geredigion ac sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor hwnnw.

### 9.4 RHYBUDD O GWESTIYNAU

Ni all aelod ofyn cwestiwn o dan Reol 9.2 neu 9.3 onid yw:

9.4.1 wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig o bum diwrnod gwaith o leiaf ynglŷn â'r cwestiwn i'r Swyddog Priodol; neu

9.4.2 mae'r cwestiwn yn ymwneud â mater brys ac mae wedi cael caniatâd gan y Cadeirydd y bwriedir cyflwyno'r cwestiwn iddo a rhoddir cynnwys y cwestiwn i'r Swyddog Priodol erbyn 1.00pm y diwrnod cyn y cyfarfod.

### 9.5 YMATEB

Gall ateb fod ar ffurf:

9.5.1 ateb uniongyrchol ar lafar;

9.5.2 lle bo'r wybodaeth y dymunir ei chael yn un o gyhoeddiadau'r Cyngor neu waith arall sydd wedi ei gyhoeddi, gellir cyfeirio at y cyhoeddiad hwnnw; neu

9.5.3 os na ellir rhoi'r ateb yn gyfleus ar lafar, gellir rhoi ateb ysgrifenedig a gaiff ei ddosbarthu yn ddiweddarach i'r holwr.

### 9.6 CWESTIWN ATODOL

Gall aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan Reol 9.2 neu 9.3 ofyn un cwestiwn atodol heb roi rhybudd i'r aelod y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo. Mae'n rhaid i'r cwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb.

## 10. CYNIGION GYDA RHYBUDD

### 10.1 RHYBUDD

Heblaw am gynigion y gellir eu cynnig heb rybudd o dan Reol 11, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o bob cynnig, wedi ei lofnodi gan o leiaf 2 aelod (cynigydd

ac eilydd) i'r Swyddog Priodol (at y dibenion hyn, y Swyddog Monitro) erbyn 5.00pm 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf.  Cofnodir y rhain mewn cofnod sy'n agored i'r cyhoedd ei archwilio. Ni chaiff unrhyw gynnig a gyflwynir drwy rybudd ei drafod yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

**10.2 CYNNIG A GYFLWYNIR YN YR AGENDA**

Rhestrir cynigion y rhoddwyd rhybudd ynglŷn â hwy ar yr agenda yn y drefn y derbyniwyd y rhybudd, oni fydd yr aelod sy'n rhoi'r rhybudd yn nodi, yn ysgrifenedig, ei fod ef /ei bod hi yn bwriadu ei symud i gyfarfod diweddarach neu ei dynnu'n ôl.

Gall unrhyw aelodau o'r Cyngor gyflwyno rhybudd o un cynnig yn unig i'w ystyried mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor.

**10.3 CWMPAS**

Mae'n rhaid i gynigion fod ynghylch materion y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb amdanynt ac sy'n effeithio'n sylweddol ar ardal weinyddol Ceredigion.

**10.4 Diwygiadau i Gynigion**

Rhaid i'r Swyddog Priodol gael diwygiadau ysgrifenedig i'r Rhybuddion o Gynnig heb fod yn hwyrach na 5pm, 2 ddiwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Cyngor, wedi'u llofnodi gan y Cynigydd a'r Eilydd a chânt eu cylchredeg ar ffurf ysgrifenedig i bob aelod yng nghyfarfod y Cyngor. Caniateir diwygiadau llafar yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. Rhaid i gynnig o dan Reol 10 neu rybudd o gynnig i ddiwygio gael ei wneud a'i eilio yn ffurfiol yn y cyfarfod perthnasol. Yn absenoldeb y cynigydd neu'r eilydd a gofnodwyd, caiff aelod arall gynnig neu eilio'r cynnig neu'r diwygiad i'r cynnig. Os na wneir y cynnig neu os na chaiff ei eilio, bydd yn cael ei drin fel pe bai wedi'i dynnu'n ôl.

## 11. CYNIGION HEB RYBUDD

Gall y cynigion canlynol gael eu cynnig heb rybudd:

11.1 penodi Cadeirydd y cyfarfod y mae’r cynnig i gael ei gynnig ynddo;
11.2 mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;
11.3 newid trefn busnes yn yr agenda;
11.4 cyfeirio rhywbeth at gorff neu unigolyn priodol;
11.5 penodi Pwyllgor neu aelod yn deillio o eitem sydd ar y wŷs ar gyfer y cyfarfod;
11.6 derbyn adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion Pwyllgorau neu swyddogion ac unrhyw benderfyniadau sy’n codi yn eu sgil;
11.7 tynnu cynnig yn ôl;
11.8 diwygio cynnig;
11.9 symud ymlaen at y busnes nesaf;
11.10 bod y cwestiwn yn cael ei gyflwyno yn awr;
11.11 gohirio dadl;
11.12 gohirio cyfarfod;
11.13 atal un o reolau gweithdrefn neilltuol y Cyngor;
11.14 cau’r cyhoedd a’r wasg allan yn unol â’r Rheolau Mynediad at Wybodaeth;
11.15 peidio â gwrando rhagor ar aelod a enwir o dan Reol 18.3 neu ei gau allan o’r cyfarfod o dan Reol 18.4; ac
11.16 rhoi caniatâd y Cyngor lle mae angen ei ganiatâd o dan y Cyfansoddiad hwn.

## 12 RHEOLAU DADLEUON

### 12.1 DIM AREITHIAU HYD NES BYDD CYNNIG WEDI EI EILIO

Ni ellir gwneud unrhyw areithiau wedi i’r cynigydd wneud cynnig ac wedi egluro ei bwrpas a hyd nes bydd y cynnig wedi ei eilio. Cynigydd y cynnig fydd â’r hawl i wneud yr araith gyntaf ynghylch y cynnig.

### 12.2 HAWL I OFYN AM Y CYNNIG YN YSGRIFENEDIG

Oni bai fod rhybudd o’r cynnig wedi ei roi’n barod, gall y Cadeirydd ei gwneud hi’n ofynnol iddo gael ei ysgrifennu a’i drosglwyddo iddo ef/iddi hi cyn iddo gael

ei drafod.

**12.3 ARAITH YR EILYDD**

Wrth eilio cynnig neu welliant, gall aelod gadw ei araith tan yn ddiweddarach yn y ddadl.

**12.4 CYNNWYS A HYD AREITHIAU**

12.4.1 Mae'n rhaid i areithiau ymwneud â'r cwestiwn sy'n cael ei drafod neu esboniad personol neu bwynt o drefn.

12.4.2 Ni all araith fod yn fwy na phum munud heb ganiatâd y Cadeirydd.

**12.5 PAN ALL AELOD SIARAD ETO**

Ni all aelod sydd wedi siarad ar gynnig siarad eto tra bo'n destun trafodaeth, ac eithrio'r isod:

12.5.1 i siarad unwaith ar welliant a gynigir gan aelod arall;

12.5.2 i gynnig gwelliant pellach os yw'r cynnig wedi ei ddiwygio ers iddo ef/iddi hi siarad ddiwethaf;

12.5.3 os oedd ei araith gyntaf ef/ei haraith gyntaf hi ar welliant a gynigiwyd gan aelod arall, i siarad ar y prif bwnc (p'run ai a gafodd y gwelliant y siaradodd ef/hi amdano ei dderbyn ai peidio);

12.5.4 i arfer hawl i ateb;

12.5.5 ar bwynt o drefn; ac

12.5.6 fel esboniad personol.

**12.6 GWELLIANNAU I GYNIGION**

12.6.1 Mae'n rhaid i welliant i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig ac fe'i gwneir naill ai:

12.6.1.1 i gyfeirio'r mater at gorff neu unigolyn priodol i'w ystyried neu ei ailystyried;

12.6.1.2 i ddileu geiriau;

12.6.1.3 i ddileu geiriau ac i roddi neu ychwanegu rhai eraill; neu

12.6.1.4 i roi neu ychwanegu geiriau;

12.6.1.5 i roi cynnig arall yn lle'r cynnig

cyn belled na fydd 12.6.1.2 hyd 12.6.1.4 uchod yn negyddu'r

cynnig.

12.6.2 Caiff gwelliannau i gynigion eu galw gan y Cadeirydd mewn trefn i'w phenderfynu gan y Cadeirydd gan ymgynghori â'r Swyddog Monitro, er mwyn hwyluso trafodaeth ystyrlon a lle bo hynny'n bosibl, i ganiatáu pleidlais ar bob gwelliant. Caiff pob gwelliant ei gynnig a'i eilio ac yna ei roi i'r bleidlais yn y drefn a benderfynir gan y Cadeirydd.

12.6.3 Os bydd gwelliant yn cael ei dderbyn, yna bydd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Hwnnw wedyn fydd y prif gynnig y cynigir unrhyw welliannau pellach iddo.

**12.7 NEWID CYNNIG**

12.7.1 Gall aelod newid cynnig y mae ef/hi wedi rhoi rhybudd ynglŷn ag ef gyda chaniatâd y cyfarfod. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei lofnodi heb drafodaeth.

12.7.2 Gall aelod newid cynnig y mae ef/hi wedi ei gynnig heb rybudd gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd.

12.7.3 Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel gwelliannau'n unol â 12.6.1 y gellir eu gwneud.

**12.8 TYNNU CYNNIG YN ÔL**

Gall aelod dynnu cynnig y mae ef/hi wedi ei gynnig yn ôl gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei lofnodi heb drafodaeth. Ni all unrhyw aelod siarad ar y cynnig ar ôl i'r cynigydd ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl, oni bai fod caniatâd yn cael ei wrthod.

**12.9 HAWL I ATEB**

12.9.1 Mae gan gynigydd hawl i ateb ar ddiwedd y ddadl ynghylch y cynnig, yn union cyn iddo gael ei roi i'r bleidlais.

12.9.2 Os cynigir gwelliant, mae gan gynigydd y cynnig gwreiddiol hawl i ateb ar ddiwedd y ddadl ynghylch y gwelliant, ond ni chaiff siarad ynglŷn ag ef fel arall.

12.9.3 Nid oes gan gynigydd y gwelliant unrhyw hawl i ateb i'r ddadl ynghylch ei welliant ef ei hun/ei gwelliant hi ei hun.

12.9.4 Ni all aelod siarad ar ôl pleidlais ar gynnig ac eithrio ar bwyntiau o drefn sy'n berthnasol iddo.

**12.10 CYNIGION Y GELLIR EU CYNNIG YN YSTOD DADL**

Pan fo cynnig yn cael ei drafod, ni ellir cynnig unrhyw gynnig arall ac eithrio'r cynigion gweithdrefnol canlynol:

12.10.1 tynnu cynnig yn ôl;

12.10.2 diwygio cynnig "heb rybudd";

12.10.3 symud ymlaen at y busnes nesaf;

12.10.4 bod y cwestiwn yn cael ei gyflwyno yn awr;

12.10.5 gohirio dadl;

12.10.6 gohirio cyfarfod;

12.10.7 cau allan y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth; ac

12.10.8 peidio â chlywed rhagor gan aelod a enwir o dan Reol 18.3 neu ei gau allan o'r cyfarfod o dan Reol 18.4.

**12.11 CYNIGION CAU**

12.11.1 Gall aelod gynnig, a hynny heb roi sylwadau, y cynigion canlynol ar ddiwedd araith aelod arall:

12.11.1.1 symud ymlaen at y busnes nesaf;

12.11.1.2 bod y cwestiwn yn cael ei gyflwyno yn awr;

12.11.1.3 gohirio dadl; neu

12.11.1.4 gohirio cyfarfod.

12.11.2 Os yw cynnig i symud ymlaen at y busnes nesaf yn cael ei eilio ac mae'r Cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, bydd ef neu hi yn rhoi hawl i ateb i'r cynigydd gwreiddiol ac yna bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais.

12.11.3 Os bydd cynnig fod y cwestiwn yn awr yn cael ei gyflwyno'n cael ei eilio ac mae'r Cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, bydd ef/hi yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais. Os caiff ei dderbyn bydd ef/hi yn

rhoi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol cyn rhoi ei gynnig ef/hi i'r bleidlais.

12.11.4 Os yw cynnig i ohirio'r ddadl neu i ohirio'r cyfarfod yn cael ei eilio ac mae'r Cadeirydd yn meddwl nad yw'r eitem wedi ei thrafod yn ddigonol ac na ellir ei thrafod yn rhesymol felly ar yr achlysur hwnnw, bydd ef/hi yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais heb roi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol.

**12.12 MATER O DREFN**

Caiff aelod godi mater o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn rhoi sylw i hynny ar unwaith. Gall mater o drefn ymwneud â honiad o dorri Rheolau Gweithdrefn y Cyngor neu'r ddeddf. Mae'n rhaid i'r aelod nodi'r rheol neu'r ddeddf a'r modd y mae ef/hi yn ystyried y mae wedi ei thorri. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ynghylch y mater yn derfynol.

**12.13 ESBONIAD PERSONOL**

Caiff aelod roi esboniad personol ar unrhyw adeg. Mae'n rhaid i esboniad personol ymwneud â rhyw ran berthnasol o araith gynharach gan yr aelod yn unig a all ymddangos megis petai wedi ei chamddeall yn y ddadl bresennol neu i ymddiheuro i'r Cyngor. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ynglŷn â derbynioldeb esboniad personol yn derfynol.

## 13. PENDERFYNIADAU A CHYNIGION BLAENOROL

**13.1 CYNNIG I DDIDDYMU PENDERFYNIAD BLAENOROL**

Ni all cynnig neu welliant i ddiddymu penderfyniad a wnaethpwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor o fewn y chwe mis diwethaf gael ei gynnig oni bai fod y rhybudd o gynnig yn cael ei lofnodi gan o leiaf ugain aelod.

**13.2 CYNNIG SY'N DEBYG I UN A WRTHODWYD YN FLAENOROL**

Ni all cynnig neu welliant tebyg i un sydd wedi ei wrthod mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf gael ei gynnig oni bai fod rhybudd o gynnig neu welliant yn cael ei lofnodi gan o leiaf ugain aelod. Unwaith yr ymdrinnir â'r cynnig neu'r gwelliant, ni chaiff neb gyflwyno cynnig na gwelliant tebyg am chwe mis.

## 14. PLEIDLEISIO

### 14.1 MWYAFRIF

Onid yw'r Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd pob mater yn cael ei benderfynu drwy fwyafrif syml o'r aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y cyflwynwyd yr argymhelliad neu'r cynnig.

### 14.2 PLEIDLAIS FWRW'R CADEIRYDD

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd cyfyngiad ar sut y dewisa'r Cadeirydd ddefnyddio'r bleidlais fwrw.

### 14.3 DANGOS DWYLO

Oni ofynnir am bleidlais neu bleidlais gofnodedig o dan Reolau 14.4 a 14.5, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy ddangos dwylo; neu os nad oes unrhyw wrthwynebiad, drwy gadarnhad y cyfarfod.

### 14.4 PLEIDLEISIO

Cymerir y bleidlais drwy bleidleisio os yw mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn mynnu hynny. Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad rhifol y bleidlais cyn gynted ag y bo'r canlyniad yn hysbys.

### 14.5 PLEIDLAIS GOFNODEDIG

Os yw'r Cyngor yn penderfynu felly drwy benderfyniad, bydd yr enwau o blaid ac yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant neu'r rhai sy'n ymatal rhag pleidleisio, yn cael eu nodi'n ysgrifenedig a'u cofnodi yn y cofnodion. Bydd galwad am bleidlais gofnodedig yn cael blaenoriaeth dros alwad am bleidlais ac eithrio yn achos penodi swyddogion.

### 14.6 HAWL I'W GWNEUD YN OFYNNOL COFNODI PLEIDLAIS UNIGOL

Os bydd aelod yn gofyn am hynny yn syth ar ôl y bleidlais, caiff ei bleidlais ei chofnodi felly yn y cofnodion i ddangos a bleidleisiodd o blaid ynteu yn erbyn y cynnig, neu a fu iddo ymatal rhag pleidleisio.

### 14.7 PLEIDLEISIO YNGHYLCH PENODI AELODAU ETHOLEDIG I SWYDDI SYDD I'W LLANW GAN Y CYNGOR

Bydd y rhai sy'n gymwys i bleidleisio'n pleidleisio dros un yn unig. Os oes mwy

na dau wedi eu henwebu ar gyfer unrhyw swydd y mae angen ei llanw ac nid oes mwyafrif clir o bleidleisiau o blaid un person, yna tynnir enw'r sawl a gafodd y nifer lleiaf o bleidleisiau oddi ar y rhestr a chymerir pleidlais newydd. Bydd y broses yn parhau hyd nes ceir mwyafrif o bleidleisiau i un person.

## 15. COFNODION

### 15.1 LLOFNODI'R COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf. Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylai cofnodion y cyfarfod blaenorol gael eu llofnodi fel cofnod cywir. Yr unig agwedd o'r cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb.

### 15.2 DIM RHEIDRWYDD I LOFNODI COFNODION CYFARFOD BLAENOROL MEWN CYFARFOD ARBENNIG

Mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod, lle bo'r cyfarfod nesaf i bwrpas llofnodi'r cofnodion yn gyfarfod a elwir o dan baragraff 3, atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Cyfarfod Arbennig), yna ymdrinnir â'r cyfarfod canlynol nesaf (sy'n gyfarfod a elwir ac eithrio o dan y paragraff hwnnw) fel cyfarfod addas i bwrpas paragraff 41 (1) a (2) atodlen 12 sy'n ymwneud â llofnodi'r cofnodion.

### 15.3 FFURF Y COFNODION

15.3.1 Bydd cofnodion yn cynnwys yr holl gynigion a'r gwelliannau yn yr union ffurf a'r drefn y cyflwynwyd hwy gan y Cadeirydd.

15.3.2 Lle bo rhannau o'r cofnodion yn cael eu hepgor oherwydd eu bod yn cyfeirio at wybodaeth eithriedig ac nad yw'r cofnodion sydd ar gael yn darparu cofnod deg a chydlynol, darperir crynodeb ysgrifenedig a fydd yn darparu cofnod o'r fath heb ddatgelu'r wybodaeth eithriedig.

## 16. COFNOD PRESENOLDEB

Rhaid i'r holl aelodau sy'n bresennol yn ystod cyfarfod cyfan neu ran o gyfarfod lofnodi eu henwau ar y taflenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod, i gynorthwyo gyda'r cofnod presenoldeb.

## 17. GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD

Caiff cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron eu gweddarlledu. Bydd y lluniau hyn ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor drwy fynd at www.ceredigion.gov.uk.

## 18. CAU ALLAN Y CYHOEDD

Ni all aelodau'r cyhoedd a'r wasg gael eu cau allan ac eithrio naill ai'n unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn neu Reol 19 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

## 19. YMDDYGIAD YR AELODAU

### 19.1 SIARAD

Pan fo aelodau'n siarad mewn Cyngor llawn rhaid iddynt annerch y cyfarfod drwy'r Cadeirydd.

### 19.2 CADEIRYDD YN SEFYLL

Pan fo'r Cadeirydd yn sefyll yn ystod dadl, rhaid i unrhyw aelod sy'n siarad ar y pryd dewi. Rhaid i'r cyfarfod fod yn ddistaw.

### 19.3 AELOD I BEIDIO Â CHAEL EI GLYWED YMHELLACH

Os bydd aelod yn anwybyddu dyfarniad y Cadeirydd yn barhaus drwy ymddwyn yn amhriodol neu'n dramgwyddus neu'n rhwystro busnes yn fwriadol, gall y Cadeirydd gynnig na fydd yr aelod yn cael ei glywed ymhellach. Os caiff hynny ei eilio, pleidleisir ar y cynnig heb drafodaeth.

### 19.4 AELOD I ADAEL Y CYFARFOD

Os bydd yr aelod yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, gall y Cadeirydd gynnig naill ai bod yr aelod yn gadael y cyfarfod neu fod y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod penodol. Os caiff hynny ei eilio, pleidleisir ar y cynnig heb drafodaeth.

### 19.5 AFLONYDDWCH CYFFREDINOL

Os oes aflonyddwch cyffredinol sy'n gwneud busnes trefnus yn amhosibl, gall y

Cadeirydd ohirio'r cyfarfod cyhyd ag y bydd ef/hi yn ei ystyried yn angenrheidiol.

## 20. AFLONYDDWCH GAN Y CYHOEDD

### 20.1 SYMUD AELOD O'R CYHOEDD O'R CYFARFOD

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r sawl dan sylw. Os bydd yn parhau i dorri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo gael ei symud o'r ystafell gyfarfod.

### 20.2 CLIRIO RHAN O'R YSTAFELL GYFARFOD

Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o'r ystafell gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, gall y Cadeirydd alw am i'r rhan honno gael ei chlirio.

## 21. ATAL A NEWID RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR

### 21.1 ATALIAD

Gellir atal holl Reolau Gweithdrefn y Cyngor hyn ac eithrio Rheol 13.6 ac 15.2 drwy gynnig gyda rhybudd neu heb rybudd os oes o leiaf hanner cyfanswm aelodau'r Cyngor yn bresennol. Ni all yr ataliad fod am gyfnod hwy na hyd y cyfarfod.

### 21.2 NEWID

Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at Reolau Gweithdrefn y Cyngor, eu hamrywio neu'u ddiddymu, o'i gynnig a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

## 22. CEISIADAU I BWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

Ac eithrio'r hyn a amlinellir ym mharagraff 24 isod, mae pob un o Reolau Gweithdrefn y Cyngor yn gymwys i gyfarfodydd y Cyngor llawn. Nid oes unrhyw rai o'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet. Dim ond Rheolau 4-22 sy'n berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau.

## 23. GWYBODAETH GAN SWYDDOGION

23.1 Dylai unrhyw adroddiad a osodir o flaen y Cyngor er mwyn cael penderfyniad, gynnwys pob gwybodaeth angenrheidiol er mwyn galluogi'r Aelodau i wneud penderfyniad. Bydd adroddiadau'n cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac os bydd ar Aelod angen esboniad ynglŷn â mater sy'n berthnasol i'r adroddiad, dylid gofyn am hyn cyn y cyfarfod.

23.2 Bydd y swyddogion yn darparu cyngor pellach yn y cyfarfod o'r Cyngor gyda chaniatâd y Cadeirydd yn unig, gan ymgynghori â'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid neu'r Swyddog Monitro. Os bydd angen darparu mwy o gyngor cyfreithiol neu ariannol, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio.

**Atodiad 7  Detholiad:**

DOGFEN F

# Y RHEOLIADAU ARIANNOL A'R GWEITHDREFNAU ARIANNOL CYSYLLTIEDIG

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Prif Swyddog Cyllid: Stephen Johnson
Pwyllgor Archwilio: 17 Hydref 2017
Dyddiad a gymeradwywyd gan y Cyngor: 22 Mawrth 2018
Asesiad Effaith Integredig (Oes/Nac Oes):
Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad Adolygu'r Polisi:

# Y RHEOLIADAU ARIANNOL A'R

## GWEITHDREFNAU ARIANNOL CYSYLLTIEDIG

**...**

**Y Pwyllgorau**

**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol o'r lefel uchaf i gefnogi trefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

...

**Y Swyddogion Statudol**

Nodir cyfrifoldebau'r swyddogion statudol a ganlyn yn Erthygl 12 o'r Cyfansoddiad:

(i) Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (y Prif Weithredwr)
(ii) Y Prif Swyddog Cyllid (Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau Corfforaethol)
(iii) Y Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu)

...

**3.6.2 Gofynion archwilio**

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor gynnal archwiliad mewnol effeithiol er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd ei brosesau o ran rheoli risgiau, rheolaeth a llywodraethu.

Mae Archwilio Cymru yn ymgymryd â rôl archwilwyr allanol y Cyngor.

O dro i dro, gall y Cyngor fod yn destun archwiliad, arolygiad neu ymchwiliad gan gyrff allanol a chanddynt hawliau mynediad statudol.

...

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid**

- Sicrhau bod Siarter y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn caniatáu i'r Adain wneud y canlynol:

a) cael mynediad i unrhyw un o safleoedd neu dir y Cyngor ar unrhyw adeg resymol,
b) cael mynediad at yr holl asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth a systemau rheoli sy'n ymwneud ag unrhyw un o drafodon ariannol neu drafodion eraill y Cyngor,
c) gofyn am unrhyw wybodaeth ac eglurhad y tybir eu bod yn angenrheidiol ynghylch unrhyw fater y mae'n ei ystyried / archwilio gan dderbyn y wybodaeth honno,
d) gofyn i unrhyw un o gyflogeion y Cyngor gyfrif am arian, nwyddau neu unrhyw eiddo arall sydd yng ngofal y Cyngor,
e) cael mynediad at gofnodion sy'n perthyn i drydydd partïon, fel contractwyr neu asiantaethau partneriaethol yn unol â'r telerau contractiol perthnasol.

- Mae gan y Prif Archwilydd Mewnol fynediad uniongyrchol at Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'r Aelodau.
- Mae gofyn i'r Prif Archwilydd Mewnol roi barn archwilio flynyddol ynglŷn â sicrwydd, ac fe'i galluogir i wneud hynny.
- Sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar waith i ymchwilio'n brydlon i unrhyw dwyll, afreoleidd-dra neu gamymddygiad a ddrwgdybir.

...

**Atodiad 8**

# RHAN 7
# Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

# Cynnwys

Adran 1 Fforymau ymgynghorol a chynghorol a sefydlwyd gan y Cabinet [statudol ac anstatudol] ........ 2

A – Statudol ........ 2

B – Anstatudol ........ 4

Adran 2 Grwpiau Monitro/Datblygu Polisi Mewnol ........ 6

Adran 3 Partneriaethau yng Ngheredigion ........ 8

Adran 4 Partneriaethau / Fforymau / Consortia / Cydbwyllgorau Rhanbarthol ........ 11

## Adran 1 Fforymau ymgynghorol a chynghorol a sefydlwyd [statudol ac anstatudol]

### A – Statudol

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd hwn gan Bwyllgor Addysg y Cyngor ar 2 Chwefror 1996 yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988 a Deddf Addysg 1993 [gweler hefyd baragraff. 88:1 a 2 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94 a Phennod 3 Deddf Addysg 1996].<br>Ei brif swyddogaeth yw cynghori'r Awdurdod Addysg Lleol ynghylch materion sy'n ymwneud ag Addoli ar y Cyd mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion eraill a chynghori ynghylch yr addysg grefyddol a roddir yn unol â'u Maes Llafur Cytûn. Gall hefyd gefnogi darpariaeth effeithiol yr Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd fel a ganlyn:<br>• Trwy roi cyngor ynglŷn â dulliau dysgu'r maes llafur cytûn Addysg Grefyddol gan gynnwys y dewis o ddefnyddiau dysgu<br>• Cynghori'r Awdurdod Addysg Lleol ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi athrawon<br>• Monitro adroddiadau'r arolygwyr ar Addysg Grefyddol, Addoli ar y Cyd a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol<br>• Ystyried cwynion ynglŷn â darparu a chyflwyno Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd y bydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn eu cyfeirio ato. |
| Cynrychiolwyr y Cyngor: 5 Cynghorydd (yn wleidyddol gytbwys, heb fod yn aelodau o'r weithrediaeth) |

**Fforwm Derbyn i'r Ysgolion**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd Fforwm Derbyn i'r Ysgolion gan y Cabinet ar 21 Hydref 2003 [gweler Cofnod C278]. Mae Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003 yn gweithredu Adran berthnasol Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Addysg Lleol, sefydlu fforwm derbyn. Prif swyddogaeth y Fforwm yw cynghori ynghylch materion sy'n gysylltiedig â derbyn disgyblion ac effeithiolrwydd y polisïau a'r prosesau. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Dysgu a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.. |

**Fforwm Cyllideb Ysgolion**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y Fforwm Cyllideb Ysgolion gan y Cabinet ar 21 Hydref 2003 [gweler Cofnod C278]. Mae Adran 43 Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Addysg Lleol, sefydlu fforwm ysgolion ac i'r Awdurdod Addysg Lleol ymgynghori â'r Fforwm, o leiaf unwaith y flwyddyn, ynghylch diwygiadau posibl i'w gynllun cyllido ysgolion a materion eraill sy'n effeithio ar yr ysgolion a gynhelir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oherwydd eu heffaith ar gyllidebau ysgolion. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Dysgu a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu. |

**Fforwm Mynediad Lleol**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion gan y Cabinet ar 26 Chwefror 2002 [gweler Cofnod C750] yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 er mwyn cynghori'r Cyngor, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill fel bo'n briodol ar gyfer gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal mewn ffyrdd a fydd yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â rheoli tir, buddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgol. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet yr Economi ac Adfywio. |

**B – Anstatudol**

**Panel Adolygu Ysgolion**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd hwn gan y Cabinet yn unol â'r Polisi Adolygu Ysgolion Cynradd, a ddiweddarwyd fis Ionawr 2010, er mwyn cynnal adolygiadau a'u hargymell i'r Cabinet. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet y Gwasanaethau Dysgu, a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a dau Aelod etholedig a benodwyd gan y Cabinet. |

**Panel Apeliadau Cludiant Addysg**

| |
|---|
| Cefndir: sefydlwyd y panel er mwyn galluogi rhieni i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod darparu cludiant i'w plant rhwng y cartref a'r ysgol<br>Cynrychiolwyr y Cyngor: 4 Cynghorydd (yn wleidyddol gytbwys, heb fod yn aelodau o'r weithrediaeth) |

**Fforwm Corfforaethol y Gweithwyr**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd hwn gan y Cabinet ar 7 Mawrth 2006 fel y fforwm corfforaethol ar gyfer ymgynghori a thrafod gyda'r undebau llafur cydnabyddedig. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet:<br>Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor. |

**Pwyllgorau Defnyddwyr Harbwr Aberaeron, Aberystwyth a'r Ceinewydd**

| |
|---|
| Cefndir:<br>Sefydlwyd Pwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbwr gan y Cyngor yn 1996 fel fforwm ar gyfer ymgynghori gyda defnyddwyr y tri harbwr ac maent yn awr yn adrodd i'r Cabinet yn dilyn mabwysiadu trefniadau gweithredol yr Arweinydd a'r Cabinet ym Mai 2003. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Aelodau Lleol perthnasol. |

**Fforwm Ymgynghorol Rheoli Traffig Ceredigion**

| |
|---|
| Cefndir: Fforwm ar gyfer ymgynghori gyda rhanddeiliaid lleol ar faterion rheoli traffig yw'r Fforwm Ymgynghorol Rheoli Traffig lleol ac mae'n adrodd i'r Cabinet. Bydd y fforwm yn cwrdd dwywaith y flwyddyn i drafod materion ar draws y Sir. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Aelodau Lleol perthnasol. |

**Fforwm 50+ Ceredigion**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y Fforwm 50+ gan y Cabinet a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cynrychioli llais y bobl hŷn (50+) yn y Sir ac fel y gallant gael llais wrth ddatblygu strategaethau a gwasanaethau. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet Porth Gofal - Gwasanaeth Ymyrraeth wedi'i Thargedu |

**Pwyllgor Rheoli Datblygu** - Panel Archwilio Safleoedd

Cefndir: Sefydlodd y Pwyllgor Rheoli Datblygu y Panel Archwilio Safleoedd fel y gellid cynnal ymweliadau â safleoedd sy'n rhan o geisiadau cynllunio, cyn i'r Pwyllgor wneud penderfyniad, er mwyn archwilio nodweddion unrhyw gais a allai fod yn anodd eu cyfleu mewn adroddiad ysgrifenedig.

Swyddogaethau:

- mae'n ffordd o ganfod ffeithiau;
- mae'n rhywbeth sydd y tu allan i'r drefn ffurfiol o benderfynu ar y cais (ac felly nid yw hawl y cyhoedd i fod yn bresennol yn berthnasol);
- mae'n galluogi swyddogion i amlygu nodweddion perthnasol;
- mae'n galluogi pobl i holi cwestiynau ar y safle er eglurder. Fodd bynnag, dim ond yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor neu'r Cyngor y trafodir y cais, oherwydd efallai na fydd yr holl bobl berthnasol yn bresennol ar y safle.
- nid yw'r Pwyllgor wedi'i rwymo gan unrhyw argymhellion a wneir.

Cynrychiolwyr y Cyngor: Pum aelod sy'n cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, cyn-gadeirydd y Pwyllgor sydd â'i gyfnod yn y gadair newydd ddod i ben a dau aelod arall ar sail trefn rota fisol.

**Panel Apelio am Ryddhad Caledi rhag Ardrethi Annomestig a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn rhag Treth y Cyngor**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y Panel Apelio am Ryddhad Caledi rhag Ardrethi Annomestig a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn rhag Treth y Cyngor i benderfynu ynghylch ceisiadau gan ddinasyddion sy'n apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod Rhyddhad Caledi rhag Ardrethi Annomestig neu Ryddhad yn ôl Disgresiwn rhag Treth y Cyngor. |
| Cynrychiolwyr y Cyngor: 7 Aelod ar sail trefn rota (3 aelod ym mhob cyfarfod o'r Panel) |

## Adran 2 Grwpiau Monitro/Datblygu Polisi Mewnol

**Grŵp Datblygu**

| |
|---|
| Cefndir: Mae'r Grŵp hwn yn ystyried lle dylid canolbwyntio buddsoddiad yn y dyfodol er mwyn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor |
| Cynrychiolwyr y Cabinet / Cyngor: Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor; Aelod Cabinet yr Economi ac Adfywio, Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael |

**Grŵp Monitro Cyfalaf**

| |
|---|
| Cefndir:<br>Mae'r Grŵp Monitro Cyfalaf yn weithgor a'i waith yw monitro cynnydd y rhaglen cyfalaf a gwneud argymhellion i'r Cabinet ynghylch unrhyw ddiwygiadau a wneir yn ystod y flwyddyn |
| Cynrychiolwyr y Cyngor: Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael |

**Grŵp Cyfeirio'r Aelodau - Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr**

| |
|---|
| Cefndir:<br>Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio'r Aelodau - Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr, er mwyn cyflawni'r gofynion statudol sydd ynglŷn â darparu cludiant ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac wrth baratoi polisïau yng nghyswllt cludiant integredig a lleihau traffig; a chynghori'r Cyngor ynglŷn ag unrhyw swyddogaethau dewisol gan gynnwys:<br>• Pennu gwasanaethau cludiant<br>• Caffael a monitro gwasanaethau cludiant<br>Diffinnir y grŵp fel grŵp cyfeirio. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod Cabinet y Gwasanaethau Dysgu a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc; Aelod Cabinet y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Aelod Cabinet Porth Gofal - Ymyrraeth wedi'i Thargedu. |

**Panel Grantiau Adnewyddu Tai**

| |
|---|
| Cefndir:<br>Sefydlwyd y Panel Adnewyddu Grantiau Tai er mwyn adolygu'r polisi grantiau adnewyddu cyfredol a gwneud argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor parthed newidiadau/gwelliannau i'r polisi. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Porth Gofal – Gwasanaeth Ymyrraeth wedi'i Thargedu ac Aelod Cabinet Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ynghyd â Thai |

**Grŵp Rhianta Corfforaethol**

| |
|---|
| Cefndir: sefydlwyd y grŵp hwn er mwyn cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. |

| |
|---|
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod Cabinet y Gwasanaethau Ysgolion a Diwylliant a'r Porth Cymorth Cynnar |

**Grŵp Gweithredol Lleol - Diogelu**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y Grŵp Gweithredol Lleol fel rhan o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae ganddo gylch gorchwyl ynghylch y perfformiad a'r arferion o ran diogelu (pob oed) yng Ngheredigion. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: |

**Bwrdd Diogelu Strategol Ceredigion (Plant ac Oedolion)**

| |
|---|
| Cefndir: Cyfrifoldeb Strategol Corfforaethol o ran diogelu plant ac oedolion. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod Cabinet Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes; Aelod Cabinet y Gwasanaethau Ysgolion aDiwylliant; Aelod CabinetPorth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu. |

**Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y panel hwn gan y Cabinet er mwyn monitro, cydlynu, adolygu a datblygu polisïau cydraddoldeb corfforaethol. Diwygiwyd yn 2012 er mwyn datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |

**Pwyllgor Ymgynghorol y Gymraeg**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y pwyllgor hwn er mwyn goruchwylio'r modd y gweithredir Safonau'r Gymraeg. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau eraill fel y'u penodir. |

**Grŵp Rheoli Argyfyngau a Pharhad Busnes**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y grŵp hwn i oruchwylio a datblygu Cynllun Parhad Busnes y Cyngor. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael. |

**Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd**

| |
|---|
| **Cefndir:**<br>Ffurfiwyd y grŵp hwn at y diben o ystyried pob agwedd ar gyfryw raglen Drawsnewid y Cyngor a'r gweithgarwch o ran gweledigaeth hirdymor y Cyngor a'r amcanion oedd yn ategu'r weledigaeth honno.<br><br>Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: 10 o Gynghorwyr, yn wleidyddol gytbwys, gan gynnwys Arweinwyr Grwpiau a/neu eu cynrychiolwyr. Estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fod yn bresennol fel arsylwyr heb bleidlais. |

**Gweithgor Trawsbleidiol y Cyfansoddiad**

| |
|---|
| Cefndir: Wedi'i sefydlu i ystyried diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad a gwneud argymhellion priodol i'r Cyngor. Hefyd yn cael cadarnhad o unrhyw fân ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad, fel y gwnaed gan y Swyddog Monitro |
| Cynrychiolaeth y Cyngor: 7 Aelod, yn gytbwys yn wleidyddol, gan gynnwys Aelod y portffolio perthnasol fel Cadeirydd. |

## Adran 3 Partneriaethau yng Ngheredigion

**Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal Ceredigion (Statudol)**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y bwrdd hwn yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i roi trefniadau ar waith i leihau troseddu gan bobl ifanc. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Dim |

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynt)**

| |
|---|
| Cefndir: Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith cyfreithiol cyffredin sy'n seiliedig ar saith nod llesiant a phum ffordd o weithio. Y nod yw cynnal a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu'r anghenion presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.<br>Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd Llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol i gydweithio a ffurfio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r Nodau Llesiant. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Arweinydd y Cyngor, Prif Weithredwr. |

**Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**

| |
|---|
| Cefndir:. Fe'i ffurfiwyd ym 1999 yn dilyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, estynnwyd aelodaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ymhellach gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu, 2002, a Deddf Plismona a Throsedd, 2009, i gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Heddlu ac Awdurdodau Gwasanaethau Tân ac Achub, a'r Gwasanaeth Prawf.<br><br>Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd barhaus i wneud asesiad trosedd ac anhrefn. Mae hefyd yn datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu cynllun amlasiantaethol i leihau trosedd ac anhrefn.<br><br>Mae'r Bartneriaeth yn ystyried adroddiadau gan amrywiol fyrddau strategol, sydd hefyd yn gweithio tuag at leihau trosedd ac anhrefn mewn meysydd penodol. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod y Cabinet â chyfrifoldeb am Bortffolio Ymyrraeth wedi'i Thargedu Porth Gofal, Ymyrraeth Gynnar, Hybiau Lles a Gwasanaethau Diwylliant. |

### Bwrdd CONTEST Ceredigion

| |
|---|
| Cefndir: Bwrdd amlasiantaethol CONTEST, sy'n ystyried gofynion a goblygiadau lleol sy'n ymwneud â'r 4 elfen, ond sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymateb lleol i'r gofyniad Atal. Mae'r Bwrdd CONTEST yn adrodd wrth Fwrdd Rhanbarthol CONTEST a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion. |
| Cynrychiolaeth y Cabinet: Dim |

### Panel Channel Ceredigion (Statudol)

| |
|---|
| Cefndir: Partneriaeth amlasiantaethol weithredol leol sy'n gweithredu gweithgareddau a dyletswyddau'r Channel. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydlynu ac yn cadeirio Panel y Channel, yn cael atgyfeiriadau ar unigolion sy'n agored i gael eu denu i derfysgaeth, ac yn llunio cynllun cymorth ymyrraeth amlasiantaethol, os oes angen. Mae Panel y Channel yn adrodd wrth Fwrdd CONTEST Ceredigion (gweler uchod), y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Grŵp Gweithrediadau lleol (CYSUR). |
| Cynrychiolaeth y Cabinet: Dim |

**Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y trefniadau rhanbarthol i ddiwallu gofynion Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014 a'r bwriad yw datblygu arferion diogelu ar draws y rhanbarth. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Neb |

**Cyngor Ieuenctid Ceredigion**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion Gyngor Ieuenctid Ceredigion er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc yng Ngheredigion y cyfle i leisio eu barn mewn fforwm cyhoeddus ar amrywiol faterion sy'n effeithio arnynt yng Ngheredigion ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o'r saith ysgol uwchradd yn y Sir, Hyfforddiant Ceredigion, Coleg Ceredigion ac amrywiol fudiadau/sefydliadau eraill (e.e Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Sgowtiaid a Chlybiau Ffermwyr Ifanc, ac ati). Cyflwynir y cofnodion gerbron y Cabinet.<br>Cynrychiolwyr y Cabinet: Neb |

## Adran 4 Partneriaethau / Fforymau / Consortia / Cydbwyllgorau Rhanbarthol

**Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC)**

| |
|---|
| Cefndir: Cafodd y Cyd-bwyllgor hwn ei sefydlu'n ffurfiol ar y cyd â Chyngor Sir Powys er mwyn datblygu, monitro ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn dilyn cyfnod fel consortiwm rhanbarthol. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ac Aelod Cabinet yr Economi ac Adfywio. |

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y Bwrdd hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer cydweithio strategol rhwng Cynghorau Sir Ceredigion, Powys a Gwynedd. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/ Cyngor: Yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr. |

**Cydweithrediad Seilwaith Canolbarth Cymru**

| |
|---|
| Cefndir: Cyd-bwyllgor gyda Chyngor Sir Powys yw hwn sy'n cwrdd yn ôl yr angen.. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod Cabinet y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ynghyd â Thai. |

**Cefnogi Pobl – Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru**

| |
|---|
| Cefndir: Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Amlsectoraidd yw hwn a sefydlwyd ym mis Awst 2012 i sicrhau bod cymorth tai sy'n cael ei gyflenwi'n gydweithredol yn effeithlon ac yn effeithiol yn rhanbarthol ac yn lleol; yn unol â'r Canllawiau Cefnogi Pobl Cenedlaethol. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet Porth Gofal – Gwasanaeth Ymyrraeth wedi'l Thargedu ac Aelod Cabinet y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ynghyd â Thai ac Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd. |

**Bwrdd Cynllunio Ardal ar Gamddefnyddio Sylweddau**

| |
|---|
| Cefndir: Partneriaeth Amlasiantaeth yw Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed sy’n gyfrifol am gefnogi’r gwaith o gynllunio’r gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, eu comisiynu a rheoli eu perfformiad.<br>Yr awdurdodau cyfrifol statudol yw Heddlu Dyfed-Powys, Awdurdodau Lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi, a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal, a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed yn awdurdodau cyfrifol anstatudol.<br>Mae strwythur y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cynnwys Gweithrediaeth, ac mae Grŵp Cyflenwi Strategaeth a Grŵp Perfformiad a Chyllid yn sail iddo. |
| Cynrychiolwyr y Cyngor: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd |

**Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru**

| |
|---|
| Cefndir: Partneriaeth economaidd ranbarthol yw Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru sy’n cynnwys Ceredigion a Phowys. Y diben yw datblygu economi Canolbarth Cymru. |
| Cynrychiolwyr y Cabinet / Cyngor: Arweinydd y Cyngor; Aelod Cabinet yr Economi ac Adfywio; Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael |

**Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**

| |
|---|
| Cefndir: Sefydlwyd y Bartneriaeth hon yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru mewn perthynas â sefydlu a chynnal trefniadau cronfeydd cyfun, fel y’u diffinnir yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Mae'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r bartneriaeth yn cynnwys Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu yn unol â chytundebau rhwng awdurdodau, mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Hywel Dda. |
| Cynrychiolwyr y Cyngor: Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. |

**B Aelodau Eiriolwyr**

Penodir Aelodau Eiriolwyr i'r meysydd canlynol:

| **Maes** |
|---|
| Pobl Hŷn 50+ |
| Cydraddoldeb |
| Cynaliadwyedd |
| Diogelu |
| Bioamrywiaeth |
| Gofalwyr |
| Brwydro yn erbyn Tlodi |
| Plant a Phobl Ifanc |
| Lluoedd Arfog |
| Amrywiaeth |
| Anableddau Dysgu |
| Iechyd y Cyhoedd |
| Iechyd Meddwl |
| Datblygu'r Aelodau |
| Iechyd a Diogelwch |
| Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol |
| Trais Domestig |
| Digidol |

**Atodiad 9**

***G DIRPRWYO I'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL:POLISI, PERFFORMIAD A DIOGELU'R CYHOEDD***

Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd gan gynnwys Partneriaethau Strategol; Ymgysylltu a Chydraddoldeb; Cwynion, Canmoliaethau a Rhyddid Gwybodaeth;, Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd (gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd Anifeiliaid, Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach, Trwyddedu a gweithgareddau cysylltiedig), Perfformiad, Ymchwil a Pholisi Corfforaethol a gwrthderfysgaeth; ac i unrhyw swyddogion a awdurdodir gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol o dro i dro fel y bo'n briodol ar yr amod bod y swyddogion yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny**.** Gall y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol hefyd arfer y pwerau hyn yn ôl yr angen.

**Rhyddid Gwybodaeth a Chwynion**

1. Gwneud taliadau addas a phriodol wrth setlo cwynion yn erbyn y Cyngor ac wrth setlo cwynion i'r Ombwdsmon yn lleol, a gwneir y taliadau hynny o'r gyllideb briodol ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Aelod Cabinet priodol.
2. Cymryd yr holl gamau priodol parthed Adroddiadau yn unol ag adrannau 16, 17 ac 21 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.
3. Gweithredu fel y "person cymwysedig" at ddibenion Adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
4. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau, cyfrifoldebau a swyddogaethau gweithredol perthnasol sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth neu sydd fel arall yn gyfrifoldeb ar y Gwasanaethau Polisi a Perfformiad eu gweithredu.

**Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd**

1. Cymryd pob cam priodol o ran pob swyddogaeth a ddiffinnir o dan Adran 270 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac o ran y ddeddfwriaeth ganlynol (gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol gysylltiedig):-

- Deddf Diogelwch Bwyd 1990
- Deddf Llywodraeth Leol 1972 - adran 25, 112, 204, 213 a 234
- Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1936 a 1961
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018; a
- Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

2. Diffiniadau

2.1 At ddibenion y materion yr ymdrinnir â hwy yn y trefniant hwn, ystyr y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

2.2 Mae unrhyw gyfeiriad at Ddeddf yn y trefniadau hyn yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddiwygiad iddo neu ailddeddfiad ohono neu unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd o dan y Ddeddf.

3. Dirprwyo Cyffredinol – Pwerau Penodol

3.1 Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol (ar ôl ymgynghori â Deiliad y Portffolio Cabinet perthnasol lle bo angen gwneud hynny a lle bo hynny'n briodol) i gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol er mwyn gwarchod neu hyrwyddo buddiannau'r Cyngor, yn amodol ar y cyfyngiadau a nodir yn Rhan A uchod.

3.2 Heb ragfarnu cyffredinolrwydd y darpariaethau uchod, mae hyn yn cynnwys arfer ei farn / ei barn broffesiynol i wneud unrhyw benderfyniadau sydd angen eu gwneud i weithredu polisïau'r Cyngor gyda'r nod o reoli a darparu'r gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt.

3.3 Gall unrhyw bwerau a roddir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd gael eu cyflawni naill ai yn ei absenoldeb / ei habsenoldeb gan y swyddog / swyddogion hynny a awdurdodir ganddo ef neu hi neu yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau neu ddarpariaethau cyffredinol a wneir ganddo / ganddi. Yn absenoldeb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, gall unrhyw swyddog a benodir ganddo / ganddi i ddirprwyo ar ei ran / ar ei rhan hefyd awdurdodi'r broses o arfer y pwerau dirprwyedig. Gellir rhoi awdurdod o'r fath i bobl nad ydynt yn swyddogion o'r Cyngor mewn cytundeb gyda'r awdurdod neu'r sefydliad sy'n cyflogi'r bobl berthnasol. Os na roddwyd awdurdod o'r fath cyn absenoldeb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, gall y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Corfforaethol awdurdodi unrhyw swyddog / swyddogion neu bersonau eraill fel y mae ef / hi yn credu eu bod yn addas i arfer pwerau'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol absennol.

3.4 Gall Swyddog Arweiniol Corfforaethol awdurdodi ei staff i arfer pwerau o'r fath yn ôl yr angen er mwyn cael mynediad i unrhyw dir, adeilad neu eiddo neu eu harchwilio a darparu unrhyw dystiolaeth neu awdurdod yn ôl yr angen i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â phwerau statudol y Cyngor.

3.5 Awdurdod i gyflwyno ceisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1976 neu unrhyw ddeddfwriaeth alluogi arall.

3.6 O ran materion sydd wedi'u neilltuo ar gyfer y Cyngor, y Cabinet neu Bwyllgor neu Is-bwyllgor arall, os yw'r mater yn fater brys, caniateir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol i weithredu rhwng cyfarfodydd, gan ymgynghori â Deiliad y Portffolio Cabinet perthnasol neu Gadeirydd / Is-gadeirydd y pwyllgor rheoleiddio perthnasol fel y bo'n briodol, ar yr amod bod unrhyw gamau o'r fath yn gyson â pholisïau cyffredinol y Cyngor ac os ydyw'n briodol, bod adroddiad ynglŷn â'r camau a gymerwyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor.

3.7 Penderfynu ynghylch penodi swyddogion at ddibenion penodol i gyflawni gwaith fel archwilwyr, swyddogion priodol neu swyddi cyffelyb eraill sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

3.8 Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i weithredu o ran caffael a chontractau o fewn y gyllideb gymeradwy ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog o ran Contractau gan gynnwys y pŵer i dynnu contractwyr oddi ar y rhestrau cymeradwy, os nad ydynt wedi bodloni meini prawf y Cyngor.

3.9 Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i weithredu ar faterion ariannol, yn unol â'r Rheoliadau Ariannol perthnasol.

3.10 Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i gyhoeddi penderfyniadau, caniatadau, trwyddedau neu hysbysiadau ar ran y Cyngor.

3.11 Awdurdod i gyflawni gwaith neu ddarparu gwasanaethau i drydydd partïon ar yr amod bod adnoddau ar gael, na fydd unrhyw effaith andwyol ar yr hyn a ddarperir gan y Cyngor, a bod y taliadau priodol yn cael eu codi.

4 Cyfrifoldebau'r Swyddog Priodol

Caiff y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ei ddynodi'n Swyddog Priodol i Gyngor Sir Ceredigion o ran y materion canlynol:

4.1 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008) ac unrhyw is-reoliadau neu ddarpariaethau deddfwriaethol: Gweithredu fel Swyddog Priodol ar ran Cyngor Sir Ceredigion gan awdurdodi a dirprwyo pobl gymwys yn ôl yr angen i weithredu ar ran y Cyngor.

4.2 Deddf Enillion Troseddau 2002 : Uwch Swyddog Cyfrifol

5 Pwerau a dyletswyddau penodol

5.1 Gweithredu o ddydd i ddydd ac o fewn y cynllun dirprwyo yn y meysydd canlynol

a) Trwyddedu a

Gorfodi Trwyddedu.

b) Cynnal a chadw tir yn briodol.

c) Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, Iechyd Anifeiliaid, Safonau Diogelwch Bwyd a Phorthiant, Twyll Bwyd, Gorfodi Iechyd a Diogelwch, Rheoli'r Amgylchedd a niwsans

d) Diogelu, Iechyd y Cyhoedd gan gynnwys rheoli afiechydon heintus a gwaith hybu a gwella.

e) Gwasanaethau Wardeniaid Cymunedol gan gynnwys Rheoli Plâu

5.2 Arfer holl bwerau'r Cyngor o ran Diogelu'r Cyhoedd a gweithgarwch rheoleiddio ac unrhyw weithgarwch o'r fath y bydd y Cyngor yn gyfrifol amdano yn y dyfodol.

5.3 Awdurdod i benodi arolygwyr o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974

5.4 Y pŵer i arfer pwerau gorfodaeth o ran Diogelu'r Cyhoedd, troseddau rheoleiddio neu droseddau amgylcheddol sy'n codi yn unrhyw un o'r meysydd a restrir isod (gan gynnwys camau, y gellir eu hystyried yn angenrheidiol i atal troseddau, addysgu a rhoi hysbysiadau cosb benodedig)

–Baw cŵn

–Sbwriel

–Ymddygiad gwrthgymdeithasol

–Diogelu'r Amgylchedd

–Diogelu'r Cyhoedd

–Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau

–Gwaredu Sbwriel

–Cymdogaethau Glân

_Rheoli Llygredd

–Ysmygu mewn mannau cyhoeddus a lleoliadau eraill lle mae cyfyngiadau'n berthnasol.

–Arddangos Sgoriau Hylendid Bwyd

–Gwerthiant a Gyfyngir gan Oedran a'r isafbris am alcohol

–Coed Peryglus

–Anifeiliaid gwyllt a syrcasau, gan gynnwys syrcasau teithiol

5.5. Arfer swyddogaethau'r Cyngor o ran materion sy'n gysylltiedig ag iechyd yr amgylchedd.

5.6. Wedi'i awdurdodi i weithredu fel Swyddog Awdurdodedig a Swyddog Awdurdodi at ddibenion deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Caiff y Swyddog Monitro fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol, ei hysbysu am unrhyw gais o'r fath.

5.7. Wedi'i awdurdodi i weithredu fel Swyddog Awdurdodedig at ddibenion Cynllun Enwau Bwyd Gwarchodedig: Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Bwydydd) 2018.

5.8 Rhoi trwyddedau yn unol â Rheoliadau Tân Gwyllt 2004.

5.9. Rhoi ac adnewyddu Trwyddedau Cerbydau Hacni a Thrwyddedau Gyrwyr Hurio Preifat, ac eithrio pan fydd gan ymgeisydd neu ddeiliad trwydded bresennol gollfarnau troseddol blaenorol sydd wedi'u cofnodi yn eu herbyn. O dan yr amgylchiadau hynny, ymgynghorir â Chadeirydd / Is-gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu'r Cyngor i gadarnhau a ddylid cyfeirio'r mater at yr Is-bwyllgor Trwyddedu i'w benderfynu ai peidio.

5.10. Atal Trwydded Cerbyd Hacni a / neu Drwydded Yrru neu Drwydded Hurio Preifat a / neu Drwydded Yrru, lle ystyrir y dylid cymryd camau ar unwaith er budd y cyhoedd. Caiff Cadeirydd / Is-gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu'r Cyngor ei hysbysu am gamau o'r fath.

5.11.Arfer pwerau o ran Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014.

5.12.Gweithredu fel y Swyddog Priodol ar gyfer rheoli achosion o glefydau hysbysadwy, trosglwyddadwy a heintus gan benodi ac awdurdodi Swyddogion Priodol Eraill i weithredu ar ran yr awdurdod o ran y darpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud ag atal a rheoli achosion o glefydau neu heintiau. Llofnodi, cyhoeddi a chyflwyno Hysbysiadau Statudol o dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a restrir isod ynghyd â phob deddfwriaeth arall at y dyfodol sydd o fewn cylch gwaith Polisi a Pherfformiad gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth.

5.13. Cychwyn trefniadau a gwneud trefniadau i gyflawni gwaith os bydd rhywun heb gydymffurfio â thelerau Hysbysiad Statudol a gyflwynir o dan bwerau dirprwyedig neu os bydd rhywun wedi torri telerau Hysbysiad Statudol.

5.14. Cyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol ynglŷn â chymryd camau am beidio â chydymffurfio â darpariaethau unrhyw ddeddfwriaeth y mae dyletswydd ar y Gwasanaethau Polisi a Pherfformiad i'w gweithredu.

5.15. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau, cyfrifoldebau a swyddogaethau sydd mewn deddfwriaeth a'r rhai y mae gofyn i'r Gwasanaethau Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd eu gweithredu fel arall.

5.16. Cynnal arolygiadau, ymchwiliadau, cyfweliadau, samplo, gwaharddiadau, atafaeliadau, cadw dan gadwad, cofnodi, monitro (cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig), cyflwyno hysbysiadau, (gan gynnwys hysbysiadau atal), hawlildiadau, trosglwyddiadau, awdurdodiadau, trwyddedu, cofrestriadau ac achosion cyfreithiol yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n dod o dan gylch gwaith Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, ynghyd ag unrhyw reoliadau a wnaethpwyd oddi tani, ac unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau yn ogystal â phob deddfwriaeth at y dyfodol yn unol â chylch gwaith Polisi a Pherfformiad a gweithredu pob pŵer perthnasol arall, gan gynnwys y pwerau mynediad a ddarperir o dan ddeddfwriaeth o'r fath.

5.17 Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag Iechyd y Cyhoedd (Coronafeirws), fel y'i diwygiwyd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

5.17.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) a

5.17.2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru)

5.18. Defnyddio pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r strategaeth CONTEST

**Atodiad 10**

***J DIRPRWYO YNG NGHYSWLLT Y SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL: PORTH CYNNAL - GWASANAETHAU ARBENIGOL GYDOL OES A CHYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL / UNIGOLYN CYFRIFOL A'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL: PORTHGOFAL– YMYRRAETH WEDI'I THARGEDU A DIRPRWY GYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL***

CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

- Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal - Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes wedi'i dynodi a'i phenodi yn
    1. Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol ag Adran 6, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Mae swyddogaeth ac atebolrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u hamlinellu yn y Protocol "Swyddogaethau ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol" sef Dogfen P o dan ran 5 o'r Cyfansoddiad hwn. Mabwysiadodd y Cyngor y Protocol yn ffurfiol ar 23/1/18.

    2. Hefyd, mae wedi'i hawdurdodi i weithredu fel Swyddog Awdurdodedig a Swyddog Awdurdodi at ddibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Caiff y Swyddog Monitro fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol, ei hysbysu am unrhyw gais o'r fath.
    3. Defnyddio pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â Phanel y Channel o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 gan gynnwys dynodi Swyddogion priodol i fod yn Gadeirydd y Channel ac yn Ddirprwy Gadeirydd y Channel.

- Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu yw Dirprwy Gyfarwyddwr dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r:
    - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal - Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes,

- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu.
- ac yn eu habsenoldeb i unrhyw swyddogion a awdurdodir yn briodol gan y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol o dro i dro fel y bo'n briodol ar yr amod bod y swyddogion yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny**:-**

Gwasanaethau Cymdeithasol

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 Atodlen 1**

**Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol**

| **DEDDFIAD** | **NATUR Y SWYDDOGAETHAU** | **NODIADAU** |
|---|---|---|
| **Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933** | | |
| Rhan III | Amddiffyn pobl ifanc o ran achosion troseddol a diannod; plant sy'n ymddangos gerbron llys sydd angen gofal, amddiffyniad neu reolaeth; traddodi plant i ysgol gymeradwy neu ofal person cymwys, ac ati | Dal mewn grym |
| | Rhan IV Cartrefi remánd, ysgolion cymeradwy a phlant mewn gofal personau cymwys | Dal mewn grym |
| **Deddf Cymorth Gwladol 1948** | | |
| Adrannau 21 i 27 | Darparu llety preswyl ar gyfer yr oedrannus, yr eiddil, yr anghenus, ac ati | a.21, 23, 24 a 26 dal mewn grym<br>a.22 mewn grym ond bydd yn cael ei diddymu<br>a.25 a 27 wedi'i ddiddymu |
| Adrannau 29 a 30 | Lles personau sy'n ddall, yn fyddar, yn fud neu sydd fel arall dan anfantais neu sy'n dioddef anhwylder meddwl; defnyddio sefydliadau gwirfoddol ar gyfer gweinyddu cynlluniau lles | Dal mewn grym |
| Adrannau 43 i 45 | Adennill costau darparu gwasanaethau penodol | a.43 a 45 mewn grym<br>a.44 wedi'i ddiddymu |
| Adran 48 | Diogelu dros dro eiddo sy'n perthyn i bersonau mewn ysbyty neu lety a ddarperir dan Ran III y Ddeddf, ac ati | Dal mewn grym |
| Adran 49 | Talu treuliau swyddog Awdurdod Lleol sy'n ymgeisio am benodiad fel dirprwy ar gyfer cleifion penodol | Dal mewn grym |
| Adran 56(3) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â throsedd o dan adran 47(11) | Erlyn troseddau | Dal mewn grym |

| | | |
|---|---|---|
| **Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958** | | |
| Adran 3 | Darparu cyfleusterau fel y gall personau anabl gael eu cyflogi neu weithio o dan amodau arbennig | Dal mewn grym |
| **Deddf Iechyd Meddwl 1959** | | |
| Adran 8 | Lles personau sydd ag anhwylderau meddwl a llety ar eu cyfer | Mewn grym ond i'w ddiddymu |
| **Deddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 1984** | | |
| Adran 10 | Lles person penodol tra ei fod mewn ysbyty yn yr Alban | Dal mewn grym |
| **Deddf Ymwelwyr Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (Hyfforddiant) 1962** | | |
| **Adran 5(1)(b)** | **Ymchwil i faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau lles Awdurdodau Lleol** | Deddf wedi'i diddymu |
| **Adran 5(1)(c)** | **Ymchwil i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau Awdurdodau Lleol** | Deddf wedi'i diddymu |
| **Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963** | | |
| **Rhan I** | **Pwerau sy'n ymwneud â phobl ifanc y mae angen gofal, amddiffyniad neu reolaeth arnynt; darpariaethau pellach ar gyfer amddiffyn yr ifanc yng nghyswllt achosion troseddol** | Adrannau sy'n delio â swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u diddymu |
| **Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968** | | |
| **Adran 45** | **Hybu lles pobl hŷn** | Dal mewn grym |
| **Adran 65** | **Cymorth ariannol ac arall i sefydliadau gwirfoddol** | Dal mewn grym |
| **Deddf Gwaith Cymdeithasol (yr Alban) 1968** | | |
| **Adrannau 75(2)** | **Cyfeirnod ar gyfer ystyried, ac ati, a 76(4) achos plentyn mewn gofal y mae ei riant yn symud i'r Alban ac yn trosglwyddo plentyn** | a.75 & 76 wedi'i diddymu |
| **Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969** | | |
| Y Ddeddf gyfan ac eithrio adran 9 i'r graddau y maent yn trosglwyddo swyddogaethau i Awdurdod Lleol yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod addysg lleol | **Gofal a ffyrdd eraill o drin plant a phobl ifanc trwy achosion llys** | Mae rhai adrannau (a.9, er enghraifft) sy'n delio â swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol dal mewn grym |

| | | |
|---|---|---|
| **Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970** | | |
| **Adran 1** | **Sicrhau gwybodaeth ynghylch yr angen am wasanaethau lles penodol a chyhoeddi gwybodaeth ynghylch bodolaeth y gwasanaethau hynny** | Dal mewn grym |
| **Adran 2** | **Darparu gwasanaethau lles penodol** | **Dal mewn grym** |
| **Adran 18** | **Darparu gwybodaeth benodol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn amdani** | Mewn grym ond i'w diddymu |
| **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol** | | |
| **Adran 6** | Penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru | a.6 dal mewn grym |
| **Adran 7B** | **Darparu a rheoli gweithdrefn gwyno** | a.7B mewn grym ond i'w diddymu |
| **Deddf Mabwysiadu 1976** | | |
| | Swyddogaethau yn parhau i fod yn arferadwy yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth drosiannol neu arbedion a wnaed gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 neu oddi tano. | Yr adrannau sy'n delio a swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u diddymu |
| **Deddf Plant 1975** | | |
| **Rhan II** | **Cais gan Awdurdod Lleol am ddirymu gorchymyn gwarchodaeth;**<br>**Ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Awdurdod Lleol mewn achosion gwarchodaeth** | **Wedi'i diddymu** |
| **Deddf Budd-daliadau Atodol 1976** | | |
| **Atodlen 5** | Darparu a chynnal [unedau adsefydlu] ar gyfer pobl heb ffordd sefydlog o fyw | **Wedi'i diddymu** |
| **Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977** | | |
| **Atodlen 8** | Gofal dros famau a phobl ifanc; atal, gofal ac ôl-ofal; cymorth yn y cartref a chyfleusterau golchi dillad | Dal mewn grym ond mae wedi'i chynnwys bellach yn Atodlen 15, Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 |
| **Deddf Cartrefi Preswyl 1980** | | |
| **Adrannau 1 i 7** | Cofrestru cartrefi i bobl anabl neu bobl hŷn a chartrefi preswyl ar gyfer pobl ag anhwylderau meddwl | Wedi'u diddymu |

**Deddf Iechyd Meddwl 1983**

| | | |
|---|---|---|
| **Rhannau II, III a VI** | Lles y rheini ag anhwylder meddwl; Gwarcheidiaeth pobl sy'n dioddef o anhwylder meddwl gan gynnwys y rheini sydd wedi symud i Gymru a Lloegr o'r Alban neu Ogledd Iwerddon; arfer swyddogaethau perthynas agosaf y sawl sy'n dioddef | Dal mewn grym |
| **Adrannau 66, 67, 69(1)** | Arfer swyddogaethau'r berthynas agosaf o ran ceisiadau a chyfeiriadau at Dribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl | Dal mewn grym |
| **Adran 114** | Penodi gweithwyr cymdeithasol cymeradwy | **Dal mewn grym** |
| **Adran 115** | Cael mynediad ac archwilio | **Dal mewn grym** |
| **Adran 116** | Lles cleifion ysbytai penodol | **Dal mewn grym** |
| **Adran 117** | Ôl-ofal cleifion dan gadwad | **Dal mewn grym** |
| **Adran 130** | Erlyniadau | **Dal mewn grym** |

**Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983**

| | | |
|---|---|---|
| **Adran 17, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir o dan y deddfiadau a nodir yn isadran (2)(a) i (c)** | **Taliadau ar gyfer gwasanaethau lles Awdurdodau Lleol** | **Dal mewn grym** |

**Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984**

| | | |
|---|---|---|
| **Adran 46** | **Claddu neu amlosgi person dan Ran III, Deddf Cymorth Cenedlaethol 1948, ac adennill treuliau o'r ystad** | **Dal mewn grym** |

**Deddf Tai 1996 Adran 213(1)(b)**

| | | |
|---|---|---|
| | Cydweithredu o ran pobl ddigartref a phobl sydd wedi'u bygwth â digartrefedd | **Dal mewn grym** |

**Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986**

| | | |
|---|---|---|
| **Adrannau 1 i 5, 7 a 8 ac eithrio i'r graddau y maent yn trosglwyddo** | **Cynrychioli ac asesu pobl anabl** | **Dal mewn grym** |

| | | |
|---|---|---|
| **swyddogaethau i Awdurdod Lleol yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod addysg lleol** | | |

**Deddf Tai (Yr Alban) 1987**

| | | |
|---|---|---|
| **Adran 38(b)** | **Cydweithredu o ran pobl ddigartref a phobl sydd wedi'u bygwth â digartrefedd** | Dal mewn grym |

**Deddf Plant 1989**

| | | |
|---|---|---|
| **Y Ddeddf gyfan i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau ar Awdurdod Lleol o fewn ystyr y Ddeddf honno** | **Adroddiadau Lles**<br>**Caniatáu cais am orchymyn preswylio o ran plentyn mewn gofal**<br>**Swyddogaethau sy'n ymwneud â gorchmynion gwarcheidwaid arbennig**<br>**Gorchmynion cymorth i deuluoedd**<br>**Swyddogaethau o dan Ran III y Ddeddf (cymorth Awdurdodau Lleol i blant a theuluoedd)**<br>**Amddiffyn plant**<br>Swyddogaethau sy'n ymwneud â chartrefi cymunedol, cartrefi gwirfoddol a sefydliadau gwirfoddol, cartrefi plant preifat, trefniadau preifat ar gyfer maethu plant, gwarchod plant a gofal dydd ar gyfer plant ifanc<br>Arolygu cartrefi plant ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol<br>**Ymchwil a datganiadau gwybodaeth**<br>Swyddogaethau sy'n ymwneud â phlant sy'n cael llety gan y Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau addysg lleol neu gartrefi gofal, ysbytai annibynnol neu ysgolion | **Dal mewn grym** |

**Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990**

| | | |
|---|---|---|
| **Adran 46** | **Paratoi cynlluniau ar gyfer gwasanaethau gofal yn y gymuned** | **Dal mewn grym** |
| **Adran 47** | **Asesu anghenion y gwasanaethau gofal yn y gymuned** | **Dal mewn grym** |

**Deddf Addysg 1996**

| | | |
|---|---|---|
| **Adran 322** | Help i'r awdurdod addysg lleol wrth arfer swyddogaethau o dan Ran III y Ddeddf | **Dal mewn grym** |
| **Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995** | | |
| **Adran 1** | Asesu gallu gofalwyr i ddarparu gofal | **Dal mewn grym** |
| **Deddf Gofal yn y Gymuned (Taliadau Uniongyrchol) 1996** | | |
| | Swyddogaethau sy'n ymwneud â gwneud taliadau i bobl o ran sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal yn y gymuned neu wasanaethau o dan y Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 | Wedi'i ddiddymu gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ond y diddymiad heb ddod i rym eto |
| **Deddf Mabwysiadu (Agweddau rhwng Gwledydd) 1999** | | |
| **Adrannau 1 a 2(4)** | Swyddogaethau o dan reoliadau a wnaed o dan adran 1 sy'n rhoi ar waith y Confensiwn ar Amddiffyn Plant a Chydweithredu o ran Mabwysiadu Rhwng Gwledydd, a gwblhawyd yn yr Hâg ar 29 Mai 1993 a swyddogaethau o dan Erthygl 9(a) i (c) o'r confensiwn | Dal mewn grym |
| **Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000** | | |
| Y Ddeddf gyfan, i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau ar Awdurdod Lleol o fewn ystyr y Ddeddf honno | Asesu anghenion gofalwyr<br>Darparu gwasanaethau i ofalwyr<br>Darparu talebau | |
| **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001** | | |
| **Rhan 4 i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau ar Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr o fewn ystyr y Rhan honno** | Swyddogaethau o ran darparu llety preswyl<br>Gwneud taliadau uniongyrchol i berson o ran sicrhau darpariaeth gwasanaethau gofal yn y gymuned neu wasanaethau i ofalwyr | Mae Rhan 4 is mewn grym, ar wahân i Adran 56 sydd mewn grym i'r graddau y mae rhoi unrhyw bwer i wneud gorchymyn neu reoliadau sy'n sy'n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ddim mewn grym fel arall, mae Adran 56 yn delio â rheoliadau a allai ddarparu ar gyfer Awdurdod Lleol i wneud trefniadau ar gyfer llety preswyl yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manw |
| **Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002** | | |
| | Cynnal Gwasanaeth Mabwysiadu; swyddogaethau Awdurdod Lleol fel asiantaeth mabwysiadu | Dal mewn grym |
| **Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003** | | |
| **Rhan 1** | **Swyddogaethau sy'n ymwneud â chleifion sy'n debygol o angen gwasanaethau gofal cymunedol i fod ar gael er mwyn eu cyflawni'n ddiogel** | Ddim mewn grym yng Nghymru |
| **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003** | | |
| **Adran 114** | **Ystyried cwynion** | **Mewn grym ond yr Atodlen heb ei newid eto i gyfeirio at hyn** |
| **Deddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004** | | |
| Adran 3, i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau ar Awdurdod Lleol o fewn ystyr yr adran honno | Cydweithredu rhwng awdurdodau | Dal mewn grym |
| **Deddf Plant 2004** | | |
| Adrannau 13 i 16 a 31 i 34 | Swyddogaethau sy'n ymwneud â Byrddau Lleol Diogelu Plant | Dal mewn grym DS Nid yw adrannau 31 i 34 ond yn berthnasol i Gymru |
| **Deddf Galluedd Meddyliol 2005** | | |
| **Adran 39** | **Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol cyn darparu llety ar gyfer person heb alluedd** | Dal mewn grym |
| **Adran 39A** | **Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pan fydd yn rhoi awdurdodiad brys, neu'n gwneud cais am awdurdodiad safonol, dan Atodlen A1, y Ddeddf** | Dal mewn grym |
| **Adran 39C** | **Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pan na fydd yna gynrychiolydd ar gyfer y person** | Dal mewn grym |

| | | |
|---|---|---|
| | **perthnasol dan Ran 10 Atodlen A1 , y Ddeddf** | |
| **Adran 39D** | Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pan na fydd cynrychiolydd y person perthnasol o dan Ran 10, Atodlen A1 y ddeddf yn cael ei dalu | Dal mewn grym |
| **Adran 49** | **Adroddiadau mewn achosion** | Dal mewn grym |
| **Atodlen A1** | **Unrhyw swyddogaethau** | Dal mewn grym |

**Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008**

| | | |
|---|---|---|
| **Rhan 1** | **Gwneud trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gofal perthnasol o ran plant a phobl ifanc penodol** | **Dal mewn grym** |

2. **Swyddogaethau tai strategol, safonau tai ac atal digartrefedd**

Hefyd, mae gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu y cyfrifoldebau dirprwyedig canlynol

2.1 Yn meddu ar y prif gyfrifoldeb dros weinyddu'r Gofrestr Tai Cyffredin ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol y Landlordiaid Cofrestredig sy'n gweithredu yn y Sir.

2.2 Enwebu pobl o'r Gofrestr Dai fel y gall unigolion gael mynediad i'r Sector Preifat, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Asiantaethau Gosod Tai Cymdeithasol yn unol â Rhan 2 Deddf Tai 2014.

2.3 Cymeradwyo ceisiadau am grantiau a benthyciadau ac am symiau ychwanegol yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar y pryd ac yn unol â pholisi ac arfer y Cyngor ar y pryd gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet.

2.4 Llofnodi, cyhoeddi a chyflwyno Hysbysiadau Statudol o dan bob deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys ymholiadau am wybodaeth.

2.5 Gwneud trefniadau i gyflawni gwaith a/neu gyflawni gwaith os bydd rhywun heb gydymffurfio â thelerau unrhyw Hysbysiad Statudol

2.6 Sicrhau llety dros dro ar gyfer y Digartref o dan Ran 2 Deddf Tai 2014 ac unrhyw ddeddfwriaeth a / neu reoliadau cyfredol a pherthnasol eraill. Cyflawnir hyn trwy wneud cytundebau a thenantiaethau gyda Landlordiaid Preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Asiantaethau Gosod Tai Cymdeithasol.

2.7 Cynnal adolygiadau digartrefedd fel bo'r angen yn unol â Rhan 2 Deddf Tai 2014.

2.8 Rhoddi hawlildiadau i fenthycwyr morgeisi megis Cymdeithasau Tai o ran amodau ad-dalu grantiau sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 er mwyn rhoi'r tâl cyntaf ar werth yr eiddo i'r benthycwyr pe gorfodid ei werthu ar ôl ei adfeddiannu gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet.

2.9 Gwneud cytundebau enwebu gyda landlordiaid preifat ar ran y Cyngor ar gyfer gosod unedau/fflatiau a gaiff eu creu drwy eu cyfaddasu gyda chymorth grantiau dewisol.

2.10 Penderfynu a ddylid hawlio grant yn ôl ar ôl gwaredu neu drosglwyddo anheddau'n briodol o dan amgylchiadau sy'n unol â Pholisi Grantiau a Benthyciadau Tai'r Cyngor a/neu Adran 45(5) Deddf Grantiau Tai,

Adeiladu ac Adfywio 1996 neu'r Caniatâd Cyffredinol i Adennill Grantiau 1996 gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet.

2.11 Gweinyddu'r darpariaethau yn Adran 157 Deddf Tai 1985 o ran y cyfyngiad a osodir ar yr hen stoc tai gwledig.

2.12 O ran Deddf Tai 2004:

2.12.1 gwneud Gorchmynion Rheoli a gweithredu pwerau mynediad i gyflawni gwaith (Adran 131 Deddf Tai 2004)

2.12.2 hysbysu rhywun perthnasol yn gofyn iddo ef/iddi hi ddangos unrhyw ddogfennau o dan adran 235 Deddf Tai 2004 (pŵer i fynnu bod dogfennau'n cael eu dangos)

2.12.3 arfer pŵer mynediad (Adran 239 Deddf Tai 2004 pwerau mynediad)

2.12.4 arfer pŵer mynediad i gyflawni gwaith (paragraff 25 Atodlen 7 Deddf Tai 2004 (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag "EDMO"), a

2.12.5 chyflwyno hysbysiadau gwella at ddibenion arfer pŵer i gael mynediad er mwyn cyflawni gwaith (paragraff 3(4) Atodlen 3 Deddf Tai 2004)

2.13 Gwneud trefniadau i gyflawni gwaith os bydd rhywun heb gydymffurfio â thelerau Hysbysiad Statudol neu os bydd rhywun wedi torri telerau Hysbysiad Statudol sy'n codi o dan 2.11 uchod.

2.14 Cyfarwyddo'r adain gyfreithiol ynghylch unrhyw gamau cyfreithiol sy'n codi os bydd rhywun heb gydymffurfio â darpariaethau unrhyw ddeddfwriaeth y mae dyletswydd ar Bennaeth y Gwasanaeth i'w gorfodi.

2.15 Penderfynu ynghylch ceisiadau am grantiau tai a phenderfynu ynghylch ceisiadau am daliadau dewisol ychwanegol fel y bo'n briodol ac o fewn y gyllideb, gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol.

2.16 Rheoli a gwneud y defnydd gorau o Grantiau Tai Cymdeithasol a ffrydiau cyllido eraill i gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran tai a galluogi anghenion tai lleol i gael eu diwallu.

2.17 Gweithredu a chynnal cynllun cymorthdaliadau rheoli ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n weithredol yng Ngheredigion ac sy'n cynorthwyo â lleoliadau ar gyfer llety dros dro i'r digartrefedd gan ddefnyddio eu stoc dai eu hunain.

2.18 Defnyddio pwerau a dyletswyddau, ac i awdurdodi Swyddogion, o dan ddarpariaethau:

(a) Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015; a

(b) Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (gan gynnwys Rheoliadau a wnaed o dan hynny).

3. Pwerau a dyletswyddau penodol

Mae gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ymyrraeth wedi'i Thargedu Porth Gofal (ac unrhyw Swyddog arall a awdurdodwyd yn briodol ganddo) y cyfrifoldebau dirprwyedig canlynol:

3.1 Gweithredu o ddydd i ddydd ac o fewn y cynllun dirprwyo yn y meysydd canlynol

a. Tai (gan gynnwys y swyddogaeth tai strategol, tai fforddiadwy (gan gynnwys cynorthwyo a chynghori'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas â chytundebau Adran 106), tai arbenigol, atal digartrefedd/opsiynau tai, y gofrestr tai cyffredin, diogelwch yn y cartref, a Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth
b. safonau tai ac adnewyddu achredu landlordiaid, arbed ynni yn y cartref,
c. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl).

3.2 Arfer swyddogaethau'r Cyngor o ran digartrefedd / opsiynau tai

3.3 Arfer swyddogaethau'r Cyngor o ran tai anaddas

3.4 Arfer swyddogaethau'r Cyngor o ran tai amlfeddiannaeth, gan gynnwys penderfynu ynghylch ceisiadau am drwyddedau, rhoi hysbysiadau a chymryd camau gorfodi yn ôl yr angen.

3.5 Arfer pwerau gorfodi'r Cyngor yn y sector tai preifat.

3.6 Arfer swyddogaeth y Cyngor o ran darparu cofrestr tai cyffredin.

3.7 Arfer swyddogaeth y Cyngor o ran cyflenwi tai fforddiadwy / cyllid grant.

3.8 Cymeradwyo neu wrthod ceisiadau am wella tai / grantiau atgyweirio, cynlluniau benthyciadau tai a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gan eu gweinyddu.

3.9 Y pŵer i weithredu camau gorfodi mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys camau angenrheidiol i atal troseddau, addysgu a rhoi hysbysiadau cosb benodedig ac, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, cyflwyno cais a gwneud Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

3.10 Ymgymryd â'r gwaith o werthu eiddo yn orfodol.

**Atodiad 11 – Detholiad:**

Dogfen B

# RHEOLAU GWEITHDREFN MYNEDIAD AT WYBODAETH

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur a gwasanaeth:
Dyddiad cymeradwyo'r Cyngor: 19 Mawrth 2019
Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad adolygu:

**1. CWMPAS**

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Moeseg a Safonau, y Pwyllgor Rheoli Datblygu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Trwyddedu a'r Pwyllgor Rhestr Fer ac unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus eraill.

**Atodiad 12 Detholiad o:**

**Dogfen E – Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu, Cyfansoddiad**

## 16. GALW I MEWN

16.1 Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, gan aelod unigol o'r Cabinet neu Bwyllgor o'r Cabinet neu o dan gyd drefniadau, cyhoeddir y penderfyniad, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl drwy ddulliau electronig, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud. Anfonir copïau o'r cofnodion o'r penderfyniadau hynny at yr Aelodau o fewn 2 ddiwrnod gwaith, gan y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad. (Gweler Dogfen D)

16.2 Bydd yr hysbysiad o benderfyniadau yn nodi'r dyddiad y caiff ei gyhoeddi a bydd yn nodi y daw'r penderfyniad i rym, ac y gellir ei weithredu wedyn, ar ddiwedd 5 o ddiwrnodiau gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai bod y penderfyniad yn cael ei alw i mewn (gweler isod).

16.3 Galw i mewn yw atgyfeirio penderfyniad a wnaed, ond nas gweithredwyd eto, at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. Mae pwerau galw i mewn yn ymwneud â swyddogaethau Cabinet (gweithredol). Gellir galw unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cabinet neu benderfyniad allweddol a wneir gan swyddog o dan awdurdod dirprwyedig o'r Cabinet i mewn (yn amodol ar eithriadau).

Gellir galw penderfyniad i mewn pan fydd Aelodau:

- yn credu y gallai fod yn groes i ofynion arferol gwneud penderfyniadau
- yn credu ei fod yn groes i fframwaith polisi y cytunwyd arno a/neu gyllideb y cytunwyd arni gan y Cyngor
- angen gwybodaeth bellach gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad i egluro pam y cafodd ei gymryd.

16.4 Ystyrir bod penderfyniad wedi'i alw i mewn pan mae:

- unrhyw dri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol ("y Pwyllgor") y mae ei gylch gorchwyl yn ymwneud â phenderfyniad y Cabinet (fel y disgrifir yn Erthygl 6 Rhan 2 y Cyfansoddiad), neu
- chwe aelod etholedig o'r Cyngor, a Chadeirydd y Pwyllgor, yn ei wrthwynebu, ac yn ei alw i mewn trwy roi cais galw i mewn dilys i'r Swyddog Priodol (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd).

*Parhad…*

16.5 Ar ôl cael cais Galw i Mewn dilys, bydd y Swyddog Priodol yn cynnull cyfarfod o'r Pwyllgor ar unrhyw ddyddiad y bydd y Swyddog Priodol yn penderfynu arno, lle bo hynny'n bosibl ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, cyn pen 8 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad i alw i mewn. Yna bydd y Swyddog Priodol yn hysbysu'r sawl a wnaeth y penderfyniad i alw i mewn. Yna bydd y Swyddog Priodol yn hysbysu'r sawl a wnaeth y penderfyniad i alw i mewn.

16.6 Ni ellir gweithredu penderfyniad a alwyd i mewn nes iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor.

16.7 Os na fydd y Pwyllgor, ar ôl cael cais dilys i alw i mewn, yn cyfeirio’r mater yn ôl at y person neu'r corff sy'n gwneud penderfyniadau, bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor.

16.8 Os yw'r Pwyllgor, ar ôl ystyried y penderfyniad, yn dal i bryderu am y penderfyniad, yna caiff y Pwyllgor gyfeirio'r penderfyniad naill ai

a) yn ôl at yr unigolyn neu'r corff sy'n gwneud penderfyniadau i'w ailystyried, gan nodi'n ysgrifenedig natur ei bryderon a rhoi rhesymau NEU

b) at y Cyngor os yw'r penderfyniad yn ymwneud â fframwaith polisi neu gyllideb y Cyngor

16.9 Os cyfeirir y mater at y sawl sy’n gwneud y penderfyniad, bydd y sawl neu’r corff sy’n gwneud y penderfyniad yn ailystyried o fewn 10 o ddiwrnodiau gwaith pellach. Ar ôl ailystyried y penderfyniad, bydd yr unigolyn neu'r corff sy'n gwneud penderfyniadau naill ai'n cadarnhau'r penderfyniad, yn diwygio’r penderfyniad neu'n dirymu'r penderfyniad. Ystyrir bod y penderfyniad yn derfynol a bydd yn dod i rym ar unwaith

**Atgyfeiriadau at y Cyngor**

16.10 Os atgyfeirir penderfyniad at y Cyngor gan y Pwyllgor, bydd cyfarfod o'r Cyngor yn cael ei gynnull gan y Swyddog Priodol cyn pen 15 diwrnod gwaith o ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor.

*Parhad…*

16.11 Os na fydd y Cyngor yn cyfarfod cyn pen 15 diwrnod gwaith bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddiwedd y 15 diwrnod o gyfarfod y Pwyllgor,

16.12 Os bydd y Cyngor yn cyfarfod cyn pen 15 diwrnod gwaith, bydd yn penderfynu p'un a yw'n gwrthwynebu'r penderfyniad ai peidio

Os yw'r Cyngor:

a) ddim yn gwrthwynebu'r penderfyniad, yna nid oes angen cymryd dim camau pellach, a bydd y penderfyniad mewn grym ar ddyddiad cyfarfod y Cyngor neu ddiwedd y cyfnod y dylid bod wedi cynnal cyfarfod y Cyngor ynddo, pa un bynnag yw'r cynharaf.

b) yn gwrthwynebu'r penderfyniad bydd y Cyngor yn atgyfeirio'r penderfyniad y mae'n ei wrthwynebu yn ôl at yr unigolyn neu'r corff sy'n gwneud penderfyniadau, ynghyd â'i farn a'i resymau am y penderfyniad.

16.13 Lle gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Cabinet cyfan neu Bwyllgor ohono, gelwir cyfarfod ynghyd i ailystyried y penderfyniad o fewn 10 niwrnod gwaith wedi cais y Cyngor. Lle gwnaethpwyd y penderfyniad gan unigolyn, bydd yr unigolyn yn ailystyried o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael cais y Cyngor.

16.14 Ar ôl ailystyried y penderfyniad, bydd y corff neu'r person sy'n gwneud penderfyniadau yn dewis cadarnhau, diwygio neu ddirymu'r penderfyniad gwreiddiol. Bydd y penderfyniad yn derfynol ac mewn grym ar unwaith.

**Penderfyniadau brys**

16.15 Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a nodir uchod yn berthnasol pan gadarnheir bod y penderfyniad sy'n cael ei wneud gan y Cabinet yn un brys yn unol â Rheolau’r Weithdrefn a nodir yn y Cyfansoddiad.

16.16 Ystyrir bod penderfyniad yn un brys os byddai unrhyw oedi wrth weithredu'r penderfyniad sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn yn rhagfarnu'n

*Parhad…*

ddifrifol fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau’r cyhoedd. Bydd cofnod y penderfyniad, a’r hysbysiad sy’n ei wneud yn gyhoeddus, yn nodi ym

marn y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad, a yw'r penderfyniad yn un brys ai peidio, ac felly heb fod yn destun y broses galw i mewn.

16.17 Ar ôl ystyried cyngor y Swyddog Monitro, rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad a gynigir yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau ac iddo gael ei drin fel mater o frys. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd angen cydsyniad yr Is-gadeirydd. Yn absenoldeb yr Is-gadeirydd, mae angen cydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Yn absenoldeb pob un o'r uchod bydd angen cydsyniad y Prif Weithredwr (Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig) neu'r Swyddog Monitro.

16.18 Mae'n rhaid i benderfyniadau a wneir fel mater o frys gael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, ynghyd â'r rhesymau dros y brys

16.19 Bydd gweithrediad y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â galw i mewn a materion brys yn cael ei fonitro'n flynyddol a chyflwynir adroddiad gerbron y Cyngor gyda chynigion i'w hadolygu pe bai angen.

**Atodiad 13**
Dogfen D

# RHEOLAU GWEITHDREFN Y CABINET

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur a gwasanaeth:
Dyddiad cymeradwyo'r Cyngor: 21 Mawrth 2019
Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad adolygu:

**1.1 PWY A ALL WNEUD PENDERFYNIADAU CABINET?**

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu sut y bydd swyddogaethau'r Cabinet yn cael eu cyflawni gan y canlynol:

1.1.4 y Cabinet cyfan;
1.1.2 Pwyllgor o'r Cabinet;
1.1.3 aelod unigol o'r Cabinet;
1.1.4 swyddog;
1.1.5 cyd drefniadau; neu
1.1.6 awdurdod lleol arall.

**1.2 DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD**

Yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd yr Arweinydd yn cyflwyno i'r Cyngor gofnod ysgrifenedig o ddirprwyaethau a wnaethpwyd ganddo/ganddi i'w cynnwys yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn. Bydd y ddogfen a gyflwynir gan yr Arweinydd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol ynglŷn â swyddogaethau'r Cabinet parthed y flwyddyn sydd i ddod:

i. enwau, cyfeiriadau ac adrannau etholiadol y rhai a benodir i'r Cabinet gan yr Arweinydd;
ii. maint unrhyw awdurdod a ddirprwywyd i aelodau'r Cabinet yn unigol, gan gynnwys manylion unrhyw gyfyngiadau ar eu hawdurdod;
iii. cylch gorchwyl a chyfansoddiad pa Bwyllgorau Cabinet bynnag y bydd yr Arweinydd yn eu penodi ac enwau'r aelodau Cabinet a benodir iddynt;
vi. natur a maint unrhyw ddirprwyo ar swyddogaethau'r Cabinet i unrhyw awdurdod arall neu unrhyw gyd drefniadau ac enwau'r aelodau Cabinet hynny a benodir i unrhyw Gyd Bwyllgor am y flwyddyn sydd i ddod i ddod; a
natur a maint unrhyw ddirprwyo i swyddogion gyda manylion unrhyw gyfyngiadau ar y dirprwyo hwnnw, a theitl y swyddog y gwneir y dirprwyo iddo.

**1.3 IS-DDIRPRWYO SWYDDOGAETHAU CABINET**

1.3.1 Lle bo'r Cabinet, Pwyllgor o'r Cabinet neu aelod unigol o'r Cabinet yn

gyfrifol am swyddogaeth Gabinet, gall ddirprwyo ymhellach drwy gyd drefniadau neu i swyddog.

1.3.2 Oni fydd y Cyngor yn cyfarwyddo fel arall, os bydd yr Arweinydd yn dirprwyo swyddogaethau i'r Cabinet, yna gall y Cabinet ddirprwyo ymhellach i Bwyllgor o'r Cabinet neu i swyddog.

1.3.3 Oni fydd yr Arweinydd yn cyfarwyddo fel arall, gall Pwyllgor o'r Cabinet y dirprwyir swyddogaethau iddo gan yr Arweinydd ddirprwyo ymhellach i swyddog;

1.3.4 Hyd yn oed lle bo swyddogaethau Cabinet wedi eu dirprwyo, nid yw'r ffaith honno'n atal cyflawni swyddogaethau wedi eu dirprwyo gan y sawl neu'r corff a ddirprwyodd y swyddogaethau hynny.

**1.4 CYNLLUN DIRPRWYO'R CYNGOR A SWYDDOGAETHAU'R CABINET**

1.4.1 Yn amodol ar 1.4.2 isod bydd yn rhaid i gynllun dirprwyo'r Cyngor gael ei fabwysiadu gan y Cyngor a dim ond y Cyngor all ei ddiwygio. Bydd yn cynnwys y manylion sy'n angenrheidiol yn Erthygl 7 ac a nodir yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

1.4.2 Mae''r Arweinydd yn gallu penderfynu p'run ai a yw am ddirprwyo swyddogaethau'r Cabinet ai peidio, a gall ef/hi ddiwygio'r cynllun dirprwyo sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cabinet unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. I wneud hynny, rhaid i'r Arweinydd roi rhybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol ac i'r person, y corff neu'r Pwyllgor dan sylw. Rhaid i'r rhybudd nodi maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a ph'un ai a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth oddi wrth unrhyw berson, corff, Pwyllgor neu'r Cabinet cyfan. Bydd y Swyddog Priodol yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor gan nodi'r newidiadau a wnaethpwyd gan yr Arweinydd.

1.4.3 Os bydd yr Arweinydd yn ceisio tynnu dirprwyaeth oddi wrth Bwyllgor o'r Cabinet, tybir bod rhybudd wedi ei roi i'r Pwyllgor hwnnw pan fo ef/hi wedi ei roddi i'w Gadeirydd.

**1.5 GWRTHDARO BUDDIANNAU**

1.5.1 Lle bo gan yr Arweinydd fuddiannau'n gwrthdaro dylid ymdrin â hynny fel y nodir yng Nghod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

1.5.2 Os oes gan bob aelod o'r Cabinet fuddiannau'n gwrthdaro dylid ymdrin â hyn fel y nodir yng Nghod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn a chan ymgynghori â'r Swyddog Monitro.

1.5.3 Os yw swyddogaeth Gabinet wedi ei dirprwyo i Bwyllgor o'r Cabinet, aelod unigol neu swyddog, ac mae buddiannau'n gwrthdaro, yna bydd y swyddogaeth yn cael ei harfer yn y lle cyntaf gan y sawl neu'r corff a wnaeth y dirprwyo ac fel arall fel y nodir yng Nghod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn a chan ymgynghori â'r Swyddog Monitro.

**1.6 CYFARFODYDD CABINET – PRYD A BLE?**

Bydd y Cabinet yn cyfarfod o leiaf 10 gwaith y flwyddyn ar adegau i'w cytuno gan yr Arweinydd. Bydd y Cabinet yn cyfarfod yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron neu leoliad arall i'w gytuno gan yr Arweinydd.

**1.7 CYFARFODYDD CYHOEDDUS NEU BREIFAT O'R CABINET?**

Bydd pob cyfarfod o'r Cabinet yn agored i'r cyhoedd yn amodol ar Reolau Mynediad at Wybodaeth Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

**1.8 CWORWM**

Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Cabinet, neu Bwyllgor ohono, fydd 3 gan gynnwys yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd.

**1.9 SUT MAE PENDERFYNIADAU I FOD I GAEL EU GWNEUD GAN Y CABINET?**

1.9.1 Bydd y penderfyniadau Cabinet hynny sydd wedi eu dirprwyo i'r Cabinet yn cael eu gwneud mewn cyfarfod a elwir yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

1.9.2 Os yw penderfyniadau Cabinet wedi eu dirprwyo i Bwyllgor o'r Cabinet, bydd y rheolau sy'n berthnasol i benderfyniadau Cabinet a wneir ganddo yr un fath â'r rhai hynny sy'n berthnasol i'r rhai a wneir gan y Cabinet.

**1.10 PLEIDLEISIO**

**1.10.1 MWYAFRIF**

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r aelodau hynny o Bwyllgor y Cabinet sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

**1.10.2 PLEIDLAIS FWRW'R CADEIRYDD**

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis defnyddio pleidlais fwrw.

Formatted: Indent: Left: 0 cm
Formatted: Indent: Left: 0 cm, Tab stops: 1.26 cm, Left
Formatted: Font: Not Bold
Formatted: Indent: Left: 1.26 cm, Tab stops: 1.26 cm, Left
Formatted: Indent: Left: 0 cm, Tab stops: 1.26 cm, Left
Formatted: Font: Not Bold
Formatted: Indent: Left: 1.26 cm, Tab stops: 1.26 cm, Left
Formatted: Font: Not Bold
Formatted: Font: Not Bold

## 2. SUT Y CYNHELIR CYFARFODYDD O'R CABINET?

### 2.1 Pwy sy'n llywyddu?

Bydd yr Arweinydd yn llywyddu mewn unrhyw gyfarfodydd o'r Cabinet neu ei Bwyllgorau y mae ef neu hi yn bresennol ynddynt, neu gall benodi'r Dirprwy Arweinydd neu rywun arall i wneud hynny.

### 2.2 Pwy all fod yn bresennol?

Cyflwynir y manylion hyn yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth sydd yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

### 2.3 Pa fusnes?

Ym mhob un o gyfarfodydd y Cabinet cyflawnir y busnes canlynol:

2.3.1 ystyried Cofnodion y cyfarfod diwethaf;
2.3.2 datgelu buddiannau personol, os oes rhai;
2.3.3 materion a gyfeiriwyd at y Cabinet (naill ai gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu gan y Cyngor) i'w hailystyried gan y Cabinet yn unol â'r darpariaethau a gynhwysir yn Rheolau'r Weithdrefn Trosolwg a Chraffu neu Reolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi a nodir yn Rhan 4

y Cyfansoddiad hwn;

2.3.4 ystyried adroddiadau o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu; ac

2.3.5 materion a gyflwynir yn agenda'r cyfarfod, ac a fydd yn nodi'r penderfyniadau hynny nad ydynt yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

**2.4 Aflonyddu cyffredinol**

Os bydd aflonyddu cyffredinol yn ei gwneud hi'n amhosibl cynnal busnes yn drefnus, gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod cyhyd ag y creda ef/hi sydd yn angenrheidiol.

**2.5 Aflonyddu gan y cyhoedd**

2.5.1.**Symud aelod o'r cyhoedd o'r ystafell**

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn ymyrryd yn y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r sawl sy'n gyfrifol. Os bydd yn parhau i ymyrryd, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo/iddi gael ei symud o ystafell y cyfarfod.

2.5.2 **Clirio rhan o'r ystafell gyfarfod**

Os bydd aflonyddu cyffredinol mewn unrhyw ran o'r ystafell gyfarfod sydd ar agor i'r cyhoedd, gall y Cadeirydd alw glirio'r rhan honno.

**2.6 Ymgynghori**

Rhaid i bob adroddiad sy'n mynd gerbron y Cabinet oddi wrth unrhyw aelod o'r Cabinet neu swyddog ynglŷn â chynigion sy'n ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisi, gynnwys manylion ynghylch natur a maint yr ymgynghori â'r rhanddeilaid a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol, a chanlyniad yr ymgynghori hwnnw. Bydd Adroddiadau ynglŷn â materion eraill yn cyflwyno manylion a chanlyniad yr ymgynghori fel bo'n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy'n angenrheidiol yn briodol i natur y mater o dan ystyriaeth.

**2.7 Pwy all roi eitemau ar Agenda'r Cabinet?**

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu ynghylch yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet. Gall roi unrhyw fater y mae'n ei ddymuno ar agenda unrhyw gyfarfod o'r Cabinet, p'run ai a ddirprwywyd awdurdod i'r Cabinet, i un o'i Bwyllgorau, neu i

unrhyw aelod neu swyddog ynghylch y mater hwnnw ai peidio. Bydd y Swyddog Priodol yn cydymffurfio â cheisiadau'r Arweinydd yn hyn o beth.

Gall unrhyw aelod o'r Cabinet fynnu bod y Swyddog Priodol yn sicrhau bod eitem yn cael ei rhoi ar agenda'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cabinet i'w hystyried. Os bydd yn cael cais o'r fath bydd y Swyddog Priodol yn cydymffurfio.
Bydd y Swyddog Priodol yn sicrhau y gosodir eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cabinet lle bo Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol neu'r Cyngor llawn wedi penderfynu y dylai'r eitem gael ei hystyried gan y Cabinet.

Bydd eitem sefydlog ar agenda pob un o gyfarfodydd y Cabinet ar gyfer materion a gyfeiriwyd gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.
Gall unrhyw aelod o'r Cyngor ofyn i'r Arweinydd roi eitem ar agenda cyfarfod o'r Cabinet i'w hystyried, ac os bydd yr Arweinydd yn cytuno bydd yr eitem yn cael ei hystyried yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cabinet. Bydd y rhybudd ynglŷn â'r cyfarfod yn rhoi enw'r Cynghorydd a ofynnodd i'r eitem gael ei hystyried.

Gall y Swyddog Monitro ac/neu'r Prif Swyddog Cyllid gynnwys eitem i'w hystyried ar agenda cyfarfod o'r Cabinet a gall ofyn i'r Swyddog Priodol alw cyfarfod o'r fath yn unol â'u dyletswyddau statudol. O dan amgylchiadau eraill, lle bo unrhyw ddau o blith Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Prif Swyddog Cyllid a'r Swyddog Monitro o'r farn bod angen galw cyfarfod o'r Cabinet i ystyried mater y mae angen penderfyniad yn ei gylch, gallant gynnwys eitem ar y cyd ar agenda'r cyfarfod o'r Cabinet. Os nad oes unrhyw gyfarfod o'r Cabinet yn digwydd yn ddigon buan i ymdrin â'r mater dan sylw, yna gall y sawl (y rhai) sydd â hawl i gynnwys eitem ar yr agenda ei gwneud yn ofynnol hefyd i gyfarfod o'r Cabinet gael ei alw lle bydd y mater yn cael ei ystyried.

**3. Cyhoeddi Penderfyniadau**

3.1 Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, gan aelod unigol o'r Cabinet neu Bwyllgor o'r Cabinet neu o dan gyd drefniadau, cyhoeddir y penderfyniad, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl drwy ddulliau electronig, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud. Anfonir copïau o'r cofnodion o'r penderfyniadau hynny at yr Aelodau o fewn 2 ddiwrnod gwaith, gan y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad. (Gweler Dogfen E)

3.2 Bydd yr hysbysiad o benderfyniadau yn nodi'r dyddiad y caiff ei gyhoeddi a

bydd yn nodi y daw'r penderfyniad i rym, ac y gellir ei weithredu wedyn, ar ddiwedd 5 o ddiwrnodiau gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai fod tri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol y mae ei gylch gorchwyl yn gysylltiedig â phenderfyniad y Cabinet (fel y nodir yn Erthygl 6 Rhan 2 y Cyfansoddiad) neu chwe aelod etholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, yn ei wrthwynebu ac yn ei alw i mewn. (Gweler Dogfen E)

**Atodiad 14 – Detholiad:**
**Drafft – Pleidleisio, Rheolau'r Weithdrefn Trosolwg A Chraffu, Rhan 4. Dogfen E, Cyfansoddiad**

# RHEOLAU'R WEITHDREFN TROSOLWG A CHRAFFU

Awdur a gwasanaeth:
Dyddiad cymeradwyo'r Cyngor: 19 Mawrth 2019
Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad adolygu:

# Cynnwys

1. BETH FYDD Y NIFER A'R TREFNIADAU AR GYFER Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU? .......... 3

2. PWY ALL EISTEDD AR BWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU? .......... 3

3. AELODAU CYFETHOLEDIG .......... 3

4. CYNRYCHIOLWYR ADDYSG .......... 3

5. CYFARFODYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU .......... 4

6. CWORWM .......... 4

7. PWY SY'N CADEIRIO CYFARFODYDD PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU? .......... 4

8. RHAGLEN WAITH .......... 5

9. EITEMAU AR YR AGENDA .......... 5

10. ADOLYGU A DATBLYGU POLISÏAU .......... 5

11. ADRODDIADAU O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU .......... 6

12. SICRHAU BOD ADRODDIADAU TROSOLWG A CHRAFFU YN CAEL EU HYSTYRIED GAN Y CABINET .......... 6

13. HAWLIAU AELODAU PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU I DDOGFENNAU .......... 7

14. AELODAU A SWYDDOGION YN RHOI CYFRIF .......... 8

15. PRESENOLDEB POBL ERAILL .......... 9

16. GALW I MEWN .......... 9

17. CHWIP Y BLAID .......... 11

18. Y DREFN YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU .......... 11

19. MATERION SYDD O FEWN CYLCH GWAITH MWY NAG UN PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU .......... 12

ATODIAD 1: .......... **Error! Bookmark not defined.**

## 1. BETH FYDD Y NIFER A'R TREFNIADAU AR GYFER Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU?

Bydd gan y Cyngor y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a nodir yn Erthygl 6 a bydd yn penodi iddynt fel yr ystyria'n briodol o bryd i'w gilydd. Gall y Pwyllgorau hynny benodi Is-bwyllgorau. Gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gael eu penodi hefyd am gyfnod penodol, ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw byddant yn peidio â bod. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n i'w weld yn Atodiad 1 y ddogfen hon. Mae'r rhestr gyfredol o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn Atodiad 2 y Ddogfen hon.

## 2. PWY ALL EISTEDD AR BWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU?

Gall pob Cynghorydd ac eithrio aelodau'r Cabinet fod yn aelodau o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Fodd bynnag, ni all unrhyw aelod fod yn ymwneud â chraffu ar benderfyniad y mae ef/hi wedi bod â chysylltiad uniongyrchol ag ef.

## 3. AELODAU CYFETHOLEDIG

Bydd gan bob Pwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu hawl i argymell i'r Cyngor ynglŷn â phenodi aelodau cyfetholedig na fyddant yn cael pleidleisio, yn amodol ar uchafswm o 2 ar bob Pwyllgor, heblaw am y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a fydd yn cynnwys 9 o aelodau cyfetholedig na fyddant yn cael pleidleisio, o blith undebau'r athrawon a'r eglwysi rhyddion yng Ngheredigion.

## 4. CYNRYCHIOLWYR ADDYSG

Bydd pob Pwyllgor / Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol sy'n ymdrin â materion addysg yn cynnwys o fewn ei aelodau y cynrychiolwyr pleidleisio canlynol:

- 1 Cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru;
- 1 Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig;
- Cynrychiolydd o'r Eglwysi Annibynnol;
- 2 Gynrychiolydd sy'n rhieni-lywodraethwyr.

Mae Pwyllgor/Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol yn y paragraff hwn yn golygu Pwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Awdurdod Addysg Lleol, lle mae swyddogaethau'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb i Gabinet yr Awdurdod. Os bydd

y Pwyllgor/Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu'n ymdrin â materion eraill, ni fydd y cynrychiolwyr hyn yn pleidleisio ar y materion eraill hynny ac ni allant fod yn bresennol yn y cyfarfodydd ac eithrio fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor yn unig i drafod y materion eraill hynny os gwahoddir hwy i wneud hynny.

**5. CYFARFODYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU**

Cynhelir o leiaf 5 cyfarfod cyffredin o bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu bob blwyddyn. Yn ychwanegol, gellir galw cyfarfodydd Arbennig o bryd i'w gilydd fel bo'n briodol. Gall cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol alw cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, a gall unrhyw 6 o aelodau'r Pwyllgor wneud hynny hefyd neu'r Swyddog Priodol os bydd yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

**6. CWORWM**

Bydd y cworwm ar gyfer Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y nodir ar gyfer Pwyllgorau yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

**7. PLEIDLEISIO**

**7.1 MWYAFRIF**

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r aelodau Pwyllgor hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y cyflwynwyd yr argymhelliad neu'r cynnig.

**7.2 PLEIDLAIS FWRW'R CADEIRYDD**

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis defnyddio pleidlais fwrw.

**8. PWY SY'N CADEIRIO CYFARFODYDD PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU?**

Penderfynir ar y Cadeirydd yn unol ag adran 75, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**9. RHAGLEN WAITH**

Bydd y Pwyllgorau/Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a hynny'n amodol ar y Pwyllgor Cydlynu, yn gyfrifol am osod eu rhaglen waith eu hunain ac wrth wneud hynny byddant yn ystyried dymuniadau'r aelodau hynny o'r Pwyllgor hwnnw nad ydynt yn aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.

**10. EITEMAU AR YR AGENDA**

Bydd gan unrhyw aelod o Bwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu hawl i roi rhybudd i'r Swyddog Priodol ei fod ef/bod hi yn dymuno i eitem sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor gael ei chynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor a'i thrafod ynddo.
O gael cais o'r fath bydd y swyddog priodol yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys ar yr agenda nesaf sydd ar gael.

Gall unrhyw 6 aelod o'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu roi rhybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol y dymunant i eitem gael ei chynnwys ar agenda Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. Os bydd y Swyddog Priodol yn cael hysbysiad o'r fath, yna bydd yn cynnwys yr eitem ar yr agenda gyntaf sydd ar gael gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol i'r Pwyllgor ei hystyried.

Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n ymateb hefyd, cyn gynted ag y bo ei raglen waith yn caniatáu, i geisiadau oddi wrth y Cyngor ac os ystyrir bod hynny'n briodol, oddi wrth y Cabinet i adolygu meysydd arbennig o blith gweithgareddau'r Cyngor. Os byddant yn gwneud hynny, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cyflwyno adroddiad ynghylch eu canfyddiadau ac unrhyw argymhellion gerbron y Cyngor ac/neu'r Cabinet.

**11. ADOLYGU A DATBLYGU POLISÏAU**

10.1 Mae rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o ran datblygu cyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor wedi ei nodi'n fanwl yn Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

10.2 Mewn perthynas â datblygu agwedd y Cyngor at faterion eraill nad ydynt yn rhan o'i gyllideb a'i fframwaith polisi, gall Pwyllgorau neu Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu wneud cynigion i'r Cabinet ar gyfer datblygiadau i'r

graddau y maent yn ymwneud â materion sydd o fewn eu cylch gorchwyl.

10.3 Gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gynnal ymchwiliadau ac ymchwilio i'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer y cyfeiriad at y dyfodol o ran datblygu polisïau a gallant benodi ymgynghorwyr ac aseswyr i'w cynorthwyo yn y broses hon. Gallant fynd ar ymweliadau safle, cynnal arolygon cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu ymchwil a gwneud yr holl bethau eraill y gallant yn rhesymol eu hystyried yn angenrheidiol i fod yn sail i'w trafodion. Gallant ofyn i dystion fod yn bresennol i'w hannerch ar unrhyw fater sydd o dan ystyriaeth a gallant dalu ffi a threuliau rhesymol i unrhyw ymgynghorwyr, aseswyr a thystion am wneud hynny.

## 12. ADRODDIADAU O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

11.1 Unwaith y bydd wedi ffurfio argymhellion ynglŷn â chynigion ar gyfer datblygu, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n paratoi adroddiad ffurfiol a'i gyflwyno i'r Swyddog Priodol i'w ystyried gan y Cabinet (os yw'r cynigion yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi presennol), neu'r Cyngor fel bo'n briodol (e.e. pe bai'r argymhelliad yn golygu gwyro oddi wrth y gyllideb a'r fframwaith polisi a gytunwyd neu'u newid).

11.2 Os na all Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gytuno ynghylch un adroddiad terfynol sengl i'r Cyngor neu'r Cabinet fel bo'n briodol, yna gellir paratoi hyd at un adroddiad lleiafrifol a'i gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor neu'r Cabinet gyda'r adroddiad mwyafrifol.

## 13. SICRHAU BOD ADRODDIADAU TROSOLWG A CHRAFFU YN CAEL EU HYSTYRIED GAN Y CABINET

13.1 Unwaith y bydd adroddiad Trosolwg a Chraffu ynghylch unrhyw fater sy'n gyfrifoldeb i'r Cabinet wedi ei gwblhau, bydd yn cael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cabinet, oni bai fod y mater a drafodir yn yr adroddiad wedi ei amserlennu i'w ystyried gan y Cabinet o fewn cyfnod o 4 wythnos wedi'r dyddiad y cafodd yr adroddiad ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mewn achosion o'r fath, bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu pan fydd yn ystyried y mater hwnnw. Os na fydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad Trosolwg a Chraffu o fewn 6

wythnos am unrhyw reswm, yna cyfeirir y mater at y Cyngor i'w adolygu, a bydd y Swyddog Priodol yn galw cyfarfod o'r Cyngor i ystyried yr adroddiad a gwneud argymhelliad i'r Cabinet.

13.2 Lle bo Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn paratoi adroddiad i'w ystyried gan y Cabinet ynglŷn â mater lle mae'r Arweinydd neu'r Cyngor wedi dirprwyo pŵer i wneud penderfyniadau i aelod unigol arall o'r Cabinet, yna bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyflwyno copi o'i adroddiad i'r unigolyn hwnnw i'w ystyried. Ar yr adeg y gwneir hynny, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhoi copi i'r Swyddog Priodol a'r Arweinydd. Os nad yw'r aelod gyda phŵer wedi ei ddirprwyo i wneud penderfyniadau yn derbyn argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yna mae'n rhaid iddo ef/iddi hi gyfeirio'r mater at y cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cabinet i'w drafod cyn arfer ei bŵer ef/ei phŵer hi i wneud penderfyniadau ac ymateb i'r adroddiad yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Bydd yr aelod Cabinet y dirprwywyd y pŵer i wneud penderfyniadau iddo/iddi yn ymateb i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o fewn 4 wythnos ar ôl ei gael. Bydd copi o'i ymateb ysgrifenedig ef/ei hymateb ysgrifenedig hi iddo yn cael ei anfon at y Swyddog Priodol a bydd ef/hi yn bresennol mewn cyfarfod yn y dyfodol i ymateb.

13.3 Bydd gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fynediad at raglen waith y Cabinet at y dyfodol i weld y penderfyniadau a'r bwriadau o ran ymgynghori. Hyd yn oed pan nad yw eitem yn destun cynigion manwl gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn sgil ystyried y datblygiadau posibl o ran polisïau/gwasanaethau, bydd y Pwyllgor yn gallu ymateb yn ystod proses ymgynghori'r Cabinet.

## 14. HAWLIAU AELODAU PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU I DDOGFENNAU

13.1 Yn ogystal â'r hawliau sydd ganddynt fel Cynghorwyr, mae gan aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hawl ychwanegol i ddogfennau, ac i rybudd o gyfarfodydd fel y nodir yn Rheolau'r Weithdrefn Mynediad at Wybodaeth a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

13.2 Nid oes dim yn y paragraff hwn yn atal cysylltiadau manylach rhwng y Cabinet a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu fel bo'n briodol, gan ddibynnu ar y

mater neilltuol sydd o dan ystyriaeth.

## 15. AELODAU A SWYDDOGION YN RHOI CYFRIF

15.1 Gall unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu graffu ar benderfyniadau a wneir neu gamau a gymerir parthed cyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor a'u hadolygu. Yn ogystal ag adolygu dogfennaeth, wrth gyflawni'r swyddogaeth graffu, gall ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Cabinet, y Prif Weithredwr ac/neu unrhyw Gyfarwyddwr neu Gyfarwyddwr Cynorthwyol ddod o'i flaen i egluro ynghylch materion sydd o fewn eu cylch gorchwyl:

15.1.1 unrhyw benderfyniad neilltuol neu gyfres o benderfyniadau; ac/neu

15.1.2 i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; ac/neu

15.1.3 perfformiad y gwasanaethau,

a bydd dyletswydd ar y rhai hynny i fod yn bresennol i'r perwyl hwnnw os bydd gofyn.

15.2 Lle bo'n ofynnol i unrhyw aelod neu swyddog fod yn bresennol mewn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o dan y ddarpariaeth hon, bydd cadeirydd y Pwyllgor hwnnw'n hysbysu'r Swyddog Priodol. Bydd y Swyddog Priodol yn hysbysu'r aelod neu'r swyddog yn ysgrifenedig gan roi o leiaf 10 o ddiwrnodau gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae'n ofynnol iddo ef/iddi hi fod yn bresennol ynddo. Bydd y rhybudd yn nodi natur yr eitem y mae angen iddo ef/iddi hi fod yn bresennol yn ei chylch i roi cyfrif a ph'un ai a fydd angen cyflwyno unrhyw bapurau gerbron y Pwyllgor ai peidio. Lle bydd y cyfrif sydd i'w roi i'r Pwyllgor yn ei gwneud hi'n ofynnol llunio adroddiad, bydd yr aelod neu'r swyddog dan sylw'n cael digon o rybudd iddi ef/iddi hi fedru paratoi'r ddogfennaeth honno.

15.3 O dan amgylchiadau eithriadol, os bydd yr aelod neu'r swyddog yn methu â bod yn bresennol ar y dyddiad dan sylw, yna bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n mynd ati, gan ymgynghori â'r aelod neu'r swyddog, i drefnu dyddiad arall i fod yn bresennol.

## 16. PRESENOLDEB POBL ERAILL

Gall Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wahodd pobl heblaw am y bobl hynny a nodir ym mharagraff 14 uchod i'w annerch, trafod materion o bryder lleol ac/neu ateb cwestiynau. Er enghraifft, gall ddymuno clywed oddi wrth drigolion, rhanddeiliaid ac aelodau a swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a gall wahodd pobl o'r fath i fod yn bresennol.

## 17. GALW I MEWN

17.1 Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, gan aelod unigol o'r Cabinet neu Bwyllgor o'r Cabinet neu o dan gyd drefniadau, cyhoeddir y penderfyniad, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl drwy ddulliau electronig, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud. Anfonir copïau o'r cofnodion o'r penderfyniadau hynny at yr Aelodau o fewn 2 ddiwrnod gwaith, gan y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad. (Gweler Dogfen D)

17.2 Bydd yr hysbysiad o benderfyniadau ynnodi'r dyddiad y caiff ei gyhoeddi a bydd yn nodi y daw'r penderfyniad i rym, ac y gellir ei weithredu wedyn, ar ddiwedd 5 o ddiwrnodiau gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai fod tri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol y mae ei gylch gorchwyl yn gysylltiedig â phenderfyniad y Cabinet (fel y nodir yn Erthygl 6 Rhan 2 y Cyfansoddiad) neu chwe aelod etholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, yn ei wrthwynebu ac yn ei alw i mewn. (Gweler Dogfen D)

17.3 Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Swyddog Priodol yn galw penderfyniad i mewn er mwyn i'r Pwyllgor perthnasol graffu arno fel y diffinnir ym mharagraff 16.1 uchod os gofynnir am hynny gan unrhyw dri aelod o'r Pwyllgor neu chwe aelod etholedig o'r Cyngor a chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, ac yna bydd yn hysbysu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ynglŷn â'r galw i mewn. Bydd yn galw cyfarfod o'r Pwyllgor ar ba ddyddiad bynnag y bydd yn ei bennu, a lle bo hynny'n bosibl ar ôl ymgynghori â chadeirydd y Pwyllgor, a beth bynnag fo'r achos o fewn 8 diwrnod wedi'r penderfyniad i alw i mewn.

17.4 Ar ôl ystyried y penderfyniad, os bydd y Pwyllgor yn dal yn bryderus ynglŷn ag ef, gall ei gyfeirio yn ôl at y sawl neu'r corff a wnaeth y penderfyniad

i'w ailystyried, gan gyflwyno natur ei bryderon yn ysgrifenedig neu gyfeirio'r mater at y Cyngor llawn. Os cyfeirir y mater at y sawl sy'n gwneud y penderfyniad, bydd y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad yn ailystyried o fewn 10 o ddiwrnodiau gwaith pellach, gan ddiwygio'r penderfyniad neu beidio, cyn gwneud penderfyniad terfynol.

17.5 Yn dilyn gwrthwynebiad i'r penderfyniad, os nad yw'r Pwyllgor yn cyfarfod yn y cyfnod a nodir uchod, neu os yw'n cyfarfod ond nid yw'n cyfeirio'r mater yn ôl at y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad, daw'r penderfyniad i rym ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, neu ar ôl i'r cyfnod pellach hwnnw o ddeg o ddiwrnodiau gwaith ddirwyn i ben, pa un bynnag yw'r cynharaf.

17.6 Pe bai'r mater wedi ei gyfeirio at y Cyngor llawn ac nid yw'r Cyngor yn gwrthwynebu penderfyniad sydd wedi ei wneud, yna ni fydd angen camau pellach a bydd y penderfyniad yn effeithiol yn unol â'r ddarpariaeth isod. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn gwrthwynebu, bydd y Cyngor yn cyfeirio unrhyw benderfyniad y mae'n ei wrthwynebu yn ôl at y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad, ynghyd â barn y Cyngor ynglŷn â'r penderfyniad. Bydd y corff neu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn dewis p'un ai i ddiwygio'r penderfyniad neu beidio cyn gwneud penderfyniad terfynol a'i weithredu. Lle gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Cabinet cyfan neu bwyllgor ohono, gelwir cyfarfod ynghyd i ailystyried o fewn 10 niwrnod gwaith wedi cais y Cyngor. Lle gwnaethpwyd y penderfyniad gan unigolyn, bydd yr unigolyn yn ailystyried o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl cael cais y Cyngor.

17.7 Os nad yw'r Cyngor yn cyfarfod o fewn 15 diwrnod gwaith, neu os yw'n cyfarfod ond nid yw'n cyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y corff neu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad, bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddyddiad cyfarfod y Cyngor neu'r adeg y bydd y cyfnod y dylid bod wedi cynnal cyfarfod y Cyngor yn dirwyn i ben, p'run bynnag yw'r cynharaf.

17.8 Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a nodir uchod yn gymwys lle bo penderfyniad y Cabinet yn un brys. Bydd penderfyniad yn un brys pe bai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn yn peri niwed difrifol i fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau'r cyhoedd. Bydd y cofnod

o'r penderfyniad, a'r rhybudd sy'n ei wneud yn gyhoeddus, yn nodi p'run ai ym marn y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad, a yw'r penderfyniad yn un brys ai peidio, ac felly heb fod yn amodol ar y broses galw i mewn. Rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad arfaethedig yn rhesymol drwyddi draw ac y dylid ei drin fel mater o frys. Yn absenoldeb y Cadeirydd bydd angen caniatâd yr Is-gadeirydd. Yn absenoldeb y ddau, bydd angen caniatâd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig neu'r Swyddog Monitro. Mae'n rhaid i benderfyniadau a wneir fel mater o frys gael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, ynghyd â'r rhesymau dros y brys.

17.9 Bydd gweithrediad y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â galw i mewn a materion brys yn cael ei fonitro'n flynyddol a chyflwynir adroddiad gerbron y Cyngor gyda chynigion i'w hadolygu pe bai angen.

**18. CHWIP Y BLAID**

Ystyrir chwip y blaid yn unol ag Adran 78, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru 2011).

**19. Y DREFN YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU**

19.1 Bydd Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n ystyried y busnes canlynol:

19.1.1 cofnodion y cyfarfod diwethaf;

19.1.2 datgelu buddiannau (gan gynnwys datganiadau chwipio);

19.1.3 ystyried unrhyw faterion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor am benderfyniad mewn perthynas â galw penderfyniad i mewn;

19.1.4 ymatebion y Cabinet i adroddiadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu; ac

19.1.5 pob busnes arall a gyflwynir ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

19.2 Lle bo'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnal ymchwiliadau (e.e. gyda'r bwriad o ddatblygu polisi), gall y Pwyllgor hefyd ofyn i bobl fod yn bresennol er mwyn rhoi tystiolaeth mewn cyfarfodydd Pwyllgor sydd i'w cynnal yn unol â'r egwyddorion canlynol:

19.2.1 bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn deg a bydd holl aelodau'r Pwyllgor yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r rhai sy'n bresennol, a chyfrannu a siarad;

19.2.2 bydd y rhai hynny sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor drwy roi tystiolaeth yn cael eu trin gyda pharch a chwrteisi; ac

19.2.3 bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal mewn modd a fydd yn sicrhau bod yr ymchwiliad neu'r dadansoddiad mor effeithiol â phosibl.

19.3 Yn dilyn unrhyw ymchwiliad neu adolygiad, bydd y Pwyllgor/yr Is-bwyllgor yn paratoi adroddiad, i'w gyflwyno i'r Cabinet ac/neu'r Cyngor fel bo'n briodol a bydd yn gwneud ei adroddiad a'i ganfyddiadau'n gyhoeddus.

## 20. MATERION SYDD O FEWN CYLCH GWAITH MWY NAG UN PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

Lle bo mater i'w ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o gylch gwaith un neu ragor o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill hefyd, bydd y penderfyniad ynglŷn â pha Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a fydd yn ei ystyried yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cydlynu.

**Atodiad 15**

***H. DIRPRWYO I'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL: ECONOMI AC ADFYWIO***

Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio ac i unrhyw swyddogion a awdurdodir ganddo / ganddi o dro i dro fel y bo'n briodol ar yr amod bod y swyddogion yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny.

1. Trafod a chwblhau trafodion i brynu a gwerthu tir ac eiddo, rhoddi prydlesau i'r Cyngor ac oddi wrtho'n unol â'r Cynllun Rheoli Asedau a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.
2. Trafod a chwblhau cytundebau fforddfraint, hawddfraint a thrwyddedau.
3. Rhoddi caniatâd sy'n ymwneud â defnydd tir ac eiddo'r Cyngor.
4. Ardystio bod prisiadau'n dderbyniol at ddibenion trawsgludo, prydlesu a phwrpasau perthnasol eraill parthed unrhyw asedau neu fuddiannau i'w gwaredu, i'w caffael neu'u prydlesu'n unol â'r Cynllun Rheoli Asedau.
5. Derbyn a chyflwyno unrhyw hysbysiadau a fydd yn ofynnol o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995.
6. Cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer tir ac adeiladau'r Cyngor ac ar gyfer Gwaith Peirianyddol fel bo angen i asesu'r potensial i ddatblygu cyn gwerthu tir neu i gyflawni datblygiadau ar ran y Cyngor.
7. Ymgynghori gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu i gymeradwyo ceisiadau i aseinio prydlesau ac is-osod llefydd lle na ellir yn rhesymol wrthod caniatáu ceisiadau o'r fath.
8. Gweithredu ar ran y Cyngor fel perchennog tir ac o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 o ran meddiannu tir heb awdurdod a defnyddio gwasanaethau cyflwynydd gwritiau lle bo'n briodol.
9. O ran rheoli ffermydd a thyddynnod at y dyfodol, llunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer ffermydd a hysbysebir, eu gosod a chyflwyno Rhybuddion Ymadael, gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet priodol, a chan hysbysu'r Aelod Lleol priodol.
10. Adolygu rhenti fel bo'n briodol ar gyfer yr eiddo y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu rheoli.
11. Cyflwyno ceisiadau am arian grant ar gyfer prosiectau adnewyddu a chynlluniau tai.

12. Darparu gwasanaethau cynghori cymorth Ewropeaidd a chymorth monitro ar gyfer prosiectau'r Cyngor Sir a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a phrosiectau allanol.

13. Gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd a Chymunedol, penderfynu ynghylch ceisiadau am grantiau o dan y cynlluniau Grantiau Cymunedol a Grantiau Busnes.

14. Penderfynu ynghylch rhaglenni hysbysebu a marchnata a gwariant i hyrwyddo Ceredigion.

15. Derbyn eitemau a deunydd sy'n rhoddion i Amgueddfa'r Cyngor Sir.

16. Defnyddio, yn absenoldeb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ymyrraeth wedi'i Thargedu Porth Gofal, bwerau a dyletswyddau, ac i awdurdodi Swyddogion, o dan ddarpariaethau:

    a. Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015; a

    b. Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (gan gynnwys Rheoliadau a wnaed o dan hynny)

17. **<u>Yr Arfordir a Chefn Gwlad</u>**

Awdurdodi mynediad gan swyddogion, ymgynghorwyr a chontractwyr

17.1 Cofrestru datganiadau Adran 31 o dan Ddeddf y Priffyrdd 1980 o ran unrhyw adneuon cyfreithiol a wneir gan berchnogion tir rhag honiadau bod hawliau tramwy cyhoeddus ar eu tir o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n cynnwys map o'u daliad a datganiad i'r perwyl nad ydynt yn bwriadu cyflwyno unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus i'r cyhoedd.

17.2 Gwneud a chadarnhau Gorchmynion Cadw Coed o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

17.3 Penderfynu ynghylch ceisiadau i dorri, tocio neu ddifrigo unrhyw goed y mae Gorchymyn Cadw Coed yn gymwys iddynt.

17.4 Penderfynu ynghylch hysbysiadau i ddiddymu perth o dan Reoliadau'r Perthi 1997.

17.5 Penderfynu ynghylch ceisiadau sy'n ymwneud â pherthi uchel o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 1993 (Rhan 8).

17.6 Darparu ar gyfer newid y cofrestrau a gedwir o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965 [Cofrestrau Tir Comin a Lleiniau Glas Pentrefi];

i. os bydd unrhyw dir sydd wedi ei gofrestru o dan y Ddeddf hon yn peidio â bod yn dir comin neu lain glas tref neu bentref; neu
ii. os bydd unrhyw dir yn mynd yn dir comin neu'n llain tref neu bentref; neu
iii. os caiff unrhyw hawliau a gofrestrir o dan y Ddeddf hon eu dosrannu, eu diddymu neu'u rhyddhau, neu'u hamrywio neu'u trosglwyddo o dan unrhyw amgylchiadau a ragnodir parthed Adran 13 Deddf Cofrestru Tir Comin ac Adran 13 Deddf Cofrestru Tir Comin ac Adran 31 Deddf y Priffyrdd 1980

17.7 Penderfynu ynghylch achosion lle tybir bod tir wedi ei gyflwyno o dan Adran 31 Deddf y Priffyrdd 1980.

17.8 Penderfynu ynghylch ceisiadau i addasu'r map diffiniol a'r datganiad o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

17.9 Gwneud Gorchmynion Gwyro, Gorchmynion Diddymu a Gorchmynion Creu Llwybrau Cyhoeddus o dan adrannau perthnasol Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus) 1993 Deddf y Priffyrdd 1980 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a chadarnhau gorchmynion os na cheir gwrthwynebiadau, neu os caiff gwrthwynebiadau a wneir eu datrys wedi hynny Gwneud Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol o dan amrywiol isadrannau Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 gan gynnwys:

- Ychwanegiadau o dan Adran 53 (3) (c) (i) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Diddymiadau o dan Adran 53 (3) (c) (iii) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Newid aliniadau o dan Adran 53 (3) (c) (i) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac Adran 53 (3) (c) (iii) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Newid statws o dan Adran 53 (3) (c) (ii) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

17.10 Uwchraddio neu israddio'r Map ac/neu'r Datganiad o dan y newidiadau a hynny o dan Adran 53 (3) (c) (i) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac Adran 53 (3) (c) (iii) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.Gwneud Gorchmynion Ailddosbarthu Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus (RUPP) o dan Adran 54 Deddf Bywyd Gwyllt a

Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a chadarnhau gorchmynion os nad oes gwrthwynebiad neu os tynnir pob gwrthwynebiad yn ôl.

17.11 Y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hynny a osodir yn Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 sy'n ymwneud â chadw bioamrywiaeth.

17.12 Gwneud Gorchmynion Addasu Digwyddiadau Cyfreithiol (LEMO) parthed Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus, Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol neu orchmynion ailddosbarthu Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus.

17.13 Pwerau i wneud Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Deddf Rheoleiddio Traffig y Ffyrdd 1984 gan gynnwys:

- Cau mewn argyfwng
- Cau dros dro
- Cau'n barhaol

17.14 Pwerau i gymryd camau gorfodi fel bo'n briodol.

17.15 Pwerau parthed Tir Comin a Maes y Pentref, gan gynnwys rheoli / camau gorfodi fel bo'n briodol o dan Adran 9 Deddf Cofrestru Tir Comin 1965, amddiffyn Tir Comin sydd heb ei hawlio.

17.16 Ymgymryd â phob dyletswydd a chyfrifoldeb o dan adrannau canlynol Deddf y Priffyrdd 1980:-

- Adran 41 – Dyletswydd i gynnal a chadw'r priffyrdd a gynhelir ar gost y cyhoedd
- Adran 62 - Pŵer cyffredinol i wella
- Adran 66 – Pŵer i ddarparu a chynnal a chadw rhwystrau, rheiliau neu ffensys at ddibenion diogelu pawb sy'n defnyddio'r briffordd.
- Adran 76 – Pŵer i wneud gwaith i wastatáu'r briffordd
- Adran 77 – Pŵer i newid lefelau'r briffordd. Addasu lefelau
- Adran 82 - Pŵer i ddarparu ac i osod gridiau gwartheg a dargyfeiriadau
- Adran 83 – Pŵer i ddileu gridiau gwartheg a dargyfeiriadau
- Adran 91 – Pŵer i godi pont i gario priffordd gyfredol a gynhelir ar gost y cyhoedd.
- Adran 92 – Pŵer i ailadeiladu pont a gynhelir ar gost y cyhoedd.
- Adran 94 – Pwerau awdurdodau'r priffyrdd a pherchnogion pontydd i wneud cytundebau

- Adran 100 – Pŵer i ddraenio’r briffordd
- Adran 101 – Pŵer i lanw ffosydd min y ffordd
- Adran 102 – Pŵer i wneud gwaith i amddiffyn priffyrdd rhag peryglon naturiol
- Adran 122 – Pŵer i wneud dargyfeiriad dros dro os yw’r briffordd ar fin cael ei hatgyweirio neu’i lledu
- Adran 130 – Pwerau o ran y ddyletswydd i arddel ac amddiffyn hawliau’r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau unrhyw briffordd y mae’r Cyngor yn Awdurdod Priffyrdd drosti gan gynnwys unrhyw wastraff ar ochr y ffordd sy’n rhan ohoni.
- Adran 131 – Pwerau i roddi cosbau am ddifrodi priffyrdd
- Adran 134 – Pŵer i aredig a thocio Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Adran 135 – Pŵer i wyro llwybr troed neu lwybr ceffyl dros dro
- Adran 137 – Pŵer i roddi cosbau am rwystro bwriadus
- Adran 143 – Pŵer i symud rhwystrau o’r briffordd
- Adran 145 – Pwerau ynghylch gatiau ar briffyrdd
- Adran 146 – Dyletswydd i gynnal a chadw camfeydd ac ati ar lwybrau troed a llwybrau ceffyl
- Adran 147 – Pŵer i awdurdodi adeileddau newydd ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Adran 149 – Pŵer i symud niwsans o’r briffordd
- Adran 150 – Dyletswydd i symud eira a phridd o’r briffordd
- Adran 154 – Pŵer i symud coed peryglus
- Adran 163 – Dyletswydd i atal dŵr rhag cwympo ar y briffordd a rhag llifo arni
- Adran 164 – Pŵer i’w gwneud yn ofynnol dileu weiran bigog
- Adran 178 – Cyfyngiad ar roddi rheiliau, trawstiau ac ati ar draws y briffordd
- Adran 289 – Pŵer mynediad awdurdod y priffyrdd at ddibenion arolygu
- Adran 290 – Darpariaethau atodol sy’n ymwneud â phŵer mynediad at ddibenion arolygu
- Adran 291 – Pwerau mynediad awdurdod y priffyrdd at ddibenion cynnal a chadw
- Adran 293 – Pŵer mynediad ar dir i wneud gwaith ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Adran 296 - Pŵer y Cyngor i wneud gwaith trwy gytundeb
- Adran 297 – Pŵer awdurdod y priffyrdd i fynnu cael manylion

ynghylch perchnogaeth

- Adran 300 – Hawl defnyddio cerbydau a chyfarpar ar lwybrau troed a llwybrau ceffyl i wneud gwaith cynnal a chadw a gwelliannau

17.17 Ymgymryd â phob dyletswydd a chyfrifoldeb o dan adrannau canlynol Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000:-

17.18 Adran 63 (6) – Dyletswydd gorfodi i warchod rhag rhwystrau
17.19 Adran 137ZA - Pŵer i orchymyn tramgwyddwyr i symud rhwystrau

17.20 Ymgymryd â dyletswydd gosod arwyddion ar lwybrau troed a llwybrau ceffyl o dan Adran 27 Deddf Cefn Gwlad 1968.

17.21 Pŵer i gael manylion ynghylch perchnogaeth tir o dan Adran 297 Deddf y Priffyrdd 1981.

17.22 Dyletswydd rhoddi cosbau a mynnu bod hysbysiadau ac arwyddion camarweiniol yn cael eu symud o dan Adran 57 Deddf y Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949

17.23 Pŵer i orchymyn symud rhwystrau o dan Adran 137ZA Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

**18 Cynllunio Gwlad a Thref**

18.1 O ran cynllunio gwlad a thref, rheoli datblygu, cadwraeth a chofrestru tir comin:-

18.2 Cymeradwyo ceisiadau am ganiatâd cynllunio sy'n unol â'r cynllun datblygu, gan gynnwys y rhai hynny y mae cytundeb cynllunio ynghlwm wrthynt (Adran 106), a chan gynnwys cymeradwyo ceisiadau sy'n ymwneud â "materion a gedwir yn ôl" ar ôl rhoddi caniatâd cynllunio.

18.3 Cyd-drafod telerau ac amodau Cytundebau Adran 106 ac unrhyw amrywiadau i Gytundebau o'r fath lle bo hynny'n briodol.

18.4 Defnyddio unrhyw symiau gohiriedig a ddaw yn sgil Cytundeb Adran 106 ar gyfer tai fforddiadwy neu fudd cymunedol fel y nodir yn y Cytundeb.

18.5 Gwrthod ceisiadau am ganiatâd cynllunio nad ydynt yn unol â'r cynllun datblygu.

18.6 Cymeradwyo ceisiadau am Ganiatâd Adeiladau Rhestredig.

18.7 Penderfynu ynghylch ceisiadau am Dystysgrifau Defnydd Cyfreithlon.

18.8 Penderfynu ynghylch ceisiadau am Dystysgrifau Datblygiad Arall.

18.9 Penderfynu ynghylch ceisiadau a wneir o dan y Rheoliadau Rheoli

Hysbysebion.

18.10 Gosod amodau ar ganiatâd cynllunio a chaniatadau a chymeradwyaethau eraill.

18.11 Penderfynu ynghylch ceisiadau i gymeradwyo manylion sy'n ofynnol o dan amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio heblaw am "faterion a gedwir yn ôl".

18.12 Penderfynu ynghylch ceisiadau i ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio.

18.13 Penderfynu ynghylch ceisiadau i ystyried amrywiadau ar luniau sydd wedi eu cymeradwyo fel newidiadau ansylweddol, o dan Adran 96A, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

18.14 Cyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeilad Rhestredig, Hysbysiadau Cadw Adeilad, Hysbysiadau Atal a hysbysiadau cynllunio eraill o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

18.15 Tynnu hysbysiadau o'r fath yn ôl lle bo'n briodol.

18.16 Tynnu hysbysebion a godir heb awdurdod i lawr yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol.

18.17 Penderfynu ynghylch ceisiadau a wneir o dan y rheiny o blith darpariaethau Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref a'i olynwyr sy'n ymwneud â rhaghysbysu.

18.18 Penderfynu ynghylch cynigion i godi llinellau uwchben.

18.19 Cyfeirio materion sy'n ymwneud â chynllunio at Banel Archwilio Safle er ystyriaeth.

18.20 Penderfynu ynghylch ceisiadau i ddiddymu amod meddiannaeth amaethyddol, menter wledig neu dŷ fforddiadwy sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio lle gwneir y cais gan fanc neu gymdeithas adeiladu sydd â meddiant.

18.21 Sgrinio a chyflwyno barn ynghylch sgrinio er mwyn canfod a oes angen Asesu'r Effaith Amgylcheddol o dan Reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol.

18.22 Ymdrin â cheisiadau cynllunio.

18.23 Cyd-drafod ar ran y Cyngor mewn Ymchwiliadau ac Archwiliadau Cynllunio.

18.24 Penderfynu ar geisiadau cynllunio lle mae ffosffadau (yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017) yn broblem (mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet).

18.25 Rhoddir awdurdod i Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio wrthod ceisiadau am ganiatâd cynllunio mewn achosion pan nad yw'r ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn y cyfnod i benderfynu ar y cais, a hefyd

(a) Mewn achosion lle mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol angen mwy o wybodaeth er mwyn medru penderfynu ar y cais yn briodol; a/neu

(b) Mewn achosion lle mae'r Aelod dros y Ward y mae'r cais wedi'i leoli ynddo yn gofyn am gyfeirio'r cais hwnnw at y Pwyllgor Rheoli Datblygu er ystyriaeth a phenderfyniad; a/neu

(c) Mewn achosion lle bydd rhwymedigaeth gynllunio adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn glwm wrth y cais.

Nodyn 1
Ni ddylid arfer pŵer dirprwyo os bydd unrhyw Aelod etholedig yn gofyn yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori i fater (sy'n ymwneud â chais cynllunio) gael ei ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Nodyn 2
Os cafwyd gwrthwynebiad priodol ynghylch ceisiadau cynllunio fel y nodir uchod bydd y swyddog yn hysbysu'r Aelod etholedig perthnasol ei fod yn bwriadu cymeradwyo'r cais o dan bwerau dirprwyedig. Os bydd yr Aelod hwnnw'n gofyn yn ysgrifenedig i'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ni ddefnyddir y pŵer dirprwyo.

Nodyn 3
Os yw swyddog yn bwriadu gwrthod cais cynllunio bydd y swyddog yn hysbysu'r Aelod etholedig perthnasol ei fod yn bwriadu gwrthod y cais o dan bwerau dirprwyedig. Os bydd yr Aelod hwnnw'n gofyn yn ysgrifenedig i'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ni ddefnyddir y pŵer dirprwyo.

Diffiniad

Gwrthwynebiad a wneir o fewn y cyfnod ymgynghori ac a seiliwyd ar resymau sy'n ymwneud â defnyddio tir yw gwrthwynebiad priodol.

19 Cyfrifoldebau Swyddog Priodol

Caiff y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio ei ddynodi'n Swyddog Priodol i Gyngor Sir Ceredigion o ran y materion canlynol:

Adran 78 Deddf Adeiladu 1984: Arfer pwerau i ddelio ag adeiladau peryglus, ac ati.

20 Pwerau a dyletswyddau penodol

20.1 Gweithredu o ddydd i ddydd ac o fewn y cynllun dirprwyo yn y meysydd canlynol.

(a) Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu (gan gynnwys Adeiladau Rhestredig)

(b) Adeiladau peryglus a strwythurau anniogel

(c) Penderfynu ynghylch rheoli adeiladu, cyflwyno hysbysiadau statudol, gorfodi a gweithredu mesurau sy'n ymwneud ag adeiladau peryglus a gweinyddu dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â Rheoliadau Adeiladu.

(d) Rheoli Gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol y Cyngor.

20. Trafod a gwneud cytundeb ar ran yr awdurdod cynllunio lleol gyda'r corff cymeradwyo systemau draenio cynaliadwy ynghylch ymgymryd â gorfodi o dan adran 32 ac Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r ddeddfwriaeth a wnaethpwyd oddi tani..

21. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Deddf Coronafeirws 2020, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

**Atodiad 16**

***M DIRPRWYO I'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL: CYSWLLT CWSMERIAID A'R UWCH-BERCHENNOG RISG GWYBODAETH A'R SWYDDOG PRIODOL AR GYFER COFRESTRU SIFIL***

Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid

1. Gweithredu fel Swyddog Priodol y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth Cofrestru Sifil gan gynnwys y pŵer i gymeradwyo mangreoedd at ddibenion cynnal priodasau a chofrestru partneriaethau sifil.

2. Gweithredu fel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth gyda chyfrifoldeb am y canlynol a dyletswyddau dirprwyedig ynghylch y canlynol:
   2.1 Cod Cysylltu Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus; a
   2.2 Cydnerthedd seiber, gan gynnwys seiberddiogelwch

**Atodiad 17- Detholiad:**

***L DIRPRWYO I'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL: CYLLID A CHAFFAEL A'R PRIF SWYDDOG CYLLID A'R SWYDDOG ADRAN 151***

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael wedi'i ddynodi a'i benodi'n Swyddog Adran 151.

Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ac i unrhyw swyddogion a awdurdodir gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael o dro i dro fel bo'n briodol ar yr amod bod y swyddogion yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny.

...

22. Gweithredu dyfarniadau cyflog, cydabyddiaeth ariannol (Prif Weithredwr) a gytunir yn genedlaethol a dyfarniadau Llywodraeth Cymru a lwfansau teithio a bwyd a lwfansau eraill a gytunir yn genedlaethol, ac a gymeradwyir gan y Cyngor.

**Atodiad 18 – Detholiad:**

DOGFEN L

# CÔD YMDDYGIAD AR GYFER CYFLOGEION LLYWODRAETH LEOL

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur a Gwasanaeth:
Dyddiad a gymeradwywyd gan y Cabinet:
Asesiad Effaith Integredig (Nac oes):
Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad Adolygu Polisi:

...

## 5. Niwtraliaeth Wleidyddol

5.1 Mae cyflogeion yn gwasanaethu'r Cyngor cyfan. Maent yn atebol i'r Awdurdod ac mae dyletswydd arnynt iddo. Mae'n dilyn yn hyn o beth bod disgwyl iddynt wasanaethu'r Aelodau i gyd ac nid dim ond y rhai sydd yn y grŵp rheoli'n unig ac mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn parchu hawliau unigol pob Aelod.

5.2 Yn amodol ar y rheolau a osodir o bryd i'w gilydd, gallai fod gofyn i gyflogeion ddarparu gwybodaeth neu eglurhad i grwpiau gwleidyddol. Mae'n rhaid iddynt wneud hynny mewn modd sy'n gyson â niwtraliaeth wleidyddol y cyflogai.

5.3 P'un ai a oes cyfyngiadau gwleidyddol ar gyflogeion o dan y ddeddf ai peidio, mae'n rhaid iddynt ddilyn polisïau'r Cyngor fel y'u mynegwyd yn gyfreithlon ac mae'n rhaid iddynt beidio â gadael i'w barn bersonol na gwleidyddol effeithio ar eu gwaith.

5.4 Lle bo cyfyngiad gwleidyddol ar gyflogeion (oherwydd eu swyddi, natur y gwaith a wnânt, neu'r cyflog neu'r gydnabyddiaeth ariannol (Prif Weithredwr) a delir iddynt), mae'n rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol.

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **23 Medi 2021** |
| **Teitl:** | **Adolygu cydnabyddiaeth ariannol swydd y Prif Weithredwr** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Er mwyn cael cymeradwyaeth i weithredu ystod tâl newydd ar gyfer swydd y Prif Weithredwr.** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabint:** | **Y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Pobl a Threfniadaeth** |

### Cefndir

Ar 28 Tachwedd 2017, yn dilyn penodi Prif Weithredwr newydd, cymeradwyodd y Cabinet fod gweithlu'r Cyngor yn cael ei adolygu a'i ailstrwythuro fesul cam, yn ogystal â bod nifer o swyddi Prif Swyddogion yn cael eu dileu.

O ganlyniad i'r adolygiad cam wrth gam llwyddwyd i wneud y newidiadau canlynol:
- Dileu swydd y Dirprwy Brif Weithredwr
- Mae 3 swydd Rheolwr Strategol wedi cael eu disodli gan 2 swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol
- Mae 10 swydd Pennaeth Gwasanaeth a 3 swydd Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro wedi eu disodli gan 12 Swyddog Arweiniol Corfforaethol.

Ym mis Mawrth 2018 cytunodd y Cyngor ar Gam 1 y broses ailstrwythuro, gan gadarnhau penodiad y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i'r strwythur newydd. Rhoddwyd hyn mewn ar waith gan ddod i rym o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

Ym mis Ionawr 2019, cytunodd y Cyngor yng Ngham 2 i roi'r trefniadau ar waith yn dilyn adolygiad ac arfarniad o swyddogaethau'r uwch swyddi er mwyn sicrhau bod meysydd gwasanaeth a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir a bod y swyddi'n cael cydnabyddiaeth ariannol deg a chyfiawn. Roedd hyn yn cynnwys adolygu'r pwyntiau colofnau cyflog yng ngraddfeydd cyflog y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol o 5 i 4. Rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith, gan ddod i rym o 1 Ebrill 2018 ac maent wedi'u hadlewyrchu ym Mholisi Tâl y Cyngor sy'n cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r Cyngor Llawn.

### Cam 3 – Graddfa cyflog y Prif Weithredwr

Mae'r cynnig presennol yn mynd i'r afael â lefel cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr, gan ailsefydlu'r gwahanrediadau rhwng swydd y Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion eraill y Cyngor yn dilyn yr ailstrwythuro yn 2018, yn ogystal â defnyddio

ystod pedwar pwynt er mwyn sicrhau ei bod yn gyson ag ystod cyflog holl Brif Swyddogion eraill y Cyngor.

Mae'r cofnodion yn dangos bod y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr a chydnabyddiaeth ariannol y sawl ar y lefel nesaf ato wedi bod yn 75% yn y gorffennol. Mae'r gymhareb hon wedi ei herydu dros amser oherwydd yr ailstrwythuro swyddi y cyfeiriwyd ato uchod, yn ogystal â'r ffaith nad oedd y Prif Weithredwr yn y gorffennol yn derbyn codiadau cyflog. Mae strwythur y gydnabyddiaeth ariannol bresennol yn dangos cymhareb sydd rhwng 92% ar y pwynt cyntaf a 88% ar frig y raddfa cyflog.

Cynigir mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno strwythur cyflog newydd i'r Prif Weithredwr fel y nodir isod:

| **Pwynt ar y Raddfa** | **Y Prif Weithredwr ar hyn o bryd 2020/21** | **Y cynnig ar gyfer y Prif Weithredwr 2020/21** | **Y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar hyn o bryd 2020/21** | **Canran o gydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | £106,077 | £121,618 | £ 97,294.00 | 80% |
| 2 | £109,026 | £124,449 | £ 99,559.00 | 80% |
| 3 | £111,972 | £127,278 | £ 101,822.00 | 80% |
| 4 | £114,918 | £130,108 | £ 104,086.00 | 80% |
| 5 | £117,866 | | | |

Mae'r cynnig yn ailbennu cymhareb o 80%, ac yn cydnabod y dyletswyddau statudol sy'n rhan o'r swydd. Bydd y newid hwn hefyd yn dod â'r broses o ailstrwythuro cyflogau Prif Swyddogion y Cyngor i'w therfyn.

Yn unol â darpariaeth Adran 143A Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd ymhellach o ran adran 39 Deddf 2015), mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion roi gwybod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynglŷn â mater sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol ei Brif Weithredwr.

Cyflwynwyd y cynigion i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar 1 Mai 2021. Gofynnodd y panel am fwy o wybodaeth a oedd yn ymwneud â chymharu'r cyflog â chydnabyddiaeth ariannol Prif Weithredwyr eraill.

Ystyriodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol y cynigion a gwybodaeth ychwanegol yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin a chafwyd cadarnhad ysgrifenedig (Atodiad A) ar 18 Mehefin bod y panel wedi cymeradwyo'r cynnig.

| | | |
|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** | Nid yw'n berthnasol – nid yw'n newid o ran gwasanaeth |

| | |
|---|---|
| ***Crynodeb:*** | |
| **Hir dymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**Argymhelliad/ Argymhellion:**

**Argymhellir bod y Cyngor:**

**a) Yn derbyn y cynnig i ddiwygio cydnabyddiaeth ariannol ac ystod cydnabyddiaeth ariannol swydd y prif swyddog fel y nodir uchod ac fel y cymeradwywyd gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

**b) Yn cymeradwyo gweithredu'r newidiadau i ystod cydnabyddiaeth ariannol swydd y Prif Weithredwr, a'u bod yn dod i rym o 1 Ebrill 2021.**

**Y rhesymau dros y penderfyniad:**

**Er mwyn cwblhau'r broses o adolygu ac ailstrwythuro swyddi Uwch Reolwyr y Cyngor a gweithredu ystod newydd i gydnabyddiaeth ariannol swydd y Prif Weithredwr.**

**Trosolwg a Chraffu:** Amherthnasol

**Fframwaith Polisi:**

- Cyfansoddiad y Cyngor
- Polisi Tâl y Cyngor

**Blaenoriaethau Corfforaethol:**

Mae'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei Flaenoriaethau Corfforaethol:

- Hybu'r Economi
- Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl
- Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
- Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.

**Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:**

Mae'r newidiadau i strwythur cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr yn y gyllideb.

**Goblygiadau Cyfreithiol:**

- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd ymhellach o ran adran 39 o Ddeddf 2015)
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, adran 55.

**Goblygiadau staffio:** O fewn y strwythur presennol.

**Goblygiadau o ran eiddo/asedau:** Amherthnasol

**Risg(iau):**

Nid yw'r gydnabyddiaeth ariannol yn adlewyrchu cyfrifoldebau statudol y swydd ac nid yw'n gystadleuol o'i chymharu â swyddi Prif Weithredwyr ledled Cymru.

| | |
|---|---|
| **Pwerau Statudol:** | • Cyfansoddiad y Cyngor<br>• Polisi Tâl y Cyngor |
| **Papurau Cefndir:** | • Adroddiad i'r Cabinet 28 Tachwedd 2017<br>• Adroddiad i'r Cyngor 23 Ionawr 2019 |
| **Atodiadau:** | Atodiad A – Llythyr oddi wrth Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| **Swyddog Adrodd:** | Caroline Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 8 Medi 2021 |

ATODIAD / APPENDIX A

Caroline Lewis
Corporate Director
Ceredigion County Council
Caroline.lewis@ceredigion.gov.uk

18 June 2021

Dear Caroline

**Review of Chief Executive Salary Ceredigion County Council**

Your submission in respect of a review to the salary of the Chief Executive was considered by the Independent Remuneration Panel for Wales at its meeting on 11 June. All members of the Panel were present and therefore the meeting was quorate.

In respect of the function of the Panel related to the salaries of Heads of Paid Service the remit and guidance from the Welsh Government allows the Panel to:

a) Approve the proposal
b) Express concerns about the proposal
c) Recommend a variation to the proposal

Having examined the submission from your authority it is the decision of the Panel to approve the proposal for the salary to the Chief Executive post as submitted by the Council.

Yours sincerely

John Bader
Chair

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **23 Medi 2021** |
| **Teitl:** | **Enwebu cynrychiolydd o'r Cyngor Sir ar Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Enwebu Aelod o'r Cyngor ar Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Amherthnasol** |

## 1. Cefndir

Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda yw corff gwarchod annibynnol gwasanaethau'r GIG ar draws Ceredigion, Sir Gâr, a Sir Benfro. Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn ceisio gweithio gyda'r GIG a chyrff arolygu a rheoleiddio, gan ddarparu dolen gyswllt bwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harchwilio, a'r rhai sy'n eu defnyddio.

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda yn cynnwys 36 o Aelodau gwirfoddol, sy'n cynnwys 3 Aelod yr un o Gynghorau Sir Ceredigion, Sir Gâr, a Sir Benfro. Mae gan bob aelod llawn hawliau pleidleisio, gan gwrdd unwaith bob tri mis fel pwyllgor llawn a hefyd unwaith bob tri mis mewn 'gweithdy' mwy anffurfiol.

Ar 21 Mehefin 2018, penododd y Cyngor yr Aelodau canlynol i gynrychioli Cyngor Sir Ceredigion ar Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda:

- Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd ardal Ceredigion)
- Y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE
- Y Cynghorydd Alun Williams

Mae'r Cynghorydd Alun Williams wedi rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r corff allanol hwn dros dro, gan ddatgan buddiant gan ei fod yn cynorthwyo gyda'r rhaglen frechu bresennol. Mae'r Cynghorydd Williams bellach wedi cadarnhau ei fod yn dymuno parhau i weinyddu brechiadau yn y dyfodol, ac felly bydd angen iddo roi'r gorau i gynrychioli'r Cyngor ar y Cyngor Iechyd Cymuned yn barhaol.

## 2. Y camau nesaf

Caniateir i 3 Chynghorydd gynrychioli Cyngor Sir Ceredigion ar Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda. Gofynnir i'r Cyngor felly enwebu un Cynghorydd i gynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda.

(Sylwch y gall hwn fod yn unrhyw Aelod etholedig o Gyngor Sir Ceredigion ac nid yw wedi'i gyfyngu i bortffolio Cabinet).

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** | Ddim yn ofynnol |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Sicrhau cynrychiolaeth ar ran trigolion Ceredigion ar y Cyngor Iechyd Cymuned dros y blynyddoedd i ddod. |
| | **Integreiddio:** | Gweithio gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion. |
| | **Cydweithio:** | Aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned i gydweithio gydag Aelodau eraill y Cyngor i sicrhau bod yr ardal gyfan yn cael ei chynrychioli. |
| | **Cynnwys:** | Bydd gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor yn cadarnhau'r Aelodau a enwebwyd i gynrychioli'r Cyngor ar y Cyngor Iechyd Cymuned. |
| | **Atal:** | |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Bod y Cyngor yn enwebu Aelod Etholedig i fod yn gynrychiolydd ar Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda** |
| **Y rheswm dros y penderfyniad:** | **Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol gan Gyngor Sir Ceredigion yn unol â threfniadau Llywodraethu Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Amherthnasol |
| **Fframwaith Polisi:** | Amherthnasol |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol:<br>• Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl<br>• Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd<br>• Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Dim – o fewn cyllideb y gwasanaeth. |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim – o fewn adnoddau'r gwasanaeth. |
| **Goblygiadau eiddo / asedau:** | Dim |
| **Risgiau:** | Dim |
| **Pwerau Statudol:** | Amherthnasol |
| **Papurau Cefndir:** | • https://hywelddachc.nhs.wales/ |
| **Atodiadau:** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Lowri Edwards<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd) |
| **Swyddog Adrodd:** | Nia Jones<br>Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 6 Medi 2021 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

 Eitem Agenda 15

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Cyngor** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **23 Medi 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **O bell trwy Gynhadledd Fideo** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2020-21** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2020-21** |
| **AR GYFER:** | **Gwybodaeth** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Gwybodaeth** | **Y Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Cyswllt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth** |

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor Archwilio (nawr, ac o hyn ymlaen yn yr Adroddiad hwn, i'w gyfeirio ato fel y 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio', yn unol â'r newid enw a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Mae'r Mesur yn rhagnodi swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r heddlu (argraffiad 2018) yn nodi ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei ddwyn i gyfrif o ran i ba raddau y mae wedi cyflawni ei bwrpas. Bydd hyn yn cynnwys a yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi:

- cyflawni ei gylch gorchwyl y cytunwyd arno
- mabwysiadu arferion a argymhellir
- asesu ei effeithiolrwydd ei hun
- asesu anghenion hyfforddi
- asesu effaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar lywodraethu, risg a rheolaeth o fewn yr Awdurdod

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14 Medi 2017 cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n darparu asesiad ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i roi sicrwydd bod materion wedi cael sylw a symud ymlaen.

Defnyddir Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i:

a) Tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn;
b) Dangos sut mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gwneud gwahaniaeth;

c) Amlinellu'r flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod; a
d) Darparu hunanasesiad a sicrwydd.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Cyflwynwyd Adroddiad ar Adroddiad Blynyddol drafft Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2020-2021 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei Gyfarfod ar 9 Medi 2021. Gofynnwyd am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Baragraff 5 (canlyniadau neu effeithiau gwaith y Pwyllgor) ac roedd argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn:

1. Bod yr adroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod y Pwyllgor wedi bod yn paratoi yn ystod 2020/21 i fynd i'r afael â chyfrifoldebau newydd y Pwyllgor o ran llywodraethu; yn ogystal ag ymgymryd â rôl ragweithiol o ran gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, lle bo angen gwneud hynny.
2. Yn amodol ar 1 uchod, bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol drafft (gweler yr Adroddiad drafft, Cofnodion y Cyfarfod a Phenderfyniad y Pwyllgor yma: https://council.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=147&MId=207&Ver=4&LLL=0).

Mae Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2020/2021 sy'n cynnwys newidiadau arfaethedig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mhwynt 1 uchod i'w weld yn **Atodiad 1**. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chaiff ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor wedi hynny.

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** Naddo

**Os naddo, esboniwch pam**

***Crynodeb:*** *Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi neu strategaeth.*

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |

**Argymhelliad / Argymhellion**: Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys yr Adroddiad.

**Rhesymau dros y penderfyniad:** Cael sicrwydd bod trefniadau effeithiol yn eu lle i reoli materion ariannol, dulliau rheoli risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol yr awdurdod a bod trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod yn ddigonol.

| | |
|---|---|
| **Trosolwg a Chraffu:** | Amherthnasol |
| **Fframwaith Polisi:** | Trefniadau Democrataidd |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Thema drawsbynciol i sicrhau bod gwasanaethau yn addas at y diben |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Dim |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau Staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau Eiddo/Asedau:** | Dim |
| **Risg(iau):** | Dim |
| **Pwerau Statudol:** | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 |
| **Papurau Cefndir:** | Dim |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1:** Adroddiad Blynyddol Drafft 2020-21 y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) |
| **Dyddiad:** | 9/9/2021 |

**Atodiad 1**

# Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Adroddiad Blynyddol 2020/21

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO AR WEITHGARWCH Y PWYLLGOR AM Y FLWYDDYN 2020/21**

**1. CYFLWYNIAD**

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw hwn a'i nod yw darparu crynodeb byr o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, nodi'r gwaith sydd ar y gweill ac amlinellu'r flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal, bydd yr Adroddiad yn darparu asesiad ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn rhoi sicrwydd bod materion wedi cael sylw ac wedi symud ymlaen.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ('y Pwyllgor') yn grŵp bach sydd ar hyn o bryd yn cynnwys saith Aelod â strwythur sy'n gytbwys yn wleidyddol gan gynnwys un Aelod Lleyg. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn paratoi ar gyfer y newidiadau a ddaw i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan roi sylw i'r materion canlynol: maint y Pwyllgor, cyfansoddiad y Pwyllgor, recriwtio aelodau lleyg a diwygio'r cylch gorchwyl a'r dyletswyddau ynghyd â phenodi Cadeirydd sy'n aelod lleyg ac ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol o ran perfformiad a gwella o 2022 ymlaen.

**2. CYFARFODYDD**

Trefnodd y Pwyllgor bum cyfarfod ar gyfer y flwyddyn i gyd-fynd â blaenraglen waith fanwl i gwmpasu'r holl brif feysydd gwaith sy'n ofynnol o dan ei gylch gorchwyl, ac fe'u cynhaliwyd yn ystod Gorffennaf, Medi a Thachwedd (2020) a Chwefror a Mawrth (2021). Roedd agendâu'r cyfarfodydd yn llawn eitemau i'w hystyried, eu trafod a'u hadolygu.

Mae'n braf nodi bod gwaith y Pwyllgor yn cael ei gefnogi'n dda bob amser gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, y Pennaeth Archwilio Mewnol, y Swyddog Llywodraethu yn ogystal ag Archwilio Cymru.

**3. RÔL Y PWYLLGOR**

Yn unol â Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol 2018, pwrpas y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

- Gweithredu fel cydran allweddol yn fframwaith llywodraethu'r awdurdod. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf; a

- Rhoi sicrwydd annibynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu. Trwy oruchwylio archwilio mewnol ac allanol mae'n gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau bod trefniadau sicrhau effeithiol yn eu lle.

Nodir isod grynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn i gyflawni hyn. Tarfwyd ychydig bach ar y cyfarfodydd ar ddechrau'r flwyddyn oherwydd y pandemig, ond fe'u hailddechreuwyd gyda chyfarfod mis Gorffennaf yn defnyddio platfform rhithiol. Serch hynny, roedd y Pwyllgor yn awyddus i symud ymlaen â'i waith, a gwnaeth hynny mewn modd amserol.

**Gweithgarwch Archwilio Mewnol**

- Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2019/20 i gynnwys barn flynyddol sicrwydd y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ar fframwaith llywodraethu, dulliau rheoli risg a rheolaethau mewnol y Cyngor a oedd wedi bwydo i mewn i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Ategwyd yr adroddiad uchod gan adroddiadau chwarterol gan y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol i ddogfennu cynnydd archwilio mewnol trwy gydol y flwyddyn.
- Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Gwrth-dwyll Blynyddol Archwilio Mewnol 2019/20 hefyd, a roddodd grynodeb o'r gwaith gwrth-dwyll archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys rôl archwilio mewnol yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol, a'r penderfyniad i ail-flaenoriaethu adnoddau i waith ar grantiau Covid-19 oherwydd y risgiau ychwanegol roedd y taliadau hyn yn eu creu i'r Cyngor.
- Cafodd Strategaeth a Chynllun Gwaith Archwilio Mewnol y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21 ei gymeradwyo a chafodd y tri adroddiad chwarterol cyntaf yn dogfennu cynnydd yn erbyn y cynllun hwn eu hystyried.
- Cymeradwywyd diweddariad o'r Siarter Archwilio Mewnol i ystyried strwythur staffio newydd y gwasanaeth ynghyd â'r newidiadau angenrheidiol a fabwysiadwyd ar gyfer arferion gwaith oherwydd y pandemig.
- Cymeradwywyd y Strategaeth Archwilio Mewnol hefyd ar gyfer 2021/22 pan fydd y gwasanaeth yn bwriadu parhau i ddefnyddio ffordd o weithio fwy ymatebol seiliedig ar risg oherwydd y pandemig.

Ystyriwyd adroddiadau **Archwilio Allanol Lleol** gan Archwilio Cymru trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys:

- Adferiad Covid-19 – Llythyr Sicrwydd Dros Dro;
- Adroddiad Cynnydd Archwilio Cymru: Archwilio Cymru – Archwiliad o Gynllun Gwella 2020-21 Cyngor Sir Ceredigion;
- Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion 2020 Archwilio Cymru;
- Adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol;
- Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r Rhaglen Gyfalaf;
- Cynllun Archwilio Archwilio Cymru 2020-21; a
- Phrosiect Dysgu Covid-19 Archwilio Cymru.

Roedd **adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru** yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19;
- Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol;
- Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20;
- System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru;

- Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at Prif Swyddogion Gweithredol Cyrff Sector Cyhoeddus ac Uwch Randdeiliaid Llywodraeth Cymru;
- Ystyriwyd ffurflenni Ymateb Rheoli Drafft ar gyfer y canlynol:
  - Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol (6/10/2020);
  - 'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru (30/7/2020);
  - Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (7/10/19);
  - Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb (23/7/2020);
  - Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion (11/9/19);
  - Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith (21/11/19);
  - Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ddyluniad a gweithrediad Model Gwasanaethau Integredig y Cyngor – Cyngor Sir Ceredigion (20/12/19); a
  - Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20 (13/10/20.
- Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried Adroddiad ar Grynodeb o'r Adroddiad Blynyddol a Chynigion ar gyfer Gwella Archwilio Cymru mewn perthynas ag Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru, a gafodd ei ystyried yn y cyfarfod Cyn Datblygu ym mis Mehefin 2019 a'i anfon at Archwilio Cymru.
  Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r Adroddiad, meysydd i'w gwella, y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda gwaith yn 2020-21, ac y dylid cyflwyno Adroddiad diweddaru ar y gwelliannau i'r Pwyllgor ymhen 6 mis i ddangos y meysydd i'w gwella, ynghyd ag adroddiad cenedlaethol posibl pellach gan Archwilio Cymru ar wasanaethau cynllunio. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y bydd holl Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn mewn sesiwn briffio cyn Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

**Arolygiaeth Gofal Cymru**

- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymorth Cynnar, Gofal a Chefnogaeth a Threfniadau Trosglwyddo ar gyfer Plant Anabl, gan amlinellu ei gasgliadau a'i argymhellion. Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad er gwybodaeth a meysydd i'w gwella yn 2020-21, a chytunodd y dylid cyflwyno'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion yn yr adroddiad i'r Pwyllgor i'w ystyried mewn cyfarfod yn gynnar yn 2021.
- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Arolygu Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru 2019-20 ar gyfer y Cyngor.

**Estyn**

- Roedd y Pwyllgor wedi ystyried llythyr gan Estyn ar waith y Cyngor o ran cefnogi cymunedau dysgu yn yr ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion rhwng Mawrth a Hydref 2020, a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ar 2 Chwefror 2021.

Roedd gwaith **Cydymffurfiaeth Archwilio Cymru** a adolygwyd yn cynnwys:

- Archwiliad o asesiad Cyngor Sir Ceredigion o berfformiad 2019-20 – Tystysgrif wedi'i derbyn.
- Cynllun Gwella 2019/20 – Tystysgrif Cydymffurfiaeth.

**Ystyriaethau Fframwaith Rheoleiddio**

- Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn eitem reolaidd ar yr agenda ac yn cael ei hystyried ym mhob Cyfarfod.
  - Oherwydd Pandemig Covid-19, cyflwynwyd Risg Gorfforaethol arfaethedig newydd R018 Covid-19 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2020. Roedd Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor wedi ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol lawn a chynghorwyd y Pwyllgor i nodi newid yn y sefyllfa ar 10 Mawrth 2020. Diweddarwyd yr Datganiad Llywodraethu Blynyddol (a gymeradwywyd ar 19 Mawrth 2020) yn unol ag argymhellion CIPFA, i gynnwys amlinelliad o ymateb y Cyngor i bandemig Covid-19, a sut roedd wedi effeithio ar weithdrefnau llywodraethu'r Cyngor.
  - Gwnaethpwyd addasiadau pellach i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, fel yr awgrymwyd gan Archwilio Cymru, i egluro sefyllfa'r Cyngor, a chytunodd y Pwyllgor i argymell i'r Arweinydd a'r Cabinet y dylai Cofnodi o Benderfyniadau Brys Arweinydd y Cyngor (ar gyfer paratoi at gyfer Covid-19 23/3/20, yn unol â Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor) gael ei adolygu cyn gynted â phosibl. Adroddwyd yn ôl am hyn i'r Pwyllgor.
  - Cytunodd y Pwyllgor ar 29 Gorffennaf 2020 y byddai'r holl risgiau'n cael eu hadolygu erbyn y Chwarter nesaf ac y byddai cyfarfod perthnasol y Pwyllgor Craffu yn gwahodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio i'w gyfarfod i hysbysu'r Aelodau am waith y Grŵp Rheoli Arian mewn perthynas â chefnogi busnesau oherwydd y pryder ynghylch nifer y busnesau sy'n mynd i'r wal ar yr adeg hon, ynghyd â'r angen i:
- Ystyried tueddiadau cadarnhaol o ran gwydnwch yn y dyfodol sy'n wynebu'r sir yn y tymor byr, canolig a hir i gynnwys sir fwy diogel a deinamig;
- Mynd i'r afael â'r effaith ar yr economi leol mewn perthynas â'r cynnydd yn siopa ar-lein;
- Cael tueddiadau cadarnhad o ran gwydnwch a pharatoi at y dyfodol.
  - Ar 12 Tachwedd 2020, cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn ystyried Newid Hinsawdd R012 ac allyriadau gronynnau carbon yn ei Flaenraglen Waith, a nodi y byddai'r risg i'r gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol oherwydd gweithrediadau a ohiriwyd.
  - Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ynghylch a oedd y cyfarfod perthnasol o'r Pwyllgor Craffu wedi ystyried Risg R012 Newid Hinsawdd. Hysbyswyd yr aelodau y disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet, ac y byddai'n cael ei gyflwyno wedi hynny i'r Pwyllgor Craffu i'w ystyried.
- Adolygwyd y Fframwaith Llywodraethu mewn gweithgor Aelod/Swyddog ar 18 Rhagfyr 2020 yn unol ag argymhellion Archwilio Cymru a defnyddiwyd y canlyniadau i ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Ystyriwyd y Fframwaith Llywodraethu (Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol) ac ar 24 Chwefror 2021 cytunodd y Pwyllgor i argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2020-21 a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol Drafft 2021-2022. Cymeradwywyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2020-21 gan y Cyngor ar 18 Mawrth 2021.
- Mae Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn eitem sefydlog ar yr agenda.

**Adroddiadau Ariannol**

- Mae'r Adroddiadau Monitro Cyfalaf, Alldro'r Rhaglen Gyfalaf a Gwariant Cyfalaf yn eitemau sefydlog ar yr agenda. Ar 12 Tachwedd 2020, cytunodd y

Pwyllgor i nodi'r Adroddiadau ac y dylid cyflwyno'r Adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf i'r pwyllgor bob chwarter, gydag unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys yr Adroddiad i'w cyflwyno i'r Swyddog(ion) cyn y cyfarfod er mwyn iddynt allu mynychu'r cyfarfod.

- Adolygodd y Pwyllgor Ddatganiad o Gyfrifon Blynyddol y Cyngor (hyd at 31 Mawrth 2020) a'r Datganiad Blynyddol ar gyfer Awdurdod Harbwr Ceredigion (hyd 31 Mawrth 2020) cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo.
- Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol blynyddol Archwilio Cymru (ISA260) ar gyfer 2019-20 a chafodd y materion sy'n codi o'r Archwiliad eu hystyried.
  Penderfynodd y Pwyllgor y dylid anfon llythyr ar frys at y Prif Weithredwr yn mynegi ei bryder bod materion yn parhau i gael eu codi ac oedi yn y Gwasanaeth Ystadau o ran ymateb i ymholiadau Archwilio Cymru. Tynnwyd sylw at hyn dros y pedair blynedd diwethaf yn Adroddiad ISA 260, ynghyd â sut y byddai'n cael sylw, a chytunodd y Pwyllgor y dylid derbyn Adroddiad yn ei gyfarfod nesaf (neu ddilynol) gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio, ynghylch materion ISA 260 er mwyn i'r pwyllgor gael sicrwydd bod y materion hyn wedi cael sylw, h.y. gwerthusiadau ac ymatebion i ymholiadau Archwilio Cymru, a sut y cynigir datrys y materion hyn trwy gynllun gweithredu.

**Gwaith Arall**

- Ystyriodd a nododd y Pwyllgor gynnwys Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid ynghylch tor diogelwch data, gan gynnwys Asesiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a byddai Adroddiad diweddariad ar argymhelliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym Mai 2021.
- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Prisio Ystadau, a oedd yn cynnwys y camau y mae angen eu cymryd i sicrhau perfformiad prisio gwell yn 2020-21.
- Cytunodd y Pwyllgor:
  - i nodi'r Adroddiad a'r dull arfaethedig a gyflwynir;
  - y byddai ebost yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau bob mis yn amlinellu'r gwaith a wnaed hyd yma yn y cynllun gwella gwasanaeth; a
  - bod yr eitem hon yn cael ei rhoi ar y Flaenraglen Waith er mwyn i'r pwyllgor gael ei ddiweddaru'n flynyddol ar waith y gwasanaeth ar brisiadau
- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwelliant 2019-20. Roedd Adroddiad 2020-21 i'w gyflwyno i'r Pwyllgor cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor, ond nid oedd hyn yn bosibl ar gyfer 2020-21 oherwydd amserlenni ac effaith Covid-19.
- Ystyriodd y Pwyllgor Dystysgrif Cynllun Gwella 2020-21.
- Ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn perthynas â:
  - newidiadau arfaethedig i'r Pwyllgor,
  - Rheoliadau Ymgynghori Llywodraeth Cymru i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn erbyn diwedd Tachwedd 2020 i Swyddog Monitro lunio ymateb corfforaethol); a
  - Chanllawiau Statudol drafft ar Berfformiad a Llywodraethu Awdurdodau Lleol mewn perthynas â Rhan 6 o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau

(Cymru) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (y disgwylir iddo ddod i ben 3 Chwefror 2021).

- Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad yn tynnu sylw at agweddau ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) drafft sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, a chanllawiau statudol drafft ar Berfformiad a Llywodraethu Awdurdodau Lleol mewn perthynas â Rhan 6 o'r Bil.
- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch newidiadau i'r Pwyllgor yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'i effaith ar y Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor gynnwys yr Adroddiad a chytuno ar y canlynol;
  - nodi newid enw'r Pwyllgor i'r *'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'* ac argymell i'r Cyngor y dyddiad a ffefrir pan ddylai'r newid enw ddod i rym (yn absenoldeb y Rheoliadau);
  - cyfanswm o 9 Aelod (yn cynnwys 3 Aelod Lleyg annibynnol a 6 Cynghorydd Sir) (Opsiwn 1) oedd yr opsiwn a ffafrir o ran ei faint;
  - nodi gofyniad y Pwyllgor i ddewis ei Gadeirydd ac Is-gadeirydd, fel y nodir yn yr Adroddiad;
  - nodi'r gofynion o ran amseriad penodi Aelod Lleyg o'r Pwyllgor yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor fel y nodir yn yr adroddiad, i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac wedi hynny i'r Cyngor; hefyd, i ofyn am gadarnhad os yw Aelod Lleyg yn camu i lawr o'r pwyllgor presennol, a fyddai'n bosibl bod yn Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
  - recriwtio 2 i 4 ymgeisydd fel Aelodau Lleyg yn ystod y broses recriwtio;
  - nodi cyfansoddiad y Panel Dewis Rhestr Fer i'w argymell i'r Cyngor, ynghyd â nodi os oes rhaid i unrhyw un o'r Cynghorwyr ar y panel ddatgan budd, byddai Aelod arall o'r Pwyllgor Archwilio yn dod yn Aelod o'r panel yn unol â hynny; a
  - nodi'r dogfennau Disgrifiad Rôl a Manyleb y Person ac unrhyw newidiadau sy'n ofynnol, y llinell amser ar gyfer recriwtio a'r rôl yn y dyfodol mewn perthynas â pherfformiad a thrin cwynion.
- Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar Ymateb Corfforaethol y Cyngor i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ganllawiau Statudol drafft – Perfformiad a Llywodraethu Prif Gynghorau – Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar lafar gan y Rheolwr Corfforaethol – Twf a Menter ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â Phrisiadau Asedau ers y cyfarfod blaenorol. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad yng nghyfarfod Medi 2021 yn dilyn cyhoeddi'r ISA 260 mewn perthynas â Datganiad o Gyfrifon 2020/21 gan Archwilio Cymru, er mwyn canfod a oedd y mater hwn yn ymwneud â phrisiadau asedau wedi cael sylw yn unol â hynny.
- Ystyriodd y Pwyllgor yn anffurfiol faterion yn ymwneud â gwasanaeth y Crwner.
- Gwahoddwyd y Pwyllgor i weithdy i ddarparu ymatebion i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Pwrpas Masnachol) (Cymru) drafft a chynigion ar gyfer Cynghorau Cymuned sy'n bodloni'r meini prawf a ddarperir gyda phŵer i fasnachu.

Mae adroddiadau Archwilio Cymru heb eu derbyn eto gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd Ariannol 2020-2021 (cam yr adroddiad drafft – nod i'w rannu Mehefin 2021);
- Adolygiad o'r Gwasanaethau Cynllunio 2020-2021 (ar y gweill, nod i'w gwblhau ddechrau haf 2021);
- Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA260) – Tachwedd 2021 a Barn ar Ddatganiadau Ariannol (erbyn 30 Tachwedd 2021);
- Archwiliad o'r Datganiad Blynyddol ar gyfer Awdurdod Harbwr Ceredigion (i'w gynnal Medi-Tachwedd 2021 ar ôl derbyn Datganiad Blynyddol drafft Mehefin/Gorffennaf 2021, cymeradwyo'r archwiliad erbyn 30 Tachwedd 2021); ac
- Ardystio nifer yr hawliadau a derbyniadau grant, fel y cytunwyd â chyrff cyllido (gwaith archwilio Hydref-Rhagfyr 2021).

**Rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio Cymru Gyfan**
Ar 30 Tachwedd 2020 mynychodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyfarfod Rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio Cymru Gyfan (o bell), a'i nod yw annog:

- Rhannu arfer da.
- Nodi ffyrdd arloesol o gyflawni cyfrifoldebau ffurfiol rôl y Cadeirydd yn effeithiol.
- Y cyfle i gwmpasu materion cenedlaethol a rhanbarthol cyfredol ac yn y dyfodol, ac ymatebion posibl i'r heriau hyn.
- Fforwm i roi a cheisio cyngor rhwng cydweithwyr sy'n wynebu heriau tebyg.
- Cyfle mentora neu ddatblygu ar gyfer Cadeiryddion newydd.

Cynigiodd CIPFA ac Archwilio Cymru eu cefnogaeth i ddarparu hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar:

1. Cael effaith fel Pwyllgor Archwilio;
2. Rolau'r Aelod Lleyg;
3. Gwybodaeth a sgiliau;
4. Adborth ar waith gwrth-dwyll Archwilio Cymru;
5. Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru); a
6. Rôl y Pwyllgor Archwilio – y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon

## 4. Y FLAENRAGLEN WAITH

Lluniwyd blaenraglen waith sy'n cynnwys yr eitemau sefydlog canlynol ar yr agenda:

1. Adroddiadau Diweddaru Cynnydd Archwilio Cymru;
2. Adroddiadau Cynnydd Chwarterol Archwilio Mewnol;
3. Adroddiadau Monitro Rheoleiddio;
4. Adroddiadau Rheoleiddio ar gyfer Craffu;
5. Datganiad Llywodraethu Blynyddol – Adroddiadau Cynnydd y Cynllun Gweithredu;
6. Cofrestr Risg Gorfforaethol;
7. Adroddiad Gwariant Cyfalaf; a

8. Blaenraglen Waith.

Materion eraill: Prisiadau Ystad – fel bod y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.

**5. CANLYNIADAU A/NEU EFFEITHIAU gwaith y Pwyllgor**

Bod yn rhagweithiol a gwella gwasanaethau, lle bo angen.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Roedd angen adolygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20 cyn ei gynnwys gyda'r Datganiad o Gyfrifon ym mis Medi oherwydd effaith y pandemig ar strwythur gwneud penderfyniadau'r Cyngor a darparu gwasanaethau.

Roedd adolygiad o Fframwaith Llywodraethu 2020/21 wedi dangos bod angen:

- Cynghori Aelodau a Swyddogion ymhellach ar yr angen i ddatgan buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro neu a allai wrthdaro â buddiannau'r Cyngor;
- Parhau i adolygu Aelodau sy'n dal cyfarwyddiaethau, ymddiriedolaethau, neu aelodaeth o gyrff allanol, a phwyllgorau, gan gynnwys adborth a gwerth ychwanegol;
- Parhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau;
- Cynghori Swyddogion ymhellach ar yr angen i ddatgan cyfarwyddiaethau a chyflogaeth arall;
- Cynghori Aelodau ar yr angen i ddatgan lletygarwch/rhoddion;
- Cynghori Prif Swyddogion ar yr angen i ddatgan perthnasoedd personol agos â Swyddogion neu Aelodau eraill;
- Diweddaru'r Grŵp Arweinyddiaeth ar e-ddysgu a monitro parhaus e-ddysgu gorfodol o'r modiwl Chwythu'r Chwiban;
- Paratoadau parhaus i gydymffurfio â newidiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried newidiadau deddfwriaethol;
- Cyhoeddi'r Gofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig;
- Adolygiad o'r Polisi Cwynion/Canmoliaeth;
- Darparu hyfforddiant Moeseg a Thwyll;
- Adolygiad parhaus o'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth;
- Adolygiad parhaus o'r Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned;
- Monitro adborth;
- Cyhoeddi perfformiad gwasanaeth, gan gynnwys data costau a gwerth am arian;
- Gwaith parhaus i gysylltu mesurau Perfformiad Lleol â holl Amcanion Cynllun Busnes Lefel 1;
- Adolygiad parhaus o faint y Pwyllgor Archwilio (y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach), recriwtio Aelod Lleyg;
- Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion;
- Gweithdai – i ystyried ymgynghoriadau;
- Cyfarfodydd anffurfiol yn ôl yr angen

Mae'r materion uchod yn cael eu monitro gan y Pwyllgor fel rhan o gynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a adroddir i'r Pwyllgor trwy gydol y flwyddyn.

Covid-19

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi monitro ac adolygu gwaith y Cyngor mewn perthynas â Covid-19:

- Mae'r Pwyllgor wedi monitro datblygiad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gafodd ei ddiwygio i ystyried pandemig Covid-19. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys adran bwrpasol ar bandemig Covid-19 ac mae'n cynnwys cyfeiriad at:
    - Pwerau dirprwyedig dros dro ar gyfer Prif Weithredwr a Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.
    - Cofnodion o Benderfyniadau Brys, ar gyfer penderfyniadau brys sy'n cael eu gwneud gan Grŵp Arweinyddiaeth Covid-19 ('Grŵp Rheoli Aur'), a gyhoeddir ar wefan y Cyngor;
    - Adolygu Penderfyniadau Brys yr Arweinydd yn rheolaidd;
    - Map Ffordd Covid-19 yn amlinellu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ar hyn o bryd a chynlluniau gwasanaeth;
    - Y Cyngor yn ffurfio strategaethau a chynlluniau i ystyried y risgiau a achosir gan y pandemig;
    - Cyfarfodydd o bell rhwng y Rheolwr Corfforaethol – Archwiliad Mewnol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y pandemig; a'r
    - Y Swyddog Monitro yn atgoffa Aelodau ac Aelodau annibynnol a gyfetholwyd o'u hymrwymiadau o ran datganiadau o fuddiannau ar gyfer grantiau cyfnod clo Covid-19 uwch ar gyfer busnesau.
- Argymhellodd y Pwyllgor i'r Arweinydd a'r Cabinet y dylai'r Cofnod o Benderfyniadau Brys (ar gyfer Paratoi Covid-19 23/3/20, yn unol â Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor) gael ei ddiwygio cyn gynted â phosibl. Adroddwyd yn ôl am hyn i'r Pwyllgor.
- Mae'r Pwyllgor yn monitro ac yn adolygu Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor ac yn ystyried y Risg Gorfforaethol arfaethedig newydd R018 Covid-19 yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2020.

Gwasanaeth Ystadau

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi gwneud argymhellion er mwyn cynorthwyo gyda'r materion a godwyd yn ISA260 yn ymuned â'r Gwasanaeth Ystadau, megis:

- argymell bod llythyr yn cael ei anfon at y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r Gwasanaeth ac ymholiadau gan Archwilio Cymru, a sut y byddai hyn yn cael sylw – gan benderfynu y byddai adroddiad yn cael ei dderbyn gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio.
- ystyried Adroddiad Prisio Ystadau sy'n cynnwys camau i gyflawni perfformiad prisiad gwell yn 2020-21.
- penderfynu cylchredeg ebost at yr Aelodau bob mis yn amlinellu'r gwaith a wnaed hyd yma yn y cynllun gwella gwasanaeth.

- ychwanegu'r mater at y Flaenraglen Waith er mwyn i'r Pwyllgor gael ei ddiweddaru ar y materion.

**6. HUNANASESIAD A SICRWYDD**

Ni chynhaliodd y Pwyllgor hunanasesiad.

Mae Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol 2018 yn rhoi canllawiau ar swyddogaeth a gweithrediad Pwyllgorau Archwilio mewn awdurdodau lleol. Mae'n cydnabod y dylid barnu effeithiolrwydd Pwyllgor Archwilio yn ôl y cyfraniad y mae'n ei wneud i fusnes yr awdurdod, a'r effaith fuddiol y mae'n ei gael arno.

**Credaf fod hyn wedi'i gyflawni, gan fod y Pwyllgor wedi rhoi ei ffocws ar lywodraethu, risg a sicrwydd yn ystod y flwyddyn ac wedi ychwanegu gwerth trwy sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i gefnogi gwelliannau ar draws y Cyngor.**

**Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans**
**Cadeirydd – Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – 2020/2021**